# PORTREADAU

# DROS F'YSGWYDD

Bobi Jones

(Diolchaf i'm cyfaill, Dafydd Ifans, am gymwynas fawr drwy weithredu'n ddarllenydd i mi. Gwnaeth oriau o waith trwm i'm helpu, gan f'arbed rhag cannoedd o gambrintiadau, neu o eiriau coll, neu o gamosod ymadroddion. Yr wyf yn ddyledus dros ben iddo, megis troeon o'r blaen, am gynhorthwy caredig. Arnaf i y mae'r bai am bob amryfusedd a erys. Bu hefyd yn gymorth mawr wrth hysbysebu.)

2016

RHAGAIR

Wrth fynd am dro bob dydd, bydd fy meddyliau i'n crwydro yn y gorffennol. Rwy'n rhyfeddol o ddyledus i rywrai am eu cymwynasgarwch tuag ataf yn ystod fy mywyd. Yn y gyfrol hon fe bortreadir nifer o'r bobl hynny, a fu'n garedig ac yn pwyso dros f'ysgwydd, ar ffurf ysgrifau coffa. Dyma rai o'r bobl yn y cyfnod diweddar sydd wedi dal i'm dilyn yn feunyddiol. Pobl a fu'n bwysig i fi ar un adeg fu'r rhain, ac eto, pobl sy'n dod heibio o hyd i sibrwd yn fy nghlust. Mae'r atgof amdanyn nhw'n aros yn gysur i fi yr oedran yma. Bob amser maen nhw'n gerydd ac yn rhybudd i fi ynghylch y pethau y methais i â'u gwneud. Ac eto, maen nhw hefyd wrth bwyso dros f'ysgwydd i'n llawenydd cynnes ac annwyl. Wrth sôn amdanyn nhw fel hyn, maen nhw wedi'u sgrifennu'u hunain bron iawn, a dangos mor braf a breintiedig fu bywyd.

Pan gaf i heulwen achlysurol yn naturiol yn gwmnïaeth ar fy nhro, rwy'n ymwybodol o gysgod bach gerllaw. Estyniad yw pob cysgod yn ymestyn o'r traed tuag yn ôl; os bydd yr haul tu ôl i chi, yna bydd y cysgod yr ochr arall. Mae bob amser ynghlwm wrth y traed, fel her neu atgof. Ac felly y bydd hi, ambell waith, gyda ffrind neu gydwybod.

MYNEGAI


| | |
|---|---|
| PENNAR DAVIES | 4 |
| JOHN ROWLANDS | 40 |
| SAUNDERS LEWIS | 57 |
| GERAINT GRUFFYDD | 107 |
| GUSTAVE GUILLAUME | 122 |
| W. F. MACKEY | 132 |
| DEWI Z. PHILLIPS | 140 |
| GWENALLT | 193 |
| HYWEL TEIFI EDWARDS | 219 |
| IORWERTH PEATE | 250 |
| EUROS BOWEN | 259 |
| PAUL | 271 |
| YR HUNAN DU | 291 |

DROS F'YSGWYDD (1)

PENNAR

Cafwyd dadl annisgwyl yn 1953. A chefais fy nghyflwyno i 'wrthwynebydd' dieithr. Ni allwn fod wedi derbyn rhodd hyfrytach.

Mae yna wrthwynebwyr caredig, sydd heb fod yn elynion. Fe all profi gelyniaeth mewn gwrthwynebiad fod yn gyflwr a ddylai adael briw neu siom, mae'n siŵr. Ond fe ellir cael rhai gwrthwynebwyr, a'r rheini'n llesol, sy'n helpfawr, ac yn sicr yn llawn dop o garedigrwydd. Drwy drugaredd, fe ges i nifer go lew o wrthwynebwyr felly i finiogi'r meddwl ar hyd y blynyddoedd. Fe ges i hefyd yn wrthddadleuydd cyntaf i mi un o'r dynion mwyaf cariadus ymhlith llenorion Cymru. Pa le y gellid dod o hyd i botensial trafodaeth fwy pleserus?

Mae'n wir imi gael fy siâr o ddadleuon drwy gydol y blynyddoedd. Hen arfer ym myd crefydd neu wleidyddiaeth yw dadlau. A gŵyr pawb sy o ddifri, yn y naill faes neu'r llall, fod croesi cleddyfau yn brofiad anochel ynddynt, ac y gall fod yn fuddiol. Ond ni ddisgwyliais y byddwn i'n cael, a hynny ar hyd fy oes, ddadleuon a fyddai'n fy ngorfodi i bendroni ynghylch y gwaith o lenydda.

Yn y byd llenyddol, erbyn 1953 roedd 'Moderniaeth' wedi siglo'r cwch dipyn ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a bydd llawer o ffyddloniaid uniongred yn dweud mai drwg pur oedd hynny i gyd. Ond i mi, doedd y Mudiad hwnnw fel y cyfryw ddim wedi pwyso dros f'ysgwydd i ar y pryd, fel 'Mudiad', am ryw reswm. Pobl oedd yno; ac roedd pobl, nid syniadau, yn ysgogi tyfiant.

Roedd yr Ôl-foderniaeth o'm hamgylch erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif ychydig yn llai hydwyth.

Hanner ffordd drwy'r ugeinfed ganrif, hynny yw, yn fuan ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ceid rhaniad eglur yng Nghymru ymhlith y prydyddion, rhwng y Ceidwadwyr Modern a'r Ôl-fodernwyr. Dyma raniad nad oedd mor eglur yn yr un ffordd mewn gwledydd eraill. At ei gilydd, yn Saesneg, y mae'r Ceidwadwyr bellach wedi diflannu, neu wedi cilio i gornel ar odre tudalen mewn ambell gylchgrawn i ferched. Ond yng Nghymru wledig Gymraeg, sef yn ein cefn gwlad – ac ar y pryd yr oedd diwylliant llenyddol mewn mannau felly yn dal yn ystyrlon – nid y gynghanedd oedd yr unig gaer amddiffynnol amlwg, eithr yr hyn a elwid yn 'delynegion'. Araf fu'r rhain yn darfod yn Ne Ceredigion. A gwnaent lawer o ddrwg i chwaeth ac ymwybod byw o iaith ac arddull.

O ran y gynghanedd, sut bynnag, drwy gydol yr ugeinfed ganrif, yr oedd llunio'r gynghanedd, yn enwedig y gwaith gan englynwyr, rywsut, wedi cynnal y gelfyddyd yn effro, ac yn fwyfwy wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt. O ran hwyl ac egni'r arddull, a hyd yn oed o ran

testunau cyfoes, rhagorai gwaith cynganeddol ambell waith. Rhyw fath o arwyneb ar y pryd oedd Ôl-foderniaeth ddiddiben a disylwedd i rai o'n beirdd. Ceid ymgais achlysurol i ddiwydiannu a dinaseiddio barddoniaeth. Sylwyd ar yr hyn a elwid yn 'arbrofi' ar ieithwedd a ffurf mewn gwledydd eraill. Ond daliai hyn oll i fod yn fwganog ddigon i drwch y byd darllengar Cymraeg. Lloegr ar y pryd oedd yr hyn oedd America i rai o'n beirdd Seisnig.

I fardd Cymraeg a fwriai'i brentisiaeth ym mhumdegau'r ugeinfed ganrif, ceid o hyd ddau hen berygl, felly. Ar y naill law, ceid y ceidwadwyr telynegol a bynciai'n felys odlog am adar a blodau a charu Cymru. Fel yn hanes yr emyn, roedd yna ddynwared alaethus o gyweiriau a sentimentau'r can mlynedd cynt, felly yn hanes y 'delyneg' ni allai beirdd diog eu teimlad a'u myfyrdod lai na dilyn hen rigolau gwledig eu teimlad a'u myfyrdod. At ei gilydd, anodd oedd cymryd y rhain o ddifri.

Roedd un broblem arall yn ddyfnach.

Ceid y pryd hwnnw, a cheir o hyd, feirdd 'academaidd', beirdd a ystyriai mai 'arbrofwyr' oeddent. Roedd rhai o'r rheini wrth gwrs yn 'ffasiynol'. Dymunent fod *à la mode*. Ac ystyr hynny yng ngwareiddiad y gorllewin oedd dilyn rhai o ffasiynau'r ugain mlynedd cyntaf yn yr ugeinfed ganrif – *avant-garde*, dada, a swrealaeth. Ond roedd rhywrai ymhlith y rhain a fyfyriai am ddiffyg ystyr bywyd; ac weithiau haeddai rhai o'r rheini barch ac ystyriaeth ddwys. Nid jôc oedd yr hyn a ddigwyddasai i ddiben bywyd a gwerthoedd ysbrydol yn ystod y ganrif ôl-fodernaidd honno.

Ymddangosai fod yna ddwy broblem. Cymreig iawn oedd y taeogrwydd dynwaredol a'r awydd i sgrifennu barddoniaeth Saesneg yn y Gymraeg. Ond ceid, ymhlith beirdd blaenaf canol y ganrif, duedd anochel frodorol. Yr oedd y meddwl Cymreig 'annibynnol' a geid gan Waldo, Saunders, a Gwenallt yn amheuthun iawn. Ond daliai'r darllenwyr 'cyffredin' – y math o bobl a ymhoffai yng ngwaith Cynan – i ddewis 'Cofio' Waldo, a 'Cymru' Gwenallt, a 'Blodeuwedd' Saunders Lewis. Pe bai Waldo wedi aros gyda'i gerddi gorau megis 'Mewn Dau Gae', 'Wedi'r Canrifoedd Mudan', ac 'O bridd', ni fyddai wedi datblygu'n gwlt.

Yn y pen draw, mater o amser fuasai setlo'r broblem honno. Yr oedd yr ail broblem yn fwy dyrys o lawer. Yr oedd a wnelo â hanfod llenyddiaeth. Beth a ddiffiniai 'lenyddiaeth'? Sylweddolid bod yna wahaniaeth rhwng iaith ddieneiniad, a'r iaith a geid yn 'Wedi'r Canrifoedd Mudan'; ac awgrymid mai yn y gwahaniaeth hwnnw y ceid naws a rhuddin y profiad llenyddol gorau. Ond beth yn union oedd hyn? Profodd hyn yn gryn bwnc pendroniad.

Ateb y cwestiwn ar y pryd oedd yr her i feirniadaeth lenydol yn adrannau'r Gymraeg yn y Brifysgol. Byddai rhai'n hoffi dweud mai ei heglu hi fuasai orau.

Daeth her gyntaf Ôl-foderniaeth ar flaenau traed i bwyso dros f'ysgwydd i'n benodol ar ffurf Prifathro Coleg Diwinyddol. Ond nid Diwinyddiaeth oedd ffurf ei her. Daeth yno yn hytrach ym

maes beirniadaeth ar ffurf deall barddoniaeth. Wrth edrych yn ôl ar y ddadl honno drigain mlynedd ar ôl iddi ddigwydd, bues i'n ffodus iawn mai diwinydd-fardd anwylaf ei ddydd a ddaeth i'r afael â fi. Dadl oedd rhwng gŵr aeddfed a llanc. Roeddwn innau ar y pryd yn 24 oed go las, a chywair go ymhongar gennyf. Roedd Pennar yn 41 oed, a stamp ei aeddfedrwydd a'i ddoethineb gostyngedig ar ei lythyrau. Does dim angen esbonio mai glaslanc oeddwn i, sut bynnag, gan fod hynny yn bur amlwg ymhob brawddeg.

Gohebiaeth oedd hon a ddechreuodd gyda llythyr Pennar. Y gyfrol *Cerddi Cadwgan* a gyhoeddwyd gan Wasg Cadwgan a ysgogodd y drafodaeth. Fe gynhwysai waith gan bump o feirdd o gylch enwog Cadwgan. Dechreuodd yn ohebiaeth breifat gennym, felly; ond ar ôl y chweched llythyr, awgrymodd Pennar, os iawn y cofiaf, y gallai fod yn ddiddorol i ddarllenwyr Cymraeg pe baem yn ei chyhoeddi yn y *Faner*; a hynny a wnaethpwyd. Hen, hen Frwydr yw hon, felly.

Yr ail beth a ddatblygodd ein cyfeillgarwch ni'n dau oedd drama hynod sâl a baratois ar gyfer cwmni drama'r ysgol. Digwyddodd i mi grybwyll fod hyn yn digwydd, ac yn wir dyma fe'n cynnig yn gartrefol fod yn gadeirydd imi i'r noson. Ef oedd Prifathro Coleg Aberhonddu ar y pryd. Ei anerchiad cryno ef, wrth gyflwyno'r ddrama, oedd y peth gorau, ar yr achlysur hwnnw.

Arhosodd y berthynas fyth wedyn. A chyfarfûm ag ef droeon, ymhellach ymlaen yn f'oes, yn fwyaf arbennig mewn cyfarfodydd o'r Academi, pryd y byddem ni'n chwilio am le gyda'n gilydd amser cinio er mwyn holi a stilio a chwerthin. Un o'r priodoleddau a'n tynnodd ni at ein gilydd oedd y ffaith ein bod ein dau yn llenydda yn ein hail iaith, a hefyd yr oedd gennym ni argyhoeddiadau go gryf ynghylch Cristnogaeth.

* * *

Dw i'n tybied, yn gam neu'n gymwys, y gall y ddadl honno ddweud bellach wrthym o hyd rywbeth am rai o'r pynciau a fu'n poeni beirdd modern ar ddechrau'r pumdegau ac sy'n poeni rhai o hyd. At ei gilydd, dw i'n tueddu bellach i ochri gyda safbwyntiau'r gŵr sy'n ei alw'i hun yn Pennar mwyach, yn hytrach nag â'r llall. Roedd y llall yn tueddu i'w gymryd ei hun ormod o ddifri ar y pryd.

Efallai fod y llall yn siomedig ynghylch sefyllfa'r iaith Gymraeg a chyhoeddi (yn fuan ar ôl y rhyfel), gyda beirdd aeddfed wedi cael eu gyrru i gyhoeddi prydyddiaeth i'r genedl mewn pamffledyn o lyfryn fel yr un sydd dan sylw nawr, ac oherwydd diffyg trafod crefft llenydda cyfoes ar y pryd. Anodd oedd i unrhyw fardd Cymraeg godi i uchelderau 'cyhoeddi cyfrol' go iawn yn yr amser hwnnw. A dichon fod yr elfen wamal a chwareus yn *Cerddi Cadwgan*, boed yn y cerddi yn ogystal neu yn y ffug-ddadl yn eu rhagymadrodd, wedi ei hanelu at hysbysebu neu dynnu sylw at fodolaeth y fath gyfrol, mewn modd a wneid yn fwy proffesiynol gan y Cyngor Llyfrau a fyddai'n gweddnewid gwerthiant llyfrau yn nes ymlaen.

Credaf o'r holl gasgliadau bach a wnaeth Pennar o'i gerddi, mai dyma ysywaeth y gwannaf. Roedd yna elfen o siom gennyf, siom a oedd yn ddidwyll, mi obeithiaf; ond na wnâi les i ddadl. Erbyn hyn, o edrych yn ôl, rhaid imi gyfaddef fy mod i'n mwynhau'r cerddi yn awr a'u chwaraegarwch yn fwy nag y gwneuthum ar y pryd. Angen lledu chwaeth oedd arnaf i.

Wrth ailddarllen yr ohebiaeth hon a fu rhyngom ni'n dau, daw yn fwyfwy eglur i mi, mai un o'r prif swyddogaethau i 'feirniadaeth lenyddol' yw dysgu darllen, nid yn gymaint oherwydd bod beirniad yn ddiarwybod iddo'i hun ac yn wylaidd anfwriadus yn ei oleuo'i hun ar y pryd, eithr oherwydd ei fod yn ceisio perswadio rhywun arall ei fod yn dweud y gwir.

Bwrw prentisiaeth i mi oedd pob dysgu darllen. Math o ymbalfalu oedd. Dechreuwn oll yn 'anaeddfed'; ac os ydym yn ffodus, daliwn i ymdeimlo â'n hanaeddfedrwydd tan y diwedd, tan ychwanegu'r medr hwn neu'r ddealltwriaeth arall at ein cynhysgaeth feirniadol ar hyd y bedlam.

Prif sialens y beirniad medrus bob amser yw adnabod camp a pham. Dibynna hynny ar gefndir a lled y llyfrau sy wedi adeiladu'i ddarllen hyd at y fan honno. Drwy brofi amlder o arddulliau gwahanol, ac ymdeimlo ag amrywiaeth o bersonoliaethau ac o ganrifoedd, bydd beirniad gan bwyll yn dyfnhau ei fedr i ymateb i ddychymyg, i newydd-deb, ac i ddeallusrwydd synhwyrus. Bydd y gwaith yn ei hyfforddi ef. Bydd yn ei ystwytho hefyd i ymestyn. Bydd y gwaith yn ei dynnu ac yn ei bryfocio gan agor y gŵys hon a'r gwerthfawrogiad arall. Efallai, os caiff yr anrhydedd hefyd o ddarllen a mwynhau llyfr newydd a darganfod arbenigrwydd newydd, yna caiff y cyfle hefyd i gydnabod ac i ddadlennu camp, a pham. Felly y *dylai* fod wedi digwydd i mi ym 1953-4; ond oherwydd anaeddfedrwydd yn ôl pob tebyg, methais ag adnabod peth o'r gyfrol ar y pryd o fewn cyd-destun llenyddiaeth yn gyffredinol.

Mae yna ddwy gerdd yn y gyfrol gan Rydwen, sef 'I Huw' a 'Kitch', sydd ymysg cerddi mwyaf nodedig ail hanner yr ugeinfed ganrif. Hoffais i nhw'n fawr ar y pryd; ond ni ellais ymateb yn grwn i lawn wefr a gorfoledd eu camp y pryd hynny. Ceir cerddi eraill nodedig; ond i mi heddiw y mae'r methiant penodol hwnnw'n dadlennu 'gwirionedd' beirniadaeth lenyddol hefyd. Rhaid bod yn effro barod. Clywch bennill cyntaf 'I Huw' er enghraifft:

'Mae'n Nadolig eto...
Tawdd fel pelen-eira fy nghalon yn fy nghorff,
hon a fu'n eiddo i ddegau (y Nadolig a'u geilw i gof)
hon a fu'n chwerthin a chwarae iddynt hwy, hudoles a slaf,
a hwythau'n dyfalu ei nef, annwn, siwgr, neu sarff
oedd o'i mewn... Mae'n Nadolig eto...'

Dwy gerdd ryfeddol oedd rhai Rhydwen. Mae'r ddwy yn wledd i bawb greda i. Ac mae dwy yn hen ddigon i brofi pethau, a – heblaw pob dim arall – i esbonio cyhoeddi cyfrol.

Peth arall a ddysgir drwy'r darllen amryfal yw ymgymhwyso i wahanol gyweiriau, yn enwedig ymhlith gweithiau a oroesodd bigiadau gwamal y canrifoedd. Agorais y gyfrol fechan, a dechrau yn y dechrau, ar ôl darllen rhagarweiniad pur gamarweiniol ar ffurf trafodaeth rhwng pum cyd-awdur y llyfr. 'Y Gair' a 'Caned y Bardd' gan Pennar fu caneuon y cyfarfyddiad cyntaf. Mae 'Y Gair' yn un o'r ebychiadau hwyliog yn null Walt Whitman, ebychiadau a geir yn fynych gan Pennar, (er bod eu harddulliau'n gwbl groes i'w gilydd). Ar y pryd roeddwn yn adweithiol yn erbyn y dull. Dw i bellach yn medru ymateb yn fwyfwy cyd-deimladus â beirdd ac â barddoniaeth gafalîr o rethregol o'r fath a oedd, y pryd hwnnw, i mi yn sgrifennu mor llac o fyrlymus. Efallai y dysgaf ryw ddiwrnod. Mae'n hen bryd. Ond dyma'r gerdd ar ei hôl:

C
aned y b
arddoniaeth y farddoniaeth a
aned y b
arddodiad dwylo a'r Ysbry
dafod a cherdd dant ffur
farddoniaeth o farddoni
aeth oes y gynghanedd org
aeth y philosoph perennis heibi
o farddoni
aeth a daeth atom yr atom agos-ato
mae llwynau'r awen yn lla

Gogleisiwyd fi gan y llinell olaf – y trawsganu a'r hyn a ddwedai am fwriad y gerdd: llac. Ond at ei gilydd, – a phlediaf ieuenctid ar y pryd – roeddwn y disgwyl y dylid ymateb gyda mwy o ddifrifwch nag a oedd yn briodol. Ni ddeliais y cywair anghyfrifol. O'm rhan i, tybiwn mai dyma dipyn o'r *avant-garde* blinedig, y math o 'arbrofi' a 'siocio' a ddyddiodd mor gyflym yn Ewrob ar ôl y dau-ddegau. Mae cywreinrwydd unigolyddol od bob amser yn dyddio ynghynt na dyfnhau'r norm.

Ond roeddwn wedi methu ag adnabod y cywair parodïol: y chwarae, a'r chwerthin am ben yr avant-garde. Oherwydd oedran, bûm i ormod o ddifri. Methais mewn coegi. Mae'n wir am y gyfrol benbwygilydd. Cyfrol o gyd-sbort oedd hon roedd ei heisiau ar Gymru ar y pryd. Gwŷr ifanc diwylliedig a medrus eu hawen oedd wedi sgyrsio â'i gilydd, am yn ail â difrifwch, mewn cyfnod o ddwyster erchyll, am sbri barddoni; a thrwy hyfrydwch 'c', am amlder bywyd.

* * *

Yn y fan hon, yn awr, heddiw, gosodwn yr 'hen' ddadl a gafwyd yn 1953. Cyn salwch creulon olaf Pennar, cefais gyfle i ofyn ei ganiatâd i ailgyhoeddi'r ohebiaeth. Ac fe'i cymerais.

Parhaodd y cyfeillgarwch hyd y diwedd, ac y mae e'n dal ar ôl ei farwolaeth i edrych 'dros f'ysgwydd.' Ni ddeuthum i adnabod hyfrydwch dyfnder ei gyfeillgarwch tan heddiw. 'Llenor Enigmatig' oedd. Dyna ddisgrifiad cwbl gywir John Rowlands amdano yn ei gyfrol *Ysgrifau ar y Nofel.* Ymdriniaeth John yn y fan honno yw'r cyflwyniad gorau i waith Pennar y gwn i amdano. Mae yna goegi dyfal yng ngwaith Pennar y gellir gwenu amdano; eithr oni fyddwn yn barod i ddeall ei ddidwylledd ef, bydd yr hwyl sydd hefyd yn ei waith yn mynd ar goll.

Dyfynnaf y disgrifiad hwn yn awr gan John Rowlands: (tud. 225)

'Nid ceisio'n hargyhoeddi ni o ddim y mae Pennar Davies. Nid yw'n ceisio ymyrryd yn ddigywilydd â'n ffordd ni o feddwl. Ac eto mae dwyster ei ddiffuantrwydd yn y dyddlyfr hwn yn peri i ninnau deimlo pethau gydag ef (er nad *fel* ef, o angenrheidrwydd). Mae creu teimladau mewn darllenydd, 'dyneiddio drachefn y cnawd a wnaethpwyd yn ddur', yn rhan o swyddogaeth llenyddiaeth, a dyna beth y mae'r llyfr hwn yn llwyddo'n ardderchog i'w wneud.'

Dywed y dyfyniad hwn gymaint am John ag am Pennar, fel y bydd beirniadaeth yn arfer ei wneud. Pwysig iawn yw'r 'dyneiddio', a gwiw iawn yw cofio am hynny. Medd John ymhellach ymlaen. 'Mae Pennar yn llenor yn ogystal â diwinydd.' Fe ddwedwn i ei fod yn anhraethol well llenor nag o ddiwinydd. Ond nid yw hynny'n difrïo'i brofiad crefyddol. Heblaw'r dyneiddio pwysig, rhaid cymryd o ddifri –

'Mae gennyf gred, mae gennyf gân,
Ac asbri glew yr Ysbryd Glân.' (*Cinio'r Cythraul.)*

Roedd ei brofiad ysbrydol, a pharch dyledus i hynny, yn hanfodol i lawnder dealltwriaeth o'i ddynoldeb aeddfed. Bu cyfarfod â Pennar drwy *Cerddi Cadwgan* gystal lle â dim imi gyfarfod â'r rhyfeddod o ddyn hwn. Dyma, felly, ailargraffu'r ohebiaeth hon (gyda chaniatâd) er mwyn cadw'r argraff yna.

*    *    *

ADRAN I

Aberhonddu,
24 Hydref, 1953

Annwyl Bobi,

Clywais gan rywun nad wyt yn dotio ar 'Gerddi Cadwgan. Carwn yn fawr gael dy farn. Gwn beth yw barn Gruffydd ac Iorwerth Cyfeiliog heb ymdrafferthu i ofyn iddynt, ond nid wyt ti'n perthyn i'r un ysgol – hyd yn hyn, beth bynnag. Beth sydd gennyt yn erbyn y gyfrol? Mae addewid fawr, a dweud y lleiaf, yng ngwaith Gareth Alban Davies, a gwerthfawr ydyw cael casgliad o waith D.R. Griffiths. Tueddaf i feddwl mai ti a D.R. sydd wedi cynhyrchu'r ddau gampwaith parodïol yn ein cenhedlaeth, a'r ddau ar waith T.H. Parry-Williams. Mae gallu mawr a rhywbeth tebyg i

athrylith yn Rhydwen. Mae'r gân am y Nadolig yn dipyn o orchestwaith yn *oeuvre* Rhydwen, a dweud y gwir, er imi ddarllen, efallai, ormod o ddiwinyddiaeth i mewn iddi wrth sôn amdani unwaith. Mae Gwyn Griffiths, wrth gwrs, yn bersonoliaeth farddonol gyflawn, ac y mae'r detholiad o'i waith yn ei gynrychioli'n dda. Fe ddylit ti, o bawb, gael blas ar y gerdd am yr 'hosan groen' os caf ddefnyddio dy air anfarwol a barodd i ychydig o ddarllenwyr *Y Faner* lewygu dipyn o amser yn ôl. Detholion o bryddest radio, gan mwyaf, sydd gennyf i yn y gyfrol, a rhoddais hwy i mewn gan nad oes obaith cyhoeddi'r bryddest gyfan – gwae'r awduron Cymraeg na allant dalu am gyhoeddi eu gwaith yng Nghymru bellach – ond y mae un fantais: gallaf eu hamddiffyn hwy i gyd ar y sail mai darnau'n unig ydynt o gerdd fwy ac nad oes fodd eu barnu'n iawn heb weld y bryddest gyfan.

Pryd y cawn gyfrol gennyt ti, tybed? Mae'r wasgfa economaidd sydd ar lenyddiaeth Cymru yn ddryswch truenus. Mae digonedd o ddawn ac athrylith – mawr a mân – gennym yng Nghymru, mwy nag erioed o'r blaen yn y cyfnod wedi'r Ddeddf Uno efallai. Ac os yw hanes yn dysgu inni rywbeth am ddiwylliant, y wers sylfaenol yw na all hyd yn oed yr Awen fyw heb damaid yn ei bola.

Mae'r 'Hidlon o Lanidloes' mor werthfawr ag erioed. Diolch am y 'Pum Munud' yr wythnos hon: gwrthgyferbyniad hyfryd. Campus dy glod i Iorwerth Peate hefyd. Rwyt wedi dweud y gwir am ei gyfraniad mawr ac am ei ddulliau rhyfedd fel dadleuydd. Ond gosodaf ef yn uwch fel bardd nag yr wyt ti'n ei awgrymu. Cywir a chraff yw dy sylw bod gagendor rhwng syniadau Peate am lenyddiaeth a'i syniadau am ddiwylliant gwerin; ond credaf fod y crefftwr sydd ynddo wedi golethu dylanwad Middleton Murry yn ei gerddi'n siŵr o fyw, a byw mewn bri, o achos y crefftwaith sydd ynddynt. Wrth sôn am 'grefftwaith', nid 'techneg' yw – gair a gafodd ei buteinio ym meirniadaeth lenyddol Cymru yn y blynyddoedd diweddar.

Parhaed Mihangel ei haf bach yn Llanidloes megis yn Aberhonddu.

Yn gu,

PENNAR

Llanidloes,

26 Hydref, 1953

Annwyl Pennar,

Hynaws oedd dy lythyr, a diolch amdano. Mae arnaf ddirfawr ofn mai llai hynaws fydd y tipyn ateb hwn nag y dylai fod. Clywaist yn iawn pan glywaist nad wyf wedi dotio ar *Cerddi Cadwgan*. Lle gwych yw Cymru am si gan amlaf, a chan amlaf y mae'r si'n hollol gyfeiliornus a chelwyddog, ond drwg gennyf ddweud fod y si yna'n gywir y tro hwn. A cheisiaf grisialu fy marn am y llyfr mor dwt ag y gallaf, gan i ti ofyn amdani, er nad wyf yn gweld y byddaf yn gallu egluro'r farn honno heb i mi esbonio fel yr wyf yn teimlo am duedd barddoniaeth 'fodern' yng Nghymru yn

gyffredinol.

Dywedaist nad wyf yn ysgol yr Athro Gruffydd a Dr Peate. Os golygi nad wyf wedi dysgu llawer iawn ganddynt, hynny yw, nad ydynt yn athrawon i mi, fe fynnwn wadu hynny. Yr wyf wedi cael mwy o fudd o ddarllen eu gwaith hwy nag yr wyf wedi'i gael wrth ddarllen y rhan fwyaf o awduron Cymru heddiw. Os eu barn am farddoniaeth gyfoes yn unig oedd yn dy feddwl, rwyf eto am betruso rhag cytuno, canys os mai llawer o'u gosodiadau ynghylch peryglon a thueddiadau llenyddiaeth gyfoes yn unig oedd yn dy feddwl, yn fy marn i, maent yn bur agos i'w lle, er na chredaf eu bod yn ddigon llydan eu cydymdeimlad a'u chwaeth yn aml iawn.

Ond brysiaf at y llyfr; a maddau i mi os byddaf braidd yn gynnil fy ngeiriau. Pe bai ychydig o feirdd ifainc dan eu hun ar hugain wedi cynhyrchu'r llyfr hwn, diau y gellid maddau'r arwyneboldeb, y clyfrwch torcalonnus, a'r diffygion anaeddfed sy'n ei ddifwyno gan ystyried nad yw'r beirdd hynny eto ddim wedi darganfod eu hidiom, eu meddwl, na'u harddull eu hunain. Ond yr hyn sy'n drist yma yw bod pedwar o'r pum bardd sydd yn y llyfr hwn mewn 'gwth o oedran', ac wedi cyrraedd cyfnod pan ddylem ganfod ceinder datblygedig, unigoliaeth bersonol gref, ac aeddfedrwydd cadarn yn sylfaen ysbrydol i'r holl waith. I'm clust, i'm teimlad, ac i'm meddwl i, nid yw'r beirdd hyn wedi rhoi eu gorau i mewn i'r holl gerddi; y mae gormod o awyrgylch 'adwaith' ym mheth o'r gwaith; y mae llawer ohono yn rhethregol ac yn rhyddieithol; ac yr wyf yn siomedig.

Nid wyf am gyffwrdd dim â'r 'feirniadaeth' ar ddechrau'r llyfr. Os mai ceisio diddanu'r werin ddi-ddysg yn ogystal â phorthi'r uchel-ael eang ei ddiwylliant yr un pryd oedd diben y rhagymadrodd, yna ofnaf mai syrthio rhwng hanner dwsin o stolau a wnaethpwyd. Eithr brysiaf at weddill y llyfr, a cheisiaf osgoi, gan mwyaf, sôn am y rhannau anffodus ynddo.

Diau y gallwn ei rannu'n ddwy ran, sef y cerddi o ddifri a'r cerddi ysgafn neu ddoniol. Mae'r adrannau hyn yn weddol gyfartal. Gareth Alban a J.G.G yw cynrychiolwyr yr adran ddifri; D.R. Griffiths, Rhydwen a thi yw'r llebanod, ac eithrio, mae'n debyg, y cerddi, 'Marchog Iesu', 'Os dioddefwn' (D.R.G.), 'Dyn', 'Kitch' (Rhydwen) ac 'I Helen Rhiannon', 'Heilyn ap Gwyn', 'Llwch,' (o'th waith di).

O'r llebanod, D.R. Griffiths yw'r mwyaf naïf neu'r mwyaf uniongyrchol; a go golegol, bron y gellir dweud 'go fachgennaidd', yw llawer o'r jôcs; mae ambell un ohonynt yn o hen hefyd. Ni wn a sylwodd y cysodwyr, ond y mae un o jôcs Mr. Griffiths (tud. 35) wedi ei hailadrodd ar dud 6 dan enw Mr. Williams ac ar dud. 14 dan d'enw di.

Nid wyf am gymryd y cerddi ysgafn hyn ormod o ddifri, er bod rhai ohonynt fel comedïau Molière a Thwm o'r Nant yn ddifrifol yn y bôn. Pan fo dychan ynddynt, eu bai mwyaf yw bod y dychan yn rhy uniongyrchol a phregethwrol i fedru creu awyrgylch a delweddau priodol, fel yn 'Caniadau ein Cenhedlaeth'. Eu rhagoriaeth, pan fyddant ar eu gorau, fel yng nghân Rhydwen am y

Nadolig, yw eu cyfoeth geiriol a'u mydr awgrymiadol. A gellid chwynnu ohonynt amryw ddyfyniadau i ddangos hyn.

Ond yn y cerddi o ddifri y mae prif werth y llyfr. Sylwaf ar ryw dair ohonynt.

Y mae 'I Helen Rhiannon' (o'th waith di) yn nodweddiadol o'th ddull byrlymog, telynegol ar ei buraf, a thrueni i mi yw dy fod yn ymadael â'r dull yma i hirwyntogi ar gyfer tamaid o bryddest radio, neu i farddoni-feirniadu'n ôl rhyw ffasiynau llenyddol hollol ddibwys. Mae'r gerdd hon yn debyg mewn llawer ffordd i rai o gerddi serch *Cinio'r Cythraul*, a cherdd serch yw hon yma hefyd, nid wyf yn amau. Mae llysiau yn frith drwyddi, y mydr yn canu, y cytseiniaid a'r llafariaid i gyd yn cyfleu diniweidrwydd plentyn. Mae hyd yn oed dy ymneilltuaeth 'fodern' sy'n 'mentro' drwy gyffelybu rhywbeth seciwlar, â Mab y Dyn yn gyfran o'r diniweidrwydd agored a melys hwn.

Gochelgar iawn yw dy ymddiheurad, yn dy lythyr, dros gynnwys rhannau o'th bryddest radio yn y llyfr; ac nid wyt yn gywir os amddiffynni di hwy 'ar y sail mai darnau'n unig ydynt o gerdd fwy ac nad oes fodd eu barnu'n iawn heb weld y bryddest gyfan,' oherwydd fe ddylai fod modd eu gwerthfawrogi'n iawn fel darnau digyswllt os wyt ti'n eu cyhoeddi felly. Pan oeddent yn y bryddest fel rhan annatod ni ellid eu gwerthfawrogi ar wahân i'r gweddill, wrth gwrs, ond yma gosodaist amodau newydd arnynt. Wedi dweud cymaint â hynyna, a gaf i ychwanegu mai gwell gennyf finnau y darnau dethol hyn na'r bryddest ei hun fel cyfanwaith gan fod hufen y gerdd yma heb ei gymysgu â'r gweddill. 'Melltith Taliesin ar Heilyn ap Gwyn' yw'r mwyaf treiddgar o'r darnau hyn, ac yma y crynhowyd prif thema y bryddest; thema hyfryd a byw iawn ydyw, ac fel y gwna 'Blodeuwedd' y mae'r gwaith hwn yn peri i'r Mabinogi siarad yn ddwfn ac yn arwyddocaol am y gymdeithas gyfoes.

Y mae peth wmbredd o ailadrodd aneffeithiol yn y 'felltith' hon, a byddai mwy o gynildeb ymadrodd a chynildeb meddwl yn debyg o foddhau'n llwyrach, cynildeb fel a geir yn ail gân Pryderi ac ail gân Glifieu fab Taran.

Y bardd-ysgolhaig yw un o greadigaethau od ein cyfnod, er bod rhyw fath o draddodiad iddo. Ymgais J. Gwyn Griffiths yw bod yn un o'r creadigethau rhyfedd hyn, fel Cynddelw Brydydd Mawr a Saunders Lewis yng Nghymru, neu Gray ac Eliot yn Lloegr,  Britha J.G.G ei waith â chyfeiriadau at Aramaeg, y Gododdin, Homer, a berfenwau Epexegetaidd, a sylfaena rai o'i ganeuon ar faterion a gododd yn ystod ei ddarllen llydan, ysgolheigaidd. I mi, dyma'i gerddi mwyaf diddorol, er y byddai'r Athro Gruffydd efallai'n eu galw'n 'anawenyddol'. Ambell waith, sut bynnag, fe â'r tu allan i'r meysydd hyn, fel yn 'Ar y Ffordd, yn y Wlad'. 'Yr hosan groen' yw testun y gerdd hon, fel rwyt ti'n ei nodi, ond ni welaf ddim rheswm pam y dylwn i 'o bawb' gael blas arni. Nid yw'r teclyn hwnnw, ar yr olwg gyntaf, yn addawol iawn fel testun cerdd, ac yn wir testun peryglus ydyw. Eithr y mae Dr Griffiths yn ei drin ef fel symbol o serch anghyflawn, ac felly trawodd ar thema

gyffredinol, gyfoethog. Cyn belled ag y gwelaf i, nid oes datblygiad yn y gerdd: hynny yw, un pwynt sydd, sef y diflastod o gael diogelwch rhag bywyd yn ei lawnder, ac wedi mynegi hyn yn eglur, ailadroddir neu aralleirir y pwynt o bennill i bennill hyd y diwedd. Prif anhepgor barddoniaeth ymenyddol dda yw grym awgrym a darlunio diriaethol cynnil. Gwell fuasai gennyf i petai'r gerdd yn fyrrach, a gallasai grynhoi'r cyfan yma'n well i bennill wyth linell.

Y mae ei barodi trwyadl ar linellau Hedd Wyn hefyd wedi ymgolli mewn geiriogrwydd tebyg, a gallasai mor hawdd daro deuddeg yn glir mewn pedair llinell seml. Gwell gennyf ei barodi ar 'Gân y Crefftwr' I.C. Peate – 'Rho grawc'; a chredaf, os wyt ti'n chwilio am barodi, fod hon yn un o'r parodïau mwyaf diddorol a ddarllenais 'o'n cenhedlaeth ni.'

Wrth ddarllen 'Y Cae Uwchlaw'r Cwm' (Gareth Alban) anodd yw ymryddhau o'r teimlad fod gormod o ferwino synhwyrau, o fodau crwn, hyderus, ac o galonnau brau, agored wedi bod mewn llenyddiaeth ddiweddar i neb fedru mynd ati'n ddidwyll i sgrifennu cerdd ddifrifol yn cynnwys llinellau fel:

'Ond sefais yn hyderus,
Ac estyn i'r fflam fy nghalon frau, agored'

yn enwedig pan fo hefyd dipyn o uchel-athronyddu yn y gerdd yn sôn fod

'Pob Arall sydd yn pennu ffiniau
Fy mod i fel yr wyf.'

Ond cerdd ddifrif yw hon hefyd, mae'n debyg, a chredaf fod ynddi ddarlunio go alluog a ffurf foddhaol; ond rwy'n ofni fod rhagfarnau'r oes yn f'atal i rhag i mi werthfawrogi'r gerdd yn ei chyflawnder – a thebyg fod hyn yn fan gwan gyda llawer o'n darllen cyfoes ni, fod ymdeimlad greddfol sinig bron, ynghylch tueddiadau anffodus llenyddiaeth yr oes yn milwrio yn erbyn ein gwerthfawrogiad o beth o'i chynnyrch hi.

Cyn i mi gau, rwyf wedi bwrw golwg dros yr hyn a ddywedais yn y llythyr hwn, ac mae arnaf ofn i mi fod yn ffyrnig ar dro, ac ar dro'n giaidd reit. Ond cei dithau ateb; a diau y dysgaf weld nas gwelais ac y cywirir plwyfoldeb fy chwedl.

Cofion cynnes,

Bobi

*[Sylwadau Diweddar Adran I:*

*Wrth ailddarllen y ddadl, yr hyn a sylweddolais bellach yw mai'r feirniadaeth ei hun yn hytrach na'r farddoniaeth oedd y prif destun yn y ddadl. Nid yr hyn a ddwedwyd am y farddoniaeth oedd y prif fyrdwn yn sylw'r dadleuwyr, ond cyflwr beirniadaeth ar y pryd. Roedd y feirniadaeth ei hun yn anaeddfetach na'r farddoniaeth. Dyna hefyd wendid mwyaf llenyddiaeth y pryd hwnnw, y farddoniaeth yn gynnyrch deg canrif, a'r feirniadaeth yn gynnyrch canrif a hanner. Roedd yna*

*sefyllfa ddeallol wedi tyfu ym maes beirniadaeth, ond ni chafwyd ateb digonol i'w her. Roedd hyn yn wir ledled Ewrop. Dyma wlad fodern yn barddoni heb* fyfyrio *am farddoniaeth.*

*Daeth Ôl-foderniaeth ar ein gwarthaf oll, ac nis dadansoddwyd ef yn ddigon trylwyr. Roedd beirniadaeth lenyddol ei hun, hefyd, wedi datblygu mor helaeth ac aml, heb fod y beirniaid eu hunain wedi myfyrio'n ddigonol ynghylch ei phwrpas, na'i chynnwys, na'i ffurf. Llythyru roeddem ni heb fod y myfyrdod cefndirol wedi'i fraenaru yn Gymraeg. Roedd amgylchfyd angenrheidiol yn rhy brin ac yn rhy frau.*

*Dyna, mae'n debyg, a oedd yn cyfri am y gorbendantrwydd llancaidd. O hyn ymlaen, ac am flynyddoedd, golygai y byddai'n rhaid gwerthuso gweithiau llenyddol o fewn fframwaith araf deg ei dwf ac adeiladwaith. O hynny ymlaen, fe ges i hanner can mlynedd o faich-gario ac o feichiogi gwerthusiad a hela trefn a phendroni uwchben yr ysbryd a'r gerdd, gan arwain at* Beirniadaeth Gyfansawdd. *Diffyg dyrys yn ein beirniadaeth ni'n dau ar y pryd oedd yr agwedd hanner-pob yn ein myfyrdod am berthynas llenyddiaeth a dimensiwn yr ysbryd. Ymguddiai Pennar yn enigmatigrwydd ei gyneddfau ei hun. Ac er y gallai hynny wneud y tro ar gyfer ei storïau a'i gerddi, ni wnâi'r tro i ddatrys problemau cyfoes pennaf beirniadaeth.*

*O ran fy myfyrdod i fy hun, a'r ffordd y sgrifennwn am fynegiant Pennar yn benodol flynyddoedd wedyn, ceid ambell dwf adolygol mwy cadarnhaol wrth i'm hunanfeirniadaeth ledu, dyweder o* Llenyddiaeth 1936-1972 *ymlaen i* Patrwm Amryliw (cyfrol 1) *gol. Robert Rhys 214-22.]*

* * *

ADRAN II

Aberhonddu

24 Hydref , 1953

Annwyl Bobi,

Dyma fi'n dechrau ateb dy lythyr a'r haearn yn boeth. Diolch am ymwrthod â'r menig melfed. Credaf fod dy lythyr yn bwysig am ei fod yn dangos mor ffôl yw'r darlun o'r llenyddiaeth gyfoes a geir mor aml yn y wasg – Gymraeg a Saesneg – yng Nghymru, darlun sy'n awgrymu brwydr barhaus rhwng dwy fyddin. Yr Hynafgwyr a'u cynghreiriaid ar y naill law a'r Moderniaid clicyddol ar y llall. Mae'r wir sefyllfa'n llawer mwy cymhleth. Credaf fod pethau gorau 'hen arglwydd ansoddeiriau' a'i fab barddonol, Iorwerth Peate, yn tra rhagori ar lawer o gyfog y Moderniaid ac y mae'n debyg dy fod di'n cyd-weld.

Teimlaf ar yr un pryd fod W. J. Gruffydd ac Iorwerth Peate wedi cyfrannu at y dryswch beirniadol presennol trwy gollfarnu'r Moderniaid i gyd â'r un rheg gynhwysfawr, heb ddim ymgais i wahaniaethu rhwng pechodau Glynne Davies, dyweder, a phechodau Eirian. Ofnaf nad yw W. J., Bobi, yn gweld dim gwahaniaeth rhyngot ti a Harri Gwynn. Ac y mae hyn yn enghraifft dda o'r

gwrthgyferbyniadau rhwng barn a rhagfarn.

30 Hydref, 1953

Trof yn awr at dy sylwadau ar *Cerddi Cadwgan*. Mae craffter mewn llawer ohonynt fel yn dy waith i gyd, ond gresynaf wrth weld arwyddion o henaint mewn ambell baragraff. Myfi yw'r mwyaf oedrannus o'r pedwar a ddisgrifir gennyt fel mewn 'gwth o oedran' – yr oeddwn wedi treulio mis yn rhyfeddu at y byd cyn i John Gwyn Griffiths weld golau dydd – ond y mae gennyf dros hanner canrif i fynd, cyn cyrraedd aeddfedrwydd Elfed, ac nid wyf yn rhy hen i chwarae eto. Awgrymaf fod dy waith yn cyhuddo'r gyfrol o 'arwyneboldeb', 'clyfrwch torcalonnus', 'diffygion anaeddfed' ac 'awyrgylch adwaith' yn codi'n raddol o amharodrwydd i ganiatáu i'r chwarae. Ac ni allaf feddwl am ddim byd mwy anghymreig.

Yr wyf yn gweld ergyd dy feirniadaeth ar gerddi D.R. Griffiths – bod ei ddoniolwch yn 'golegol'; ac i ryw raddau, yn 'fachgennaidd'. Ond onid oes rinwedd yma? Onid yw'r dull yma'n brin yng Nghymru a'r cerddi hyn yn rhagori llawer ar y math o 'ddychangerddi' sydd wedi cael eu gwobrwyo mor aml yn yr Eisteddfod Genedlaethol? Mae lle yng Nghymru i dipyn o ddychan a digrifwch a pharodi o ansawdd academaidd ganol-ael ac y mae cerddi doniol D.R. yn enghreifftiau teg o hyn. Y parodïau, efallai, yw'r pethau gorau ganddo, yn enwedig y dernyn hyfryd 'Hafod'. Ond mae un o'r cerddi difrif sef '"Pan Syrthio F'enaid" yn ddwys ac yn sych' – bron yn foment 'fawr i Ewrob'!

Credaf dy fod di'n methu'n lân wrth ddweud mai'r un jôc sydd gan D.R. Griffiths a Rhydwen a minnau ar dudalennau 35, 56, a 14. Parodi ar Aneirin Talfan yw 'Caniadau'r Dyddiau Du' D.R., parodi ac ynddo ddychan ddoniol ar un math o 'foderniaeth' anaeddfed. 'Cerdd fraslun' sydd gan Rydwen, os gwna y term yna'r tro am 'shape8d poem': dull sydd wedi dyfod yn weddol gyffredin erbyn heddiw. Er ei fod yn ddigon hen, ceir enghreifftiau ohono yng ngwaith George Herbert. Peth hollol wahanol yw 'Caned y Bardd', lle y mae'r llinellau toredig yn arwyddlunio argyfwng dryslyd oes wallgof a distrywgar. Credaf i Euros mewn adolygiad radio ddweud na ddylid byth lurgunio geiriau fel yr honnir imi wneud yn y gerdd hon. Cytunaf y dylid parchu geiriau, ond y mae i'r gerdd ddiben arbennig ac eithriadol.

Derbyniaf yn ddiolchgar lawer o'th feirniadaeth ar fy mhethau i, ond carwn wybod pam yr wyt yn siarad braidd yn ddirmygus am bryddestau radio a pham yr wyt ti'n teimlo imi ymbuteinio i ganu ffasiynau llenyddol dibwys. Egwyddor ac nid ffasiwn sydd yn 'Y Gair', ac yn sicr nid yw'n ddibwys. Felly yn y gerdd 'Adar a Blodau' hefyd.

Yr wyt ti dy hun wedi beirniadu dy feirniadaeth ar waith Gareth Alban Davies. Mae'r awen fodern, fel yr awgrymi, yn ymgroesi rhag gwisgo calon ar lawes, yn enwedig pan fo'r galon yn 'frau'

ac yn 'agored'. Onid oes berygl i'n hosgo beirniadus wanhau'r awen? Mae'n hen bryd inni lefaru'n ebychlyd o'r galon a'r pen a'r fron a'r llwynau a'r ymysgaroedd, heb ymboeni'n rhy ymwybodol am grefft a chwaeth. Dewisach gennyf dipyn o gyboli na gormodedd o gaboli.

Eithaf diddorol yw dy farn am Gwyn Griffiths. Ni welaf ddim byd odiach mewn bardd-ysgolhaig nag mewn bardd-bregethwr. Bai yw rhodres ysgolheigaidd, wrth reswm, ond nid wyt yn dwyn y cyhuddiad yna yn erbyn John Gwyn. Da gennyf dy fod yn gweld gwerth 'Ar y Ffordd, yn y Wlad'. Yr unig reswm pam y meddyliais y dylasit ti gael blas arni oedd dy fod di'n credu mewn siarad yn blaen hyd yn oed am destunau fel hyn. Rhaid imi gyfaddef nad wyf yn deall pam yr wyt yn ystyried y testun arbennig hwn yn anaddawol fel testun cerdd: i mi y mae pob testun mor farddonol â'i gilydd. Cytunaf mai ailadrodd ei bwynt y mae'r bardd yma yn hytrach na'i ddatblygu. Ond gall ailadrodd fod yn effeithiol. Beth sydd gennyt yn erbyn yr hen ddyfais hon? Ac o ran hynny, nid ailadrodd moel sydd gan y bardd yn y fan hon: mae'n cyflwyno'r un ystyriaeth mewn cyd-destun gwahanol bob tro. Cerdd fach felys ydyw. Gyda llaw, ni theimlaf fod 'Trawsfynydd' a 'Rho Grawc' yn barodïau cyflawn o gwbl. Mae 'Rho grawc' yn ymylu ar fawredd. Braf yw cael cyfnewid barn â thi fel hyn – heb fod mor ddof-foesgar â Saunders Lewis a Thomas Parry yn eu gohebiaeth ddiweddar. Erbyn ail-feddwl teimlaf fel tithau fod gormod o wrthdystio croch yn *Cerddi Cadwgan.* Diffyg mwyaf y gyfrol yw ei fod yn rhy dameidiog. Rho'r bai ar gyflwr cyhoeddi yng Nghymru; mae gennyf i gyfrol fach o gerddi yn nwylo'r Wasg ers pedair blynedd.

Hwyl ar dy ateb.

PENNAR

Llanidloes,

3 Tachwedd, 1953

Annwyl Pennar,

Rwyt ti wedi codi llu lawer o bynciau. O drugaredd at y posmon, gwell imi ymgyfyngu i ychydig ohonynt yn unig.

Yn gyntaf, y clyfrwch yma. Nid wyf am wgu ar dy chwarae di o gwbl, paid â choleddu'r syniad yna. Braf gennyf fel Piwritan eangfrydig o ganol yr ugeinfed ganrif ddarganfod afiaith a direidi, chwerthin a chwarae mewn llenyddiaeth heddiw, ac nid yw'r elfennau hyn yn ddieithr yn ein traddodiad Cymreig ychwaith. Eto yr wyf yn teimlo bod gwahaniaeth pendant iawn rhwng 'chwarae' a'r hyn a elwais i o'r blaen yn 'glyfrwch arwynebol'. Er mwyn ymdeimlo â'r gwahaniaeth hwn rhaid ymdeimlo â'r hyn sy'n digwydd yn llenyddiaeth Ewrob yn gyffredinol. Canys nid Cymru'n unig sy'n dioddef o'r dirywiad hwn.

Y mae llenorion Ewrob wedi graddol-ymneilltuo oddi wrth eu cynulleidfa – os caf fod yn

ystrydebol. Dibynna aeddfedrwydd llenor ar gymdeithas o ryw fath. Dysg iaith drwy gymdeithas; dysg feddwl drwyddi; a dysg foes. Heddiw am lawer o resymau – oherwydd arbenigo'r oes, oherwydd canoli addysg a diddanwch, oherwydd argraffu rhad, oherwydd awyrgylch cymdeithasol di-grefft a di-chwaeth ac yn y blaen, gyrrwyd y llenor o'r gymdeithas fawr o'i gwmpas i fyd safonau personol a llyfrau. Ac ystyried pobl fel Ewripides, Dafydd ap Gwilym, a Racine, bob un yn dibynnu ar gysylltiad llafar â'u cyhoedd ac yn gorfod cymhwyso'u gwaith i ofynion cymdeithas ac adwaith gwrandawyr, ac wedyn os ystyriwn lenorion cyfoes a'r rhan fwyaf o'u gwaith y tu ôl i farrau o lyfrau yn ddiogel rhyngddynt a'u cynulleidfa, yna ni allwn ond gweld rhan o'r rheswm pam y mae'r llenor yn fwy di-gymdeithas heddiw. Dibynna aeddfedrwydd y gymdeithas hithau ar y cyfanrwydd, nid yn unig ar y bad arafaf yn y llynges, ond ar gydbwysedd cyflawn yn safon amrywiol pob gwedd. Dibynna hefyd ar ei thraddodiad, sy'n cynnwys gwrthryfel. A dibynna hefyd ar sefydlogrwydd o ryw fath. Ni ellir gwadu fod ein cymdeithas ni felly yn fwy didraddodiad na'r un gymdeithas fu yn ein gwlad o'r blaen, ac yn fwy anaeddfed. Y mae'r llenor ynddi ar goll.

Cymaint â hynny o esgus dros fodolaeth y clyfrwch yma! Beth a ddigwyddodd i lenyddiaeth yn y cyfamser, te? Bu llawer o arbrofi unigolyddol ynddi, a hynny'n werthfawr fe ddichon, ond fe gollwyd hefyd angor neu lyw neu rywbeth i gadw'r llong yn ddiogel. A llithrodd ambell waith i'r niwl, ambell waith i'r creigiau. Collwyd cydbwysedd ac urddas gweledigaeth; collwyd disgyblaeth naturiol. Braidd yn ffug oedd beirniadaeth lenyddol yn lle ysgogiad cymdeithas, a daethpwyd yn fwy ymwybodol o hanfodion llên nag o hanfodion bywyd. Yn lle cael uchelgais naturiol i ddiddanu neu i argyhoeddi, cafwyd uchelgais llafurus i lenydda: gyda'r gymdeithas a'r llenor ar wahân i'w gilydd. Yng nghudd-ystafell llenyddiaeth cododd mwg 'l'art', aroglau symbolaeth a rhamantiaeth, gwynt gwin swrealaeth, a bron cynddrwg â'r cyfan – adwaith cymdeithasol sy'n credu y dylai llên fod yn bropaganda, y dylai llenor achub y gymdeithas, ac onid oes farn ganddo ar rywbeth y dylai wneud un ai stwffio i lawr corn gwddf ei gyhoedd, neu drengi. Mae llenyddiaeth heddiw fel gŵr claf.

Magwyd arferion drwg ac arwynebol a thyfodd techneg glyfar – ymorchestu mewn goglais defod â Duw, chwarae â gair a syniad heb un pwrpas ond creu effaith o fedrusrwydd, bod yn fodernaidd ac yn gall ym mhob modd posib, beiddgarwch rhywiol 'er mwyn trafod pob testun fel ei gilydd', yn aml heb ddim pwrpas dyfnach na hynny, bod yn adweithiol, ffigurau ymadrodd llachar sy'n cyfateb i'r teis y mae'r dynion-gwerthu-bananas yn eu gwisgo ar strydoedd Caerdydd, mesurau newydd sbon, mor newydd fel nas gwelodd neb hwy erioed o'r blaen (ond y rhai sy'n darllen llenyddiaeth ddiweddar Ffrainc, Lloegr a'r Eidal), a llenyddiaeth lenyddol, sef honno sy'n pesgi ar lenyddiaeth yn hytrach nag ar fywyd. Dyna'r math o beth sydd wedi dod yn llenyddiaeth i ni heddiw yng Nghymru. A theimlaf fod tipyn o'r duedd hon yn *Cerddi Cadwgan*. Mae bron yn fythol-

bresennol yn ein barddoniaeth Gymreig gyfoes mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Nid mater o ddadl yw hyn, mae arnaf ofn, ond mater o chwaeth a barn. Fe'i meithrinir nid drwy ddadl a phwyso egwyddorion, ond drwy brofiad arbennig o lenyddiaeth, a byddai'n rhaid i'm profiad i o lenyddiaeth ddatblygu gryn dipyn cyn newid ohonof y farn hon.

Pan esbonni di 'Caned y Bardd' gyda'r 'llinellau toredig' yn arwyddlun o argyfwng dryslyd oes wallgof a distrywgar, yr wyf yn barod i gredu dy fod o ddifri, ac yn wir, mae'n siŵr dy fod yn ddiffuant yng ngwneuthuriad dy gerdd. Ond ynof i fy hunan – yn gwbl hunan-gyfiawn – rwyf yn gwybod dy fod yn dy dwyllo dy hun. Cei esbonio a dehongli pob toriad yn fanwl, gan ddangos mai hanfodol oedd torri'r gair hwn a'r gair arall. Ond y tu mewn i mi yr wyf yn teimlo mai stynt yw'r cyfan, yn ymwybodol, fe ddichon, ond yn rhan o'r proses eang yr wyf wedi ceisio ei disgrifio.

Rhan o'r un broses yw 'Cerdd fraslun' Rhydwen.

Newid ffasiwn yw un o'r nodweddion hynny sy'n tyfu allan o'n hansefydlogrwydd cyfoes. Fe or-wnâi'r rhamantwyr er enghraifft ddeigryn, adar, blodau, a gorwel. Syrffedwyd arnynt yn ara'-deg. Gor-wnâi'r swrealwyr eu di-ymwybod ymwybodol: syrffedwyd arnynt hwythau'n gynt. Byddet ti'n cytuno, rwy'n credu, â'r newid hwn yn y ffasiynau. O dro i dro, yn llenyddiaeth Ffrangeg a llenyddiaeth Gymraeg yr wyf wedi darllen digon am galonnau tebyg i un frau, agored Gareth Alban. Ni allaf ond teimlo fod y ffasiwn hwn hefyd wedi chwythu ei blwc. Pwysleisir y rhaniad rhwng y llenor a'i gymdeithas gan yr anghyfrifoldeb hwn o newid ffasiynau; a thyf gor-deimladrwydd yn rhwydd mewn llenor unig ar wahân, gor-deimladrwydd y dylai warchod rhagddo'n ddiwyd.

Dichon, sut bynnag, fod y ffasiwn diweddar o agor drysau llên i bob testun yn ddatblygiad i'w ganmol. Bywyd oll yw testun sail llenyddiaeth. Eto, ynglŷn â'r dewis o destun annefodol fel y gwnaeth J. Gwyn Griffiths yn 'Ar y ffordd yn y wlad', dy dwyllo dy hun yr wyt eto wrth feddwl fod pob pwnc yr un mor addawol ac mor farddonol â'i gilydd i fardd. Dibynna ar amgylchfyd. Ac y mae traddodiad barddoniaeth gyda thestunau fel angau, serch, a Duw yn dyfod i'r blaen yn ddigon o brawf i mi dy fod yn anghywir. I mi, y mae Iesu Grist yn llawer mwy addawol fel testun uwch ffasiwn na cherdd am y chweched còg o'r gwaelod mewn peiriant-gwneud-clips-gwallt. Y mae gan bob testun ei bwysigrwydd cymharol mewn bywyd, ac yn ôl y pwysigrwydd yna amrywia ei werth potensial fel testun barddoniaeth. Y mae testun Dr Griffiths yn beryglus fel testun cerdd oherwydd mai haws yw bod yn ddi-chwaeth, yn glyfar, ac yn anfoesol gyda thestun fel yna nag wrth sôn am friallen yn tyfu'n ddiniwed wrth ochr nant y mynydd. Y mae yna ffasiwn hefyd (onid oes?) i sôn yn frolgar ac yn agored am ryw a'i gymheiriaid, ac y mae hynny o fewn cyd-destun o anfoesoldeb defodol rhyngwladol blêr yn beryglus.

Mae dy frawddeg am 'lefaru'n ebychlyd o'r galon a'r pen a'r llwynau a'r ymysgaroedd, heb ymboeni'n rhy ymwybodol am grefft a chwaeth' yn gwahodd anghytundeb. Ac oni bai am y gair

gofalus 'rhy', fe fwriwn ati o ddifri. Oherwydd, i mi, mae'r ffaith dy fod yn cynnwys y geiriau 'calon' a 'phen' yn ddigon i amddiffyn 'crefft' a 'chwaeth'. Nid oes dim mwy di-fudd na llenyddiaeth sydd heb na chrefft na chwaeth ddigonol; y mae'n sarhad i'r pen ac yn boen i'r galon. Mae gan y ddafad hithau galon, pen, bron, llwynau; ac ymysgaroedd hefyd cyn belled ag y gwelais i; ond nid oes ganddi fawr o grefft nac o chwaeth. Y mae'r ddwy hyn – 'crefft' a 'chwaeth' – sut bynnag yn gwneud cryn lawer i ddyrchafu Dyn, ac i greu llenyddiaeth gain. Ac y mae clywed rhywun yn eu dilorni hwy yn afiach ac yn annymunol.

Yr hyn sy'n rhyfedd yw gwlad fel Cymru'n dilyn yr un dirywiad ag America a Lloegr, tra bo ynddi lawer mwy o siawns na'r gwledydd hynny i gadw llenyddiaeth aeddfed yn fyw ac yn real yn y byd. Y mae yng Nghymru o hyd fwy o ymdeimlad â chymdeithas, mwy o synnwyr traddodiadol, ac athroniaeth werinol o gryf; felly y mae ynddi fwy o aeddfedrwydd cenedlaethol. Dylai hi arwain cenhedloedd eraill yn ôl at eu gwreiddiau (nid mewn trefn gymdeithasol yn unig ond mewn llenyddiaeth hefyd), yn ôl at ffynhonnell diwylliant, ac nid eu dilyn yn ddof i ddiffeithwch a phydredd llenyddol. Onid yw'r dwyster argyfwng yn fwy trawiadol a dramatig amlwg yng Nghymru? Chwithig iawn yw canfod ei llenorion ifainc hi'n colli golwg ar yr hyn sydd dan eu trwynau. Roedd gan O.M. ddameg am Ap Fychan, yn byw mewn bwthyn tlawd yn ymyl lle y bu cloddio am aur yn nes ymlaen yn y ganrif. 'Ap Fychan,' meddai O.M., 'yn crwydro'r byd i gardota, a thalpiau o aur ym muriau ei dŷ ei hun. Mi wn i am genedl fechan...'

Cyn noswylio, a gaf i ddweud fy mod yn credu mai syniad gwych oedd cael y gyfres yna o bryddestau radio? Teimlais, serch hynny, fod ynddynt beth wmbredd o ôl brys, a bod y rhan fwyaf yn dangos anghyfartaledd neu ymdrech i chwyddo darnau hyd at faintioli priodol. Roedd yn y rhan fwyaf, sut bynnag, rywbeth o werth; ac rwy'n credu y cytunet fod un Kitchener Davies yn neilltuol; ond trueni na roddwyd rhagor o amser i'n beirdd baratoi'n drylwyrach a chaboli'n foddhaol... Paid â'm hatgoffa i, fe roddaf y bai eto ar yr oes. Mae'i chroen yn ddigon tew.

Nos da,

Bobi

*[Sylwadau Diweddar Adran II:*

*Yn yr Adran hon o'r ddadl, yr hyn a sylweddolaf erbyn heddiw amdani yw nad oeddem ni ddim i raddau'n deall ein gilydd. Nid yn unig roedd y naill yn meddwl un peth, a'r llall eisoes yn rhagdybied ei fod yn dweud rhywbeth arall; ond roedd y rhagdybiau a oedd gennym ni am fywyd oll eisoes yn gwyro i gyfeiriadau eraill. Mewn cyfnod* sgeptig *ynghylch popeth, yr oedd sefyllfa o ragdybiau cryf unllygeidiog yn rhemp. A byddai'r hanner can mlynedd wedyn yn gyfnod pryd y gellid – heb lawer iawn o lwyddiant – wyntyllu'r pynciau hynny.*

*Dyma enghraifft o feirniadaeth anghymeradwyol a'r elfen chwareus yn adlewyrchu gwrth-chwarae'r beirniad. Camfarn go syml oedd. Y gwir oedd mai'r chwarae oedd yr elfen a hoffwn fwyaf ar y pryd. Pan soniwn am waith D.R.G. yn 'fachgennaidd', anelwn at synied am yr ysgafnder hwnnw'n ddiffygiol ac nid oherwydd ei fod yn hwyliog, ond oherwydd y gwahaniaeth rhwng hwyliogrwydd soffistigedig yr oedolyn, a'r chwareustra mwy cyfyngedig na wawriodd coegi arno.*

*Felly y parodïau am Aneirin Talfan, a'r 'gerdd fraslun' gan Rydwen. Yn wir, mae'r ail lythyr hwnnw yn holi cwestiynau ar hyd y ffordd am fwy o eglurhad – 'Onid oes rhinwedd yna?' sy'n codi cwestiwn gwerthuso. 'Onid yw'r dull yn brin yng Nghymru?' Dw i'n cyffesu fod yr osgo'n feirniadus anaeddfed ac yn annerbyniol, ond yn groes i'r graen, roedd ein hunanfeirniadaeth ni'n dau yn rhy brin. Er enghraifft, am resymau diwinyddol diffygiol, methwyd â gwahaniaethu rhwng anfoesoldeb neu gabledd a gwrth-foesoldeb pietistig.*

*　　　　*　　　　*

ADRAN III

Aberhonddu,
23 Tachwedd, 1954

Annwyl Bobi,

Rhaid imi ymddiheuro am dy gadw di mor hir. Bu'r marwolaethau diweddar yn rhwystr imi roi fy meddwl ar ein pwnc. Am John Wyn Roberts a Dylan Thomas rwy'n meddwl. Gofid bob amser yw gweld diffodd angerdd cyn pryd.

Cyrddais â'r ddau. Cefais gyfle i sôn am addewid Dylan Thomas pan nad oedd neb yng Nghymru ond ei gyfeillion a'i gynghreiriaid personol yn gweld dim gwerth yn ei waith; a chefais fy siomi wedyn a methu gweld ei fod wedi gwneud dim byd sylweddol i gyflawni'r addewid, a hynny pan oedd y byd, neu ran helaeth ohono, yn datseinio ei glodydd heb wneud ymgais i ddeall ei waith. Gyrfa ryfedd oedd iddo; o'i chymharu â gyrfa Byron gwelwn y gwahaniaeth rhwng enwogrwydd naturiol, megis, a'r enwogrwydd gwneud sy'n dibynnu ar gyhoeddusrwydd. Digrif yw gweld A.G. Prys-Jones a Huw Menai'n ei ganmol mor eithafol a hwythau'n credu yn eu calonnau eu bod yn well beirdd o'r hanner nag ef. Ni allaf lai na chymharu ei ymadawiad ag ymadawiad Kitch. Yr oedd llawer o utgyrn yn canu ar yr ochr *hyn* i'r afon pan groesodd Kitch, ond yr oedd canu mawr yr ochr *draw*. Mae'r ddaear yn fwy llwydaidd wedi colli Dylan hefyd.

Yr oedd gwir ardderchowgrwydd yn John Wyn Roberts: enaid graslon, hawddgar, a'i fryd ar brydferthu'r ddaear a grasusau'r nef. Nid wyf am ddiwinydda ynghylch ei golli. Dim ond dweud nad yw fy niwinyddiaeth yn rhoi'r bai ar Dduw. Duw sy'n troi'r gwyll yn wahanol.

Ond gwell imi sôn am dy lythyr. Llythyr gwerthfawr, os caf i ddweud. Bu Saunders Lewis yn mesur *Cerddi Cadwgan* yn y *Faner* yn ddiweddar, fel y gwyddost, ac y mae ei gyhuddiad fy

mod yn gweld bywyd cyfoes trwy lyfrau yn dod yn agos iawn i'th feirniadaeth di ar lenyddiaeth yr oes – 'safonau personol a llyfrau', 'llenorion cyfoes a'r rhan fwyaf o'u gwaith hwy mewn barrau o lyfrau yn ddiogel rhyngddynt hwy a'u cynulleidfa'.

Ac eto, nid yr un feirniadaeth sydd gennyt ti a Saunders. Ei gyhuddiad ef yw nad wyf yn darlunio bywyd fel y mae yng Nghymru; a'r ateb i hyn yw, yn gyntaf, bod gan fardd Cymraeg hawl, ar dro, i sôn am fywyd mewn parthau eraill o'r byd ac, yn ail, bod mwy nag un math o fywyd i'w gael yng Nghymru, o ran hynny – mae bywyd yn Llanfarian yn wahanol i'r bywyd a ddarlunnir ym *Monica*, er enghraifft. Dy awgrym di, os deallaf yn iawn, yw bod llenyddiaeth heddiw – a *Cerddi Cadwgan* yn enghraifft ohoni – wedi mynd yn rhy ymwybodol o lenorol. Y mae 'uchelgais llafurus i lenydda', a'r canlyniad yw 'l'art' a symboliaeth a rhamantiaeth a swrrealaeth. Adwaith yn erbyn y pethau hyn yw'r mudiad a fyn fod llên yn bropaganda, ond yn ôl dy farn di y mae'r adwaith cymdeithasol hwn bron cynddrwg â'r pethau yr adweithir yn eu herbyn. Da gennyf dy fod yn gweld y gwahaniaeth rhwng yr enciliad gorlenorol rhag bywyd a'r adwaith propagandaidd sy'n ceisio rhuthro allan i ganol bywyd, ond dymunaf wneud sylw neu ddau.

Yn gyntaf, rhaid imi gytuno â thi, wrth gwrs, mai afiach yw'r ysfa am wneud barn ar bob pwnc a'i stwffio i lawr corn gwddf y cyhoedd. Ond nid oes neb yn ceisio gwneud hynny yn *Cerddi Cadwgan*. Rhaid gwahaniaethu rhwng argyhoeddiadau a chrach-argyhoeddiad.

Yn ail, y cwestiwn sylfaenol ydyw: a yw celfyddyd yn bod er ei mwyn ei hunan yn unig neu er mwyn y gogoniannau oll? I mi nid oes betruster ynghylch yr ateb. Yn y pen draw ni all celfyddyd, yn fwy na dim byd arall yn y cyfanfyd, fyw er ei mwyn ei hun yn unig. Ei mawredd yw ei gwasanaeth. Ac y mae'r cwestiwn hwn yn gofyn ateb pendant y naill ffordd neu'r llall. Y mae digon o bobl yng Nghymru sy'n gweithredu'n unol â'r dybiaeth bod celfyddyd yn bod er ei mwyn ei hun; dyma'r bobl sy'n wfftio 'syniadau' mewn barddoniaeth ac yn esgymuno 'haniaethu'. Eu hunig linyn-mesur yw'r 'dechneg' bondigrybwyll: mydr, gair, tarawiad, clec. Y mae Saunders Lewis yn gwamalu rhwng yr osgo hwn a'r gred mai dysgawdwr yw'r llenor yn bennaf oll. Bu Gwyn Griffiths a minnau erioed yn gryf dros y ffydd mai diben celfyddyd yw gwasanaethu dyn, daioni a Duw. Dy duedd di, Bobi, – neu a ydwyf yn anghyfiawn? – yw melltithio'r ddau ateb i'r cwestiwn – a chilio o'r gad.

Nid wyf am ddilorni 'crefft' a 'chwaeth'. I mi y mae'r pen a'r galon cyn bwysiced â'r llwynau a'r ymysgaroedd, a phen a chalon dyn yn agosach i'r Nod na phen a chalon dafad. Y dyn cyfan yn llefaru ger bron tystion nef a daear – dyna'r bardd a'r llenor a'r artist. Y mae perthynas fywiol rhwng yr holl aelodau yn y corff, os caf ddilyn yr hen gymhariaeth ymhellach; ac am hynny nid wyf yn dirmygu crefft a chwaeth ond yn gwrthdystio yn erbyn yr arferiad o'u hystyried ar wahân i argyhoeddiad a gweledigaeth a ffydd.

Yn yr un modd y mae perthynas fywiol rhwng holl bethau'r cyfanfyd, a dyna paham y mentrais ar y gosodiad bod pob pwnc cystal â'i gilydd. Y mae pob pwnc cystal â'i gilydd fel man cychwyn i farddoniaeth am fod pob pwnc mewn cysylltiad bywiol â phob pwnc arall. Dyma Bobi Jones yn dweud bod Iesu Grist yn llawer mwy addawol fel testun cerdd na'r chweched còg o'r gwaelod mewn peiriant-gwneud-clips-gwallt! Gwelaf ei feddwl a gorfoleddaf yn ei ffydd. Ond y gwir yw, Bobi, na ellir amgyffred y chweched còg yn farddonol heb gyffwrdd â'i le mewn cyfanfyd sy'n cynnwys peiriant a chorff a gwallt a phen a choron ddrain. Yr wyf yn mawrygu testunau fel angau, serch, a Duw. Purion. Dyna  rai o'r themâu sylfaenol sydd yn cofleidio'r hollfyd, a phopeth sydd yn yr hollfyd. Y mae'r tair thema'n bresennol yng ngherdd Gwyn Griffiths, 'Ar y ffordd yn y wlad' – ac y maent mor berthnasol i'r gwrthrych a oedd yn bwynt cychwyn i'r gerdd hon ag i unrhyw friallen a ddenodd fryd Wordsworth neu Eifion Wyn.

A sut yn y byd y gellir croesawu serch fel testun cân ac ar yr un pryd ymwrthod â rhyw?

Cydwelaf â llawer o'th gollfarn ar ffug-glyfrwch a choeg-orchest a moderniaeth-er-mwyn-moderniaeth, ac y mae'n debyg nad yw *Cerddi Cadwgan* yn gwbl rydd  o'r pethau hyn. Edrychaf ymlaen at weld cyhoeddi dy feirniadaeth. Hyderaf y cawn ni gan y *Faner* gyhoeddi'r ohebiaeth hon. Bydd dy geryddon a'th gynghorion yn lles i feirdd eraill y gyfrol yn ogystal ag i mi. Dywedaf yn unig y dylid cydnabod gonestrwydd sylfaenol y rhan helaethaf o'r llyfryn, a chofio bod tipyn o 'foderniaeth' – mae'n gas gennyf y gair – orymwybodol a sgrechlyd bron yn anochel ynghanol brwydr yr amseroedd.

Rwyt ti yn llygad dy le wrth sôn am y perygl i Gymru esgeuluso ei gwreiddiau ei hun i ddilyn ffasiynau Lloegr a Ffrainc. Mewn cerddoriaeth ac arluniaeth y mae'r perygl yn amlycach nag mewn llenyddiaeth.

Rhaid imi lunio cerdd ar y chweched còg yna!

Pob gwynfyd i ti,

PENNAR

Llanidloes,

25 Tachwedd 1953

Annwyl Pennar,

Roedd yn dda gennyf glywed dy farn am Ddylan Thomas, gan fy mod i wedi cael argraff anghywir amdano. Dwywaith yn unig y gwelais i ef yn y cnawd, ac ymddangosai i mi yn ei ymddygiad a'i arferion fel petai'n befformiwr Americanaidd smart; eithr nid wyf wedi darllen dim o'i waith ers saith mlynedd bellach, a dichon fy mod wedi ei weld ef â'r llygaid rhagfarnllyd a galedwyd yn ei erbyn saith mynedd yn ôl. Canys dyna'r argraff a gefais i gynt wrth fyfyrio ychydig

dros ei farddoniaeth mai dyn sioe oedd ef, yn ceisio perfformio nifer o gastiau â geiriau ac â syniadau – fel y bydd clown yn ei wneud mewn syrcas – ond nad oedd plethwaith ei feddwl nac ansawdd ei ddychymyg yn ddigon cryf i lunio dim llenyddiaeth o werth. Ni welais fod dim addewid ganddo chwaith. Yr oedd yn gwneud ei orau; a allai a wnaeth. Pan ddatblygodd ei weledigaeth (os iawn y gair) i'r pwynt yna pan fo gennym hawl i ddweud am fardd ei fod yn addawol, dangosai ei gynnyrch eisoes nad oedd ei grefft namyn arwynebol; distrywiwyd unrhyw bosibilrwydd o fawredd efallai yn ystod ei lencyndod. Dyna fy hen argraff fod rhai Saeson clyfar eraill nad oedd gennyf fawr o barch atynt yn lleisio ei glodydd. Ti yw'r Cymro cyntaf y parchaf ei farn i ddweud gair o'i blaid, a da oedd gennyf ei glywed.

Yr oedd Dylan yn enghraifft o gyflwr anffodus llenyddiaeth gyfoes y bûm yn ceisio dangos fod *Cerddi Cadwgan* hefyd yn ormod o ran ohono. Nid wyf am ymhelaethu ar y pen hwnnw rhagor, gan dy fod wedi codi mater newydd i'w drafod – sef perthynas llenyddiaeth a chrefydd. Cloaist ti ein trafodaeth ar *Cerddi Cadwgan* yn gampus: caf fwrw i mewn i'r pwnc newydd yma yfory.

28 Tachwedd, 1953

Fe fyddwn yn cytuno mai gwasanaethu Duw yw diben celfyddyd, oherwydd mai gwasanaethu Duw yw diben gywir pob gweithred a wna dyn ar y ddaear, boed fach neu fawr. Nid yw'r gwasanaeth hwn bob amser yn amlwg nac yn uniongyrchol, gan fod cymaint cymhlethdod ym mywyd dyn. Mae pob llenor yn foesol neu'n anfoesol: ei waith ef yw gwasanaethu Duw, yn ymwybodol neu'n is-ymwybodol; onis gwna, gwasanaetha Famon.

Ymddengys mai crefyddol ar y dechrau ydoedd cerdd, chwedl a drama, ac yn yr un ffordd, er yn llai amlwg, y maent yn grefyddol o hyd. Dyna yw eu dirgelwch a'u cyfaredd: y mae hud Duw a'i feddwl yn ymamlygu ynddynt oherwydd eu bod yn ffordd o gymuno ag Ef.

Ond crybwylli di'r ddwy garfan – hogiau'r 'syniadau', yr 'haniaethu' a'r weledigaeth (sef ti a Dr Griffiths) a hogiau'r mydr, gair a chrefft a wrthwynebwch yn ddiysgog. Gofynni i mi ym mha garfan yr wyf i am sefyll; ac awgrymi nad wyf am ochri gyda'r naill na'r llall. Rwyt yn dy le.

Tipyn o faldod beirniadol yw'r ddwy garfan hyn i mi. Nid ydynt yn bod mewn gwirionedd. Fe'u crewyd hwy, fe ddichon, er mwyn diddanu pobl â thamaid o ddadl. Ond pe gofynnid i mi am ddiffiniad o 'weledigaeth mewn llenydiaeth' ni fedrwn roi'r diffiniad yna heb gynnwys y gair 'crefft'; a phe gofynnid i mi am ddiffiniad o 'grefft' ni allwn roi un eto heb grybwyll 'gweledigaeth'.

Ac felly os sonnir am 'gelfyddyd er mwyn celfyddyd', ni fedraf i yn fy myw fod yn gyson heb gydweld â'r safbwynt hwnnw. Canys rhan o Dduw a daioni yw celfyddyd wir i mi; ac y mae'r ddau beth hynny yn ddibenion ynddynt hwy eu hunain. Ac nid chwarae â geiriau yr wyf yn y fan hon. Y mae'n sylwedddoliad pwysig, i'm meddwl i, na ellir rhannu techneg bondigrybwyll rhag

gwasanaethu Duw. Ffurf a deunydd, un ydynt.

Rwy'n gwybod fy mod i'n o agos i'th ddadl di yma, eithr yn awr fe ddaeth yn bryd i mi ymwahanu'n o sionc.

Rwyt ti am gymhwyso'r syniad hwn o gyfanrwydd y berthynas fywiol rhwng pob elfen mewn llên, at y greadigaeth. Dywedi fod gan bopeth ei ran yn y patrwm mawr, fod cysylltiad rhwng y manion lleiaf a welwn ni ar yr heol ac ar y buarth â'r cyfanfyd o'u cwmpas. Ac ar y pwynt hwnnw yr wyf am gydseinio'n frwd eto.

Eithr symudi o'r fan yna i honni bod pob pwnc yn gyfwerth â'i gilydd yn ei addewid farddonol. A mater hollol wahanol yw hwnnw, canys y mae yna ensyniad yn y gosodiad fod popeth yn gyfwerth â'i gilydd yn yr addewid farddonol. A mater hollol wahanol yw hwnnw, canys y mae yna ensyniad yn y gosodiad fod popeth yn gyfwerth â'i gilydd yn ysbrydol. Ni wadaf fod gan y pethau mwyaf distadl gysylltiad â'r gweddill oll, eithr nid yw hynny'n eu gwneud yn gyfwerth yn eu hanfod. Y mae graddau o werth barddonol oherwydd fod graddau o werth mewn pethau yn ysbrydol.

Y mae hyn, rwy'n credu, yn egwyddor, ac yn egwyddor hollol Gristnogol. Mae gan Dduw ddiddordeb yn adar mân y nefoedd, yn ddiau, megis yn y chweched còg yna. Eithr 'onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy?'

Mae gan bethau ysbrydol hwythau, fel ffydd, gobaith, a chariad, eu graddau o werth. A chadw'r weledigaeth am y cyfanfyd a'i batrwm cyfoethog, eto rhaid sylweddoli fod rhai pethau'n llawer mwy na'i gilydd, nid yn unig o ran maint, ond hefyd o ran ansawdd. Y mae rhai pethau sy'n cyffwrdd â dyn yn drymach ac mewn mwy o leoedd na phethau eraill. Oherwydd dyfnder, amlochredd, a phwysigrwydd ysbrydol y pethau hynny, yr wyf yn gwadu fod 'pob pwnc cystal â'i gilydd fel man cychwyn i farddoniaeth.'

Er mwyn profi dy bwynt dithau fe fyddai'n rhaid i ti brofi mai digonol ydyw dangos perthynas pethau â'r cyfanfyd fel diben barddoniaeth. Ond er bod y berthynas honno'n un hanfodol angenrheidiol, eto y mae i bethau natur arbennig a nodweddion eraill gwahanol i'w gilydd. Y mae iddynt eu gwerth cynhenid, a hynny sydd wedi peri bod beirdd wedi dewis rhai testunau'n amlach ac yn hytrach na thestunau eraill. Mynegi gwerth yn ogystal â mynegi perthynas a wna beirdd, ac er bod y ddau beth hyn ynghlwm wrth ei gilydd, nid yr un ydynt.

Na choelia nad wyf am gydnabod undod ysblennydd y cyfanfyd, yr ymdeimlad cyfriniol bron fod patrwm annatod yn ein hesgyrn a'n cnawd ac o'n cwmpas ni sy'n ein gwneud yn rhan odidog o greadigaeth enfawr Iôr. Mae hynny'n wirionedd anwadadwy; eithr rwy'n teimlo y gall fod yna berygl hefyd ar draul gwirioneddau eraill. Mae'r Athro Hywel D. Lewis yn ei lyfr *Gwybod am Dduw* wedi cynnig 'fod yr allwedd i'n hymwybyddiaeth o "fyd" y tu hwnt i'r byd hwn i'w gael

mewn celfyddyd.' A diddorol yw sylwi ar ei resymau yntau: (1) Ni ellir dadelfennu neu rannu cynnyrch artistig oherwydd ei fod yn undod organaidd. (2) Bod 'trawsnewid gwerthoedd a chael un profiad wedi ei guddio'n llwyr ym mhlygion rhyw brofiadau eraill.' (Nid yw'n manylu gymaint ar hyn ag ar y cyntaf ac felly teimlaf fod mwy nag un dehongliad yn bosibl ohono). (3) Nid drwy ddulliau rhesymeg y ceir y weledigaeth artistig.

Gwn fod tinc negyddol yn y rhesymau hyn, eithr rwy'n credu fy mod i'n gwneud cam â'r Athro Lewis drwy eu crynhoi hwy fel yr uchod. Crybwyllaf hwy am eu bod yn ymylu ar y materion yr wyt ti wedi eu codi. Mae'r gosodiadau dadansoddol hyn, rwy'n teimlo, yn gwbl gywir, er bod y casgliad a wneir ohonynt braidd yn ysgubol, ac ni allaf namyn credu fod yr Athro'n rhoddi llawer gormod o glod i gelfyddyd rhagor y ffyrdd eraill o gymuno â Duw o'u herwydd hwy. Dyry, fel y gwnei di, lawer gormod o bwyslais ar yr 'undod organaidd' ar draul yr amrywiaeth.

Un ffordd o gymuno'n gymdeithasol yw celfyddyd, ac ym mhob cymuno cymdeithasol y mae modd adnabod Duw Tri-yn-Un, am y rheswm plaen fod meddwl Duw'n holl-bresennol. Y mae llawer mynegiant personol neu gymdeithasol yr un mor gymhleth ac yn cynnwys elfennau digon tebyg i rai celfyddyd uchod: hynny yw, adlewyrchir yr elfennau hynny mewn amryw gylchoedd cymdeithasol heblaw celfyddyd. Pe bai gan gelfyddyd ryw Berffeithrwydd neilltuol sydd heb fod gan ddim byd arall, fe fyddwn i'n barod i weld llwybr arbennig anffaeledig drwyddi. Eithr nid Perffaith mohoni byth, er bod ganddi 'undod organaidd'; a chan fod undod organaidd, sef 'undod na ellir ei ddeall yn nhermau'r rhannau ar wahân i'w gilydd', yn beth digon cyffredin yn y cyfanfyd (megis nodweddion duwiol eraill) – onid ydym yn gytûn ar hynny? – yna, rwy'n credu fod modd amgyffred Duw mewn llawer o brofiadau eraill cyn hawsed â thrwy gelfyddyd. Gallwn enwi serch, cyfeillgarwch, profedigaeth, colled – heb sôn am brofiadau mwy 'crefyddol' – fel cyfryngau sy'n dwyn ymwybyddiaeth o 'fyd' y tu hwnt i'r byd hwn yn y modd y gwna celfyddyd. Nid y creedig yw'r Creawdwr. Beth feddyli di?

Cofion,
Bobi

*[Sylwadau Diweddar Adran III*

*Mae Hywel D. Lewis, a'r parhad yn nhraethiad Pennar yn y llythyr diwethaf wedi codi cwestiwn 'Cyfriniaeth' mewn llenyddiaeth. Tueddaf eto, yn y cyferbyniad hwn, i ochri gyda Pennar. Ond ar y pryd, ni wyddwn ac ni allwn ddychmygu y buaswn i byth yn cael cyfle eto, maes o law, i ailfeddwl yn llawnach a diffinio yn gliriach, ac i fwrw golwg dros y ffyrdd gwahanol o ddefnyddio'r gair. Eto'n wir, ymhellach ymlaen fe gododd y cyfle, yn ddiweddarach o lawer, i drafod amrywiol weddau ar y gair, yn* Cyfriniaeth Gymraeg *ac* Ysbryd y Cwlwm.

*O ran ail-ymweld â barddoniaeth Pennar yn y blynyddoedd ar ôl 1954, cefais gyfle drachefn i draethu fy ngwerthfawrogiad cynnes o'i farddoniaeth yntau ym mhennod 24 yn* Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972 (*1975*) *ac mewn ysgrif yn* Y Patrwm Amryliw, *cyfrol 1, gol. Robert Rhys,1997.]*

* * *

ADRAN IV

Aberhonddu
Ionawr 2, 1954

Annwyl Bobi,

Blwyddyn newydd weithgar iti – fel arfer.

Rwyt ti'n mynd ar ôl pwnc go fawr, ac ynghanol diwedd y tymor a miri'r Nadolig nid wyf wedi cael amser i lunio ateb digonol.

Mae'n amlwg ein bod ni'n agos iawn i'n gilydd yn yr hanfodion – a chysur nid bychan yw hynny i mi. Gwasanaethu Duw ynteu gwasanaethu Mamon – dyna hi i'r dim. Ac nid yw rheidrwydd y dewis yn peidio â bod pan ymgymero dyn â gwaith celfyddyd.

Nid yw pob llenyddiaeth deilwng ond helaethiad ar ein dealltwriaeth o Air Duw, y llenor Goruchaf. Yn y dechreuad yr oedd y Gair, ac o'r 'Bydded Goleuni,' a gychwynnodd y greadigaeth hyd at yr Amen olaf a fydd yn cloi hanes, bendith fwyaf creaduriaid yw traethu Ei fawl. Mae'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd yn mynnu mynegiant hefyd ymhob llith a llên.

Celfyddyd, felly, er mwyn Duw.

Mae'r llef am 'Gelfyddyd er mwyn Celfyddyd' yn iach, fel y taeri, os ychwanegir mai'r eiddo Duw yw pob celfyddyd, ond defnyddiwyd yr arwyddair yn rhy aml i ymysgwyd rhag cyfrifoldeb moesol y celfyddydwr. Gwych yw rhoi celfyddyd uwchlaw pob confensiwn annheilwng, ond pitw o beth yw ceisio gwacáu celfyddyd o bob arwyddocâd moesol. Roedd yn well gan D.H. Lawrence ddweud 'Celfyddyd er fy mwyn i'. Popeth yn dda eto, ond cydnabod y 'Myfi Yw' a roes fod i bob myfi arall. Pan ddechreuais i farddoniaeth o ddifri 'Celfyddyd er mwyn Bywyd' oedd fy egwyddor – cyn imi ddeall yn iawn mai ofer siarad am Fywyd heb adnabod y Byw sydd yn Dad ac yn Fam i bob bywyd. Amlwg yw dy fod di'n synio'r un fath er, hwyrach, y byddet yn mynegi'r peth yn wahanol.

Y mae dau fater arall yn dy lythyr, sef pynciau barddoniaeth a dysgeidiaeth Hywel D. Lewis. Dyma air am y cyntaf ar hyn o bryd. Cydwelaf â thi, wrth reswm, fod gwahaniaeth mawr o ran gwerth rhwng dy chweched còg, dyweder, a chwilen ddu a dyn. Yn y tri-degau, pryd yr oedd comiwnyddiaeth yn ffasiynol ymhlith y beirdd Saesneg ieuainc, fe sgrifennai Stephen Spender gân i awgrymu mai diben uchaf dyn oedd cael bod yn ddant olwyn mewn peiriant, ac wrth gwrs y mae

'Creadur' [pryddest Harri Gwynn] yn ymylu ar yr athrawiaeth nad oes wahaniaethu rhwng gwerth dyn a chwilen ddu. Dinistrio pob gwerth yw dweud pethau fel y rhain.

Hyfryd gennyf dy weld di'n dyfynnu'r geiriau 'Onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy?' – y mae tipyn mwy o 'ddyneiddiaeth' yn Iesu o Nasareth, Mab Duw, nag yn Karl Barth! – canys mae'r peth yn hynod bwysig; mae'n dangos nad diystyr a diamcan yw helynt dyn ar y ddaear ond rhywbeth perthnasol iawn i bwrpas y Bod Mawr. Yn gnawd dyn gwnaethpwyd y Gair, wedi'r cyfan, nid yn gnawd chwilen.

Ond nid yw hyn yn golygu y dylid alltudio'r chwilen neu'r còg o fyd y bardd. Daliaf o hyd fod lle i bopeth mewn barddoniaeth fel yn y greadigaeth, ac y gall bardd gael ei ysgogi i farddoni'n fawr gan y pethau distadlaf ac erchyllaf. Trwy ba resymeg arallfydol y gall bardd ganu serch ac osgoi rhyw? Neu foli'r Ymgnawdoliad ac ystyried ffeithiau beunyddiol y cnawd yn annheilwng o'i gân?

Teimlaf rym y ddadl am y graddau o werth sydd yng ngwrthrychau'r cyfanfyd ac yn ein profiad, a gwelaf fod yn rhaid imi ddewis fy ngeiriau'n fwy gofalus wrth fynegi fy marn. Y gwir yw mai un pwnc hanfodol sydd yn y pen draw – yr 'Iddo Ef' dragwyddol, unig gân nefoedd a daear. Ond gellir ei hadleisio mewn llawer dull a modd, a gwn yn fy nghalon fod cân fawr J. Gwynn Griffiths am y syffilitig yn y stryd yng Nghaerdydd yn cyrraedd yr orsedd yn gynt na dim byd a ysgrifennwyd, dyweder, gan Iolo Caernarfon.

Ond dyna ddigon ar y pen yna. Gadawaf Hywel Lewis tan y llythyr nesaf.

Gair, cyn mynd i'r gwely, am Ddylan Thomas. Dy farn di, mae arnaf ofn sy'n iawn. Wrth ddarllen ei *Map of Love* flynyddoedd yn ôl teimlais – er gwaethaf y coegni a welir yn y gyfrol – ei fod yn chwilio am Nod; a cheisiais wneud y Nod yn eglurach iddo. Ond yr oedd yn ddewisach ganddo ennill cyhoeddusrwydd trwy stranciau ac ystumiau ac ambell symudiad am y pethau 'elemental'. Bu'n hynod lwcus – ac yn ofalus hefyd i beidio â chefnogi unrhyw achos neu herio unrhyw ormes. Mae ei lwyddiant yn eglureb drawiadol ar lygredd y chwaeth gyhoeddus yn Lloegr a dilynwyr chwaeth Lloegr. Ond mewn oes sydd yn rhoi cymaint o fri i ŵr mor wag â'r bondigrybwyll Gilbert Harding (ac eraill tebyg iddo, rhai ohonynt o Gymru Fach), pa ryfedd os yw Dylan Thomas wedi ennill y clod, gan rai, o fod yn ddwysach na Blake ac yn ardderchocach na Keats? Y mae colled ar ei ôl, er hynny, fel difyrrydd.

Rho air i'm llonni tra bwyf yn cael gwynt i ateb dy sylwadau gwerthfawr ar Hywel Lewis.

Hedd.

PENNAR

Llanidloes

Ionawr 6, 1954

Annwyl Pennar,

A blwyddyn newydd dda i tithau. Yr oeddwn i am dy ddenu i draethu dy farn am berthynas crefydd a llên am fy mod yn teimlo na allai neb yng Nghymru ei wneud â mwy o brofiad yn y ddau faes (os gallwn eu galw'n feysydd) na thithau. Gwych y crynhoaist y pwyntiau sylfaenol.

Un peth yr hoffwn ei ddweud, serch hynny, cyn i ti drafod dysgeidiaeth Hywel D. Lewis. Arwyddocâd crefyddol, da neu ddrwg, sydd i bob lenyddiaeth; ond ni raid i'r arwyddocâd hwnnw fod yn ymwybodol. Gwelaist dy ffolineb gynt (os caf ei roi felly) o greu arwyddair 'Celfyddyd er mwyn Bywyd', ond credaf mai ffolineb hefyd fyddai cael arwyddair 'Celfyddyd er mwyn Duw', yn uniongyrchol felly, neu unrhyw arwyddair arall fel amod llenydda. A chydnabod mai gwiw fyddai i lenorion fod yn Gristnogol, rwy'n teimlo y gellid briwo'r gynneddf lenyddol pe mynnid taeru y dylai llenor gadw'r nod yna o flaen ei olwg yn barhaus. Dyma'r lle y daw'r gwirionedd 'Celfyddyd er mwyn Celfyddyd' i'r golwg. Fel carwriaeth, ni raid i 'greu llenyddiaeth' fod yn ymwybodol o'i bwrpas. A phuteiniaeth i feirniadaeth lenyddol yw ponsio efo'r pwrpas yng nghanol y dasg o greu harddwch neu hapusrwydd. Mae'r gymhariaeth hon â 'charwriaeth' yn f'atgoffa i am 'Gân Serch Methodus' a glywais ers talwm. (Ai dychmygol yw fy nhyb mai Iolo Caernarfon oedd yr awdur?):

Yr wyt yn hyll yn cerdded strydoedd
Fel hen geffyl o flaen ei gert,
Yn drwm dy fynwes, yn dew dy fola;
Ond Ew! Mae gennyt enaid pert.

Di-siâp dy goesau, hir dy glustiau;
Fel rhai garddwr dy ddwy law.
Gwael wyt i'r byd hwn sbo, ond byddi
Fel Rita Hayworth yr ochor draw.

Nid wyf yn siŵr fod yr ergyd yn hollol ar y marc, ond deelli fy mwriad. Dyma'r lle wyf yn gwrthod sefyll yng ngharfan y propagandwyr Cristionogol bondigrybwyll er fy mod yn Gristion, ac yn gwrthod cymodi â charfan y 'paganwyr' celfydd er fy mod yn caru celfyddyd.

Yn bur,

BOBI

*[Sylwadau Diweddar Adran IV*

*Dyma'r Adran fwyaf pwysig yn y ddadl oll. Yn wir, erbyn cyrraedd y pargraff olaf, y mae Pennar ei hun yn gwybod ei fod wedi dweud rhywbeth tra arwyddocaol ar Dachwedd 23. Mae ef yn ymfalchïo, a dyna'r pryd y casglodd yn ddiau ei bod yn angenrheidiol iddo derfynu'r ddadl. Fel yr oedd pethau y pryd hwnnw, tybiai'i fod hefyd wedi gwneud casgliadau helpfawr dros ben i lenorion eraill. Ac roeddwn innau'n cytuno â bron y cwbl o'r hyn a draethai.*

*Ond arhosai un mater anghytûn, ym mryd Pennar. I bob pwrpas gwna'r dyfarniad tua'r canol: 'Dy duedd di, Bobi, – neu a ydwyf yn anghyfiawn? – yw melltithio'r ddau ateb i'r cwestiwn i – a 'chilio o'r gad'. Mae ef yn esbonio dwy ochr – ei safbwynt ef a Gwyn Griffiths ar y naill ochr a safbwynt Saunders Lewis ar y llall; ac yn fy nghyhuddo i o guddio fy mhen yn y tywod, drwy eistedd ar y ffens.*

*Y gwir yw y bysai'n well pe bawn wedi medru cilio o'r gad ynghynt. Methais â gwneud hynny erioed, er mawr ddrwg i mi fy hun. Es i o gad i gad.*

*Eto, roedd y gwir gytundeb yn dechrau ymamlygu'n drawiadol rhyngddo fe a fi. Os oedd cymaint o gytundeb yn y llythyr Tachwedd 23, ble roedd y tramgwydd?*

*Credaf fod y casgliad yn gwbl gywir fod awdur yn 'ddysgawdr' er ei waethaf. Ond yr hyn yn union a gefnogai Pennar yn benodol oedd bod hwnnw'n dysgu safbwynt Pennar a Gwyn. Nid cilio o'r gad yw cytuno ar hynny, gobeithio.*

*Sut yn y byd y gellid croesawu serch fel testun cân ac ar yr un pryd ymwrthod â 'rhyw'? Dyna gan Pennar oedd angen ei ddangos – sut y gellid derbyn cariad a 'rhyw'. Doedd dim ymwrthod â 'rhyw'. Yr hyn yr ymwrthodid ag ef oedd 'rhyw amddifad' – rhyw heb gariad, heb ymostyngiad, heb garedigrwydd, heb yr elfen ysbrydol – y serch anghyfan adolesent.*

*Yn f'ateb i wedyn ar Dachwedd 25, mae'r sylwadau wnes i ar y pryd am Ddylan bellach yn cael eu gwrthod gennyf heddiw – gyda threigl y blynyddoedd, – ond am nifer o gerddi na lwyddais eto i'w mawrygu. Credaf bellach fod Dylan yn llawer nes at y safonau tybiedig a arddelwn i nag y credwn ar y pryd. (Roeddwn yn dal i fod yn wrthwynebus i'w berfformio-adrodd). Ac ar Dachwedd 26, symudodd y ddadl yn fwy i gyfeiriad perthynas Duw a llenyddiaeth. Dyma fater a oedd ym meddwl Pennar a minnau drwy gydol y ddadl. Ond o hyn ymlaen, sylweddolwyd bod hynny'n faes mor enfawr fel y byddai'n rhaid maes o law i ni'n dau edrych ar hynny'n llawer trylwyrach.*

*Gair pellach ynghylch Dylan. Credaf heddiw fod Dylan yn well bardd nag y mae ffasiynau Lloegr bellach yn medru synied ei fod. Hyd yn oed yn y gyfrol gyntaf* 18 Poems, *roedd posibiliadau Dylan yn eglur ddigon. Dw i'n gweld dwy gerdd a oedd yn deilwng o'r Dylan aeddfed ''The force that through the green fuse' ac 'Especially when the October wind.' Erbyn* Twenty-five Poems *yr*

*oedd yna dair cerdd arall yn pefrio'n syfrdanol – 'This Bread I Break', 'The Hand that signed the Paper', 'And death shall have no dominion'. Cadwai* The Map of Love *yr un math o fedr achlysurol gyda 'When all my five and country senses'* a *'Once it was the colour of saying'. Roedd yna* penchant *tuag at arferion y traddodiad Cymraeg, gyda hoffter o eiriau cyfansawdd, y rheini'n cyferbynnu'n llym â geiriau unsill, chwarae ymadroddol (megis 'Once below a time'), a sangiadau, a'i hoffter o gytganau. Ond digwyddodd* Deaths and Entrances *iddo. A'r hyn a ddigwyddodd oedd yr Ail Ryfel Byd, a'r bomio ar blant a'r bobl gyffredin. Efallai mai ychydig o gerddi sy'n uniongyrchol am farwoldeb, ond hyd yn oed yn y cerddi heddwch cyferbyniol – fel 'Poem in October', 'The hunchback in the park', 'There was a Saviour', 'In my craft or sullen art', a'r enwog 'Fern Hill' mae yna wydnhau ac ymwybod o ddarfodoldeb a marwolaeth, sydd wedi newid rhywfaint oherwydd y profiad newydd yn Llundain ac yn Abertawe. Roedd Dylan wedi cyrraedd uchafbwynt ei gelfyddyd. Ac arhosodd gyda'r uchafbwynt hwnnw mewn tair cerdd (wedi marwolaeth ei dad) yn* In Country Sleep – *'Over Sir John's hill', 'Do not go gentle into that good night,' (ei gerdd enwocaf); ac 'Elegy' wedyn.*

*Beth bynnag am yr osgo i geisio creu argraff, ynghudd ym mhlygion ei fywyd ymgartrefai'r awen yn drist o lawen.*

*Pan sgrifennai'r beirniad Robin Mayhead yn* Scrutiny *yn 1952, rhoddodd sylw manwl ac ystyriol, gellid meddwl, i'r* Collected Poems, 1934-1952. *Ond y gorau y gallai'i ddweud oedd: 'the rhythmic flaccidity, the somewhat spineless and irritating repetition of "and" with the consequent blurring of one image into another extraneous effect of "hand folded"...the wilderness of images. Failing to cohere, to build up together into any kind of overall, unified pattern, the consequent failure to make any forceful or even challenging impact.' Dywedai hyn fwy am feirniadaeth Saesneg a barddoniaeth Saesneg ar y pryd nag am waith Dylan. Y gwir yw, hyd yn oed pan fethai Dylan yn enbyd, ni wnâi hynny oherwydd diffyg patrwm nac anundod cyfanwaith. A bydd y Dylan hwnnw'n goroesi llu o'i gyfoedion.*

ADRAN V

Aberhonddu,
9 Ionawr, 1954

Annwyl Bobi,

Rhyw Fardd Newydd Newydd sy'n gyfrifol am y darn yna, mae'n debyg. Mae rhai ohonom yn gobeithio y rhoddir inni'r ochr draw lygaid gwell i weld y gwir brydferthwch sydd mewn bol a fo'n dewach nag eiddo'r Perseus sydd i'w weld yn yr Amgueddfa Genedlaethol.

Ffaeledig ac annigonol yw pob slogan – fel pob cred – ac nid wyf yn cynnig yr arwyddair

'Celfyddyd er mwyn Duw' ond fel rhyw law-fer i arwyddo ffydd sydd yn ddyfnach ac yn lletach na geiriau. Teimlaf fy mod yn gymrawd i lawer o artistiaid a fydda'n methu deall yr arwyddair ond a roes inni, er hynny, weithiau o wir gelfyddyd.

Mae'n amlwg dy fod di wedi cael blas ar lyfr Hywel Lewis, *Gwybod am Dduw,* ac yn wir y mae'n llyfr mawr ei werth at ei gilydd, y gwaith gorau a gynhyrchodd y meddyliwr galluog hwn hyd yn hyn. Mae'n cyffwrdd â llawer gwedd ar bwnc enfawr, ac yn afaelgar bob amser, gyda sylw ar yr ymrysonau cyfoes. A rhywsut y mae diddordeb dyn yn cynyddu o bennod i bennod.

Un pwynt yn unig a gymeraf yn awr. Fel y nodaist, mae Hywel Lewis yn rhoi i gelfyddyd bwysigrwydd canolog fel allwedd i wir ddealltwriaeth o'n profiad o Dduw. Mae celfyddyd, medd ef, yn 'ddirgelwch yn union i'r graddau y mae hefyd yn ddadleniad o wirionedd', ac yn hyn y mae'n debyg i 'grefydd'.

Onid wyf yn dy gamddeall yr wyt ti'n methu gweld sut y mae celfyddyd yn hyn o beth yn wahanol i gylchoedd eraill o brofiad, ac yr wyf i yn yr un tywyllwch â thithau. Ieuir dirgelwch a dadleniad nid yn unig mewn celfyddyd ond yn holl ymdrechion ac ebyrth a rhyfeddodau bywyd.

Y mae'r llygad noeth yn erfyn hylaw i ddysgu am gyfanfyd o ryfeddodau, ac nid yw'r telescôp a'r meicroscôp ond yn rhoi inni gipolwg ehangach a manylach. Onid yw hanes y creaduriaid – mae'r llysywen ac iâr fach yr haf yn enghreifftiau hylaw – yn rhoi inni ymdeimlad o ddieithrwch a gweledigaeth?

I mi y mae rhywfaint o'r un gogoniant i'w gael yn nirgelion rhifyddiaeth a mesuroniaeth ag mewn rhai o symffonïau Haydn neu orchestion Dafydd Nanmor, ac y mae'n rhaid inni gyfaddef fod syllu ar y daflen beriodig mewn llyfr cemeg yn codi cynnwrf yn fy mron.

A oes rhywbeth mewn celfyddyd nad ydyw i'w gael mewn bywyd? Cefais y profiad mawr y mae Aristoteles yn sôn amdano wrth draethu ar drasiedi – y buredigaeth – nid yn unig o weld drama ond o glywed am fam-gath yn mentro i mewn i dŷ ar dân i achub ei chath fach neu am wladgarwr yn wynebu gwawd ac erledigaeth ac angau er mwyn ei genedl.

Beth y mae celfyddyd yn ei wneud ond crynhoi bywyd neu agweddau ar fywyd o fewn y patrwm a benderfynir gan yr artist a'i gyfrwng?

Hyd yma credaf fy mod i'n ceisio mynegi mewn ffordd arall yr egwyddor a honnwyd gennyt ti – bod serch a chyfeillgarwch a phrofedigaeth colled yn ogystal â phrofiadau mwy 'crefyddol' yn dwyn ymwybyddiaeth o 'fyd' y tu hwnt i'r byd hwn. Ond credaf fod gan Hywel Lewis reswm arbennig am roi pwyslais ar gelfyddyd. Mewn celfyddyd y mae'r ddawn ymdeimlo â dirgelwch a dadleniad yn cael mynegiant ffurfiol. Sylwn fod Hywel Lewis yn gweld celfyddyd yn llawer mwy allweddol na gwyddoniaeth. Mae'n ceisio dweud rhywbeth pwysig yn y fan hon. Cofiaf fod Wordsworth wedi dweud nad gwyddoniaeth yw'r gwrthwyneb i farddoniaeth. Gellir egluro'r

gwrthwynebiad trwy wrthgyferbynnu cerdd Wordsworth am y cennin Pedr â llyfr llysieueg. Y mae'r bardd yn ymdeimlo ac yn cydymdeimlo, yn anwylo, yn chwarae, yn myfyrio, yn rhyfeddu. Dosbarthu a wna'r gwyddonydd, arbrofi, dadansoddi, dadelfennu. (Mae awgrym o'r gwrthgyferbyniad ym 'Melltith Taliesin' yn *Cerddi Cadwgan.*) Y mae angen y ddwy ddawn ac y mae'r ddwy i'w cael ymhob dyn, i ryw fesur. Rhaid cadw'r cydbwysedd rhwng y ddawn ymdeimlo â'r ddawn ddadelfennu – a'r ddawn ansoddol (os caf fathu gair) a'r ddawn ddadansoddol.

Y pwynt yr wyt ti a minnau'n gytûn arno, mi gredaf, yw bod y ddawn ansoddol yma'n gweithredu nid yn unig mewn celfyddyd ond ym mhrofiadau bywyd yn gyffredinol. Dyma'r ddawn i amgyffred gwrthrych neu amgylchiad yn ei gyfanrwydd, ac y mae'n gwbl angenrheidiol i gael deall y mymryn lleiaf o ystyr bywyd y bydysawd.

A ydym yn gytûn hyd yn hyn?

PENNAR

Llanidloes
Hen Ddydd Calan

Annwyl Pennar,

Rŷm ni'n dau yn gytûn felly nad yw'r Athro Hywel Lewis ddim yn iawn pan hawlia fod arbenigrwydd mewn celfyddyd, yn unig am ei bod hi'n ffynnu ar ddieithrwch, hynny yw am ei bod hi'n ddirgelwch ac eto'n wirionedd; a chredwn ninnau fod profiadau eraill lawer o'r un fath. Ychwanegi dithau at ddadl aflwyddiannus yr Athro: 'Ond credaf fod gan Hywel Lewis reswm arbennig am roi pwyslais ar gelfyddyd. Mewn celfyddyd y mae'r ddawn ymdeimlo â dirgelwch a dadleniad yn cael mynegiant ffurfiol.'

Ni ddywedi di, felly: 'mynegi'r dirgelwch a'r gwirionedd yw arbenigrwydd celfyddyd.' Mae'r mynyddoedd a'r dyffrynnoedd hwythau yn cyhoeddi'r rhyfeddodau hyn o wawr i fachlud ac o dragywydd i dragywydd: llawer o weision Duw sy'n mynegi wrthym beunydd, yn ffurfiol ac yn gelfydd yn ôl patrwm gwyddonol y Creawdwr ba beth yw'r gwirionedd a'r dirgelwch. Yr hyn a ddywedi di, sut bynnag, yw bod dyn yn gallu mynegi ei *ymdeimlad* â'r pethau hyn drwy Gelfyddyd, ei fod yn cael mewn Celfyddyd le i roi ffurf ar ei adwaith iddynt oll.

Diau dy fod yn iawn: nodwedd celfyddyd wrth gwrs – megis gwyddoniaeth – yw mynegiant ffurfiol. Ond ni phrofaist fod ynddi ddirgelwch nas ceir bron ym mhob man arall.

Hei ati wedyn i ddilyn gwrthgyferbyniad Hywel Lewis rhwng celfyddyd a gwyddoniaeth, gwrthgyferbyniad a ymddengys yn amlwg iawn bellach yn ein cyfundrefn addysg ac yn destun bytholwyrdd llawer trafodaeth mewn ystafelloedd athrawon. Ni welaf i fod y gwahaniaeth yn amlwg o gwbl. Annheg yw dy wrthgyferbyniad di rhwng cerdd am gennin Pedr a disgrifiad

gwyddonol amdanynt; byddai'n rheitiach petaet wedi rhoi 'cynnwys' llyfr o gerddi fel enghraifft o gelfyddyd i wrthgyferbynnu â'r llall yna, canys nid teg yw'r 'disgrifiad' a nodaist fel enghraifft o ysbryd gwyddoniaeth. Pan geir gwyddonydd mawr yn chwilio am Wirionedd ac yn treiddio i'r dieithrwch, ni all ei ddarganfyddiadau ef namyn bod mor rhyfeddol â rhai bardd; dadlennu rhan o'r un hud y maent. Ai gwyddonydd ynteu celfydd oedd Platon? A beth am Leonardo da Vinci yntau?

Ffynnu ar eglurder y mae'r ddwy, Gwyddoniaeth a Chelfyddyd, ffynnu ar gywirdeb ac ar wirionedd tragwyddol, er y gallant ymddangos yn arwynebol wahanol a gallant ill dwy gydnabod dirgelwch y Pwrpas Mawr. Ymddengys Dafydd ap Gwilym yng nghywydd y Biogen a T. H. Parry-Williams yn 'Llyn y Gadair' fel petaent yn chwalu lledrith, yn yr un modd ag y mae Isaac Newton yn ei ddeddfau gwyddonol; ond darparu hud a wna'r beirdd a'r gwyddonydd, mewn gwirionedd. 'Chwaeth ac adwaith personol, dynol yw'r hyn a geir mewn Celfyddyd ac nas ceir mewn Gwyddoniaeth' ond nid yw'r rhain er eu pwysiced mor uchel â'r ffeithiau tragwyddol, uwch-naturiol a ddargenfydd y ddwy. Mae mwy nag un drws. A chredaf innau fod cymaint o gysylltiad rhwng crefydd a gwybodaeth resymegol ag sydd rhwng crefydd a gwybodaeth estheteg.

Beth bynnag, tra balch oeddwn i gael dy farn yn gryno ar y mater hwn.

Os wyt ti'n cofio, dau brif beth oedd wedi codi'n naturiol allan o'n sylwadau ni ar *Cerddi Cadwgan.* Y cyntaf oedd busnes y propaganda, yn bennaf y llenyddiaeth Gristionogol oedd ynddi; ac fe aethom i drafod perthynas Crist a Llên. Arllwysais i fy nghwd ar y wedd gyntaf hon: os oes gennyt ti ragor i'w ddweud ar y pen, gorau i gyd.

Minnau, rwyf am droi at y mater arall, sef diffyg Cymreictod ein llenyddiaeth gyfoes. Mae hyn yn destun cyffredin erbyn hyn, yn bwnc llosg gan bob beirniad bol clawdd yn ogystal â chan yr hoelion wyth. Sylwodd Mr Saunders Lewis arno yn ei adolygiad ar *Cerddi Cadwgan,* ac y mae wedi ymhelaethu yn ei adolygiadau ar bryddestau Kitchener Davies a Dyfnallt Morgan.

Y mae'n wir fod ein llenyddiaeth yn cael ei dad-gymreigio fel y dad-seisnigir llenyddiaeth Saesneg: ac nid yw *Cerddi Cadwgan* yn ddifefl yn y cyfeiriad hwn fel y sylwyd eisoes. Nid wyf yn credu fod sylwadau Saunders Lewis yn ddadansoddiad mor gywir o'r adwyth ag a ddisgwyliwn ganddo. Er enghraifft, nid yw 'bod yn ddogfen' o bwys yn y byd. Yr ydym ni i gyd, drueiniaid, yn ddogfennau'n fawr neu'n fach; yr oedd Dilys Cadwaladr yn ddogfen hanesyddol – anymwybodol bid siŵr – ond mor gyfoes-Gymreig â gweithiau Margam, Bob Owen neu'r *Western Mail* a Sain Ffagan.

Mae pryddest Dyfnallt Morgan, wrth gwrs, yn ddisgrifiad mwy cymdeithasol amlwg ac yn fwy diriaethol na phryddest Dilys Cadwaladr. Ond ni welaf fod ynddi weledigaeth wahanol i'r hyn a geir mewn llawer o gerddi dychan, storïau byrion, ac ambell gerdd awenyddol fawr gan Gwenallt neu T. Glynne Davies – y weledigaeth arferol (yr hen geffyl diogel) am fywyd Cymru'n darfod. Nid

yw'r weledigaeth hon ynddi ei hun yn gyfraniad.

Beth yw rhinwedd arbennig y bryddest hon te? Sbort go iawn oedd cael pryddest mewn tafodiaith, yn bendifaddau, ond nid yw hynny'n rhinwedd ond cyn belled ag y mae'n gywir i'r thema. Dyma'r prif arbenigrwydd: 'Y mae onestrwydd dwfn a gwrthod pob temtasiwn i ymroi i retoreg a barddoneiddio yn rhinweddau a anghofiwyd mewn pryddestau Cymraeg. Dyma gerdd sy'n rhydd o holl gastiau'r beirddiach, ac ni cheir un ansoddair o flaen enw na dim ymchwyddo.' Cywir yw'r feirniadaeth hon ar y bryddest ei hun yn ogystal ag ar retoreg wneud y pryddestau Cymraeg yn gyffredinol, ac amheuthun fyddai cael astudiaeth fanylach, lai cyffredinol o hyn. Eithr ar wahân i'r 'onestrwydd', mae'r datganiad hwn yn gwbl negyddol a gellid ei ddweud am ambell un o'n Sosialwyr Cymreig neu am wal.

Y gwir yw bod Saunders Lewis yn golygu dau beth pan sonia am Gymreictod. Yn gyntaf, mae'n golygu'r gymdeithas fyw yng Nghymru, yn ei holl amhurdeb a'i holl lygredd – ac ni bu'n bur nac yn rhydd o lygredd erioed. Dyna wir Gymreictod – anghanmoladwy neu beidio: y gymdeithas Gymreig, ddiriaethol, gyfoes, o'n cwmpas ni, cymdeithas y mae Iorwerth Thomas ac R. Williams Parry yn rhannau mor naturiol ohoni, y gymdeithas sy'n ymseisnigo'n raddol ac yn difa'i gwreiddiau. Ni ellir dianc rhag hon.

Yn ail, y mae'n golygu'r traddodiad Cymreig ar ei orau, ar ei gyfoethocaf. Heddiw fe welir ein llenyddiaeth, fel ein cymdeithas, yn colli ei chymeriad yn yr un modd ag y mae llenyddiaeth Saesneg yn colli ei chymeriad hithau ac am yr un rhesymau. Nid yr iaith Saesneg na'r traddodiadau Saesneg yw gelyn Cymru, ond y gelyn mewnol, y colli egwyddorion, y diffyg diddordeb, y diwylliant musgrell mewnol. Os oes rhaid enwi dylanwadau allanol, y tebyg yw mai'r unffurfiaeth gosmopolitaidd a'r materoldeb cymdeithasol sydd wedi gwenwyno'r awyrgylch fwyaf fel na allo traddodiad flodeuo ac ymledu: y mae'r traddodiad yn anadlu awyr eglur tir glas, a'r haniaethu allanol yn anadlu awyr bwdr tir llwyd... Lladdant hwythau fywyd iaith ac ireidd-dra diwylliant; a thraddodiad haniaethol yw'r peth dynol hwnnw sy'n gallu eu difrodi.

Camp Dyfnallt Morgan a'i Gymreictod ef yw iddo gyfuno'r ddau beth hyn, traddodiad a'r gymdeithas gyfoes. Tebyg yw na all neb heddiw fod yn Gymro diwylliedig, yn wir tebyg na all neb fod yn ddiwylliedig mewn unrhyw wlad, heb fod yn ymwybodol o hynny. Delfrydiaeth anymarferol yw i ni ddymuno creu llenyddiaeth Gymraeg Gymreig heb sylweddoli ein bod yn rhan o frwydr. Amhosibl yw 'bod yn Gymreig' a llenydda heb synhwyro'r argyfwng cenedaethol. Nid wyf yn credu, bid siŵr, fod rhaid i lenyddiaeth fod mor gymdeithasol â phryddest Dyfnallt Morgan; ond ni all y llenor difrif, normal a'i cynhyrcho heddiw namyn sylweddoli ei fod yn rhan o gymdeithas mewn trybini. Dyma nodwedd sylfaenol ein llên.

Serch hynny, y mae beirdd mwyaf diawen Cymru heddiw, Cymreig neu beidio, mor

ddiwerth â beirdd mwyaf diawen Cymru yn y drydedd ganrif ar ddeg, er yn wahanol. A chamgymeriad fyddai i neb ddyrchafu 'bod yn Gymreig' fel rhinwedd llenyddol safonol. Gall fod yn rhinwedd dros dro, yn ddylanwad ar y pryd. Gall y llenorion distadlaf fod yn gymorth, drwy sythweliad neu weledigaeth graff o sefyllfa ar angen ein llenyddiaeth, i adfer iechyd i'r traddodiad. Ond ni wnânt hwy namyn llyfu gruddiau'r broblem. Bod yn ddynol, i ni, yw bod yn Gymry.

Trafod iaith yw tasg llenorion. Yr unig adferiad pendant i lenyddiaeth gwlad yw llenorion 'mawr' y gorffennol, y presennol a'r dyfodol: nid damcaniaeth, nid newydd-deb, nid beirniadaeth gymdeithasol, nid neges, nid bod yn fodern nac yn hen-ffasiwn, ond eneidiau 'mawr' yn medru dulliau celfyddyd.

Nid wyf am draethu dim o'm barn lawn fy hun am bryddest Dyfnallt Morgan, er mai gwell gennyf hi o lawer nag eiddo Dilys Cadwaladr. Sylwadau Saunders Lewis a'm harweiniodd ati; a chredaf ei fod ef yn cyffwrdd ynddynt â man canol argyfwng Ewrob yr ydym oll yn rhan ohono. Canys penderfynu dyfodol Cymreictod yw penderfynu diwylliant Ewrob. Dyma'r pridd y tyfir diwylliant ynddo, a phan wenwynir hwnnw, fe ddechreuwn sylweddoli fel y mae'r peth elfennol, agos, cymryd-yn-ganiataol hwn yn hanfodol er mwyn ein tyfiant. Mor ddiddim fyddai holl odidowgrwydd y ddaear heb ddŵr: mor ddi-lun a diffrwyth ein meddyliau oll, heb iaith.

Yn bur,
BOBI

*[Sylwadau Diweddar Adran V*

*Mae yna deimlad cryf yn llythyr Pennar fod yna gyd-ddealltwriaeth annisgwyl wedi tyfu rhwng y dadleuwyr. Felly:*

*'Hyd yma, credaf fy mod i'n ceisio mynegi mewn ffordd arall yr egwyddor a honnwyd gennyt ti – bod serch a chyfeillgarwch a phrofedigaeth fwy 'crefyddol', yn dwyn ymwybyddiaeth o 'fyd' y tu hwnt i'r byd hwn... 'Y pwynt yr wyt ti a minnau'n gytûn arno...' 'A ydym yn gytûn hyd yn hyn...'*

*Ac felly daeth fy ateb, gan ddechrau: 'Annwyl Pennar, Rŷm ni'n dau'n gytûn...'*

*Dyma sefyllfa beryglus i ddadleuwyr heb flewyn ar eu tafod, ond cyfle i droi geiriau'n weithredoedd o bosib, gyda'r llythyr oddi wrth Pennar yn ein hysgogi ni'n dau.]*

ADRAN VI

Aberhonddu
22 Ionawr, 1954

Annwyl Bobi,

Gwelaf nad ydym yn poeri tân ar ein gilydd bellach, ac efallai fod ein gohebiaeth yn mynd

yn rhy dangnefeddus i barhau i gael lle mor amlwg ar dudalennau'r *Faner.* Gwell inni ddod â'r drafodaeth i ben cyn hir – ac ail-gychwyn yn nes ymlaen, pan gawn ni ein cynhyrfu i ffraeo eto. Mae hynny'n siŵr o ddigwydd.

Bûm i'n gwahaniaethu rhwng y ddawn 'ansoddol' a gaiff fynegiant i ymchwil wyddonol, ac yr wyt ti'n amau gwerth y gwahaniaethu hwn. (Oes, y mae hen air da 'ansoddi', ag amryw ystyron iddo, ond nid yr ystyr arbennig sydd gennym yma, hyd y gwn i. Hwyrach mai dyna reswm da am chwilio am air arall.) Yr wyt ti'n sôn am Blaton a Leonardo da Vinci fel dynion a oedd yn gelfyddydwyr ac yn wyddonwyr yr un pryd. Nid yw hyn yn profi na ellir gwahaniaethu rhwng y ddwy ddawn. Dywedais innau fod y ddwy ddawn i'w cael i ryw fesur ymhob dyn. Y ddawn ddadansoddol a alluogodd Kepler i olrhain ei ddeddfau am symudiadau'r planedau; y ddawn ansoddol a fu'n gyfrwng iddo weld ei fod yn meddwl meddyliau Duw ar ei ôl. Bu bron i Darwin sylweddoli cyn diwedd ei oes ei fod wedi gwanhau ei ddawn ansoddol trwy esgeulustod; gwnaeth orchestwaith â'i ddawn ddadansoddol.

Wrth gwrs, fel y dywedi, y 'ffeithiau' tragwyddol uwchnaturiol yw gwrthrych a sylfaen pob ymdeimlad â hwy a phob gwybodaeth amdanynt. Wrth sôn am y 'ddawn' hon a'r 'ddawn' arall nid wyf am awgrymu mai profiadau goddrychol dyn yw Duw a Christ ac Ysbryd, a dim byd arall. Perygl y ddiwinyddiaeth 'ramantaidd' – Schleiermacher a Herder – yw gwneud crefydd yn rhan o estheteg. Pwysig yw cofio tarddiad y gair 'dawn' a bod cysylltiadau mawr iddo yn y Gymraeg. 'Efe yw ffynnon fawr pob dawn', fel y sylwai Pantycelyn. Ond gwelaf holl feysydd diwinyddiaeth yn ymledu o'n blaen; a gwell ymatal.

Gyda llaw, cyn gadael Hywel Lewis, sylwaf ei fod yn uniaethu prydferthwch a gwirionedd. Dyma'i eiriau: 'credaf fod Keats yn llygad ei le pan ddywedodd fod prydferthwch yn un â gwirionedd'. Hen egwyddor yw hon, rhan o'r dull Platonaidd o ystyried y 'gwerthoedd.' Cyffyrddais â'r pwnc beth amser yn ôl mewn ysgrif yn y *Dysgedydd,* llith a roes gysur i ambell hen weinidog a garai ddyfynnu Browning ac a gododd wên nawddogol ar wyneb ambell athronydd academaidd. Nid yw'r athronwyr academaidd yn hoffi athronyddu defosiynol, ac y mae adwaith wedi bod yn erbyn pob sôn am brydferthwch, gwirionedd, a daioni fel shibolethau math o idealaeth. Ond derbyniaf yn ddigywilydd yr agwedd Blatonaidd yn y mater yma, a da gennym weld y gall Hywel Lewis wneud yr un fath.

Ond gan fy mod yn gwneud hyn, ni allaf wneud rhywbeth arall y mae Hywel Lewis yn dueddol i'w wneud sef gwerthfawrogi darn o farddoniaeth fel 'barddoniaeth' ac ar yr un pryd gwrthod ei 'ddysgeidiaeth'. Y mae enghraifft o hyn yn ei ddarlith 'On Poetic Truth' yn ei gyfrol Saesneg *Morals and Revelation.*

Dyfynna ddarn o Swinburne:

From too much love of living,
From hope and fear set free,
We thank with brief thanksgiving
Whatever gods may be
That no life lives for ever;
That dead men rise up never;
That even the weariest river
Winds somewhere safe to sea.'

Dyma ddarn sydd yn ymwybodol ymwrthod â phob athrawiaeth am anfarwoldeb ac atgyfodiad. Awgryma Hywel Lewis fod gwerth yn y darn, er mor gyfeiliornus, am fod y bardd yn 'ein galluogi ni i weld rhywbeth na allem ei weld fel arall'. 'Hiraeth anfeidrol' ('infinite yearning') yw hwn, ac y mae digon o hiraeth anfeidrol i'w gael gan feirdd fel Swinburne a Housman ac Omar – yr un hiraeth, – medd Hywel Lewis sydd i'w gael mewn emynau a cherddi crefyddol mawr.

Yr awgrym, felly, onid wyf yn camddehongli ein hathronydd, yw bod bardd yn gallu bod yn hollol gyfeiliornus yn ei 'ddysgeidiaeth' ond ar yr un pryd farddoni'n fawr trwy fynegi un o brofiadau mawr y ddynolryw, megis hiraeth. Ni theimlaf fod yr esboniad hwn yn ddigonol. Os yw prydferthwch a gwirionedd yn y pen draw yn un y mae'n rhaid bod gwerth barddonol yn y darn gan Swinburne yn cyfateb i ryw egwyddor ym myd Dirwedd, gan hynny y mae gau-ddysgeidiaeth Swinburne yn y fan hon yn gymysg â'r gwirionedd. Ac yn wir y mae gwirionedd yn y darn, a daioni moesol: y ddysgeidiaeth wir yw ei bod yn weddus inni wynebu angau a rhyw nerth a rhyw fodlonrwydd yn ein calonnau a bod gorffwys a diogelwch yn nod i'n bywyd –

'That even the weariest river
Winds somewhere safe to sea.'

geiriau sydd yn ddiystyr o safbwynt anffyddiaeth bur – tipyn o '*rara avis*', os caf i ddweud – geiriau sydd yn eu hyfrydwch yn gwrthddweud yr anwireddau anghrediniol a geir yn y darn. Cymysgedd o wir ac anwir yw'r darn; y gwirionedd biau'r gogoniant 'barddonol'.

Cododd yr un cwestiwn gan Wenallt ac Aneirin Talfan Davies, ac yn y drafodaeth rhyngddynt dyfynnwyd soned fawr Parry-Williams 'Dychwelyd': 'Ni all terfysgoedd daear byth gyffroi ...') – wyt ti wedi newid dy farn am Parry-Williams, gyda llaw? Yn y soned hon y mae tipyn o sôn am ddiddymdra a difodiant, ond ceir hiraeth cyffelyb i'r eiddo Swinburne:

'Ni wnawn wrth ffoi am byth o'n ffwdan ffôl,
Ond llithro i'r llonyddwch mawr yn ôl.'

Nid yw Gwenallt ac Aneirin Talfan yn cydweld yn hollol ar y pwnc, ond ymddengys bod y ddau'n gytûn bod y soned yn uchelryw er gwaethaf y ffaith nad ydyw'n traethu'r Gristionogaeth.

Dywedaf i, i'r gwrthwyneb, fod y soned yn fawr am ei bod yn disglair fynegi gwirionedd mawr sydd yn rhan o'r weledigaeth nefol a berthyn i gyfeillion Crist. Gwn fod haen o anghrediniaeth ac amheuaeth yn Parry-Williams; ond yn hon y mae wedi rhoi gogoniant i lonyddwch y Noddfa dragwyddol.

Dilynais gyda diddordeb anghyffredin rediad dy sylwadau ar Gymreictod a phryddest deilwng Dyfnallt Morgan. A chredaf fy mod yn cytuno hyd yn hyn. Byw mewn argyfwng rydym fel llenorion Cymreig – argyfwng ein cymdeithas a'n hiaith. Ni allwn ddianc rhag y baich. Credaf fod rhyw awydd wedi bod yn Williams Parry a Parry-Williams fel ei gilydd am gau'r argyfwng allan o'n hymwybod. Ond y mae'r ddau wedi cyfaddef nad ydynt wedi llwyddo'n llwyr ac nad oes dianc rhag Cymru. Ni allwn ddefnyddio Cymru ac elwa arni fel y gwnaeth y rhan fwyaf o'r 'Cymry Saesneg' llenorol – cymryd Cymru fel cefndir neu gyff gwawd neu ffynhonnell cyfeiriadau llenyddol neu ryw ddilledyn ffasiynol i ennill bri yn Llundain, Paris, a New York. Mae Cymru'n gofyn ein ffyddlondeb ni. Onid yw pryddest angerddol Kitchener Davies yn ddogfen fyw o'r peth?

Y cwestiwn yr wyf am ei godi'n awr yw hyn – cyn inni derfynu ein gohebiaeth gyhoeddus. Beth ddylem ni'r llenorion Cymraeg ei wneud wyneb yn wyneb â'r ffaith mai lleiafrif o'n cyd-genedl sy'n siarad ein hiaith a bod yn rhaid inni ennill y mwyafrif di-Gymraeg i ddeall a gwerthfawrogi ein hetifeddiaeth? Oni ddylem annerch y Cymry Saesneg yn yr unig iaith sydd ganddynt i gyflwyno gogoniant Cymru iddynt? Onid oes lle felly i lenyddiaeth Saesneg yng Nghymru yn yr argyfwng presennol i ysgrifau, cyfieithiadau, beirniadaethau a hyd yn oed nofelau a cherddi – nid i ddifyrru'r Saeson ac ennill gwobrau'r byd Saesneg ond i ddadlennu cyfoeth eu treftadaeth i'r Cymry eu hunain. Awgrymaf fod gwaith pwysig yma, a gwaith nad yw'r 'Anglo-Welsh' presennol yn ei wneud o gwbl. Beth yw dy farn?

Yn gu,

PENNAR

*[Sylwadau Diweddar Adran VI*

*Mae'r frawddeg olaf yn gwahodd ateb. Ac felly y rhes o gwestiynau cyn hynny. Ond erbyn hynny, fe wyddai Pennar yn burion beth oedd f'atebion, a bod yna gytundeb ar bob llaw.*

*Felly bu tawelwch. Ond heddiw rwy'n edrych yn ôl ar yr holl ddadl hon.*

*Rywfodd, rwy'n credu ei bod hi'n berthnasol o hyd, ac efallai'n fwy perthnasol mewn oes sy'n fwy ymwybodol nag erioed mai lleiafrif erlidiedig yw Cristnogaeth uniongred, a bod Seciwlariaeth yn ddogma anhunanfeirniadol goruchaf tost sy'n gallu bod yn ddylanwad mor isymwybodol drwm ar lenorion cyfoes.*

*Ymhlith y 'dadleuwyr' a fu'n pwyso dros f'ysgwydd i yn y casgliad hwn o Ysgrifau, Pennar*

*oedd yr enigma rhyddfrydol ddiwinyddol amlycaf a ddaeth yn agosaf ataf. Yn ei hunangofiant, y mae D. Ben Rees, yn sôn am brofiad a ddaeth iddo ef ei hun un tro, pryd y cafodd fod ei weddi ei hun wedi profi'n ddirgel o effeithiol; a chofiodd eiriau Pennar ynghylch effeithiolrwydd Gweddi:* 'Gweddïa nes bod y chwys yn llifo; dyna'r unig ffordd i achub enaid a chenedl a byd. Methu a wna pregethu nad yw'n tarddu o weddi ac yn ymollwng mewn gweddi. Ni fu Pentecost heb oruwchystafell.... Ymdrech yw gweddi. Ni allwn weddïo'n iawn heb geisio'r adnabyddiaeth lwyraf o Dduw. Mae'n bosibl i ddyn ymfodloni ar yr athrawiaethau a'r arwyddluniau a etifeddwyd ganddo, neu a ddyfeisiwyd ganddo, heb erioed fynd i'r afael â gwir ddirgelwch gogoniant Duw.'

*Eto, gan fod Sgeptigiaeth ddidwyll yn gorfod wynebu'r ystyriaeth o bwrpas llenyddiaeth, bu'r ddadl hon gyda Pennar yn hedyn i lu o ddadleuon a ddaeth i'm rhan yn ystod y blynyddoedd wedyn. Nid yn unig gyda Dewi Z. Phillips, ond gyda John Rowlands, gyda Iorwerth Peate, gydag Euros Bowen, gyda Hywel Teifi Edwards, ond yn anad neb gyda mi fy hun. Buwyd yn ymhel â sawl thema felly a oedd yn gynhenid eisoes yn y drafodaeth hon gyda Pennar, A thrugaredd oedd i mi gael fy ngollwng i mewn i'r ymrafael oll yma, yn y fath gwmni tirion. Yn y gyfrol bresennol, mae'r ddadl benodol hon yn cael gweithredu fel rhagarweiniad i weddill y gyfrol, oherwydd fy mod, heb grybwyll y termau, wedi gogwyddo'n gynyddol drwy gydol yr ysgrifau at 'ras cyffredinol' yn fframwaith, ond yn ei gysylltu'n fwyfwy â gras arbennig.]*

## DROS F'YSGWYDD (2)

## JOHN ROWLANDS

Yn fwyfwy yn ddiweddar, dw i'n dod yn ymwybodol beunydd o bresenoldeb rhywun arall yn pwyso dros f'ysgwydd, ac yn sibrwd.

Dw i'n gwybod pwy yw'r sibrydwr. Dim ond Amser. Mae e siŵr o fod yn fy holi i, ac mae mawr eisiau gwneud hynny: 'Beth wyt ti'n ei wneud gyda'r oriau olaf hyn?'

Dw i'n gwybod pam y daeth e. Yn ddiweddar, o fewn ychydig o fisoedd i'w gilydd, mae rhai hen ffrindiau wedi marw. Nid un neu ddau. I mi, ymddangosodd fel llif. Hen gymdeithion a fu'n hyfrydwch ac yn anrhydedd i mi eu hadnabod – Geraint Gruffydd, a'i gyfaill Merêd, John Rowlands, John Davies, Harri Prichard Jones. Ac eraill. Dyma bobl a fu'n garedig iawn tuag ataf i, ac yn bobl y dysgais i lawer ganddyn nhw. Buon nhw'n gymorth i wynebu cyfnod.

O'r rhain, ac eithrio Geraint, John Rowlands oedd yr un a adwaenwn i orau. Ac mewn un ffordd, ef a deimlwn agosaf ataf i o'r llif yna o berthynas. Ef oedd yr un ymhlith fy nghyd-ddarlithwyr yn Aberystwyth a ymddiddorai fwyaf yn y math o feirniadaeth lenyddol a elwir yn 'Ymateb Darllenydd' a hefyd ym mudiad 'Ôl-foderniaeth,' y ddwy ysgol feirniadol a oedd ymhlith y tair pennaf o ddiddordeb i mi.

Trwythwyd John yn niwylliant ei fro. Ganed e ym 1938 yn fab Tyddyn Bach, Trawsfynydd. Roedd yn berthynas bell i Hedd Wyn ar ochr ei fam, sef Mary Puw Rowlands, awdur *Hen Bethau Anghofiedig* ac *Y Deryn Diarth.* Brawd i'r nofelydd Catrin Lloyd Rowlands oedd John. Pan oedd yn fachgen ysgol, cerddoriaeth a âi â'i fryd yn bennaf, ac enillodd lawer o wobrwyon am ganu piano, gan gynnwys gwobr gyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwllheli. (Derbyniodd hyfforddiant ar y piano gan Kendall Taylor yn y Coleg Cerdd Brenhinol. Ac enillodd bum diploma gan gynnwys LRAM ac ARCM.)

Yna dechreuodd farddoni, gan ennill cadeiriau yn ddeunaw oed. Dan ddylanwad John Gwilym Jones ym Mhrifysgol Bangor trodd at ryddiaith. Enillodd Fedal Rhyddiaith y Myfyrwyr deirgwaith yn olynol. Graddiodd ym Mangor ym 1959.

Fe drwythwyd John mewn traddodiad. Wedi ymchwilio i farddoniaeth Dafydd ap Gwilym ym Mangor cafodd MA (Cymru), ac fe aeth i Rydychen, ac ennill Doethuriaeth Prifysgol Rhydychen. Bu'n ddarlithydd yn Abertawe ym 1965, ac yna, dilynodd yrfa academaidd yn y Drindod Caerfyrddin, ac yn Llambed wedyn, cyn dod i Aberystwyth ym 1975. Dyrchafwyd ef i gadair bersonol ym 1996, ac ymddeolodd yn 2003. Bu farw ar 24 Chwefror 2015.

Bu ei yrfa lenyddol yn dra ffrwythlon. Darlledwyd, yn gynnar, ddwy ddrama fer o'i eiddo:

*Baled yn y Lleddf* a *Cestyll Simsan*. A chyhoeddodd saith o nofelau gloyw, *Lle Bo'r Gwenyn, Yn ôl i'w Teyrnasoedd, Ienctid yw Mhechod, Llawer Is Na'r Angylion, Bydded Tywyllwch, Arch ym Mhrag,* a gorffen gyda *Tician Tician* ym 1978.

Yn ei feirniadaeth lenyddol y disgleiriodd. Canolodd ar yr ugeinfed ganrif. Ond nid dyna'r unig ddiddordeb, fel y dengys y rhestr – *T. Rowland Hughes* (Saesneg: yn y Writers of Wales series), *John Gwilym Jones* (Llên y Llenor), *Saunders y Beirniad* (Llên y Llenor), *Profiles* (ar y cyd â Glyn Jones), *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (golygydd), *Cnoi Cil ar Lenyddiaeth* (Dwy frawddeg olaf y Rhagair: 'Nid yw'r dehongliadau ar weithiau unigol a gynigir yma yn rhai "awdurdodol" o bell ffordd. Gobeithiaf y byddaf yn anghytuno â hwy fy hun cyn pen pum mlynedd.'), *Ysgrifau ar y Nofel*, a *Sglefrio ar Eiriau* (erthyglau ar lenyddiaeth a beirniadaeth).

Yn yr ysgrif goffa orau gawson ni ar ei ôl, meddai Robin Chapman, 'Pwy arall a fyddai wedi meddwl troi traethawd D Phil am Salbriaid Llyweni yn llith Gramscïaidd? Ymdrech barhaus John – ac ef oedd y cyntaf i weld yr angen heb sôn am ymateb iddo – oedd herio'r hyn a alwai'n "pietás boneddigaidd" – mewn beirniadaeth lenyddol Gymraeg: parch at draddodiad, llên fel crefft, y cyswllt rhwng llên a chrefydd, statws *noli ma tangere,* y llenorion hynny sy'n annwyl gan eu cenedl. Byddaf yn cael gwefr neilltuol o hyd wrth rannu un dyfyniad o'i eiddo gyda'm myfyrwyr, a gweld y geiniog yn disgyn: "buasai'n iechyd i ni yng Nghymru fynd dros ben llestri a chael gwared â'r awduron, oherwydd gallent fod yn gryn niwsans. Maen nhw'n sefyll rhwng y darllenydd a'r gwaith".'

Ymddangosodd *Ysgrifau ar y Nofel* gan John Rowlands ym 1992. Dyma gyfrol o feirniadaeth graff a chadarn, sy'n gosod John ymhlith beirniaid gorau'r ugeinfed ganrif. Dyma'r astudiaeth orau erioed a sgrifennwyd yn Gymraeg ar y nofel. Dywedwyd ar y pryd, 'Dyma'r gyfrol fwyaf cynhwysfawr sydd wedi'i chyhoeddi ar y nofel Gymraeg.' Casgliad o ysgrifau oedd a sgrifennwyd dros y cyfnod 1970 hyd 1989. Peth newydd ar y pryd oedd arolygu ac adolygu'r nofel Gymraeg mewn modd deallol. Ceid tipyn bach o sylwadaeth gymdeithasol, a sylwadau ar fywyd rhai awduron. Cawsid tipyn go lew yn Gymraeg o feirniadaeth ar farddoniaeth. Ond dywedodd y beirniad hwn ei fod yn sgrifennu 'yn y gred fod nofelau'n cyflawni llawer mwy nag adrodd stori, a bod ganddynt ran lawn mor bwysig â barddoniaeth *yn y broses o foldio'n meddyliau ac o ymestyn ffiniau'r dychymyg.*' Dyma osodiad sy'n dal yn gywir hyd heddiw. Dyw safon y nofelau gorau ddim eto efallai wedi cyrraedd safon Williams Parry, Gruffydd, Parry-Williams, T. Gwynn Jones, Saunders Lewis, Gwenallt, neu Waldo. Ond dyw potensial y nofel i ddelweddu bywyd yn ei lawnder, yn feddyliol, yn deimladol, ac yn ffurfiol ddim yn dal yn llai cryf nag yr oedd pan ddywedodd John Rowlands y geiriau hynny.

'Mae hi'n ffurf sy'n ymwrthod â'r goruwchnaturiol,' meddai fe ymhellach, 'ac mae'n ei

mwydo'i hun yn niriaeth bob dydd... fe ymwrthododd hefyd â'r rhan fwya o'r confensiynau llenyddol, megis iaith ac arddull goeth a chain.'

Mae hyn yn wir, i raddau helaeth, ac yn gyffredinoliad gweledigaethus. Ond dyw nofelau Dostoiefsci, Kafka, Mann, Daniel Owen, a Saunders Lewis, ar yr olwg arwynebol ac yn eu persbectif gwaelodol ddim yn ymwrthod â'r goruwchnaturiol. Nid oedd John Rowlands chwaith wedi osgoi 'iaith ac arddull goeth a chain.' Ond mae gosodiad John yn agor diffinio pwysig. A cheisiaf sôn am y pwynt pwysig hwnnw.

Ym mharagraff cynta'r gyfrol *Sglefrio ar Eiriau* a olygodd ym 1992 (ychydig o fisoedd cyn cyhoeddi'i gyfrol *Ysgrifau ar y Nofel*) fe ddywedodd John Rowlands, 'Wrth iddynt gicio'u sodlau'n aros i'r mileniwm newydd wawrio, mae yna gryn dipyn o rincian dannedd ymysg beirniaid a damcaniaethwyr ar hyn o bryd. Fe ddisodlwyd moderniaeth gan ôl-foderniaeth, a strwythuraeth gan ôl-strwythuraeth. Daeth termau fel dadadeiladu a rhyngdestunoldeb a hanesyddiaeth newydd i'w hanesmwytho. Blagurodd gofynodau ym mhobman. Dryswyd yr arwyddion ffyrdd. Sgeptigrwydd yw'r agwedd lywodraethol.' Roedd sgeptigrwydd fel pe bai wedi cyrraedd, ac yn ormes. Roedd y byd cyfoes Cymraeg *fel pe bai* wedi ymwrthod â'r goruwchnaturiol.

Wedyn yn *Sglefrio ar Eiriau* ceid datganiad ffydd gan amryw ymhlith beirniaid gorau troad y ganrif ddiwetha a'r mileniwm. Fe gynrychiolid un math o wrthryfel ganddynt, at ei gilydd yn y gyfrol honno, o fewn y term 'radical'. Ond rhaid cofio mai'r gwrthryfelwr mwyaf eithafol a welsom ni eisoes oedd y ceidwadwr mwyaf a gafodd Cymru erioed, sef y traddodiadwr Saunders Lewis. Ac fel y ceisiaf ei ddadlau yn yr ysgrif nesaf, fe ddaeth Saunders Lewis o hyd i 'Draddodiad' a oedd yn chwyslyd o radical. Ac roedd hyn yn wir o hyd: roedd gan y radicaliaeth (gan gynnwys John) rywbeth i'w ddweud o raid am draddodiad wrth sôn am radicaliaeth.

Buom ni'n dau'n gwasanaethu, John a finnau, yn yr un adran am flynyddoedd ac yn treulio oriau gyda'n gilydd yn sgyrsio yn ei ystafell ef am faterion adrannol, ac am ein darllen diweddaraf mewn beirniadaeth. Yn wir, buom ni'n cydweithio yn yr un cwrs ar ysgrifennu creadigol; ac yr oedd hynny'n destun trafod ymholgar rhyngom ni yn gyson. Doedd yr un ohonom ni'n aruthr o argyhoeddedig fod 'dysgu llenydda' yn bosib. Sgeptigiaid oeddem ni'n dau yn hynny o beth: John o ran argyhoeddiad, a finnau o ran anianawd. Ond roedd gan John argyhoeddiad fod darllen gwaith myfyriwr gydag ef neu hi, a gofyn cwestiynau – *cyd*ymdroi fel petai – yn ddefnyddiol. Roedd John yn cyd-ymchwilio'n unigol gyda myfyrwyr am *seiliau* felly, ac roedd hynny'n procio'r myfyriwr i ddefnyddio'r meddwl a'r dychymyg yn ei brosiect ysgrifenedig creadigol ei hun; ac fe wnâi e hynny'n bwrpasol iawn yn fynych. Cyn i John ymuno â'r adran, roeddwn i wedi sefydlu tipyn o gwrs a gaed mewn prifysgolion eraill yn gyffredin nad own i'n teimlo'n ddigon hyderus yn ei gylch; a daeth John i nghynorthwyo, ond oherwydd ei fod yntau'n cael y fath flas arni, mi giliais i gan

bwyll bach o fod yn flaenllaw yn y cwrs: y fe a arweiniai'r rhaglen waith, a finnau'n ei wasanaethu. Gwyddai fe y gallai'r gwaith hwnnw, pe gwneid ef yn iawn fod yn elfen gyrhaeddbell mewn cyfnod dan orthrwm tuedd chwyldroadol. Fe gawsom ni fyfyrwyr gwych, llawer yn adnabyddus ledled Cymru bellach.

Mewn sgyrsiau ynghylch yr egwyddor o ddysgu 'ysgrifennu creadigol', roeddem ni'n dau yn cytuno ar lawer mwy ynghylch seiliau llenyddiaeth nag roeddem ni'n ei sylweddoli efallai, neu o leiaf yn ei ddweud. Clywir adlais o'r ymddiddanion hyn yn glir drwy gydol *Cnoi Cil ar Lenyddiaeth* (t. 77), a gallai'r geiriau hyn ganddo gynrychioli tir go gyffredin rhyngom ni: 'Methiant oedd Moderniaeth tu fewn i lenyddiaeth a'r tu fewn i'r gymdeithas roedd yn ei mynegi.'

Hoffwn innau'n fawr ei bwyslais cyson ar 'dân' neu 'awen' neu 'ysbrydoli.' Gallai'r fath ysgogiad dueddu i ymddangos fwyfwy i sylwedydd o'r tu allan ar y pryd yn ysgogiad anfeirniadol tuag at swrealaeth a gwylltineb delweddol. Ac yn hynny o beth, roeddem ni'n dau, yn gyd-ryddfrydol iawn, mewn ffordd groes, yn gytûn – a gellid defnyddio'r dull croes-gytûn a hunanfeirniadol hwnnw yn ôl fel roedd yr amgylchfyd celfyddydol ar y pryd. Roeddem ninnau o ran anianawd yn ymwybodol iawn o fframwaith egwyddorol gwahanol i'n gilydd. Ymwybyddwn innau am orfod derbyn y drefn 'orthrechol' bron: gogwyddwn o ran llygaid penagored syml i fywyd oll a natur wedi'u cyfundrefnu, bob moleciwl, bob llestr gwaed, bob organ, bob gair, bob rhesymu, yn drefn dros ben llestri. Ac mae'n debyg bod John yn gynhenid ac o ran dawn, a'i barch at iaith, hefyd yn cofleidio'r rhain, ac yn isymwybodol yn un â rhyw fath o drefn gynhenid, efallai, gan mor gaboledig oedd ei arddull gynhenid a'i themateg; ond teimlai ef y dylai hyn fod mor isymwybodol â phosib, heb adael i'r ffurfiau hyn ddod i wyneb yr ymennydd; ie, hyd yn oed o fewn tiriogaeth beirniadaeth. Ac yn hyn o beth eto, John oedd yn yr iawn. Edmygwn ei reddf. Fe ddywedwyd un tro am Valéry 'ei fod yn cyfuno'n wyrthiol fanylrwydd clandro'r mathemategwr ag angerdd llawn dychymyg y bardd.' A rhywfodd, efallai er ei waethaf, fe ddôi'r rhain at ei gilydd gyda llawer o bobl megis John, fel y mae rheolaeth ymwybodol ei hun yn caniatáu i'r gerdd fod yn fwy na gweithrediad isymwybodol.

Mewn gwirionedd, roedd yna fath o ddadl rhwng John a finnau – os dadl hefyd – ynghylch 'Ôl-foderniaeth'. Ni hoffai'r term hwnnw. Na finnau chwaith. Y gwir yw, efallai, roedd yna fath Cymraeg o Ôl-foderniaeth, a ninnau'n dau'n chwilio amdano. Un o'r pennaf o'r Ôl-fodernwyr *Cymraeg* oedd John Rowlands – o leiaf ar lafar – onid y pennaf oll. Bu Ôl-foderniaeth yng Nghymru yn ffodus iawn i gael arweinydd mor ddeniadol.

Fe gefais i ei fod e bob amser yn ffrind eithriadol, yn hoffus, yn ffyddlon, yn ddibynnol, ac yn gwmni rhyfeddol, heb falais, – yn eithafol o swil, wrth gwrs, yn enwog am ei swildod – ond yn ŵr y ces i'r fraint er hynny o sgyrsio o'r galon gydag e, a mwynhau dadlau gydag e. Roedd y

cyfarfodydd yn fath o seminarau i ni.

Roedd y myfyrwyr hwythau'n edmygu'r ddawn fawr a oedd ganddo i ysbrydoli. Dawn wahanol oedd hyn i'r ddawn ddarlithio. Fe gymerais innau ddiddordeb proffesiynol yn y ddawn honno, ond heb ei meistroli byth. I John, cynhenid oedd. Roedd e'n eangfrydig yn ei ffurf, ei iaith yn gynhenid goeth, a'i gefndir yn helaeth, a'i fryd ar fod yn ffrind i bob myfyriwr. Clywais sawl darlith gan bobl eraill y teimlwn eu bod hwythau'n ddarlithwyr delfrydol. I fi, rhaid cyfadde, does neb a wnaeth fwy o argraff arnaf i na Prys Morgan am gaboleidd-dra darlith, cymeriad atyniadol, brwdfrydedd y traddodi, llygaid hoeliog, a chysondeb y safon. Roedd ei dad yntau, T. J. Morgan, yntau'n gallu creu rhyfeddodau hefyd; ond fu e ddim mor gydwybodol wrth baratoi â Prys. Gallai Hywel Teifi Edwards yntau gyrraedd yr uchelderau fel darlithydd yn ddiau. Llanwai bob ystafell – pob coridor – pob adeilad â'i lais o bell. Byddai'r gynulleidfa, cyn gynted ag y clywen nhw gorn ei lais, eisoes yn hollti mewn chwerthin. Roedd Saunders Lewis wrth gwrs yn gallu traddodi ambell ddarlith wefreiddiol a gwreichionog ar sail nodiadau hanner cerdyn post, yn gyhoeddus ac yn yr ystafell breifat. Ond mae un peth a orsedda Prys Morgan gyda Saunders Lewis: gyda'r weledigaeth, y dehongliadau amrywiol eu hysbrydoliaeth o'u pwnc ar y pryd. Ym mhob pwnc teimla Prys – yn sicr teimla'i gynulleidfa gydag e – a theimla gwrandawr unigol gydag e – hanfod a gwerth cadarnhaol, er gwaetha pob sbort. Mae yna wir ddiddordeb ganddo ym mhob pwnc dan yr haul. Ond mae cysondeb caboleidd-dra Prys yn fwy ffeithiol-ddibynnol na gwreiddioldeb Saunders.

Cefais fraint fawr i wrando ar ddarlithio gan Prys, a'i dad, a Saunders; roedd y tri'n ddarlithwyr gwahanol ond cyd-ragorol. Roedd dawn John yntau ar y llaw arall yn gwbl wahanol, yn llai cyhoeddus, ac yn batrwm o gyd-chwilio fesul un, gyda myfyrwyr, fel petai pob un ohonyn nhw'n gweithio 'gyda chydymaith'. Ceid hefyd grwydradau dibaratoad yn nodweddiadol gyffrous ar draws ymchwiliadau nodweddiadol John. Ond roedd yna rywbeth gwahanol eto. Ymguddiai John. Onid oedd e'n wrth-berfformiol? Ac yn hynny o beth, dywedai'r swildod i gyd rywbeth am y John cudd, y John ysbrydol hyd yn oed, er ei fod o ran bwriad yn wrthgrefyddol. Mewn gwirionedd roedd e'i hun yn poeni am y syniad o grefydd fel niwsans. Yr un pryd, ysbrydol rywsut hefyd oedd ei ystyr ef ar 'dân yn y bol.' Teimlai fod y tân hwnnw'n mynnu symud yn y meddwl yn annifyr y tu hwnt i ddeall. Cas ganddo gredoau, a sefydlogrwydd credo. Meddai Robin Chapman amdano: 'He said once that there would be something seriously wrong if he held the same opinion about a piece of literature for more than five years at a time.' Mor gywir. Roedd yn ei nabod ei hun. Dawn brin. Ac eto, roedd ei gredo ynghylch tân yn y bol yn neidio dros ben terfyn y 'pum mlynedd' a roes e iddo'i hun, ac yn ymwneud â'r iaith, y galaethau a'r DNA. Meddwl am ddeddfoldeb gwneud a dweud gan ddyn oedd anesmwythyd sefydlog John – mewn trefn cyfansoddiad llenyddol ymwybodol. Nid gwrthodiad 'ffasiynol' oedd hyn, ond gwrthod 'tanllyd' gan ŵr gwrth-danllyd.

Meddai Martyn Lloyd-Jones ei hun mai'r diffiniad cryno gorau o Galfiniaeth oedd 'dysgeidiaeth ar dân' – meddwl a gwybod o fewn profiad a serchiadau, rheswm wedi mynd i'r radd eithaf. Gosod 'rheswm' o fewn cyd-destum 'tân' oedd angen y cyfnod i John Rowlands yn ogystal ag i Lloyd-Jones – mewn moddau gwahanol.

Tuedda rhai llenorion modern brysiog i wrthryfela'n reddfol ffasiynol yn erbyn trefn. Ond roedd hynny'n agwedd ry sefydlog i John. Gellir bod yn sefydlog mewn gormod o aflonyddwch. Dw i'n credu bod yr ymwybod gan John o'i ffaeledigrwydd ei hun yn ei dynnu fe at hunanfeirniadaeth gyson. I fi, dyma arwydd o'i aeddfedrwydd.

Dyna pam y dwedaf fy mod i wedi dysgu cymaint ganddo. Gymaint. Meithrinodd ei hunanfeirniadaeth fel ffordd o fyw. Prin bod dim mor werthfawr â hunanfeirniadaeth gynhenid mewn llenor. Ac yn wir, cam mawr ymlaen yw'r sylweddoliad hwnnw mewn bywyd yn gyffredinol.

Daliwn fod swildod John yn wedd ddofn ar ei hunanfeirniadaeth ysbrydol, ac i fi yn wedd ar ei anwyldeb personol canolog. Math o ymostyngiad yw swildod. Safbwynt crefyddol graslon yw gostyngeiddrwydd i'r Cristion triw: hyn yw credo dyn doeth amdano'i hun. Nid rhesymu sy'n ei reoli, a lle y bo rheoli'r rheswm yn darfod, y mae a wnelo rhywun ag estyniad pellach na'r meddwl dynol ymwybodol. Mi gredaf fod gostyngeiddrwydd sy'n tarddu o'r perfedd yn cydweddu â golwg ysbrydol aeddfed ar weledigaeth am fywyd.

Mae a wnelo Ôl-foderniaeth ei hun weithiau â bychanu trefn resymol.

Fel y canodd T. Glynne Davies, 'Jo bach, hanner pan,

Côt ail law a sbectol gam.'

Mae a wnelo Ôl-foderniaeth â sythwelediad ac â'r cyntefig sy'n groes i amser a lle. Hyn oedd un o'i chyfraniadau. Yn hyn o beth (honnai) fe âi'n groes i gyfnod cynt a elwid yn *Ymoleuo* neu'n *Oleuedigaeth*. Dyma ni'n troi at yr holl arwyddocâd a welid gan Ôl-fodernwyr ynghylch y cyfnod hwnnw yn hanes Ewrop, cyfnod mawr yn natblygiad ein syniadaeth, am wyddoniaeth. Pan dreuliais i flwyddyn yng Nghanada 1963-4, gan mai un o ddarganfyddiadau'r Dadeni Dysg a'r Oleuedigaeth oedd Québec, allwn i ddim llai na phendroni'n wastad am y diffiniad o'r ddau derm hyn – yr *Ymoleuo* (Secular Enlightenment) a'r *Oleuedigaeth* (Christian Enlightenment). Ym mryd Ôl-fodernwyr yng Nghymru, roedd y rhai mwyaf uniongred neu unplyg yn cefnogi arddel myfïaeth ac egoganologrwydd mewnblyg yr '*ym-*' yn Ymoleuo: yr ymchwyddo sy'n datgan 'yn fy marn i.' Roedd yr Oleuedigaeth yn fwy Cymreig, ar y llaw arall, yn arddel y ffaith wrthrychol arall fod deddfau cyffredinol a gwirionedd yn gyfuniad o undod ac amrywiaeth, ac o sefydlogrwydd a bwrlwm a oedd hefyd yn fwy gwrthrychol: ymwrthodai, gellid meddwl, â'r ego a swildod. Dichon fod 'argyhoeddiad o bechod' yn rhy awdurdodol fel credo yn mryd rhai, ond tad go iawn yw i ostyngeiddrwydd yr amherffaith, ac yn frawd i swildod. Hynny yw, dyma gyferbyniad absoliwtiau

Duw a Dyn.

Mae'n rhy gynnar eto, oherwydd chwalfa feddyliol ddiwedd yr ugeinfed ganrif a'r ffasiynrwydd oedd yn ymgaledu o gylch chwiwiau i neb fod yn gwbl ddiogel ynghylch fawr o ddim a wnaethpwyd y pryd hwnnw. Ni allwn eto farnu sylweddau mwyaf sylfaenol gogwydd na Moderniaeth nac Ôl-foderniaeth.

Yn natblygiad celfyddyd fodern, enghreifftiau eiconig yw'r ddau gelfyddydwaith mwyaf adnabyddus, y naill mewn miwsig gan John Cage, sef 4'33'. Drwy beidio â chwarae cerddoriaeth yn ystod pedair munud a thair-ar-ddeg-ar-hugain o eiliadau, fframiodd Cage ddistawrwydd a'i wneud yn wahanol i wacter.

Ond yn ail, yn ôl honiad y beirniad arlunio Waldemar Januszczak, 'Marcel Duchamp oedd yr artist pwysicaf yn y cyfnod modernaidd. Roedd e'n bwysicach na Picasso, Matisse a hyd yn oed Warhol. Wnaethon nhw ddim ond newid cyfeiriad celfyddyd, newidiodd Duchamp ei chyflwr.' Yr wrinfa a brynodd e yn barod mewn siop ar y ffordd i arddangosfa oedd gwaith enwocaf Duchamp.

Roedd y naill enghraifft (Cage) a'r llall (Duchamp) yn dweud rhywbeth am fywyd ar y pryd. Ond roeddent yn dweud rhywbeth am gelfyddyd hefyd. Roedd yr hyn a ddywedid yn gwbl amwys, a gellid darllen pob math o ystyron da a drwg, defnyddiol neu ddibwrpas, oddi mewn iddynt. Ond y mae hynny'n wir am bopeth – onid yw? – a chan fod gwrthrychau natur a'r gwneuthuredig ar gael ym mhobman eisoes ochr yn ochr â'i gilydd, prin eu bod yn ychwanegu fawr o ddim at y 'popeth'. Doedd dim angen mynd yno. Hynny yw, collasid gwerthuso.

Ac allai dyn ddim llai na dod i'r un casgliad am Ôl-foderniaeth oll fel dogma.

Nid Ôl-fodernydd cydymffurfiol oedd John. Fe gawn i'r argraff fod ganddo awydd i ddiwygio Ôl-foderniaeth a'i Chymreigio. Ond gan mor amorffaidd oedd rhagdybiau Ôl-foderniaeth, ac mor ddwfn ei hegwyddorion roedd hi'n anodd ei diwygio, yn amhosibl efallai. Ces innau'r un problemau. Fe darddai mewn cymdeithas gelfyddydol dan ormes. A gallai fod yn her i gadw digon o 'annibyniaeth' i wrthwynebu gorthrwm ffasiwn. Yn y cyfnod rhwng 1972 a 2015, roedd dull John o drafod y broblem gyfoes honno yn ddihafal.

Un wedd ar y broblem oedd y ffaith fod Ôl-foderniaeth yn effeithio ar bob gwedd ar lenyddiaeth, boed yn llenyddiaeth ysgafn a phoblogaidd neu'n llenyddiaeth sylweddol ar ben arall y rhychwant.

Gallech ddisgwyl y byddai swildod John yn wrthwynebus i'r gri 'boblogaidd' yn y Gymru wrthddeallol ddiweddar. Daeth poblogeiddio cyhoeddi yn allweddol ariannol. Poblogeiddio oedd duw gwleidyddion. Nid yr un yw 'poblogaidd' a'r 'poblogeiddiol.' Raced yw'r ail. Dyw swildod gŵr anghyhoeddus a dewr fel John ddim yn cydsynied yn naturiol â'r math hwnnw o boblogeiddiwch.

Beth yw ystyr 'poblogaidd' yn gyntaf felly? Nid yw ymwthio yn nod iddo'i hun o raid. Yn y

poblogaidd y mae'r 'cyffredin mud' yn derbyn beth y mae'r papurau poblog yn ei *ddweud* wrthyn nhw am ei dderbyn. Ac mae'r amhoblogaidd yn wahanus yn hyn o beth yn iawn. Yn y byd Cymreig, hollol wahanol yw'r poblogeiddiol [*Populist*]. Aeth poblogeiddio'n ffetus, yn llwybr diddewis yn sgil y cymhleth israddoldeb ymgiliol Cymreig. Tybiai'r safbwynt poblogeiddiol fod y profiad o fod yn lleiafrif (o genedl) ddim yn gallu fforddio lleiafrif arall o'i fewn a oedd yn herio'r deall: roedd rhaid i'r poblogaidd bob amser o ran natur gael monopoli.

Credai John fod llawer o'i gyfoeswyr poblogaidd newydd i fod i ddiogelu safonau o fewn yr amgylchfyd hwn. Roedd a wnelo â pharchu'r modern o fewn ymwybod o werth.

Un ffordd o feithrin yr ymwybod hwn o werth yn ystod cyfnod fel Moderniaeth yw drwy ymarfer â chlywed llenyddiaethau eraill, ac o brofi hynny ochr yn ochr â gorau ein llenyddiaeth ar y pryd. Ymagorodd diddordeb mewn dulliau llenyddol bydeang.

Yn theatr y Reardon Smith yng Nghaerdydd un tro ym 1971 bu Tadeusz Różewicz (Pwyl), Edvard Kocbek (Slofenia), Yehuda Amichai (Israel), Ernst Jandl (Awstria), Antonín Bartusek (Siecoslofacia), Haim Be'er (Israel). T. Carmi (Israel), ac Euros Bowen yn darllen eu barddoniaeth wedi'u cyflwyno gan Prys Morgan. (Bu un o'n prif feirniaid pennaf yn holi'n ddiweddar – Pwy oedd Euros Bowen?) Buwyd, dan ddylanwad celfydd Borges a Celan, Dylan Thomas a D. H. Lawrence, Kafka a Mann yng Nghymru ddiwedd yr ugeinfed ganrif, yn barod i ymwybod â'r orfodaeth i wynebu chwalfa arwyddocaol mewn meddylfryd. Rhan o'r un ymgais yna tua diwedd yr ugeinfed ganrif i fod yn berthnasol mewn idiom cyfoes fu'r symudiad i gyfieithu llenyddiaeth dramor i'r Gymraeg. Ymddangosai fod Moderniaeth ac Ôl-foderniaeth Cyfres yr Academi o'r saithdegau a redodd ymlaen i'r nawdegau, o gyfieithiadau Ewropeaidd, yn ymgodymu â Chymreigio mudiad Ewropeaidd nodedig drwy gyhoeddi llyfrau allweddol megis *Y Dieithryn* (Albert Camus), *Y Porth Cyfyng (*André Gide), *Tynged Anochel* (Jean-Paul Sartre), *Yr Adduned* (Friedrich Dürrenmatt), *Un Diwrnod Ifan Denisofitsh* (Alecsandr Solzhenitsyn), *Ymwelwyr Annisgwyl* Heinrich Böll. Parhaodd yr Academi i hyrwyddo clasuron o'r fath megis cyfieithiadau Euros Bowen o Laforgue a Corbière a'r beirdd Symbolaidd Ffrangeg. Dyfarnwyd Gwobr Llenor Rhyngwladol Celfyddydau Cymru i'r bardd Pwyleg Zbigniew Herbert ym 1984; a chyfieithiwyd gwaith Herbert gan J. Elwyn Jones ym 1985. Daeth Dürrenmatt ei hun drosodd i gwrdd â'r Academi. Yn 1996 cyhoeddwyd *Cerddi Osip Mandelstam* yn gyfrol un ar ddeg gan Bwyllgor Cyfieithiadau yr Academi Gymreig. Pryd y cafwyd erioed yng Nghymru y fath ymagor o egnïon Ewropeaidd? Dyna i chwi Gymru ryngwladol: y rhyngwladol ochr yn ochr â'r Gymraeg. Dyna lenorion Cymru yn wynebu ymestyniad cyfoes. Ble aeth y fath weithgaredd â hynny heddiw? Cafwyd y pryd hynny gyfieithiadau o Ddramâu'r Abswrd gan Ionesco a Beckett, Anouilh a Sartre. Ers degawdau bellach, diflannodd popeth cyffelyb. Llwyddid am gyfnod o egni deallol i

adlewyrchu'r cyflwr newydd ac arwyddocaol hwnnw mewn dyfal ffyrdd, a dweud rhywbeth pwysig iawn wrth ddynoliaeth. Yna, dirwynwyd ymlaen; fe sylweddolwyd wrth gwrs fod y cyflwr chwâl hwnnw yn rhan o Gymru hefyd. Ond unochrog rywsut fu'r dadleniad yna. Ond mae'r hiraeth am thema wacter ystyr a arddelai llawer o'r llenorion hyn wedi aros heb fynd i'w waelod.

Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif ceisiwyd cyfaddawdu fwyfwy rhwng poblogeiddiwch ysgafn a her athronyddol rhagdybiau'r egoganolog. Datblygodd yn isymwybodol fath o frwydr. Ofnus fu pleidio poblogaidd ynghylch ymenyddwaith celfyddydol. Ymledodd israddoldeb drwy drwch y cyhoedd darllenwyr Cymraeg. Heb angen cynnwys, heb synnwyr, heb werthoedd, anodd oedd y gwahaniaethu sy'n gorfod bod mewn beirniadaeth effro sy'n gymorth i gyfnod. A chollid, gan bwysau'r awyrgylch, yr awydd i barchu llenyddiaeth. Heb y sylwedd meddyliol hwnnw, sut bynnag, a eginai yn chwarter ola'r ugeinfed ganrif, ymledodd syniad o siocio rhywiol a'r hudoliaeth gyffuriol drwy'r syniadaeth, a'r ffasiwn o 'feiddgarwch' llancaidd ochr yn ochr â'r gwahanu endemig o drwm ac ysgafn, a'r rheidrwydd i fod yn groes-i'r-graen. Cyflawnwyd yr hyn a oedd yn *groes* i ehangu rhychwant deallol a theimladol. Crebachwyd ein llên. Aethpwyd yn fwy disgwyliedig. Cefnwyd i raddau ar ymhél â llenyddiaeth Fodernaidd ac Ôl-fodernaidd ryngwladol gan arweinwyr y chwaeth cyfoes yng Nghymru, ond â gorffennol helaeth cydwladol drwy gyfrolau megis cyfieithiadau Cedric Maby o farddoniaeth Dseinäeg, Gareth Alban Davies a Cyril P. Cule o'r Sbaeneg, Pennar Davies o'r Almaeneg, J. Gwyn Griffiths o Gerddi Groeg Glasurol, John Stoddart o Gerddi Gaeleg Cyfoes, J. Henry Jones o Rilke, ac M. Wynn Thomas o Whitman. Sôn dw i hefyd am waith Meic Stephens ac Elan Closs Roberts yn rhedeg cynllun Clywch y Beirdd (Dial y Poet). Rhaid i rywun heddiw *gofio* sôn bod hyn wedi digwydd, a pham y digwyddodd yr hyn a gafwyd wedyn. Mae hi fel petaem ni'n osgoi crybwyll bellach y golled arbrofol sydd wedi cilio nawr, a ninnau wedi'n hamddifadu o fyd cyfan. Tybed a ellid byth mwyach adfer ac ailsefydlu'r gweithgaredd hwn o glasuron estron yn y Gymraeg? Ble mae'r egni hwnnw? Pwyllwn yn haelfrydig wrth ateb.

Gwelir bod hyn oll yn gyfnod go syfrdan a chwbl unigryw yn hanes llenyddol poblogaeth denau a chymharol dlawd fel Cymru. Cyfnod oedd o chwyldro. Ac i mi, yn hyn o beth, roedd trafodaethau John Rowlands yn elfen greadigol ymhlith pwysicaf y cyfnod ac yn elfen ffrwythlon wrth arwain ateb i'r cyfyng gyngor hwn. O'n cwmpas, yn y maes llenyddol ceir chwyldro hylifol o ryw fath, mae'n wir, mewn cymdeithasu o safbwynt llenyddiaeth. Gwamalwyd rhwng cyfrwng papur a chyfrwng digidol. Aeth cenhedlaeth gyfan i afael y cyfrifiadur. Aethpwyd at y We. A finnau gyda hi. Ond ni ellid ymwared â phapur. Yng nghanol 'chwyldro cyhoeddi' dechreuwyd llesgáu. Ble aeth y sefyllfa Ewropeaidd gyfredol a gafwyd yng nghyfnod John Rowlands? Oni allwn ni ddal i feddwl o'r gorffennol ymlaen i'r dyfodol?

Yn wir, mae profiad y gorffennol yn ein harwain i ailfeddwl y math o gyfathrebu a wna llenorion Cymraeg â'i gilydd nawr mwyach yn oes ddisgwyliedig flaengar gwefannau a thrydar. Ac un o'r rhesymau am y llesgedd cyfoes a wnaeth hyn oedd colli dadlau a cholli gweledigaeth o natur gatholig llenyddiaeth, sef y gymuned lenyddol sy'n medru cynnal *holl lefelau trwch y darllenwyr*, ond yn fwyfwy yn yr ystafell breifat nag ar y llwyfan.

Roedd yna un cyfoeswr unigryw pwysig ar y pryd a gynigiai ffordd ymwared.

Carwn gyfeirio at un o'r colledigion dynol diweddar fel cyffelybiaeth... sef Merêd. Gydag ef, fe wynebwn her mewn modd aeddfed. Arddelodd ef anrhydedd unigryw diwylliant poblogaidd, a'r rheidrwydd sydd o blaid parhad i enghreifftiau casgledig o drysorau'r Werin sy wedi sicrhau eu lle ar gof gwlad; ac eto diogelodd y modd y gall hyd yn oed y meddwl athronyddol, a barn ddiwylliannol, ymgyfuno â hynny. Cododd Merêd yr ymwybod o gatholigrwydd felly, heb ymadael â'r poblogaidd ohono'i hun, gan ddyrchafu'r poblogaidd fel craidd cwbl hyfyw, ymarferol, i fywyd diwylliant aruchel yn gyffredinol. Caed Calon lân a diwylliant.

Nid gŵr swil oedd Merêd. Fel arall. Gwyddom ni oll na chafwyd erioed y fath bleidiwr brwdfrydig a deallus i gefnogi poblogeiddiwch. Eithafwr tyner oedd ar yr egwyddor o les ac angen perfformio. Yr hyn oedd yn isymwybodol bwysig iddo oedd na ddylai gwrthsnobyddiaeth ddim meithrin snobyddrwydd gwrthddeallol. Yn ôl safiad Merêd, clasurol oedd Diwylliant Gwerin. Mae Llên Werin a Chanu Gwerin yn rhy fynych fel pe bai'n mynd mor fach ym mryd rhywrai nes diarddel ymroddiad yr hiramser i gynllunio a myfyrio'n dreiddgar. Tlawd yw pob torri negyddol ar y rhychwant deallol-ysgafn, a throi'r Gynghanedd yn gyfrwng jôcs yn unig. Ond anochel yw'r gwahaniadau, mae arnaf i ofn; mae angen eu hwynebu a'u hiacháu ymarferol gymaint ag y gallwn.

Y gwir yw bod byd y 'werin ddiwylliedig', er yn syrthiedig, yn wrthrych creedig o ryfeddod o hyd i bawb ohonon ni. Ac fe roddir i bawb, ond chwilio, y ddawn o werthfawrogi, ac yn wir o orfoleddu yn y presenoldeb amryfal, yr uchel ynghyd â'r isel, y deallol a'r teimladol. Ac eto, gallai'r 'poblogeiddiol', drwy arwyneboldeb, ladd yr ymwybod o werth. Ble y ceir difrifoldeb cyd-drafod *safonau* llenyddol heddiw? Sylfaen pob dim naturiol wrth gwrs er ein gwaethaf yw ysgogiad goruwchnaturiol creadigol. Dyw Natur ddim yn ei chynhyrchu'i hun o'r newydd heb ysgogiad pwrpasol. Melys yng nghanol y cwbl yw bodolaeth gynhwysfawr, a melys yw'r gras sy'n treiddio at y gwreiddiau, sef y doniau a wasgerir ymhlith y 'dosbarth uchaf' a'r 'werin'.

Cymeriad llengar diweddar arall a wynebodd yr un pendroniad ac yr oedd y 'poblogaidd' yn bwysig iddo, ond am resymau cwbl wahanol, oedd John Davies Bwlch-llan, un arall o'r cewri a newydd a gollwyd. Cymeriad ar ei ben ei hun oedd yntau, ac eto arddelai'r poblogaidd a'r deallol, ar y cyd, yn ymroddgar. Byddaf i'n ystyried ei fod ef, yn anad yr un Cymro Cymraeg arall, wedi gwneud Ôl-foderniaeth yn adlewyrchiad gweithredol iddo'i hun o lif yr oes. Roedd hynny hefyd yn

ddeallol elitaidd (hyd yn oed) ac eto'n crynhoi barn y rhelyw. Ffactor a gysylltid ag Ôl-foderniaeth yw'r di-foes a sgeptigrwydd diffyg pwrpas. Dyma ffordd feddyliol holl-lynciol a all fynd yn draed moch pan dderbynnir y cwbl mewn cul-de-sac.

Dichon fod rhai o ddilynwyr ieuanc Ôl-foderniaeth yn gogwyddo i'r cyfeiriad ysgafn mewn myfyrdod am eu bod yn agored i ddylanwadau rhwydd. Nid dyna'r unig gymhelliad i John Davies. Oherwydd anarchiaeth gynhenid ei 'obsesiwn darllen', ffrwydrad o anturiaeth oedd meddwl John. Rhedai gwybodaeth ecsentrig o gwmpas ei ymennydd, am fod bywyd mor rhyfeddol. Unigolyn ar ei ben ei hun oedd e, ond unigolyn eithafol a ysgrifennai'r gyfrol ganol-y-ffordd ddiweddar: *Hanes Cymru,* 1990, gydag argraffiad diwygiedig yn 1993. Gweithiai, a diogai, bob yn ail drwy'i gilydd wrth hedfan uwchben ei fywyd. Bu hefyd yn gyd-awdur i'r *Gwyddoniadur Cymreig*. Tyfodd yn eicon i genhedlaeth gyfan bron. Mi gredaf i fod y term 'di-foes' yn deg ddigon amdano, (yn sicr yn yr oes honno), yn gywir felly, heb wybod am unrhyw ffordd union arall i fyw mewn cymdeithas gyson. Ond roedd cymhlethdod ei gymeriad e yn ei wneud yn haelfrydig iawn tuag at y tlodion a'r anghenus, tuag at y syrthiedig rai o ran anianawd. Dirmygai yntau snobyddiaeth dosbarth, ac roedd wrth ei fodd ynghanol blerwch eithafol o bob math. 'Di-foes' efallai o ran math o slogan a'i ffitiai; ond fel hanesydd câi weledigaethau unigryw digon deallol ynghylch y cysylltiad rhwng ambell bwnc penodol academaidd cyfyngedig megis teulu'r Bute a chenedl y Cymry. Bwriodd ei brentisiaeth academaidd yng Nghaerdydd, Caer-grawnt, Abertawe, ac Aberystwyth; ac ysgolhaig profedig oedd; hanesydd glew. Tybiai, o ran ei seicoleg ddifyr, fod yna lawer, rhywrai amlwg o leia, yn ei erlid ac yn ei ddilorni; ond ecsentrig oedd, ac anodd oedd ei ddeall ynghylch yr 'erledigaeth' honno, gan ei fod yn derbyn edmygedd i'w gyfraniad diwylliannol â gwên garedig bron bob amser, ac mae wedi aros yn sefydliad o eicon yn Aberystwyth i raddau lawer mwy na chwmpas edmygedd cynfyfyrwyr o Bantycelyn. Eto, enghraifft hefyd oedd ef o ymneilltuo, ond yn ei achos ef heb fod o ran swildod. Fe'i caeai'i hun mewn unigrwydd er mwyn bod yn rhydd i bopeth.

A throi'n ôl at John Rowlands. Roedd yntau'n enwog am ei swildod a'i hydeimledd caredig anhunanol, ond fe ymgyfnewidiai ei swildod i ddilyn trywydd beirniadaeth lenyddol ac Ôl-foderniaeth anghonfensiynol ar yr ymylon, fel bydoedd y gellid byw'n ddiddig ynddyn nhw mewn modd a roddai gyfoeth i'w fyfyrwyr, ar egwyddor. Roedd hynny'n fodd i gydymdeimlo'n greadigol â llenyddiaeth. Fe droes John Rowlands ei swildod yn athroniaeth bywyd: roedd yn fath o sbienddrych o'r fath i edrych ar fywyd drwyddo, ac i ymgodymu â chyfnod rhyfedd.

Pwyso dros f'ysgwydd i y bydd John bellach yn ddi-baid, fel y byddaf i, ac eraill, yn deffro i berwyl ei genadwri. A charwn i nodi'r prif ddylanwad deallol a gafodd John arnaf i fy hun. Mae'r dull beirniadol o ymdroi o gylch holl bosibiliadau darllen, fel y'i ceir yn *Cnoi Cil Ar Lenyddiaeth,* ac a oedd yn fwyaf cyffredin yn ystod hanner cynta'r ganrif ddiwethaf, yn ddull a dyfodd yn bennaf

yn ystod rhamantiaeth ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Byddaf i'n ei ystyried bellach yn ddull hanfodol a pharhaol, ac yn ddull 'naturiol'. Dyma rai o'r ymholiadau a wneuthum innau i fi fy hun ac i John wrth ystyried y cwrs Colegol mewn ysgrifennu ymarferol. Hynny yw, dyma ymchwilio ynghylch yr amhosib reidiol. Golygai fod rhan o'r archwilio arddull yn y darn llenyddol unigol, yn cydweddu â rhan yn adeiladwaith datblygol y traddodiad ynghynt ac wedyn. Yn hyn o beth, nid cyffredinoli oedd ffordd bennaf John o feddwl am thema nac arddull, er bod cyffredinoli yn un o sylfeini pob meddwl – sef cysylltu meddyliau. Ond gwahuno. Awgrymais eisoes fod yna lawer o deitlau i'w cael ar y dull beirniadol o archwilio unigol, – 'y darn ei hun', 'lecture expliquée', 'ymateb darllenydd' (*reader response*), – beth bynnag fo'r enw hylaw drosto. Tueddaf innau i feddwl amdano yn ôl 'Ymateb i Fynegiant' gan fod y term arferol 'Ymateb Darllenydd' yn canolbwyntio'n unochrog ar y Darllenydd, ac am ei fod yn cychwyn mewn proses o feirniadaeth sy'n gyfansawdd ac yn gynhwysfawr. Dw i'n honni mai ymateb a wna pob darllenydd i weithredu cyneddfau-ymateb ohono'i hun i'r darn a ddarllenir, yn fwy felly nag i'r awdur. Er ei waetha, bob tro y mae'r darllenydd yn darllen, yna 'Mynegiant' ei waith ei hun ym mhobman ac yng ngwaith pawb arall a ddehonglir ganddo: ymateb i 'Fynegiant' yw trafod yr elfennau a ddarllenir yn onest. Ond yr un pryd holai John ynghylch yr amgylchfyd a oedd yn digwydd ar y pryd yn gyffredinol.

Mae arnaf ofn, i fi, yn fy rhan wasanaethgar i yn y cwrs Ysgrifennu Creadigol a rannwyd rhwng John a fi, ddefnyddio ymarferion rhy bell oddi wrth lenydda'n greadigol ddirfodol. Ond roedd John yn llygad ei le, ac efallai fod ymdroi gyda'r math hwnnw o arferion yn gallu arwain i mewn, mewn modd anesboniadwy, i hydeimledd ynghylch cnawd brawddegau real. Cafodd hwyl arbennig wrth ymdroi gyda'r gweithiau unigol gan 'fyfyrwyr fel awduron'. Diau mai presenoldeb John Gwilym Jones yng nghefndir John Rowlands a'i gwnaeth ef yn hunanfeirniadol yn hyn oll. Darllener y Mynegiant bob tro, arbenigoli o hyd, ac yna ymffurfia rhychwant beirniadaeth ymarferol. Mynner arbenigoli ynghyd â chyffredinoli mewn cyfansoddiadau cyflawn. Dyma un ffordd o geisio sylweddoli'n fwy effro'r hyn sy'n digwydd wrth ddarllen: meddylier pa elfennau yr ymatebir iddyn nhw wrth fynd drwy frawddeg i mewn i frawddeg arall, ac o baragraff i baragraff, drwy ddolennu, gan ymdroi gyda hyn rhwng athro a disgybl. Myfyrier arno o gymal i gymal. Boed i'r prentis feddwl am ysgrifennu tudalen o stori heb ansoddair a heb adferf. Triwch aralleirio cerdd i fod yn rhyddiaith blaen. Beth sy'n digwydd i'r dadansoddiad? Dychmygwch ddod o hyd i gerdd ddramatig – yn cynnwys y gorchmynnol, y cyfarchol, dialog brawddegau byrion sydyn o bosib. Ymgodymer â chyhyrau iaith. Beth yw 'cywair' mewn arddull? Cyferbyniwch ryw ddau gywair. Neidier i mewn. Mewn stori, ystyriwch ddatblygiad mewn cymeriad. Dyma'r math o gefndir a roddodd John Gwilym Jones iddo. Beth oedd hyn i John Rowlands? Dim llai na'r dychymyg yn rhedeg o gylch llenyddiaeth fel ci mewn ffair ar hyd y gyfundrefn nerfol. Roedd yn rhy ffurfiol.

Darllener stori. Ac yna, ystyriwch y 'thema', megis cenfigen, neu uchelgais. Ymlaciwch, ceisier eich rhoi eich hun yn eich dychymyg mewn sefyllfa rhywun arall, ac ysgrifenner paragraff yn y person cyntaf. Dychmyger cymeriadau diddorol yr ych chi wedi cyfarfod â nhw; newidier rhyw y cymeriad mewn stori barod; ymholer (wrth ddarllen) werth cyfraniad gwahanol gymeriadau o'r tu mewn iddyn nhw, a synied am wahanol ffyrdd o fynd yn ei flaen pe bai'r cymeriad wedi dewis llwybr gwahanol a sut y gallasai perthynas cymeriadau gwahanol newid llif y stori. Casgler problemau cyferbyniol yn y meddwl neu themâu mewn dychymyg – bod yn blentyn, yn euog, yn gableddus, yn alcoholig, yn odinebus, meddu ar gydwybod sy'n poeni, ymserchu, ymdeimlo â gwreiddiau, diffyg ystyr, ôl-foderniaeth, teimlo'n imperialaidd, bod yn fradwrus, yn syrffedus, sgitsoffrenia, profi rhyfel dosbarth, merthyrdod, adfywiad, a henaint. Wrth ymddiddan-fyfyrio am hyn, rhed llenyddiaeth o gwmpas ei ffair ei hun. Cymerer stori, a disgrifier cynllun (neu blot). Cymerwch stori, a disgrifiwch y digwyddiadau sy fwyaf eglur, y golygfeydd, – a oes symbolau, cymeriadau sy'n cyferbynnu â'i gilydd. Hwyl ddifrifol yw hyn, mae'n debyg. Gêm a all sobri. Gêm yw lle y mae ystyried her ymwneud â llawnder arddull ynddo'i hun yn dyfnhau'r afael ar iaith. Bywyd yw ei ffiniau. Myfyrdod ynghylch bywydrwydd llenyddiaeth.

Byd y prentis oedd hyn. Arall oedd y drws i mewn i greadigrwydd yn ei aeddfedrwydd, mae'n siŵr. Ond y mae difrifoldeb gweddnewidiedig yn bywhau manylion.

Roedd John Gwilym Jones (hen athro John Rowlands) yn hoff iawn o chwarae'r 'sedulous ape'. Dyna yw aralleirio air am air arddull awdur go drawiadol ei arddull megis Ellis Wynne neu Theophilus Evans neu T.H. Parry-Williams, am dudalen cyfan, ansoddair am ansoddair, cymal am gymal, gosod ansoddair o flaen enw os oedd y gwreiddiol yn gwneud hynny, llunio cyfansoddeiriau, gosod y goddrych o flaen y ferf mewn brawddeg yn ôl y galw, ailadrodd siâp ymadroddion i lunio brawddeg hir, ac felly ymlaen. Fe gâi John Gwilym ymateb ffafriol iawn gan ei ddisgyblion, a chasglaf fod yr ymarferiad yn llwyddiant. Ond hoffais innau erioed mo'r ymarfer hwn o'm rhan fy hun, na John Rowlands chwaith; hoffwn i ddim fy ngorfodi fy hun i edrych dros ffensys gan fy mod i bob amser yn byw ar ymyl y ffens, ond mi dybiaf i fod ystyried arddull, cyd-ddarllen athro a disgybl drwy ddarn o ryddiaith, a hyd yn oed dadansoddi a datgymalu, yn gallu hyfforddi disgybl i fod yn fwy hydeiml ynghylch yr hyn a ddarllena, yn nhrysorfa bythol-newydd geiriau. Yr un math o drysorfa yw darganfod trefn: dyna un o ddarganfyddiadau mwyaf mentrus bywyd. Fe'i darganfyddir gan diwtor ar oleddf. Sylwer ar fyfyrdod trawiadol Robert Rhys yn *Sglefrio ar Eiriau,* (gol. John Rowlands, 1992), un o'r trafodaethau gorau ar y pwnc a gafwyd yn Gymraeg.

Ond, yn y diwedd, pendronai John Rowlands yn ystyriol ynghylch 'hyfforddi llenydda'. A chafwyd mai mwy buddiol, gredaf i, ymdrin ag adeiladwaith stori gan y myfyriwr ei hun, a hefyd

gyd-fyfyrio gydag ef. [A chwarae teg i John Gwilym, byddai fe'n hoffi trin awduron safonol fel y triniai ef fyfyrwyr, a myfyrwyr fel awduron safonol, gan ganfod sut y mae'r awdur yn ffurfio uchafbwynt neu rwystrau i lunio elfen ddisgwyl; sut mae dramodydd neu hyd yn oed storïwr yn adeiladu gan ddefnyddio *scène à faire* (yr olygfa ddisgwyliedig o gyfarfod rhwng dau gymeriad mewn drama) ac a ddelir yn ôl nes gollwng y straen. Beth bynnag, does dim dwywaith, fod John Gwilym wedi llwyddo i hyrwyddo diddordeb ei ddosbarthiadau ynglŷn â chywreinder pennaf llenyddiaeth, er mai camgymeriad fyddai synied am neb yn llunio yr un fformiwla i ffitio pob athro.]

I fi, mae amrywiaeth y cwestiyna yn y pen draw, fel y gwnâi John Rowlands, yn cynnwys mwy nag anhrefn. A oes yna rai egwyddorion ynghylch *pwrpas* llenyddiaeth o gwbl heblaw diddanwch? A oes modd gofyn am bwrpas llenyddiaeth heb ystyried beth yw pwrpas byw o gwbl? Ym mha ffyrdd y mae llenor yn diddanu? A oes lle i bropaganda? Pam? Trafoder. Arbrofer ar drefn y meddwl.

At ei gilydd, fel y nododd Robert Rhys, canolbwyntiodd beirniadaeth lenyddol yng Nghymru'r ugeinfed ganrif ar Hanes Llenyddiaeth, gan sylwi'n bennaf ar gofnodi'r ffeithiau, a chan gyferbynnu, fel arfer, y nodweddion cymdeithasol cefndirol yn fras. Gellid olrhain y berthynas rhwng un cyfnod a'r un dilynol, bid siŵr. Mae cofiannau yn fuddiol wedi cael lle cynyddol o'r herwydd. 'Pwy' yw'r awdur? Ac wrth olrhain ei hanes personol, a oes modd gweld ffactorau yn ei fywyd yn ailymddangos yn ei gyfansoddiadau? Boed mewn prif gymeriadau, mewn problemau neu mewn digwyddiadau, a oes amrywio i berson y storïwr yn awduraeth y stori, o'r person cyntaf i'r trydydd? Ystyrier yr egwyddor o goegi mewn datblygiad stori, o wrthdaro, drwy amlhau rhwystrau'n gryno neu'n estynedig, a gwrthdaro syniadau. Trafoder problem ffeminyddiaeth gyda gostyngeiddrwydd gan y ddau ryw, a chyferbyniad hawliau ac arferion yn ei sgil: yr ymgais i fod yn uwchradd, yr ewyllys ar waith heb yn wybod, a distryw perthynas, y rhyddid i feirniad o fenyw drafod thema heblaw ffeminyddiaeth, a'r perygl o gaethiwed newydd.

Mewn cwrs ysgrifennu creadigol, mae trafod amgylchfyd awduraeth yn arwain at holl adnoddau awdur. Tyfodd John allan o nofela *Ienctid yw Mhechod* i 'Henaint yw fy Rhinwedd.'

Un o'r gweddau cyntaf adnabyddus ar gymeriad John y byddai pob dieithryn yn sylwi'n anochel arni yn ei gwmni yn fuan oedd ei swildod. Swildod 'ymosodol' oedd.

Fe gredwn i fod swildod John yn 'ddysgeidiaeth' a ymgysylltai'n isymwybodol ag athrawiaeth gyflawn o swildod, ac ymhellach o lawer â'i goch-fochni personol. Effeithiai ar ei ymagwedd at y 'bach' mewn thema a'r 'bach' mewn cymeriad. Mae'n ddysgeidiaeth o bwys sylweddol i ddynoliaeth. Byddai rhywrai mawreddog yn ystyried mai priodol, hyd yn oed manteisiol i feirdd meistrolgar fel Shakespeare yn y '*Brenin Llŷr*' neu storïwyr fel Tolstoi, draethu

am 'themâu mawr' a 'digwyddiadau byd-eang' eu diddordeb, ac am y newidiadau cymdeithasol a thechnegol sy'n newid cymdeithas. Ond ymgiliai John rhag pob mawrhydig o'r fath, a charu'r encilion. Eithr yn fynych iawn iawn, os dilynwn drywydd y gair 'pwysig' fel criterion, ymhen canrif neu ddwy, gall yr hyn a wneir mewn cornel, yn y labordy, yng nghadair freichiau'r labordy, neu mewn stiwdio bersonol cyfansoddwr cerddoriaeth yn gudd o'r golwg, fod yn anhraethol 'bwysicach' na'r confensiynol 'bwysig'.

Gair peryg yw 'pwysig' weithiau: mae 'swil' yn dipyn saffach. Tybed onid oes storïau yr un mor gyffredinol 'bwysig' gan bobl ddistadl anhysbys? Onid oes ambell fachlud haul distadl neu lygoden glwyfedig, yn ddigon hyfryd i gyffwrdd â thannau tyneraf calon ddynol? Onid oes trosedd enbyd gan blentyn pum mlwydd oed mewn plwyf diarffordd yn gallu cael ei choffáu mewn modd sy'n barhaol ei werth?

Dyma, i raddau, ddysgeidiaeth a greddf John. Eithafwr mewn swildod oedd.

Bid siŵr, o ran egwyddor does dim a wnelo swildod o raid nac â'r poblogaidd nac â'r amhoblogaidd: siglen ar bendil cloc yw'r poblogaidd. 'Y sgrechlyd uchel ei gloch' efallai sy'n boblogaidd mewn celf heddiw, er enghraifft, 'yr anarchaidd annealladwy' sy'n boblogaidd yfory.

Mentrau anfoesol a rhegfeydd y llanc, druan; ffasiwn ffilmiau'r chwarae arallfydol ar sgrin yfory; mae'n debyg fod llawer o'r gwerthoedd bydysawdol sy mewn ffuglen 'wyddonol' ar y sgrin yn gynnyrch diffyg chwaeth drennydd. Nid rhywbeth i'w ddilyn o raid yw ffasiynau gwerthoedd ynghylch troseddu enbyd rwydd gan y cwlt o enwogion twpeiddiol, y dechnoleg beirianllyd newydd, y trais a'r gwanc. Ond rhan flinderus yw oll, ysywaeth, o isymwybod pawb sy'n daeog i ffilmiau cyfrifiadurol. Gellid bod yn obsesif ynghylch anwybodaeth ac yna'n falch ynghylch llygredd. Fel y mae'r enfawr yn gallu bod mor fwlgar, mae'r mân yn gallu bod mor ogoneddus.

Roedd gan y John tawel argyhoeddiadau ar dân, rhai unigolyddol ynghylch rhyddid.

Doedd John ddim yn bersonoliaeth obsesif. Doedd *grym* argyhoeddiad ddim yn flaenllaw iddo. A dw i ddim yn sôn yn awr am unrhyw fath o argyhoeddiad crefyddol nac anghrefyddol. Nid gŵr oedd John i adael i'w argyhoeddiadau anghrediniol ymyrryd â'i ymateb hydeiml a thirion i ddarn bach o fawl oherwydd anghytundeb. Mae aeddfedrwydd yn dod â mwyfwy o ddealltwriaeth a gwarineb beirniadol ynghylch y rhychwant rhinweddol i lawer yn eu tro. Heb osgoi cwestiynau moesoldeb, mae yna wahaniaeth rhwng bod o *ddifri* (ynghylch rhyw ddiddordeb neu'i gilydd) a bod yn *obsesif*. Roedd yna gynneddf gan John a'i cadwai rhag bod yn obsesif hefyd. Ac fe ellid gweld hyn yn y parch a ddangosai tuag at goginio a chadw gwesty. Roedd hynny'n wir ddidwyll bob amser. Roedd yn alwad anrhydeddus. Hobi oedd e a droes yn swydd. Ac eto, yr un pryd, roedd ei bersonoliaeth yn cadw'r diddordeb hwnnw'n fodd ar iechyd meddwl. Roedd e'n ysgafn ei gyffyrddiad yn y swydd o goginydd, er ei pharchu, ac eto o ddifri. Trodd John ei swildod cynhenid

yn athrawiaeth i fywyd.

Gall dioddef ambell obsesiwn fod yn gyflwr anffodus i ddyn. Yn hyn o beth, roedd gennyf innau, rhaid cyfaddef, lawer eto i'w ddysgu gan John. Mae arnaf i ofn fod y gwaith o sgrifennu, er enghraifft, wedi hen dyfu i fi yn ormod o ormes. Allaf i ddim cael llonydd rhagddo, bob dydd. Ac fe dueddwn i'm hamddiffyn fy hun drwy ddweud mod i'n ceisio bod yn unplyg: os yw rhywbeth neu'i gilydd yn dda, yna i'r eithafbwynt ag ef. Ond esgus yw hynyna. Go brin fy mod i wedi gadael i'm meddwl i onid siwrnai a siawns ymdawelu. Colled annoeth yw peidio ag ymdawelu, colled ysbrydol a cholled gymdeithasol.

Mae'n rhaid dysgu crefft 'peidio'. Nid 'peidio' â gwneud rhywbeth penodol; ond 'peidio' fel y cyfryw. Dw i'n siŵr bod a wnelo llenydda â thipyn o fethiant i ymlacio'n fwyn, a'i fod wedi ymyrryd â'm rhythm byw beunyddiol. Yn hyn o beth eto, roedd John yn batrwm i fi. Amdanaf i, – wel, mi ddwedwyd wrthyf i ers tro gan gyfeilles agos y dylwn ddysgu mwy am goginio. Gallech fy nghanmol i bellach efallai am ferwi ŵy; ond byddai'n rhaid i chi fod yn garedig odiaeth am ymdrech i goginio pob dim arall.

Cyfoeth John oedd ymadael â byd yr obsesif. Roedd yn medru ymhoffi mewn swydd neu yn ei ddiddordeb hamdden, heb fod yr un ohonynt yn ei ormesu. Roedd yn medru helpu llawer o'r herwydd. Yn hynny o beth, pe bai unrhyw beth mewn unrhyw gyfeiriad yn troi'n obsesiwn, byddai'n gallu'i roi heibio yn ei le. Ac fe genfigennwn innau ato.

Does dim dwywaith am ei unigrywiaeth. Roedd yn unigryw mewn mân bethau a phethau mawr. Dysgu cymaint oedd yr hyn a ddaeth i'm rhan i, – bach a mawr. Profiad hollol annisgwyl oedd darganfod yn yr arweddau mwyaf annhebygol – er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng rhai gwerthoedd a dibenion bywydol – fod yna fan cyfarfod o hyd gyda John. Bues i o dro i dro gydag e – yn arbennig wrth drafod y Cwrs Ysgrifennu Creadigol, ond yn lle anghytuno'n chwyrn – yn darganfod fod cymhellion a chanllawiau sylfaenol creadigol cyffelyb ar gael rhyngom ni. Er enghraifft, gyda'r 'tân' a grybwyllai gynnau, sef y 'cynnau' a'r 'gwth' yn ei fryd e, er gwaethaf pob ffurf neu anffurf, gwn i fod ganddo drefn adeiladol a bywhaol a oedd yn fath o galon i'r ffrwytho tanllyd.

Beth felly oedd yr hyn a alwai John yn 'dân'? Onid dyma'r angerdd a'r ysbrydoliaeth a gredai fe oedd yn rhinwedd ac yn hanfod i gelfyddyd ac i fywyd teuluol, ac yn torri ar draws 'crefft' llenydda ac yn anadlu i mewn i'r artist? Dyna'r petrol yn y tanc, yn ddwfn iawn yn y tanc. Roedd rhaid i grefft neu gelfyddyd fynd ymhellach o lawer na chrefft fedrus. Ceid tân am ei thangnefedd hi. Nid drwg o beth i'r tân hwnnw mwyach gydio ac ymledu o wlad i wlad.

Un o brofiadau Cwicsotig fy mywyd i – bywyd a gafodd ormod o brofiadau Cwicsotig – oedd gwylied John Rowlands un tro yn f'amddiffyn i yn erbyn ein cyfaill ni'n dau, John Gwilym

Jones! Roedd John Gwilym yn methu'n lân â deall y wedd ar athrawiaeth Gras Cyffredinol gen i sy'n egluro sut yr oedd beirniad o Gristion yn medru mwynhau telynegion gan anghredadun ac arwrgerdd gan bagan, ac o bosib sut yr oedd anghredadun fel John Gwilym yn gallu sgrifennu cyfrol werthfawrogiad o Bantycelyn. Er gwaethaf dygnwch ac amynedd dadleuon John Rowlands, methodd John Gwilym hyd y diwedd â deall yr eglurhad. Ond fe'i deallodd John Rowlands, er ei fod yn dal i anghytuno â'r athrawiaeth, wrth gwrs. Beth y gall llenor ei ddymuno'n gyntaf gan ei ddarllenydd ond ei fod yn *deall*?

* * *

Beth bynnag, mae deall yn gymorth.

Bûm i'n dadlau â llawer o ffrindiau caredig ar byncіau gwahanol o bryd i'w gilydd. Er nad own i'n adnabod Saunders Lewis gystal â llawer iawn o'i ffrindiau, fe ges i beth cyfle i 'ddadlau' ag e mewn tri lle, yng Nghaergybi, yng Nghaerdydd, ac yn Llambed. Tybiwn innau fod 'gwedd ieithyddol beirniadaeth' yn llawer mwy anrhydeddus nag a dybiai fe. Yn ganlyniad i'r dadlau hwnnw, fe dyfodd fy ngwerthfawrogiad innau o'i syniad am Draddodiad fel cyfanwaith.

Roedd yn fath o reol gen i na byddwn i byth yn dadlau â neb nad own i eisoes yn ei edmygu'n fawr, gan fod bywyd mor fyr. Bu John Rowlands yn gydweithiwr agos i fi. Fe'i ces i fe'n enaid hoff cytûn (ac anghytûn) ar lawer cyfri, fel gyda rhai o nghyd-ddadleuwyr eraill. Buais i'n ddyledus iawn i Pennar am ran o'r gefnogaeth honno a wasgarai fe mor haelfrydig dros bobl ifanc. Ac er nad oeddwn i'n nabod Peate (er ifi gyfarfod ag e droeon a chael sgyrsiau personol gydag e ar hanner dwsin neu fwy o achlysuron) allwn i ddim llai nag edmygu'r hyn a wnaeth e a'r weledigaeth a gafodd wrth sefydlu Sain Ffagan. Roedd ymgyfyngu i 'ffrindiau' o'r fath yn y 'portreadau dros f'ysgwydd i' yn help i fi, o leiaf, beidio â cholli parch yng nghanol ynysu agweddau meddylfrydiol na chael fy nhemtio i fod yn bersonol.

Ar ryw olwg, mae'r gyfrol hon yn fath o hunangofiant meddyliol, felly. Olrhain y mae rai o'r cysylltiadau llenyddol ac ieithyddol a brofwyd yn bersonol drwy gytundeb ac anghytundeb dros y blynyddoedd. O safbwynt y pynciau a aeth â'm sylw i, byddwn i ddim yn ymuno mewn dadl os na chredwn fod y mater yn ddiddorol neu'n bwysig ar y pryd. Fel arfer roedd yna anghytundeb syml: yn achos Pennar, yn anghytundeb chwaeth; yn achos Peate, yn anghytundeb polisi ieithyddol yn y bôn; yn achos Euros, yn anghytundeb ynghylch perthynas Cristnogaeth a llenyddiaeth; yn achos Dewi Z. Phillips yn anghytundeb ynghylch bodolaeth gyffredinol rhagdybiau; yn achos Hywel Teifi, y naill yn tybied mai'r ffordd o lunio blodeugerdd oedd cymryd pwysigrwydd hanesyddol neu gymdeithasol yn griterion a'r llall wedi dewis ar sail safon y farddoniaeth. Gorsafoedd yw'r rheini y bûm i'n ymweld â nhw'n gyhoeddus o bryd i'w gilydd ar hyd fy oes. Nid cyhoeddus fu'r anghytundeb gyda John, mae'n wir, ond fe fu John mewn categori hollol wahanol. Yr ystafell gefn

fu'n cynefin ni i gyd-ddysgu mewn trafodaeth.... Bydd John, weddill fy oes, yn sbio dros f'ysgwydd.

DROS F'YSGWYDD (3)

SAUNDERS LEWIS

Mae'r syniad am Saunders Lewis wedi newid cryn dipyn er pan fu ef farw. Mae'n digwydd i lawer. Adeg marwolaeth mae yna batrwm ystrydebol yn crisialu fel arfer o gwmpas pawb. Fel y canodd Sarnicol:

*Yn eu harch,*
*Parch;*
*Yn eu hoes,*
*Croes.*

A bu hynny'n wir o hyd am fis neu ddau efallai, ym mryd rhywrai o leiaf, yn achos Saunders Lewis. Ond ni pharhaodd mawrfrydigrwydd felly ddim yn hir. Ar hyd ei oes, bu 'na bendilio yn nhriniaeth y Cymro hwn gan Blaid Cymru a chan wrthwynebwyr y Blaid. Felly y bu ei ddelwedd wleidyddol yn weddol gyffredinol ym mryd aelodau o'r Blaid Lafur a materolwyr eraill, ac yn arbennig y rhai nad oeddent yn llwyr eglur ynghylch imperialaeth. Cafwyd gostwng go chwyrn yn gyffredinol yn ei enw da; ond Enigma oedd. Mae'n wir bod rhai o'r dyfarniadau amdano, rhai eithafol megis y sôn amdano fel y 'Cymro mwyaf mewn hanes', wedi sticio ychydig, a hofran yn nghof rhywrai yn yr awyr, yn anesmwyth ac yn gymhleth, am gyfnod. Ond wedyn, gan bwyll, cafwyd gostwng graddol, cyson, a phendant yn yr agwedd ato.

Mae hyn yn dra chydnabyddedig yn achos gwleidyddion a pherfformwyr cyhoeddus, a phawb sy'n ddibynnol ar y Wasg am esboniad wythnosol ynghylch eu bodolaeth ddi-fwlch. Ciliant, a chwelir y parch yn deneuach. Byddant yn amlwg ar y teledu am wythnos er mwyn cadw rhyw fath o barhad dros dro ym meddyliau pobl. Ac yr oedd Saunders, yn ogystal â bod yn llenor, yn wleidydd yn llygad y cyhoedd. Mae'r ffaith hon, i'r boblogaeth a'i sylweddola, yn iachus i falchder cnawd, mae'n siŵr. Ond fe fynnodd ei enw aros er gwaetha'i wleidyddiaeth. Fe fu'n llenor hefyd.

Ond o ran gwleidyddiaeth, yn ystod oes bendiliol, bu Saunders Lewis yn gymeriad go amlwg dros f'ysgwydd i'n bersonol, ac aros yno, a hynny mewn dwy ffordd. Yn gyntaf oll, yng nghymreictod ei wleidyddiaeth: ymdeimlad a drodd wedyn oddi wrth hynny fwyfwy i werthfawrogi'i feirniadaeth lenyddol yn anad dim, rhai dramâu dethol, ei farddoniaeth, a'i fyfyrdod crefyddol.

Yn ail, gyda threiglad amser, mae cyd-destun y gorwel gwleidyddol oll ei hun o'n cwmpas yn ddiweddar wedi newid ledled y Deyrnas 'Unedig', gan ymledu yn ein meddyliau ni i gyd, a hyd yn oed wedi atrefnu cynllun bodolaeth y byd inni. Mae America wedi dod yn gliriach i bawb ac yn

nes. Yr ydym yn clywed llawer mwy amdani hi yn ddiweddar, ac mae'r darluniau o'i bywyd beunyddiol hi'n gyfarwydd ac yn ddadlennol. Mae perthynas Lloegr a'r Alban a Gogledd Iwerddon â ni'n amlwg gliriach hefyd heddiw. Mae'r Dwyrain Canol Islamaidd wedi dod yn real ac yn sydyn ddylanwadol, ac mae'r Dwyrain Pell (India a Tsieina) yn galw'n uchel dros y gorwel inni ddechrau meddwl amdanynt hwythau ar unwaith, nid yn syml am eu bod yn boblog ac yn bygwth yn ariannol, ond am eu bod bellach yn newid ein hymwybod o siâp y glôb. Bydd perthynas ein gwlad â'r holl fyd hwn yn cael mwy o effaith ar bob teulu yn y dyfodol.

Mae'r syniad am ddyfodol gwleidyddol unionsyth yn ymwneud â'r 'hyn sy'n bosib' ac yn ymarferol, yn ôl yr ystrydeb. Ond cyn hynny, y mae a wnelo â dibenion a gwerthoedd, ac ... (ysywaeth) â hunanoldeb.

Mae'n debyg pan oeddwn i'n llanc deunaw oed fod Saunders Lewis fwy neu lai'n anffaeledig am gyfnod byr. Fe amddiffynnwn ei enw beth bynnag a wnâi. Cynrychiolai unplygrwydd ac egni, gwreiddioldeb ac ymroddiad gwladgarol. A dangosodd yn hynny o beth ei burdeb cariad at wlad, ac at arwyddocâd yr iaith. Newidiodd hynny oll yn ddirfawr erbyn hyn. Disgynnodd sgeptigiaeth a dadrithio ar bawb sy'n gwleidydda mwyach. A charwn i roi fy mys ar yr union bwynt gwan yn achos Saunders Lewis a barodd hynny, ac yn f'achos i fy hun hefyd.

Protest oedd y pennaf gwendid a dybiwn o'i le yn nhreftadaeth Saunders Lewis, boed fel gweithred neu berfformiad symbolaidd neu allanol ddeddfol, neu fel protest eiriol bolisïaidd. Protest fel ffordd o fyw neu o feddwl oedd hi yn ei achos ef. Nid sôn dw i ynghylch didwylledd a gallu meddyliol ac ymarferoldeb gwan gwleidyddiaeth, ond yn ôl y diffyg mewnol sydd gan wleidyddiaeth ei hun. Mae ei chymeriad hi, fel arfer, am fod a wnelo hi â 'phoblogrwydd' wrth apelio am bleidleisiau a bywoliaeth, yn ddirywiol a llwgr. Protest yw, wrth gwrs, fel sydd i warth gwleidyddiaeth fel sydd gan brotest ei hun – sef ei hawydd anochel i drosglwyddo'r bai neu'r cyfrifoldeb gwir arwyddocaol ar rywun arall, drwy orfodaeth neu ddeddf yn hytrach na gweithredu personol cadarnhaol, bron bob amser.

Mae yna duedd mewn gwleidyddiaeth Gymreig a Phrydeinig a Byd-eang – boed yn ymwneud ag achosion gwyrdd, datganoli, chwarae banciau, neu fasnachu – i bopeth fod yn dymor-byr, yn flêr ffwrdd â hi cyn yr etholiad nesaf, gydag addewid am adferiad, heb ofal nac ymchwil na chymhwyso hir-dymor.

Bu ennill yr iaith drwy unrhyw fath o wleidydda deddfol yn oferedd cynyddol yn y traddodiad hwn yn fy marn i. Tân siafins a thymor-byr fu *Tynged yr Iaith (er enghraifft)* megis y *Tân yn Llŷn*. Nid yw Cymry yn barod i fod yn ddigon proffesiynol yn eu protest: rhaid cael canlyniadau dros nos, i adennill yr iaith, ein hen gydymaith-gwely bythol, i adfer y drefn mewn ysbytai, a llawer arall.

Yng Nghymru, fe aeth adennill yr iaith yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau, i'r Senedd ac i Lywodraeth Leol, ac yn bennaf oll i blant. A'r ffordd ganol a ailsefydlwyd gan Saunders Lewis i'w ddilynwyr oedd sylfaenu fframwaith protestio yn erbyn y Sefydliad – i'r ewyllys gambyhafio'n awtomatig tuag at yr holl bethau hyn, gwthio datganoli canolbwynt disgyrchiant awdurdod i gyfeiriad y drefn wladol. Hyn sy'n disgyrchu i graidd pobl, nid yn unig ar yr ieuenctid yn Neuadd Pantycelyn, dyweder, ond dros ysgwydd ein cynrychiolwyr yn y Senedd, a'u gohebwyr newyddiadurol. Cydiodd twymyn negyddol ym mwyafrif y rhai a feddyliai am y materion hyn, nes methu â meddwl ffordd arall.

Pe bai'r glewion, yr ieithgarwyr twymgalon – sy'n lleiafrif eisoes mewn gwirionedd, – wedi codi gwirfoddolwyr lleiafrifol i 'adeiladu' drostynt eu hunain, i weithredu'n ddibrotest gadarnhaol, drwy ymgynnig i gynorthwyo'r dysgwyr adenillol ddwfn, yn uniongyrchol, mewn sgwrs, mewn cyfarfod uwchben coffi, – pe baent yn troi i ddarparu cwmni a chroeso mewn ymddiddan anffurfiol naturiol – pe bai modd – am bob ***un*** meddwl protestiol – gan y Cymry Cymreig glew – *ymddihatru o'r meddylfryd protestio naïf hwnnw – a chynnig yn ei le* ***ddeg*** *gwasanaeth, awr yr un, dros gyfnod o* ***ddeg*** *wythnos, dyna hwy'n dechrau chwyldro llawer mwy nag a gafwyd erioed yng Nghymru.*

Meddylier am atrefnu cyfeiriad llif yr egni i garu'r iaith yn ymarferol drwy 'adeiladu' heb yr un cas na bygwth, yn lle tân siafins. Wedyn, ni allai'r meddwl yng Nghymru yn raddol lai na newid, o weithredu'n gadarnhaol.

Gellid synied bod yr ysgrif hon yn condemnio calon bywyd Saunders Lewis, ac yn condemnio gwastraff bywyd y cannoedd yr un modd a fu o bryd i'w gilydd yn hawlio meddylfryd adennill yn ôl ei ddull ef. Ond nid felly. Aeth y miliynau o rai eraill heibio hyd yn oed i'r meddylfryd protest hwnnw, ac arddel y Dim. Yn hanesyddol, atalnod llawn, fwy neu lai, yn yr ardd gefn fu detholedigion Cymdeithas yr Iaith, yn anochel. Roedd calon y protestwyr yn iawn, ond nid yr ymennydd. Ni ddylid eu difrïo serch hynny. Ac felly y bu Saunders Lewis yn pwyso dros ysgwydd fy nghydwybod, am nad dyna'r cwbl oedd ef, ac mae'n f'atgoffa i am y drysorfa aruthrol o gerddi ac o ddramâu, ac o feirniadaeth lenyddol a wnaeth. Rwyf yn plygu 'mhen. Dyma bethau a bery i'w enw barhau... na, nid 'byth', ond tra bydd Cymry'n *darllen* yn ystyriol yr hyn a olrheiniwyd gan y beirniad llenyddol hwn ei hun pan ddadlennodd gyfoeth syfrdanol o draddodiad rhyfeddol.

Y fan yna y mae Saunders o hyd, ac mae ei ysbryd e'n dweud wrthym ni, 'Nid dyma'r amser i wylofain ac ysgyrnygu dannedd, wŷr ifainc. Mae'r haul wedi codi y bore, mae'r adar yn canu er gwaethaf popeth, mae'r merched yn bert, a'r iaith yn moli. Codwch eich pennau. Tynnwch eich cleddyfau ysbrydol bob un o'r wain, ac ati wŷr ifainc.'

Nid siarad â'r crachach yr oedd, eithr â phawb:

'Minnau yn awr, galwaf ar fy nghyfeillion,

Cyffredin ac ysgolhaig,
Deuwch ataf i'r adwy,
Safwch gyda mi yn y bwlch,
Fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl y glendid a fu.'

Darllener ei neges 'Diwylliant yng Nghymru' (1945) ar awr ddu yn hanes ein llenyddiaeth yn yr ugeinfed ganrif, ac fe glywn ei bwyslais catholig (gydag 'c' fach).

Tybiai, yn gywir ddigon, nad oedd yna neb yng Nghymru yn ei ddeall. Yn sicr, nid oedd ef yn ei ddeall ei hun. Eto, rhan o'i frwydr fewnol barhaol honno oedd ymaflyd ag ef ei hun.

Ei ymdrech ddi-baid ar hyd ei oes oedd deall y Gymru ynddo. Ond er yr ymroi ymenyddol, methai â chyflawni'r uchelgais honno. Tybiai ar y naill ochr – yn llawer rhy hygoelus – fod a wnelo 'gwleidyddiaeth' â deall Cymreictod. Ac onid y gyfraith oedd biau gwleidyddiaeth, math o orfodaeth? Iddo ef, uwchlaw gwleidyddiaeth ceid deddf foesol. Ond gwacter oedd hynny wrth geisio siarad â Lloegr, dyweder, ynghylch y Gymraeg, ei hystyr a'i bodolaeth. Meddai yn *Tynged yr Iaith:* 'Iaith y mae llywodraeth Loegr yn ei deall ydy trais. Dydy hi'n deall dim apêl at reswm, at gyfiawnder, at hawliau dyn, ond mae hi'n cynddeiriogi, yn carcharu, yn dial, ac wedyn yn parchu ac yn ysgwyd llaw â threiswyr. Treiswyr sydd yn ei chipio hi. Ac mi ddwedwn i fod unrhyw fudiad cenedlaethol sydd yn dweud nad ydy trais ddim i'w gydnabod am eiliad yn bosibilrwydd i'r mudiad hwnnw, bod y mudiad hwnnw'n cyhoeddi i lywodraeth Loegr dydyn ni ddim o ddifri, gwnewch fel y mynnoch chi â ni.'

Roedd Lloegr wrth gwrs yn llawer mwy cymhleth na hynny.

Roedd trais yn syml ac yn ddealladwy. Ac wrth fod yn syml, roedd yn debycach o fod yn fwy pragmataidd boblogaidd. Amhoblogaidd fu tröedigaeth Saunders Lewis i Rufain. Roedd y gwir a dderbyniai fe ynghylch priodoldeb cynhenid Catholigiaeth i achub Cymru y tu hwnt i ddeall y rhelyw. Peth od yw credu: y norm yw'r hyn sy'n rhwydd. Y gwir yw'r hyn sy'n anodd. Ond nid yr hyn sy'n rhwydd na'r hyn sy'n cyd-ddwyn â mynd gyda'r llif yw'r hyn sy'n dderbyniol i Gristion, eithr yr hyn sydd raid.

Ar lawer cyfrif, ystyriai Saunders Lewis mai swyddogaeth addysgu oedd y rhaid ganddo fe. Roedd ganddo lawer y gallai'i gyflwyno. Ym mhob addysgu, trechu'r rhwystr yw craidd problemwaith. A gellid cymryd yn lle'r lliaws weddau am y maes i gynrychioli'r broblem a'r datrysiad, ac un wedd yn enghreifftiol bendant: sef rhwystr y meddwl imperialaidd. Yn ystod y chwe chan mlynedd diwethaf, un cysondeb a welwyd yn Lloegr, sef ei seicoleg imperialaidd gyson a diymwybod. Casglai ei pherthynas orthrechol ac ymddygiad ymerodrol, heb wybod hynny yn syml drwy'i bodolaeth. Methodd yn gyfan gwbl ag amgyffred ei pherthynas ymerodrol â'r un wlad arall. Doedd dim ateb ond am les a braint y ffaith fod yna beth di-fai – sef yr ymerodraeth ei hun –

yn gyflwr dymunedig i seicoleg lle fel Cymru, a seicoleg amser fel eiddo'r Cymro.

Pan wynebid Lloegr mwyach gan Ogledd Iwerddon, yr Alban, neu Gymru, doedd ganddi hi ddim syniad sut i *ddechrau* deall y berthynas uwchradd-isradd. Dyna'r norm iddi. Ond yr hyn a oedd yn ddiddorol yn hyn o drasiedi oedd bod Cymru hithau am gripian fabwysiadu ymwybod neu ddiffyg ymwybod Lloegr. Cymerai Lloegr ei bod eisoes heb angen amgyffred: gwyddai bopeth yn barod.

Yr un yn union oedd yr anwybodaeth neu'r diffyg ymwybod yng Nghymru ynghylch crefydd, ac estheteg ôl-fodernaidd. Heb ymwybod â'r angen am wybodaeth, doedd dim symud.

Gwaith cyson Saunders Lewis yn ei ddramâu, ei feirniadaeth lenyddol, ei gerddi, a'i newyddiaduraeth fu dadlennu trueni taeogrwydd Cymru, ac ymbalfalu am ateb cariadus cudd.

Amlwg yw, yn ystod y chwe blynedd diwethaf (2010-15) mor ychydig y mae Saeson yn meddwl am sefyllfa seicolegol y sawl sy wedi'i drefedigaethu. Maent yn byw mewn byd arall – yn y Dwyrain ac yn Ewrob.

Ychydig y bydd cenedlaetholwyr yn myfyrio am seicoleg imperialaeth.

Ond y mae angen meddwl o'r ddwy ochr gyda'i gilydd yn addysgol, er mwyn iawnddeall yr un o gwbl, y dyddiau hyn, ac er mwyn iawn amgyffred bod mwy o angen amynedd i ddysgu i'r Saeson beth yw ystyr 'Unedig' yn yr ymadrodd 'Teyrnas Unedig' lle y bo dyn a dyn yn gyfartal.

Cymhariaeth gyfoes nid ofer fyddai'r drafferth debyg wrth feddwl am y ddwy ochr gyda'i gilydd mewn ffeminyddiaeth. Mewn beirniadaeth lenyddol fenywaidd, mor ychydig y sylweddolir am y ddwy ochr fel y mae'r sefyllfa drefedigaethol fenywaidd, ysywaeth, yn cael sylw unochrog ymwthiol – heb fyfyrio'n oleuedig ond am y traddodiad imperialaidd wrywaidd. Pan ddarllenwn *oeuvre*, neu gyfanwaith beirniad llenyddol benywaidd, y mae ffeministiaeth (sef yr ymbleidio) yn rhemp. Ac anodd dod o hyd i gydbwysedd, lle y bo byd natur hefyd yn bodoli. Ar hyn o bryd y mae ffeministiaeth yn niweidio emosiynau benywod.

Y gwir a welwn, gydag imperialaeth, yw dallineb llwyr ynghylch y *ddau* genedlaetholdeb: y cenedlaetholdeb ymosodol a'r cenedlaetholdeb amddiffynnol, sef y cenedlaetholdeb Natsïaidd a Seisnig sydd am drechu'r trefedigaethedig drwy faintioli a chyfoeth a dulliau eithafol difaol, a'r cenedlaetholdeb Cymreig a Basgaidd sy'n ceisio diogelu dwy ochr mewn ymwybod o ddynoliaeth cyfuniad a chyd-ddeall a hyrwyddo'r hyn sy'n ddiawdurdod o ran perthynas gydwladol. Yr hyn sy'n rhyddhau'r ddwy ochr yw ymwybod o ddynoliaeth cyfuniad a chyd-ddeall y ddwy ochr yr un pryd ynghyd.

Mae'r gair 'Ymerodrol' ('*Imperial*') yn destun balchder i rywrai; ac i eraill y mae'n air o gywilydd. Mae'n ffenomen fyd-eang o 'chwenychu'. Ar y naill ochr y mae'n lleiafswm o rym yn ymfodloni ar geidwadaeth, ac ar y llall y mae'n symudiad anfodlon, ac yn ceisio rhyddid a

chyfrifoldeb radicaliaeth. Nid felly y dylai fod. Iach i rywrai yw ymddiheuro. Radical ceidwadol oedd Saunders.

Yn 2006 cafodd Saunders Lewis gofiannydd teilwng ohono'i hun. Arhosodd hwnnw yn hir gydag ef. Nid oedd yn hawdd. Rhaid oedd cael ysgolhaig ystwyth a manwl eithriadol, i'w gyflwyno o'r newydd. Onid oedd Saunders wedi gadael ar ei ôl yn drywydd twyllodrus? Am fod Saunders Lewis wedi syllu arno'i hun gyda syndod wrth ysgrifennu amdano'i hun, gydag edmygedd dyrys hyd yn oed, ac eto, wrth gwrs, gyda chywilydd a chwilfrydedd, ac er nad oedd yn credu dim o'i gasgliadau, rhaid oedd cael cofiannydd ei hun nad oedd ddim yn derbyn y syndod gwamal hwnnw. Ac eto, yn sicr, nid dryllio delwau oedd ei gymhelliad chwaith. Robin Chapman oedd hwnnw.

Defnyddiai Robin Chapman y cwbl o'r dystiolaeth gyda gronyn o halen, a'i wau'n stori gyfareddol o gymhleth. Go brin fod Cymru wedi cael yr un cymeriad amrywiol, mewn mygydau mor amrywiol – heblaw yn achos Iolo Morganwg – nac un a fu'n fwy cymhleth, ac yn gwybod ei fod yn gymhleth. Dywedai Robin Chapman yn gynnil yn ei Ragymadrodd: 'Y bwriad yn y gwaith a ganlyn yw adfer y bywyd hwnnw trwy ddangos, hyd y gellir, gyfochredd a chyfatebiaeth y digwyddiadau yn ei hanes a'i ymateb – cyhoeddus a phreifat – iddynt.' Ni ellid credu'r cofiannydd yn 'llawn' yn ei fwriad i 'adfer yn llawn'. Ac nid wyf yn credu'i fod yn disgwyl inni'i gredu. Yr hyn y mae Robin Chapman wedi llwyddo i'w roi i ni yw campwaith o gofiant i'r gwrthrych na chawsom ni'i ragorach o ran diddanwch a dysg, meddwl deallusol, dadansoddol, a hwyl ym mywyd ei wrthrych. Mae'n gweld arwyddocâd i bob rhithyn o awgrym ym muchedd Saunders Lewis, ond nid yw'n ceisio symleiddio a smwddio'r corneli danheddog er mwyn unrhyw ddymuniadau clecsgar na gwawd newyddiadurol a all fod gan ei ddarllenydd. Ond yn fwy na hynny, y mae'n datgelu i ni lawer o weledigaeth fawreddog a disglair meddwl Saunders Lewis heb hynny, yng nghanol yr enigma.

Maes y gad i eraill oedd cymysgedd ac uniondeb y meddwl hwnnw er dyddiau'i blentyndod. Wedyn, roedd yna frwydr dra bwriadus ar gerdded ynddo rhwng Academiaeth a'r Llenor Creadigol. Yn wir, amser ei benodiad i'w swydd yn ddarlithydd yn Abertawe, cafodd lythyr gan gyn-ddarlithydd o gyfaill iddo yn Lerpwl: 'Delightful to see you back in academic life; you will never let it become too academic.'

Ac yntau'n wleidydd hefyd, roedd yna frwydr ar gerdded ynddo hefyd i beidio â bod yn rhy wleidyddol nac yn rhy egwyddorol. Gallai bleidio'r cyfansoddiadol a'r anghyfansoddiadol. Ond gallai gael hwyl hefyd. Doedd e ddim yn wleidydd confensiynol go iawn, nac am fod yn wleidydd confensiynol, o leia, pe bai modd newid cymdeithas heb hynny. Ni fynnai 'wladwriaeth' ar draul 'gwareiddiad.' Ac fe wyddai nad gwleidydd mohono. Ond doedd neb arall ar gael yng Nghymru ar y pryd, a oedd yn genedlaetholwr digon ymarferol ac a allai felly gyfaddawdu'n ystyrlon os gallai fod

angen. Yn sicr, nid Lloyd-George mohono: roedd hwnnw'n rhy egoganolog o fradwrus.

Nid gwleidyddiaeth oedd diddordeb Saunders Lewis, eithr moesoldeb – moesoldeb epiciwrïwr yw pob pechadur o Gristion. Epiciwrïwr digywilydd oedd Saunders, ac edifarhâi am hynny, yn arbennig yn ei farddoniaeth, ac felly'n gyhoeddus, ac yn bur ddyfal. Daeth hyn yn glir erbyn heddiw, mae'n debyg. Yn ystod fy llencyndod i, fe anwybyddwn i'r paradocsau yn Saunders. Ond er pan oeddwn i'n llanc yn nhrydydd degawd yr ugeinfed ganrif, bu un person yn edrych dros fy ysgwydd i yn o gyson. A Saunders Lewis oedd hwnnw. Un oedd a gynhyrfai farnau brwd ar y ddwy ochr i gynulleidfa, yn negyddol gan amlaf, eithr yn gadarnhaol hefyd. Ond dywedid y fath eithafion barn yn ei erbyn, (a'r canolfryd rhyngddynt), fwy o adlewyrchiad gan amlaf ar ei feirniaid nag a wnaent ar Saunders Lewis ei hun. Yr hyn dw i am ei wneud yw peidio ag ymuno yn y dadleuon hynny, eithr sylwi ar yr hyn a wnaeth e'n gadarnhaol yn fy mywyd i, ac erbyn hyn dros fy ysgwydd i; a pham mae'r detholedigion hynny'n bwysig i fi sôn amdanynt. Yr un pryd, dw i am osgoi seboni gymaint ag y medraf.

Wrth gwrs, mae mabwysiadu'r meddylfryd hwn yn golygu bod unrhyw beth nas crybwyllaf, ac dw i'n ei anwybyddu (yn y golwg), yn awgrymu'n gywir nad yw hynny ddim yn dderbyniol i'm chwaeth mwy perthnasol i. Y pum maes a ddetholaf sy bwysicaf i fi, (ac i Saunders), yw'r Ffydd Gristnogol, yr Iaith Gymraeg, Cenedl y Cymry (gan gynnwys yr ymlyniad teuluol), Gwareiddiad Ewrop, a Llenyddiaeth. Ym mhob un o'r rhain, fe ges i fod gan Saunders rywbeth a'm diddorai'n gadarnhaol. Ac fe dybiwn i, hynny sy'n cyflyru'r ysgrif hon ar ei hyd, ac yn esbonio pam y mae e'n pwyso dros f'ysgwydd i.

Bu ef yn llenor amryddawn. Mae ef ei hun yn dweud ei fod yn synied bod gwleidyddiaeth wedi niweidio'i fywyd a gwastraffu'i amser, pryd y gallasai fod wrthi'n llenydda. Ond dw i ddim mor siŵr am hynny. Tybied dw i fod ei weithredu a'i sgrifennu gwleidyddol ac ieithyddol wedi bod yn rhan dra buddiol o'i gilydd, ac o adeiladwaith cyfoethog ei feddwl. Diau fod ei fethiannau llenyddol wedi bod yn gyfrannog hefyd i'w brofiad cyflawn, ac i'w adeiladwaith gwerthfawrogol personol, yn ogystal ag i'w waith ei hun ac i waith pobl eraill. Bid a fo, prin yw'r cerddi ganddo y byddaf i'n cael fy nghyfareddu ganddynt; ond i fi, mae yna rai sy'n dra gwerthfawr ac yn ganolbwynt i'w waith, sef: Mair Fadlen (ben ac ysgwyddau uwchben pob un), Llygad y Dydd yn Ebrill, I'r Sagrafen Fendigaid, Y Pîn, Golygfa mewn Caffe, Rhag y Purdan, I'r Lleidr Da, Y Dilyw 1939, Y Gelain, Pregeth Olaf Dewi Sant, Y Dewis, Y Saer, Haf Bach Mihangel 1941, Dawns yr Afallon, Emmäws, Mabon, Caer Arianrhod, Marwnad Syr John Edward Lloyd, Puraf a Thisbe, Marwnad Thomas Gwynn Jones, Difiau Dyrchafael, Lleuad Mehefin, Dychwelyd, Et Homo Factus Est. Crucifixus..., Plentyn Siawns, Mai 1972, Bawcis a Philemon, Gweddi'r Terfyn, Cyfarch, a Gair at y Cymry. Yn y cerddi hyn, mae'r darllenydd Cymraeg yn y ddwy ganrif ddiwethaf yn dod o hyd i

ganeuon sy'n bodloni deallusrwydd oedolyn ac yn ei lenwi â synwyrusrwydd iach a dychymyg cyrhaeddbell, a rhychwant gorchestol yn ei gywair. Nid yn aml, onid yng ngwaith Waldo, yn yr ugeinfed ganrif, y ceid y fath her bleserus i ddarllen cerddi. Roedd yna rywrai eraill wrth gwrs yn y cyfnod 1902-2016 a oedd yn cyrraedd lefel aruchel ar brydiau. A diolch am y rheiny. Efallai, mewn gwlad gymharol fach, fod yna ragoriaeth amheuthun o'r fath y dylid ei dathlu'n llai ymataliol. Ond aderyn dierth oedd Saunders Lewis ar lawer cyfrif. Wedi paganiaeth, neu sgeptigrwydd neu ryddfrydiaeth ddyn-ganolog rhamantwyr dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd syniadaeth Gristnogol yn taro pawb yn bur ddieithr ym marddoniaeth Saunders Lewis. Yn ei farddoniaeth, yn hytrach nag yn benodol yn ei feirniadaeth, yr oedd yn fforio'i ffydd ei hun ac yn ei ddinoethi'i hun yn greulon. Gwrthodid traddodiad crefyddol Cymru ganddo yn syml oherwydd bod Sefydliad arweiniol yr eglwysi wedi disodli derbyn ystyr ffydd uniongred ac awdurdod yr Eglwys a'r ffydd apostolaidd. Diflannodd bygythiad y Beibl oddi ar ddeiet y Cymry diwylliedig ers tro yr un modd, gan ofn ei berthnasoldeb iachaol.

Bu dramâu Saunders Lewis wrth gwrs yn ddigwyddiad cwbl ar ei ben ei hun yn hanes y ddrama Gymraeg – Amlyn ac Amig; Blodeuwedd; Siwan, ac Esther; Gymerwch Chi Sigaret?, a Brad; ac Yn y trên. Saith o ddramâu (o leia) sy'n sefyll i'r dyfodol gan ein prif ddramodydd. Rhaid cofio'r amgylchfyd amaturaidd a phoblogaidd ynghynt a thrwy gydol y cyfnod hwnnw heb fawr o 'feirniadu' dramatig. Bu gennym actorion dawnus, ac ambell gynhyrchydd medrus iawn. Ond am y cynnwys, sef y testun ei hun mewn dramâu gan ddramodwyr eraill – y prif beth, sgript y ddrama – ychydig iawn sy o werth beirniadol, oherwydd diffyg myfyrdod am safonau a gofynion celfyddyd, gormod o frys neu ry ychydig o amser, a diffyg uchelgais a diffyg hunan-barch a oedd yn gyffredin mewn llenorion cyfoes, heb sôn am y methiant i fyfyrio am gyfoeth bywyd. Tueddwyd i neilltuo'r ddrama yn ffurf lenyddol, fel pe bai ar wahân i brifffordd llenyddiaeth, fel pe bai'r ffaith mai yn y perfformio y bernir dilysrwydd camp unrhyw ddrama, ac na ellir, o'r herwydd, ei barnu megis cerdd neu nofel. Yn hyn o anhawster y sylweddolir gwerth myfyrdod am feirniadaeth lenyddol ym maes y ddrama, ac am natur beirniadaeth ffurf a chyflwyniad pob llenyddwaith. Prinder hunanfeirniadaeth sy wedi datblygu ymhlith caredigion y ddrama o'r herwydd. A hynny – mewn crefft ffurf, deunydd, a diben – fu diffyg mawr y ddrama ddiweddar.

Dyna ni – ar ôl barddoniaeth a drama – yn cael ein harwain o ganlyniad i ganolbwyntio yn awr ar feirniadaeth lenyddol Saunders Lewis, a'r honiad sy gan rai y dylid trin ei ddawn feirniadol ochr yn ochr â'i gerddi a'i ddramâu, gan mai fe, yn bendifaddau, oedd beirniad llenyddol praffaf llenyddiaeth Gymraeg yn ein holl hanes. Dichon fod ei feirniadaeth lenyddol yn fwy anwastad na'i gerddi ac na'i ddramâu, oherwydd dylanwad newyddiaduraeth, brys 'Cwrs y Byd' er enghraifft, a checru newyddiadurol gwleidyddol. Ond yn Hanes Beirniadaeth Lenyddol Gymraeg, does dim

dwywaith fod yn rhaid ystyried Saunders Lewis yn flaenaf yn y maes. Ac os daliwn ni i arddel gwerthoedd dychymyg, ymennydd, a synhwyrau gweledigaethus, yna, does, ysywaeth, fawr o gwmni ganddo ar yr uchelfannau. Gwelir hyn yn bennaf yn y cyfrolau *Williams Pantycelyn, Meistri'r Canrifoedd, Meistri a'u Crefft,* ac *Ati Wŷr Ifainc.* Dyna feirniadaeth lenyddol groyw sydd wedi'i llywio i raddau o safbwynt cynnwys gan Gatholigiaeth a Gwleidyddiaeth.

A dyna ni ar ôl crynodeb rhestrol yn cael ein hannog bellach i archwilio'r gwerthoedd a'r pwrpas, y gweledaid a'r egni a gafodd ef yn ei syniadaeth ddwysaf, yn y pynciau a roddai undod i'w feddwl ac i'w safle yn hanes Cymru. Nid gwleidyddiaeth arferol oedd hynny. Wedi'r cwbl, er bod llawer o haneswyr yn ôl eu traddodiad wedi ymgyfyngu'n ormodol i synied mai gwleidyddol yn go iawn yw calon pob Hanes parchus, bu'r duedd yng Nghymru drwy drugaredd (nid hollol ddiweddar) i dybied fod materion ymylol megis Cerddi, Dramâu, Nofelau, ie, a Beirniadaeth Lenyddol yn bodoli o leiaf o fewn Hanes, ynghyd ag ymyrraeth 'anffodus' Crefydd hefyd. Yn sicr, doedd Saunders Lewis ddim wedi gallu byw hebddynt. Rhaid inni ychwanegu 'Ysgrifennu Crefyddol' at y pedwar llenddull a enwyd.

Crefydd a Chymru oedd, bob dydd, ddau begwn mawr uchelnod meddwl y genedl, a'r ddau o fewn fframwaith o ddeallusrwydd, ac o gariad lleoledig, ymarferol, synhwyrus o synhwyrol. Nodwedd bennaf gwleidyddiaeth oedd pechod, ym mryd Saunders Lewis. Dyna pam y mae gwleidyddiaeth yn bod (fel y mynnodd yn ei 'Lythyr ynghylch Catholigiaeth'). Cyfrwng peiriannol yw pechod ym mhob rhan o fodolaeth gan bechadur naturiol cyfrifol, wyneb yn wyneb â'i wlad, lle y gorfodir dyn i geisio achubiaeth.

Hyd yn oed yn ei Grefydd, wyneb yn wyneb â chredo Gristnogol, amheuwr yw Saunders Lewis yn hiraethu am gredu. Mewn cyfweliad, dywedodd un tro: 'gwyn ei fyd y Cristion y mae credu holl Gredo Nicea yn hardd a sicr a diysgog iddo. Ni bûm erioed yn un o'r fath. Rydw i'n cario baich o amheuaeth ac o dywyllwch drwy fy oes, yn rhan annatod o'm ffydd a'm gobaith, ond gyda hynny yn aros gyda'm dewis a cheisio gwneud y pethau sy raid.' Hiraethai am fwyfwy o ffydd fel pob Cristion. A dyna ddechrau enigma Saunders Lewis y llenor.

Hyd yn oed tua diwedd ei oes, ac yn gweld Marwolaeth yn carlamu'n wyllt tuag ato – yn boenus o araf – allai fe ddim gweld dim yn fwy chwyslyd o daer a phwysig ar y pwynt ar y pryd – yn nannedd angen, na'r rheidrwydd i sicrhau parhau Lladin – yn unig iaith briodol i ryngu bodd Duw yn yr offeren. Meddyliwch. Y dibwys hwnnw oedd yr argyfwng peniwaered iddo. Roedd yr ymylon yn chwenychu'r canol. Hefyd y gwyrad ffasiynol ar y pryd, sef Ôl-foderniaeth yn niwedd y Mileniwm: dyna oedd yn haeddu 'hunanladdiad' yn y trên; a chaed diffyg synnwyr Ôl-fodernaidd yn sgil y ffaith fod y llywodraeth am gau'r rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Roedd gwerthoedd bywyd peniwaered o'r fath yn haeddu Ôl-foderniaeth anhrefn.

Yng nghyd-destun Crefydd yn ei bendrondod ynghylch ei uchelnod, fe gâi ef hefyd bendroni am ei amgylchfyd llethol, sef cymeriad seicolegol ac eneidiol Cymru. Ysgrifennodd at Gwynn Jones yn Ebrill 1922 o blaid byw yng Nghymru: 'Un argyhoeddiad sy'n tyfu ynof yw nad oes gobaith am ddim tra bo'm yn aros yn Brotestaniad.' Pwy oedd y 'Cymro', felly, yn ei fryd? 'Llwyddasom,' meddai, 'i fyned heibio i'r cyflwr hwnnw pan sonio dynion am ddyheadau'r Cymro, anianawd y Cymro, delfrydau'r Cymro, ac felly ymlaen *ad nauseam*.' Y tebyg yw na allai Saunders Lewis ateb y cwestiynau hyn, oherwydd na wyddai'r atebion, ac roedd wedi blino ar eu hateb; ond fe'i gofynnai er hynny. Hyn oedd dirgelwch bywyd yn y ddau brif bwnc a oedd yno o'i flaen: Cymreictod a Christnogaeth. Does dim syndod ei fod yn honni bod 'cenedlaetholdeb ... yn debyg o ddinistrio'r genedl Gymreig.' Ofnai o waelod ei galon y byddai fe'n gwneud mwy o ddrwg nag o dda. Bu bron â'i wneud... Hyn o hyd oedd yr enigma distrywiol.

Dyna'i onestrwydd. Ac roedd y gonestrwydd hwnnw'n bôs i'w gyd-Gymry, yr unig gynulleidfa a ddymunai. Pôs oedd, megis y cyngor: 'Peidiwch â gofyn am annibyniaeth i Gymru. Nid am nad yw'n ymarferol, ond oblegid nad yw'n werth ei chael.' Hyn a osodai fwlch rhyngddo a'r gwerinwr diwydiannol yng nghefn gwlad; rhyngddo a Dafydd Iwan, dyweder.

Siociwr oedd e, wrth reswm, yn union fel y'i darluniwyd gan Robin Chapman gyda'r fath flas. Dyma'r hyn a welai ei gyd-Gymry, yr hyn oedd y ddelwedd ohono'i hun ac y dymunai'i thaflunio, y dramateiddio a oedd yn groes i'r graen, ac a ddymunai fod yn groes i'r graen. Perthynai, meddai, i 'cranky minority' o 'papist converts' yn y Gymru Gymraeg a ymhyfrydai mewn cythruddo ei meddylfryd. 'The result is delightful... the usual Catholic dark mentality.' Ond roedd yn fwy na siociwr newyddiadurol, wrth gwrs.

Siociwr paradocsaidd oedd yn ddiau: does dim dwywaith ei fod yn awyddus i greu'r ddelwedd honno, er mor blentynnaidd oedd hyn yn y bôn. Honnai fod cenedlaetholdeb ... 'yn debyg o ddinistrio'r genedl Gymreig.' Ac eto, o'i ddiffinio mewn ffordd arall a arddelai, nid oedd fawr bwysicach na'r genedl ffiaidd honno. Ar yr ymylon rhwng dwy ystyr yr oedd yn byw, felly, rhwng Ysbryd bythol Penyberth yn gyntaf, sef y ffrwydro parhaol, gwrth-basiffistaidd a'r dosbarth-gweithiol uchelwrol a cheidwadol – a garai: a'r Gymru, nad oedd am ennill ei phleidleisiau er mwyn gwladwriaeth fythol dawel, na Chymreigio Cymru, ond er mwyn ailgreu'r lle'n llai plentynnaidd na'i safiad ef fel siociwr; – y ddwy Gymru hyn, yn wir, roedd yn rhan ohonynt. Roedd ei gariad at hon – ac at y Blaid – yn gallu bod yn dân ar ei groen. Cawsom ni amryw feirniaid ohono a âi i *rai* o'r cyfeiriadau llenddulliau hyn. Ond roedd Saunders Lewis yn llenor crwn, ac yn llenor gloyw, doeth, melys, dwfn ond enigmatig yn fynych. Ac roedd hynny'n esgusodi llawer. Ar yr un pryd, mynnai fod yn baradocs o arweinydd a'i gwadai'i hun yn ddychrynus; ac ar y llall, fe ddymunai ennill.

Oherwydd ei gefndir a'i ddawn lenyddol anghyffredin, roedd yn ymwybodol fod 'paradocs'

fel ffurf o feddwl yn ffurf o lenydda hefyd. Troi ystyr, a'i sianelu mewn ychydig o eiriau a wnâi'r paradocs i'r ffaith o lenydda. Paradocs oedd y trosiad ei hun o ran anian, ac felly'n weithredol yn fynych, ac roedd trosiad yn troi llenyddiaeth o'r llythrennol i'r cysgodol neu i'r symbolaidd neu'r cynrychioliadol. Cydnabyddai fod bywyd ar waith yn gorfforol ac yn ysbrydol, ac yn gweithio ar lefelau gwahanol o ystyr, heb i neb ddeall y cwbl. Trosiad oedd Saunders Lewis ei hun.

Roedd drama yn troi'r awdur i fod yn sawl person. Roedd yn fynych yn adeiladu iddo'i hun uchafbwynt neu'n drobwynt neu'n *scène á faire.* Dodai ddechrau, canol, a diwedd i ynysu darn o fywyd. Cronnai gasgliadau deallol a theimladol yn brofiad. Felly y gwnâi llenorion normal. Ond roedd y troi a wnâi ef yn mynd ymhellach. Mae Robin Chapman yn sôn am Saunders Lewis wrthi'n pwyso mawredd Williams Parry, ac yn dweud: 'Ei amcan wrth herio safonau cymharol barddoniaeth yw gorseddu ei hansawdd ysbrydol, a thrwy estyniad, ei barnu yn ôl ei huniongrededd Cristnogol.' Fe wnâi Saunders Lewis y bardd, yntau, hyn. Ond fe wnâi Saunders Lewis hyn wrth ddarllen, ac wrth sgrifennu barddoniaeth, yn ogystal â llunio beirniadaeth. Pan drôi at Gruffydd, mawrygai'r un rhagdybiau a'i harweiniai ef drwy goedwig y tyndra: 'Nid bywyd o gwmpas a geir ganddo ef, ond barddoniaeth yn tyfu allan o fywyd, ac yn datguddio'r pethau tragwyddol a hanfodol sy'n gorwedd odditanodd.' Diau fod rhagdybiau Saunders Lewis yn ei wthio i ddod o hyd i wefr ysbrydol Gristnogol, ynghanol seciwlariaeth a moderniaeth a naturiolaeth ramantaidd a llacrwydd materol oes ddirywiol a oedd ar i lawr o fewn hanes Protestaniaeth ryddfrydol. Ac eto, canfu Saunders Lewis fod realiti sobr ysbrydol yn cyniwair o hyd yn sentimentaliaeth a henffasiynrwydd Gruffydd a Williams Parry. Fe gaed, yn yr ymchwil yna, y gwerth o ddod o hyd i ffactorau anghydffurfiol, athrawiaethol a phrofiadol a oleuai i'w gyd-ddarllenwyr rinweddau gras cyffredinol i'w coleddu. Dyneiddiaeth deimladol oedd hyn dan ddylanwad traddodiad Cristnogol.

Ac fe âi ymhellach na hynny gyda syniadaeth hanesyddol a dadansoddiad cymdeithasol hollol newydd yng Nghymru. Gwelai hanes chwyldroadol symudiad yr Hen Gorff fel gweithred genedlaethol, i uno'r genedl, ac eto i wrthod Anglicaniaeth wladwriaethol Seisnig; a gwelai''r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn enwadau ac yn sefydliadau Cymreig; a'r cyfuniad o Fethodistiaeth (Tân) a rhesymeg trefn yr Hen Gorff yn gymdeithasol rymus. Meddai hyd yn oed am gyfnod Ann Griffiths: 'Yr oedd troi'n Fethodist yn 1796 yn fwy chwyldroadol na throi'n genedlaetholwr yn 1937.' Roedd hyn yn dramgwydd i 'geidwadaeth' lipa ddifeddwl y seciwlaraidd lipa ar y pryd, ac ym mryd y werin datws yn 'sen ar yr holl sefydliadau' gwrth-Gymreig.

Mewn geiriau eraill, yr oedd y Diwygiad yng Nghymru (yn y ddeunawfed ganrif) yn chwyldro cymdeithasol buddiol i'r Pabydd hwn, yn ogystal ag yn chwyldro tröedigaethol ysbrydol. Dichon fod yna ymgais gan Saunders Lewis i synied am Gristnogaeth ei gyfoeswyr fel pe bai'n ymgais i'w gweld nhw'n fwy meddyliol Gristnogol nag roedden nhw. Haws yw inni bellach weld

gwanhad araf y ffydd yn fath o adfeilio mewn brwdfrydedd mewnol a oedd yn amlwg ddylanwadu'n enbyd ar fynychu allanol mewn capeli erbyn yr Ail Ryfel Byd.

I Saunders a'i gyfoeswyr daliai'r mynychu hwnnw i fod yn dwyllodrus ac yn berswadiol, a hyd yn oed yn rhywbeth i bobl ifainc radicalaidd adweithio yn ei erbyn. Onid un felly fu Saunders ei hun? Roedd Gruffydd a Williams Parry am egluro'u paganiaeth eu hunain yng ngolau brwydro estyniad negyddol a chadarnhaol, ond nis dyfnhawyd yn eu meddyliau'u hunain. Er bod brwydr Saunders Lewis yn gliriach, roedd yn ddyrys o hyd, ond yn ddyrys o fewn mwy o ystyriaethau uniongred nag a fu erioed o fewn eu hamgyffred hwy.

Bu odrwydd Catholigiaeth yn ormod i Gymry ei stumogi. Ac roedd eithafrwydd y gwrthwynebiad i'w hegwyddorion, cyn belled ag y gwyddid amdanynt, yn warthus. Ymhellach, gwiriondeb oedd gwthio Catholigiaeth ar bolisi'r Blaid; ac ni ellid meddwl am hyn, bellach, ond fel math o naïfder gwleidyddol, ac o naïfder crefyddol ym Mhanorama Cymru. Roedd hynny'n wir; ac roedd llawer o syniadaeth, a rhai o'r delfrydau, yn ganmoliaethus, er bod hawliau'r Eglwys allanol, gyfansoddedig, awdurdodol ar ystyr aelodaeth yn bur wallus yng ngoleuni athrawiaeth Brotestannaidd. Mewn ffordd yr oedd mor wirion bost a ffansïol â'r 'drilio heb arfau' ac 'i dderbyn deddfau ac arweiniad gan Gymry' yr un modd, – yn wedd ar hud llewyn ffyliaid ym meddylfryd negyddol pobl ynghylch  enigma Saunders Lewis.

Gyda *Thynged yr Iaith* gobeithiai ddeffro'i gyd-Gymry â'r meddylfryd am weithredu gwleidyddol Cymraeg uniaith, breuddwyd arall sydd wedi arwain at yr anallu presennol, ac at adlewyrchu gorfodaeth y ffordd gaeedig, sydd bellach yn briffordd fythol brotestiol i Gymry brwd confensiynol heddiw. Ac yn fethiant.

* * *

Eto, credaf fod Saunders Lewis wedi llwyddo i ganfod natur a hanes llenyddiaeth Gymraeg â llygaid amgenach na neb oherwydd ei dröedigaeth i Gatholigiaeth Rufeinig.

Mewn cyfathrebiaeth rhyngddo a'r Athro A.O.H. Jarman, dadlennwyd tua diwedd ei oes beth roedd e'n ei ystyried ei lwyddiant mwyaf a'r hyn a roddodd y bodlonrwydd pennaf iddo yn ei feirniadaeth. A'i ddamcaniaeth ynghylch naws ac athroniaeth beirdd yr uchelwyr a'r traddodiad barddonol cynnar oedd y maes hwnnw. Gwir iddo  gynnig llawer o ddamcaniaethau eraill a oedd yn goleuo unigolion a chyfnodau, yn ogystal â'r Traddodiad. Ond mi gredaf i mai yn yr ysgrif ar Ddafydd Nanmor, ac am arwyddocâd a symbolaeth y bardd hwnnw, ynghyd â chlwstwr o ysgrifeniadau eraill y cronnodd y disgrifiad cyrhaeddbell llwyraf. Allwn ni ddim gwybod beth a wnâi oni bai iddo gael y dröedigaeth honno. Buasai'n feirniad tra galluog, wrth gwrs: nid cyfyngu i Ras Cyffredinol (neu Ras Naturiol) yn benodol a wnaeth y dröedigaeth iddo. Ond cafodd gyfuniad nodedig rhyfedd: blodeuai Gras Cyffredinol o fewn golwg Pantycelyn ar Ras Arbennig.

Dyna'i gamp ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol sy'n dal yn ddilys fel dehonglydd cynhyrfus o ddiddorol yn yr Ail Fileniwm. Roedd e'n briodol falch o'r gamp a wnaeth yn *Williams Pantycelyn.* Mewn llythyr at D.J. Williams, cyfaddefodd chwarter canrif ar ôl ei chyhoeddi iddo fynd yn syth wedyn 'at offeiriad a gofyn am fy nerbyn i'r Eglwys Gatholig.' Pam? Am iddo gael gan yr Eglwys Gatholig fwy o uniongrededd gwir draddodiadol, uniongrededd â mwy o addoli, a mwy o ddifrifwch credu nag a gâi gan y Methodistiaid adfeiliol ar y pryd. I raddau, cafodd ei droi felly oddi wrth yr Hen Gorff gan yr Hen Fam Gatholig. Medrai fe'i hun felltithio'n ystyrlon 'dragwyddoldeb heb uffern ynddo...yn annheilwng' ac 'yn gynnyrch gwendid breuddwydiol a sentimentaliaeth dynion.' Collodd yr Hen Ganrif hynny.

Teimlai iddo fe'i hun roi tecach darlun cywir o dröedigaeth ddilys Pantycelyn oherwydd iddo yntau ddeall seiliau'r ffydd Oruwchnaturiol drwy Gatholigiaeth. Mae'n ymddangos ei fod yn ymresymu'n gywir ynghylch cynhyrfiad emosiynol 'nad oes modd ymresymu yn ei gylch'; ond roedd yn anghywir ynghylch gorbwysleisio'r presenoldeb a'r cyfraniad sydd gan yr ymennydd dynol, lle y mae e'n babyddol o anghytbwys, gan symleiddio 'naill ai ... neu.' Mae'n ceisio symud 'o fyd teimlad i fyd deall a rheswm,' lle yr oedd ei gyfoeswr Martyn Lloyd-Jones yn ymdroi'n llawer mwy cyson a dwfn gyda'r cyfuniad 'rheswm ar dân', sef credo a daniwyd gan adnabod.

Eto, roedd llawer o gyflwyniad Saunders Lewis o Bantycelyn, ac o eraill yn y ffydd efengylaidd, yn taro'r hoelen ar ei phen i raddau helaeth: 'Pantycelyn, anti-Papist as he was and as he remained to the end, is, I believe, a very great European poet who truly belonged to the soul of the Catholic Church.' Yn wir, gwnaeth ef ymdrech deg i osod 'emynydd mwyaf blaenllaw a lladmerydd y wedd fwyaf gwerinol ar ei chrefydd yn y traddodiad llenyddol Ewropeaidd...' O leia, yn ei farn ei hun, cyfrannai trwyadledd cymharol a chathartig yr ymgyrch efengylaidd yn y ddeunawfed ganrif i'r  fath obaith pabyddol.

Ni allaf gloi heb gyfaddef inni fel Cymry gael rhywun yn ein plith ni, yn ddihaeddiant, am gyfnod, yn troedio ein tir rhyddieithol, ac yn ystyried hynny'n fraint gan ei eirio fel hyn: 'Ystyriwn ein braint yn yr oes hon: byddaf yn diolch lawer iawn am fy ngeni mewn cyfnod [pryd] yr ail-ddatguddiwyd ysblander yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg, fy ngeni i fynd i mewn i'r etifeddiaeth fawr a chwynnwyd ac a burwyd gan John Morris-Jones, a ogoneddwyd o'r newydd gan Gwynn Jones a Williams Parry, ac sydd eto'n tarddu ac yn ffrwytho.' A chawn ychwanegu'n orfoleddus at ei restr 'a Saunders Lewis hefyd. A Parry-Williams "gofalus", a Kate.'

Cymru oedd a welodd aileni'r genedl, ei Chymreigio oherwydd ei haileni llenyddol, a dadwneud peth o'i hanes epigaidd. Gwelai ar dro y gallai llawenydd mawr darddu allan o hyn oll: 'Fe ddylai Plaid Genedlaethol Gymreig fod yn blaid lawen... Plaid ifanc yw hi, ac ni ddygymydd tristwch ag ieuenctid... Dyddiau a nosweithiau o wynfyd pur.'

Oherwydd y pegynu Cristnogol a oedd yn natur Saunders, fe welai fframwaith byw a marw yn rhoi iddo fe ei hun ddwy ffordd o synied amdano'i hun. Yn gyntaf, ac yn anochel, ei ddatganiad a phopeth a ddywedai fel y gwirionedd cyn belled ag y gwyddai amdano. Ond oherwydd iddo fynd yn fwyfwy i chwerthin am ei ben ei hun yn goeg, fe droes fwyfwy i gecran amdano'i hun hefyd, i'w gystwyo'i hun, i chwarae â'r gwirionedd amdano'i hun, ac i ddweud pethau amdano'i hun a oedd yn sarcastig anghyfrifol, ond yn chwithig o wir.

Hynny yw, gwnâi un cam ymlaen, ac yna'r un cam yn ôl. A gellid casglu mai math o Ôl-fodernydd oedd ef ar dro, heb fynd i unman. Ond Ôl-ôl-fodernydd oedd ef hefyd, mewn gwirionedd. Fe âi ymhellach. Fe wnâi'r trydydd cam, a thanseilio'r tanseiliad. Fe wyddai fod Ôl-foderniaeth yn gynhenid annigonol. Âi drwyddi. Gŵr a gâi weledigaeth anwadadwy oedd, ac a gâi ei erlid o'r herwydd: pererin oedd drwy'r wlad hon, yn mynd tua lle pendant, wedi'r ddeuoliaeth i gyd. Arddelai drioliaeth. Roedd yna bethau dieithr disymud a dwfn dan y cwbl megis yn y meddwl sagrafennol. Ac o'r herwydd, roedd y gŵr hwn a oedd yn anesmwyth ymwybodol o'i ddisgleirdeb ei hun yn 'arall' ac yn dehongli'n 'arall', wedi byw bywyd o ymryddhau cyson o ofalon blinderus (a gafodd e) ac eto mynnai ofalu dros y cymhlethdodau newydd a glanhaol yn eu lle. Dyna'i odrwydd Cwicsotaidd. 'Yn ystod ei fis cyntaf yn Wormwood Scrubs, darllenodd Saunders Lewis *Don Quixote.*' Ar ryw olwg, methwr breuddwydiol unigryw oedd yntau. 'Yr oedd gen i awydd, nid awydd bychan, awydd mawr iawn i newid hanes Cymru...' Sef 'Caer Arianrhod.' Ond rhith oedd y methiant gogoneddus hwn i olwg y byd hwn. Pendefig o *Quixote* oedd, wrth gwrs. Eto, nid ymweryd y byd hwn yn derfynol â delfryd, tra bo byd arall ar waith. Pobl yw'r wir bendefigaeth 'ŵyr sut i arwain gwlad drwy ddioddef drosti a meddwl drosti.' Soniais gynnau i rywun o'r math yna droedio ein tir am gyfnod. Wel, gall f'ysgwydd dde dystio i hynny, y mae'n syllu drosti, beth bynnag a ddywedo'r materolwyr; a bod presenoldeb y dyn hwnnw o hyd yn troedio'r tir. Drwy'i Gatholigiaeth enillodd Gatholigrwydd.

* * *

Crynhown ein casgliad. Un o'r ddau gyfraniad pwysicaf a roddodd Cristnogaeth i Gymru oedd yr argyhoeddiad o bechod (ac edifarhau). Yr ail oedd y rhodd aruthr o ddadbechu (ac o ogoneddu). Yn achos Saunders Lewis roedd y ddau ddarganfyddiad hyn yn drobwynt a'i dilynodd e weddill ei oes. Ym mryd rhywrai, un o wendidau llenyddiaeth Gymraeg, wrth gwrs, yw ei bod yn ymddangos mor rhyfedd o grefyddol. Ac ymddengys i rai Cristnogion hyd yn oed, os yw'r dychymyg a'r creedigrwydd yn mynd i wynebu bywyd oll, fod yn rhaid i lenyddiaeth gwmpasu pob pwnc sy ar gael. Hyd yn oed yn yr Oesoedd Canol roedd y gogwydd crefyddol eisoes yn dra amlwg. Wedi'r Diwygiad Protestannaidd, aeth yn rhemp. Am dair canrif o leiaf, fe gafwyd llenyddiaeth gwbl anghytbwys, gyda llawer iawn o ragoriaethau bid siŵr, eithr heb ddim ond ychydig iawn o

storïau a dramâu crefftus a chelfydd yma a thraw. Cyfyng iawn oedd rhychwant y themâu barddonol, hyd yn oed gan yr awduron mwyaf deallus a chywrain.

Diau mai mewn emynyddiaeth y ceid prif gampau'n llên yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Emynydd oedd prif lenor y cyfnod ym marn pawb cyfrifol, a Williams Pantycelyn oedd hwnnw, wrth gwrs. Yn sicr, i lenyddiaeth a gafodd y fath lewyrch anghyffredin a chymharol amrywiol ynghynt rhwng y ddeuddegfed ganrif a chanol yr unfed ganrif ar bymtheg – sef oes aur ein llên gyda chwedlau a cherddi mawl seciwlar o lawer math – bu'r hyn a ddigwyddodd yn awdurdodol ganoledig mewn bywyd wedyn yn niweidiol dros ben i led a ffrwythlondeb y gelfyddyd lenyddol. Ymgyfyngwyd i raddau helaeth yn anghreadigol dros ben i broselytio. A dyw hyn ddim yn gyfan gwbl lesol i'r meddwl creadigol sy'n fforio'r byd am ryddid profiad ffrwythlon i'r dychymyg.

Mae'n gosod problem i'r beirniad llenyddol o Gristion (ac i bawb arall). Pam y dylem ni ddymuno i amrediad y themâu a'r ffurfiau llenyddol fod yn helaethach? Pam y dylai Cristion sy'n awyddu am foli a byw bywyd defosiynol, feirniadu'n negyddol lenyddiaeth gymharol unplyg 'dduwiol'? Os yw'r unigolyn yn credu o ddifrif fod ei gyd-fforddolion ar y ffordd i Uffern – hynny yw, os yw'n credu'r datguddiad goruwchnaturiol, heb chwynnu'n oddrychol – onid yw'n ysigo'i galon yn enbyd i weld y cysgod sy wedi symud dros ein gwlad a'n llên bellach? Onid ei ddyletswydd bennaf yw rhedeg yn unplyg atynt, a rhoi'i fywyd i'w goleuo? Pam y crwydrai Cristion o bechadur fel Saunders a gwastraffu cymaint o amser ar fanion fel bywyd seciwlaraidd?

Beth yw llenyddiaeth seciwlar i lenor sy'n Gristion o ddifri? Ai gwell iddo impio'i ddawn wrth y seren seciwlar gydnabyddedig? Ystyr y cwestiynau hyn yw – a oes rhagor rhwng dawn gras cyffredinol naturiol yr athrylith o seciwlaryn a dawn gras cyffredinol naturiol a goruwchnaturiol y Cristion? Wedi'r cwbl, does neb o'n cyd-fforddolion, sydd wedi darganfod dim a all wrthbrofi bodolaeth Duw, wrth gwrs yn peidio ag ymchwyddo ac yn rhoi'r hunan o flaen popeth arall. Eto, dyw bodolaeth y dimensiwn goruwchnaturiol cadarnhaol, a'r gynneddf i'w chydnabod, wedi ymwared yn y golwg â'r awydd bythol i ddianc rhagddo.

Mae yna gryn anwybodaeth bellach beth yw'r ffydd glasurol drindodaidd hanesyddol, mae'n wir. Ond gelwir ar rai dynion o hyd i efengylu; ac ar bawb i geisio perthynas yng nghanol Seciwlariaeth. Gelwir ar bawb i ddychwelyd i'r teulu tragwyddol drwy'r un Ffordd a ragordeiniwyd. Onid yn y cyfeiriad hwnnw y dylid ceisio ymegnïo?

I fyd felly y ganed Saunders Lewis. A byd felly a dderbyniodd ef fel y drefn 'normal'.

Ond o fynnu dilyn y llwybr hwnnw, yn neilltuedig, ac yn bietistig tost, neu wrth ei anwybyddu'n ymosodol, gellir colli ein pwrpas ar y ddaear. Gellir colli trysor a fwriadwyd i ni.

Sef ffrwythloni. Gellir camdystiolaethu. O esgeuluso'r ddyletswydd ganolog honno, gellid

colli'r blas o fwynhau holl ffrwythau'r ddaear drwyddi draw, fel y gorchmynnwyd i Adda ac fel yr ailadroddwyd wrth Noa. Gelwir ni, bob un, i ddwyn llawnder hyfryd ym mhobman er clod i'r Creawdwr drwy bopeth, i dderbyn gras cyffredinol yn ei helaethrwydd eithaf, gan ddarostwng y ddaear gyfun gyda pharch a chariad a gwerthfawrogiad amlweddog. Mae hynny'n golygu adnabod trefn a harddwch a daioni'r Greadigaeth, yn ddiderfyn. A gorau po fwyaf effro y bôm ni i'n pwrpas yn hyn o fyd. Gelwir ar Gristnogion deallus nid yn unig i *ddod* yn Gristnogion, ond i *fod* yn Gristnogion, i gael ein haeddfedu, ac i fynd ymhellach na chyfiawnhad i sancteiddhad a mawl llawn dwf. Gelwir arnom felly i ddiwyllio'r ddaear, ac i dystio i lawenydd y bywyd Cristnogol, i fawrygu gras cyffredinol a gras arbennig.

Ydy hyn yn golygu bod Cristnogion a seciwlarwyr gyda'i gilydd yn yr un cwch yn union?

Ydy, i raddau.

A nac ydy.

Mae gan Gristnogion a seciwlarwyr yr un dasg ar y ddaear, mae'n wir. Fe osodwyd honno cyn y Cwymp. Fe'i hailadeiladwyd o fewn y ddaear greedig wedyn. A doniwyd pobl ym mhobman i fod yn atebol yn ddiwahân, bob yn un ac un, yn ôl ei natur a'i ddawn. Mi gredaf mai dyna safle Saunders.

Ond dyw pawb ddim yn gyfartal o ran ymwybod o bwrpas a gwerth a threfn y gwaith hwnnw. Ac yn y fan honno y daw'r beirniad i'r fei. Dylai beirniad o Gristion fedru gwerthfawrogi, nid yn unig y dimensiwn naturiol, ond y dimensiwn goruwchnaturiol hefyd. Dylai fod yn agored i fendithion gras arbennig, ond hefyd i ras cyffredinol. A dylai allu gweld y pwynt. Hynny yw, er na all dderbyn gras arbennig, fe ddylai gydnabod ei fodolaeth. Dylai'i ymwybod o werth a threfn a phwrpas oleuo'r ffrwythlon sy yno ar ei gyfer.

Felly, pan fydd rhyw chwiwiau cyfarwydd fel Ôl-foderniaeth yn codi, a'r Cymry bach taeog unwaith eto yn ôl eu harfer yn sgythru'n anfeirniadol ar ei hôl, dylai'r Cristnogion yn ein mysg allu canfod y ffordd y mae drylliadaeth (fragmentation) yn aros yn sefyllfa barhaol os (yn ei chyflwr sefydlog) amhosibl i'r meddwl dynol. Dylent fedru canfod nad yw iaith na llenyddiaeth byth yn ddilys drwy wyro a gwahanu a chwalu a thanseilio yn unig amddifad, ac nad yw 'theori' yn bosibl aeddfed heb bresenoldeb unioni, penodoli, cyfuno, a chadarnhau. Hynny yw, ceir catholigrwydd a chyfarwyddyd drwy ganfod y lleol yn fframwaith plethog y bydysawdol. Drwy gydlyniad unol y crewyd y ddaear, a cheir perthynas â'r cydlyniad hwnnw ym mhob man. Y cydlyniad hwnnw o wahanu, ynghyd ag uno, sy'n caniatáu ein bod yn gallu siarad ac yn darparu sail ar gyfer llenydda.

* * *

Yn y cyd-destun hwnnw, hanes pererindod cyfnod yw'r gyfrol hon. Felly y bu'r cyfnod hwn ei hun ar daith.

Dw i am oedi i ymdroi gyda'r angen i ystyried Saunders Lewis fel y gellid ei weld yn un o nifer o feirniaid galluog a oedd yn ei gyfoesi; sut yr oedd yn debyg, a sut yn wahanol: Saunders Lewis, Evelyn Waugh, Graham Greene, ar y dde, a Simone Weil ar y chwith.

Cychwynnodd Saunders yn bererin, (heb fod yn ymwybodol ei fod e'n pwyso dros f'ysgwydd i), yn Hydref 1893 a'r sgrepan yn bur wag. Ac eto, roedd y rhyfel, a'r darllen o waith Claudel, Mauriac, Gilson, a Jacques Rivière wedi dechrau llenwi sgrepan Saunders Lewis â phethau cynhyrfiol. Fe ddôi Prifysgol Lerpwl wedyn.

Wynebwyd meddwl a rhesymeg Saunders Lewis gan y cymhlethdod hwnnw.

Dysgodd y gelfyddyd o ddarllen.

Ym mhedwardegau a phumdegau'r ugeinfed ganrif dôi ffurf gymharol newydd yn ddiddordeb yn ein llenyddiaeth – sef (*heblaw hanes*) darllen beirniadol clòs y darn ei hun. I raddau, dysgu darllen oedd hyn; ond darllen nawr gyda mwy o fanylder. Ymhlith y rhai a wnâi hyn, gyda gofal gwreiddiol yn y Gymraeg, roedd Saunders Lewis a T.J. Morgan. Byddai myfyrwyr o dan eu hesiampl gadarnhaol hwy yn cael gwers hwylus mewn syniadaeth am bwrpas ac ansawdd llenyddiaeth drwy nesáu at lenyddwaith yn ymarferol ddadansoddol.

Bu peth adwaith yn erbyn y cyrchddull hwnnw wedyn gan theorïwyr diweddar. Ond dw innau, mewn anffasiynolrwydd pais-a-betgwn, yn dal i arfer ac arddel y patrwm cynnar. A chyda'r parch sy'n dal gennyf at y ddau feirniad hynny a nodais, rhaid imi wrogi i dri beirniad arall, sef Hugh Bevan, John Gwilym Jones, ac Aneirin Talfan Davies. Hwy, sef y 'beirniaid ymarferol', yn oes yr haneswyr, oedd un o'r ddau brif begwn i'n syniadaeth feirniadol sylfaenol byth wedyn. Gan Saunders Lewis a T.J. Morgan y'n harweinid i begwn arall, sef i ystyried y cysyniad o Gymhelliad Llenyddol. Bu hyn yn gam annisgwyl, os petrus, tuag at theori; ac arhosodd yn gynhysgaeth inni byth wedyn.

Fe ges i'r fraint o eistedd wrth draed T.J. Morgan am dair blynedd, ac wrth draed Saunders Lewis yn achlysurol drwy gydol un flwyddyn. Er mor wahanol fu'r ddau hynny, ceid un ddolen gydiol chwithig rhyngddynt. Sef Abertawe. Wrth i T.J. Morgan ddechrau ar ei waith ymchwil dan gyfarwyddyd Henry Lewis ym 1928, ar 'Gystrawen y Ferf mewn Cymraeg Canol', roedd Saunders Lewis yn cyrraedd yn ei dei-bo i ddechrau ar ei yrfa nodedig yntau yn Abertawe, cyfnod o wyth mlynedd syfrdan. Roedd hynny'n groes ar y pryd i 'hanes yr iaith', a fuasai'n fath o asgwrn cefn i efrydiau Cymraeg. Yng 'ngwleidyddiaeth' ddiwylliannol Cymru, fel y datblygai ar y pryd, ymrestrodd T.J. Morgan ym mhlaid Henry Lewis a W.J. Gruffydd. Ac yn feirniadol, bu ei gefndir ieithyddol yn gaffaeliad mawr iddo dorri'i rych ei hun yn llenyddol. Dw i ddim yn meddwl bod T.J. erioed wedi ymdrwytho mewn beirniadaeth lenyddol ryngwladol: ieithyddiaeth oedd ei ddewis ymchwiliol. A dichon fod hynny'n cyfri yn uniongyrchol am brif rinweddau ei wreiddioldeb.

Er iddo ymwadu'n fynych rhag arddel ymrwymiadau gwleidyddol a chrefyddol pendant, ac er iddo bellhau – o ran argyhoeddiad – rhag adain dde Saunders Lewis a'i themâu athronyddol, roedd ei drafodaethau ar Riniaeth a'i ddiddordeb yn y 'cymhelliad llwythol' mewn llenyddiaeth yn closio at ystyriaethau ysbrydol Saunders a'i genedligrwydd. A dôi ei ddiddordeb mewn Diwylliant Gwerin ag ef hefyd at ystyriaethau cymdeithasol pwysig ar y pryd.

Ym maes arddulleg, T.J. Morgan oedd yr arloeswr yng Nghymru, fel y bu mewn cynifer o feysydd eraill. Dw i'n ei gyfri bellach, yn drydydd i John Morris Jones a Saunders Lewis, fel un o dri beirniad praffaf unigryw y Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif. Fe ddangosodd ei wreiddioldeb a'i ddychymyg deallus yn eglur yn ei ysgrifau campus ar Parry-Williams (1948 a 1967), a 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd' (1950). Ac ymhellach mewn cyfnod pryd roedd bron pob un o'n beirniaid clòs yn mynnu trafod barddoniaeth yn bennaf, a hynny'n argraffiadol neu'n hanesyddol, roedd ei astudiaeth estynedig 'Rhyddiaith Gymraeg, rhagarweiniad' 1948, megis ei waith ar ryddieithwyr megis Daniel Owen, R. G. Berry, a Kate Roberts (1969) yn adlewyrchu tipyn o'i amlochredd ym myd arddulleg a'r defnydd ystwyth o iaith mewn maes dieithr ar y pryd. Ymestynnai ei ddiddordeb mewn beirniadaeth o'r 'Canu Gwirebol' (1974) a'r Gogynfeirdd ac 'Arddull yr Awdl a'r Cywydd' (1946) i Bantycelyn (1971) a'r Morysiaid (1966) ac Owen M. Edwards (1967) a'r ugeinfed ganrif – W. J. Gruffydd (1970) a T. Gwynn Jones (1949). Wedyn, roedd maes Cymhelliad yn fforiad newydd ar y pryd, o leia yn y ffordd seciwlar ac eangfrydig y'i hastudiwyd gan T. J. Morgan. Roedd ei ysgrif 'Cymhellion Llenyddol' (1951) yn gam pwysig iawn ymlaen (cf. ei gyfrol ar yr un testun yn 1965). Ymdrôi yn ei feysydd cymdeithasol ei hun. Cafwyd ymdriniaeth afieithus a dadlennol a cham ymlaen ganddo a agorai'r gŵys drefedigaethol, gan ei rhoi mewn cyd-destun o Gymhelliad rhyngwladol. Ac yn y cyd-destun hwnnw o gymhelliad, – y Cymhelliad Llwythol – o'i gyferbynnu â'i arddulleg, lle dw i wedi tueddu i'w ddosbarthu (er bod 'deunydd' y werin hefyd yn faes cyfochrog perthnasol iddo), rhaid sylwi ar y cyd-destun Ewropeaidd Marcsaidd yn y cyfnod hwnnw. Ymegyr y gogwydd cymdeithasol a gwerinol hwnnw yn fedrus iawn yn ei gyfrol *Diwylliant Gwerin ac Ysgrifau Eraill,* (1972). Dyna fu testun ei ddarlith agoriadol fel Athro'r Gymraeg yn Abertawe ym 1962, fel pe bai'n datgan ffiniau newydd i'w raglen yn y Gadair. A thraethodd ar 'Peasant Culture of the Swansea Valley' yn y *Glamorgan Historian* (1973), gyda'r cymoedd yn ymagor o ran hwyl drwy'r cantatas, oratorios, eisteddfodau, bandiau pres a dosbarthiadau nos. I'r rhai ohonom a gafodd y pleser o eistedd wrth ei draed rywbryd yn ystod y cyfnodau 1930-40, 1946-50, 1961-71, roedd y gwerinoldeb hwn o'r cymoedd yn cael ei fynegi mewn hiwmor a'n cadwai ni'i fyfyrwyr i rolio chwerthin drwy gydol darlithiau disglair, nes ei fod yn pwyso dros ein hysgwyddau o hyd, yn ddylanwad treiddgar.

Llai hyderus oedd ef pan droes i drafod Cymhelliad yr amgylchfyd hwnnw o safbwynt

Crefydd. Roedd yn fwy niwlog, goddrychol a digynnwys fel y dangosai yn ei drafodaeth ar 'Rhiniaeth', ac mewn mannau eraill, yn arbennig yn ei ysgrifau ysgriflyd eithriadol ddifyr a'i gwnaeth yn adnabyddus ymhlith y werin Gymreig – *Dal Llygoden ac Ysgrifau Eraill, Trwm ac Ysgafn, Cynefin,* ac *Amryw Flawd* rhwng 1937 a 1966. Ef oedd yr unig 'ysgrifwr' traddodiadol y gellid ei gymharu â Parry-Williams yn y Gymraeg. Ond yn fwy seciwlaraidd na Parry-Williams, yr oedd ef fel ei gymar yn mynd gyda'r llif yn wrthathrawiaethol (heb fod yn ymosodol), yn relatifaidd, ac yn ddiargyhoeddiad (grefyddol) o ryddfrydus, fel roedd y sefydliad i fod yn yr oes honno. Yn ddiymrwymiad, prin byth y byddai'n rhoi'i farn ar ddim dadleuol, ac anaml y traethai'i farn ar ansawdd teilyngdod y llenyddweithiau a drafodai. O safbwynt ysgol y 'beirniaid ymarferol', y dadansoddwyr clòs a drafodai fanyldeb testunau unigol, safai gyda rhai fel John Gwilym Jones, Hugh Bevan, ac Alun Llywelyn-Williams. Ond tybiaf o ran natur ei safbwynt, roedd yn Gymreiciach ei gymeriad beirniadol, tra byddai'r lleill yn ffitio patrwm Lloegr yn amlycach. Roedd e wedi'i wreiddio'n gadarnach yn yr iaith a'r cymhlethdod cymdeithasol, a'r ieithyddiaeth honno gyda thinc cystrawennol Abertawe arni. Pwysig cofio bod ei gyfraniad ieithyddol cyn bwysiced bob dim â'i gyfraniad beirniadol. Ar ryw olwg, croes oedd i Saunders Lewis ei hun yn y sylfeini.

Diddorol o ran methodoleg greadigol oedd y modd y cymerodd T. J. Morgan *Geirfa* J. Lloyd-Jones, a dewis geiriau cynddelwaidd cynrychioliadol megis 'llithio', 'porthi', a 'phesgi brain' ar gyfer moli tasgau milwyr y Cynfeirdd; ac yna, dilyn drwodd gydag anifeiliaid rheibus eraill, megis blaidd, ci, cnud, gwalch, hebog ac yn y blaen: termau mawl. Arddangosai batrymau ailadroddol ymadroddion fel 'Nid oes gystedlyd.' Yna, âi ar ôl trosiad megis post – Post Prydain, colofn, cynheilydd ac yn y blaen. Dysgai inni fod yn effro i'r mawr a'r cyffredinol a'r grymus mewn ymadroddi mân – y bach yn cyfrif. Trôi eiriadur (a'i holl enghreifftiau) yn fodd i adnabod themâu, fel y troes cyfeiriadur ffôn ymhellach ymlaen yn ei yrfa yn fwynglawdd cyfenwau ar gyfer darganfod cymdeithasegol. Wedyn, oherwydd dyfnder ei astudiaeth o gystrawen, yn arbennig drwy'i waith arloesol ar y Treigladau, a'i fyfyrdod am yr iaith lenyddol ac egwyddorion megis 'amlder Cymraeg', 'cywirdeb,' cystrawenwaith hynafol a chyfraniad Pughe, ymagorai holl naws a seicoleg y traddodiad swyddogol a'r answyddogol yn ein hanes drwy ieithyddiaeth.

Beirniad amryddull digon gwahanol oedd Saunders Lewis; ond beirniad ystwyth arall a thra diwylliedig. Gwelid ei ddiddordeb Freudaidd yn ei gyfrol *Williams Pantycelyn,* a'i ymhel â diwinyddiaeth yn Adran Crefydd *Ati, Wŷr Ifainc;* a hanesydd yw e o ran argyhoeddiad yn neuparth ei waith, ac roedd ganddo'n gyson hoffter mawr o olrhain natur y traddodiad, gan weld cyffyrddiad llenweithiau â'u hanes yn thematig arwyddocaol. Bob amser bron, y mae blaenoriaeth y Darn ei Hun, hefyd yn cael blaenoriaeth ganddo. Ond anodd fyddai'i gyfyngu i un dosbarth arbennig o feirniaid, er nad yw'n dangos diddordeb llwyddiannus odid byth mewn gwaith testunol, fel y gwnâi

llawer o'i gyfoeswyr llenyddol. Mwyaf priodol fyddai'i ystyried efallai drwy ddechrau gyda'i ragdybiau a'i ymrwymiad ysbrydol penderfynol.

Os cywir yw dweud mai o'i ieithyddiaeth a'i werinoldeb Cymraeg yn bennaf y tarddodd beirniadaeth wreiddiol bwysicaf T. J. Morgan, go brin y byddai neb yn cyhuddo Saunders Lewis o ddod o hyd i'w ymrwymiad yntau yn yr un o'r ddwy ffynhonnell yna. Pan ffarweliodd Saunders Lewis â'i ieuenctid rhamantaidd ym 1922 gyda'r ysgrif olaf yn y cyfnod hwnnw, 'Safonau Beirniadaeth Lenyddol', heb sylweddoli hynny ar y pryd, roedd yna ddwy ffynhonnell gyferbyniol arall eisoes yn eu lle. Tarddodd ei ymwybod aeddfed mewn dau awydd wrth i'r blynyddoedd ddirwyn yn eu blaen. Tyfodd awydd i ddarganfod gwreiddioldeb, egni, patrwm, a datblygiad gorffenedig y traddodiad Cymraeg mewn cyd-destun Ewropeaidd: gwreiddiau gorffennol eang. A thyfodd awydd arall i ddod o hyd i fawredd deallol bob amser yn ein llenyddiaeth, ac i ddadlennu'r mawredd hwnnw.

Hynny yw, *mewn Cymhelliad yn bennaf*, – nid yn y Tafod ffurfiol nac yn y grefft ddadansoddedig ieithyddol y câi ei ysbrydiaeth a'i arddeliad; ond yn y cyfuniad cyfansawdd o sawl caffaeliad. O ran agwedd a delfryd dôi Saunders Lewis o hyd i'r sianel i yrru'r ddau yna hyd-ddynt yng nghyd-destun clasuroldeb Cymraeg. Ar wahân i John Morris-Jones, o fewn maes *Cerdd Dafod* yn unig, nid oedd odid neb ers y ddeunawfed ganrif wedi ceisio chwilio am 'glasuroldeb' ac arucheledd nawdd yng Nghymru. Roedd hynny oherwydd cefndir addysgol dosbarth-canol mewn cyferbyniad â chefndir gwerinol ei gymrodyr, oherwydd addysg a thuedd bersonol tuag at geidwadaeth chwyldroadol, ac eto, oherwydd darganfod ffresni syniadaeth glasurol Saeson fel Chesterton, Gwyddyl fel Yeats, Ffrancwyr fel Barrès, Eidalwyr fel De Sanctis a Croce, wyneb yn wyneb â Marcsaeth fwy ffasiynol yr oes yng Nghymru, ac oherwydd bod newydd-deb darganfod Cymru heblaw tlodion seicolegol pob dosbarth cymdeithasol, a honno wedi tanio'i weledigaeth a'i serchiadau, fe brofodd Saunders ymrwymiad chwithig unigryw.

Ond hyd at 1922 yr oedd Coleridge, Pater, Oliver Elton, ac Abercrombie wedi hau hadau Rhamantiaeth synhwyrus ddwfn yn ei feddwl. Arhosai'r rheini yn ddiaddefiad er ei waethaf, mewn telynegrwydd, mewn emosiwn, mewn dramatigrwydd ac yn ei ddiddordeb yn y profiadau unigolyddol cryf. Arhosent hefyd, i ryw raddau, yn ei fenter a'i gariad at ryddid a cheinder. Dyna'r Cymhelliad Rhamantaidd cyson, yn ceisio mawredd yng Nghymru o bobman. Chwenychai fe ddim oedi'n ormodol gyda llenorion eilradd, fel y gwnâi beirniaid academaidd arferol, 'am resymau hanesyddol'. Ddymunai fe ddim eu defnyddio fel dogfennau i adlewyrchu cyfnod chwaith. Gallai unrhyw un wneud hynny. Defnyddio 'cyfnod' a 'chefndir' yn feirniadol er mwyn goleuo camp y llenorion unigol, dyna nod gyntaf Saunders Lewis; yn ogystal â defnyddio Hanes mawr i ddehongli traddodiad mawr. Dyma draddodiad clasurol yn gwawrio arno a fyddai'n cyflyru rhamant ei galon.

Clasurolai ei ben galon y Rhamantydd.

Roedd Saunders yn awyddus i 'ddehongli' traddodiad ac i arddangos unigrywiaeth safonol y traddodiad Cymraeg. Dymunai wrthosod traddodiad cyfoethog, realistig, perthnasol gyfoes, dwfn a diddorol â pheryglon mewnblyg teimladllyd ei gyfnod, a hynny drwy ddadlennu meddwl y traddodiad hwnnw yn wyneb y llithrad cyson tuag at yr arwynebol a'r eilradd a'r poblogeiddiol *(populist*). Dyrchafai ddeallolrwydd a cheinder a delfrydaeth loyw y clasurwyr goruwch gwylltineb, penrhyddid a theimladrwydd y rhamantwyr. Dymunai hefyd ddyrchafu cymdeithas i fod yn ogyfuwch â'r unigolyn. Dyna'r fframwaith i'w yrfa feirniadol waraidd. Gyrrwyd ef i ganolbwyntio ar rai priodoleddau yn bennaf: gwarineb, cyfrifoldeb, gwreiddiau, hunanddisgyblaeth. Dyna'i bwyslais: chwilota a darganfod y rheini, a phendroni'r un pryd am eu harwyddocâd deallol, dyna'r rhinweddau a'i hysbrydolai.

Ond mae yna fwy na hynny. Fe gorfforwyd y rheini o fewn gyriant cysylltiedig â symudiad ysbrydol go ddieithr-hen. Canfu'r berthynas rhwng yr oesoedd clasurol mwyaf gorchestol a welodd Cymru: Oes aur y Gymru 'rydd' fel petai, a chrefydd gyfredol Catholigrwydd ar y llall. Rhoddodd hyn ddimensiwn, a  gwybodaeth, ac athrawiaethau deallol, goruwchnaturiol iddo; a rhoes hyn oll iddo hefyd allwedd i lawer o gynnwys y llenyddiaeth o fewn argyfwng yr oes.

Rhoesant hwy iddo felly holl drysor Traddodiad. A hyn a roddodd ef wedyn i ni; a'r gwrthwyneb.

Yn ei gariad at y cwbl hwn, cymerodd holl rychwant llenyddiaeth Gymraeg i'w galon. Mae ei gampwaith beirniadol pennaf, sef *Meistri'r Canrifoedd* yn ymestyn o 'Pwyll Pen Annwn' hyd at 'Owen M. Edwards'. Yr hyn a gynhaliai'r weledigaeth honno, gredaf i, ac a bennodd ei 'fethodoleg', os dyna'r gair, oedd meddwl creadigol craff dros ben, yn ceisio cnewyllyn o ddelfrydiaeth ac o syniadaeth ym mhob man yn ein llenyddiaeth – 'traddodiad mewn ymennydd' boed yng ngwaith Dafydd Nanmor, Dafydd ab Edmwnd, neu Dudur Aled; 'Cristnogaeth gatholig', yn 'Pwy a Ddring y Ladingffordd', y Cursus yn y Colectau Cymraeg, a Llyfr y Resolusion, ond hefyd hyd yn oed mewn 'Damcaniaeth Eglwysig Protestannaidd' ac yn Twm o'r Nant. Fe ganfu 'ddelfrydiaeth aristocrataidd' ym Mhedair Cainc y Mabonogi, yn Dafydd ap Gwilym, Charles Edwards, a Robert ap Gwilym Ddu. Ond effeithid hyn oll gan yr ymrwymiad ysbrydol. Hynny oedd yn diffinio unigrywiaeth bennaf Saunders Lewis. Nid pleidiwr mohono yn ceisio dadlau achos yn daer, fel y gwnâi Marcsydd neu Ffeminydd. Molwr cafalïr oedd e'n bennaf, ac o'r herwydd doedd dim o'r gorfoledd dyneiddiol Gristnogol yn gyfan gwbl ddieithr iddo.

Peryg ymrwymiad rhy unplyg eraill o'r fath weithiau yw diffyg haelfrydedd tuag at y 'lleill', ynghyd â näifder, malais, cenfigen, a methiant i weld y darlun mawr. Heb golli mymryn o'i ymrwymiad amlwg, gallodd Saunders sleifio'n ddeheuig heibio i'r rheini oll gyda'i ddeallusrwydd

a'i ysbryd eangfrydig, heb fforffedu'i hawl i feirniadu'n negyddol.

Roedd yna rai nodweddion eraill go gyson y gellid eu crybwyll ym methodoleg Saunders Lewis. Yn gyntaf, patrwm y 'ddadl'; ond nid yn gwbl gonfensiynol o ran cywair, Enghraifft o hyn oedd ei ffug ddadl gyda Thomas Parry ar nodweddion arddull Dafydd ap Gwilym. Doedd Saunders fel arfer ddim yn unplyg nac yn uniongyrchol negyddol wrth ddadlau. Roedd e eisoes yn amlwg yn gallu rhag-weld y dadleuon sefydlog a defodol ym meddwl ei ddarllenwyr. Adwaenai'r Sefydliad 'radicalaidd', a rhagwelai eisoes y gwrthwynebiad cynefin.

Yr hyn a oedd yn chwithig yn ei ddadl oedd y lle gogoneddus a gaed i fawl. Mater ysbrydol oedd hyn, eithr nid oherwydd ei gatholigiaeth y caed y bwgan a ganfuwyd ynddo, er mai dyna a enwid (megis yn y ddadl enwog gyda W.J. Gruffydd), ond ei chwithdod oherwydd y diffyg mawl a fu oherwydd gwrthwynebiad i gredu difrif o unrhyw fath, megis gyda dyneiddiaeth amlwg, oddrychol, seml. Yna, megis yr oedd ei grefydd yn chwithig, yn wleidyddol hefyd, nid ei geidwadaeth oedd y gwir fwgan ym mryd radicaliaeth fwyaf blinedig y chwith (roedd ei safbwynt yn rhy gymhleth i hynny) eithr ei chwyldroadaeth, gyda'r iaith er enghraifft. Nid ei 'gyfalafiaeth' yn gymaint â'i wrthwynebiad i'r materol ac i'r isradd seicolegol fel y canfyddai Saunders y gwendid. Yr hyn a welai'n rhan hefyd o'r gwaseidd-dra diddychymyg yn y dull Prydeinig o wleidydda 'democrataidd' fwyafrifol sefydlog oedd yr hyn nas deallid gan y meddylfryd Seisnig. Y dieithrwch Cymreig difyr o daeogrwydd a dewrder.

Ac yna, yn feirniadol ddeallol, gallai ddibynnu na byddai rhamantiaeth ei amgylchfyd llenyddol ddim yn rhoi gormod o sialens ymenyddol yn ei hatebion di-glem. Ei waith e oedd dychrynu'r rhain gyda newydd-deb i'r bylchau penagored yn arfogaeth eu sefydliad meddyliol. Deffröwr oedd e, mewn beirniadaeth lenyddol, mewn gwleidyddiaeth, ac mewn crefydd.

Yn ail, hoffai ymarfer ei ddawn i gyffredinoli. Casglai dystiolaeth yr unigol neu'r arbennig i ddechrau. Ac yna, fel arfer ar sail ymgydnabod hanesyddol, fe chwiliai am y ddolen gydiol – ar y cyd. Gallai fod yn llancaidd o eithafol – mewn ymgais foliannus i ddyrchafu, oherwydd canfod y cyfansawdd. Fe âi dros ben llestri droeon – ac nid yn unig yn ei gyfnod cynnar. Ond yn y cyfnod cynnar hwnnw, dyweder yn *Williams Pantycelyn* 1927 (cyfrol a gyhoeddwyd flwyddyn cyn ei benodi i'r Brifysgol), dôi'r cyffredinoli carlamus yn hwyliog: '1746 yw blwyddyn geni barddoniaeth Gymraeg ddiweddar'; 'Wedi'r cyfnod hwnnw [1330 – 1640] ni bu feddwl Cymreig pur, ond meddwl Seisnig ar ŵyr i gyfeiriadau Cymreig'; 'A'r corff damcaniaethau hyn [o Einion hyd at Simwnt] yw prif gyfraniad Cymru i feddwl esthetig yn Ewrop'; 'Williams yw'r bardd rhamantus cyntaf yng Nghymru.' Ym mryd y llefarwr trwm o'r pwll wrth ei ochr yn Abertawe, sef ei bennaeth yn Abertawe, Henry Lewis, gyda'r chwys yn sianelu'n drosiadol drwy'r llwch ar ei dalcen, roedd y dandi bach troetchwim hwn yn siŵr o fod yn dân ar groen ymhell cyn 1936.

Yn drydydd, roedd yna ysfa ddireidus ynddo i chwilio am y paradocs a'r cyfle i bryfocio mewn gwirebau annisgwyl. A'r *tour de force* cynddelwaidd efallai mewn cyfres o achlysuron yn y dosbarth hwnnw oedd ei fawrhad o Gyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd. Pa sbort a allai fod yn well gan y Pabydd tröedigaethedig hwn na chydio yng Nghyffes athrawiaethol orau'r Protestaniaid Cymraeg, y crynodeb bachog mwyaf effeithiol o'r Ffydd Galfinaidd yn yr iaith, a'i defnyddio mewn dadl pryd y gallai fawrygu'r Gyffes honno: 'Un o gampweithiau pennaf rhyddiaith Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r *Cyffes Ffydd*, rhyddiaith fel miwsig organ yn datgan mawrion erthyglau cred y corff Cymreig a roes inni feistri mwyaf ein llenyddiaeth am gyfnod o ganrif a hanner?' Ond wrth gwrs, yr oedd hyn yn fwy na sbort iddo. Dyma Babydd yn defnyddio dogfen ganolog Galfinaidd Gymraeg i herio Protestaniaeth ddirywiol a'i hen enwad a oedd (yn gyfreithiol) wedi perfformio tric twrneiol i gefnu ar awdurdod ei hathrawiaethau ei hun. Heriai Saunders Lewis y cam tua goddrychedd dyn-ganolog, gan lefaru o'r tu mewn i'r ffydd a adawyd ers tro gan genedl 'brotestannaidd' na chredai mwyach odid ddim o'i hetifeddiaeth. Gwelai genedl ger ei fron a waseiddiwyd yn seicolegol, yn wleidyddol, ac yn grefyddol.

Yn bedwerydd, yr oedd yn feirniad cywir weledigaethus. Gwelodd 'rywbeth' a unai bob peth ac a roddai ystyr i bopeth. Roedd hyn yn amlwg ym Mynegiant hanes Cymru. Yn awr, yr oedd yna batrwm y tu ôl i'r hanes hwnnw o drefn adeiladol, o 'gyfundrefn o gyfundrefnau'. Canfyddai ystyr i'r cyfanwaith o Gymru mewn cyfansoddiad o wareiddiad, yn amlwg unol hyd yn oed i seciwlarwyr. Ond nid yn fecanyddol näif: ceir llawer mewn Mynegiant sydd y tu allan i gyfundrefnau, a all ymddangos yn rhydd ac yn amodol rydd, ond a oedd yn unol yn y tir. Roedd yr hyn a ganfu Saunders Lewis yn ymestyn y tu allan i Dafod, ac yn cynnwys pob dim mewn Mynegiant. Yn wir, yr undod hwnnw y tu allan i Dafod oedd un o'r pethau a geisiai gymhelliad wrth feirniadu. Chwilio undod meddwl a delfryd oedd ei fethodoleg sylfaenol.

* * *

Teg fyddai cymharu beirniad Cymraeg praffaf yr ugeinfed ganrif, Saunders Lewis, â'r beirniad praffaf cyfoes yn Lloegr, sef F. R. Leavis. Tebyg oedd maint eu dylanwad ill dau yn eu dwy wlad wahanol. Gadawsant argraff nid anghyffelyb ar yr un genhedlaeth.

Roedd ganddynt hefyd rai priodoleddau yn gyffredin. Heblaw bod yn feirniaid llenyddol, roedd ganddynt ill dau rywbeth i'w ddweud am fywyd. Roedd hynny ynghlwm wrth yr ysfa i werthuso, a'r rheidrwydd a'r buddioldeb a gaed o sefydlu canon. Roedd eu pwyslais moesol yn amlwg: Leavis yn ddyneiddiol, Saunders yn Gatholig. Ac fe gredent fod y llenyddiaeth a efrydent yn berthnasol i'r oes. Apelient at ddeallusrwydd; ond mynnent fod ymenyddwaith yn nyddu drwy berfedd teimladol. Er eu sylw ill dau i fanylion, roeddent yn barod mewn ffyrdd gwahanol i symud o'r rheina at drefnusrwydd egwyddorol y darlun cyflawn. Fe ganfyddent berthynas cymhlethrwydd

a symlder; ac felly, roedd eu hymateb i'r uchelwrol yn cydredeg â gwerthfawrogiad o 'werinoldeb' (sut bynnag y protestiai Saunders yn baradocsaidd am y term).

Roedd hefyd gryn wahaniaeth rhyngddynt. Ceid gan Saunders ddiddordeb ysol mewn hanes nas ceid i'r un graddau o bell ffordd gan Leavis. Roedd llawer mwy o haelfrydedd yn ei bersonoliaeth hefyd. Mwynhâi Saunders faddau. Cydredai'i feirniadaeth ag ymrwymiad crefyddol a gwleidyddol eithriadol rymus, hyd at aberth. Ac roedd ei arddull yn fwy bachog: nid am ddim y cafodd flynyddoedd o gyfrifoldeb mewn newyddiaduraeth.

Dioddefodd y naill a'r llall falais oherwydd eiddigedd cyfoeswyr, oblegid eu parodrwydd i draethu barn ddiamwys heb flewyn ar dafod ac oblegid ffresni'u syniadaeth. Poenid hwy gan feistri ystrydebaeth meddwl, yn ogystal â chan feistri ystrydebaeth ymadrodd – un o beryglon beunyddiol Academia. Oherwydd amlygrwydd y ddau, difyr (bellach) o bell yw sylwi ar y bobl fach biwus ddiddychymyg hynny a fethodd â chodi i ymateb yn ddigonol iddynt ar y pryd.

Mynegiant (nid Tafod) oedd eu diddordeb ieithyddol ar y pryd; ac felly, dyna wedd ar lenyddiaeth lle y dylai amgylchiadau hanesyddol allu cyfrannu i'n dealltwriaeth o lenyddiaeth gyfredol. Felly y profodd i Saunders, megis i rywrai ymhlith y 'Beirniaid Newydd' a gydoesai ag ef yn yr Unol Daleithiau. Ac roedd yr hanes hwnnw yn ffactor cyfoes yn ei fyfyrdod. Fe'i gwthiodd e, yn wahanol i Leavis, i ystyried Cymhellion ysbrydol llenyddiaeth.

* * *

Rhaid i fi adde fy nyled i Saunders Lewis (yn ystod y cyfnod o gydoesi gydag e megis yn awr dros f'ysgwydd) am iddo f'ysgogi i ymhyfrydu yn anturiaeth meddwl am drefn llenyddiaeth. Bu'r un pryd hefyd yn fodd i'm difrifoli ynghylch Cristnogaeth oruwchnaturiol athrawiaethol a sagrafennaidd. Roedd hyn yn ddarganfyddiad ac yn sioe. Ond er iddo f'ysgogi hefyd i ganfod y cyswllt yn gliriach rhwng Cymhelliad llenyddol a llên Cymru, es i ddim yn bell iawn gyda fy mentor ar ei ffordd i fyfyrio am berthynas llenyddiaeth a chrefydd. Tybiaswn i'n ifanc ac yn gyntaf mai pwnc oedd crefydd, gwedd ar gynnwys, cefndir, hyd yn oed fframwaith achlysurol, i fywyd arferoldeb defodol. Doedd gen i'r un clem ar y dechrau sut y gallai ei hathrawiaeth sathru ar fy sylweddoliad o feirniadaeth lenyddol ac esbonio Ffurf er enghraifft na *Bodolaeth* llenyddiaeth a thraddodiad. Doedd gen i'r un llefelaeth fod yna resymau hollol wrthrychol dros ystyried bod crefydd ei hun yn hanesyddol, ac yn barhaol o hyd drwy bob pwnc, gan ddarparu dealltwriaeth o ragdybiau ac o gynarddulleg i lenyddiaeth. Caed pwyslais Catholig ar berthynas mater ac ysbryd.

Digwyddodd fy nhroad nesaf yn fy niddordebau beirniadol i yn ystod y cyfnod 1963 a 1964. Fe ges i Saunders Lewis dros f'ysgwydd yn gwmni wrth i mi wynebu uniongrededd meddwl diwygiedig. Deuthum yn gyntaf i ymddiddori gyda chryn ddifrifoldeb a pharch annisgwyl mewn diwinyddiaeth Galfinaidd, ac yn arbennig yn *athrawiaeth ragdybiaethol a seiliol* Cornelius Van Til

yn ogystal ag yn y syniadaeth Galfinaidd am ddiwylliant a draethid gan Henry Van Til. Gyda'r tro crefyddol a meddyliol hwnnw, yn rhyfedd iawn, chwap wedyn, mewn fframwaith nid cwbl annhebyg (hynny yw, yn rhagdybiol), fe ddes i gysylltiad ag *ieithyddiaeth ragosodiadol seicoddeinamegol Tafod* fel y'i dehonglid gan Gustave Guillaume. Dyna, tua'r un pryd â'i gilydd ac â'r Ddealltwriaeth gynyddol Saundersaidd, fy holl syniadaeth i am Gymhelliad ac am Ffurfiolaeth llenyddiaeth yn cael ei gweddnewid. Doedd gan yr un o'r ddwy ysgol estron fawr i'w ddweud ynghylch llenyddiaeth ar yr olwg gyntaf; ond tybiwn i fi ganfod egwyddorion ffrwythlon a gyffyrddai â Seiliau Beirniadaeth. Fe gaed hyn mewn pwyslais ar Gyfundrefneg a Rhagdybiau.

Hyd yn hyn roeddwn i wedi bodloni ar aros ar lefel Mynegiant mewn beirniadaeth lenyddol. A dyna fi wedi mudo i fyd Tafod a Seiliau Llên. Y peryg yn awr i fi fyddai ymadael â Mynegiant, neu ei esgeuluso braidd.

O'm cwmpas yn y chwedegau, digwyddodd tro go chwyrn ledled y byd beirniadol. Dôi'n gyfredol i ailgyfeirio beirniadaeth lenyddol; a chafodd gryn ddylanwad ar un ysgol a fynnai ddatblygu hen dechneg 'y darn ei hun'. Hen ddeiet yr adrannau Cymraeg, pan gaed beirniadaeth lenyddol, oedd archwilio'r testun am ystyr, ynghyd â pheth sylw ardullegol. Ond cafwyd pwyslais newydd. *Brwydr yn Nwyrain Ewrob rhwng dwy ideoleg – Ffurfioleg a Marcsaeth.* Rhuodd mewn corneli tangnefeddus.

Hwyrfrydig fu'r symudiad meddyliol ymhlith y Cymry at ei gilydd. Cafwyd peth dychryn yn wir. A pheth wmbredd o gamddeall. Pery'r camddeall o hyd. Dichon fod gwreiddiau'r cyfnod hwn yng Nghymru rywfodd yn y traddodiad cynganeddol (ffurf), ac yna yn y traddodiad lled-sosialaidd diweddar (cymdeithas). Astudio Ffurf o'r newydd a wnaethpwyd yn gyntaf – hen fyd Rhethreg wedi'i hailwampio: dyna'r arwyddion cychwynnol fod yna helbulon o fath ar y gorwel. Wedyn, fe gafwyd theorïau Marcsaidd. Doedden nhw ddim yn gwbl sicr beth i'w wneud â Ffurfiolaeth (Formalism), doedd honno ddim yn unigolyddol gyfalafol nac yn fewnblyg anghymdeithasol chwaith. Condemniwyd y ddau ogwydd felly i gilio i Siberia yn daclus, yn ddiau.

O'r herwydd, yng Nghymru, er gwaetha'r gwreiddiau Sosialaidd tebygol, ni chafwyd yr un cyfraniad beirniadol Cymraeg o bwys a ymwnâi â Marcsaeth, o leiaf yn ystod y cyfnod pryd roedd cryn barch yn cyfrif o hyd i'r syniadaeth honno. Er bod y Cyngor Llyfrau wedi ymffurfio yn fath o Siberia Gymreig i chwaeth a safon ar y pryd, clywid o'r tu allan boenau esgor cynnydd llenyddol arall. O leiaf, mi deimlwn hynny dros f'ysgwydd i, o sylwi ar leisiau Pennar Davies, ac Euros Bowen, ac ym myd Hanes cymdeithasol gan Hywel Teifi yn bennaf: caed meddwl solet a materion a ystyrid bellach braidd yn academaidd yn yr ystyr ddiweddar, yn hytrach nag yn feirniadol yn yr hen ystyr fwyn.

* * *

Dw i am neilltuo'r gweddill o'r ysgrif hon i ymgyfyngu i wedd arall ar arwyddocâd Saunders Lewis o fewn cyd-destun gorchfygol y mileniwm hwn, a'r hyn sy wedi gwneud Cymru newydd anghenus yn y ganrif ar ei ôl. O leia, felly y bu hi bellach i mi.

Dyfodiad Adeileddeg (neu Strwythuraeth) oedd un o'r catalystau a roes gychwyn i'r corddi diweddar. Ailgyneuwyd, yn Ffrainc, ddiddordeb yn Ffurfiolaeth dwyrain Ewrob. Derbyniodd yr hen ysgol honno enw newydd. Er bod rhai o'r ffigurau ym myd Ffurfiolaeth yn dal yn berthnasol, dechreuodd ffigurau newydd swrealaidd ymddangos, pobl lai trefnus a llai rhesymegol. Yn fy marn i, cymharol anfoddhaol oedd datblygiad Adeileddeg ei hun ar ôl rhai symudiadau cyffrous newydd eraill. Amlhaodd y canghennau eraill ym maes 'Theori' oherwydd y diffyg cyfeiriad catholig mewn Adeileddeg. Ond roedd yna fwy o gatalystau yn y symudiad newydd nag Adeileddeg. Cafwyd symudiadau cymdeithasol gwydn newydd megis: Neo-farcsaeth, Ffeminyddiaeth, ac Ôl-drefedigaethrwydd, ynghyd ag ysgolion seicolegol a hanesyddol. Ac wrth gwrs, cafodd amryw o'r mudiadau estron mân a mawr hyn eu lladmeryddion cynrychioliadol yn y Gymraeg, yn neilltuol mewn gweddau ar Ôl-foderniaeth. Drwy drugaredd, roedd yn anochel o hyd fod Cymru'n cymryd ei llwybr ei hun. Caed adfywiad cynganeddol. Roedd Cerdd Dafod, fel petai, heb sylwi ar y byd mawr, wedi adfywio'i dilynwyr yn aruthr. Er inni gael Ôl-foderniaeth yn ei phais-a-betgwn ei hun, cafwyd hefyd – yn wir, cyn iddi ddod i'r golwg ryw lawer – ymagweddu go feirniadol tuag ati. Roedd hi fel pe bai'r Gymraeg am i hon ei byhafio'i hunan, oherwydd Euros ac eraill, mewn modd a oedd yn gweddu i'n tipyn argyfwng ni.

Ffigur hynod bwysig oedd John Rowlands yn y symudiad hwn o arolygu datblygiadau newydd. Ei esiampl a'i arweiniad a'i fentr fythol wyrdd a ysbrydolodd y gyfres eithriadol heriol 'Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig'. Cafwyd lawnsiad helpfawr gan M. Wynn Thomas (1995) a olrheiniai broblem y ffin mewn llenyddiaeth a bywyd, mewn gofod ac amser, mewn ffurf a chynnwys. Fe'i dilynwyd gan Gerwyn Wiliams (1996), sydd eto'n fforio mewn ffin lle y mae'r Neb diriaethol ac ysbrydol yn ymdroi. Yn 1997 roedd Paul W. Birt wedi cydio yn thema ôl-drefedigaethrwydd a'r dieithrwch hanesyddol a geir ar y ffin rhwng dau ddieithrwch yn seicolegol ac yn llenyddol. Yn 1998, roedd y beirniad profiadol E. G. Millward yn trafod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y frwydr ffurfiol a chyweiriol rhwng uchelgais a mawreddogrwydd imperialaidd Prydain a'r ymgais gan wlad orchfygedig, Cymru, i gael ei lle a'i rhan yn y profiad. Yn 1998, trafodwyd 'Pur fel y Dur' gan Jane Aaron, lle y ceir un o themâu mwyaf amlwg troad y ganrif, sef ffeminyddiaeth, ynghyd â delweddau o'r fenyw draddodiadol yn cael eu herio. Yn 1999 ymdriniwyd gan Grahame Davies â'r ffyrdd gwahanol yr ymatebwyd i argyfwng moderniaeth gan R. S. Thomas, Saunders Lewis, T. S. Eliot, a Simon Weil. Roedd *Soffestri'r Saeson* (2000) yn un arall o'r cyfrolau lle y gwelid theori fodern yn addas ac yn amserol wrth ddehongli sefyllfa brofiadol yn y gorffennol.

Diau mai Angharad Price (2002), yn anad neb, a ddefnyddiodd waith Shklovsky a Jakobson a Derrida orau i ddangos y deffroad mewn rhyddiaith arbrofol a gafwyd gan genhedlaeth nodedig y 90au. Yng ngwaith Jason Walford Danies, arddangosir perthynas paradocsaeth R. S. Thomas a'r traddodiad llenyddol Cymraeg. Yng nghyfrol Roger Owen cyflwynir llenyddiaeth sy'n trafod thema *Ar Wasgar* sy'n dal mewn dychryn yn amserol heddiw yn ail ddegawd y milflwyddiant, ac sy fel petai'n adlewyrchu ansawdd rhyngwladol ôl-foderniaeth. Roedd diwydrwydd di-ail Robin Chapman, yn ei gofiannau, megis yn ei gyfrol 2004, yn pwysleisio'r elfen bersonol o fewn cyd-destun Ôl-foderniaeth afradlon. Bu cyfrol Simon Brooks, yr ail yn y gyfres yn y flwyddyn honno, yn trafod un o ddiddordebau mawr Ôl-foderniaeth, sef y broblem o ddiffinio rôl yr *Oleuedigaeth* a gafwyd o'r Dadeni Dysg ymlaen yng Nghymru a'r *Ymoleuo* sydd mor drwchus (hyd nes ymddangos yn 'ddiduedd' i sylwedyddion confensiynol). Pennaf awdurdod Cymru wrth ddarlunio y ddau ryfel byd yw Gerwyn Wiliams. Yng nghyfrol 2005, ceir myfyrdod uwchben rhes o lenorion yn eu presenoldeb a'u habsenoldeb yn yr Ail Ryfel Byd. Yn 2006 dyma gyfrol feistrolgar gan Sioned Puw Rowlands, merch nad oes ei hafal yng Nghymru am ei chydnabyddiaeth â llenyddiaeth Canol Ewrob, a mentra hi roi Twm Morys yn y cyd-destun hwnnw, a llwydda'n wych. Yn y gyfres hon, cafwyd amryw flodeugerddi neu gasgliadau o ysgrifau, ac yr oedd yr un yr oedd Owen Thomas yn olygydd iddo yn 2006 yn well na'r un i adlewyrchu'r math o drafod yr oedd tîm o bobl ifainc effro a meddylgar yn negawd cynta'r ganrif newydd yn ei addo i'r dyfodol. Am wn i, *Canon ein Llên* 2007, gan Tudur Hallam, oedd clo'r gyfres hynod hon, neu fedd y gyfres fel buasai Tudur yn ei eirio, efallai. Fe ddengys ei obaith fod modd peidio â chael canon, ei bod hi'n bosibl iddo sefyll y tu allan i'r dewis, bod anhrefn yn ddichonadwy, a bod yn rhaid gwrthod y posibilrwydd o Absoliwt. Rhaid peidio â 'meddwl' yn rhy hir am y fath beth. Arweinia'r cwestiwn at holi 'Gan bwy mae'r hawl i farnu bod y gyfrol hon yn dda a'r gyfrol arall yn ddrwg.' A chan fod rhagdybiau'n gallu synied am y fath gwestiwn, casglwyd nad oedd yr ateb Absoliwt priodol yn bosibl. Gellid honni, sut bynnag, fod y fath ateb yn afresymegol ac yn hanner-pob. Ond y gwir oedd bod gwrthodwyr gloywaf y canon wedi'u cau eu hunain mewn carchar, carchar eu hymhonni sgeptig eu hunain.

Teg cydnabod na fuasai'r un o'r awduron hyn wedi gwneud ei waith oni bai fod Saunders Lewis wedi defnyddio'i ymennydd wrth lunio'i feirniadaeth lenyddol yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, a meddwl am Gymru wedi ymsymud mewn byd deallol cyfoes, lle'r oedd y safon o ddadansoddiad a dealltwriaeth a grewyd wrth drafod problemau llenyddol y gymysgfa hyll gyfoes Ewropeaidd yn gofyn eu gorau gan lenorion cyfoes hyd yn oed yn y wlad hon.

Cymerer yn fwy manwl gyfrol megis un Paul Birt, *Cerddi alltudiaeth: Thema yn Llenyddiaethau Québec, Catalunya, a Chymru.* Mae'r awdur yn trafod y berthynas rhwng argyfwng cenedl ac ysbrydoliaeth lenyddol. Mae'n disgrifio'r ing sy'n rhoi lliw arbennig i lenyddiaethau

'bychain.' Dyma, yn sicr, feirniadaeth lenyddol gymdeithasol o'r radd flaenaf. Ar ôl trafod y tair gwlad – Québec, Catalunya a Chymru (gan gyfeirio at waith Alan Llwyd yn graff iawn) drwy arolwg cyffredinol gwybodus, y mae'n dod â'r camera'n nes. Mae'n trafod un enghraifft benodol o bob un o'r gwledydd: sef Gaston Miron (1928-96), y bardd cenedlethol pwysicaf o Québec, Salvador Espriu (1913-85), a ganodd ing Catalunya yn ystod un o'r cyfnodau dwysaf yn ei hanes, a Gwenallt (1899-1968). Pwy a allai gynrychioli canu cenedlaethol Cymru ar ei fwyaf amryliw, cyson, tyneraf a difrifolaf yn well nag a wnaeth Gwenallt?

Nid alltudiaeth allanol seml yw'r thema, eithr alltudiaeth fewnol. Mae alltudiaeth wedi dod yn alegori, yn adlewyrchu perthynas llenyddiaeth dan fygythiad y dyfodol. Ymddygiad arbennig a gafwyd gan y llenyddiaeth drefedigaethol hon: ailddarganfod tafodiaith a chaneuon gwerin, llên gwerin ac ysgolheictod. Ceisid 'byw fel petai'r wlad yn bodoli'. Ceid canu epig fel awdl R. Bryn Williams 'Patagonia', yn yr un cywair bodolaethol breuddwydiol. Ceid hefyd dueddiadau apocalyptig yng nghanu Waldo, Saunders, Gwenallt a Phennar. Nid yn anfynych yng Nghymru y bydd beirdd o'r fath yn ymdroi gyda'r ymddatodiad hefyd, megis math o hunanladdiad. Dengys Dr Birt fel y mae sawl llenor mewn sawl llenyddiaeth yn uniaethu 'iaith' â bodolaeth y genedl.

Yn 1944 cyhoeddwyd cyfrol arloesol Aneirin Talfan Davies *Yr Alltud* lle y trafodir yr un thema. Meddai fe yn y gyfrol honno, 'wrth sylwi ar hanes llenorion gwledydd bychain Ewrop, cawn i'r rhan fwyaf ohonynt dreulio llawer o'u hamser yn alltudion o'u gwlad am y teimlent fod byw mor agos at eu cyd-genedl yn magu clawstroffobia anoddefadwy'. Wel, aeth Dr Birt yntau allan o Gymru dros y môr: anfonodd yn ôl gyfrol sy'n ein tynnu i fyfyrio am ein gwlad yn ôl persbectif cydwladol o'r fath. Ac yr ydym oll ar ein hennill.

Dyna sy'n taro ynglŷn â'r gyfrol hon gan Dr Birt. Mae gan yr awdur weledigaeth ryngwladol ynghylch llenyddiaeth a gyfoethogir oherwydd dealltwriaeth ynghylch sefyllfa seicolegol a diwylliannol llu o lenyddiaethau 'lleiafrifol'. Gwêl ef argyfwng ffrwythlon. Clyw ef angerddau amryliw.

Mae Dr Birt ar ei ben ei hun ymhlith ysgolheigion Celtaidd yng Ngogledd America. Mae ef yn dra hyddysg mewn llenyddiaeth ddiweddar. Fel arfer, bydd ysgolheigion ar y cyfandir hwnnw yn glynu wrth yr Oesoedd Canol. Ond deallodd yr Dr Birt fod yna, yn llenyddiaeth gyfoes y gwledydd Celtaidd (ac mewn diwylliannau trefedigaethol eraill), rywbeth sydd ar y naill law yn unigryw ac ar y llall yn rhyngwladol ei arwyddocâd.

Alltudiaeth fewnol, yr hollt yn y meddwl, dyma yw prif thema'r gyfrol hon wrth iddi drafod llenyddiaeth Gymraeg yng nghyd-destun Québec a Catalunya. Mae alltudiaeth yn y gyfrol hon fel pe bai wedi dod adref. Nid cyd-ddigwyddiad â hyn yw bod cofiant Cymraeg mwyaf nodedig yr ugeinfed ganrif wedi'i gyhoeddi tua'r un pryd, a hwnnw i'r arch-alltud *Gronwy Ddiafael. Gronwy*

*Ddu,* gan Alan Llwyd.

Yr ŷm oll bellach yn alltudion. Ni all Cymro Cymraeg mwyach ond bod yn rhyngwladol o ran ei bersonoliaeth ei hun. Mae yna chwedl yn cylchredeg drwy gefn gwlad Lloegr (ac felly drwy gefn gwlad Cymru) fod y meddwl Cymreig yn fewnblyg. Troi i mewn i ni'n hunain a wnawn yn wleidyddol, yn ddeallol ac yn seicolegol. Syllwn arnom ein hunain mewn gofod cyfyng. Ac eto, mewn arolwg sydyn personol a wneuthum o ddeg cyfrol yr un, mewn Cymraeg a Saesneg, ym maes beirniadaeth lenyddol, cefais fod cant y cant o'r cyfrolau Cymraeg yn ymwneud yn helaeth ddigon â llenyddiaethau o'r tu allan i Gymraeg ac nad oedd yr un o'r cyfrolau Saesneg yn gwneud hynny tu allan i Loegr.

Dyma'r cefndir priodol i ymaflyd yn y gyfrol hon gan Dr Birt.

Mae yna'r fath beth â beirniadaeth lenyddol Gymreig, ac y mae yn y Gymraeg. Does dim rhaid i feirniadaeth lenyddol gyfoes yn y Gymraeg fod yn adlais uniongred o Derrida, Foucault a De Man. Mae yna themâu a safbwyntiau a defnyddiau Cymraeg sy'n procio datblygiad unigryw yn ein beirniadaeth. Ac y mae'r gyfrol bwysig hon gan Dr Birt yn arddangos un o'r amryfal ffyrdd ar gyfer myfyrdod Cymreig sy'n dwyn ei ddelw ei hun, maes lle y gellir gwneud cyfraniad angerddol unigolyddol yng Nghymru, am Ôl-drefedigaethrwydd (neu Drefedigaethrwydd).

Dyma wrth gwrs oedd bwriad Saunders Lewis yn ei fyfyrdod maith am arwyddocâd traddodiad, y berthynas â Lloegr, Ewrop, yr estheteg Gymraeg a'n gwreiddiau Awstinaidd crefyddol. Ar ryw olwg, yn y modd y mae cyfrol Dr Birt yn estyn ac yn dyfnhau astudiaeth Aneirin Talfan, y mae'i gyfrol – os yw (efallai yng ngolwg y gwledydd mawr) ar ymylon beirniadaeth gyfoes – ar ganol y traddodiad beirniadol Cymreig. *Pobl yr Ymylon* ydyw'r Cymro, fel y sylwodd Idwal Jones. Ac y mae hyn yn ein gwneud yn ganolog.

Yn Unol Daleithiau America y mae'r math o raglen mewn Llenyddiaeth Gymharol sydd ar gerdded, dyweder, ym Mhrifysgol Califfornia, Los Angeles, (gan rai fel Sam Weber ac Ali Behdad, a'r cyfnodolyn *Suitcase*) wrthi yn theoreiddio ynghylch cenedl, hil, dosbarth ac astudiaethau benywaidd mewn cyfeiriad sy'n dra pherthnasol i Gymru. Nid ymddiheuraf am ddychwelyd i bregeth a wneuthum rai blynyddoedd yn ôl wrth dynnu sylw at waith Edward Said a threfedigaethrwydd. Drwy drugaredd, y mae'r theoreiddio hwnnw yng Nghymru yn ein clymu wrth 'weithredoedd' hefyd. Ac y mae hyn hefyd yn ein gwneud yn rhyngwladol. Ni wna'r tro inni ymlusgo ymlaen ym myd ysgolheictod a beirniadaeth, gan 'gymhwyso'r' negyddiaeth a'r nihiliaeth a'r chwarae cyfoes Saesneg a Ffrangeg am y sefyllfa Gymreig: mae ein hamgylchfyd cenedlaethol yn hawlio creadigrwydd dyfnach. Thema ar ganol yr arena o Tsieina i Balestina i'r Ariannin yw Cymru.

Drwy'u hydeimledd i'r drefedigaeth y mae Paul Birt yn troi negyddiaeth Ôl-strwythuraeth yn

gadarnhaol, ei ddadadeiladaeth sgeptig yn adeiladaeth, a'i nihilistiaeth ddadfeiliol gysurus yn egni. Gwedd ar ddeffroad yw mewn gwirionedd.

Fe geir gweledigaeth Gymreig o feirniadaeth yn y gyfrol nodedig hon. Clywir y weledigaeth honno drwy gydol y gyfrol. Fe'i datblygir ar bob tudalen ac nid yn unig wrth drafod themâu. Wrth ddisgrifio tybiaeth Gymreig Anne Hébert mai 'byw eiliadau cyntaf y creu y mae cenedl sydd yn ailddarganfod ei gwreiddiau' ... ac wrth ddyfynnu Ribat: 'Mae'r werin wedi cadw ysbryd y ddaear, yr iaith, yr hen arferion, fel y mae hedyn yn cadw'r goeden o'i fewn' ... delwedd gyfarwydd inni a ddatblygwyd gan Pedrolo: 'roedd gan hen genhedloedd wreiddiau dwfn a gwydn, a gallant fod ynghwsg am lawer blwyddyn, a'u canghennau'n cael eu rhwygo gan wyntoedd a rhew, ond o dan y ddaear maent yn dal i weithio a chasglu nerth, ac er gwaethaf pob argoel eu bod wedi darfod, gallant ailddarganfod nerth newydd a sydyn'... A Bud Kheif: 'Language is spiritual communion: it is both the social history of a people and its *Anschauung*; it structures both the social perception of a people's past and the interpretation of its future. Language is "roots" and identity: it is both an *ethnic boundary* to differentiate groups as well as an instrument of ethnicity, a vehicle to assent social bonds and "proclaim" a group's regeneration' ...

A chasgliad yr awdur ei hun: 'Mae llenyddiaeth ddiwladwriaeth, a ninnau'n pwysleisio cymeriad unigryw cymuned a'i hawl i'w hunaniaeth ddiwylliannol ei hun, yn gyfrwng mewn cywair sydd yn fynych yn arbennig o ddwys a phoenus, i leisio gwerthoedd dynol am ddyfodol gwâr'.

Mae gan Dr Birt wybodaeth gyfarwydd â sawl llenyddiaeth heblaw'r tair a grybwyllir yn y teitl. Mae ef yn hyddysg iawn mewn Gwyddeleg a Llydaweg. Ond y mae'n crwydro hefyd ar draws Ewrob, De Affrica, America, yn wir y rhan fwyaf o'r byd hysbys. Ac eto, wedi'r holl grwydro, yn wir o'i herwydd, dyma feirniadaeth lenyddol gyfan gwbl Gymreig, y math o gyfeiriad yr oedd yn hen bryd inni ei ddatblygu yn annibynnol hyderus, ond yn rhyngwladol yr un pryd, yma yn ein llenyddiaeth ein hun.

Yng Nghymru, roedd hynny'n golygu ymgymhwyso i sawl sefyllfa arall yn gyfochrog â'r sefylla drefedigaethol. Fe'n gyrrir i ailfeddwl yr etifeddiaeth o Gerdd Dafod, a bod ychydig yn fwy negyddol feirniadol tuag at ystrydebaeth sgeptig a relatifaidd nag a oedd yn weddus mewn gwledydd eraill. Mae'n dyfnhau un o linynnau deallol Saunders Lewis.

Hoffwn gyfeirio at un o'r storïau mwyaf dadlennol a glywais i erioed am Saunders Lewis yn ei henaint (tua 1979) mewn sgwrs ar y ffôn gyda fy nghyfaill annwyl Bedwyr Lewis Jones. Yn y sgwrs honno, meddai Bedwyr, roedd hi'n gwbl amlwg fod Saunders yn bur gyfarwydd â'r ddadl a fu ym Moscow ac ym Mhrag rhwng Ffurfiolwyr a Marcsiaid, ac ynghylch gogwydd diweddaraf Beirniadaeth Lenyddol. Cyhoeddodd Caerwyn Williams yntau yn y *Traethodydd* ddarlith am y Ffurfiolwyr a roddodd ef mewn cynhadledd i'r Academi. Roedd dau o'r hen do felly wedi aros hyd

ddiwedd eu hoes yn glust-denau i Strwythuraeth, a'r ddau ohonynt yn fwy effro o lawer na'r rhelyw Saesneg o ran eu hargyhoeddiadau Cristnogol. Roedd hynny'n wahanol ond doedd hi ddim yn ddamweiniol.

Wrth symud o Ddwyrain Ewrop i'r Gorllewin, yn bennaf i Ffrainc, symudodd Ffurfiolaeth ei phwyslais i Strwythuraeth, ac yna ysywaeth i Ôl-strwythuraeth. Dichon mai drwy'r Ffrangeg yn bennaf y clywsai Saunders am y datblygiadau hyn, er nad oedd wedi'u crybwyll hwy yn ei feirniadaeth ddiweddaraf.

Gyda Strwythuraeth, fe ddaethom o'r diwedd i fyd Ôl-foderniaeth. I fi, un o ddogmâu mawr a mwyaf treiddgar diwedd yr ugeinfed ganrif oedd relatifrwydd. Rhagdyb fwyfwy gormesol fu hi er 1914. Dyma graidd y symudiad ideolegol ledled y Gorllewin. Sicr oedd hyn, meddid. Dogma oedd a ddistrywiai werthoedd a phwrpas a threfn. Dadrithiai egwyddorion, ... ar egwyddor.

Hynny yn wir a ddigwyddodd i raddau. Ond nid hynny yn union. Mae'n wir bod edmygedd o'r meddwl gwyddonol, o fewn gofod ac amser, wedi peri i fwyafrif bleidio sefyll yn erbyn dimensiwn goruwch natur, a finnau yn eu plith yn fy llencyndod, dros dro. Eto, fe es i, fel Saunders Lewis, ar drywydd cwbl arall wedyn.

Fe ges i mewn diwinyddiaeth gipolwg ar Benarglwyddiaeth a estynnai i ddyn lawn gyfrifoldeb i'w ewyllys ei hun. A'r un pryd fe ganiatâi hynny i wrthryfelwr chwilio am lwybr gwahanol. Fe ges i mewn ieithyddiaeth y caeth mewn Tafod sy'n esgor ar y rhydd mewn Mynegiant. Felly gellid canfod fframwaith diogel, ymddangosiadol sefydlog, o'r herwydd, sy'n drefnus, ac yn ddisgybledig a ysgogai ymadroddi amrywiol ac anfeidrol ffrwythlon. Hynny yw, yn lle'r penrhyddid a'r amhenodolrwydd dilyffethair a'r amheuaeth lethol a'r gwacterau a ddisgwylid gennym oll ar y pryd, nid cyfyngiad a freuddwydiwyd mwyach, nid disgyblaeth noeth, oherwydd y chwyldro'n erbyn gwacter ysbryd. Agorwyd dau safle cytûn: deuoliaeth i'n golygon arolygu bydysawd cyfan, ac ymagorwyd o'r caeedig gydag amrywiaeth mewn undod. Bu'r ddau yn sbio dros f'ysgwydd.

Roedd rhywbeth aruthrol o Galfinaidd gyflawn yn y fath ddeuoliaeth â hynny, nid oherwydd bod theori neu esboniad yn blaenori realiti ffeithiau, ond oherwydd bod y ffeithiau allanol yn gynnyrch ac yn adlewyrchiad o drefn deall ac iaith. Cydnabuwyd paradocs, sef yr annisgwyl, a esgorodd ar fath o wrthdrawiad amgen na'r ôl-foderniaeth ffasiynol, yn gaer rhag chwalfa.

* * *

Bu Saunders Lewis, yn ei onestrwydd poenus (os cwicsotig) yn ymgodymu â'r abswrd a'r swrealaidd, megis yn ei ddramodig *Yn y trên*; ond mewn cerddi ac mewn beirniadaeth lenyddol baradocsaidd hefyd, fodlonodd e ddim ar aros yn rhy gysurus yn y safle meddyliol hwn. Ymestynnodd i grefydd. Wedi'r pwyslais hwn ar yr elfen oruwchnaturiol, yn wir efallai oherwydd hynny, yr hyn a'm trawodd wrth ailddarllen ei ysgrifau oedd mai'r brif thema oresgynnol a redai

drwyddynt oll oedd yr angen am rychwant catholig mewn llenyddiaeth a hynny o fewn trefn gadarnhaol. Math o begynau hunangofiant syniadol yw'r rheini, felly, yn eu ple am ehangder cyflawn, yn cynnal golwg panoramig ei ddeddfoldeb ifanc.

Buasai llenyddiaeth Gymraeg am gyfnod hir yn ei hunochredd crefyddol, yn groes i ras cyffredinol, ac yn broselytig. Dyna pam y trodd yr adwaith seciwlar yn yr ugeinfed ganrif yn unochrog anghrefyddol. Digwyddodd hyn heb fod llawer o'n llenorion yn sylwi beth oedd yn digwydd i'w culhau ar y pryd. Dyna'r profiad, yr wybodaeth, a'r arddeliad a feddiannai'r amgylchfyd, a heb sylwi bod llawer o'u byd a'u bywyd yn cael eu hesgeuluso mwyach.

Symudwyd y pendil ddwywaith. Roedd y genedl wedi cael ei chulhau gan bietistiaeth a dwyfoldeb imperialaidd; ac am y tro, aeth llawer iawn o brofiad dynoliaeth bellach, sef y dimensiwn ysbrydol, ymhell y tu hwnt i wybodaeth a diddordeb cyfran helaeth o'n llenorion. Nid sôn dw i am ymlyniad neu ymrwymiad, yn gymaint ag am ddiffyg gwybodaeth yn eu dadleuon. Sylweddolwyd ddim eu bod wedi culhau'n enbyd. I ddarllenydd gwir gatholig, roedd y fath grebachu clawstroffobig a sefydliadol yn chwithig. Ond yn eu cyfnod nhw, norm oedd hyn i'r llenorion: dyma oedd naturioldeb bywyd. Wyneb yn wyneb â'r ddau begwn hyn, roedd catholigrwydd ffrwythlon a chadarnhaol yn gallu bod yn dramgwydd i'r naill ochr a'r llall, i Galfiniaid sefydliadol ac i Faterolwyr sefydliadol. I'r doeth, mewn cyffyrddiad felly, daeth tramgwyddo yn fater o anghenraid taer.

Fe gyffyrddai'r caeadrwydd hwn â Chymru mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Fe ges i brofiad diddorol o hyn mewn dadl gyda Dr Iorwerth Peate, er mor bell oedd ef oddi wrth unrhyw fyfyrdod dwys ynghylch beirniadaeth lenyddol. Fe gredai mai melltith oedd dwyieithogrwydd. Credai'n ddwys mai amhosibilrwydd oedd i lenyddiaeth Gymraeg barhau onid mewn Cymru uniaith Gymraeg. Roedd hi ar ben arnom mewn cyfnod dwyieithog. Roedd y cilio ieithyddol bob amser yn derfynol ac yn ymwared yn llawen â chadarnhad adennill. Ac eto, fe welid er gwaetha'r safbwynt hwnnw, lenyddiaeth yn bosibl ym mhobman a phob amser, er y gallai hi ddirywio am resymau diwylliannol ysbrydol.

Enghraifft arall. Codai anghatholigrwydd ymhlith y Cymry yn eu hagwedd at werthusrwydd mewn llenyddiaeth am reswm a oedd yn ymwneud â llunio polisi a maes llafur i hyrwyddo dyfodol llewyrchus i'n llenyddiaeth. Cafwyd diriaethu ar hyn drwy sefydlu Cyngor Llyfrau, gan ymgyfyngu o ran nod yn gyffredinol, sut bynnag, i'r poblogaidd a'r ysgafn, a chan ddiarddel cyn belled ag y gellid bob sylwedd a myfyrdod o ddifri. Ni ellid ein gwared rhag hyn namyn drwy bwysleisio'r angen bob amser ar bob llenyddiaeth yn ei chyd-destun llawn, ac am yr angen i bob cywair a lefel o feddylfryd. Doedd dim llawer o flas ar ewyn yr arwyneb, heb y ddiod gadarn odano. Dw i'n credu bod y Cyngor, yn dawel bach, wedi chwyldroi cyhoeddiadau Cymru'n llwyr yn ymarferol oherwydd

diffyg myfyrdod. Heb fwriadu gwendid, fe gyflawnid gwendid. Mabwysiadwyd theori o ddiddanwch i'r mwyafrif, heb gofio'r lleiafrif cydbwysol angenrheidiol cyfannol sy'n treiddio drwyddo. Cafwyd dogma'r poblogaidd unochrog yn elfen ddistrywiol, heb drafod yn ddigonol boblogeiddiwch o fewn gwerthuso..

Lle bynnag y ceir safiad iach, treiddia ymgais i'w danseilio. Gwyddai Saunders yn burion am hyn am resymau ysbrydol. Ac fe'i ceid yn y lleoedd mwyaf od. Dadl arall a fwriadai dda ac a gyflawnai ddrwg ynddi oedd yr un ynghylch y 'diduedd' neu niwtraliaeth relatif mewn dadleuon. Mwgwd oedd hyn i guddio awydd isymwybodol a näif y sefydliad seciwlar. Mewn rhyddfrydedd sefydliadol, pwysleisir yn wiw led ac amrywiaeth ac amlochredd llenyddiaeth. Ond priodol yw hawlio realiti'r anocheledd rhagdybiol cudd. Gwyddys, gan y rhai sydd wedi myfyrio ar y broblem, nad oes y fath beth â 'diduedd' i'w gael; ond yn baradocsaidd iawn, cam at gatholigrwydd yn rhyfedd iawn fu gwadu bodolaeth y diduedd.

Mae sylweddoli'r gwyro cyson hwn yn gosod pawb yn yr un bad: y rhai a ŵyr hynny, yn ogystal â'r rhai nas sylweddola. Does neb yn 'ddiduedd'. Mewn gwirionedd, awydd real neu duedd y 'diduedd' tybiedig ac anoddefgar a oedd yn gyfrifol am ddiarddel y rhai 'tueddol' effro o gynteddau dysg. Mynnid mai niwtraliaeth dybiedig, ffug, a ffiaidd yn unig a wnâi'r tro. Rhaid oedd alltudio pawb na chytunai â'r rhagdybiau rhyddfrydol gwag. Dyma oes dywyll ac anoddefgar sensoriaeth a ffasgaeth dwp isymwybodol yn disgyn arnom. Y sawl a ŵyr beth yw ei ragdybiau (ac a all eu trafod), hwnnw a gyfyd uwchlaw'i ragdybiau, yn berson yn y gwir ganol yw'r sawl sy'n meddu ar reswm ac sy'n gallu bod yn hunanfeirniadol am reswm.

Dw i'n gallu deall anfantais y rhai sy'n derbyn y duedd sefydliadol yn safbwynt sylfaenol niwtral. Maen nhw'n cael cryn anhawster yn baradocsaidd i fedru gwerthfawrogi cyfoeth credo arall.

Da yw i bawb ifanc newid eu meddwl yn chwyrn un waith o leiaf mewn oes. Da yw profi canfod y 'llall' yn gywir, heb fod y traed wedi sticio yn llaid y geidwadaeth gychwynnol. Ond dyw'r egwyddor o newid barn yn fythol ddim yn arwyddo aeddfedrwydd. Cychwyn yw. Mae hynny'n ffordd o wadu posibilrwydd y gwiw ac angenrheidrwydd ieithyddol ac ymarferol i gydnabod yr elfen neu elfennau parhaol mewn amser a gofod.

* * *

Soniais i mi glywed gan Bedwyr Lewis Jones am Saunders a'i ddiddordeb yn ei henaint mewn Ffurfiolwyr (Formalists) ac mewn Adeileddwyr neu'r Strwythurwyr (*Structuralists*), a hynny wedi oes o barchu'r dimensiwn Ewropeaidd. Parodd y pensynnu am hyn ifi ddechrau ymdroi'n feddyliol gyda'r 'pe bai a'r petasai.' Pe bai Saunders wedi'i eni ugain mlynedd yn ddiweddarach, ym 1913 yn hytrach nag ym 1893 – sut y byddai wedi ymdopi ac wedi trin y duedd ieithyddol hon?

Efallai y byddai fe a Henry Lewis wedi bod yn hapusach gyda'i gilydd. Ffansi a dwli yw hyn wrth gwrs. Oherwydd gadawer inni gymryd mai'r Saunders hwnnw o ran crefydd a gwleidyddiaeth fysai fe, – a bysai fe byth felly, wrth reswm, – a dyweder ei fod wedi profi'r 'adeileddwyr' Ffrangeg ynghynt, yr ŷm ni wrthi'n creu problem arall. Gwirion yw ceisio breuddwydio am ychwanegu neu golli'r un elfen arwyddocaol yng nghymeriad rhywun, canys newidir y cwbl. Bysai ymyrryd ag argyhoeddiadau gwleidyddol neu grefyddol yn golygu ein mynd ar ôl rhywun arall... Ni chaiff Hanes ffidlan â ffeithiau.

Ond mae'n digwydd adeg tröedigaeth. Heb yr argyhoeddiad o bechod yn erbyn Duw, a heb edifeirwch a heb y gogwydd sagrafennol, bysai heb ymestyniad i lawer cyfeiriad arall. Datblygiad oedd hyn oll, i Saunders Lewis megis i Gwenallt. Hyn a wnaeth y ddau yn Rhesymolwyr Cristnogol rhamantaidd yn eu hieuenctid dychmyglon lenyddol. Arhosai hyn yn ddatblygol gydol eu heinioes go iawn, er gwaetha pob aeddfedu drwy bob math o broblemau meddyliol.

Dichon mai Efengyl Ioan, efengylwr y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, a fu'n bennaf cynhorthwy iddynt. Ioan oedd biau efengyl yr 'ysbryd', ac eto efô a eglurodd i Saunders Lewis megis i Gwenallt yntau, arwyddocâd newydd y Corff o fewn Cristnogaeth, fel y gwelir yng ngherdd Gwenallt 'Yr Eryrod' (ll.29-32), ac yn 'Gwreiddiau' (ll.3, 8-9, 16-18), ac yn 'Disgyblion Didymus' (gyda'r cyferbyniad rhwng Didymus a Thomos) 'Didymus yw nawddsant yr hen Resymolwyr/ A Thomos yw apostol y gweledig braw'.

Sagrafennaeth a ddiffiniai'r ddau fardd yn eu barddoniaeth, ym mryd rywrai. Roedd hyn yn golygu canfod yn y gweledig, yr anweledig, diriaethu'r haniaethol, unigoli'r amryw. I'm bryd i, mae argyhoeddiad o bechod yn gallu bod yn gyflwr sy'n cadarnhau 'gwahuno' yn fframwaith personoliaeth a deallolrwydd mewn dyfnder. Crynhoi hyn mewn gwrthrychau wna sagrafennwr.

Dw i eisoes wedi dadlau o blaid 'gwahuno' – y gwahaniaethu ynghyd â'r uno. Dyna fframwaith deall a dweud sydd hefyd yn angenrheidiol i edifeirwch. Mewn methodoleg ac mewn theori yr ydys yn cynnwys yr hyn a alwai Guillaume yn '*particularisation'* a *'généralisation'.* Yn y meddwl dynol, yn holl broses deall a siarad, rhaid cael y modd i gyferbynnu sefydlogrwydd â symud. Mae'r ddwy ochr yn anochel yn y broses feddyliol gyflawn, ac mewn tröedigaeth.

Dyma a ddefnyddir i *ddiffinio* Deunydd. Dyna hefyd a ganiatâ adeiladu a deall ffurf.

Yn awr, o bryd i'w gilydd, fe geir llenorion a beirniaid dibrofiad neu ar rai adegau llesg yn dymuno ymgyfyngu i wahanu, gwyro, amhenodoli, anunioni, arbenigoli, a bod yn ansicr. Oni byddwn yn effro, try hyn yn relatifrwydd dogmatig, yn goegi ystrydebol, yn rhyddfrydigrwydd blinedig. Ond y pryd hwnnw gall yr ochr arall gryfhau, a cheir rheswm a phwrpas, trefn a gwerth, undod a phendantrwydd, sicrwydd ac ystyr ... yn mynd dros ben llestri ar dro. Gall y naill hefyd fel y llall ogwyddo at ormodedd neu geidwadaeth anfeirniadol – sef y gelyn bythol ym mhob bywyd ac

ystyr, gan fod bywyd yn dibynnu ar wrthdaro bythol.

Tuedda un ochr i fychanu neu i ofni'r llall. A dyna yw'n perygl ninnau wrth ymdrin ag Ôl-foderniaeth, – fel y bu i Ôl-foderniaeth hithau ei hun weithredu yn nyddiau'i bri gynt. Rhaid diogelu'r rhan yn ogystal â'r cyfan, y dirnad ynghyd â'r tebygu a'r unioni a'r sefydlogi.

Enghraifft nodedig o unochredd annigonol Ôl-foderniaeth yw *différance* y beirniad llenyddol ieithyddol Derrida. Dyw hi ddim yn annhebyg o ran hanfod i 'ddieithrhau' y ffurfiolwr Shklovsky (priën ostranenija). Mae'r naill a'r llall yn alltudio'r 'un' wedd ar y strwythur sy ar waith. Ymgyfyngent ill dau ysywaeth i'r gwahanu, y 'particularisation', yr amhenodolrwydd, *heb* yr uno, yr *universalisation*, a'r penodolrwydd cyfatebol. Un o nodweddion cyson Cyn-Dafod (sef cyferbynnu sylfaenol ffurfiol pob iaith) – y drefn neu'r deddfau sy'n gwneud iaith yn bosibl yw nad oes dim modd effeithio dim ar yr amodau sylfaenol gan amgylchiadau achlysurol neu ffasiynol. Mewn Cyn-Dafod ceir gan blant, ac yn gynhenid yn yr isymwybod mewn oed, allu oedd yn gyn-eiriol i wahanu ac i gymharu (neu i gysylltu).

Does dim dewis ond gweithredu o fewn amodau iaith a meddwl. Y gwir yw nad oes modd gwyro heb fod yr ymwybod o uniondeb yn bod, na gwahanu nac amhenodoli ond o fewn cyferbyniad â'r norm o gysondeb a phenodoli. Pan ddysgir iaith yn gyntaf oll i blentyn, chaiff ddim o ramadeg ei adeiladu drwy gyfrwng 'rheolau', eithr drwy gyfrwng clymau o wahaniaethu anieithyddol o fewn egwyddor neilltuol o uno neu gysoni. Dyma wahaniaethau sythweliadol rheidiol Cyn-dafod o fewn cwmpas cymharol unplyg: gwahanol/tebyg; un/llawer; dibynnu/cynnal (disgyrchiant); sŵn/tawelwch; presennol/absennol (amser/lle); uwch/is; rhan/cyfan; ac yn y blaen. Rhaid i'r plentyn sylwi arnynt oll – eu darganfod cyn llefaru. Dyma darddiad yr holl ffurfiau mewn Tafod ieithoedd unigol, ac mewn Cerdd Dafod: yr amodau rhyngieithyddol. Cyferbyniadau elfennaidd, cyntefig, braidd yn blentynnaidd gynieithyddol yw'r rhain yn yr isymwybod. Hynny yw, yr hyn a alwaf yn Gyn-dafod. Hynny yw, mae'r cyferbyniadau hyn mor elfennaidd ddisyfyd ac anfwriadus, nes bod plentyn yn gallu'u cario yn ei feddwl sy'n eu cymryd yn ganiataol. Dyw'r profiadau neu'r egwyddorion delweddol hyn ddim yn newid yn eu hanfod yn ôl amgylchiadau hanesyddol na daearyddol o gwbl. Nid i Farcsiaid nac i Ffurfiolwyr yn unig y'u rhoddwyd, nid i Barthes nac i Aristoteles, a beth bynnag yw'r maes rhywiol deunyddiol – benywaidd neu wrywaidd. Maent ar gyfer pawb.

Mewn gwirionedd, y mae dweud bod 'dieithrhau' Shklovsky a '*différance*' Derrida wedi gwneud y byd yn hanfodol wahanol yn ôl amgylchiadol hanesyddol fel pe baem ni'n honni bod 'disgyrchiant' yn wahanol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ac ar y diwedd. Oherwydd bod gwahaniaethau i'w cael ac yn bod rhwng effeithiau unigolyddol y disgyrchiant rhwng afal yn cwympo oddi ar ben Castell Caerdydd a bricsen yn cwympo o ben Stadiwm y Principality, ac

oherwydd y gogwydd confensiynol bythol tuag at Fynegiant, tueddir i synied o hyd fod amgylchiadau achlysurol ar y pryd yn derfynol ddylanwadol. Y maent felly, wrth gwrs, yn achlysurol, yn ddigwyddiadol – yn nhrefn Mynegiant. Ni ellir ymwared â nhw mewn ffasiwn. A Mynegiant yw'r holl ddarlun ym myd llawer sy'n dal i feddwl yn ôl y cyfnod cyn-Saussure.

Diffyg theoretig (nid Mynegiannol) Shklovsky yw ei fod yn gorbwysleisio 'gwyro' ar draul 'unioni'. Diffyg theoretig Derrida yw ei fod yn gorbwysleisio '*différance*' ar draul 'tebygu' a 'sefydlogi'. Gwyddai'r naill a'r llall am yr ochr arall, ond ni sylweddolent eu harwyddocâd llawn mewn Tafod. Mewn proses feddwl theoretig ynghylch 'dieithrhau' neu '*différance*', does dim gwyro i'w gael heb yr un sylw i unionder. Unionder sy'n ei ddiffinio. Cenedlaetholdeb o fewn Undod dynol. Felly, y mae ymganoli ar y gwyro yn theoretig heb gyfrif gwerth yr unionder yn ddigonol wrth arolygu'n gyflawn weithred o'r fath mewn iaith neu mewn llenyddiaeth. Nid fel techneg achlysurol mewn Mynegiant, wrth gwrs, eithr fel theori. Cyfuniad yw'r egwyddor gyfansawdd. Proses ddeublyg yw beirniadaeth – Tafod a Mynegiant, ac yn driphlyg gyda deinameg Cymhelliad a Thraddodiad.

Dyw hynny ddim yn golygu nad oes gen i barch mawr at Shklovsky a Rwsiaid eraill a drafodai'r gwyro yn eu cyfnod. Proses iachus yw'r gwyro sy'n digwydd mewn Mynegiant. Ond does dim deall arni, na'i disgrifio'n theoretig foddhaol, heb bwysleisio a dadansoddi'r 'norm'. Ond does dim gwyro diffiniedig heb unioni o fewn unigolyn a chymdeithas. Rhaid inni ystyried 'gwyro' neu 'ddieithrhau' a 'gwahanu' neu 'amhenodoli' llenyddiaeth yng nghyd-destun Traddodiad yr uno yn eu tro. Dyna'r lle y'u bwriadwyd. Dyna elfen a ofnid, ac yn gyfiawn felly. Canfyddid mewn Traddodiad symudiad meddyliol ac emosiynol llenyddiaeth sy'n ymsefydlogi, ac eto'n cynnwys potensial dadsefydlogi o'r newydd. Heb hynny, dechreuai fynd yn ddianturiaeth ac yn ddeallol ystrydebol. Rhaid oedd ei fywiogi. A'r hyn a wnaed oedd gwyro.

Ond rhaid oedd rhoi gwyro yn ei gyd-destun strwythurol. Un o ddau symudiad byd-eang creedig oedd – gwahanu ac uno, gwyro ac unioni, arbenigoli a chyffredinoli, newid ac ailadrodd. Dyna'r ddau symudiad cydweithredol ynghyd y tu ôl i ddeall ac i iaith. Ni wna'r naill y tro heb y llall. Pe bai modd cael pob ymadroddi ieithyddol yn newid heb sefydliad ceidwadol, ni ddeallem ein gilydd. Pe na cheid amrywiaeth, fe geid marw. Roedd y ddau yn para heb wir gyfaddawd. Dilynodd y naill y llall heb ganslo'i gilydd.

Felly, fe geid aflonyddu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif gan *avant garde* a swrealaeth. Yn y fan yna y câi T. S. Eliot yn 'Waste Land' gydnabod y ddrylliadaeth, y chwalfa fodern. Wedyn, yn y datblygiad nesaf yn ei yrfa, symudai tuag at aeddfedrwydd neu geidwadaeth gelfyddydol a'r 'Quartets'. Ond ofnid hynny.

Fe ddilynwyd y Foderniaeth geidwadol hon gan Ôl-foderniaeth, gyda Derrida a'i

ddamweinioldeb a'i ddrylliadaeth yntau.

Ond o safbwynt theori, a sylwadaeth ar natur Traddodiad, ac yn wir wrth sylwi beth oedd arwyddocâd gwyrad ei hun, fe'i diffinnid gan yr unioni, heb ei ddifodi. Gellid datblygiadau i'r naill gyfeiriad a'r llall yn eu tro. Eithr, mi dybiaf i, yn y llenorion pwysicaf arweiniol a'r cyfnodau aeddfetaf, y mae'r naill symudiad a'r llall ar waith yn yr un llenorion ac yn yr un gweithiau.

Cymerer hefyd, o fewn traddodiad Cymru, y ffenomen o gyfnodi mydryddol: dyweder yn achos Mydrau'r Cynfeirdd, Gogynghanedd y Gogynfeirdd, Cynghanedd Beirdd yr Uchelwyr, Canu Rhydd Cynnar. Gwelwn ym mhob un o'r rhain yn ei dro elfen o newydd-deb yn ymsefydlogi ac yn gwyro; unoliaeth unedol ac amrywiaeth ffrwythlon; ac yna, wynebir chwyldro newydd. I'r theorïwr, y symudiad deublyg hwnnw a all esbonio'r hyn sy'n digwydd o fewn gwyddor fyd-eang. Dyna strwythur Traddodiad.

'Traddodiadaeth' yw'r term drwg a ddefnyddir ar gyfer Traddodiad lle y mae'r cadw'n rhemp. Ond 'Traddodi' yw'r term da a ddefnyddir ar gyfer yr elfen hanfodol angenrheidiol – y ddeinameg yn y broses, – y gwaith a'r adwaith.

Os dw i'n gywir, felly, yna dw i'n credu ein bod ni yn y fan yna yn disgrifio cyfundrefn gyfansawdd sy'n rhan o hyd o Dafod, gan gynnwys Tafod y Llenor. Ac os felly, cyfundrefn yw Traddodiad sy'n sefyll ar wahân i amser a lle. Cyfundrefn hanfodol mewn bodolaeth yw. Trafferth Ôl-foderniaeth ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain yw ei bod wedi ymgaregu mewn unochredd. Mae ein beirniaid ifainc yn cydymffurfio â hi, ac yn ei chadw'n 'Draddodiadaeth'.

Roedd y peth ar gael gan Saunders Lewis yn y cyferbyniad a ddelweddai ef rhwng Goronwy Owen a Phantycelyn. Gwyddai'r rhain am y newid ac am y cadw.

Un o offer pennaf methodoleg Tafod fel y cyfryw yw 'gwahuno'. Nod Tafod yw darganfod cyfundrefnau 'sefydlog' o gyferbyniadau sy'n darparu sylfaen creadigol deublyg i iaith a llên. Dechreuir gyda'r rhagdyb fod trefn yn sylfaenol hanfodol i ramadeg (megis i fodolaeth). Hynny yw, does dim iaith na theori ddigonol heb y symudiad deuol gorfodol yn y meddwl – 'particularisation' ac 'universalisation'. Does dim meddwl aeddfed dynol yn bosibl heb gyffredinoli'r arbennig. Mae'r undod mor bwysig â'r rhannau: nid yn fwy pwysig. Tri-yn-Un.

Ond dowch inni droi at ragdybiau dogmatig eraill Ôl-foderniaeth. At ei gilydd, fe ellid dadlennu rhai safbwyntiau go flinedig ac ystrydebol nad ydyn nhw'n dal dŵr. Nid anodd yw gweld gwendid sylfaenol relatifrwydd, er enghraifft, a'r gwrthodiad polemig o 'wirionedd absoliwt'. Myn relatifrwydd inni fod yn relatif ynghylch relatifrwydd, a thraethu'r gwirionedd absoliwt nad oes gwirionedd absoliwt. Mae'n ei negyddu'i hun. Os delir safbwynt beirniadol sy'n gwadu ystyr, yna safbwynt diystyr yw. Os yw'n gwadu gwerth, rheswm, pwrpas, yna rhaid cyfaddef – nid o ran bychanu – ei fod yn egwyddor ddi-werth, yn afresymol, ac yn ddibwrpas.

Bellach, mae prif symudiad meddyliol yr amseroedd – diolch i'r drefn – yn dechrau gwthio'n gryf yn erbyn Ôl-foderniaeth. Mudiad eithriadol o näif a gwrthun fu. A dengys parodrwydd rhywrai i'w gofleidio am gyfnod, a'i gofleidio gydag eithafrwydd rhyfedd, mor wan dros-dro oedd eu seiliau beirniadol, ynghyd ag ansawdd yr adwaith yn erbyn y Goruwchnaturiol. Dw i'n sylwi mewn cyfrol ganol-y-ffordd fel *Dictionary of Philosophy, (*Flew a Priest, 2002), o dan 'Post-Modernism', dyweder: 'Ethically it allows no ground for the condemnation of political regimes that practice torture or economic systems that exploit population or the environment.' Anodd, braidd, mwyach yw codi stêm o'i phlaid, er mor rymus y sefydliad. O dan 'Habermas', dywedir: 'Habermas attacks POSTMODERNISM for the abdication of reason, which entails its failure to be a philosophy of the left.' Eto, o dan 'relativism': 'To be a relativist about fact is to maintain that there is no such thing as objective knowledge of realities independent of the knower. The parallel here is to eschew the inconsistent claim that the relativistic thesis is itself an item of objective knowledge.'

Er mwyn i'r byd deallol fodoli, rhaid wrth rai rhagdybiau angenrheidiol. Ceisiwyd yn fy nghyfrol *Beirniadaeth Gyfansawdd* ateb Ôl-foderniaeth yn blwmp ac yn blaen gyda chynigion digon croyw ym maes llenyddiaeth: y rheidrwydd ymarferol i gael gwerth a phwrpas a'r rheidrwydd i dderbyn trefn ac i ddewis mewn bywyd. A cheisiwyd enghreifftio'n benodol rai arweddau ar y math o drefn ffrwythloni sy'n amlwg angenrheidiol i iaith a deall. Un o'r nodweddion sy'n gwahaniaethu rhwng Tafod a Mynegiant yw y gellir cael mewn Mynegiant farn dros dro, – megis chwiw, ffasiwn, gosodiad sy'n amrywio gyda'r oesoedd, ac mae hynny'n gynhyrchiol ac yn dderbyniol ddymunol. Gellid sôn am 'gywir' ac 'anghywir' o fewn y fath amgylchiadau gwerthol. Ond wna hynny ddim o'r tro, ddim yn ddigonol felly. Wrth fentro'n ddyfnach na Mynegiant, ac wrth geisio'r seiliau ymarferol sy'n gwneud Tafod yn bosibl, os yw'n wir 'anghywir', yna dyw e ddim yn bod mewn Tafod. Hynny yw, mewn Tafod rŷm ni yn yr unig sector celfyddydol sy'n cyfateb i Wyddoniaeth ac i Fodolaeth. Rhaid gwrthod y drefn nad yw'n gant y cant. Dw i'n brysio i ychwanegu nad oes a wnelo hyn â gosod Tafod mewn safle goruwch Mynegiant. Safle cyfun yw yn y broses: mae'r nodwedd o sefydlogrwydd sydd yn ei safle yn wedd ar broses gyfansawdd sy'n cyferbynnu'r ffurfiol â'r angenrheidrwydd o ansefydlogrwydd sy mewn Mynegiant.

Rhaid ceisio perswadio pleidwyr Mynegiant i ganfod na all Mynegiant fodoli heb fframwaith cytûn Tafod. A phan gyfyd Tafod y rheidrwydd i synied am drefn, mae'n bwysig lleddfu dychryn yr hen ryddfrydiaeth mor dyner ag sy'n bosibl.

Y gobaith yw atynnu ymateb beirniadol a fydd yn mynd y tu hwnt i'r ebychiad plentynnaidd: 'Mae ef yn dweud hyn, meddyliwch!' Yn syml, mae a wnelo bellach â dimensiwn gwyddonol, greda i, lle mae ymchwilydd yn anelu at ddileu pob eithriad, ac at ddeddf y gellid dweud ei bod yn gyson, yn sefydlog, ac yn gywir. Deddf annifyr yw ar gyfer y celfyddydau, ... efallai. Ond beth amdani?

[Carwn gyfeirio mewn bachau petryal at enghraifft frawychus a thrychinebus o Ôl-foderniaeth ar waith ym mywyd Cymru. Enghraifft ymarferol yw o fygythiad i ddyfodol Cymru fel uned ddiwylliannol ac i iechyd yr iaith Gymraeg. Mae a wnelo â'r hyn a ddigwyddodd i ddidachteg iaith yng Nghymru rhwng y saithdegau a'r mileniwm newydd.

Yn drawiadol iawn, fe gafwyd eisoes symudiad o'r cyfuniad 'Tafod ynghyd â Mynegiant' mewn dysgu ail iaith drosodd i Fynegiant yn unig. Roedd Tafod ar un llaw yn golygu trefn yn adeiladwaith ac olyniaeth ieithyddol y dysgu: 'Un cam yn arwain at y cam nesaf, heb gymysgu ond cyn lleied ag oedd yn bosibl. Ceid bricsen ar fricsen, yn raddedig gyfansawdd. Paratoi'r cwrs yn gydlynol gynnil, a phob cynnydd yn eglur syml. Ceid rheolau, a oedd yn wahanol ychydig i arferion.'

Ond roedd Mynegiant (heb Dafod, ar y llaw arall) yn golygu rhestr ystyrlon o sefyllfaoedd ymarferol, yr hyn a elwid yn ffwythiannau neu'n dybiannau. Gwaith digon buddiol ynddo'i hun. Ond doedd dim olyniaeth raddedig i hyn. Gellid bid siŵr ei gymhwyso i fframwaith Tafod yn gyfuniad ystyrlon, rhesymegol. Gellid crwydro o ffwythiant i ffwythiant gan anwybyddu'r berthynas rhwng pwynt ieithyddol a phwynt ieithyddol. Felly gellid anwybyddu y dôs o ddysgu a ofynnid yn ei hanfod gan y defnydd o'r iaith, a'r angen cyson i ailadrodd ac adolygu. Mae 'rhestr' yn wahanol iawn i gamreoli cynhenid.

Dyw rhywun ddim yn sylweddoli ei fod yn adeiladu strwythur iaith yn y meddwl, heb gydnabod ei fedr i strwythuro'r meddwl ei hun.

Yr hyn a ddigwyddodd yn y saithdegau oedd alltudio Tafod. Collwyd trefn. Cafwyd Didacteg Ôl-fodernaidd. Cafwyd unochredd diarhebol Mynegiant ffwrdd â hi. A chwalfa ddysgu enbyd. Roedd llawer o oedolion yn rhoi'r gorau i ddosbarth ar ôl y wers neu ddwy cyntaf am fod yna chwalfa strwythur. Lledwyd yr anhrefn drist hon i'r ysgolion ac wrth gwrs i'r cyfryngau. Gofynnwyd am 'naturioldeb', heb sylweddoli'r drefn negyddol/gadarnhaol sydd ym mhob man. Canfuwyd y camgymeriad hwn o fewn dim amser mewn gwledydd eraill. Ond yng Nghymru, mae wedi cymryd deng mlynedd ar hugain i'r sylweddoliad o anarchiaeth 'Mynegiant heb Dafod' wawrio, a hynny yn ystod argyfwng mwya'r iaith erioed. A yw'n rhy hwyr?]

* * *

Methiant i ganfod dwyochredd 'deall a dweud' sy'n cyfrif am y bwlch yn nadleuon Ôl-foderniaeth. Mae sefydliad deall a dweud yn cyfrif am y bwlch yn nadleuon Ôl-foderniaeth fel sefydliad. Dyw theori atebol i natur iaith a llenyddiaeth ddim yn gweithio'n foddhaol heb y gwahanu a'r uno. Nhw hefyd yw'r allwedd sy gan Feirniadaeth Gyfansawdd i geisio diffinio, i ddisgrifio, ac i weithredu'n union, yn ôl pob problem feirniadol. Ym myd dysgu ail iaith, dylid cael

ymarferion wedi'u seilio ar wahanu neu gyferbynnu ac ar debygu neu gymharu.

Gwahuno yw un o'r egwyddorion dyfnaf ymhlith cyfundrefnau Tafod, a feistrolir gan y baban ac a rydd ef ar waith yn gynnar iawn yn ei hanes, yn gyn-ieithyddol felly, wrth ganfod yr hyn sy'n rhoi cysur a'r hyn a rydd anghysur. Gwêl wahaniaeth a gwêl debygrwydd o ddydd i ddydd. Cyfundrefn yw hyn, gan na all y naill ochr 'wahanu' ac 'uno' weithio'n effeithiol ieithyddol nac yn ddeallol heb y llall. Y maent bob amser ynghyd. Does dim dewis. Symuda Rhamantwyr oddi wrth y caeth at y rhydd, a'r Clasurwyr oddi wrth y rhydd at y caeth, ond bob amser o fewn pegynau. Felly mae un o brif ogwyddau traddodiad a'r iaith ei hun yn bodoli.

Beth wna Ffurfiolwr ynglŷn â hyn, neu Todorov,... neu unrhyw estronwr enwog? Onid hawlio a wna mai'r patrwm i'w ddilyn yw gwyro, dieithrhau? Mae Ffurfiolwr *(formalist),* fel yr Ôl-ffurfiolwr, yn drwm o dan ddylanwad y Rhamantwyr, yn awyddus am y bythol-newydd. Gellir cydymdeimlo â hynny, a deall yr awch am 'deimlo' fel yna. Mae'n coleddu rhagfarnau diwinyddol o'r fath hefyd. Dyw coleddu credo penodol ddim yn dderbyniol yn yr amgylchfyd hwnnw. Ond fe gaiff fod y safbwynt hwnnw'n anochel hefyd. Ac mae'r newydd sy'n deall yn dibynnu ar yr hen. Does dim gwyro'n bosibl heb unioni. Does dim deall na siarad heb ganfod gwahaniaethau, mewn undodau di-ri. Ac felly, priodol fuasai i'r Ffurfiolwr gydnabod y naill ochr a'r llall.

Yr un modd yn achos Derrida, o ran egwyddor gelfyddydol neu ffurf lenyddol, o ran iaith ei hun (boed yn air neu'n frawddeg), ni wna gwahaniaethu penagored diderfyn y tro byth mewn theori; ond nid yw ei fynegiant cyflawn a'i ddadleuon eu hunain yn cynnal y sylweddoliad hwnnw. Gellid cyferbynnu â thraddodiad Derrida y cysyniad a'r genadwri iachach a fu gan Saunders Lewis ynghylch traddodiad byw. Roedd y ffaith ei fod yn llenor creadigol, yn fardd ac yn ddramodydd o'r radd flaenaf, wedi'i ddiogelu rhag hyn o unochredd beirniadol. Ac ni ellir llai na synied fod cadarnhad ei ddaliadau crefyddol hefyd yn ei sefydlogi.

Gwelir un wedd ddiddorol ar '*particularisation*' yn mynd dros ben llestri wrth gymharu Shklovsky ar ddechrau'r 20fed ganrif â Derrida ar y diwedd. Ymddengys fel pe bai un dechneg mewn dadansoddiad yn troi'n egwyddor fetaffusegol iddynt. Try'n ddogma diwinyddol, yn wir. Er mor bell oedd y ddau yn amseryddol oddi wrth ei gilydd, er mor wahanol oedd yr amgylchiadau cymdeithasol, pan gyplysai'r egwyddor gelfyddydol ddyn-ganolog ag un o ragdybiau'r Ymoleuo a'r mudiad Rhamantaidd, yna gellid gweld cysondeb yn yr ymlyniad digyfnewid. Dyma felly rybudd ynghylch yr awydd i gymysgu amgylchiadau cymdeithasol a hanes mewnol ag ystyriaethau ffurfiol Tafod.

Cymerer yn awr y sefyllfa a godai pe codid un rhagdyb – neu un person unbenaethol – drwy ddogma metaffusegol i fod ar ei ben ei hun yn awdurdodol, fel pe amddifedid cyfundrefn o un hanner angenrheidiol o'r broses ddwbl hon. Beth fyddai'r canlyniad? Digwyddodd hyn i raddau

gwaedlyd gyda Rhyddid y Chwyldro Ffrengig cas ac i raddau gyda'r Mudiad Rhamantaidd hyfryd, sef gorbwysleisio rhyddid ar draul hunanddisgyblaeth, a chyda Natsïaeth i'r pegwn arall. Dyrchefid hunanfynegiant ar draul deddfolrwydd cymdeithasol. A dyna'r *Zeitgeist* sy'n gorwedd y tu ôl i rai o'r datblygiadau lleiaf persawrol yn yr ugeinfed ganrif. Yr hunan oedd popeth. Hyn oedd canol disgyrchiant. Ac felly, dyrchefid y gorlywodraethu hefyd.

Meddai Todorov am y dechneg o wyro (a chyfieithaf o'r cyfieithiad Ffrangeg): 'Bydd arferiad yn ein rhwystro rhag gweld, rhag profi gwrthrychau. Rhaid yw eu hanffurfio fel y geill ein golwg arnynt aros: yn y fan honno y ceir diben y confensiynau artistig.'

Mae yn ei le. Ond y modd y mae Seico-systemateg yn gwahaniaethu oddi wrth y rheswm hwn, (yn hyn o ddisgrifiad), yw cydnabod yn gyntaf y gwyro a'r gwahanu a'r gohirio ac yna fynnu i'r cyfansoddi greu cyfanwaith a dibenwaith ystyrlon newydd. Myn holl broses deall-a-mynegi fod yna ddau symudiad meddyliol o raid ynghyd: y symudol a'r ansymudol, yr ansefydlog a'r sefydlog, yr amrywio a'r undod. Dyna gyfoeth ideolegol a ffeithiol yn dod ynghyd. A dyna strwythur Traddodiad.

*  *  *

Yn ei fodel yntau o'r broses o lunio iaith y mae Gustave Guillaume yn olrhain symudiad meddyliol dwbl, sef adeiladwaith sgerbydol sylfaenol sydd bob amser yn bresennol wrth lwyddo i ddeall neu i esgor ar iaith: sef '*particularisation*' a '*généralisation*'. A dyna yw fy 'ngwahuno' i.

Yn fy mhrosiect beirniadol tra chyfyngedig y dodais y teitl 'Beirniadaeth Gyfansawdd' arni, fe fu angen arddel dwy duedd gyfatebol. Yn gyntaf, bu angen hoelio'r sylw ar y gwaith llenyddol unigol, disgrifio'r gerdd neu'r stori neu'r ddrama unigol drwy ddadansoddi a chymharu, nid yn unig fel y gwneuthum yn y ddwy gyfrol ar yr 20fed ganrif, ond ar hyd y blynyddoedd hyd at y ddwy gyfrol ar Fawl. Dyma glosio at y dadansoddiad unigol, 'particularisation'. Dyma dasg sy'n gofyn archwilio'r testun penodol yn ymarferol, a hynny yn sgil y traddodiad rhamantaidd a esgorodd yn yr ugeinfed ganrif ar Leavis a'r 'Beirniad Newydd' (gw. 'Y Lefain a geid gan Leavis', *Barddas* '96/'97); ac yng Nghymru gan feirniad fel Saunders ym mheth o'i waith, ac Alun Llywelyn-Williams, Hugh Bevan, John Gwilym Jones, a T. J. Morgan. Dw innau'n falch dros ben i arddel y llinach yna. Yn wahanol i'r Ôl-fodernwyr, fu gen i erioed awydd i gefnu ar y dull hwnnw.

Ond yn ail, dw i'n gwybod oherwydd y rhai sy'n pwyso dros f'ysgwydd, fy mod i'n adeileddwr hefyd (neu'n strwythurwr) yn nhraddodiad Ffurfiolwyr Moscow a Phrag, ac yn sgil Adeileddwyr Paris, yn ail ran y symudiad meddyliol. Dylid brysio i esbonio nad ym myd Tafod yn unig y gweithient hwy. Mae yna ddulliau Adeileddol ar waith ym maes Mynegiant yn ogystal ag ym maes Tafod fel y ceisiaf ei esbonio. Dyna'i dras clasurol yn ymuno â'r tras rhamantaidd ym maes Methodoleg.

Carwn felly wahaniaethu mewn perspectif rhwng y feirniadaeth a geir gan genhedlaeth Leavis a Saunders Lewis ynghyd â'r Ffurfiolwyr a'r Beirniaid ymarferol ar y naill law a'r feirniadaeth y ceisiais i ymwneud â hi ar y llall. Beirniadaeth ar lenyddiaeth benodol yw eu nod nhw. Beirniadaeth ar feirniadaeth ac ar 'Feirniadaeth Gyfansawdd' sy gennyf i yn bennaf. Ond yn hyn o beth, un llenddull (genre) mewn un llenyddwaith sy gennyf i mewn golwg yn ei dro. Mae'r ffocws yn gyfyngach o lawer.

Wrth geisio diffinio beth y mae Beirniadaeth Gyfansawdd yn ei wneud yng ngoleuni Saunders Lewis ac 'ysgolion' beirniadol unigol eraill, nid ceisio cael y naill ochr na'r llall yn brin dw i. Os rhywbeth, cyffesu cyfyngiad dw i amdanaf i fy hun. Aelod bach distadl o 'adeileddeg' llenyddiaeth dw i: adeileddeg 'beirniadaeth' yw yn bennaf. Dyna pam y byddaf yn defnyddio stori Kierkegaard am ddyn yn pasio siop yn y dre. Mi wêl yr arwydd 'Ar werth'. Â i mewn i holi faint yw'r pris a ofynnir am y siop. Ac atebir, 'O! Nid y siop sy ar werth. Gwerthu arwyddion dŷn ni. Mae'r arwydd "Ar Werth" ar werth.' Felly mewn 'Beirniadaeth Gyfansawdd', **beirniadaeth** ei hun sy ar werth, nid llenyddiaeth yn y pen draw. Ceisir diffinio'r hyn a wneir gan feirniadaeth i lenyddiaeth. Felly *Tafod y Llenor, Seiliau Beirniadaeth*, ac o'r diwedd *Beirniadaeth Gyfansawdd* a *Meddwl y Gynghanedd.* Canolbwyntir ar Feirniadaeth nid ar Lenyddiaeth, neu o leiaf sefyll yn ôl, i gasglu'r egwyddorion.

Ond sylwer ar y paradocs sy'n dilyn o *raid* (y gair hwnnw eto!).

Ar y naill law, mae Beirniadaeth Gyfansawdd yn gweithio mewn cornel fach o'r tu mewn i ysgol fawr Adeileddeg. Distadl yw, yn potsian uwchben un o lenddulliau mwyaf israddol llenyddiaeth, a hwnnw'n un go barasitig: 'beirniadu'. Ac ar y llaw arall, wrth ddewis y fath bwnc â diffinio diffiniad, y mae'n gorfod bod yn gynhwysfawr, ysywaeth, er mwyn bod yn ystyrlon ac yn onest o gwbl. Hynny yw, mae'n gorfod bod yn ddigonol i gynnwys *pob* ysgol feirniadol bosibl a allai fod. Arweiniodd yr ail sefyllfa hon un cyfaill i ddefnyddio'r term emosiynol 'mawreddog' am y gwaith: gw. 'Beirniadaeth Fawreddog' (*Barddas*, '98). Onid oedd y fath feirniadaeth â hon yn ei lordian hi uwchlaw a thros ben pob ysgol feirniadol arall? Onid oedd hi'n hawlio mai rhannau o feirniadaeth gyfansawdd oedd Ffeminyddiaeth a Marcsaeth ac Ôl-foderniaeth ac yn y blaen? Dim ond rhannau! Y fath sarhad! Rhaid bod Beirniadaeth Gyfansawdd yn meddwl dipyn ohoni'i hun.

Ond os yw pob un o'r ysgolion hyn neu'r safbwyntiau neu weddau hyn oll yn rhannau o feirniadaeth, beth yn union yw'r nodwedd sy'n eu cynnwys gyda'i gilydd? Beth mae'n ei wneud? A oes tir cyffredin? Dadansoddiad ychydig o 'Feirniadaeth per se' yw'r hyn a wnânt bob un i raddau yn eu tro, y peth yn ei noethni cyffredinol. Yr egwyddor sy'n gynhwysfawr: mae'r enghraifft bersonol yn rhan fechan.

Mae a wnelo Marcsaeth, dyweder, â'r holl lenddulliau – Nofel, Stori Fer, Drama, Telyneg,

Epig, Beirniadaeth Lenyddol. Dw innau'n ymwneud â llendull Beirniadaeth yn unig.

Yn *Beirniadaeth Gyfansawdd* ceisiais ddadlau (t. 45), 'Nod Beirniadaeth Gyfansawdd yw, tan gydnabod pwysigrwydd y rhannau, archwilio'r cwestiynau digon diniwed – a oes yna baramedrau cyfain i ffurf beirniadaeth lenyddol, ac a yw'r rhannau yn perthyn i'w gilydd yn ôl patrwm ystyrlon.' (t. 45)

Mae'r Sefydliad Ôl-fodernaidd yn tueddu i weld drylliadaeth beirniadaeth yn ôl delwedd yr amlder ysgolion, y null y rhestr. Disgwyliant i bob ysgol feirniadol ymgyfyngu i faes – ffurf efallai. Ac wedyn, pan fentra i awgrymu fod yna gyfyngiadau i'r rhannau yn wahanol i'r hyn a geir o anghenraid i'r cyfanwaith, diau, gellid tybied bod hyn yn bychanu'r rhannau. Dim byd o'r fath. Mae gennyf dudalen cyfan, sy'n ceisio esbonio hyn yn fanwl, *Beirniadaeth Gyfansawdd* t. 65 (gweler hefyd y penodoli ar y tair haenen yn *Beirniadaeth Gyfansawdd* ar ganol tud. 17).

Nid cystadlu ag ysgolion adnabyddus a pharchus o feirniadaeth y mae Beirniadaeth Gyfansawdd. Wela i ddim yr un rheswm dros ymadael, er enghraifft, â ffrwythau Beirniadaeth Ymarferol (y darn ei hun), na Marcsaeth, na Ffeminyddiaeth, na Threfedigaethrwydd, er enghraifft, er bod mawr angen i ni sy'n eu dilyn fod yn hunanfeirniadol. Yn gronolegol, gall dyn fynd drwy sawl melin felly yn ystod ei oes; gall yn wir obeithio nad yw'n bradychu'r un ohonynt lle y bo cyfraniad parhaol. Ond y theori a gynigir mewn Beirniadaeth Gyfansawdd yw bod yna gyfundrefn gydlynol sy'n canfod cyswllt pob theori – boed hynny'n ymwneud â ffurfiau cynganeddol yn adeileddol, neu'n trafod pwrpas cymdeithasol llenyddiaeth fel Marcsydd, neu'n dymuno gorseddu'r fenyw yn ei lle yn ein llenyddiaeth fel Ffeminydd. Casgliad o'r ysgolion yw, wedi'u troi'n un er mwyn dangos eu perthynas o dan un term – 'Beirniadaeth'. Dyma'r math o frawddeg sy'n disgrifio perthynas Beirniadaeth Gyfansawdd, sy'n fap bras o'r ysgolion beirniadol sy'n llenwi'r diriogaeth: (31) 'Nid ydym yn y busnes o ddiarddel dim, ond o leoli cydberthyniad popeth'. (cf. brig 35). Yna: (49) 'Ni thanseilir dim oll. Canfyddiad o drefniant adeiladol yw ... Yr ŷm yn y busnes cynnes o ganfod perthnasoedd'. Rŷm ni o hyd yn gwneud map.

Ond y mae yna drydedd elfen yn adeiladwaith beirniadaeth lenyddol heblaw Tafod a Mynegiant. Yn hyn o beth dw i'n mynd ymhellach na Saussure, mae arna i ofn, ac ymhellach na'r cymdeithasegol hyd y oed. Mae esboniad Saussure yn annigonol am nad yw'n sylwi ar y cyswllt neu'r bont angenrheidiol a deinamig rhwng Tafod a Mynegiant, dau gategori ynysig sy ganddo fe heb esboniad digonol sut mae'r naill yn troi i'r llall. Dwy o Brif Ochrau Beirniadaeth – sydd mewn gwirionedd, ond bodolant ynghyd â'r drydedd, Cymhelliad.

Mae Guillaume yn rhagori gan ei fod e'n awgrymu'n eglur fod yna ysfa gynhenid neu ddeinameg i ddarganfod trefn, yn wir i osod trefn ar gythrwfl y profiad o fywyd. A chenfydd leoliad i hyn yn Nhafod ei hun; ac mae'n siŵr o fod yn gywir ddiriaethol, er ei bod yn hwylus inni ei drafod

yn 'gyffredinol' haniaethol fel 'Cyn-Dafod'. Gelwais i hyn yn Gymhelliad, a cheisiais ei ystyried yn gyfundrefn lawn, gyfartal o ran angenrheidrwydd i Dafod a Mynegiant, a chanddo'i adeiladwaith priod ac angenrheidiol ei hun. Yn wir, cynhwysai ddwy elfen arall heblaw'r ysfa am drefn: sef gwerth a diben. 'Trothwy' oedd term Guillaume ar gyfer y ddolen: 'Cymhelliad' oedd fy nherm i am y cyswllt hwnnw am ei fod yn fwy deinamig.

Wrth ystyried Cymhelliad, does dim modd osgoi ystyried 'rhagdybiau'. Mae rhagdybiau yn isymwybodol ym maes Cymhelliad yn cyfateb i Dafod ym maes Mynegiant. Math o Dafod, hynny yw cynhysgaeth ragflaenol ac amodol a diwinyddol, yw rhagdybiau, er eu bod yn meithrin amrywiadau unigolyddol mewn Mynegiant. Does neb yn gallu meddwl na siarad heb ragdybiau. Mae yna ragdybiau mewn iaith ei hun.

Fe ges i ddadl gyda'r Athro Dewi Z. Phillips ar hyn yn y *Traethodydd*, ac mae gen i reswm i feddwl, ar ôl darllen ei gyfrol *Faith and Foundationalism,* 1988, ei fod yn fuan wedi newid ei feddwl, ac yn cydnabod bod meddwl diduedd yn gwbl amhosib. Yr hyn sy'n werthfawr resymol i'r meddyliwr effro yw ystyried beth yn union yw'r rhagdybiau anochel. Mae hyn yn arwain ymlaen i'r drafodaeth gyson fu gennyf ar Ôl-foderniaeth. Er mwyn deall Ôl-foderniaeth, mae'r beirniad hunanymholiol yn gorfod archwilio'r rhagdybiau a flodeuodd fwyfwy er cyfnod yr Ymoleuo (Enlightenment). Ceidw Ôl-foderniaeth rai o'r rhagdybiau hynny ynghylch blaenoriaeth rheswm, ynghyd â rhai (fel y gwrthryfel yn erbyn rheswm a ddaeth i mewn yn benna gyda Rhamantiaeth sy, yn ei hafreswm, yn rhagflaenu Ôl-foderniaeth). Bu Ôl-foderniaeth yn gyfrifol eisoes am wahanol drasiedïau: er enghraifft, yn nes adre, fel y nodais yn gryno ynghynt, arweiniodd at yr adwaith *yn erbyn* trafod Tafod mewn cyrsiau dysgu Cymraeg fel ail iaith; gwadwyd graddio olynol cydlynol, fricsen ar fricsen, a hyrwyddwyd gan chwalfa'r dysgu sefyllfaol noeth, rhestru ffwythiannau (sy'n sylfaenol aneirif), a chafwyd cyrsiau a ddrysai'r dysgwyr a oedd am symud ymlaen yn drefnus gyd-adeiladol, yn ôl cyd-gysylltu. O ganlyniad, gwastreffid miloedd ar filoedd o bunnoedd ar gyrsiau drylliedig, ac athrawon a afradai amser arnynt. Collwyd llaweroedd o ddysgwyr potensial lwyddiannus yn ôl pob tebyg. Rhaid i ddysgu ail iaith hefyd blygu i'r ffaith fod pob rhan o iaith yn perthyn i gyfanwaith, a bod cyferbynnu ynghyd â chydlynu yn sail.

Ôl-foderniaeth i fi yw un o brif elynion yr iaith ers saithdegau'r ganrif ddiwetha. Nid gêm fach ddifyr yw adennill diwylliant, ac nid ymarferiad deallol ac academaidd yn unig, ond anadl einioes cenedl. Pe dilynid Ôl-foderniaeth yn gyson, – ac mae'n amhosib – byddai'n ddiwedd ar fywyd.

Mae rhagdybiau Ôl-foderniaeth bob amser yn eu lladd eu hunain o ran dialog rhesymegol a sythwelediadol. Mae'r sawl sy o blaid y diduedd ei hun yn tueddu i bleidio'r diduedd. Felly dyw e ddim yn ddiduedd. Gellir cynnig bod y seiliau neu'r rhagdybiau i Ôl-foderniaeth, nid yn unig yn

rhywbeth y gellir eu trafod a'u hesbonio ac anghytuno â nhw, drwy ddadlau yn eu cylch: gellir yn ddiogel gasglu bod rhai hefyd yn seiliol anghywir, am eu bod yn afresymol, yn ddiystyr, yn ddibwrpas, ac yn ddi-werth. Drwg ydyn nhw yn eu hanfodion moesol. Os nad oes yna 'gywirdeb' yn bosib o ran gwirionedd, yn y rhagdyb fod bywyd yn afresymol, yn ddiystyr, yn ddibwrpas, yna ni all Ôl-foderniaeth ei hun ddim bod yn gywir. Yn wir, gellir yn ddiogel ddal bod safbwynt beirniadol sy'n gwadu ystyr yn ddiystyr ei hun ac yn wrth-fywydol. Os gwedir gwerth ei hun, mae'r gwadu ei hun yn ddi-werth. Os yw'n gwadu pwrpas, mae'n ddibwrpas. Mae gwadu gwerth a phwrpas yn fath o ragdyb sy'n difa rheidrwydd iaith mewn ystyr. Nid bychanu yw'r feirniadaeth hon, ond rhesymu, a dangos amhosibilrwydd ffurfio brawddegau ystyrlon. Nid difrïo Ôl-foderniaeth dw i yn hyn o beth, eithr ceisio diffinio ei hymhlygion yn ôl ei chriteria'i hun.

Gellir olrhain llawer o'r rhagdybiau hyn (a'r ymddygiad meddyliol Ôl-fodernaidd, a'i batrymau meddwl), nid yn unig drwy gydol sgeptigrwydd yr ugeinfed ganrif, ond ymhellach yn ôl i'r ddeunawfed ganrif, a chyn hynny. Cafwyd amgylchiadau hanesyddol tra gwahanol mwyach i'r rhai a orbwysleisiai '*particularisation*', fel y gellid nodi tueddiadau cyffelyb, dyweder rhwng ambell Ffurfiolwr Rwsiaidd ac ambell Ôl-fodernydd o'r nawdegau. Pe gofynnid pwy oedd yr Ôl-fodernydd cyntaf, dichon yr hawliai Adda, 'Wel, y cwbl wnes i oedd gwadu bod yna Wirionedd absoliwt, beth arall?'... amdano'i hun.

Beth yw natur yr anghytundeb presennol ynghylch Ôl-foderniaeth? Strwythurol yw (o ran ffurf), ond wrth gwrs, diwinyddol hefyd (o ran deunydd). Fe'i hatebir gan Feirniadaeth drwy gyflwyno dadansoddiad dwyochrog o natur hanfodol fframwaith deall, iaith a Thafod y Llenor yn ein bod. Gwelsom y ddwy ochr hyn yn adeiladu gair, brawddeg, gwaith llenyddol, traddodiad. Digwyddiad yw yn yr ymennydd sy'n esgor ar iaith a llên. Yno, er mwyn adeiladu'r cyfundrefnau llywodraethol, y mae'n gyfuniad cyfan ac yn ddiddewis. Pan dyr yn y fan honno, y mae iaith a llên yn chwalu ac yn peidio â gweithredu.

Ar sail rhagdybiau teimladol syrthiedig, rhaid er mwyn byw yw cydnabod bod yna berthynas rhwng y diriaethol a brofir a'r 'gwir', ac y gellir pleidio'r ochr yn erbyn dadl sy'n syniadol wrthwynebu hynny. Gall yr Ôl-fodernydd dybied bod gwahanu, arbenigoli, a newid yn fwy poblogaidd ar hyn o bryd; trodd yr awch i ymchwalu yn ddogma, yn gydymffurfiad 'radicalaidd', ac yn ormes ffasiynol. Daeth yn sefydliad diwinyddol tra unochrog naturiol o fewn gofod ac amser. Dyna anadl einioes Ôl-foderniaeth.

Ym myd theori, ceisir yr amhosibl: balchder Eden ac agor y drws tuag Aber Henfelen. Hynny a ganiatâ; ond ni ffynna'n dragwyddol.

Felly, yn ateb i hyn, tuedda Beirniadaeth fel llenddull i honni am Ôl-foderniaeth: y mae'n angyhywir mewn theori ac yn wastraff amser; ac mewn ymarfer, y mae'n annerbyniol ac yn

ddiddefnydd. Ac eto, mae'n gallu cyfleu gwedd bwysig iawn ar y methiant dynol. Gall ymddangos yn ddyfeisgar ei her, ac yn egnïol 'ffrwythlon ei ddychymyg'. Gall borthi balchder (drwy ras cyffredinol); a gall dybied bod y naturiol yn ddigonol i ateb pob cwestiwn; ond oni phlyg o fewn y gofynion, dyw hi ddim yn mynd i unman.

Felly, mewn ymarfer da, wrth fyfyrio am fethodoleg, ceir bod y dulliau yn gorfod dilyn y ffurf. Ffurf y meddwl sy'n amodi ffurf ymarferol y gweithredu.

* * *

Dw i wedi crwydro, mae arnaf ofn. Ar Saunders Lewis y mae hanner y bai.

Nid Beirniadaeth Gyfansawdd, wrth gwrs, yw'r unig ffordd i ddatgelu'r twll yn nhwyll Ôl-foderniaeth. Roedd Saunders Lewis wedi sylwi ar lwybr o'i fath ei hun.

Yn ei achos e, roedd traddodiad yn gyfuniad o werthoedd profedig a oedd wedi'i sefydlogi o fewn amrywiaeth datblygol dros hanes hir o ganrifoedd, ac wedi darparu cynheilydd i feithrin gweithgareddau ffrwythlon y gellid mawrygu'u safon a chynnig gwreiddiau ynddynt. Darparai feddwl ac ysbryd cyfannol a dreiddiai drwy lenweithiau cyfoesol llewyrchol a allai ledu'u dylanwad ar draws pob cenhedlaeth yn ei thro.

A gaf i gymryd dau osodiad diffiniol gan Ôl-fodernwyr a'u hystyried yng ngoleuni Beirniadaeth Gyfansawdd? Yn gyntaf, *Innovation/ Renovation,* Jean-François Lyotard, I Hassan ac S. Hassan (gol.), (University of Wisconsin Press, Madison, 1983): 'Mae artist neu lenor ôl-fodernaidd yn yr un sefyllfa ag athronydd: nid yw'r testun a ysgrifenna, nid yw'r gwaith a gynhyrcha mewn egwyddor yn cael ei lywodraethu gan reolau rhagosodedig, ac ni ellir ei farnu yn ôl barn amodol, drwy gymhwyso categorïau cyfarwydd i'r testun neu i'r gwaith. Y rheolau a'r categorïau yw'r hyn y mae'r gwaith celfydd yn chwilio amdano. Felly, bydd yr artist sy'n llenor yn gweithio heb reolau er mwyn ffurfioli'r rheolau i'r hyn a fydd wedi cael ei wneud.'

Ond y mae'r testun neu'r gwaith yn methu â bod yn waith celfydd heb fod rheolaeth dros ryw fath o iaith ar gael cyn ei chynhyrchu. Disgrifio y mae Lyotard yn y fan hon sefyllfa ddychmygol ac amhosibl lle y ceid Mynegiant heb Dafod. Dyna sefyllfa lle y byddai llenor yn gorfod creu iaith o'r gwaelod ar y pryd bob tro y'i defnyddiai. Fyddai ddim ganddo na ffonemau ar gyfer llunio geiriau, nac ystyron cydnabyddedig. Fyddai ganddo ddim geiriau i'w llunio'n frawddegau, na dim ffurf i frawddeg. Fyddai ganddo ddim ymwybod o werth nac awydd amdano fel na allai lenydda – heb Gymhelliad, Deunydd, na Ffurf. Châi e ddim ei yrru gan ysfa na threfn lenyddol, ac mi fyddai heb yr offeryn i ddod o hyd i drefn, sef gwahuno. Fyddai ganddo ddim traddodiad llenyddol – sefyllfa sy'n ieithyddol wyryfol amhosibl. Heb y rheolau gosodedig ymlaen llaw, sy'n cael eu cyfrannu gan bawb arall yn y gymdeithas, byddai ystyriaethau megis cyfathrebu ac ymgysylltu'n ystyrlon ddynol â'n gilydd yn wag.

Hynny yw, yr hyn fyddai gennym yw anorffennol. Neu, ceir un ochr i broses, sef Mynegiant heb y sylfaen mewn Tafod o'r gorffennol. Mae diwinyddion anuniongred yn gyfarwydd ag awydd am beth o'r fath ym maes crefydd: Crist yn ddyn heb fod yn Dduw; Penarglwyddiaeth Duw heb gyfrifoldeb dyn; y naturiol heb y goruwchnaturiol; y corff heb yr ysbryd; rhyddid heb fodolaeth caethiwed; ac yn y blaen. Dyma gawod o ragdybiau lle yr ymrithia hanner gwirionedd o gelwydd rhonc.

A gaf i gymryd ail osodiad diffiniol gan Ôl-fodernydd, y tro hwn ar gyfer 'amhenodolrwydd ' (indeterminancy, *différance*). Clywch ddiffiniad Ihab Hassan (*The Postmodern Turn*, Ohio State University Press, 1987): 'Wrth ddweud amhenodolrwydd, neu'n well byth *amhenodolrwyddau,* golygaf "gyfeirair cymhleth" y mae'r cysyniadau amrywiol canlynol yn helpu i'w ddylunio: "amwysedd, amharhad, anuniongyrchedd, lluosaeth, damweinioldeb, gwrthryfel, gwyrdroad, dadffurfiad." Bydd yr un olaf ar ei ben ei hun yn cynnwys dwsin o dermau cyfoes ynghylch dadwneuthur: "dadgreu, chwalu, dadadeiladu, diganoliad, disodli, gwahaniad, datgysylltiad, diflaniad, dadgyfansoddi, dad-ddiffinio, dadrithio, datgyfannu, dadgyfreithloni" – heb sôn am ragor o dermau technegol sy'n cyfeirio at rethreg "coegi, toriad, distawrwydd..." Wele iaith newydd Ôl-foderniaeth negyddol. Ac mewn beirniadaeth? Sonia Roland Barthes am lenyddiaeth fel "colled, gwyrdroad, ymddatodiad"; ffurfiola Wolfgang Iser theori darllen wedi'i seilio ar ofodau testunol gwag; dealla Paul de Man rethreg – hynny yw, llenyddiaeth – fel grym sy'n "gwahardd rhesymeg yn radicalaidd ac yn agor posibiliadau chwil o wyradau cyfeiriadol"; a myn Geoffrey Hartman fod "beirniadaeth gyfoes yn anelu at hermeneuteg amhenodolrwydd".'

Mae hyn yn fwy na llanciau bach drwg yng nghefn y dosbarth yn saethu rhegfeydd. Mae'n bolemig ac yn ddogma bydeang sy'n adlewyrchu cyflwr ysbrydol a luniwyd, yn arbennig er 1859, yn unswydd er mwyn ymosod ar werth, trefn, a phwrpas. Rhaglen ideolegol unplyg yw. O safbwynt ymarferol, mae'n gwbl wrthfywydol, yn wrthystyrol, ac yn negyddol. Ffrwyth Nietzsche yw, ymhlith pethau eraill. Mewn gwirionedd, y mae'n ymagwedd sy wedi'i seilio ar hanner realiti; a chelwydd yw hanner realiti. Pe ceisid sylfaenu iaith, neu wyddoniaeth yn y ffordd hon o feddwl, nid âi'n bell iawn.

Roedd gan Saunders Lewis ei ateb priodol ei hun i hyn oll, sef Traddodiad amrywiol ynghyd ag agwedd at goethder diwylliant. Cynigiai ddisgrifiad o fframwaith y traddodiad penodol Cymraeg ganddo mewn ysgrifeniadau helaeth, megis: 'Dafydd Nanmor', (*Llenor,* Hydref, 1925), gyda delfrydau o ddiogelwch a chadwedigaeth y gymuned farddol; *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg,* 1932, gydag Ysgolion y Beirdd a threfn eu cymdeithas; *Cyfreithiau Hywel,* (*Y Faner,* 7 Ebrill, 1843); *The Essence of Welsh Literature,* 1947, gyda mawl i'r holl gynnal, a mawrygiad o'r ffenomen; adolygiad ar *Traddodiad Llenyddol Morgannwg,* 1948, gan enghreifftio'n benodol

draddodiad rhanbarthol, i'w gyferbynnu â thraddodiad cenedlaethol.

Hyn oedd ateb Saunders Lewis i'r chwalfa. Strwythur cyhyrog a gwythiennog oedd, a ymestynnai o'r gorffennol yn ddi-dor blethedig drwy'r presennol i'r dyfodol, fel y ddaear a'i disgyrchiant yn ei gadw ynghyd dan draed. Rhagarweiniai i ddyfodiad Ôl-foderniaeth yn ei llawn wth. A dehonglai'r ateb ystyrlon nad oedd yna ateb iddo, heblaw synied am 'Draddodiad' arall a oedd yn ei negyddu, sef Traddodiadaeth dlawd, sef yr ymlyniad dall a difeddwl wrth arferion drwg.

'Drylliadaeth' (fragmentation) oedd ateb cyndyn Derrida i hynny oll: dyna brif nodwedd Ôl-foderniaeth. Trafod Mynegiant y mae e. Dyna a gyfleir hefyd yn ei egwyddor ei hun, '*différance*'. Nid anghytunaf â'r dehongliad rhannol o'r hyn a ddigwyddai ymhlith y llenorion drylliadol. Ond dw i'n credu gyda Saunders Lewis fod yna ffordd amgen, lawer mwy boddhaol, yn arbennig yn ein cyfnod ni. Dw i'n credu fod y 'rhan' yn nodwedd unochrog a darddodd mewn grym yn y Mudiad Rhamantaidd cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ymlaen, pryd y rhoddid gorbwyslais ar ryddid ar draul hunanddisgyblaeth. Yn wir, pan âi Derrida ei hun ati i ddisgrifio'r ffonem, yn nodweddiadol iawn rhoddai bwyslais ar wahaniaethu, wrth gwrs. Gwnâi hynny'r tro ar gyfer ffonau neu alaffonau; ac mae'n ddiffiniol angenrheidiol i sylweddoli, er gwaetha'r gwahaniaethu rhwng /b/ a /p/, mai dosbarth ac undod o synau yw pob ffonem yn y diwedd. A'r ffonem yw'r ffurfiant lleiaf sy'n angenrheidiol mewn llenyddiaeth. Mae'n wir bod i hyn fatrh o 'sefydlogrwydd'. Ond mytholeg gytûn yw rhwng pobl a'i gilydd. Peth yw a ddadansoddir yn haniaethol. Clywid y tebyg ynghyd â'r gwahanol sy o'r tu allan, yn wahunol. Ond does dim o'r ffonem leiaf yn digwydd heb asiad aloffonau â'i gilydd, na heb gyferbynnu a chydlynu.

Er bod y bwlch amser ac amgylchiadau ar waith, ac yn wir ystyr hefyd a phwyslais techneg, a'i fod yn golygu bod yna bellter rhwng meddwl Derrida a Shklovsky ynghyd â ffurfiolwyr Rwsia, fe amgaeent hwy ganrif gron o chwalfa. Er bod yna elfennau clasurol amlwg yn y gogwydd Rwsiaidd, ac yn yr egwyddor ddiddorol a gwir o wyrad neu o ddieithrhad (*priën ostranenija*) a geir gan Shklovsky, pwyslais unochrog yw hynny a orbwysleisid mewn un cyfnod. Heb ychwanegu'r tebygu at y gwahanu, mewn cyfnod newydd, sef heb y gwahuno a geir yn neuoliaeth y symudiad dwbl a geir wrth lunio iaith a deall, amlwg yw gweld bod y gorbwyslais hwnnw wedi bod yn ddefnyddiol ar waith yng nghyfnod Shklovsky, a chyfnod Derrida fel ei gilydd. Yr ugeinfed ganrif a fu'n llefaru.

Ond mewn llenyddiaeth, dyry Trosiad oleuni ar strwythur prydyddol mewn enghraifft. Cymerer y cyswllt a geir rhwng techneg gwyrad a ffurf y trosiad. Ceir mewn trosiad wyro a dieithrio amlwg. Dyma'i swyn, debygir. Ceir gwahanu mewn trosiad. Eithr heb fod yna gyswllt ac uno hefyd, yna nid trosiad mohono. Paradocs a nerth y trosiad yw mai undod yw'r ddeuoliaeth. A hyn, dybiaf i, yw'r hyn a gyflea ragdybiaeth y cyfnod modern y sonia Derrida amdano. Ni roir sylw

priodol gan y naill na'r llall, ddechrau'r ganrif fel y diwedd, i'r cyfuno o '*géneralisation*' ynghyd â'r '*particularisation*' yn y technegau hyn, pelled y cyfnodau a'r arddulliau a gynhwysir yn y ddau symudiad meddyliol Ffurfiolaeth ac Ôl-foderniaeth.

Y cyfuno a gafwyd wedyn fu'r Traddodi. Yma yr ŷm ni, ynghyd â'n symleiddiad.

Diddorol sylwi ym mha ffyrdd y ceisiai Derrida amddiffyn gogwydd *différance* a'i ymagwedd at ddeuoliaeth:-

'*Ym mhob pâr, mae yna un elfen yn freintiedig a'r llall yn drechedig.*'

(Dibynna hynny ar Fynegiant. Rheidrwydd y fodolaeth a'r gyd-berthynas sy'n seiliol. Dyna sy'n trechu ac yn rhoi statws i'r naill ac i'r llall, gan y naill a'r llall.

'*Rhagdybir bod pob iaith yn ddamweiniol, ac yn ansefydlog.'*

(Unwaith eto, Mynegiant sy dan sylw. Dogma diwinyddol anghyfan yw. Pe bai damweinioldeb yn rheoli, fydden ni ddim yn gallu siarad â'n gilydd. Fyddai'r gair 'ystyr' ddim wedi'i fathu.)

*'Mae'r ystyr yn amhenodol, ac yn ohiriedig wrth ddarllen.'*

(Cyfanwaith yw gair a brawddeg. Mae pob cyfundrefn ieithyddol yn orffenedig mewn Tafod. Ac felly'r lle sy i'r 'myth' [os dymunir] o ystyr.)

*'Yr ŷm ni'n adeiladu proses y gerdd wrth ei dadeiladu.'*

(Priodol yw cydnabod dyled y naill a'r llall i'w gilydd. Ond gwall yw meddwl dadeiladu wrth adeiladu, gan fod yna rywbeth gennym ni erbyn y diwedd.)

Beth sydd o'i le, felly, ym mhroses Derrida?

Pam na ellir gadael iaith yn 'amhenodol' o ran myth yn llywodraethol (yn ôl chwant yr Ôl-fodernydd)? Pam na ellir gohirio'r cwlwm? Paham na all popeth fod yn relatif? Oherwydd y byddai relatifrwydd ei hun wedyn yn relatif. Oherwydd oni bai am yr uno a'r penodoli a'r 'caeedig' mewn iaith – sy'n gyfredol gyda'r agor a'r amrywio – fyddai dim modd cyfathrebu. Pan na ddefnyddir (geiriau, ac yn fwy byth ramadeg, amhenodol ond siwrnai a siawns, fel gêm iaith), dyw llenyddiaeth ddim yn bod. Dyna orfodaeth beirniadaeth. Un o nodweddion Tafod yw ein bod yn ei rannu â'n gilydd. Ceir llawnder Tafod (o'i gyferbynnu â llawnder Mynegiant) yn fy meddwl i ac yn eich meddwl chi, yr un pryd. Drwy gytundeb cyfundrefnau mewn cymdeithas y mae iaith yn bosibl. Drwy gwlwm y broses gyflawn o lunio a deall iaith, y daw iaith i fodolaeth. Unwaith eto, er mwyn deall amhosibilrwydd *différance* fel egwyddor ymarferol, rhaid deall Tafod, a pheidio â'i gymysgu â Mynegiant o ran natur gyfundrefnol ac ansoddol.

Felly, y mae deunyddiau llenyddiaeth yn gallu amrywio o gyfnod i gyfnod mewn traddodiad. Ac yn rhyfedd iawn, yn yr oes hon, mae gwerth, pwrpas, trefn, ystyr ac yn y blaen (sef Tafod Cymhelliad) yn *destun* priodol. Mae gwacter yr oes yn ddiwinyddol yn rhywbeth y mae pawb

hydeiml wedi'i brofi. Nid yn unig rhaid caniatáu hyn: mae hyn yn rhan o'n hadnabyddiaeth gyfoes. Yn yr un ffordd y mae'r sawl sy'n ceisio dadlau nad oes dim ystyr na threfn, yn gorfod defnyddio ystyr a threfn i honni'r fath beth. Ond yn rhyfedd iawn, yr un pryd, oherwydd natur y drefn mewn celfyddyd sy'n angenrheidiol er mwyn iddi fodoli o gwbl, mae gwerth trefn a phwrpas yn gorfod meddu ar gymeriad gwahanol hefyd. Dyw amhenodolrwydd, os yw'n golygu beth y mae'n ei feddwl, byth yn dod i gwlwm, a byddai cyfundrefn ohono byth yn bosibl. Cyfundrefn o gyfundrefnau mewn realiti sy'n dal dŵr yw Tafod: dim mwy, dim llai.

Gŵr heb fod yn ymwybodol o fod yn strwythurwr, dyna oedd Saunders Lewis. Drwy ymwybod â strwythurau cymhelliol yn cynnal iaith a llenyddiaeth mewn *Traddodiad*, a'u cyflwyno, profodd Saunders Lewis fod strwythuraeth yn bwysig i werthfawrogi iaith a llên Cymru, a phrofodd fod hyn yn ateb diogel o fewn prif egwyddorion ei ffydd.

DROS F'YSGWYDD (4)

GERAINT GRUFFYDD

Os oedd John Rowlands yn swil, yr un mor swil oedd Geraint Gruffydd. Nid oedd y naill na'r llall yn chwenychu sylw perfformiol. Ond roedd swildod Geraint yn llai bochgoch ac yn llai ymosodol ochelus na swildod John. Roedd Geraint yn swil ar egwyddor: roedd John yn swil o raid.

Dw i ddim yn honni bod yn *connoisseur* mewn swildod, bid siŵr. Yn sicr, dw i ddim yn casglu swildodau. Ond wrth ymrwbio mewn atgofion, y mae dyn yn dysgu am fywyd ac yn canfod y rhai sydd am dderbyn neu ymwrthod â sylw cyhoeddus.

Gellid hefyd gymharu'r ddau ysgolhaig eto yn eu hagwedd at y gorffennol ac at hanes. Roedd Geraint yn sgrifennu'n helaeth iawn am y gorffennol, ac yn cyffwrdd yn hapus â'r holl rychwant mewn mil a hanner o flynyddoedd. A chymhwysai'r wybodaeth honno i'w olwg ar yr oes sydd ohoni. Ei hyfrydwch oedd rhannu pob cyfnod mewn hanes â phawb. Roedd hanes yn golygu mwy i John nag yr oedd rhai o'i ddilynwyr wedi dewis sylwi arno adeg ei farwolaeth, a hynny'n hanes amlweddog a diwylliedig. Fel golygydd y gyfres 'Y meddwl a'r dychymyg Cymreig', yr oedd wrth gwrs yn gatholig ei chwaeth. Catholig oedd wrth olygu *Llais Llyfrau, Taliesin, Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry, Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol,* yn ogystal â'i ran wrth ddadansoddi deg o gywyddau pwysig gan Ddafydd ap Gwilym yn *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym,* gol. Alan Llwyd. Felly hefyd yn ei ymchwil gynt fel myfyriwr gynt cyn cael swydd yn y Brifysgol. Eto, roedd e fel pe bai am guddio'i wir ymrwymiad i'r byd academaidd. Dyna'r argraff a roddodd o'r neilltu yn ystafell y seminarau lle yr ymneilltuai i ddisgleirio. Ac yr oedd ychydig yn ochelus ynghylch ei berthynas â'r gorffennol.

Roedd e'n swil braidd am y traddodiad, ar egwyddor. Dôi'r her iddo o du traddodiad: gall traddodiad fod yn lleidr cyfnewidiad. Daethai John yn ddigon dan ddylanwad Ôl-foderniaeth i fod yn amheus am fodolaeth pob parhad. Y tu mewn i draddodiad, llechai gelyn neu fwgan. Bwgan ar ryw olwg fysai 'cadw' (fel egwyddor) i John a'i ddilynwyr lluosog. Peth a gaed i raddau yn y gorffennol: roedd yn berygl marw. Ni pherthynai iddo'n iawn. Ac roedd tân y perthyn yn allweddol i John. I Geraint, ar y llaw arall, roedd Traddodiad yn bendant fel arall, yn gyflawniad ac yn fuddugoliaeth. Fe'i dathlai'n feunyddiol uniongyrchol yn ei waith. Y wasgarfa unol honno yn un llinyn oedd arddull ei fywyd, a chynhaliai gangen barhaol yn ei weithgaredd a'i gymeriad. Ymgrynhôi'n brofiad cyfoes ac yn amseryddol fyw iddo. Roedd y gorffennol o'i ddeutu ym mhobman. Gwedd oedd ar ei bresennol. Ymgartrefodd e yn y gorffennol felly, ac fe'i profai'n bresenoldeb cymysg a'i bwydai'n faethlon. Gallai'r gorffennol ymddangos i rywrai ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif ac ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain yn ddeinosôr amhrydlon; ond 'creadur o

ddynoliaeth' gwmnïol fyw oedd e i Geraint.

Cymharol swil oedd Geraint ynghylch rhai materion eraill, megis dyweder ynghylch ei wleidyddiaeth. Nid ysgrifennai amdani, er bod ganddo argyhoeddiadau cryfion. Er i Geraint a fi gyfarfod yn gynta yn Ysgol Ha'r Blaid yn Nyffryn Ardudwy, 1949, pan fyddem ni'n cyd-gyfarfod wedyn, nid trafod gwleidyddiaeth a wnaem byth, onid (ar y dechrau) yn ystod yr ymweliadau gwibiog wnawn i â Phrifysgol Bangor i siarad â'r Undeb Cristnogol. Y pryd hynny roedd yna un drafodaeth gryno a ddeuai'n ôl mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i'r cyfarfyddiadau hynny, sef y berthynas rhwng ein swyddi academaidd a'n diwinyddiaeth ymarferol. Beth oedd Cristnogaeth o fewn cyd-destun bywyd Coleg? A phwnc oedd a fyddai'n dwyn casgliadau ymarferol iawn i ni'n dau, maes o law. Roedd y berthynas a gaem ni ein dau yn ein calonnau ar y troeon hyn yn ymwneud â pherthnasoldeb ein ffydd a'r gwaith beunyddiol yn y Brifysgol. Dros ein hysgwydd ni'n dau, yr oedd her yn dod inni fod yn glir yn ein meddyliau ynghylch yr ymwybod o Benarglwyddiaeth dros y greadigaeth ym mhob gwedd ar fywyd. Beth oedd arwyddocâd ymarferol Cristnogaeth i ysgolheictod ac i fywyd ein gwaith beunyddiol?

Yn ein bywyd ifanc ni, dyna gwestiwn taer i ni ac i leiafrif o bobl ymhlith ein cymrodyr.

Yr hyn dw i am ei ateb, hefyd, yn yr ysgrif hon yw'r cwestiwn chwilfrydig arall: 'Sut roedd Geraint, fel Cristion tra argyhoeddedig, yn medru gwerthfawrogi'n llawn waith rhai pobl a oedd yn dra gelyniaethus at Grefydd ac a gyfrifai Gristnogaeth yn sothach? Sut oedd cynnal bywyd ysbrydol mewn cymdeithas gymysg neu amlffydd? Beth hefyd oedd unigrywiaeth Cristnogaeth ar lefel ddeallol o'i chyferbynnu â chrefyddau eraill megis Islâm, neu athëistiaeth, neu enwad hollol wahanol fel Catholigiaeth, i'n Protestaniaeth Galfinaidd ein hun?'

A sut yr oedd ateb i hynny yn effeithio ar yr hyn a ysgrifennem? Er bod y cwestiynau hyn yn gallu codi ymhlith cyfoeswyr, ychydig o amser y byddai llawer yn ei gymryd i bendroni uwchben y cwestiynau hyn. Rhaid cofio, doedd rhywrai ymhlith y cwestiynwyr ddim yn gwir ymddiddori mewn ateb digonol, beth bynnag: eu nod oedd ateb rywsut pe bai modd, maglu neu beidio, a mynd ymlaen â helyntion eraill bywyd.

Peth arall: doedd gan Geraint ddim hoffter mawr o ddadlau. Er iddo ymuno â 'dadl ymchwilgar' o'r fath ymhlith ei gyfeillion efengylaidd, doedd Geraint ddim am orwastraffu'i amser drwy dreulio oes benben â dadleuwyr y tu allan roedd eu rhagdybiau'n rhwystr hunanymholiol anystwyth, cwbl unllygeidiog, ynghylch ffynnon bywyd mewn gwirionedd. Onid rhan oedd hyn o oes fewnblyg mewn dimensiwn arall? Roedd hyn yn wir, nid yn unig ymhlith anghredinwyr, eithr ymhlith credinwyr pietistig a chyfyngedig hwythau. Ond esboniad a geisiai Geraint, nid dadl.

Wrth ystyried y mater hwn yng nghyd-destun y portreadau eraill yn yr oriel hon, fe sylwn fwyfwy mai Gras Cyffredinol oedd y wedd hon ar ei fyfyrdod. Ac yn ei ddiddordeb ysol mewn

llenyddiaeth, roedd unplygrwydd ei gariad at lenyddiaeth fel y cyfryw yn ei ddiogelu rhag amhurdeb gwyro tuag at unrhyw broselytio neu bropagandeiddio. Roedd ei anianawd yn ei gadw ar wahân hefyd i ymroi mewn ffrwgwd cyhoeddus ar bapur.

Bid siŵr, gwyddem am ddadlau gwag gan elynion y Ffydd ynghylch *ymyrraeth* tybiedig-angenrheidiol Duw 'hollalluog' (pe bai ar gael) yn rhyddid ei greadigaeth, wedi i honno yn y Cwymp gael ei throi'n annethol anarchaidd. Roedd llawer o seciwlarwyr yn gwgu ar gysylltu diwylliant ag argyhoeddiadau Cristnogol. Hen syniadaeth athëistiaid a glywid oedd yr un hefyd ynghylch gallu 'hollalluog' Dad i fod yn unbenaethol ac yn Deyrn hunanol, ymyrrol, ym mywyd Cristion. Cyfyngedig ddynol oedd y syniadaeth wrthwynebus honno ynghylch cyfyngiadau naturiol y Crëwr.

Arfer y drwg yw gwyrdroi pob gwirionedd o fewn anneall dyn-ganolog. Mae yna ragdybiau negyddol o'r fath ynghylch pob pwnc dan yr haul, yn arwain at ôl-dybiau rhagweladwy wedyn. At ei gilydd, roedd rhagdybiau Geraint a'm rhai i yn debyg dros ben, drwy drugaredd, bron 99.99%; ac roedd hynny'n gryn gymorth gan ein bod ni'n gallu symud ymlaen mewn cyd-fyfyrdod ac ystyried pa ragdybiau oedd yn ffrwythlon wedyn tuag at esboniad perthnasol o'r ysgrythur ei hun a'i gymhwysiad i fywyd.

Dywedodd y beirniad llenyddol Terry Eagleton un tro am gyfrol Richard Dawkins *The God Delusion:* 'Dychmygwch rywun yn gwneud datganiadau am fioleg heb gael eu hunig wybodaeth o'r pwnc ond yn *The Book of British Birds,* ac yna mae gynnoch chi syniad bras o'r hyn yw'r profiad o ddarllen traethiad Richard Dawkins ar ddiwinyddiaeth.' Trafferth Dawkins, a thrafferth yr atheist arferol, oedd bod un rhagdyb rhwystrol, di-sail, yn cwbl-gadw dyn deallus yn nosbarth diwinyddol y babanod. Dyna'n hamgylchfyd ni oll, mewn gwirionedd, yn yr awyrgylch seciwlaraidd caled a gafwyd ar ganol yr ugeinfed ganrif. Nid yw seicolegwyr yn eu holi'u hunain ynghylch eu rhagdybiau caeedig dyn-ganolog.

Pan drafodir cysylltiad diwylliant â bywyd ymarferol beunyddiol, neu pan drafodir yn fwy penodol waith tŷ a gwaith cyflogedig yng ngolau Cristnogaeth, down ni at bwnc nad yw'n bwysig iawn, ysywaeth, i bregethwr efengylaidd hyd yn oed, gan amlaf. Onid wyf yn camgymryd, gras arbennig yw unig bwnc pregethwyr efengylaidd fel arfer ddydd Sul yn eu pwlpudau. Eglurir drygioni pechod, iachawdwriaeth ac aileni'r pechadur drwy ras arbennig (heb ddim effeithiol ond y gras hwnnw), atgyfodiad Crist buddugoliaethus, ac atgyfodiad tragwyddol y crediniwr ffyddlon. Ni chais y pregethwyr fel arfer yr un genadwri arall. A hawdd deall pam. Dyna'r gwirionedd sy'n clymu'r Beibl wrth ei gilydd. Yn wir, mae hyn yn codi'n gwestiwn pellach weithiau, 'A oes unrhyw le i ras cyffredinol o gwbl? Onid yw'r cwbl drosodd yn orffenedig mewn Cyfiawnhad drwy Ffydd?'

Dw i'n credu, at ei gilydd, fod y rhagdyb hwnnw yn agos i'w le, wrth gwrs, ynghylch

swyddogaeth arbennig calon yr efengyl. Ac wrth gwrs yn sylfaenol. Mae gras arbennig yn goleddfu pob dim arall. Dyna ffaith y mae'n *rhaid* ei dysgu o'r pwlpud. Ond mewn astudiaeth Feiblaidd letach, i Gristnogion sy heb eu donio na'u galw i fod yn genhadon y Gair ar y Sul, eithr sy'n gorfod wynebu llwch a lludw y palmant a'r swyddfa ddydd Llun, y gegin a'r ffatri, yr ysgol a maes y gad, a'r astudfa, y mae'r cwestiwn yn codi ynghylch holl Benarglwyddiaeth y Greadigaeth mewn byd amlochrog: 'Beth yw ystyr y petheuach beunyddiol rhyfedd hyn – Gwybodaeth Prifysgol a Llyfrgell a Chanolfan Ymchwil – yng ngoleuni llygad Duw?'

Mae gan ras cyffredinol Duw, yn ddiau, rywbeth i'w ddweud ar lefel moeseg am broblemau'r labordy a'r pwll glo, y parlwr a phroblemau rhyngwladol, am fewnfudo ac allfudo pobl a phethau, am feirniadaeth lenyddol a threisio plant, am weddi pob dydd. Ac am fanylion mân, mân, sy'n ymwneud â'r rheini i gyd, lle y bo'r glaw'n disgyn ar y byd hwn beunydd. Yn wir, fe ddwedwn i fod y rheini oll, bob un, yn llygaid mawr nawr yn syllu'n daer dros yn ysgwydd i, ac yn holi a ydym *ni*, sy'n wynebu hynny, *yn* y byd hwn o'n deutu, heb fod *o'r* byd hwn? Ac wrth i fi gofio am gymeriad a diddordebau bythol arhosol Geraint, fe fyddaf i'n chwilfrydig ynghylch y ffordd yr oedd yn datrys y broblem hon. I'm bryd i, cafodd ef ateb cyfareddol.

Bu ffydd Geraint yn ymchwilio am ateb, a minnau wrth ei ochr.

Beth yw'r berthynas rhwng gras cyffredinol sy'n glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn? Onid yr un yw gras yn golygu rhywbeth arall i'r pechadur anedifeiriol a'r truan edifeiriol? Onid yw cyfraith gwlad, er enghraifft, yn gyffredin i bob troseddwr? Onid yw gras cyffredinol yn cynnal iechyd bywyd i'r anghredadun megis i'r credadun?

Mae gan Dduw broblemau di-ri oherwydd y Cwymp. Maen nhw'n broblemau sy y tu hwnt i fedr dyn meidrol i'w datrys ar ei ben ei hun. Wrth gwrs, does yna ddim un broblem sydd y tu hwnt i'w gywreinder ef. A hoff gan y 'dyn' hunanlywodraethol, dyn fel sefydliad, a'r dyn addysgedig hir-amser neu'r 'dyn' cyfoethog yn neilltuol, feddwl y gall yntau, ar ei liwt ei hun, ddatrys problemau fel hyn. Haerllugrwydd braidd yw hawlio anwybodaeth ddiddatrys-byth i ddyn.

Rhyfedd yw ffydd sy'n credu mewn datrys problemau y tu hwnt i fedr dyn. Ond sylweddolir fod arfaeth y Greadigaeth yn cynhwysfawr amgylchu'r weithred o Greu y tu hwnt i amser, gyda'r pechadur o fewn amser yn cyfeiliorni o hyd. Ac o fewn y cyd-destun hwn ceir yr addewid, y tu hwnt i'r sylweddoliad ymarferol. Rhoddwyd gerbron y byd oll, a'r holl frwydrau ysbrydol hanesyddol drwy'r canrifoedd, arweiniad at enedigaeth a magwraeth gan ddamhegion a gwyrthiau, defosiynau Crist, a'r Groes a'r tywyllwch mawr, a'r Pridwerth Iawnol, a'r Esgyniad, ac erledigaeth Cristnogion, ac atgyfodiad i holl Gristnogion yr oesoedd, drwy Farn a'r Greadigaeth Newydd. Mae gan Dduw ateb i'r cyfan, drwy Ras Cyffredinol yng Ngras Arbennig. Mae hynny oll yn arddangos nad priodol yw troi cefn ar y naill ras na'r llall. Mae E'n dymuno inni *amgyffred* y naill a'r llall. A

dyletswydd i bob Cristion, beth bynnag fo ei ddawn a'i swydd, yw efrydu hyn ac ymhyfrydu yn ei holl ffordd er mwyn cydnabod ac ufuddhau i'r gwir hwnnw.

Un o atgofion mawr fy mywyd oedd cyfarfod â Geraint am 8.0 bob bore am rai blynyddoedd yn f'ystafell yn y Coleg – ynghyd â dau gyfaill arall, Gwyn Davies a GwynnWilliams – i weddïo am ein gwaith beunyddiol.

Dyna un pwynt distadl yn ein patrwm academaidd beunyddiol, a gellid meddwl am ddigwyddiad cyffelyb yn hanes Cristnogion ledled y ddaear a'i gwnâi. Lledai ein mwynhad o Grist a dyfnhâi ein cwmnïaeth gyda'r Creawdwr o Waredwr, wrth ymwneud â chwyldro mawr ein bywyd, ac wrth geisio cracio problemau bach beunyddiol. Dywedai Crist y gwir bob amser. I fi ar ddechrau fy mywyd gyda Christ, mae arna i ofn fod gan lawer ohonom, Gristnogion efengylaidd, duedd yn ein gwaith bob dydd i anwybyddu Gras Cyffredinol oherwydd gogoniant Gras y Groes. O'r herwydd, aeth Gras Cyffredinol yn dipyn o 'obsesiwn' i'r rhai a'i hwynebai, yn flaenllaw ac yn bwnc llosg.

Rhyfeddod fawr oedd pendroni amdano. Dyma'r Gras sy i'w gael ym mhob cornel o'r bydysawd. Mae'n donio llenorion, megis hefyd gweinyddwyr, chwaraewyr, masnachwyr, glowyr, a phenteuluoedd. Rhyfeddol yw rhad ras cyffredinol megis presenoldeb ffydd waredigol mewn byd a wrthododd ddaioni Duw. A gwn fod Geraint yn rhannu gyda fi'r 'broblem' chwithig honno.

Ond doedd Geraint ddim yn berson obsesiynol, er ei fod yn gadarn o unplyg. Mae'n wir nad oedd ganddo'r hyn y byddwn i'n ei alw'n hobïau. Doedd ganddo ddim amser i fawr ddim ond gwaith a theulu. Onid obsesiwn yw peth felly? Eithr er mor aruthrol bwysig oedd y gwaith hwnnw, fe'i hachubwyd ef rhag plygu i orthrwm cynhwysfawr obsesiwn gan ei haelfrydedd a'i ddymuniad gorthrechol i gynorthwyo'i gydweithwyr a'i fyfyrwyr – i roi pobl eraill yn flaenoriaeth ac ar y blaen i'w gynlluniau personol ei hun. Yn ei achos ef, nid obsesiwn oedd 'gwaith' oherwydd ei ysfa gynhenid i fod yn garedig.

'Ond,' clywais un o'i gydnabod (nid cyfaill) yn ei ddweud: 'onid obsesiwn wedi'r cwbl oedd Cristnogaeth iddo? Onid oedd e'n gadael i'w ragdybiau a'i ragfarnau Cristnogol wthio'r farn “niwtral” o'r neilltu?' Dyna, does bosib, y perygl i gredinwyr unplyg, (neu lythrenogwyr fel y byddai'r ffwndamentalwyr anghrediniol yn eu galw nhw).

Mae'r ateb cywir i'r condemniad hwnnw yn syml, ac wedi'i grynhoi yn ystyr un gair rhyfeddol. Sef 'Gras.' Beth yw Gras? Gras yw'r rhodd, neu'r gynneddf, neu'r rhagdyb, neu unrhyw allu i weithio heb fod y derbynnydd yn ei haeddu. Rhoddir bywyd gras Cristnogol o'r tu allan i ddyn. Mae'n unigryw, ac yn cael ei ddelwedd ddelfrydol yn Iesu Grist, y Duw sy'n ei roi'i hun, yn rhoi Cariad (sy'n cynnwys ei fywyd) yn rhad ac yn llwyr. Hynny yw, pan oedd Geraint Gruffydd yn cyflawni cymwynas, roedd e'n ystyried o ddifri mai Duw yn unig oedd yn gyfrifol am unrhyw

rinwedd ynddi. Yn yr un modd, pan oedd e'n ostyngedig, wyddai fe ddim ei fod yn ostyngedig. 'Chroesai hynny ddim o'i feddwl o gwbl.

Priodol yw cofio siâp ymroddiad. Duw oedd ei hun yn ei berchnogi'n llwyr. Ac fe welid ei hanfod yn y rhodd ar y Groes. Nid 'obsesiwn' i *unrhyw* Gristion oedd hiraethu am fywyd tragwyddol. Rhyddid oedd addoli, nid plygu i gaethiwed. Yn gyferbyniol i hynny, canolbwyntio a wnâi ar ryw fater unigol ar draul materion eraill a oedd yn haeddu cyd-sylw, ac a allai o'r herwydd beri camddeall o'r herwydd; dyna fyddai 'obsesiwn.'

Gallai fod yn 'eithafbwynt', ond peth arall fyddai hynny. Gall mai anhunan oedd, i bob pwrpas ystyrlon. Nid rhagdyb yr Ego oedd, yn sicr, nid y 'fi' mewn dyn oedd yn gwneud ei benderfyniad a'i gredo y pryd hwnnw, ac a oedd yno mewn awdurdod personol. Y Goruwchnaturiol yn unig oedd yr awdurdod llwyr. 'Allai'r unigolyn o grediniwr ddim meddiannu'r 'canol' wedyn.

Ond roedd yna un egwyddor yr oedd Geraint yn ymwybodol ohoni a oedd yn chwalu unplygrwydd pob obsesiwn ynddo. Roedd lle i *bopeth* yn rhagluniaeth Duw. Roedd yr egwyddor honno ar gael ym mhob man. Fe'i caed ym Mhenarglwyddiaeth unol y Sfferau bodolaeth, ac yn chwalu undonedd unffurf obsesiwn. Yn ôl y ffydd Gristnogol ar waith, yr oedd yr 'un' yn hollgynhwysfawr mewn amrywiaeth o sfferau; hynny yw, roedd gan bob diddordeb ei gymeriad ei hun o fewn Penarglwyddiaeth; a rheolaeth Alffa oedd hyn hefyd hyd Omega.

Mae'n cynnwys byw ac yn cynnwys marw, ac yn atgyfodi wedi'r marw. Mae'n wawr ac yn fachlud o hyd. Mae yn y maes chwarae, ac yn llys y gyfraith. Mae mewn gwyddor a chelfyddyd, mewn gwaith ac mewn hamdden. Mae'n cynnwys yr holl gelfyddydau, mewn rhif ac mewn gofod, mewn dawn fesuredig ac yn yr ysbryd y tu hwnt i bob amser, mewn llonydd ac mewn symud, mewn masnach ac mewn diwylliant, mewn ffydd, gobaith a chariad; mae'n holl-bresennol, felly. Roedd hyn oll yn Ras mewn Cynllun, yn gyflwynedig o'r tu allan. Ac felly, nid obsesiwn oedd hyn, ond rhodd. I Geraint, dyna oedd arbenigo mewn maes mor esoterig â llenyddiaeth Gymraeg.

Fe gredai Geraint hyn oll am Ras Cyffredinol, ac yr oedd ei swydd academaidd iddo yn fwy na swydd. Fel y mynnodd yr Arglwydd roddi iddo hyn oll am ddim (er iddo gostio llawer iddo), felly roedd i was yr Arglwydd, Geraint, (i minnau – *il miglior fabbro*), yn gwasgaru'i ymwybod o Dduw i gorlannu llawer o agweddau a gweddau. Ond o'r ddau fath o Ras a drafodir yn y ffydd Gristnogol, sef Gras Arbennig (gwaredigol) a Gras Cyffredinol (creadigol), felly yn ymarferol ar y naill law y rhoddir addewid am drugaredd i bawb a gredai ac a ymwybyddai â chyfiawnder a'i berthynas, ac ar y llall, ddoniau diwahân i bob celfyddyd, gwyddor a masnach, gyda'r modd i arddio'r tir – fel y glaw'n disgyn ar y Cyfiawn a'r Anghyfiawn. Ac mae'r ail ras ar gael ar gyfer darlithwyr a myfyrwyr fel ei gilydd, beth bynnag fo eu ffydd (ac mae ffydd o ryw fath gan bawb).

O'r holl bobl yn y casgliad hwn o ysgrifau y bues i'n ceisio'u portreadu hyd yn hyn, Geraint

oedd yr un a adwaenwn i orau a hwyaf. Ond roedd yna bellter rhwng y math o feddwl oedd gan Geraint, ac i raddau llai yn y math o feddwl a arddelwn innau, am fywyd a'r syniadaeth a oedd yn gyffredin i academyddion o gyffelyb anian a dyletswyddau. Roedd a wnelo hyn â'r hyn a wyddai fe a finnau am broblem niwtraliaeth. Gwyddai'n burion fod niwtraliaeth ar y naill law yn fyth ac eto'n gwbl angenrheidiol mewn ysgolheictod. Doedd dim rhyddid heb fod rhagdybiau o ryw fath yn ceisio tynnu'r meddwl hwnnw oddi ar degwch tystiolaeth a manylder cywir. Eto ddylai 'esbonio' academaidd ddim cael ei dywyllu gan ragfarn byth, yn ôl pob cywirdeb ac egwyddor academaidd.

Roedd yna baradocs dyfal, a dirgelwch felly, i ysgolhaig a ddeffrowyd i ddimensiwn heblaw'r un naturiol. Doedd y meddwl ddim ynghau i'r goruwchnaturiol. Roedd yr esboniad i Gristion ar fyd a bywyd yn lletach ac yn llawnach na'r rhagdybiau materol. Roedd gan ddyn yn gyffredinol well gallu rhesymegol na chreaduriaid eraill i archwilio'n wyddonol ac yn systematig gyfundrefnau rhesymegol y bydysawd. Ond i Geraint roedd y bydysawd hwnnw hefyd yn cynnwys ac yn arddangos rhesymeg y Meddwl Dwyfol. Felly roedd modd i'r meddwl dynol a gwareiddiedig cyffredin chwilio hyd yn oed feddwl Duw drwy'r Beibl, ac yn y dirgelwch hwnnw ddod o hyd i ddimensiwn pellach na'r cyffredin. Bwriadwyd y meddwl dynol i fod yn lletach na'r materol, a'r posibilrwydd i weld ei berthynas â gras arbennig.

Mewn cylchoedd academaidd seciwlar y mae'r Beibl fel arfer, ac yn naturiol, yn gyfrol amherthnasol. Hynny yw, mae'n llyfr megis llyfrau eraill. Ac os nad oes gennych chi ddiddordeb mewn materion hanesyddol Israelaidd na diwinyddol, yna 'ar y silff' yw'r lle i'r llyfr hwnnw. Honiad y Beibl amdano'i hun yw ei fod wedi'i ysgrifennu dan ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân ac yn Air Duw. I'r sawl a oleuwyd gan yr Ysbryd Glân ac yng Ngair Duw, mae'r datguddiad a geir yn y geiriau gwrthrychol hyn yn meddu ar ansawdd nad yw syniadaeth ddynol ddaearol yn atebol i'w dirnad. Cynnyrch goruwchnaturiol yw.

I Geraint (ac i mi), roedd y Beibl, i ddarlithwyr ac i fyfyrwyr, yn llusern i'n traed.

Mae'r crediniwr yn hawlio bod Duw wedi defnyddio cyfrwng meidrol llyfr daearol y Beibl, fel y defnyddiodd lestri pridd y proffwydi a'r apostolion i wneud rhywbeth gwyrthiol. Fe gawsant fod yn sianel i'r Ysbryd Glân lefaru. Ac yna, mae'r Ysbryd Glân hwnnw yn cynnig ysbrydoli'r geiriau ymhellach yng nghalonnau pechaduriaid gwir lygredig i fod yn blant i Dduw.

Mater o wareiddiad yw hyn. Mae ansawdd gwareiddiad y ddaear yn y fantol bob amser. Fe effeithir ar y ddealltwriaeth o bwrpas bywyd gan welediad y deall o hyn. Does dim deall ar eiriau'r llyfr sanctaidd heb iddynt lamu allan o'r papur a chyffwrdd â chalon y mater. Does dim ysgariad sylfaenol rhwng ystyr y byd a'r gair a greodd y byd. Heb fywyd y geiriau hyn, erys dealltwriaeth ddigonol o'r byd yn ddifywyd. Daw dyn yn fwy dynol a Duw yn fwy dwyfol oherwydd hyn. Mae'n sylweddoli bod y goruwchnaturiol yn ben ar y naturiol, megis sylweddoli bod yna Feistir ar feistir

Mostyn, beth bynnag oedd barn Mostyn ar hynny.

Amddiffyniad yw hyn yn erbyn seciwlareiddio materol. Eto, problem ddiwinyddol yw'r deall dynol llawn, hyd yn oed i anghredinwyr.

Dw i'n cofio Geraint unwaith yn sôn am dro pryd y bu'n gwrando ar y diwinydd mawr a'r meddyliwr medrus Karl Barth yn darlithio'n gyhoeddus, awdur disglair 'Dogmateg yr Eglwys'. Ar ôl iddo rwyfo drwy'i ddarlith ddofn a phwysfawr, gofynnodd un myfyriwr yn y gynulleidfa gwestiwn personol iddo, – sut y byddai ef yn crynhoi arwyddocâd y ffydd i'w galon e'i hun. Safodd Barth: bu'n pwyso a meddwl yn ddwys iawn am yr her; ac yna, dywedodd yn dawel, dawel ddwys:

Iesu tirion, gwêl yn awr
blentyn bach yn plygu 'lawr.
Wrth fy ngwendid, trugarha:
paid â'm gwrthod, Iesu da.

I Geraint, roedd y geiriau hyn gan yr ysgolhaig rhyngwladol yn sialens, yn rhybudd, ac yn fendith. Yn y plygu unplyg hwnnw, roedd yr edifeiriol o flaen y Groes yn cyffesu'i bechod fel plentyn ar y llawr ac yn diolch am ras a ddatguddiai Dduw yn Iesu Grist. Gwyddai berthynas, felly, fel sydd i fod. Clywsai'r Gair anghymhleth ac fe'i cofiai yn ei galon. Dyma'r Gair nad oedd dim y tu hwnt iddo i Barth, megis Geraint a fi. Dyma Dduw a oedd wedi dod i lawr.

Dim ond o fewn sffêr gras y mae deddfau Duw'n ddealladwy. Eto, yno y mae rhagluniaeth yn cynnig y peth hwn heb esbonio ewyllys na bwriad Duw. Er enghraifft, y mae hyd yn oed etholedigaeth – y tramgwydd mawr hwnnw – yn ffynnon i bob daioni ac yn pwysleisio drygioni dynol yr un pryd.

Roedd hyn yn ysgogi myfyrdod Geraint ynghylch perthynas y camgrefyddol neu'r anghristnogol mewn llenyddiaeth a phrydferthwch y ffydd.

Sut y mae doniau gwych yr artist o bagan yn gallu ar dro ragori ar ddoniau artistig llipa'r Cristion? Mae a wnelom â gwybodaeth atebol y tu hwnt i reswm ac o fewn rheswm. Gall honiadau 'wrthddweud' ynghylch gwirionedd *heb* wrthddweud, oherwydd annigonolrwydd amser-a-lle. Paradocs yw bod Duw a dyn yn perthyn, oblegid gras a chyfrifoldeb yn perthyn, y Duw tragwyddol yn bodoli o fewn amser, a'r pechadur yn derbyn Crist i'w galon. Mae'n baradocs sy'n gwrthddweud amser a lle dyn, heb ei wrthddweud yn nhragwyddoldeb Duw. Beth felly yw'r berthynas rhwng Gras Cyffredinol 'Naturiol' a Gras 'Goruwchnaturiol' Achubol? Dyw Gras byth yn 'naturiol': mae pob gras oddi wrth Dduw. Mae Gras Arbennig yn amddiffyn yn erbyn camddefnydd gwrthryfelgar o Ras naturiol rheswm yn erbyn pechod. A yw Gras Cyffredinol, sy'n ddirgelwch felly, fel pob gras, yn dweud rhywbeth wrthym am ewyllys Duw? Dyw graslonrwydd Gras Cyffredinol ddim yn llawn amgyffredig ond i'r sawl sy'n deall rhai materion ynghylch Gras Arbennig.

Mae sylweddoli etholedigaeth yn gymorth angenrheidiol. Nid damweinioldeb a chwiw annethol yw bod rhai'n cael eu hachub ac eraill yn cael eu damnio. Mae yna wahaniaethau gallu ac anianawd yng Gras naturiol ym mhob man. Gras yw popeth. Dyw Gras ddim yn benagored yn yr ystyr ei fod yn esbonio yn yr unffordd bob amrywiad o bob dim yn greedig i bawb mewn byd sy bellach yn syrthiedig ac yn annheg. Mae'r dirgelwch dwyfol yn gudd i'r sawl sy heb dderbyn Gras Achubol, sef i bawb yn enedigol. I'r sawl, sy'n sylweddoli mai'r pennaf o bechaduriaid yw ef ei hun, ac iddo gael ei gyfiawnhau drwy ras a ŵyr beth yw etholedigaeth a beth yw ffynnon pob daioni, does dim modd deall graslonrwydd Gras Cyffredinol yn iawn heb yn gyntaf brofi datguddiad Gras Achubol. Colli Natur wnawn ni wrth fethu â gwrando ar y Gair: peidio â sylwi. Esgeuluso llawnder doniau wnaiff y sawl nad yw wedi dysgu clywed. Y drws i'r naturiol dealledig yw'r goruwchnaturiol dilys. Mae rheswm yn y fan yna'n amlwg angenrheidiol am fod datguddiad y tu hwnt i reswm yn ei flaenori.

Bu darllen cyfrol Saunders Lewis, *Williams Pantycelyn* yn un o'r ddau gam yn nhröedigeth Geraint. Ac yn rhyfedd iawn, ar amser ac mewn lle gwahanol, bu arwyddocâd y gyfrol honno yn debyg yn fy hanes i.

Ymhlith y gweddau gwahanol yng ngyrfa Geraint, un arwyddocaol fu casglu beirniadaeth lenyddol Saunders Lewis. Pan grynhodd Geraint Gruffydd weledigaeth Saunders Lewis am undod llenyddiaeth Gymraeg, dywedodd amdano 'ei fod yn gweld holl hanes llenyddiaeth Gymraeg o Daliesin hyd heddiw yn undod crwn, a gweld ein holl lenyddiaeth yn ymrithio o'i flaen yn un corff cyson.' 'Corff yw hwn sy'n tynnu ei fodolaeth a'i faeth o ddwy brif ffynhonnell: y traddodiad Cristnogol cyffredin a barhaodd yn ddi-dor o adeg Dewi hyd ein dyddiau ni (er i Brotestaniaeth gyfyngu peth arno), a holl lif llenyddiaeth Ewrop o Fyrsil hyd Baudelaire ac wedi hynny.' Yn y fan hon, gyda hyder rhywun a welodd ffaith derfynol, ac nid o bell, fe argyhoeddwyd Geraint gan y cyfanwaith deuol cyfredol hwnnw, y naill yn Gymreig a'r llall yn gydwladol. Ers tro, yn y cyferbyniad rhwng y ddau draddodiad hyn nid pawb a argyhoeddwyd gan y gweledíad hwn gan Saunders Lewis. Roedd Geraint yn falch i weld y ddadl yn cael ei hennill mor hyderus. Roedd yr ymdeimlad hwn o foddhad ynghylch undod o'r fath wedi'i wau i mewn i fodolaeth ei fentor. Meddai hwnnw'n delynegol yn y cylchgrawn *Wales* 1947: 'it means you cannot pluck a flower of song off a headland of Dyfed... in the eighteenth century without stirring a great northern star of the sixth century.' Cymerodd Geraint Gruffydd y cyfanrwydd hwnnw yn fath o arwyddair i'w fywyd academaidd ei hun.

Roedd y mynegiant hwn o fawl angenrheidiol i gymdeithas wedi'i gorffen mewn amser yn y traddodiad Cymraeg. Roedd prif waith ysgolheigaidd Geraint yn ddatganiad a gynhwysai'r safbwynt hwnnw yn glir, o'r chweched ganrif hyd yr ugeinfed, fel neb arall o'i genhedlaeth, – drwy

astudiaeth ddwys, ddofn, a chyson. Dyma frodwaith cyflawn y bu e'n ei addurno â'i feddwl ar hyd ei yrfa. Yn ein dyddiau ni, bob hyn a hyn mewn trafodaethau gwleidyddol ar y teledu, fe fyddwn ni'n clywed y duedd i ddifrïo'r gorffennol. 'Mae'n hen ffasiwn,' meddan nhw. 'Ffenomen yw gorffennol sy wedi marw. A'r hyn sy'n edrych arnom ni mwyach yw'r dyfodol.' Dyma ddihangfa i'r gwleidydd, yn gyffredin. Eto, ymhlith y cyfeillion y buwyd yn sôn am eu marwolaeth yn ddiweddar, fel John Rowlands, John Davies, Merêd, a Geraint Gruffydd, does yna'r un ohonyn nhw a fyddai'n bychanu'r gorffennol, beth bynnag oedd eu gobeithion am ddyfodol Cymru. Yn wir, o'r gorffennol y daeth popeth a fu ac sy o'n cwmpas. Does yna ddim ffordd, nac iaith, na thŷ, na deddf, na gwrthryfel, sy heb fodoli eisoes oherwydd y gorffennol presennol ac wedi dod atom ni o'r newydd. A dw i'n synied bod hyn yn wir am yr atgofion sy gennym nawr yn y casgliad hwn o ysgrifau gan Saunders Lewis a olygodd Geraint – *Meistri'r Canrifoedd,* 1973; a'r gronfa a wnaeth ein hymenyddau daearol ohonynt oll wrth iddynt ddod yn dawel i bwyso dros ein hysgwyddau. Dw i'n gwybod dim oll am *fwganod* yn fy hawntio i o'r gorffennol; ond mi wn i'n burion am y cyfeillion a gollais, sy'n dal yn bresennol. Dw i'n gwybod ambell waith fod pob un ohonyn nhw yn eu tro, yn fy nghof, yn pwyso dros f'ysgwydd i ac yn rhyw fath o gyhuddo bob dydd, a finnau'n edifarhau. Gyda phob un ohonom ni, mae yna 'fusnes' anorffen. Fe ddylem fod wedi gwneud rhai pethau, neu ddweud rhai pethau wrth ein gilydd, a chwyth y pethau hynny'n dyner ond yn ddychrynus drosom oherwydd ein diffygion lawer. Yn wir, yr hyn sy'n edrych dros f'ysgwydd i, gan amlaf, yw nid y pethau a wnes i yn ystod fy mywyd, ond y pethau eraill na wnes i ddim. Y rheina wrth reswm, yn achos llawer o bobl mae'n debyg, ond o leiaf yn f'achos i, fu'r hyn a'm hanesmwythai. A'r pethau yna na wnaethom ddim oedd yr union bethau a ddiffiniai i ni gymeriad ein cyfeillion am mai dyna'r lle y cament i mewn i'n bywyd efallai. Pan fyddaf yn mynd am dro, maent yn dod gyda fi'n aml. Maent yn melysu'r oriau yn y nos.

Go brin fod dim yn ein bywyd sy'n rhoi diddanwch yn fwy na'n cyfeillion. O'r holl gyfeillion a ges i erioed, ac a gollais i, y tu allan i berthnasau o'm gorffennol, mae yna un cyfaill a gofiaf yn well na neb o ran presenoldeb real, ac sy'n dal i bwyso dros f'ysgwydd i'n feunyddiol. Sef Geraint. Hwnnw yw'r 'cyfaill gorau' ges i erioed. A bu'n 'gyfaill gorau' i eraill o'm cydnabod i, mi wn, – fel i Caerwyn Williams er enghraifft.

Gostyngeiddrwydd yw'r union briodoledd a feddiannai ef mewn modd unigryw. O ran ei gof a'i allu hefyd, roedd ef yn gallu ymestyn i fydoedd na allwn i byth eu troedio. Ond nid ei wybodaeth eang a'i athrylith yn unig oedd yr hyn a brofwn yn fwyaf rhyfeddol o'i anian, ond ei ostyngeiddrwydd cynhenid a'i haelfrydedd parod. Dyna'i ymrwymiad i anghenion pobl eraill. Gwrthrych i'w ddynwared oedd yn hynny o beth, mewn llawer modd i fi, a methu a wnawn i yn y peth pwysig hwnnw, ac mewn llawer arall, megis ei ysbrydolrwydd, a chadernid ei ehangder

cydymdeimlad. Bu'n arwr i fi er ein bod tua'r un oed. Dysgais beth wmbredd ganddo.

Ryw flwyddyn yn hŷn na fi oedd e. Buom yn cyd-gerdded mewn llawer iawn o'r un amgylchiadau a'n gilydd, ac yn cyd-rannu problemau Cymreig tebyg, a'r un agweddau a brofem at sefyllfa grefyddol ein gwlad. Ond roedd 'na ryw lendid a phurdeb o'i gwmpas pan rodiai ef drwy'r un amgylchfyd hwn. Bu ei wên, a'i dristwch achlysurol, i fi yn heintus. Anrhydedd raslon oedd rhannu sgwrs yn fynych ac yn rheolaidd gydag e. Soniais amdanom ni'n dau yn rhesymu droeon gyda'n ffrindiau iau o'r un ffydd, – Gwyn Davies a Gwynn Williams, buom ni (Geraint a finnau), ni'n pedwar, fel y nodais, yn gweddïo gyda'n gilydd yn f'ystafell i yn y Coleg. Pan fo criw bach, pedwar dyweder, yn cael eu gyrru gan eu cydwybod i gyd-weddïo o'r neilltu, dônt y agos iawn at ei gilydd. Gweddïo dros y myfyrwyr yn y Coleg wnaem ni. Roedd y myfyrwyr ar y pryd yn mynd drwy gyfnod mwy anodd nag ers degawd. A dyma nawr ymwybod ag ystyr newydd i'r ymadrodd 'edrych dros f'ysgwydd': roedd yna Un arall a fu bob amser yno i ni'n pedwar yn y lle hwnnw, a ninnau'n dra effro i'r ffaith honno Ei fod e yno. Y Tri-yn-Un oedd hynny, y gwmnïaeth anfeidrol, y cyhuddwr maddeuol, wrth ein hysgwydd fel presenoldeb yn y cyfanfyd.

Wrth grybwyll fel hyn ei ofal dros ei fyfyrwyr, roedd hyn o fywyd Geraint yn addysg i fi, ac yn batrwm i'w ddynwared. Yn wir, weithiau, dyma'r peth blaenaf y cofiai'i fyfyrwyr amdano, ei wir faich dros les ei ddisgyblion.

Erys un stori fechan yn gwbl wahanol i'r lleill, ac fe'i hadroddaf: sef ei ymweliad â charchar yng nghwmni Caerwyn Williams. Bu'r ddau ers tro yn sgyrsio mewn pryder ynghylch carchariad Ffred Ffransis. A phenderfynent ar y cyd fod rhaid i Ffred yn ei unigedd gael gwybod am y pryder tyner a gaed gan lawer tuag ato y tu hwnt i farrau'r gell, a phresenoldeb dynserch ei genedl tuag ato. Dw i ddim yn gallu meddwl am ddau arall erioed mor ddiniwed â'r ddau hyn a fu'n curo ar ddrws carchar ac am fynd i mewn. A diniwed oeddent mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, yng ngloywder unplyg a syml y naill a'r llall; yng nglendid eu cymeriadau; yn ddau gwir sanctaidd. Ac yn ail, yn eu diffyg profiad o fywyd garw lle fel y carchar, yn symliaid yn y byd i raddau helaeth, yn llygaid pen yn agored o flaen garwder, heb ddigon o groengaledrwydd i wynebu tywyllwch aroglog o hagrwch yn hyderus. Eto, i'r fan 'na yr aethant, a dychwelyd yn drymion eu baich dros Ffred.

Un o'r arferion blynyddol a sefydlodd Geraint oedd y drefn reolaidd o ymweld â myfyrwyr y flwyddyn olaf dros gydol y pythefnos neu dair wythnos olaf cyn straen a strach yr arholiadau; yn ogystal ag ymweld ag unrhyw rai a gawsai afiechyd neu bryderon o'r blynyddoedd eraill. Dyma ran o'i wedd fugeiliol gyson. A dyma'r hyn a gofiai'r rhan fwyaf ohonynt ar ôl ymadael. Dywedodd Elgan Davies wrthyf am ymweliad (er enghraifft) a wnaeth Geraint ag ef fis cyn yr arholiad. Roedd y myfyrwyr wedi cael mis o osteg, ac Elgan wedi aros gartref a gweithio ar ei ben ei hun, gan ei

fod ar y pryd yn un o'r ychydig rai a oedd yn byw yn yr ardal, saith milltir o Aberystwyth. Gyrrodd Geraint i'w weld yn ôl y drefn ymweld â phawb. Teimlai Elgan amdano'i hun ei fod yntau wedi gadael popeth yn rhy ddiweddar. Roedd pentyrrau o waith ar ôl roedd heb ei fod wedi mynd drosto. Ond soniai Geraint wrtho am yr hyn a oedd yn gadarnhaol yn y flwyddyn, am gysondeb presenoldeb Elgan yn y dosbarthiadau, safon ei draethodau, a phwysigrwydd gwerth ei ddifrifoldeb nawr, a'r fantais o weithio o hyd mewn tawelwch gartre. Ac roedd ffydd ac ymddiriedaeth gan Geraint yn ddiogel yn ei fyfyrwyr oll mai dyna a wnâi Elgan yntau. A hynny a ddigwyddodd... Yn un o'r lliaws, yn y neuaddau, a welai Geraint yn yr ymweliadau bugeiliol hyn – yn eu lletyau, yn y dre, ie ac yn yr ysbyty wedi tynnu'r pendics, fe atrefnid gan Geraint leoliad yr arholiad ambell waith yn ôl angen yr holl achlysur i sicrhau bod myfyrwyr unigol yn cael sefyll yr arholiad.

Pan etifeddais y Gadair Gymraeg ar ôl Geraint, dysgais ganddo. Etifeddais i ei ddyletswydd o ymweld â myfywyr yn ddiwahân, adeg arholiadau a salwch. Dyna un o'r llawer o bethau a ddysgais ganddo.

A siarad yn fwy diwinyddol am hyn: roedd Geraint wedi derbyn y ffydd ddiwygiedig o fewn cyd-destun ymarferol Gras Cyffredinol, tadol. 'Pwy bynnag sy'n derbyn y plentyn hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i; a phwy bynnag sy'n fy nerbyn i, y mae'n derbyn yr hwn a'm hanfonodd i. Oherwydd y lleiaf yn eich plith chwi oll, hwnnw sydd fawr.'

Doedd hynny ddim yn lleihau fymryn o arwyddocâd Gras Achubol i neb. Oherwydd y cwymp, y mae'r meddwl a'r dychymyg dynol yn ceisio ymwybod â rhwystr diffygion a gwendidau, a hyd yn oed gelyniaeth, a hynny'n effeithio ar bob dim i gredinwyr Cristnogol ac anghredinwyr Anghristnogol fel ei gilydd. Ond erys problem. Nid yw athro byth yn ei waith yn manteisio ar ei swydd a'i safle o flaen dosbarth i bregethu achos. Un o'r problemau sy'n wynebu Cristnogion o ysgolheigion neu o lenorion yn unswydd gerbron cynulleidfa gaeedig o fyfyrwyr yw proselytio neu bropaganda. Rhaid parchu a bod yn hydeiml ynghylch sefyllfa o'r fath. Ac y mae hyn yn cynnwys hefyd yr amddiffynfa yn erbyn seciwlariaeth unplyg ansensitif ddogmatig. Mae hwnnw hefyd yn gallu cymryd yn ganiataol ei fod uwchlaw rhagdyb a rhagfarn. Peidio â chyflawni'r gwaith gras cyffredinol o addysgu yw colli hydeimledd.

Hynny yw, yr hyn sy'n baradocsaidd briodol ac yn wir ofynnol i Gristion a geisiai oleuo'r ifanc sy'n wynebu argyfwng, yw gwylied yn ofalus rhag yr awydd i broselytio, awydd a allai fod yn annoeth neu'n anamserol ac sy'n gallu distrywio harddwch, gan allu cyfyngu, onid ydys yn hydeiml a pharchu gelyniaeth naturiol bosibl y gwrandawr. Rhaid parchu'r ffaith nad yw addysgu ond yn wedd ar ras cyffredinol. Nid eiddo i'r Cristion yn unig yw. A phan fo'n eiddo i bawb fel yna, rhaid parchu ei amodau a'i ragdybiau. Mae'r Diafol yn medru gwenwyno'r awydd gonest a gorau hwnnw a'i wyrdroi tuag at hagrwch. Mae yntau'n medru proselytio'n ôl ei dywyllwch ei hun, yn groes i

ddaioni addysg i bawb.

Dywedir mai cynnig iachawdwriaeth a phroselytio mewn cyd-destun agored, mewn safle lle y dewiswyd bod yn rhydd gan wrandäwr, yw'r hyn a wna pob pregethwr yn ddi-baid. Ond i'r sawl sy'n dilyn ei daith pererin, yn olion sgidiau cytbwys Geraint dyweder, y nod yw trechu'r dryswch yn ôl celfyddyd hydeiml y broblem hon, a gweld yr Iesu yn ei swydd a chanddo'i amser i bob peth dan yr haul, wrth fainc y saer yn gwneud ei waith celfydd yn ôl gofynion ac amodau'r gwaith. Yr un modd i'r sawl sy'n gweld dychymyg a meddwl y credadun a'r anghredadun yn medru cyrraedd gwir ryfeddod mewn llenyddiaeth Gymraeg, a gwybod pam a sut y mae'r naill a'r llall fel ei gilydd yn gallu ymestyn at lwyddiant, efallai, heb drais. Ond mae Penarglwyddiaeth yn golygu bod Duw'n Arglwydd ar bob dim i bawb mewn rhyddid graslon, hyd yn oed yn y gofal hwn.

I Geraint roedd ymrwymiad i Gymreictod ac i'r Efengyl yn drysor deublyg.

Yng Nghymru y mae ysgolheictod yn ganolog i lenyddiaeth, (ysywaeth medd rhai). Bu'r ysgolheigion yn arweinwyr i'r genedl o'r Ddeddf Uno a'r Diwygiad Protestannaidd (a chyfieithiad y Beibl) ymlaen. A buont yn wladgarwyr ac yn Gristnogion Beiblaidd blaenllaw drwy'r canrifoedd. Yn y llinach ddwbl honno y safai Geraint Gruffydd; a'r un oedd ei broblemwaith o ddatrys hunanlywodraeth sffêr llenyddiaeth ag ysgolheigion eraill, ynghyd ag *arweiniad* sffêr y ffydd. Ond yr oedd trydydd teyrngarwch neu gymhelliad yn arwyddocaol baradocsaidd i gydwybod ac egnïon Geraint, a hynny oedd yr awydd ysol i ymchwilio'n ymrwymedig, nid yn ffug niwtral, ond fel person cyfan. Y tu mewn i hanes cenedl, y mae gwaith Gras arbennig ei hun yn rhan ffeithiol o'r hanes hwnnw. Mae trafod hyn ar y daith yng ngoleuni Gras Cyffredinol yn goleuo dysg ac yn dyfnhau mwynhad, i'r anghredadun ac i'r credadun, er eu gwahaniaethau mawr iawn. Mae hefyd yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r broses mantoli. Dyna sydd yno. Ac yno, mae'r gair 'niwtraliaeth' yn codi cwestiwn ym mryd ambell ysgolhaig ynghylch perthynas tegwch a'r ysgolhaig, tegwch a all gystwyo gwerthfawrogiad priodol gan y sawl sy'n arddel myth 'niwtraliaeth' ddiragdybiaeth dybiedig, ac eto a all anghytuno ag ideoleg 'dueddol'. Mae hanes ysgolheictod ymrwymedig yn llawer mwy arwyddocaol i hanes dilys llenyddiaeth Gymraeg nag y bu yn hanes llawer o lenyddiaethau Ewropeaidd eraill. Ac y mae amgyffred perthnasoldeb Gras Cyffredinol yn gymorth i bob beirniadaeth mewn amgylchiad felly.

Alla i ddim synied am Geraint Gruffydd yn elyn i neb. Ond dw i'n gallu ei adnabod yn wynebu'r elyniaeth i egwyddor wyrdroadus.

Cyfeillgarwch gwylaidd i bawb fu un o'r rhinweddau a gysylltwn yn anochel â Geraint. Adeg ei farwolaeth, fe dderbyniais i air gan amryw o'i gynfyfyrwyr ynghylch ei garedigrwydd cudd, ei gymwynasau, a'i ymddygiad gostyngedig: ei gymeriad sylfaenol. Dyna oedd y prif beth a

adawodd e gyda nhw yn ddieithriad. Pan ofynnwyd i fi lunio ysgrif goffa amdano i gyfnodolyn academaidd, fe luniais i, orau y gallwn, arolwg dadansoddol o'i brif gyfraniadau academaidd; ond teimlwn y byddai'n hollol annigonol anorffen heb i fi grybwyll y prif beth a gorddai'n hiraethus yng nghalonnau'i ffrindiau. A cheisiwn lunio paragraff yn benodol ar y pwynt hwnnw. Methwn yn lân â gwneud hynny'n iawn. Lluniais ychydig o dudalennau. Ond llosgais y cwbl. Roedd gennyf sawl rheswm am fy niffyg. Y gwir yw, pe bawn i wedi enghreifftio a disgrifio rhai o'r cymwynasau, fyddai neb wedi nghredu i. Byddai'r fath draethu amdano, ac yntau mor gadarnhaol ac o ostyngedig, yn awgrymu teimladau personol sentimental i'r sawl nas adwaenai. 'Nid fel yna mae pobl go iawn.' Roedd gennyf benbleth, felly, a dewisais y ffordd rwydd. Roeddwn, felly, yn peidio â dweud odid ddim am y gwir cyflawn drwy beidio â'i ganmol yn ddigonol, mewn gwirionedd. Ond oherwydd ei fugeiliad personol a hydeiml o fyfyrwyr dan ei arweiniad, megis yn yr ymweliadau personol ag ystafelloedd preswyl mewn neuaddau, â lletyau yn y dref, neu â chartrefi yn yr ardal, gwn i lefel sawl gradd gael ei hachub, fe gadwyd y llawenydd yn rhan o fywyd sawl myfyriwr, a diogelwyd gyrfaoedd.

Oherwydd bod Geraint Gruffydd wedi byw, rwyf i a llawer un arall yn oleuach ein barn am ddynoliaeth ac yn fwy cyfarwydd â meidroldeb a daioni Gras Cyffredinol o fewn fframwaith Gras Arbennig. Ac eto, nid gwleidydd (nid hyd yn oed un addysgol) mohono mewn modd yn y byd. Pan sonnir am wleidyddiaeth gonfensiynol, efallai mai'r gair sy'n disgrifio peth felly'n arferol yw 'grym'. Mae'n hanfodol inni sylweddoli nad dyna'r cyfan sy yna, wrth gwrs. Doedd dim 'grym' ar gyfyl perthynas Geraint Gruffydd â neb. Gwrth-rym oedd e yn gynhenid. Y geiriau gwleidyddol a oedd yn briodol yn ei ymwneud â myfyrwyr ac â'i waith academaidd fel ei gilydd oedd 'gwasanaeth' a 'chariad'.

Tystio i Grist a wna'r Beibl, fel y dengys Paul (Col. 2:5). Drwy'r Ysbryd Glân yn benodol y tystir yn y galon ymgeisgar hiraethus i Grist; ac yn y Beibl (Ioan 14:16 yml.; 15:26; 16:13 yml.), cafwyd Crist a greodd y byd yn gariadus.

Yn ei waith academaidd, medrodd Geraint Gruffydd ganfod sut yr oedd ysgolheictod yn cytbwys ddefnyddio llygaid Cristnogol i weld gwirioneddau tybiedig ddiduedd, yn rheitiach na'r ysgolhaig amddifad. Roedd am fod yn ofalus ynghylch didwylledd neilltuedig y ffydd Brotestannaidd. Er ei fod yn llawn werthfarwogi gwaith gorau Saunders Lewis, ni chyfaddawdodd Geraint erioed â'r gweddau hynny ar Eciwmeniaeth sy'n gwadu Penarglwyddiaeth awdurdodol a phenagored cadarnhaol Duw uwchlaw pob swyddog a thraddodiad ac Eglwys. Ni raid i'r sawl a ddeffrowyd dderbyn na chyd-gredu rhagdybiau dyn-ganolog a ffaeledig, gan fod yna ddimensiwn arall wedi dod drwy'r Ysbryd Glân i fywyd. Nid rhaid oedd mynd yn agos yn ei feddwl at y naturiol amddifad. Roedd dyn yn y canol i Dduw, heb gymrodeddu ag obsesiwn dyn-ganolog.

Mewn cyd-destun felly roedd Geraint yn ymwybod â phresenoldeb holl banorama ein hamgylchfyd. Cymru oedd ei amgylchfyd diriaethol naturiol blaenaf. I fi, bu taith achlysurol gydag ef drwy wahanol barthau o Gymru yn brofiad hyfryd eithafol. Fe fûm i gydag ef lawer tro ar daith i'r Bwrdd Celtaidd, i'r Academi, ac i bwyllgorau achlysurol. O'n cwmpas ar y daith ar bob llaw, gwelem gartrefi llenorion ac arwyr ein gorffennol, rhai mawr a rhai bach, llawer o rai distadl a oedd wedi cyflawni gwaith dirgel tra dylanwadol. Cysylltai Geraint gymeriadau â'i gilydd. Ailalwai stori o bellterau'r oesoedd-hyd-heddiw gan greu gwlad drwyddi, bron yn ddiymwybod, yr amser hwn drwy'r gofod, wrth droi pob cornel. Ac roedd ei feddwl byw yn dawnsio o gwmpas y digwyddiadau mawr o'r gorffennol a oedd wedi creu ein presennol. Ymgollai yn y cysegrleoedd o'i ddeutu. Roedd yn fwy na pharod i gael ei draflyncu gan y gwareiddiad dwfn hwnnw. Treiddiai hyn yn gyfoethog i'w gefndir ysgolheigaidd a phersonol.

Mynych yn ddiweddarach, a ni'n dau bellach yn cael pererindodau felly'n llai mynych, pan deithiwn i ar ddyletswydd drwy Gymru ar fy mhen fy hun, fe drown i at y sêt wag wrth f'ochr gyda chwestiwn. Felly, ar ryw ystyr, y mae'r sawl sy'n bwrw golwg go lawn a manwl yn ôl dros waith academaidd Geraint Gruffydd hefyd mwyach, fel pe bai'n dod o hyd yn y daith ychwanegol honno i fyd o ryfeddod yn y Gymru hon.

Bu cyfraniad y pererin hwnnw i fywyd yn gyffredinol mor amlgyfoethog.

## DROS F'YSGWYDD (5)
## GUSTAVE GUILLAUME

Yn fy ngwaith yn y Gyfadran Addysg, roeddwn i wedi darganfod ysgolhaig ym maes didacteg iaith o'r enw W. F. Mackey. Cesglais y byddai'n fuddiol imi dreulio blwyddyn o ymchwilio dan ei adain yn Québec. Sgrifennais ato i ymholi. A chefais ateb cadarnhaol. Ond yn ei ateb hefyd fe gyfeiriai at ysgol o ieithyddion seico-systematig yn Québec na wyddwn ddim amdani.

Pan aethom ni'n deulu bach dros y môr i Ganada ym 1963, wyddwn i ddim beth yn union y byddem yn ei ddarganfod yno.

Roeddem yn gwybod yn burion fod yna ysgol o ddidactegwyr iaith yn y Brifysgol o dan arweiniad W. F. Mackey. Ac edrychwn i ymlaen at hynny, gan dybied y gallai'r wybodaeth a gawn yno fod yn gymorth i broffesiynoli ail iaith yng Nghymru. Fel rhan o'm gwaith yn y Gyfadran Addysg yn Aberystwyth roeddwn wedi bod am flynyddoedd yn darllen cylchgronau a llyfrau yn Saesneg ac yn Ffrangeg  i chwilio am ryw le yn y byd lle y cawn yr hyfforddiant mwyaf ymarferol i ddysgu ail iaith i oedolion ac mewn ysgolion. Bûm i'n petruso ynghylch pedwar lle – dau yn America, un yn Ffrainc, ac un yng Nghanada lle y cawn y bobl fwyaf helpfawr. Ond cyn cyrchu i Québec, er i mi wybod am y tîm a weithiai gyda Mackey, wyddwn i ddim oll am Ysgol Ieithyddol Seico-systemateg Gustave Guillaume, y ganolfan orau yn y byd i efrydu'r pwnc hwnnw, mewn gwirionedd, er bod yna sawl un yn Ffrainc, yng Nghorea, ac mewn ambell wlad arall. Freuddwydiwn i ddim y byddai'r fath faes academaidd â hwnnw yn meddiannu f'amser am flynyddoedd wedyn, ac ar hyd fy mywyd hir.

Rhan o waith y flwyddyn 1963-4, i mi o dan adain Mackey, oedd parhau yn fy ngwaith ar 'iaith plant', – testun ymchwil Ph D ar y pryd. Roedd gen i ddigon o ddeunydd wedi'i gasglu i ddisgrifio ac arolygu un enghraifft o ddatblygiad cynnar iaith hyd at dair blwydd oed. Roeddwn wedi darllen degau o lyfrau ar astudio enghreifftiau gan ysgolheigion a ganolbwyntiai ar ddisgrifio unigolion ynysedig, yn arbennig pedair cyfrol gan W. F. Leopold o'r Northwestern University U.D.A., ac ugeiniau o erthyglau gan wahanol arbenigwyr mewn ieithyddiaeth yn y cyfnod cynnar, – am blant unigol yn dysgu. Roeddwn wedi astudio datblygiad ieithyddol fy mhlentyn fy hun. Ond roedd mawr angen myfyrio'n fwy systematig ac ystyried theori esbonio patrymau cynyddol y datblygiad. Hynny yw, wedi'r chwilio a'r casglu, roedd eisiau meddwl yn ofalus *pam* yr oedd pob cam wedi digwydd fel hyn, nid *sut* yn unig.

Buais i'n ddigon ffodus, felly, er syndod mawr i fi, i ddarganfod Ysgol hollol unigryw o ieithyddion yn Québec, wedi tarddu yn ymchwil Gustave Guillaume, ieithydd yn *L'école normale*

ym Mharis, a fyddai'n profi'n amhrisiadwy. Seico-systemateg oedd un o'r enwau ar ei wyddor. Astudiai strwythur y meddwl oedolyn aeddfed, a sut yr oedd yr iaith yn gyfundrefn o gyfundrefnau cydberthynol. Doedd ei ysgol ddim wedi ymddiddori mewn iaith plant – na llenyddiaeth, o ran hynny. Ond roeddent wedi chwilio am ddeddfau a phatrymau ieithoedd yn gyffredinol, gan astudio ieitheg gymharol – drwy ddefnyddio Ffrangeg yn bennaf wrth gwrs, Saesneg, Lladin, Groeg, Almaeneg, ac yn y blaen mewn ieithoedd Ewropeaidd, ac yna'n ymestyn i'r ieithoedd Semitig, ac ieithoedd y Dwyrain Pell. Enwent yr Wyddor honno yn ôl amryfal weddau arni, yn 'Seico-fecaneg' ac yn 'Seico-ddeinameg.'

Wedi'r flwyddyn honno yn Québec, ar ôl inni ddod adre, buais i'n sgyrsio gyda Waldo ynghylch y mwriad i geisio cymhwyso hyn oll a ddysgais i yng Nghanada i ngwaith o esbonio i fyfyrwyr yn y Brifysgol sut y mae'r iaith fel y cyfryw wedi cael ei hadeiladu yn strwythur systematig yn y meddwl. Ac ar ganol y sgwrs, dyma fe'n llunio englyn, ac fe'i cofnodais fel math o rybudd i fi fy hun:

Weithian psychomechanics – gorflaengar
of lingual didactics:
Ewch â'r criw mor iach â'r crics
O gam i gam â gimics.

Yn wir, cyhoeddais un llyfr academaidd (yn Saesneg) ar sail ysgogiad gan yr Ysgol Ieithyddol honno, *System in Child Language.* Doedd honno ddim yn gyfrol ar ganol priffordd seico-systemateg iaith ddatblygedig; ond fe brofodd, er hynny, yn fan cychwyn i'm gyrfa ieithyddol afradlon. Ond drwy gydol y gwaith ymarferol hwnnw, yn fy ngyrfa, synhwyrwn fod presenoldeb yn plygu dros yn ysgwydd, – neb llai na Guillaume ei hun, ynghyd â rhai cyfeillion eraill o Québec, fel Valin a Hirtle. Crybwyllais i wrth gyfeillion Canada fod gennyf ddiddordeb mewn llenyddiaeth. Tybiwn y gallwn archwilio hefyd 'drefn llenyddiaeth'. Ond roeddent yn awyddus i'm galw'n ôl i gymhwyso'r wyddor i'w llwybrau cyfarwydd, megis dadansoddi ansawdd ac adeiladwaith iaith, ac yn arbennig fframwaith y ferf yn Gymraeg. A hynny a wnes i mewn erthyglau yn *Studia Celtica.*

Ond drwy gydol yr amser, roedd cwt go hir o bobl eraill yn pwyso dros f'ysgwydd, megis Saunders Lewis, ac yn mynnu fy mod i'n cadw fy nheyrngarwch i feirniadaeth lenyddol. Dymunwn wedyn gymhwyso rhai o'r egwyddorion a gawn gan Seico-systemateg i lenyddiaeth. Er mwyn gwneud hynny, fe fyddai rhaid i mi, maes o law, lunio ychydig o lyfrau i chwilio am ddyfnderoedd strwythurol y meddwl ieithyddol ar waith mewn llenorion ac a luniai'u Mynegiant. Fe fu'r tyfiant yn y cyfeiriad hwnnw yn araf, yn betrus, ac yn droellog. Ond yn raddol dros y blynyddoedd, ar ryw fath o geffyl cloff, deuai *Tafod y Llenor, Seiliau Beirniadaeth I, II, III, IV,* hyd at *Beirniadaeth Gyfansawdd,* a *Meddwl y Gynghanedd.* Maferic fyddwn i mwyach ym meirniadaeth lenyddol

Gymraeg.

Erbyn hyn, dw i wedi ymadael ag astudio cywreinderau iaith a beirniadaeth lenyddol hithau. Mae yna faterion eraill yn pwyso arnaf tua diwedd oes. Dw i ddim yn ymdroi gyda mentro yn y byd academaidd mwyach, er fy mod i'n mwynhau o hyd wylied anturiaethau pobl eraill. Mae yna faterion amgenach yn pwyso arnaf. Ond yn rhyfedd iawn, dw i fel pe bawn i'n ymwybodol o ffigurau o hyd yn pwyso dros f'ysgwydd, ac yn procio; Guillaume yn eu plith. Mae ef yn fy nghyhuddo i o hyd ynghylch y llwybr nas cymerwyd. Er na chyfarfûm ag ef erioed, mae ef yno, ac yn llais fel sy'n briodol pryd bynnag y byddaf yn myfyrio am iaith.

Rywfodd, er na fu ef yn ymwneud â llenyddiaeth fel maes astudiaeth ei hun erioed, mae'r llais a glywais dros f'ysgwydd yn tarddu yn ei ddiddordeb yn Systemateg y *Gair*. Sylwai Guillaume *fod yna gyfundrefn i'w chael ym mhob rhan o'r iaith, yn cyfuno sŵn ac ystyr o fewn y gair, yn cyfuno gair a gair yn frawddeg drwy gyfundrefn y rhannau ymadrodd.* Lluniais fy nghyfrol gyntaf ar Iaith Plant yn bennaf o gwmpas system y frawddeg ac adeiladwaith perthynas y tair rhan ymadrodd draethiadol gan y plentyn bach, o'r Tafod (Langue) i'r Mynegiant (Discours). Yr hyn a wnaeth hyn i mi oedd f'arwain i fyfyrio am 'ffurf' yr unedau cyflawn o ystyr mewn llenyddiaeth, ac yna am gyfansoddi'r themâu ac adeiladwaith y rhediad o frawddegau mewn llenddulliau (genres).

Yna, wrth sylwi ar waith y meddwl yn dod o hyd i drefn, fe drois i ymddiddori yn y ffenomen o gyfundrefn fwy 'diwinyddol' sy'n bresennol nid yn unig mewn iaith, ond ym mhob dim yn y greadigaeth. Caed trefn o hyd i sylwi arni ym mhobman. Roedd y drefn honno yn meddu ar bob dimensiwn. Y 'Gair' (yr Ystyr) a wnaethpwyd yn gnawd. Y 'Gair' a ddiriaethodd Werth a Phwrpas i'r greadigaeth, deinameg llenyddiaeth, cynnwys y Beibl. Tueddwn i ganfod yn weddol rwydd gynllun yr amrywiaeth a'r undod, y gwahaniaeth a'r tebygrwydd, mewn trefn; ond roedd *dadadeiladu* – i'r gwrthwyneb hefyd – yn cael ei lwyr gyflyru gan y cyferbyniadau hyn, gan mai trefn sy'n diffinio anhrefn, ac unedau systemaidd o fewn unedau systemataidd. Ceid deddfau ym mhobman hyd yn oed mewn caos ac wrth gwrs *adeiladu*. Y rheini oll a ffurfiai Dafod y Llenor, boed yn Moses neu'n Paul, ac adeileddeg ym mhob peth. Doedd dim damweinioldeb mewn dim. Roedd achos ac effaith yn wedd ar adeiladwaith meddyliol y Dengair Deddf ac yn Nhrefn y Cadw, y ddau begwn mawr i'r ysbryd, a dirnad ac amgyffred yn gwneud deall, a disgyrchiant yn rhan bwysig o'r Cwymp. Sôn yr wyf am adeiladwaith anochel y meddwl dynol.

Perthynai iaith a llenyddiaeth i'w gilydd, felly nid yn unig mewn llenddulliau (genres), ac felly yn ffurfiau'r rhagenw mewn safbwynt storïol, megis diarhebion, salmau, llythyrau a hanes megis mewn trasiedi, comedi, a disgrifiad – eithr hefyd fe geid eu ffurfiau yn y meddwl isymwybodol drwy'r canrifoedd. Esblygodd y Gynghanedd hithau ar ei sail maes o law. [Ceisiais grynhoi 'ysgerbwd' holl theori cyfansawdd i drefn llenyddiaeth ac amlinellu symudiad pob meddwl

wrth lenydda (yn ddiddewis), a hynny mewn Tri Atodiad yn niwedd *Beirniadaeth Gyfansawdd.*]

Yr hyn dw i wedi ceisio'i wneud bellach yw cymryd yr egwyddor *cyfundrefn*, a holi am ei chywirdeb presennol ym mhob man. Cafwyd patrymau o'r fath ym mhob cornel. Ond, yn gychwynnol, bu'n rheidiol ceisio diffinio 'cyfundrefn' mewn modd cytûn.

Gellir cydnabod patrymau lawer iawn o ryw fath ym mron pob cornel o lenyddiaeth. Yr hyn sy'n angenrheidiol yw diffinio 'cyfundrefn' ar y dechrau *yn ôl yr enghraifft ar y pryd*. Yn achos y Gynghanedd neu'r Mesurau (seiniol) neu Lenfathau (lle y mae elfen ystyrol yn berthnasol), ymgyfyngir i chwilio a disgrifio'r systemau hynny *yn ôl adeiladwaith amser.*

Fel hyn y dechreuodd Guillaume ei ddarlith gynta yng nghyfres gwersi 1952-3: 'Seiliwyd gwyddoniaeth ar y sythwelediad neu ragdyb fod y byd yn y golwg yn llefaru am bethau cudd, pethau y mae'r hyn sy yn y golwg yn eu hadlewyrchu ond heb fod yn debyg iddynt. Mae'r fath sythwelediad yn ymddangos fel pe bai yna anhrefn mewn iaith sy'n cuddio trefn sylfaenol – trefn *ryfeddol.* Nid fi biau'r gair – ond Meillet mawr [*yr ysgolhaig ieithyddol-hanesyddol mawr*] a sgrifennodd fod "iaith yn defnyddio cyfundrefn lle y mae popeth yn ffitio i'w gilydd ac yn meddu ar batrwm llym a rhyfeddol".'

Carwn i bwysleisio bod ymchwil neu fyfyrdod Guillaume wedi bod yn gyfan gwbl ym myd cyfundrefnau morffemig, gyda phwyslais ar ystyr, ynghlwm wrth arwyddocâd geiriadurol a gramadegol. Geiriau yw'r trosiadau lle y mae'r ystyron mewn perthynas yn wyrol i'r llythrennol, dan reolaeth y bardd, fel y mae'r gynghanedd yn gyfundrefn estynedig effeithiol i'r seiniau potensial cychwynnol. Ond mae yna drefn a threfnu sy'n gyneiriol ac yn gyffredinol yn yr isymwybod.

Dw i wedi ychwanegu term arall i derminoleg Guillaume er mwyn pennu bannau'r broses yn fwy croyw. Sef *Cyn-dafod.* Enwa Cyn-dafod egwyddorion sy ar gyfer pob iaith ond yn annibynnol ar ieithoedd unigol a chyn iaith. Mae'r egwyddor 'absennol-presennol', neu 'sŵn-tawelwch', neu 'unigol-cyffredinol' ac eraill yn egwyddorion syml i bob iaith, er eu bod y tu hwnt i 'iaith', yn ymarferol bob dydd. Ond mae pob 'Tafod-Mynegiant' (sef Langue-Discours) unigol ac effeithiedig yn perthyn i iaith unigol. Cyn-dafod yw'r cyflwr mwy cyntefig sy'n trafod pob iaith gyfundrefnedig mewn digwyddiad. Cyn-dafod yw'r egwyddorion i bob iaith. Tafod a Mynegiant wedyn yw'r hyn sy'n tyfu yn yr iaith unigol.

A oes perthynas rhwng Strwythuraeth Ieithyddol a ffenomen Cerdd Dafod?

Mewn iaith unigol, fel y'i gwêl Guillaume, ceir yr elfen gudd fewnol 'Tafod' yn y meddwl yn botensial deall yn barod i'w defnyddio ym mhroses ystyrlon Mynegiant llenyddol, drwy batrymau cudd. 'Tafod', mewn ieithyddiaeth, yw'r drefn feddyliol sydd drwy ramadeg iaith yn rheoli adeiladwaith brawddegau. Ond yr hyn a glywir mewn harmoni cynganeddol yw patrymau haniaethol a chyfundrefnol ar waith o fath ychydig yn wahanol. Y rhain sydd yn y meddwl i esgor

ar seiniau corfforol. Wrth archwilio'r patrymau neu'r systemau a geir yn hanesyddol o gyfnod i gyfnod mewn amser i'r gynghanedd, canfyddir newidiadau diddorol yn y patrymau, a chysondeb. Gwelir mai'r 'mesurau' sy'n rheoli'r gynghanedd; hynny yw, *yr acenion sy'n trefnu'r cytseiniaid a'r llafariaid.* Wrth archwilio'r patrymau neu'r systemau hyn yn hanesyddol o gyfnod i gyfnod mewn amser, canfyddir megis yn hanes iaith ei hun, fod yna newidiadau'n digwydd yn y patrymau, a chysondeb. Mae angen chwilio pa weddau a newidir yn y cyfundrefnau – mewn amser – o Ogynghanedd i Gynghanedd, o Fesurau'r Gogynfeirdd i Fesurau Beirdd yr Uchelwyr, o Batrwm penilliol i Batrwm penilliol. Gellir eu holrhain a cheisio sylwi sut (a pham weithiau) y mae'r newidiadau anfwriadus isymwybodol yn gweithio. Un her sy'n wynebu beirniad llenyddol o Gymro cyfansawdd yw'r ymholiad beth a gaiff sy'n sylfaen wrth astudio Cerdd Dafod.

Fel y dywedodd Guillaume (1992), 'gan ddechrau gyda'r canlyniadau a ganfyddir gellir olrhain y prosesau esgorol, ac mewn geiriau eraill, dod o hyd i'r prosesau meddyliol sy'n arwain at y broses y mae'i derfyn yn ganlyniad a ganfyddir.'

Mae'n ymddangos fod olrhain adeiladwaith seiniol iaith yn y teulu Ewropeaidd yn gytsain (gyda chaledu neu gymathu) a llafariad (gyda phroestio ac odli) ac acen (rhagacen neu brif acen neu'n ddiacen) yn ymestyn i mewn i gyfansoddiadau cynganeddol. Mae'r hyn sy'n cyflyru'r iaith yn gynhenid seiniol yn effeithio ar offeryn y bardd yn gynganeddol. Ceir patrymau unol, deuol, a thriol yn wedd ar adeiladwaith eu trefn, ynghyd â'r ysfa honno i gyffredinoli, sy'n gorwedd y tu ôl i bob gair. Tyf y gynghanedd allan o'r hedyn cnewyllol.

Mae iaith yn fwy o lawer na chyfathreb. Mae'n offeryn meddwl, a ffenomen yw hi ynddi'i hun y gellir ei dadansoddi'n unedau geiriol a hefyd yn unedau llinellol (neu frawddegol). Ystyr yw calon yr iaith: seiniau yw ei hesgyrn.

Yr hyn y ceisiais i ei awgrymu ar sail gwaith Guillaume a'i ddilynwyr oedd gwahuno (i) Cyn-dafod, (ii) Tafod ar waith mewn llenyddiaeth (Tafod y Llenor), a (iii) Archwilio Mynegiant y Llenor. Gan mai cysyniad newydd yw Cyn-dafod, fe ddylwn ychwanegu ychydig pellach yn ei gylch. Dyma ffynhonnell iaith a ffurfiau llenyddol: hanfod di-iaith cyfundrefneg yw sy'n eu rhagflaenu. Dull di-iaith yw sy'n gyffredinol i bob iaith o egwyddorion sy'n sail i bob iaith, gyda gwahaniaethau dirfawr rhwng teuluoedd ieithyddol.

Treuliodd Guillaume ei fywyd i drafod y cyfundrefnau unigryw a luniodd Roeg, Lladin a Ffrangeg yn bennaf, ond dechreuodd awgrymu bod yna ddosbarthiad ar gyfer ieithoedd y byd i gyd, ac y gellid cyferbynnu tri theulu enfawr o ran cyfundrefneg ystyr a sain, sy'n driawd o ffurfiau dosbarthedig cryno. Hynny yw, yr oedd yn rhagdybio bod gan bob iaith ei chyfundrefneg ei hun i ddadansoddi bywyd, a'i ffordd o greu perthynas; ac mae'n siŵr ei fod yn llygad ei le mai, *wedi* iddo fynd at y gwahaniaethau llwythog niferus, y gall dyn eu dosrannu'n rhanbarthau (*aires* drwy gydol y

ddaear) ar lefel uwch-unigol. A hynny oedd y ffordd briodol i nesáu at y broblem, nid sefyll yn ôl i archwilio'r darlun mawr 'gorffenedig' cyn mantoli'r enghreifftiau wedyn.

Mae gan bob iaith ramadeg sy'n cynnwys yn ei datblygiad yr hyn a ddigwyddodd heb fod yn ymwybodol i'w siaradwyr. Enwaf res o bynciau. Yn y Gymraeg, gwyddom oll am y gyfundrefn gwrywaidd/benywaidd mewn enwau ac ansoddeiriau (ond ceir cenedl gyffredinol hefyd mewn berfau, sy'n ddi-ryw megis 'gwelir' a chyfuniad o wrywaidd a benywaidd megis 'gwelant', – nid 'amhersonol' fel y myn rhai, gan fod y person yn lluosog). Yna, sylwn ar yr unigol yn y ferf gyda'r lluosog yn y goddrych: fe ddwedodd y bechgyn.

Gwyddom am dair gradd gymharol ansoddeiriau, ond mae ansawdd y drydedd radd yn wahanol i ansawdd y ddwy arall: dyw rhif ddim mor benodol wrth sôn am y 'tal*af* (gradd eithaf) o'r *ddau* fachgen'. Sylwn hefyd ar unigol yr enw ar ôl rhif. Gwyddom am ddau rif gramadegol wrth luosogi enwau: bachgen a bechgyn; ond mae yna olion o *ddeuol* rhwng yr unigol a'r lluosog a arhosodd e.e. yn y Llyfr Gweddi Gyffredin – 'Y ddeuddyn bresennol hyn; enwau lleoedd fel Yr Eifl, Y Gyrn Las, Y Wernydd, ac fe rydd *Welsh Grammar,* John Morris-Jones 'deurudd, dwyfron, dwylo, y ddwy wragedd rywiog, dau wyddel fonllwm.' Ceir saith ffordd o lunio adeiladwaith lluosog allan o unigol, (er mai ychwanegu sillaf -au sy'n fwya cyffredin). Hynny yw, bydd cyfundrefnau pwysig yn amrywio o iaith i iaith ac o gyfnod i gyfnod.

Llai amlwg yw ffurfiau o'r fath rhwng llenyddiaethau. Ond yn y Gymraeg, mae ffurfiau fel yr englyn, yr awdl a'r cywydd, heblaw acen ac odl, yn enghreifftiau pur ganolog sy'n cynnwys amrywiadau cyfnodol arwyddocaol.

Gwelir bod ffurf a natur cyfundrefnau yn gallu amrywio yn eithriadol o helaeth. Ond yn y pen draw, yr hyn sy'n bwysig o safbwynt llenyddiaeth yw ateb y cwestiwn: beth yw gofynion cyfundrefn? Sut yr esgorwyd, nid ar y gyfundrefn unigol, eithr yn egwyddorol ar bob cyfundrefn, ar y ffenomen o gyfundrefn? Beth a ddiffiniai'r gyfundrefn gyffredinol cyn i'r unigolyn fod? Beth yw'r ffynhonnell? Pa egwyddorion a'i gwnâi? Sut a pham, yn ogystal â pha bryd? Mae hyn oll yn cyflyru'r canlyniad.

Daw yn fwyfwy amlwg fod a wnelom â haenau neu â lefelau o feddwl, yn enwedig pan symudwn at lenyddiaeth hanesyddol gymharol fydeang, fel y dysgwyd inni gan H. Munro Chadwick. (Ceir y dehongliad gorau a diweddaraf o'i fantoliad, yn *H. M. Chadwick and the Study of Anglo-Saxon, Norse and Celtic in Cambridge,* gol. M. Lapidge, Adran y Gymraeg, Aberystwyth, 2015.)

Rhoddais yr enw 'Cyn-dafod' ar y lefel i ragdybied cyfundrefn ryngwladol y tu ôl i bob iaith

fel ffenomen. Felly: –

1. **Cyn-dafod:** Y gwth i adeiladu Tafod, yr awydd am drefn, y peirianwaith ar gyfer y cyffredinolrwydd o weithredu dynol ei hun mewn 'iaith'; cyn-iaith sy'n offer ar gyfer pob dadansoddi gramadegol o fewn cyfundrefn, ac ym modolaeth cyfundrefn; y Gair fel egwyddor.

2. **Tafod:** Y lefel o'r golwg mewn ieithoedd unigol, y peirianwaith ei hun yn y meddwl nas clywir, e.e. y cyfundrefnau yn y meddwl sy ar gael ar gyfer pob berf reolaidd, neu'r rhannau ymadrodd traethiadol ar gyfer llunio brawddeg normal, sef fframwaith brawddeg; y gair mewn potensial.

3. **Mynegiant, Parole, Discours:** Y lefel a lunnir yn y golwg, yr undodau gorffenedig a glywir; y gair a'r frawddeg yn effaith ar waith, a'r brawddegau.

Yn y gychwynfan, mewn Cyn-dafod, cawn rywbeth 'cyntefig', hynny yw 'tarddiadol' i'r ffenomen o iaith ei hun. Yn y fan hon mae'r egwyddorion sythwelediadol o gyferbynnu yn allieithyddol, ym modolaeth cyfundrefnau drwy gydol natur. Dyma'r ffaith fod cyfundrefnau i'w cael o gwbl yn y galaethau, yn y fodolaeth gyffredinol mewn bywyd, mewn DNA, mewn celloedd gwaed, mewn fformiwlâu cemegol, mewn organau. Ac nid y cyfundrefnau unigol eu hunain oedd y rhain, ond yr hyn a'u creodd o gwbl mewn trefn a ragdybiwyd: y cyn-gyfundrefnol, yr elfennau a'r egwyddorion i'w defnyddio. Prentiswaith cyfyngedig iawn oedd *System in Child Language* 1970. Fy ymgais gyntaf i gymhwyso theori ieithyddol Guillaume i lenyddiaeth oedd y gyfrol wedyn *Tafod y Llenor,* 1974, a gyflwynwyd i Jac a Gwyneth. (Yr Athro Jac L. Williams fu fy mhennaeth yn ystod y blynyddoedd y bûm i yn yr Adran Addysg.) Fy nod wedyn a darddodd yn y gyfrol oedd ceisio gweld a oedd ffenomen debyg mewn theori lenyddol hefyd i'r theori ieithyddol 'Psycho-systématique du langage.' Roedd y term Cymraeg 'Tafod' yn cyfateb i'r cyntaf a ddefnyddiai Gustave Guillaume yn y deuawd 'Langue–Discours' (Tafod–Mynegiant). Roedd y term 'Gwersi' yn yr is-deitl 'Gwersi ar Theori Llenyddiaeth' yn cyfateb i'r term cyntaf yn y teitl a roddodd Guillaume i'w gyfres o nodiadau darlith, *Leçons de linguistique,* a gyhoeddwyd mewn pymtheg cyfrol rhwng 1971 a 1997 ... Dyna fu'r disgybl wedi troi'n ddynwaredwr.

Yn fy nghyfrol ym 1974, roedd calon fy nhrafodaeth, sef tair adran Ffonoleg, Morffoleg, a Semanteg wedi ceisio gwyro Beirniadaeth Lenyddol i gynnwys materion a oedd yn ieithyddol berthnasol. Fe gynhwysai Ragymadrodd a rhai egwyddorion ar ffurf 'Cyferbyniadau' a oedd yn egluro Methodoleg tair pennod graidd y drafodaeth. Ar ôl y tair adran gynhaliol, ceir math o gasgliad 'Beth yw llenyddiaeth' ar ffurf diffiniad.

Fforio arloesol y pryd hwnnw oedd yr ail gyfrol *Tafod y Llenor* ar gyfer gosod i lawr sylfeini posibl i adeiladu cyfres o ddarlithiau yn Adran y Gymraeg ar Seico-systemateg, gan ddefnyddio'r un fethodoleg. Ond erbyn hyn yr oeddwn wedi dod i'r casgliad bod y fframwaith deuol a gafodd y flaenoriaeth ynghynt yn awr yn cymryd strwythur triol gan symud yn amseryddol o'r chwith i'r dde:

Tafod _____________Cymhelliad_____________Mynegiant

Ac yr oedd Ffurf a Deunydd yn undod cydlynol traddodiadol, gydag enghreifftiau lluosog o gyfnodau gwahanol yn ein llenyddiaeth bob amser yn cydio theori wrth ymarfer. Fe gyhoeddwyd cyfres fer o gyfrolau, *Seiliau Beirniadaeth* I 1984, II 1986, III 1987, IV 1988 i gyfleu'r datblygiad meddyliol hwn yn y theori ar ffurf nodiadau i fyfyrwyr y Radd Allanol. Ceid amryw bwysleisiau newydd, megis yn y bedwaredd gyfrol ar theori 'cyfanweithiau' (neu '*genres*', sef llenddulliau).

Un o'r hunllefau poenus sy'n plagio beirniad sy'n gogwyddo tuag at 'theori' yn weddol gyson yw'r angen bythol i ganolbwyntio ar lenyddwaith penodol unigol o faintioli. Yr awydd hwnnw a'm prociodd i lunio cyfrol fach gymharol gytbwys ar un o gampweithiau mwyaf adnabyddus o ganol oesoedd llenyddiaeth Gymraeg. Fe gymerais *Tair Rhamant Arthuraidd;* a'r cydbwysedd yr anelwyd ato oedd adeiladu fframwaith beirniadol a gynhwysai Ffurf, Cymhelliad, a Deunydd.

Yn y gyfrol fechan honno yn y gyfres *Llên y Llenor,* dyma'r patrwm a fabwysiadwyd:

A. 1. Rhagair: cefndir y Tair Rhamant

2. Fframwaith Beirniadaeth Gyfansawdd

B. 3. Deunydd Tafod

4. Cymhelliad Tafod

5. Ffurf Tafod (Dulleg)

C. 6. Deunydd Mynegiant (cyfrifir Mynegiant yn ben draw i'r cydbwysedd)

7. Cymhelliad Mynegiant

8. Ffurf Mynegiant (Arddulleg): gyda dyfyniadau helaeth o'r gwaith unigol

CH.9. Casgliad: Y campwaith cyflawn llenyddol hwn (y triawd o dair rhamant) yng nghyd-destun y cyfnod Normanaidd yng Nghymru.

Fe wêl y cyfarwydd ymhle y mae Guillaume yn pwyso yn y fframwaith hwn.

Yn y gyfres gennyf sy'n ymwneud â theori llenyddiaeth, cafwyd trydydd cam, sef y theori yn y man mwyaf aeddfed a sefydlog a gyrhaeddais, sef (maes o law) *Beirniadaeth Gyfansawdd,* 2003,

lle y ceir adeiladwaith bwriadol debyg i *Tafod y Llenor* 1974, ond gyda Rhagymadrodd 2003 sy'n ailysgrifennu'n wahanol y datblygiad o fethodoleg dadansoddiad ac o theori triol y 'gwahuniaeth' a gyfrifwn yn gyfundrefnol ddeinamig mwyach. Wedyn, ceir tair adran, y tair gwedd y mae angen eu cyfosod o hyd: (1) Tafod y Llenor, (2) Cymhelliad y Llenor, a (3) Mynegiant y Llenor. Wrth ddechrau gyda Thafod y Llenor, byddem ni wedi cael cyflwyniad unochrog, gan orbwyso ar Dafod. Bellach, wrth geisio'r cydbwysedd mwy cyfansawdd, bu rhaid blaenosod Cymhelliad. Fe wnaethpwyd hynny'n gyntaf yn y ddwy gyfrol *Llên Cymru a Chrefydd* 1977 a *Cyfriniaeth Gymraeg* 1992, mewn llenyddiaeth grefyddol; wedyn, fe'i datblygwyd yn y gymdeithas ac yn *Ysbryd y Cwlwm* 1998 gyda'r olaf yn dwyn yr is-deitl 'Delwedd y Genedl yn ein Llenyddiaeth'. Cyfeiriai'r gyfres hon at y ddwy thema gyson a bywydol a gafwyd yn ein hanes fel cenedl, sef y gwth crefyddol a'r gwth cymdeithasol Cymreig. Ac yna, ceir dwy gyfrol, *Mawl a'i Gyfeillion* 2000 (sy'n dadlau mai Mawl a fu'n rhuddin cadarnhaol i asgwrn cefn y traddodiad Cymraeg) a *Mawl a Gelynion ei Elynion* 2002 sy'n gosod cryndod Mawl o fewn cyd-destun Ôl-foderniaeth yn niwedd yr ugeinfed ganrif. Dyna ni wedi ymdroi gyda Thafod a Chymhelliad. Ond Mynegiant yw prif faes beirniadaeth lenyddol yn yr ugeinfed ganrif. Ni ellid ac ni ddylid ei esgeuluso. A dyma'r ffordd arferol y bydd beirniaid Cymru yn cymryd eu beirniadaeth lenyddol. Mae'n ffordd anrhydeddus. A rhan o ngwaith fu ceisio rhoi sylw i hyn yn ymarferol, megis yn *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936,* 1987, a *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972,* 1975. Fe fu'r ddau gyfnod yn cynnwys dathliad cymhleth o ryw fath o Gristnogaeth ac o Gymreictod.

Ni wn a lwyddais i sefydlu unrhyw atebion cadarn i'r nod a osodais i mi yn hun. Ond dechreuais gymryd un broblem ffurfiol i'm dull o feddwl, un enghraifft gymharol gyflawn i roi'r theori ar brawf, sef drwy droi'r Gynghanedd yn bwnc Cymreig iawn a wynebai'r theori. Mae'n debyg na fyddai neb yn gwadu mai strwythur yw unrhyw linell o gynghanedd. Dyna'r rheswm i mi geisio cymhwyso ati fy theori i o seico-systemateg ffurfiau llenyddol. Ac os strwythur fyddai, yna fe ellid ei dadansoddi a'i chysylltu â hyd ac acenwaith y llinell. Ceisiais ddehongli hyn ym *Meddwl y Gynghanedd.* Ond fe ellid mynd ymhellach na hynny. Fe ellid dadansoddi a disgrifio llinellau'r Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd, a'u cymharu â Beirdd yr Uchelwyr. Wrth chwilio am dermau i ddisgrifio'r gwahanol gyfundrefnau a geid yn y rheini, fe ddadleuwyd bod yna wahaniaeth rhwng llacrwydd Mynegiant un cyfnod, yr Ogynghanedd lac, a thyndra'r cyfnod wedyn, y Gynghanedd dynn.

Ond fe geid un ffenomen yr oedd y beirdd eu hunain wedi sylwi arni, ac wedi gweld ffin yn y fan honno, sef moeseg ysbrydol, rhwng y da a'r drwg, y cywir a'r anghywir – termau anghyfarwydd mewn beirniadaeth ramantaidd, termau diwinyddol, maes y tu hwnt i weithgaredd

Guillaume. O'r herwydd, i mi, un o'r ffenomenau mwyaf diddorol mewn cynghanedd a'i mesurau yw'r 'beiau', gan fod eu bys yn pwyntio tuag at yr isymwybod gwerthoedd oedd gan y beirdd, heb yn wybod iddynt, hyd yn oed mewn ffurf seiniol. Roedd ceisio disgrifio'r isymwybod hwnnw'n anturiaeth, a'r archwiliad o batrwm acennu yn arbennig o gyfareddol yn fforiad *Meddwl y Gynghanedd.* Hynny yw, roedd yna fath beth â Beirniadaeth Lenyddol Gymreig.

Bid a fo am hynny, 'fuaswn i byth wedi mynd ar ôl hynny o faes o gwbl oni bai i Gustave Guillaume nofio i mewn i'm bywyd. Mi ddaeth. A heddiw o hyd, mae yn pwyso dros f'ysgwydd, ac yn dweud: 'Fe ddylech wneud yn well na 'na.'

## DROS F'YSGWYDD (6)

## WILLIAM FRANCIS MACKEY

Siom fûm i ym mryd W. F. Mackey. A'm dewis i oedd hynny. Roedd gen i ryddid a hyd yn oed anogaeth i wneud fel arall, fel y dylwn i fod wedi'i wneud.

Ond siom oeddwn, a hynny ym mryd un a fu'n wir gymwynasgar i mi. Roedd ef wedi mynd dros ben llestri i fod yn garedig tuag ataf i.

Pan benderfynais i fy mod i'n mynd i dreulio blwyddyn sabothol (1963) yn Québec, anfonais i lythyr at W. F. Mackey. Ar ôl treulio sawl blwyddyn yn y Gyfadran Addysg yn Aberystwyth yn astudio'n llawn-amser iaith plant, graddio iaith, a didacteg iaith yn gyffredinol, ac ar ôl darllen cannoedd o erthyglau a dwsinau o lyfrau, roeddwn i wedi sylwi fod un enw, enw Mackey, yn ailymddangos yn gyson ymhlith yr enwau a'm denai i yn y panorama cydwladol. Ymddangosai i mi mai ef oedd wedi arloesi yn y modd mwyaf cytbwys a chall yn rhyngwladol. Un oedd a arolygodd holl rychwant y maes dyrys yn drefnus, ac a oedd yn clymu egwyddorion ystyriol wrth y dasg o lunio gwersi ymarferol. Roedd yna ganolfannau eraill a bwysleisiai un wedd ar ddidacteg, a hynny'n ddigon cynhwysfawr; ond gan Mackey, dybiwn i, y gwelwn i'r math o feddwl eclectig a arolygai'r maes oll yn fwyaf catholig.

Roedd e'n gweithio yn Québec mewn prifysgol lle yr oedd pum adran ieithyddol, sef pum cadair mewn agweddau gwahanol ar astudio iaith.

Anfonodd lythyr ataf i yn amlinellu sut y gallwn ffitio fy ymchwil i i'r math o waith a oedd ar y gweill yn Québec, sut y gallwn gymryd rhan yn y tîm didactig a oedd acw. Addawai y byddai'n helpu hefyd i ddod o hyd i breswylfa resymol ar gyfer fy nheulu oll am flwyddyn, a'm cyfarwyddo sut y gallwn ennill peth arian o fewn y Brifysgol i gynnal y teulu er mwyn ateb anghenion yn y cyfnewid arian annifyr rhwng Cymru a Québec.

Ar ôl glanio, fe drefnodd fod rhywun yn cyfarfod â ni, ac yn ein hebrwng i'n preswylfa yno. Yn fuan wedyn, er mwyn cael sgwrs wyneb-yn-wyneb, fe aeth Mackey â mi i un o'r bwytai mwyaf moethus yn y ddinas, a darparwyd gwledd o *escargots* i fi. Gwyddwn fy mod i yng Nghanada Ffrangeg bellach.

Buan y gwelais fod y ddarpariaeth academaidd hefyd yn galonogol ddelfrydol, gan agor sawl llwybr buddiol nad oeddwn wedi'i ddisgwyl. Ysgol Ymchwil ar gyfer ôl-raddedigion oedd ganddo yno, ar raddfa na wyddid amdani ym Mhrydain.

Gwnaeth ef bopeth y gallai i'm croesawu i, a threuliais flwyddyn eithriadol o fuddiol yn

Québec, cyn dychwelyd yn hiraethus i Gymru.

Yn fuan, ymhen blwyddyn wedi dod yn ôl i Aberytwyth, fe ges i sioc: fe dderbyniais ganddo wahoddiad i gymryd cadair bersonol mewn iaith plant ac mewn graddio iaith yn ddidactaidd. Roedd yr amodau oherwydd cyfnewid ariannol yn bedair gwaith cymaint ag a dderbyniwn i yng Nghymru. Ac roedd Mackey wedi mynd i drafferth aruthr i ddod o hyd i adnoddau ariannol i sefydlu cadair ymchwil i mi.

Gwrthodais i, wrth gwrs. Synnwyd ef. Roedd ef wedi gwneud ymdrech weinyddol fawr iawn i gael lle i mi. Byddai fy ngwaith beunyddiol yn cynnwys prosiectau ymchwil yn ôl rhaglen o'm dewis i fy hun (gan gynnwys ambell brosiect o ddiddordeb Cymreig), yn ddelfrydol felly, gan ffitio'r cwbl o fewn cynllun gwaith cydweithredol yn ei Ganolfan Ddwyieithog Ryngwladol, (yn gysylltiedig â Phrifysgol Laval); a dyma finnau wedi'i wrthod yn syth union heb gymryd digon o amser i'w ystyried. Allwn i byth egluro iddo ef nac i neb, er imi'i geisio, sut roedd Cymro ymrwymedig i'w wlad, a honno mewn cryn argyfwng ieithyddol, yn gallu teimlo, wedi bod allan o'i libart am flwyddyn.

Sut bynnag, digiodd ataf. A theimlwn i fod yna fwlch diadfer wedi'i sefydlu rhyngom. Fe fu blynyddoedd o dawelwch rhyngom wedyn. Yn wir, collais i gyfaill.

Ond roedd gormod wedi digwydd rhyngon ni'n dau. Roedd e wedi gadael ei ôl arna i. Dechreuodd ei ddylanwad ymddangos ac ymestyn dros f'ysgwydd am flynyddoedd. Dw i'n sylweddoli, hyd yn oed nawr dros hanner canrif wedyn, fod llawer o olion ei waith e wedi gadael argraff hollol annileadwy arnaf.

Ond roedd yna waeth i ddod, o safbwynt ein perthynas. Yn fuan ar ôl inni ddychwelyd i Gymru, daeth swydd Gwenallt yn wag yn Adran y Gymraeg, a'm hen gariad, sef llenyddiaeth, yn f'atynnu i o'r tu ôl i'r ysgwydd. Cefnais ar fy nyletswydd ymchwil ar adfer yr iaith, yn y Gyfadran Addysg. Llithrais i le Gwenallt. Gadewais waith ymchwil ym maes Ieithyddiaeth yn gyfan gwbl. Llenyddiaeth fyddai fy ngwaith mwyach – yr ugeinfed ganrif, ffurfiau llenyddol, a chyflwyniad i 'Bannau Hanes Llenyddiaeth' i'r flwyddyn gyntaf. Ond gofynnais i'm pennaeth newydd, Thomas Jones, a gawn i barhau fy niddordeb ymchwil mewn didacteg mewn un ffordd yn yr Adran drwy gymryd un wers ymarferol gyda'r Dysgwyr drwy gydweithredu â chwrs fy nghyfaill Tedi Millward. A chytunodd.

Felly, eto, acw roedd e o hyd: Mackey'n dal dros f'ysgwydd yn pigo fy nghydwybod.

Pan ddeuthum i'r gadair Gymraeg yn Aberystwyth, maes o law, fe ddaeth hen hiraeth ail-iaith yn ôl drachefn; sylfaenais i Fudiad Cyd tua 1979 fel prosiect o fewn yr Adran. Erbyn hyn, yr

wyf yn dal ati gyda Beti (bron deugain mlynedd wedyn) a chriw o ffrindiau da a chadarnhaol i gynnal grŵp wythnosol lle y gall caredigion i ddysgwyr (sef dyrnaid o siaradwyr rhugl) roi cyfle i ddysgwyr ymarfer yr iaith. Fe gawn bobl o lawer gwlad – Bangkok, Ariannin, Llydaw, Pwyl, (a chan amrywio o wythnos i wythnos – drwy fyw yn Aberystwyth – neu symud oddi yma,) dros gyfnod o ddeugain mlynedd. Sefydlais yn yr Adran gwrs gyda thiwtor penodedig ar 'adennill yr Iaith,' yn gefndir, a thrwy CYD bu modd ein cysylltu fel Adran â'r gymuned. Dyw sefydlu cwrs o'r fath ddim yn rhywbeth y gellir ei wneud dros nos, yn sicr, gan nad oedd traddodiad na hyfforddiant mewn Didacteg yn y Gymraeg yn gefndir ym Mhrifysgol Cymru o gwbl i'r sawl a ymgymerai â'r fath gwrs yn academaidd. Ond roeddwn i eisoes wedi cyhoeddi rhwng Medi 1962 a Mawrth 1963 gyfres fisol, ysgrifau ar 'Theori Dysgu Ail Iaith.' Yn sgil y rheini, cyhoeddwyd cwrs *Cymraeg i Oedolion* I (1965) a II (1966). Wedyn, a minnau yn Adran y Gymraeg, ar y cyd gyda Megan Roberts fe luniwyd *Cyfeiriadur i'r Athro Iaith* I, II, III (1974, 1974, a 1979). A gobeithiwn o hyd y gellid adeiladu, yn feirniadol ar gefn y rheini oll, draddodiad newydd mewn rhyw Adran Gymraeg yng Nghymru, rhyw fath o adain a allai ffitio i mewn i batrwm rhyngwladol o astudio crefft ymarferol adennill iaith.

Yn hyn o ennill iaith roedd patrwm W. F. Mackey o hyd dros f'ysgwydd. Yn yr *Athro* mewn pum erthygl, Medi 1964-Hydref 1964-Tachwedd 1964, tt. 2-13, 48-54, 70-78 amlinellais gynllun y cwrs a gawswn i eisoes dan adain Mackey ym Mhrifysgol Québec. Sonnir yn erthyglau'r *Athro* am ddarlithiau ganddo ar baratoi gwersi gydag ymarferion yn ôl teipoleg ac anghenion dosbarthedig, dadansoddi cyrsiau wedyn gan diwtoriaid profedig, sut y mae mesur gwerth dethol, graddio cyflwyno cystrawennau a geirfa, crefft ailadrodd, sut y mae paratoi darn darllen yn ôl twf iaith y dysgwr; dadansoddi'r gwallau, a'u dosbarthu hefyd yn ôl twf iaith y dysgwr, yn ôl dulliau cyfadferol ailadroddol iacháu. Gobeithiwn fod hyn o gynllun yn awgrymu fframwaith.

Cyfyngedig iawn fu'r math hwn o baratoad, mae'n wir. Mewn gwlad sy mewn argyfwng fel y mae Cymru, bydd esgeuluso'r hyn sy'n digwydd *y tu allan i'r gwersi* yn eithafol o arwyddocaol, – yr iaith ar waith, y gweithgareddau i ddefnyddio'r iaith, ymarfer yr iaith gyda phobl go iawn. Ond ar ôl ymwneud â dysgu ail iaith er 1952, roedd yn amlwg i fi erbyn y 1980au fod *adennill iaith yn waith a oedd yn gofyn yn flaenaf ac yn sylfaenol am sefydlu a threfnu grwpiau gwirfoddol cymysg o ddwy ochr – dysgwyr mewn oed a siaradwyr rhugl* – sy am fod yn unol â llif adfer yr iaith eu hunain. Grwpiau gwirfoddol, wythnosol, rheolaidd, dros gyfnod o flynyddoedd, dyma'r ffordd orau i ddysgwyr dorri'r garw, ac i Gymry rhugl brofi adenilliad yr iaith yn aberthol ymarferol. Rhwyddach i seicoleg pobl ifainc yw protestio sydyn mewn criw 'uniaith'. Rhwyddach wrth gwrs i'r awdurdodau yw gorchymyn drwy ddeddf fod rhaid i arwyddion neu ohebiaeth fod yn y Gymraeg.

*Eithr ni newidir ewyllys gwlad drwy orfodaeth deddf.* Mae deddf o'r fath yn golygu presenoldeb cosb. Mae'n creu awyrgylch cas. Mae'n codi gwrychyn ac yn gwneud gelynion. Ni cheisiwyd erioed yng Nghymru, yn lle hynny, ddysgu crefft sefydlu grwpiau ymddiddan cadarnhaol. Nis rhoddwyd yng nghanol y cynllun adfer. Nid crefft rwydd yw hynny. Cariad sy'n adeiladu Cymru, nid casineb. Llawer haws yw 'chwyldroi' swnllyd yn y golwg. Golyga grwpiau cydweithredol gwir adferol o'r fath '*aberth'* gan y ddwy ochr; ond mi all fod yn hynod ddiddanus a hyfryd. Gellir gweld bron ar unwaith y canlyniad i'r fath ymarfer yn ddiriaethol. A gŵyr y dysgwyr mor gwbl bwysig uniongyrchol yw ymarfer yr iaith yn fyw – siarad mewn cwmni cyfeillgar.

Mae angen i bobl Cymru ennill cyfrifoldeb am ei dyfodol fel hyn drwy'i ymarfer yn agored nawr. Bathodyn o falchder gostyngedig yw bod yn rhan o fudiad ymarferol gwlad-eang lle y gellir cael cannoedd o grwpiau sgyrsio. A hynny a ddarparai'r sylfeini optimistaidd, cynyddol, a gweithredol i adfer yn y dyfodol.

Dyma, i'r academydd fel i aelodau eraill o'r gymuned, ffordd o feddwl sy'n adeiladol, ac i fod i lawr yn yr arena, yng nghanol yr ymgyrch. Mae'n Gymreig. Ni chafodd Mackey yntau erioed gyfrifoldeb na thueddfryd i adfer cenedl gyfan. Ni chafodd y canfyddiad o gymdeithas fel maes y gad, a chyfle i weddnewid dyfodol: roedd Mackey sut bynnag yn ei academeidd-dra yn Québec wedi ffitio addysgu iaith i mewn i gynllun gwaith y Brifysgol, yn academydd gwyddorol, nid fel rhan o ymgyrch i lawr mae'n wir yn y wlad ac yng nghanol y chwys a'r stryd, ond yn gwrs-gyfeiriedig broffesiynol o fewn Academia. Hyn dw i'n ei ystyried oedd ei gryfder a'i gyfyngiad. Phrofodd e erioed mo lawnder y cwestiwn seicolegol gymdeithasol o drechu israddoldeb sefyllfa'r meirwon cymdeithasol mewn hen wlad. Ond i ni, *cymdeithas* gefnogol ei hun yw mangre adfer iaith.

Un symudiad mawr ar gefndir America – yn yr ugeinfed ganrif ar raddfa gyffredinol, ac a oedd yn amlwg iawn yng Nghymru hefyd – oedd newid o ddull 'gramadeg a chyfieithu iaith lenyddol' yr hen fyd i ddull 'llafar i ddysgu siarad' heddiw. Roedd hyn yn hysbys yng Nghymru wrth gwrs, ond nid ar y lefel broffesiynol o ddwys raddio ar gyfer siarad. Golygai hyn lawer mwy o barch academaidd i ymarfer *llefaru.* I Mackey, a oedd yn glustdenau i ddatblygiadau bydeang, yr oedd arolygu'r cyrsiau diweddar yn Ffrainc, yr Unol Daleithiau, a Phrydain yn ddyletswydd. Golygai eu dadansoddi a'u beirniadu yn gwbl drwyadl, gan ateb cwestiynau megis: Sut mae asesu? Sut mae dethol geirfa? Sut y gellid graddio gramadeg? Beth oedd techneg arwain o *lecture expliquée* ymlaen i drafod llenyddiaeth? Pa fath o gymorth oedd teipoleg ymarferion o fewn grìd a ddihysbyddai amrywiaeth? Pa le sydd i lunio ac ymarfer patrymau? Pa chwaraeon iaith sydd fwyaf buddiol?

Ac yng Nghymru golygai hyn oll sefydlu model ieithyddol i'r 'iaith lafar ysgrifenedig'.

Mewn gwirionedd, mae pob gwlad yn wahanol, a phob un yn gorfod ymystwytho i ymgymhwyso yn ôl ei iaith a'i fframwaith cymdeithasol ei hun. Cafodd pawb a anwyd yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif eu dal mewn cyfnod o drawsnewid go unigryw. Yr her a ddigwyddasai ar ddechrau'r ganrif honno oedd sefydlu'r egwyddor mai iaith farw oedd iaith safonol John Morris-Jones. Wrth gwrs, mae pob iaith yn newid o gyfnod i gyfnod. Ond yr oedd hynny ar waith yr un pryd yng Nghymru ag yr oedd yr ymdrech – yn arbennig ymhlith rhyddieithwyr – i ddiweddaru orgraff a ffurfiau'r iaith fyw. Blinwyd am rai ffurfiau'n fwy na'i gilydd, rhai ohonynt wedi newid ers canrifoedd, rhai wedi aros heb eu datrys. Nodaf rywrai: yn lle 'maent hwy' bu rhaid cael 'maen nhw', yn lle 'fy nghyfrol' bu rhaid cael 'y nghyfrol i', a'r enwocaf ysywaeth – yr wyf i'n, rwyf i'n, rwy'n, ac yn dafodieithol dwi'n (dw i'n) w i'n, a.y.b.: dyma'r lle y mae 'dw i' yn ymddangos yn 'safon' bellach. Rhaid cyn-nodi'r egwyddorion dethol ar gyfer y ffurfiau mwyaf eang-effeithiol.

Problem ymarferol oedd hyn eisoes i nofelwyr a dramodwyr. Gofynnir weithiau am gyngor ynglŷn â'r broblem. Y gwir yw y cymer gryn amser i sefydlu cytundeb i ddau fodel o'r iaith lafar safonol, ysgrifenedig. Yn y cyfamser, bydd gwamalwch ac unigolyddiaeth bersonol a rhanbarthol (mae arnaf ofn) i batrymau sefydledig drylliedig yn parhau am rai blynyddoedd. Holir am arweiniad. A chyngorwn i mewn cryn gywilydd: peidiwch â gwneud môr a mynydd ohoni. Fe fyddwch yn anghyson, mae'n sicr; peidiwch â ffwdanu'n ormodol, o leiaf o fewn rheswm ac am y tro. Mae'r amrywiadau yn eich gwaed neu'ch isymwybod eisoes, yn yr ystyr eu bod yn rhan o'r cefndir darllen a brofwch yn feunyddiol mewn rhyddiaith storïol a dramâu, ac ar y cyfryngau. Fe geir anghysondeb a fydd yn anesmwytho darllenydd gofalus, wrth reswm. Dw i'n cyfaddef fy mod i'n feius iawn yn hyn o beth – oherwydd fy mod wedi sgrifennu cryn dipyn o farddoniaeth a rhyddiaith storïol a fu'n rhy geidwadol o ran y ffurfiau gramadegol. Nid yn unig hynny: oherwydd fy mod yn ymwybodol o'r pwyslais ar ddysgu iaith lafar ysgrifenedig i ddysgwyr, (hynny yw i adlewyrchu ar bapur ffurfiau llafar a chyweiriau naturiol, amrywiol dros gyfnod pryd roedd datblygiadau cynyddol mewn didacteg iaith), fe ddylwn i fod wedi gwneud yn well ac yn fwy cyson. Bu'r profiad i lawer yn ddryswch; ac erys o hyd ysywaeth. Dywedodd Aldous Huxley, (yn ei gyfrol *What You Will*): 'Y meirwon yw'r unig bobl hollol gyson.'

Yn y ffeil neu'r llyfr hwn ar y Wefan, yr wyf yn dra ymwybodol o'r gloddest o anghysonderau sy'n ei ddifwyno.

Yng Nghymru ar y pryd pan oeddwn yn efrydu yn Québec, ac am sbel wedyn, ac yn wir hyd heddiw – roedd yna ddwy ochr yn ein cymdeithas a oedd yn fudiadau gweithredol gwirfoddol, y naill yn fudiad protest ymroddgar, yn bennaf ymhlith pobl ifainc a hen, a'r llall yn fudiad hiramser

ymhlith pobl hŷn yn unplyg anwleidyddol. Roedd yna gyd-benderfyniad go eang yn y wlad fod angen adfer yr iaith. Ond doedd dim rheswm pam na allai'r naill ochr a'r llall wneud gwaith cytbwys.

Ar y ffrynt gwleidyddol Cymreig, cafwyd symudiadau ymhlith y 'sefydliad' ifanc a hen i Gymreigio arwyddion, Cymreigio atebion gan swyddogion ar y ffôn, a gohebiaeth. Cafwyd deddf a deddf a deddf i adnewyddu'r 'fro'. Bu tipyn o ymroddi aberthol. Wrth lenwi'r ffurflen dreth incwm gynt yn Gymraeg ar ôl ymgyrchu hir, cafwyd buddugoliaeth o fath i'r protestwyr; ond bellach mae protestio ynghylch ffurflenni'n weddol henffasiwn, a diflannodd y bastiwn cyhoeddus hwnnw i'r iaith, *heb adfer yr iaith.* Allanolion oedd y cwbl. Arhosai'r iaith o hyd yn y cyflwr enciliol. Cafwyd cynadleddau a phenderfyniadau ar bapur gyda rhestri hir o enwau gan bobl bwysig yn eu harwyddo.

Roedd llawer o blaid yr iaith. Ble awn ni nawr? Sylweddolwyd yn araf gan hyd yn oed gorff y boblogaeth fod colli'r bröydd *yn* digwydd, ac *wedi* digwydd, ac na ellid ymddiried yn unig yn llofnod pobl enwog a'u protest ddiddiwedd. Roedd yr angen i 'wneud rhywbeth' ein hun yn aros fel y dywedir yn slogan gobeithiol, ac ni ellid rhoi'r ddibyniaeth ganolog ar y 'gwneud' gan wleidyddion. Cafwyd rhai canlyniadau allanol a chyhoeddus er lles, – mân lwch y swyddogion optimistaidd. Cafwyd gan y Canolfannau Iaith lawer o ddosbarthiadau campus drwy drugaredd, a gweithgareddau achlysurol canmoliaethus a dychmygus. Roedd y fframwaith proffesiynol yn ei le. Ond para o hyd ac yn ddygn a wnâi'r dirywiad: gwasgwyd trwynau'r cymhleth israDD Cymreig i'r pridd o hyd, gyda mwyafrif y siaradwyr rhugl heb ymuno â'r cymwynasu trafferthus adenillgar. 'Amynedd sy eisiau,' meddai'r gwladgarwyr tra mad yn gynnes. 'Fe raddol dreiddia'r iaith yn ei hôl. Coleddwn ni draddodiad Cerdd Dant, a'r Eisteddfod. Mae gynnon ni ddysgwyr gwych. Efallai bydd y plant yn llacio'r straen. Allwn ni hwpo'r plant i fod yn athrawon i'w rhieni? Mae'r sefyllfa mewn rhai parthau'n well.' Ond mi fethwyd a methwyd o hyd, ddegawd ar ôl degawd, â rhoi bys ar yr ennill uniongyrchol gyda manylder. Mae'n syfrdanol y cyfartaledd ofnadwy o arweinwyr a goruchwylwyr a phrofwyr a geir gan yr awdurdodau swyddogol sydd heb ddim profiad yn y maes, yn wir yn gwbl anwybodus. Gêm fewnblyg fu'r cyfan.

Dyma'r chwech egwyddor Gymreig anochel o reidiol a ymddangosai'n fwyaf ymarferol o effeithiol o safbwynt mewnolion ymarferol:–

Gwaith gwirfoddol, yn ôl ewyllys pawb, yw adfer iaith, o safbwynt egwyddor ganolog.

Gwaith yw i'r Cymry Rhugl ac i'r Dysgwyr Ail Iaith ynghyd, i'r genedl yn grwn ar y cyd.

Gwaith hirdymor yw drwy anelu at Ymarfer â Sgyrsio, mewn cyfarfodydd rheolaidd.

Rhaid yw canoli ar benderfyniad optimistaidd o adeiladu ac *ychwanegu grwpiau* o hyd, gan

nad oes dewis.

Datblygu Canolfan Ymchwil Sefydlog.

Peidio ag ymgyfnewid ac amrywio'n rhy aml y Cynlluniau Iaith, a'r Cynlluniau staffio cenedlaethol mewn modd gwamal byramser.

Aethpwyd ddim hyd yn hyn i galon Cymru, ac yna i feddwl y cynllunwyr gweithredol, gwirfoddol. Erioed. Eto, mae yna un sefyllfa lle na ellir methu, sut bynnag, a hynny'n amlwg. Os sieryd Cymro rhugl â Chymro o ddysgwr (heb fod yn rhugl) sy am ymarfer â'r Gymraeg y mae'n ei dysgu, ni ellir llai na chynyddu bob tro, yn ddiderfyn. Tyf yr iaith honno bob wythnos. Gall unrhyw un drefnu'r rhain – nid y bobl drws nesa. Pe trefnid cannoedd o'r grwpiau ymddiddan rhydd a gwirfoddol hyn (mewn caffe, mewn capel, mewn swyddfa, yn y gweithle), a'u ricriwtio'n broffesiynol drwy bob math o hysbysebu ar 'drydar' y cyfrifiadur, ar y teledu, ar y radio, drwy bosteri a dalennau hysbysebu ac ailadeiladu gweithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr, gyda chefnogaeth frwd gan siaradwyr rhugl, yn rhwymedig drefnus, gellid creu cymdeithas hapus, gartrefol, gymdogol, gysurus, gampus. Dyna'r galon. Bydd y galon honno yn falch i gael cefnogwyr llai uniongyrchol. A bydd blaen y gad yn hyderus wedi cael y cefnogwyr yn pwyso dros yr ysgwydd. Ni raid i gyd-ymddidanwyr rhugl eu Cymraeg fod wedi'u hyfforddi: fe ddeuant o bob swydd, a heb swydd. Dyma'r bobl sy'n meddu ar drysor, a heb ddymuno ei guddio rhag eu cymdogion.

Yr un pryd, y mae angen sefydlu Canolfan Ymchwil yn genedlaethol sy'n ymarferol arwain yr ymgyrch drwy wasanaeth. Byddai honno yn ymwybod â'r datblygiadau cyfoes rhyngwladol. Rhaid cael urddas gwybodaeth.

Ond fe ddaw.

Y pryd hwnnw, gobeithio y cofir o hyd (mewn amgylchiadau lle y mae'r cyd-gyfarfod yn amlhau) fod proffesiynoldeb Mackey (neu rywun o'i galibr), a'i ymchwil academaidd, yn dal i bwyso dros ein hysgwyddau oll a'n hatgoffa fod angen gwneud ein gorau yn genedlaethol gaboledig o ran cwmpas, mewn cywair o 'Gymraeg i Bawb'. Mae'r gychwynfan – sef y dosbarthiadau – yn galon i'r holl symudiad. Ond fe ddeil yr *angen* yn barhaol am adeiladwaith strwythurol, amlweddog, cyson, y wlad yn gyffredinol ac yn uchelgeisiol fel amgylchfyd i'r gwirfoddoldeb. Ffolineb yw synnwyr y bawd yn unig mewn paratoi cyrsiau mewn cornel pan fo argyfwng yr iaith yn gofyn am hyfforddiant caboledig, a hysbysebu a threfn ym mhob tre a phentref. Dyw sôn am hyfforddi a gwirfoddoli ac am aberthu amser i ffrindiau ddim yn ffasiynol, ond dyw'r holl ffasiynau rhwydd eraill ddim yn werth eu cadw.

Ymlaen felly i broffesiynoldeb!

DROS F'YSGWYDD (7)

DEWI ZEPHANIAH PHILLIPS

Dyma'r ddadl fwyaf sylweddol ynghylch llenyddiaeth a gefais i erioed. Fe'i seiliwyd ar Y Ddarlith Lenyddol Flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Myrddin 1974. Cyhoeddwyd y Ddarlith mewn pamffledyn (tt 24) ar y pryd. Ond dechreuwyd y ddadl ei hun gan Dewi Zephaniah Phillips. Ganed Dewi yn Nhreforys ym 1934, ac felly roedd ef bum mlynedd yn iau na mi. Bu farw yn 71 oed yn Adran Athroniaeth Llyfrgell Prifysgol Cymru Abertawe. Cafodd yrfa fydenwog ac eithriadol o gynhyrchiol. Graddiodd ag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Athroniaeth. Wedyn dan gyfarwyddyd athrylithgar Rush Rees, ysgrifennodd draethawd M.A. ar y testun 'The Religious and Moral Conceptions of Duty'. Wedyn, aeth i Rydychen lle yr ysgrifennodd draethawd arall ar 'The Concept of Prayer,' eto o dan gyfarwyddyd (gyda chaniatâd arbennig y Brifysgol) Rush Rees.

Bu gan Ddewi, er pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg yr Esgob Gore yn Abertawe, ddiddordeb angerddol mewn llenyddiaeth, megis y dangosodd wedyn yn *R.S. Thomas Poet of the Hidden God,* 1986, *From Fantasy to Faith,* 1991 a 2005, a *Dramâu Gwenlyn Parry,* 1982 a 1995. Ar ôl ei farwolaeth yn 2006, cyhoeddwyd llyfr gwerthawr dros ben o'i eiddo yn Gymraeg, *Ffiniau,* 2008, sy'n trafod 'ffiniau' yng ngwaith llenorion a beirdd Cymru; ac yn y llyfr hwnnw, y mae'n dychwelyd i'r ddadl hir hon a fu rhyngom rhwng 1975 a 1985.

Meddai Merêd am y gyfrol: 'Dyma fyfyrdod ar lên Cymru sy'n unigryw ei ddull gan un o feddylwyr disgleiriaf a mwyaf cyffrous ein cenedl; gŵr o argyhoeddiadau cryfion, cwbl agored ei feirniadaeth a goddefgar ei fryd.'

Ar dudalen 6 yn y gyfrol *Ffiniau* rhestrir 23 o gyfrolau, sef y cyfanwaith mawr a'i gwnaeth ef yn un o bennaf athronwyr crefyddol y byd. Mae'n nodi cyfrolau megis *The Concept of Prayer* (1965), *Faith After Foundationalism* (1988), *Wittgenstein and Religion* (1993), *Wittgensteinian Fideism* (gyda Kai Nielsen 2005), ayb.

Dw i'n credu mai'r agoriad a gefais i unrhyw fath o drafodaeth rhwng Dewi a minnau oedd pan ges i wahoddiad i draddodi darlith ar y 'Gwirionedd' i gynhadledd Adrannau Athronyddol a Diwinyddol o Urdd y Graddedigion. (Fe'i cyhoeddwyd wedyn yn *Seiliau Beirniadaeth* Cyfrol 4, 527-547). Dewi a gadeiriodd y cyfarfod, ac roedd ganddo rywbeth i'w dweud ar y diwedd. 'Canu Gwirebol' oedd fy nhestun mewn gwirionedd, ond trafod yr oeddwn i'r berthynas rhwng Llenyddiaeth a llenddull y Gwirebau.

Mentrwn ddadlau ar y pryd mai gwaith athronydd yw meddwl am yr hyn sy'n ateb y cwestiynau – Beth yw gwirionedd? A oes gwirionedd? A sut y mae'r meddwl dynol yn ceisio

darganfod gwirionedd am bob pwnc dan yr haul? Fe ddychwelais i'r testun hwnnw mewn llyfryn bach arall ar y Wefan hon, sef *Canu Gwirebol a Wittgenstein* yn weddol ddiweddar.

Ond nid 'gwirebau' oedd y pwnc a gyneuodd yr union frwydr fawr hon rhwng Dewi a finnau, er mai darlith oedd honno hefyd, ym Mhabell Lên yr Eisteddfod Genedlaethol, sef *Beth yw Pwrpas Llenyddiaeth?* 1974. Ar ddiwedd y ddarlith, fe gafwyd trafodaeth swyddogol fywiog, a bu tawelwch. Doedd neb yn cytuno. Nid oedd Dewi yn bresennol ar y pryd.

Beth amser wedyn, heb yn wybod i mi, torchodd Dewi ei lewysau. Roedd yntau'n anghytuno'n llwyr. Yn sgil y ddadl hon, sut bynnag, fe gefais ffrind newydd, a braint: un oedd ef a edmygwn i'r eithaf. Roedd yn rhyfeddod o bersonoliaeth. Ef oedd y dehonglydd athronyddol gorau o'r safbwynt Ôl-fodernaidd yng Nghymru, er nad oedd yn mabwysiadu'r safbwynt hwnnw'n union. Roedd yn frwd ynghylch iaith a llenyddiaeth Gymraeg, ac yn awdur *Writers of Wales: J.R.Jones* 1995.

* * *

Dyma yn awr y Rhan Agoriadol neu Sylfaenol i'r Ddadl, a ymagorodd wedyn i gynnwys gweddau eraill: *Y Traethodydd,* Ionawr 1975, 10-44.

D.Z.P. 1: A ddywedech fod a wnelo eich darlith yn arbennig â llenyddiaeth?

Y rheswm am ofyn y cwestiwn hwn yw ei bod yn ymddangos i mi mai pryder ynghylch dirywiad credo grefyddol sydd bennaf dan sylw gennych. Gall ymorol am y dirywiad hwn nodweddu amryw weithgareddau, – fel diwinyddiaeth, athroniaeth, cymdeithaseg, anthropoleg, llenyddiaeth, etc. Byddai pwy bynnag a fynnai drafod pwnc dirywiad credo o safbwynt *unrhyw un* o'r disgyblaethau a nodais, yn cyfeirio at yr union syniadau a safbwyntiau a grybwyllir yn eich darlith chi. Am hynny, nid yw sôn am y syniadau hyn ynddo'i hun yn diffinio beth sy'n arbennig mewn ymdriniaeth lenyddol ohonynt. Yr ydych chi, mae'n wir, yn dewis enghreifftiau o lenyddiaeth. Ond byddaf finnau'n gwneud hynny wrth drafod cwestiynau ym maes athroniaeth foesol. Y pryd hynny byddaf fi'n wynebu'r cwestiwn beth sy'n arbennig i ymdriniaeth lenyddol. Er mwyn gwneud hynny buasai'n rhaid imi gymharu a gwrthgyferbynnu'r gwahanol ymdriniaethau. Fe ddaliwn i fod gofyn i chwithau wneud yr un peth lle mae llenyddiaeth yn y cwestiwn. Mae cwestiynau tebyg i hyn yn codi *o fewn* llenyddiaeth, wrth gwrs, wrth ystyried priod nodweddion ymdriniaeth â thema arbennig mewn cerdd neu mewn drama neu mewn nofel. Ond mae eich dull chi o gyflwyno'r mater yn anfoddhaol. Fe godwch y cwestiwn: Beth yw Pwrpas Llenyddiaeth? Yna fe'i hatebwch. Ond mae'r ateb a roddwch yn rhesymegol annibynnol ar lenyddiaeth. Mae eich ateb

crefyddol yn ddealladwy ac yn bosib ar wahân i lenyddiaeth. Am hynny nid yw'r ateb ynddo'i hun yn amlygu beth yw priod nodweddion ymdriniaeth lenyddol â'r ateb hwn. Gallesid traddodi yr un ddarlith, bron, gan eraill a goleddai'r un safbwynt crefyddol â chi, a rhoi'n deitl iddi, 'Beth yw pwrpas diwinyddiaeth?' 'Beth yw pwrpas athroniaeth?' 'Beth yw pwrpas bywyd?' Beth, felly, sydd gan eich darlith chi i'w ddweud yn arbennig am lenyddiaeth?

B. J. Carwn ddweud ar y dechrau mor hyfryd oedd derbyn eich deuddeg cwestiwn gogleisiol, a mawrygaf eich caredigrwydd yn myfyrio uwchben f'ychydig sylwadau yng Nghaerfyrddin.

Mae'ch cwestiwn cyntaf ar ffurf pôs neu wedi'i eirio'n ffansïol gan na ellid dangos tudalen o'm darlith nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â llenyddiaeth. Rhaid chwilio, felly, pam y gofynnwch y fath gwestiwn. A pha gwestiwn yn union y bwriadwch ei ofyn.

Fe ewch ymlaen i achwyn nad wyf wedi rhoi sylw i unigolyddiaeth lenyddol; ond nid dyna'r testun. Nid beth sy'n gwahaniaethu rhwng llenyddiaeth ac anthropoleg ac athroniaeth, ac yn y blaen, oedd pwnc y ddarlith o gwbl. Yn wir, yr wyf newydd gyhoeddi llyfr bach arall, sef *Tafod y Llenor,* ar yr union bwynt yna. Ond beth yw *pwrpas* llenydda?

Fel y gwyddoch yn burion (ac efallai mai dyna'n dadleufan), yr un pwrpas yn y pen draw (ym mryd Cristion) sydd i gymdeithaseg, anthropoleg, llenyddiaeth, athroniaeth, ac yn y blaen, sef adnabod, gwasanaethu a gogoneddu Duw. I feirniad llenyddol o Gristion, felly, rhan o'i waith yw cysylltu gweithiau llenyddol arbennig â'r *pwrpas* sydd y tu hwnt i'w waith unigolyddol ef, gweld y naill yn y cyd-destun ehangach.

Ceisiaf ddangos yn y man hefyd fod pob beirniadaeth lenyddol, hyd yn oed honno sy'n tybied nad oes iddi ragdybiau crefyddol neu ddiwinyddol, yn cael ei chyflyru gan y rhagdybiau diddianc hynny.

Fe ewch ymlaen, sut bynnag, i geisio gennyf ddangos y gwahaniaeth rhwng yr ymdriniaeth lenyddol a'r ymdriniaeth athronyddol – mater digon pwysig – ac yn y fan yma y mae dyn yn synhwyro beth oedd y cwestiwn cywir yr oeddech chwi am ei ofyn, sef *Beth yw* Llenyddiaeth? Cwestiwn arall yw hynny. Cwestiwn pwysig. A chwestiwn y ceisiais ei ateb yn fy nghyfrolau *Tafod y Llenor* a *Beirniadaeth Gyfansawdd.*

Ond yr hyn sy'n arwyddocaol yw un awgrym a wnewch yn sgil eich ple dros imi ymdrin â natur unigolyddol llenyddiaeth yn hytrach nag â'r cwestiwn a oedd gennyf dan sylw. Fe ddywedwch fod fy ateb yn rhesymegol annibynnol ar lenyddiaeth.

Wrth gwrs ei fod. Ond nid yw'n ddigyswllt. Mae'r Duw Cristnogol, wrth raid, yn annibynnol ar ei greadigaeth. Y mae'n annibynnol ar lenyddiaeth. Nid yw'n dibynnu ar ddim. Ond dyw llenyddiaeth ddim yn annibynnol arno Ef. Felly, her llenor o Gristion sy'n meddwl am ddiben ei waith, megis her gweithiwr Cristnogol ymhob disgyblaeth, yw gweld perthynas ei waith ei hun â phenarglwyddiaeth Duw, a'r modd y mae cymhwyso'r efengyl i bob rhan o fywyd.

Nid oes yr un cylch – nac oes? – y tu allan i gyrraedd Duw neu i ddylanwad ein rhagdybiau crefyddol. Gwadu Duw yw ei anwybyddu Ef, rhagdyb crefyddol. Felly, yn fy nhipyn darlith i, yr oeddwn yn cysylltu llenyddiaeth, ac enghreifftiau crefyddol, â'r cwestiwn o bwrpas sydd â'i wreiddyn y tu allan i lenyddiaeth.

Gan eich bod, y mae'n amlwg, yn cael trafferth i ddeall neu am fy mod i wedi esgeuluso dehongli'r berthynas rhwng natur unigolyddol llenyddiaeth a materion sy'n fwy cyffredinol ac o ddiddordeb i feysydd eraill, efallai y caniatewch i mi esbonio mor gryno ag y medraf beth yw'r agweddau gwahanol sydd yn adeiladwaith beirniadaeth lenyddol (Gristnogol neu beidio) yn ei chyflawnder, gan gydnabod ar y naill law fod yna'r fath beth ag ymdriniaeth â'r hyn sy'n unigolyddol mewn llenyddiaeth (oherwydd y syniad Calfinaidd o sffêr sofraniaeth, nid oherwydd y safbwynt hiwmanistig o 'annibyniaeth' neu hunanddigonolrwydd y dyn hunanlywodraethol), ond ar y llaw arall fod yn rhaid ceisio gweld perthynas llenyddiaeth â'r greadigaeth yn gyffredinol ac â pherthynas ei bodolaeth hefyd.

Gosodaf dabl yn y fan yma a cheisio'i esbonio wedyn: tabl ydyw sy'n gwneud y tro ar gyfer amlochredd beirniadaeth Gristnogol yn ogystal â beirniadaeth Anghristnogol:

BEIRNIADAETH LENYDDOL GYFLAWN

| A. MEWNOL | | B. ALLANOL (y cyswllt â'r goddrych neu â'r gwrthrych a drafodir) | |
|---|---|---|---|
| (1) Cyn-arddulleg (Gwybod) Gwyddor: o'r arbennig i'r cyffredinol | 2. Arddulleg (Adnabod) Celfyddyd o'r cyffredinol | 1. Myth neu Fodd | 2. Amlygiad Unigol (a) Daear a bydysawd (ecolegol). |
| | – e.e. astudio mydr, | | (b) Yr hunan (seicolegol) |
| | – beth yw stori? ayb | | (c) Cyd-ddyn (cymdeithasol) |
| | – i'r arbennig – e.e. hyd | | (ch) Duw |
| | brawddegol, adeiladwaith | | |
| | cerdd neilltuol, ayb | | |
| Cerdd Dafod | Cerdd Fynegiant | Atrefniad cyffredinol o'r gwrthrychau | Enghraifft arbennig a |

| | |
|---|---|
| a ganfyddir yn oddrychol | adeiladwyd ar sail |
| | y perthnaseddau hynny |

C. RHAGDYBIAU NEU RAGOSODIADAU DIWINYDDOL-LENYDDOL (pwrpas, gwerthoedd, trefn neu anhrefn hanfodol) – Cristnogol neu beidio.

Y mae i lenyddiaeth ei phriod nodweddion ei hun sy'n wahanol i briodoleddau gweithgareddau dynol eraill. Gan mwyaf y mae'r rhain yn ymwneud â ffurfiau. Yr wyf yn gosod y label anfoddhaol 'Mewnol' uchod ar y rheini. Ceir dau fath sylfaenol o feirniadaeth lenyddol yn y categori yma, sef Cyn-arddulleg (neu Ddulleg) sy'n astudio deddfau a hanfodau mwyaf cyffredinol llenyddiaeth, ac Arddulleg sy'n archwilio gweithiau unigol, y bodau yn hytrach na'r hanfodau, neu ddyfeisiadau nad ydynt yn egwyddorol reolaidd. Honna rhai beirniad mai'r maes 'Mewnol' hwn yw unig ddiddordeb y beirniad llenyddol. Pob hwyl iddynt: cawn sôn am y rheini eto. Fel y gŵyr pawb, serch hynny, rhaid i bob llenyddiaeth drafod deunydd bywyd. Ni all beirniadaeth lenyddol lai na sylwi ar y modd y mae llenorion, o ran eu teimladaeth a'u syniadaeth, wedi ymdrin â materion sydd fel petaent yn bod ar wahân i lenyddiaeth, ond sydd drwy weddnewidiad *ffurfiol* yn dod yn rhan o lenyddiaeth. Yn ôl rhai beirniaid (y Marcsiaid er enghraifft), y swyddogaeth hon yw'r prif beth sy'n haeddu sylw beirniadaeth lenyddol. Pob hwyl i'r rheini hefyd.

Ond y mae trydedd agwedd ar bethau, agwedd fwy sylfaenol, agwedd sy'n gynhwysfawr ac yn cyflyru'r ddau arall yr wyf eisoes wedi sôn amdanynt, sef yr agwedd sy'n cael ei phennu gan ragdybiau neu ragosodiadau diwinyddol pob beirniad llenydol yn ddi-eithriad, ac sy'n effeithio ar ei farn lenyddol. A dyma'r maes – er mawr ddryswch i chwi, y mae'n rhaid – y bûm i'n ceisio pori ynddo, ac nid yr un o'r ddau arall lle yr oeddech chwi fel petaech am i mi aros, meysydd yr wyf wrth fy modd yn ymdroi ynddynt o bryd i'w gilydd, bid siŵr. Cuddiwyd y maes diwinyddol-lenyddol o olwg beirniaid seciwlar mor fynych yn y gorffennol nes bod y rhai mwyaf amrwd o'u plith yn gweiddi 'pregeth' pan geisir dangos ei fod yn bod, a'i fod yn bod yn dyngedfennol yn eu gwaith hwy eu hun hyd yn oed.

Math o ddiwinyddiaeth anymwybodol neu naïf yw ymhonni bod yn 'ddiduedd'. Dibynna'r weithred o ddethol ar yr hyn sy'n arwyddocaol neu'r hyn sy'n werth sylwi arno – ar yr ymagwedd ddiwinyddol-lenyddol: yn wir. Dibynna'r posibilrwydd o unrhyw feirniadaeth ystyrlon ar y rhagdybiau hyn. Chwythwyd y myth o niwtraliaeth ar led bellach, wrth gwrs, gan lawer – ymhlith yr athronwyr Calfinaidd gan bobl megis Dooyeweerd a Van Til. Ni all yr un llenor (na beirniad llenyddol) ysgrifennu un frawddeg ystyrlon, sef un tamaid o iaith neu o lenyddiaeth, heb fod ganddo yn gyntaf ragdybiaeth o bwrpas y tu hwnt i lenyddiaeth, cyfres o werthoedd, ac ymagwedd at drefn neu anhrefn. Y mae'r rheini sy'n eu twyllo eu hun eu bod hwy'n wyryfol anniwinyddol ac yn

lân o bob rhagfarn, yn siarad yn orddiniwed. Rhaid i bob beirniadaeth 'gyflawn' ddygymod â'r agwedd yna ar bethau. Yn wir, unllygeidrwydd neu anonestrwydd yw peidio â'i hwynebu'n blwmp ac yn blaen.

Ond carwn danlinellu'r ffaith eich bod chwi, yn eich ateb i'r cwestiwn cyntaf, fel petaech am gyfyngu ar amrywiaeth beirniadaeth lenyddol, ac fel petaech yn gwarafun iddi'r hawl i drafod y rhagdybiau diwinyddol-lenyddol hyn sy'n effeithio ar natur a hyd yn oed bodolaeth llenyddiaeth, yn wir hyd yn oed er bod y rhagdybiau hynny mewn rhai enghreifftiau yn gallu golygu tranc llenyddiaeth. Mae'r cyfyngu yma'n duedd ddiddorol iawn. Yr wyf yn gobeithio dangos i chwi yn y man sut y mae beirniadaeth lenyddol Anghristnogol felly yn ymgyfeirio drwyddi hefyd.

D.Z.P. 2: A ydych yn credu eich bod yn gyson yn yr hyn oedd gennych i'w ddweud am anobaith mewn llenyddiaeth?

Dyfynnwch enghreifftiau o gyflwyno anobaith mewn llenyddiaeth. Ond mae'n fy nharo i eich bod yn cael eich tynnu ddwy ffordd yn y cyswllt hwn: yr ydych am ddweud fod cyflwyniadau fel hyn yn arwain i ddifodiant, ond yn cydnabod ar yr un pryd eu bod yn dweud rhywbeth sy'n wir am rai sefyllfaoedd dynol. Gallaf egluro fy nghwestiwn yn well drwy sôn am yr hyn y gellir ei alw'n baradocs Beckett. Cyfeiriwch at y paradocs yn eich darlith, ond heb ei ddisgrifio'n iawn. Meddech chi, 'Yn ôl Beckett ei hun, y mae ef wyneb yn wyneb â'r "mynegiant" nad oes dim i'w fynegi, dim i'w fynegi allan ohono, dim gallu i'w fynegi, dim awydd i'w fynegi, ynghyd â'r orfodaeth i'w fynegi...' Mewn llenyddiaeth y mae'n cyflawni marwolaeth llenyddiaeth.' (tt.10-11). Mae'r frawddeg olaf yn gymysglyd. Mae'r hyn a ddywed Beckett yn sylfenol i raddau yn gymysglyd. Sut y gall ef ddweud na ellir cyfleu ymdeimlad o wacter ystyr pan yw ef ei hun yn llwyddo i wneud hynny? Sut y gellwch ddweud ei fod ef yn lladd llenyddiaeth a chithau ar yr un gwynt yn cydnabod ei lwyddiant llenyddol? 'Diau fod ambell gyfoeswr fel Beckett wedi datgudddio yn ei waith wirionedd go sylfaenol am ddyn.' (t. 23). Mae'n wir eich bod chwi'n ychwanegu: 'ond oherwydd iddo gael ei feddiannu i'r pen draw gan wacter ac oferedd, fe'i harweiniwyd ef hefyd i ddiffrwythder arddull mewn llawer o'i gynnyrch, ac fel y gwelsom, i ddistawrwydd ac absenoldeb llenyddiaeth yn ei ddrama *Anadl*: mynd yn fud at y mud.' (t. 23). Ond a fyddech chi'n fodlon cydnabod mai mater o farn lenyddol gennych yw hyn ac y gellid anghytuno â'r farn? Mae yna amwysedd yn eich dyfarniad y dylid ei amlygu. Pan ddywedwch 'oherwydd iddo gael ei feddiannu i'r pen draw gan wacter ac oferedd, fe'i harweiniwyd ef hefyd i ddiffrwythder arddull mewn llawer o'i gynnyrch,' a ydych yn sôn am 'lawer o'i gynnyrch' ac nid am ei holl gynnyrch? Os felly, yna yr ydych yn cydnabod y posibilrwydd o gael gwaith llenyddol da sy'n mynegi anobaith llwyr. Ond efallai mai am ddweud yr ydych fod awdur sy'n ceisio mynegi anobaith llwyr o raid yn cael ei arwain i ddiffrwythder arddull.

Mae hynny'n sylw anhygoel. Y gwir amdani yw y gellir gwahaniaethu rhwng gwerthoedd gwahanol yn y cyswllt hwn. Rwyf yn anghytuno â chi ynghylch *Anadl.* (Rwy'n amau fod y ffaith eich bod eich hun yn ailadrodd "Mynd yn fud at y mud" mor aml yn awgrymu ei bod wedi gwneud argraff arnoch chithau.) Yma, er na ddywedir dim, fe gawn weld rhywbeth. Ac mae'r hyn a welir, yn portreadu dinistr ac oferedd bywyd dynol. Ar y llaw arall, nid yw'r hyn a welir yng nghyfansoddiadau di-gerddoriaeth *Cage* yn dangos undim oll ac eithrio hoffter o gimics. Ond dyna! Nid yw'n eglur i mi beth yw eich barn am gyfleu gwacter ystyr mewn llenyddiaeth.

Ond beth am baradocs Beckett? Yr ateb yw bod Beckett yn ymwybodol iawn o wacter ystyr ac o'i arwyddocâd brawychus. Dyma pam y mae dan orfodaeth i'w fynegi. Tra pery'r ymwybod hwn, fe bery hefyd bosibiliadau llenyddiaeth. Gwrthgyferbynnwch â hyn oes y gellir ei darlunio mewn llenyddiaeth, sef *Brave New World* Huxley. Yno nid adwaenid gwacter ystyr bywyd. Nid oedd llenyddiaeth chwaith. Am fod llenyddiaeth yn peidio, y daeth difodi, ac nid trwy lenyddiaeth. Mae gwacter ystyr ar ei eithaf pan na wêl neb bosibilrwydd gwacter.

B.J. Y mae eich anhawster chi yn y fan yma unwaith eto yn tarddu o'ch rhagdybiau chwi. Yr ydych fel petaech yn amharod i mi wneud dau beth gyda'i gilydd, sef cydnabod fod lle cywir mewn llên i ing a digalondid a phryder, os byddaf yr un pryd yn ceisio rhybuddio fod pesimistiaeth hiwmanistaidd yn arwain yn y pen draw i dranc llenyddiaeth. Soniwch am hyn fel pe bai'n rhwyg.

Anhawster gwneud yw hyn.

Pwnc cywir i lenyddiaeth (pwnc hanfodol i lenyddiaeth Gristnogol gyflawn, yn wir) yw'r chwalfa ystyr a'r gwacter pwrpas a gafwyd ym myd dyn oddi ar y Cwymp, y golledigaeth o fod ar wahân i Dduw. 'Rydw i wedi ceisio sgrifennu llawer am hyn, er enghraifft, mewn storïau byrion megis 'Y Gêm', 'Tawelwch os gwelwch yn dda' (ac fel yr wyf yn awgrymu yn fy narlith, tawelwch yn unig sy'n medru corffori neu ddiriaethu gwacter ystyr yn ei lawnder), 'Cusanau Ffarwel', 'Daffodiliau i Charlie', 'Diwedd y Byd', a llawer o rai eraill. Heblaw mewn cerddi. Pwnc gweddus iawn i lenor yw treiddgarwch ac arwyddocâd arswydus y pechod gwreiddiol.
[Cyhoeddwyd y pum stori hyn y cyfeiriwyd atynt mewn ffurf ddiwygiedig ar y Wefan hon yn yr Adran Storïau.]

A gaf symleiddio? Pe cymerem fod yna ddwy thema fawr lenyddol (ymwybodol neu anymwybodol) – moliant i Dduw a methiant dyn – yr hyn a ddywedem yw bod llenyddiaeth iach yn cynnwys y ddwy hyn, gyda'r naill, y negyddol, yn ddarostyngedig i'r llall. Yn wir, os bydd gwacter neu negyddiaeth yn llyncu llenyddiaeth neu'n mynd yn rhan feddiannol o'i phlethwaith, y canlyniad, wrth gwrs (fel y dangosodd Beckett), yw tawelwch. Absenoldeb llenyddiaeth yw, yn cael ei gyflwyno i ni fel pe bai'n llenyddiaeth. Y mae diffyg llenyddiaeth wedi disodli llenyddiaeth fel y priod beth, yr unig beth rhesymegol, i lenor felly ei wneud. Ac y mae'r ffurf yn adlewyrchu'r diffyg

ystyr.

Gofynnwch i mi gydnabod y gall llenyddiaeth gorffori ing trylwyr a chyflawn. Yn awr, yr hyn yr wyf yn ei awgrymu yn syml yw fod Beckett a chelfyddion cyffelyb iddo yn dal mai'r mynegiant priodol i ing hiwmanistig trylwyr *a* chyflawn yw tawelwch. Sef anllenyddiaeth. Hunanladdiad geiriol. Yr hyn a ddangosant yw mai'r ffordd i gorffori gwacter mewn llenyddiaeth, pan ewch i'r pen draw rhesymegol, sef i'r ing trylwyr y soniwch chi amdano – yw drwy beidio â llenydda.

Dyma'r hyn a ddangosant yn ddiriaethol. Ac yn hollol gywir. Dyma ran o'u cyfraniad. Yr hyn a ganfu'r celfyddion hyn yn burion (a'r hyn na dderbyniwch chi efallai gan eich bod am aros ar ôl gyda'r hiwmanistiaid rhamantaidd a chymedrol a sentimental megis Wallace Stevens) yw mai'r unig ffordd i fynegi ymwybod llwyr â gwacter yw distawrwydd.

Yr ydych braidd yn ddirmygus o gerddoriaeth Cage. Rhaid eich bod felly'n bychanu Jackson Pollock yntau. Popeth yn iawn os cofiwch fod eu hestheteg a'u rhagdybiau diwinyddol-gelfyddydol yn rhan annatod o symudiad nad yw Beckett (yr ydych yn ei edmygu ac fel petaech yn barod i 'dderbyn' ei gyfeiriad) ond yn ei fynegi'n ddigon tebyg drwy gyfrwng y dyfeisiau eraill. Sylwer fel y mae Yves Klei yn llunio peintiad ag arwyneb glas heb ddim arall yno, ac y mae Lucio Fontana yn rhwygo'r cynfas â min rasel mewn ennyd o ing ac yn galw ei waith 'Diwedd Duw' (1964). Nid dyna'r cam olaf, bid siŵr. Y cam gonest olaf yw peidio â gwneud dim, sef hunanladdiad celfyddyd. Ond yr wyf yn eich herio i ddangos nad oes yr un o'r rhain yn ceisio gwneud na dweud rhywbeth sy'n hanfodol lai arwyddocaol am ystad y dyn anianol nag a ddywed Beckett yn 'Anadl'. Cytunwn â chi, tra bo'r ymwybod o ddiffyg ystyr yn aros, fod yna bosibilrwydd o lenyddiaeth. Ond nid dyna'r pwynt. Y cwestiwn yr wyf i'n ei godi, a'r hyn yr ydych chi'n ei osgoi yw: onid yw corffori diffyg ystyr yn *drylwyr* yn golygu fod y llenor anianol didwyll sy'n mynd i'r pen draw yn cyrraedd diffrwythder? Heb ystyr, heb lenyddiaeth. Heb ystyr, heb iaith.

Eich gwaith chi yw profi i'r gwrthwyneb.

D.Z.P. 3: A ydych yn ysgaru rhwng gwerth darn o lenyddiaeth a'i gynnwys?

Mae hyn yn glamp o gwestiwn ac mae sawl ffordd y gellir ei drafod. Gadewch i mi ddweud ar y dechrau fy mod yn derbyn na ellir gwahanu'n llwyr rhwng gwerth a chynnwys. A ellid sgrifennu nofel fawr am fochyn sy'n barddoni? Dweud yr amlwg yw hyn'na, mi wn. Ond mae'r un mor eglur fod cynnwys posib llenyddiaeth yn anochel eang ei rychwant, ac mai bai damniol ar feirniad llenyddol yw fod rhychwant ei afael ef yn gul ac yn gyfyng. Ceisiais ddangos mewn man arall fel y gallai beirniad, oherwydd ei anallu i ddirnad safbwyntiau crefyddol, fynnu dadlau mai

methiant yw'r portread o farwolaeth a gynigir inni ym *Marwolaeth Ivan Ilych* gan Tolstoy, a'i bod hi'n amhosib portreadu marwolaeth o'r fath yn llwyddiannus am ei bod yn sylfaenol ffug. Mewn lle arall ceisiais ddangos fel y mae beirniaid sy'n derbyn syniadau arbennig am ryddid ac am arbrofi mewn cyfathrachau rhywiol yn methu gwneud tegwch â'r olwg a gyflwynir inni yn nofelau Edith Wharton ar anrhydedd sy'n uwch na rhyddid a serch. Yn y nofelau hynny dyrchefir teyrngarwch i deulu a thraddodiad uwchlaw rhyddid personol a hapusrwydd. Daw'n gynyddol anos inni ddirnad y gwerthoedd hyn a goleddid, yn gymysg â rhagrith a hymbygolaeth, gan gymdeithas haenau uchaf dosbarth canol Efrog Newydd yn y ganrif ddiwethaf, y gymdeithas y mae Edith Wharton yn ysgrifennu amdani. Rhaid i'r beirniaid fwrw trem dros gylch llydan. Efallai'n wir na chytuna ef â'r hyn a wêl, ond ni wiw iddo'i gamddehongli. Ar brydiau yn ystod eich darlith 'roeddwn i yn amau tybed a oedd eich ymlyniad crefyddol yn ymyrryd yn annheg wrth ichi ddehongli llenorion. Ni raid i ffydd unrhyw gredadun gael ei thanseilio wrth iddo gyflwyno'n deg safbwyntiau sy'n groes i'w ddaliadau ef ei hun. Ar adegau, mae'n wir, yr ydych chithau'n cydnabod nad yw coleddu safbwynt arbennig o raid yn gwarantu fod gwaith yn llenyddol dda. 'Aeth llawer o'r hyn a ystyrid yn "llenyddiaeth grefyddol" yn ystrydebol ac yn niwlog, yn bietistig ac yn sych-dduwiol, yn findlws ac yn hunan-foddhaus, a chan anghredinwyr yn fynych y cafwyd y gonestrwydd i fynegi'r tywyllwch ysbryd sy'n treiddio drwy'r ymwybod cyfoes. Ar y llaw arall, y mae'r osgo o'r math yna hefyd yn medru troi'n beth rhwydd ac yn gibddall, yn ddefod ac yn ystrydeb; a gall argyfwng fynd yn thematig gyfleus ac ing yn ffasiynol' (t. 14). Yn union felly. Mae'n dibynnu ar yr achos dan sylw. Ond o gydnabod hyn, oni ddylech hefyd gydnabod na ellir cyfystyru llwyddiant llenyddol â chynnwys neilltuol unrhyw un safbwynt? Gydag ysgrifennu crefyddol a gwrth-grefyddol gallwn wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n llenyddol dda a'r hyn sy'n wael. Ni ellir dweud mai'r hyn sy'n llenyddol dda yw mynegiant da o safbwynt crefyddol arbennig am na ellir cyfyngu'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n dda a'r hyn sy'n wael mewn llenyddiaeth, yn thematig fel yna. Yn fy ngwaith fy hun 'rwyf yn amheus o'r rheini sy'n dadlau fel petai rhai gwerthoedd crefyddol neu foesol ynddynt eu hunain yn ffug ac am hynny'n rhai na ellir eu cyflwyno'n gredadwy mewn llenyddiaeth. Ond mae crefyddwyr yn gallu bod yn euog o'r un math o fai.

B.J. Fel y dywedwch, yr wyf yn dadlau gydag eithafrwydd y gall Cristion uniongred fod yn llenor gwael ac y gall hiwmanydd anianol fod yn llenor da, fod Duw'n gwasgaru'i ddoniau naturiol yn ddiwahân. Gall y darllenydd o Gristion gael llawer o fudd gan y pagan o lenor megis y gall hefyd gan y pagan o feddyg. Bûm yn trafod y ffenomen ryfeddol hon, sef gras cyffredinol Duw, mewn mannau eraill; ac er mwyn helaethu arni ar hyn o bryd, byddai'n gofyn llawer o le yma. Ond gan ein bod o leiaf yn arwynebol gytûn ar hynny, efallai y caniatewch i mi symud ymlaen i'r cwestiwn

nesaf.

Mynegwch gonsarn caredig, serch hynny, rhag i'm hymrwymiadau Cristnogol gyfyngu ar fy meirniadaeth lenyddol. Ar bwynt cyfyngder y beirniad llenyddol hiwmanistig ar y llaw arall, o'i gymharu ag ehangder y beirniad llenyddol Cristnogol, a gaf ddatgan y ffaith hon:

Y mae gras cyffredinol Duw yn caniatáu (o ran delfryd) i Gristion fel i hiwmanydd ymateb yn ddeallus i bob llenyddiaeth seciwlar. Eto, y mae un maes llenyddol lle na all yr hiwmanydd ymateb ond yn gyfyngedig iawn, sef llenyddiaeth Gristnogol (Gras Arbennig). Gŵyr y Cristion holl brofiad a natur yr hiwmanydd: hiwmanydd fu yntau. Erys yr atgof o'i brofiad (ac atgof yw sail pob llenyddiaeth) yn fyw ofnadwy iddo, ac yn bresennol fyw oherwydd parhad gweithgaredd pechod. Gall ddygymod â'r cyfan o lenyddiaeth seciwlar felly. Mae ganddo fantais gronolegol. Ond y mae dimensiwn arall a newydd bellach yn agored iddo ef, na all neb o'r tu allan i Gristnogaeth, wrth reswm, ei amgyffred yn ddeallus ond mewn modd aruthrol o arwynebol. Gerbron gwirioneddau a phrofiadau mawr ynghylch y Duwdod y mae'r beirniad llenyddol seciwlar wedi'i dynghedu i fod yn naïf oherwydd pe bai'n amgyffred yn yr ystyr ymarferol o gydymdeimlo, fe fyddai wedi peidio â bod yn feirniad seciwlar. Y mae ei rychwant ef o amgyffrediad, sef llenyddiaeth seciwlar, sy'n cydredeg ag amgyffrediad y beirniad Cristnogol, wedyn yn peidio; ac ni all ymateb, ond mewn dull cartwnaidd neu allanol, i lenyddiaeth Gristnogol. Y mae ef wedi'i gondemnio gan ei natur i fod yn gyfyngedig i'r geni cyntaf. Nid oes neb yn dechrau'n wir Gristion, ar y llaw arall, sydd wedyn yn troi'n ôl yn anghredadun; oherwydd unwaith y daw'n Gristion, nid oes fel y gwyddoch ddim cwymp oddi wrth ras, er bod cwympiad o fewn gras. Nid oes yr un creadur sydd wedi bod ym mynwes y Tad, trwy rinwedd y Gwaed, wedi cael ei gipio oddi yno wedyn gan ryw 'rym amgenach', gan nad yw hwnnw'n bod.

Tybed onid oes angen i feirniad Cristnogol fynegi a gweithredu consarn efengylaidd ynghylch culni'r beirniad Anghristnogol? ...

D.Z.P. 4: A ydych yn cyfystyru atheistiaeth ac anobaith?

Wrth ichi ddadlau yn erbyn llenyddiaeth sy'n mynegi anobaith, mae'n ymddangos eich bod yn awgrymu fod tuedd fel hyn mewn llenyddiaeth o raid yn mynd i ladd llenyddiaeth. Nid wyf fi'n deall y rheidrwydd yma. Fe gytunaf fod y rhagolygon yn ddigon digalon o ran llenyddiaeth gyfoes y byd Saesneg, ond cyffredinedd dawn yn fwy nag anobaith sy'n cyfrif am hyn. Nid yw anobaith dwys byth yn gyffredin yn yr ystyr yna. A pheth arall, nid peth newydd mewn llenyddiaeth yw pesimistiaeth! Ond mae yna rywbeth pellach yr hoffwn ei ddweud. A ystyriwch chi bosibilrwydd ystyr ac urddas mewn gobaith sy'n derbyn amherffeithrwydd a chymeriad hap-a-damwain y bywyd

dynol? Mae yna feirdd a ymosododd ar gred mewn nefoedd lle tragwyddolir rhai o nodweddion cyfnewidiol y byd, a lle y lleddfir dros byth boenau a gofidiau bywyd, ie, a gwneud hynny mewn cerddi da. Dyma ddwy enghraifft: Yn gyntaf, llinellau o'r gerdd "Was He Married?" gan Stevie Smith, lle mae'r bardd yn holi'n dreiddgar sut y gallai Crist, os ystyrir ef yn berffaith, siarad wrth feidrolion tlawd fel ni.

Did he feel strong
Pain for being wrong?

He was not wrong, he was right,
He suffered from others', not his own spite.

But there is no suffering like having made a mistake
Because of being of an inferior make.

He was not inferior,
He was superior.

He knew then that power corrupts but some must govern?
His thoughts more different.

Did he lack friends? Worse.
Think it was for his faults, not theirs?

He did not lack friends,
He had disciples he moulded to his ends.

Did he feel over-handicapped sometimes, yet must draw even?
How could he feel like this? He was the King of Heaven.

... find a sudden brightness one day in everything
Because a mood had been conquered, or a sin?

I tell you, he did not sin.

Do only human beings suffer from the irritation
I have mentioned? Learn too that being comical
Does not ameliorate the desperation?

Only human beings feel this,
It is because they are so mixed.

All human beings should have a medal,
A god cannot carry it, he is not able.

Yng ngherdd Wallace Stevens, 'Sunday Morning', eto, ymosodir ar yr holl syniadau hynny am y nefoedd sy'n troi byd cyrraedd-a-ffarwelio yn fyd di-amser. Yn union fel y ceisiodd Stevie Smith ddangos fod yna lawenydd a phoen sy'n dibynnu am eu bod ar amherffeithrwydd y byd ac ar feidroldeb, mae Wallace Stevens yntau yn dangos fod yna fathau o brydferthwch sy'n dibynnu ar fod yn ddarfodedig: gwnewch y rhain yn dragywydd ac fe ddinistrir yr harddwch. Ceisiwch wneud

harddwch naturiol yn dragywydd a'r hyn a gewch yw sawyr ffrwythau wedi mynd yn ddrwg.

* Is there no change of death in paradise
Does ripe fruit never fall? Or do the boughs
Hang always heavy in that perfect sky,
Unchanging, yet so like our perishing earth,
With rivers like our own that seek for seas
They never find, the same receding shores
That never touch with inarticulate pang?
Why set the pear upon those river-banks
Or spice the shores with odours of the plum?
Alas, that they should wear our colours there,
The silken weavings of our afternoons,
And pick the strings of our insipid lutes!
Death is the mother of beauty, mystical,
Within whose burning bosom we devise
Our earthly mothers waiting, sleeplessly.

Meddwch chi yn eich darlith, "Os nad yw dyn yn fwy na chasgliad damweiniol o atomau wedi digwydd yn llif ansicr a chwiwus hanes y byd, yna y mae sail hanfodol ein diwylliant wedi diflannu a hurt yw gwareiddiad." (t. 18). Os cyffes ffydd bersonol yw'r geiriau, popeth yn dda, ond onid ydych fel beirniad llenyddol yn ymwybod â phosibiliadau eraill? A ydych chi'n fodlon cydnabod y gall dynion fyw a marw a bod yn gwbl fodlon am eu bod wedi profi cariad, caredigrwydd, haelioni a harddwch am ysbaid ynghanol byd o bethau cyfnewidiol? A dderbyniwch chi nad yw anallu i'w troi'n ddiamser yn diddymu gwerth y munudau hyn i rai pobl? Gwrandewch ar Stevens yn datgan fod urddas a buddugoliaeth yn bosib hyd yn oed i'r rheini sy'n credu mai tywyllwch yw diwedd eu taith:

We live in an old chaos of the sun,
Or old dependency of day and night,
Or island solitude, unsponsored, free,
Of that wide water, inescapable,
Deer walk upon our mountains, and the quail
Whistle about us their spontaneous cries;
Sweet berries ripen in the wilderness;
And, in the isolation of the sky,
At evening, casual flocks of pigeons make
Ambiguous undulations as they sink,
Downward to darkness, on extended wings.

B.J. A ydwyf yn cyfystyru atheistiaeth ac anobaith? Nac ydwyf. Gwelsom oll yr hwyl a gafodd Hiwmanistiaeth optimistaidd yn oes Fictoria ar ddyrchafu'r ffydd yn rheswm, cynnydd, gwyddoniaeth a hunan-ddigonolrwydd dyn. Oherwydd fod dynion wedi deffro wedyn i'r

dystiolaeth, a oedd wedi bod dan eu trwynau drwy'r amser, fod dyn yn gallu bod yn ffiaidd a bod ei fywyd heb Dduw yn ddiwerth, fe gawsom yr Hiwmanistiaeth besimistaidd a fu mewn bri mawr, er enghraifft, yn y chwe-degau a dechrau'r saith-degau hyn. A chan mai dyna'r cywair poblogaidd yn ddiweddar – bron y cywair ystrydebol – dyna pam y rhois sylw iddo.

Yr ydych yn dyfynnu dau ddarn gan y bardd crefftus Americanaidd Wallace Stevens. Y mae troi at y rhain ar ôl dygymod â llenorion megis Beckett neu Kafka fel petaem yn ymhel â rhyw haen anonest o siwgr rhamantaidd a ledwyd yn felys o amgylch craidd y gwacter. Yn wir, soniodd Stevens un tro amdano'i hun fel un 'sy'n byw o hyd mewn tŵr ifori, ond sy'n mynnu y byddai bywyd yno'n annioddefol oni bai am y ffaith fod y fath olygfa eithriadol o'r top, ar y domen gyhoeddus a'r arwyddion hysbysebol.'

Meddai Fielder amdano, 'Dylanwad mall oedd Wallace Stevens ar y genhedlaeth iau; a gwaetha'r modd, ymroddodd yn ystod rhan olaf ei fywyd i farddoni am farddoni' (yn null Euros). Ond o leiaf, fe gynhyrchodd 'Sunday Morning'. Ac erys 'Sunday Morning', darn antholegol diddrwg-didda fel y mae'n ymddangos, ar ei phen ei hun yn y traddodiad Americanaidd, yn gerdd gyffrous am farwolaeth-duw.' Ai dyma'r apêl a oedd gan y bardd diddrwg-didda hwn atoch chi?

Rhagdybiaeth grefyddol nodweddiadol Stevens, wrth gwrs, oedd hyn: 'Y mae Duw ynof i neu ynte nid yw'n bod o gwbl,' sef y safbwynt dyneiddiol arferol, safbwynt nas meddiannodd yn llawn. Wedi bod i lawr ynghanol y domen gyhoeddus a'r arwyddion hysbysebol gyda Beckett neu Kafka, y mae troi'n ôl at feddalwch tŵr ifori Stevens fel pe bai pesimist dyneiddiol yn troi'n ôl at yr optimist dyneiddiol heb sylwi bod y meddwl creadigol wedi hen fynd heibio i'r safle yna. Cuddiwn y dylyfu gên.

Ceisiaf, serch hynny, beidio â bod yn rhy ysgafn gyda'r safbwynt hwn. Y trwbwl yw fy mod i fy hun sydd – fel y rhelyw bellach, mae'n amlwg – wedi dal y math hwn o safbwynt rhywdro, ac wrth ymosod arno heddiw, yn ffyrnigo ynghylch yr atgof gorbresennol ohonof fy hun, gan fflangellu f'amgylchfyd, y golchi ymennydd cyfarwydd, y cyflyru arwynebol gan anghydffurfiaeth ddirywiedig Cymru. Wrth ddarllen y linell

Death is the mother of beauty, mystical

cefais f'atgoffa'n anghysurus am y gerdd gyntaf (yn arbennig am y pennill olaf yn fy nghyfrol *Y Gân Gyntaf*), cerdd a luniais rai blynyddoedd cyn i mi ddod yn Gristion. Dweud hyn yr wyf er mwyn dangos nad wyf heb ddeall yr anawsterau y soniwch amdanynt.

D.Z.P. 5: A ydych yn gwneud credu yn Nuw yn gyfystyr ag ystyr bywyd?

'Rwy'n gofyn ichi ystyried y cwestiwn hwn yn ofalus. Nid gofyn yr wyf a yw credu yn Nuw yn rhoi ystyr i'ch bywyd chi. Nid gofyn chwaith a allwch chi wrth gyffesu ddweud mai "Credu yn

Nuw yw ystyr bywyd." Yn hytrach gofyn wyf a fedrwch fel beirniad llenyddol gydnabod fod safbwyntiau eraill wedi rhoi ystyr i fywyd rhai pobl. A ydych yn barod i gydnabod hyn yn achos Stevens? Nid wyf yn gofyn i chi dderbyn ei eiriau am ei fod ef o ddifri. Rwyf yn gwrthod yr apêl fodern at ddifrifoldeb a didwylledd awdur lawn mor llwyr ag y gwnewch chi. Gall pobl fod o ddifri calon, gallant fod yn gwbl ddidwyll ynghylch y pethau mwyaf hurt, a'r pryd hynny dim ond gwneud pethau'n waeth y mae eu difrifoldeb a'u didwylledd. Sôn yr wyf am safbwynt sydd, oherwydd ei gynnwys, yn haeddu ei gymryd o ddifrif. Mae hyn yn rhywbeth y dylai Cristnogion ei ystyried; onid e y maent yn euog o gam-adnabod. Mae yna wahaniaeth rhwng sgwrsio â rhywun a grwydrodd oddi ar y llwybr, a sgwrsio â rhywun sy'n anghytuno â chi ynghylch pa un yw'r llwybr.

Ond rwy'n amau fod gofyn y cwestiwn 'A oes ystyr i fywyd?' yn eich golwg chi yr un peth â gofyn y cwestiwn a oes diben i beiriant? Yn yr achos hwnnw gellwch gasglu i beth y mae'n dda, dim ond ateb pam y gwnaed ef. Yn awr, ni ellir ymdrin â chwestiynau ynghylch ystyr bywyd yn y ffordd hon. Ond a gredwch chi y gellir trafod cwestiynau ynghylch ystyr bywyd fel hyn, ai ei bod hi felly'n bosib fod rhywun a anghytunai â chi ynghylch ystyr bywyd yn camgymryd yn union fel petai'n methu ynghylch diben peiriant? Rwy'n tybio eich bod chi pan ydych yn siarad fel beirniad llenyddol yn cymryd y gellir cyfystyru credu yn Nuw ag ystyr bywyd (a dyna asgwrn y gynnen rhyngom). Rydych yn bradychu'r safbwynt mewn brawddeg wrth fynd heibio, megis, fel hon: 'Braidd yn ddistaw ac yn anamlwg y diorseddwyd ystyr bywyd a Duw ar y cychwyn' (t. 12).

B.J. Ar ôl gofyn y cwestiwn hwn yr ydych yn ceisio'i 'gyfystyru' ymhellach ymlaen. A chan fod y 'cyfystyru' hwn mor gwbl wahanol i'r cwestiwn cyntaf ei hun, nid wyf yn siŵr pa un y carech i mi ei ateb.

Ceisiaf eu hateb ill dau felly.

Y cwestiwn cyntaf: Nac ydwyf. Yr wyf yn cysylltu ystyr bywyd â Duw wrth gwrs: ac awn mor bell â chyfystyru un agwedd ar Dduw fel hyn ... Duw yw'r Gair. Efô yw'r Ystyr oll. Bod ar wahân iddo yw gwacter ystyr. Bod ar wahân iddo yw bod dan lywodraeth pechod.

Ond ni allaf *gyfystyru* yn gyfan gwbl gred yn Nuw ond â chred yn Nuw, Duw personol sy'n fwy nag 'ystyr' dim er ei fod, wrth gwrs, yn cynnwys pob dim.

Yna, ewch ymlaen i ofyn i mi barchu safbwynt seciwlar neu Anghristnogol, er ei fod yn anghywir; ac wrth gwrs, ni chaf anhawster o gwbl i wneud hyn. Fe allaf fwynhau Goethe a mwynhau Baudelaire a mymryn bach o Wallace Stevens, ac ni rydd llenorion Anghristnogol megis Soffocles neu Ewripides ddim tramgwydd i'm hymateb llenyddol i. Dyna yw Gras Cyffredinol.

Yr ydych yn rhyw dybied bod fy syniadau am bwrpas bywyd yn debyg i'm syniad am swyddogaeth peiriant. Wel, y mae swyddogaeth peiriant fel popeth arall i'w gweld yn y pen draw. A

ydwyf i fod i gymryd mai eich tybiaeth chwi yw mai o fewn y byd hwn yn unig y ceir swyddogaeth peiriant? Os felly, a wyf i fod i feddwl yn gyfyngedig am swyddogaeth peiriant mewn termau perthynol, gan gysylltu peth â pheth? Nid dyna sut yr ystyriaf i bwrpas bywyd (na phwrpas peiriant). Ofnaf eich bod yn ceisio cyfyngu eto. Yr wyf yn credu fod pwrpas bywyd y tu allan i fywyd y ddaear hon, er ei fod yn mewnfodoli ynddo hefyd. Yr wyf yn meddwl fod dyn yn dod i wybod am bwrpas ei fywyd (a swyddogaeth peiriant a phopeth creëdig arall) drwy brofiad cywir o Dduw di-greëdig. Wrth golli profiad cywir o Dduw, fe gollir gwir ystyr bywyd, er bod gras cyffredinol Duw yn ei drugaredd yn cadw'r dyn anianol (a grewyd yn gyntaf ar ei ddelw ei hun ac na chwalwyd y ddelw'n llwyr hyd yn oed gan y Cwymp) rhag dianc yn gyfan gwbl.

D.Z.P. 6: A gredwch mai canlyniad dilyn ffasiwn yw'r ystyron a rydd pobl i fywyd?

Dro ar ôl tro yn eich darlith yr ydych yn rhoi'r argraff yma. "Peidiwch â llithro'n ôl o'r ffasiwn, meddan nhw, hyd yn oed yng Nghymru fach" (t. 21). "Rhaid i lenyddiaeth Gymraeg gydymffurfio â phob ffasiwn estron, gan ddynwared pob arbrawf pa un bynnag, yn enwedig os yw'n ymddangos yn 'fodernaidd' " (t. 17). Pan ddowch at eich syniadau eich hun, syniadau a alwai rhai'n 'adweithiol', fe atebwch 'A dichon heddiw, y byddai ateb cadarnhaol yn ymddangos braidd yn "adweithiol", os "adweithiol" yw ymwrthod â llif meddwl ein cyfnod.' (t. 18). Dyma sut y mae hi felly: mae'r sawl sy'n eich galw yn 'adweithiol' yn camddeall eich annibyniaeth barn, ac mae'r sawl sy'n barnu'n annibynnol ar Gristnogaeth, neu'n groes i Gristnogaeth, mae hwnnw'n dilyn y ffasiwn. Tybed nad ydych yn trïo cael y gorau pob ffordd? A ph'un bynnag, onid oes yna gymysgu yma? Sut y cychwynnodd ffasiwn? Rhaid gwahaniaethu rhwng dilyn ffasiwn a chychwyn ffasiwn. Mae'n wir y gall rhai ymroi ati i fowldio ffasiwn ac elwa arno'n faterol fwriadus. Ond nid yw hynny'n wir am bawb a greodd arddull arbennig neu draddodiad arbennig o feddwl. Nid yw'n wir am wŷr fel Kant, Rousseau, Hegel, Nietzsche, Sartre a Camus, gwŷr a enwir gennych. Ond ni raid cyfeirio at feddylwyr blaenllaw fel y rhain i brofi'r pwynt, oherwydd o fewn traddodiad y mae gwahaniaeth pwysig rhwng gwaith sy'n rhan o draddodiad a gwaith sy'n dynwared traddodiad yn slafaidd. Nid yw'r olaf hwn yn rhan o draddodiad o gwbl. Gellid dweud mai ffasiwn yw'r enw a rown ar draddodiad ar y goriwaered. Nid yw'n ymddangos eich bod yn effro i'r gwahaniaeth hwn, er ei fod yna ar ddamwain yn eich brawddeg 'Nid peth dieithr felly, ar gyfandir Ewrob oedd y math o agwedd hollol seithug a digalon a glywir mor loyw yng ngwaith T. Gwynn Jones a Parry -Williams' (t. 7). Nid yw hyn'na'n feirniadaeth arnynt. Ni ellir egluro gloywder eu gwaith yn nhermau traddodiad, gan mai dyma'r union beth sy'n cyfoethogi'r traddodiad. Gall cerdd wael, ddynwaredol ail-law fod, mewn un ystyr, yn unol â thraddodiad. Gan hynny, ni ellir egluro'r gwahaniaeth rhwng

cerdd dda a cherdd wael trwy apelio at draddodiad.

B.J. A ydych yn amau fy mod i'n gweld eich dadleuon chi yn hen stwff hiwmanistaidd confensiynol?

Gwelwch yn ddiau fy mod yn awgrymu fod llawer o lenorion Cymraeg – oherwydd cymhleth y taeog ac ymdeimlad cyfarwydd o israddoldeb, efallai, weithiau – yn rhy barod i redeg ar ôl confensiynau hiwmanistaidd eu haddysg estron, ar ôl Saeson ac Americaniaid gan mwyaf, neu Ffrancwyr mewn cyfieithiad, gan anwybyddu'u gwreiddiau Calfinaidd sydd nid yn unig yn tanseilio'r holl gonfensiynau hiwmanistaidd hyn ond hefyd yn rhan ganolog o'u tarddodiad Cymraeg cyfoethocaf.

A ydych yn tybied fy mod i'n eich cyhuddo chwi'r athronwyr o'r un ffasiwn-garwch taeog?

Yn sicr, nid wyf yn credu mai cynnyrch confensiwn yw pob ymgais anghywir i ddod o hyd i ystyr, boed yr 'ystyr' yma mor eiddil ag y bo. Cynnyrch pechod ydyw: cynnyrch pellter oddi wrth Dduw. Ond diau y dylid rhybuddio llenorion – ac athronwyr – am y rhagdybiau y golchir eu hymennydd mor barotaidd i'w derbyn; a'i bod hi'n hen bryd iddynt amau amheuaeth.

Gadewch i ni ystyried eich syniadau ar fy nefnydd o'r gair 'adweithiol'. Bûm yn ceisio dadlau mai un ffasiwn heddiw yw Negyddiaeth, ac mai dyna yw'r norm sydd ohoni. Felly ar un ystyr i'r gair rhyfedd hwn, 'bod yn gadarnhaol' yw bod yn 'adweithiol'. Eto, rhaid bod y gair adwaith o ran ystyr gynhenid yn weithred negyddol yn erbyn gwaith: felly, y cwbl a awgrymaf yn wylaidd yw bod yr hyn sy'n negyddu ystyr bywyd, sydd heb fod yn adeiladol (fel y dywedai Kierkegaard) ac yn gwadu pwrpas ac yn difa synnwyr, yn fwy addas i ddwyn yr ansoddair 'adweithiol' nag ydyw'r cadarnhaol a'r ffrwythlon, er gwaetha'r ffaith mai negyddu, efallai, fyddai'r norm 'canolog' a'r man cychwyn ymddangosiadol yn yr oes sydd ohoni.

Nid wyf yn amau, wrth gwrs, na all rhai llenorion sy'n sgrifennu fel hyn, o fewn llif meddwl y lliaws yn eu cyfnod, lunio gweithiau llenyddol digon gloyw, fel y nodais yn y ddarlith. Sut (y dull) y mae hynny'n bod sy'n gwestiwn arall, ac yn gwestiwn yr wyf yn ceisio ymgodymu ag ef yn y gyfrol amdani o'r blaen. Y mae a wnelo o ran ffynhonnell (y tarddiad) â gras cyffredinol unwaith eto. Y mae Duw yn glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn.

D.Z.P. 7: A eill y rheini sy'n anghytuno â chi feddwl yr hyn y maent yn ei ddweud?

Rwy'n anghymeradwyo eich ymgais i ddarganfod yn safbwyntiau eich gwrthwynebwyr gyfiawnhad i'ch safbwynt chi eich hun. Mae'n hawdd deall pam yr hoffech gadarnhad fel hyn. Os dywedaf i wrthych fod pobl yn dod o hyd i sawl gwahanol ystyr i fywyd, rydych yn poeni am fod arnoch eisiau cael i'r ystyr a welwch ryw brawf neu gadarnhad na cheir mohono i'r atebion eraill.

Teimlo yr ydych, rwy'n amau, fod yn rhaid wrth y rhagor hwn, neu ynteu byddai pob ateb ar yr un gwastad â'i gilydd. Nid yw hynny'n dilyn. Ond fe dybiwch ei fod. Pa well ffordd amdani, felly, na chredu fod pob safbwynt arall yn y bôn yr un a'ch safbwynt chi? 'Mae yna rywbeth ynom sy'n dweud fod yn *rhaid* bod yna ystyr. Ac wrth gwrs y mae'r ymwybod cudd yma'n gywir.' (t. 20)

Mae'r gwrthddadleuon yn erbyn yr honiad hwn yn llu. A ydych am gymryd arnoch ddweud fod pob safbwynt anghrefyddol yn rhywbeth gwahanol i'r hyn yr ymddengys, a bod y bobl hynny a oedd yn ei goleddu ar yr union adeg pan goleddent ef, yn ymwybod â rhywbeth a oedd yn dweud wrthynt mai gau ydoedd? Efallai y mynnwch gyfyngu'r sylw i'r rheini sy'n dweud nad oes ystyr i fywyd, ond hyd yn oed wedyn mae'r hyn a honnwch yn ffals. Mae'n ddigon gwir fod yna bobl sy'n dweud fod bywyd yn ddiystyr ond heb feddwl yr hyn y maent yn ei ddweud. Ond ai dal yr ydych nad oes neb sy'n dweud fod bywyd yn ddiystyr yn meddwl hynny mewn gwirionedd? A heb ddilyn y trywydd hwn, beth am y rheini sy'n gweld fod ystyr i fywyd, ond yn cael yr ystyr y tu allan i Gristnogaeth? A ddywedwch wrthynt fod rhywbeth o'u mewn yn dweud wrthynt fod eu syniadau yn rhai gau? Siom i mi oedd darllen eich geiriau, 'Ond dydw i ddim am ddilyn y trywydd yna ar hyn o bryd ... a does dim amser i ddatblygu'r dadleuon angenrheidiol' (t. 20). O leiaf yr ydych yn cydnabod fod gofyn dweud rhagor – llawer iawn rhagor, yn wir.

B.J. Nid wyf yn amau, bid siŵr, nad yw'r 'anghytunwyr' yn meddwl yr hyn a ddywedant. Gallant feddwl pob math o bethau.

Ond unwaith eto, tybed ai dyna'r cwestiwn yr oeddech yn bwriadu'i ofyn?

Meddai Camus un tro, 'Rwy'n datgan nad wyf yn credu mewn dim, ac mai hurt yw popeth, ond ni allaf amau dilysrwydd fy natganiad fy hun, ac rwy'n cael fy ngorfodi i gredu o leiaf yn fy mhrotest fy hun.' Brawddeg sy'n ein hatgoffa am y dyn difyr hwnnw a ddywedodd, 'Rwyf bob amser yn dweud celwyddau,' ac yna a sylwodd ei fod newydd ddweud celwydd arall.

Nid wyf felly yn amau nad oedd Camus wedi meddwl – ar y pryd – yr hyn a ddywedodd. Ond dal yr wyf, os ewch gydag ef i'r pen draw, yna y mae'r dywediad braidd yn denau o ran synnwyr a gwirionedd.

Yr ydych yn dyfynnu brawddeg gennyf sy'n sôn am y rhywbeth hwnnw ynom sy'n dweud fod yn rhaid bod yna ystyr. Sôn yr wyf y mae'n amlwg, unwaith eto am ras cyffredinol Duw ac am y datguddiad ohono i gydwybod neu ymwybod pob dyn: 'Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragwyddol allu ef a'i Dduwdod; hyd onid ydynt yn ddiesgus.'

Ar ôl dyfynnu fy mrawddeg, ewch ymlaen i ddarllen pethau yn fy narlith nad oeddent yno. Wel, mae hi siŵr o fod yn ddifyr dilyn trywydd felly.

D.Z.P. 8: Beth a ddywedwch am allanolrwydd mewn crefydd?

A allai'r apêl at y mewnol a drafodais uchod, fod yn apêl derfynol yn eich golwg? Go brin, onid e? Ni allai fod yn brofiad sy'n ei wireddu ei hun. Os anghytunwch â hyn, yna yr ydych yn gwrthddweud y cyfan a ddwedwch yn eich darlith yn erbyn goddrychaeth. Am hynny pan ddywedwch, 'Ac wrth gwrs y mae'r ymwybod cudd yna'n gywir,' ni ellir deall beth a olygir gennych wrth *gywir* trwy gyfeirio at yr 'ymwybod cudd'. Fe fynnwch ddod o hyd iddo mewn rhywbeth allanol.

Ond onid yw eich syniad am allanolrwydd yn un go od? 'Fe ellid credu mai creadur rhyfeddol yw dyn ar ddelw Rhywun sy'n uwch nag ef ac ar wahân iddo. Dyna ffaith wrthrychol, gredaf i. Ac y mae i ddyn bwrpas, sef bod mewn cytgord a pherthynas bersonol gyda'r Rhywun hwnnw, a chyflawni ewyllys neu gynllun y Person hwnnw ar y ddaear. Sylwch: Person, nid syniad nac egwyddor, nid grym amhersonol na theimlad meidrol nac athrawiaeth, ond Person cyflawn, amlochrog ac anfeidrol." (t. 19). Mae'r peth yn eironig, ond, hyd y gwelaf, mae'r realiti allanol a geisiwch yn dwyn dylanwad y fateroliaeth yr ymosodwch mor llym arni. Er ichi arfer y gair 'anfeidrol' yr ydych am i Dduw fod yn union fel y mae mynydd yn bod. Yr ydych yn cyfystyru bod yn wrthrychol â bod yn wrthrych. Ond nid yw'r syniad o'r hyn sy'n annibynnol real wedi ei gyfyngu i fyd gwrthrychau. Mae cariad yn annibynnol real, ond nid yw'n wrthrych. Mae'r diwylliant y'n genir ni iddo, yn annibynnol real, ond nid yw'n wrthrych. Pa unigolyn bynnag y deuwn o hyd iddo, pa wrthrych bynnag y meddyliwn amdano, ni all mai Duw yw'r unigolyn na'r gwrthrych hwnnw. Nid enw ar wrthrych nac ar unigolyn yw 'Duw', ac nid oes undim yn yr Ysgrythurau sy'n peri inni feddwl hynny.

B.J. Chwi sy'n crwydro oddi ar lenyddiaeth yn awr, rwy'n ofni.

Ond yr wyf yn barod iawn i ateb eich cwestiwn.

Fe seiliwch eich cwestiwn ar osodiad amlwg gyfeiliornus: 'Nid enw ar wrthrych neu ar unigolyn yw "Duw" meddwch, 'ac nid oes undim yn yr Ysgrythurau sy'n peri inni feddwl hynny.' Ceisiwch honni nad oes Duw 'gwrthrychol', hynny yw, o'i gyferbynnu â'r profiad ohono sy'n oddrychol: os felly, peidiwch â sôn am yr Ysgrythur.

Cyfyngaf fy sylwadau am y tro i'r Mab. Nid fy nymuniad oedd traethu yn awr bethau rhy elfennol. Ond diau y cydnabyddwch fod y traddodiad Cristnogol uniongred hollol gyffredin yn adnabod Iesu Grist yn Dduw; ac yn ail, diau y cydnabyddwch mai uniongrededd Cristnogol yw sylweddoli fod Iesu Grist yn unigolyn gwrthrychol, yn berson corfforol, iddo drigo yn ein plith a'i

ddwy natur yn un person, iddo farw ar bren, ac iddo atgyfodi yn y corff hanesyddol ac esgyn yn gorfforol i'r nef. Nid wyf yn dweud dim byd syfrdanol o newydd yn hyn o beth, nac wyf, nac yn wahanol i'r Ysgrythurau. Meddai Ann Griffiths:

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
　　WRTHRYCH teilwng o'm holl fryd:
Er mai o ran yr wy'n adnabod
　　Ei fod uwchlaw gwrthrychau'n byd.

Ni wn a ydych yn dymuno i mi ddyfynnu'r Ysgrythurau priodol sy'n gefn i dduwdod yr unigolyn gwrthrychol Iesu Grist, megis Ioan 1: 1, 14, 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair. ... A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni.' Fel y cofiwch, y mae Heb. 1: 8, yn cyfarch yr unigolyn Iesu Grist â'r enw Duw ac fe allem hela ar ôl Ysgrythurau cyffelyb, megis Ioan 8: 58; 20; 28; Philip 2: 6, pe bai hynny'n ofynnol. Ond nid un o dystion Jehofa ar stepyn fy nrws ydych chi, mi obeithiaf.

Naturiol, bid siŵr, yw peidio â chredu'r Ysgrythurau. Mater arall yw hynny. Yn wir, cyflwr y dyn anianol normal ydyw pendant anghredu. Ond nid oes awgrym, meddwch, ddim rhith o awgrym hyd yn oed, yn yr Ysgrythurau. Wel! Twt twt ...

Yn wir, ewch ymhellach, ac awgrymu, efallai mai o dan ddylanwad materoliaeth fodern y coleddais i unrhyw gredo yn y Duw sy'n realiti allanol i ddyn. Rhowch ormod o glod i'm moderniaeth i, rwy'n ofni. Nid wyf i ond yn cydsynied â'r gredo a roddwyd o'r dechrau, y pwyslais corfforol ar Gristnogaeth (neu'n hytrach y pwyslais personol, sy'n cynnwys ysbryd a chorff).

Yn y blynyddoedd diwethaf hyn, efallai o dan ddylanwad Tillich, a chrefyddau'r Dwyrain ac yn y blaen, aethpwyd i ail-bwysleisio'r hen gred adnabyddus yn yr anfaterol a'r goddrychol cyfyngedig. Os dymuna neb ymuno yn y gêm fach yna, wel, dyna hi: na honner ei bod yn Ysgrythurol.

Heblaw hynny, gwrthrychol yw'r Ysgrythurau eu hun hefyd, a roddwyd drwy'r Ysbryd Glân: ac i'r Cristion fe gynnwys osodiadau gwrthrychol a gafwyd gan Dduw personol yn y 'cyffredinol' ac am yr 'arbennig', am bechod ac am bechodau, am y corff a'r enaid, am ras a natur, am yr emosiynol a'r esthetig. Felly y bydd Duw, yn wrthrychol ac yn oddrychol, yn tystiolaethu amdano'i hun inni.

D.Z.P. 9: Pa fath o brawf a geisiwch i Gristnogaeth?

Yr ydych am gynnig rhyw brawf am Gristnogaeth. Ond hyd y gwelaf yr hyn a gynigiwch yw (a) metaffiseg wael, (b) cymhellion annheilwng, (c) syniadau cymysglyd am gymdeithas. Ystyriwn

bob un o'r rhain. Metaffiseg wael yn gyntaf. Dywedwch am ddyn, "Y mae iddo le mewn cynllun sydd ynghlwm wrth realiti y tu hwnt i ddyn." (t. 19). Yma mae'n rhaid ichi ailgodi'r ddadl ar sail Cynllun a wrthbrofwyd yn derfynol, fe ddywedwn i, gan Hume, neu ynteu mae'n rhaid ichi ddadlau o blaid golwg ar hanes fel rhywbeth wedi ei rag-benderfynu, sy'n safbwynt llawn mor simsan. Mae'n rhyfedd eich cael yn ymgymryd â'r naill a'r llall. A chithau'n un a ddewisai, fe dybiwn i, gadw crefydd ar wahân i unrhyw gyfiawnhad metaffisegol (a dyna fy safbwynt innau), yr ydych wrth apelio fel hyn at gynllun fel petaech am fynnu gwneud credo crefyddol yn ddibynnol ar rywbeth arall yn yr union ffordd yma.

Yn ail, yr apêl at gymhellion annheilwng. Yr ydych yn ceisio dychryn pobl i gredu. Yn y Gorgias fe geisiodd Polus ddychryn Socrates i ymwrthod â daioni trwy apelio at y pethau dychrynllyd a allai ddigwydd iddo yn y ddinas pe na bai'n cymrodeddu ac yn chwarae ar delerau'r byd. Atebodd Socrates nad oedd yn fwriad ganddo adael i fwganod ei ddychryn. Yn ddiweddar ceisiodd Peter Geach ddychryn anghredinwyr yn yr un modd. Awgrymodd ef ei bod hi'n iawn i'r dyn da wneud daioni er gwaethaf y pethau ofnadwy sy'n digwydd yn y byd, am fod y dyn da'n gwybod mai canlyniad gwneud drwg yn y byd hwn fyddai wynebu pethau gwaeth fyth yn y byd nesaf. Cymhelliad annheilwng yw hwn. Dywedwch: 'Rhaid iddo hefyd, os yw am fyw, gyflawni'r ystyr y crewyd ef ar ei chyfer. Os yw e'n ceisio dewis marw, dyw hynny ddim yn rhyddhau chwaith.' (t. 19). Nid yw hynny'n gywir. Gellir dweud wrthyf mai colli fydd fy rhan mewn gêm arbennig am mai Duw yw fy ngwrthwynebydd. Ond gallaf i ateb: 'Os felly, gêm go sâl yw hi. Dyma ichi ateb Rush Rees i'r math o ddadleuon a ddefnyddir gennych chi a Geach:

'Suppose you had to explain to someone who had no idea at all of religion or of what a belief in God was. Could you do it in this way? By passing to him that there must be a first cause – a Something – and that this Something is more powerful (whatever this means) than anything else, so that you would not have been conceived or born at all but for the operation of Something and Something must wipe out the existence of everything at any time? Would this give him any sense of the wonder and glory of God? Would he not be justified if he answered: What a humble idea! Like a Frankenstein without limits, so that you cannot escape it. The most ghastly nightmare! On the other hand if you read to him certain portions of the passage in the early Isaiah which describe the beauty of the world ... then I think you might have given him some sense of what religious believers are talking about. I say some idea: I am talking of how you might make a beginning.

If my first and chief reason for worshipping God had to be a belief that a super Frankenstein would blast me to hell if I did not, then I hope I should have the decency to tell this being, who is named almighty God, to go ahead and blast.

Is the reason for not worshipping the devil instead of God that God is stronger than the devil? God will get you in the end, the devil will not be able to save you from his fury, and then you will be for it. "Think of your future, boy, and don't throw away your chances." What a creeping and vile sort of thing religion must be.'

Yn drydydd, syniadau cymysglyd am gymdeithas: 'Y mae'n fod cymdeithasol; ac os yw ef am i'w hil oroesi, rhaid iddo ymddwyn yn gymdeithasol' (t. 19). Mae hyn yn awgrymu golwg unol ar y gymdeithasol. Ond rhaff o amryw geinciau yw cymdeithas ac y mae i'w helfennau werthoedd a buddiannau na ellir eu cyfnewid am un safon gyffredin mewn un farchnadfa.

B.J. Wrth i chi ymdroi o gwmpas y cwestiwn hwn, fe wnewch sawl cam gwag mewn rhesymeg, os caniatewch imi ddweud.

Yn gyntaf, ar ôl dyfynnu'r hyn a ddwedaf am yr arfaeth ddwyfol, ceisiwch awgrymu fy mod i'n dadlau rywle neu'i gilydd – a'm gwaredo – yn ôl y Praw Teleolegol o Dduw a wrthodwyd gan Hume ac eraill, chwarae teg iddynt. Fel y gwelwch bellach yn ddiau, nid oes gennyf fawr o gydymdeimlad â'r ffaeledigrwydd yna.

Fel arall yn hollol. Yr wyf yn symud i'r cyfeiriad gwrthwyneb yn deg. Oherwydd fod Duw yn drefnus ac yn gyfiawn ac yn hardd, a'r greadigaeth yn ei ddwylo Ef ac yn dilyn ei arfaeth Ef, er gwaetha'r Cwymp, y mae i ddyn ei le mewn cynllun sydd ynghlwm wrth realiti y tu hwnt iddo. Nid prawf o Dduw yw hyn o gwbl, ond prawf o ddyn. Y mae dyn yn bod oherwydd bod Duw yn bod. Y mae'r Cristion yn dod i brofiad o Dduw mewn ffordd hollol wahanol, gredaf i, i'r Prawf Teleolegol; sef llaw Duw ar waith yn ei gynllun. Mae'n gweld Duw yn Nhrefn y Cadw am fod Duw am ei ddatguddio'i hun drwy'r Ysbryd Glân.

Yna, ewch ymlaen i'm cyhuddo o gymhellion annheilwng. Dywedwch fy mod yn ceisio dychryn pobl i gredu.

Twt, twt.

Nid oes gen i ddim diddordeb mewn dychrynu dynion, er fy mod i'n credu y dylid dweud y gwir heb flewyn ar dafod pe gellid caru'n cyd-ddynion ddigon (dyna'r prinder). Dw i ddim yn gwybod am neb erioed a gredodd yn Nuw rhag ofn dychrynfeydd y byd nesaf. Y mae yna arswyd yn disgyn ar ddyn sy'n dod wyneb yn wyneb â'r Duw byw, bid siŵr, y Duw pur a thragwyddol, y Duw hardd a thrugarog: dw innau wedi profi'r arswyd yna, mewn cryndod tlawd, ond nid oes a wnelo'n uniongyrchol ddim oll, o anghenraid â realiti uffern. Bid siŵr, gweithred gariadus yw dweud y gwir i gyd, ac nid oes gennyf fawr o amynedd tuag at yr anghydffurfiaeth lipa honno y cefais i fy nghyflyru ganddi yn fy magwraeth ac sy'n sgubo uffern yn daclus o'r golwg dan y carped ac yn cogio nad yw'n bod. 'Roedd y sentimentaliaeth honno a godwyd yn lle'r gwirionedd am y

Duw sy'n Gyfiawnder yn ogystal ag yn Gariad nid yn unig yn colli min y Gair ei hun, yr oedd hefyd yn gelwydd. Rhyfedd meddwl sut y llwyddodd rhai o'i hyrwyddwyr i ddod o hyd i sail dros gredu bod yna nefoedd heb gredu bod uffern, fod sail dros gredu mewn Cariad Cristnogol heb gredu mewn Barn Gristnogol. Yr un ffynhonnell neu dystiolaeth yn union sydd dros gredu'r naill â thros gredu'r llall. A'r unig dystiolaeth sydd ar gael ac sy'n bosibl, sef Gair Duw.

Ond dyna fe, os oeddech chi'n dymuno i mi'ch porthi chi yn eich gwrthwynebiad i flacmeilio uffern-fygythiol rhyw gartŵn o bregethwr sydd gennych chi neu gan Rush Rees yn eich dadl, yr wyf yn hapus dros ben i gydsynied.

Dewch yn ôl i geisio dilyn eich ymresymiad arall gyda mi. Dyfynnwch fy mrawddeg am ddyn: 'Rhaid iddo hefyd, os yw am fyw, gyflawni'r ystyr y crewyd ef ar ei chyfer. Os yw e'n ceisio dewis marw, dyw hynny ddim yn ei ryddhau chwaith.' Eich ymateb chi i hyn yw 'Anghywir'. Ymateb go bendant. Rhaid bod gennych ryw brawf go ddiddorol rywle. Sut gamre a ddilynwch mewn rhesymeg i wrthwynebu dau osodiad sy'n ddigon diniwed o uniongred yn eu safbwynt cyfarwydd? Dyma sut y dadleuwch: fe ellir dweud wrth hwn a hwn fod rhaid iddo golli pan fo Duw yn wrthwynebydd iddo, ond fe all hwnnw ddweud o hyd mai hen dro sâl ydyw. Gall wrth gwrs. Ond dyna'ch dadl, cofiwch. Popeth yn iawn. Wel, cewch ddweud a fynnwch chi am eich anfodlonrwydd, cewch dybied mai tro sâl ydyw ac y byddech chithau'n rhedeg y sioe yn amgenach o lawer iawn, iawn; ond nid yw dweud dim felly yn mynd i wneud ffaith gywir yn anghywir. (Na chwaith, os caf ychwanegu, yn mynd i'm hargyhoeddi i ynghylch ei gwella hi un mymryn mân, mân). Gwell i chi roi cynnig arall arni, rwy'n ofni.

Y trydydd cam gwag yn eich ymresymiad o dan y cwestiwn hwn oedd eich gwyrdroad o'r ddadl ynghylch 'cymdeithas'. Sylfaen cymdeithas yw'r teulu. Yr oeddwn i'n dal yn ddiniwed drachefn – ac unwaith eto, prin fy mod yn dweud dim byd dadleuol iawn – os yw dyn am blanta rhaid iddo gael cymdeithas o leiaf â menyw. Ni chredwn am eiliad y byddai neb oll yn ceisio fy maglu gyda'r fath osodiad syml a gwylaidd. Dyma'r frawddeg: 'Y mae'n fod cymdeithasol; ac os yw ef am i'w hil oroesi, rhaid iddo ymddwyn yn gymdeithasol.'

Anghywir? . . . Ped aech yn ôl dros eich sylwadau ar hyn, 'rwy'n siŵr y cydsyniech fod angen eu newid.

D.Z.P. 10: Sut fath o sicrwydd a geisiwch?

Mae'n ymddangos fod arnoch eisiau'r profion hyn am fod arnoch eisiau cael rhywbeth o'r tu allan i'r holl bosibiliadau ynghylch ystyr bywyd i ddweud wrthych pa un yw'r un gwir neu gywir. Rwy'n pwyso arnoch ystyried fod gwirionedd a chynnwys yr un i'r rheini sy'n arddel y posibiliadau

amrywiol hyn. Nid oes brawf hwnt i'r cynnwys. Os Crist yw cynnwys safbwynt crefyddol, yna i'r Cristion, Crist yw'r gwir. Ni warentir mohono gan unrhyw beth tu hwnt iddo'i hun. Ac fe dybiwn i fod hwn yn gasgliad derbyniol iawn gan efengylwyr. Mae'r cwestiwn, 'Ys gwn i pa un yw'r syniad cywir?' yn gwestiwn artiffisial ac eithrio pan ofynnir ef ar sail amheuaeth wirioneddol.

Ni ddywedais i ddim sy'n awgrymu na ellwch chi am ichi ddod o hyd i'r gwirionedd yng Nghrist gydnabod y gall eraill ddarganfod y gwir yn rhywle arall. Ni raid ichi ddal nad yw'r bobl eraill hyn yn meddwl yr hyn y maent yn ei ddweud nac ychwaith fod y gwir, fel y gwelant hwy ef, yr un yn y bôn â'ch gwir chi. Y cyfan y mae'n rhaid ei ddweud yw nad eu ffyrdd hwy yw eich ffordd chwi. Nid perthnasoledd mo hyn, ond cydnabod gwahaniaethau cwbwl ddilys.

B.J. Dechreuwch yr adran hon drwy ddweud: 'Mae'n ymddangos fod arnoch chi eisiau'r profion hyn. . . .'

Nid wyf yn siŵr pa brofion yr ydych yn sôn amdanynt yn y fan yna gan mai canlyniadau oedd fy mhrif ddiddordeb i.

Ond ewch ymlaen i bwysleisio 'cynnwys' Crist, cynnwys gwrthrychol, mi obeithiaf, pwyslais y mae gennyf gryn gydymdeimlad ag ef yn y dyddiau hyn pryd y mae 'Crist' wedi mynd yn ddigynnwys i lawer, ac yn rhyw air goddrychol 'cyfriniol' y gellwch roi a fynnwch iddo.

Dywedwch y dylwn i gydnabod fod pobl eraill yn dod o hyd i wirioneddau y tu allan i Grist, 'mewn man arall'. Nid wyf am fod yn anghydweithredol o hyd ac o hyd, ond hoffwn (o ran digrifwch) wybod am un smotyn mân o'r greadigaeth hon y tu allan i'w benarglwyddiaeth Ef, neu am un gwirionedd bach, bach sydd heb fod yn ei ddwylo Ef. Rhowch wybod rywdro, ac yna fe fyddaf yn fodlon iawn i gydnabod yr hyn a ddywedwch.

O fewn dimensiwn y ddaear hon, drwy gysylltu ffaith â ffaith, peth â pheth, fe all dyn anianol, bid siŵr, drwy ras cyffredinol ddod o hyd i wirioneddau anianol, gwirioneddau naturiol bob dydd – nid datguddiad absoliwt, wrth gwrs, nid datguddiad arall am iachawdwriaeth, nid datguddiad arall, chwaith, am y weithred hanesyddol fawr a gyflawnodd Duw ar gyfer adfer y berthynas rhyngddo a'i bobl, sef rhwng ei bobl a'r Gwirionedd. Fe all dyn, ac, yn wir, dyma a orchmynnir yn gyntaf oll i bobun gan Dduw, archwilio a darostwng y ddaear hon drwy rym meddwl a chorff. Gall, wrth gwrs; ond sut y llwyddwch i'm hargyhoeddi y dylwn weld y gwirioneddau hyn ar wahân i Grist, wel prin bod angen perswâd arnaf i gydnabod hynny. Prin bod angen ychwaith ddweud hynny mewn dadl.

Un ymosodiad cyffredin iawn a glywir ar hyn oll yw: ' 'Rydych chi'r Cristnogion yn meddwl mai chi'n unig sy'n gywir.' Dyma'r dull seciwlar o feddwl mewn gwirionedd, dull sy wedi'i seilio ar hunanddigonolrwydd anffaeledig y dechneg amheuol ac ar berthynoldeb pob barn. Ym mryd y

Cristion ar y llaw arall, ni fynnai ef orseddu yr un o'i syniadau'i hun am y Gwirionedd: derbyn y Gwirionedd a wna'r Cristion bob amser o'r tu allan, yn groes i'r graen, yn ufudd, heb ddeall yn aml, ond o bosibl yn addolgar.

D.Z.P. 11: Beth yw pwrpas llenyddiaeth?

Dywedais ar y dechrau nad ydych yn sôn fawr am y cwestiwn hwn yn eich darlith.

Cyfeiriwch at y rheini sy'n dweud nad oes bwrpas i lenyddiaeth yn union fel petaent yn dweud y gwrthwyneb i'r rheini sy'n dal fod pwrpas i lenyddiaeth. Ond nid yw hyn yn dilyn o gwbl. Fe all mai dweud y mae rhai, 'Fe all fod pwrpas i lenyddiaeth, ond mewn gwirionedd does dim.' Fe all mai dweud y mae eraill, 'Camddeall natur llenydda yw sôn am bwrpas yn y cyswllt yma.' Dyma'r safbwynt a goleddir gennyf i. Safbwynt ydyw a gyflwynwyd yn ardderchog gan R. W. Beardsmore o Adran Athroniaeth Bangor, yn ei lyfr ar *Art and Morality.*

Nid yw llenyddiaeth yn dweud wrthym pa un ymhlith y gwahanol ystyron a ddyry pobl i fywyd yw'r un gwir, nid yw'n dweud a yw'r anobaith a wêl rhai yn rhywbeth y gellir ei gyfiawnhau. Nid yw llenyddiaeth yn ddidactig yn yr ystyr yma. Mae'n corffori'r posibiliadau mewn stori a drama ac ysgrif a cherdd. Mae'n rhoi inni olwg ar y posibiliadau ystyr, ond mae'r olwg honno'n perthyn yn fewnol i'r celfyddydwaith ei hun. Ni olyga hyn fod celfyddyd wedi ei didoli oddi wrth fywyd, yr hyn a olyga yw na ellir cael y ddealltwriaeth a ddyry celfyddyd mewn unrhyw ffordd arall. Dyma pam na ellir tynnu ymaith na chyfnewid unrhyw ran o gelfyddydwaith gwirioneddol dda. Nid cyfrwng i gyrraedd rhyw ddiben yw gwaith celfyddyd. Yn yr ystyr yna nid oes iddo bwrpas. Mae ganddo rywbeth gwell na phwrpas. Mae ganddo ei stori ei hun i'w chyfleu.

B.J. Atebais eiriad union y cwestiwn hwn wrth ateb y cwestiwn cyntaf. Eto, y mae un neu ddau o bethau eraill yn galw am sylw.

Yn ôl yr hyn a ddwedwch am lyfr Mr. Beardsmore, os yw'ch cyfeiriadau ysgafn yn ei gyfleu'n deg, nid yw'n debyg y caf amser i'w ddarllen. Gallaf ddod o hyd i resymau 'hanesyddol' dros ddarllen dadleuon ynghylch llenyddiaeth hunan-ddigonol pan fyddant yn Gymraeg. Tra diddorol yw rhai o Ffurfiolwyr Rwsia gynt neu Adeileddwyr Siecoslofacia hwythau pan fyddant ar yr hen drywydd yma. Ond nid oes gen i fawr amynedd i ddarllen llyfr Saesneg ar y mater mwyach, yn arbennig gan fod y math hwnnw o safbwynt wedi'i hen wrthod, a'i gyfiawn wrthod, gan y beirniaid llenyddol cymdeithasol, y beirniaid llenyddol ieithyddol eu hunain, ac eraill.

Wrth reswm, fel Calfinydd ufudd, yr wyf yn parod gredu mewn sffêr sofraniaeth. Fel yr wyf eisoes wedi awgrymu yn fy nhabl ar y dechrau, yr wyf yn credu fod i lenyddiaeth ei pherthnaseddau

mewnol a'i phriodoleddau gwahaniaethol ei hun. Ond fel iaith, nid yw'n bod ar wahân i'w hystyr, rhaid iddi ddweud rhywbeth: ni all chwaith, – fel popeth arall, – fodoli ar wahân i'w phwrpas, ac y mae'r pwrpas hwnnw'n bod cyn i lenyddiaeth fod, – yn ei rhagflaenu ac yn ei holynu. Nid o fewn llenyddiaeth y mae ei phwrpas. Y pwrpas sy'n esgor ar lenyddiaeth ac yn achos iddi.

Carwn felly gyferbynnu â'ch dyfyniadau chi ddyfyniad gwrthwyneb sy'n ymosodiad ar y dull mewnfodol neu 'fewnblygol' neu hunanddigonol a gymeradwyir gennych, ac a fu'n gonfensiynol am gyfnod mor hir. Gwenallt sy'n eu lambastio nhw yn y fan yma, a sylwodd ef (fel y ceisiais ddadlau eisoes), wrth ymwared ag un set o ragdybiau diwinyddol, nad ydys ond yn dodi set arall yn eu lle:

Fe'i gwelais ef echdoe ar y ffordd i Nanteos
Wedi ymbelennu yn ei bigog groen,
Roedd sirioldeb yr haul arno yn syrffed
A sgwrs yr adar uwch ei ben yn boen.

Fe guddiodd ei ben y tu mewn i'r crynder
A hongian ei draed y tu mewn i'r drain;
Nid rhaid symud i hel pryfed a llyffaint
Gan fod ar ei bigau bantri o chwain.

Efe ydyw'r proffwyd ar adfeilion Ewrob,
Cynddelw ei llên a'i chelfyddydau cain;
Efe a lanwodd y gwacter lle y bu'r Drindod,
O! Belen anfarwol. O! Dduwdod y drain.

Ni raid dweud mai'r math o feirniad ydych chi'n sôn amdano ydyw'r Draenog. Cydredeg a wna'r theori 'Pelagaidd' yma, ynglŷn â llenyddiaeth ac iddi darddiad neu bwrpas ynddi ei hun neu hunan-ddigonolrwydd fel y gwelwch ar unwaith, â'r ddiwinyddiaeth oddrychol sy'n gwneud dyn yn hunan-ddigonol neu'n hunan-lywodraethol. Ond fel pob celwydd, nid yw'n sefyll gystal cyn gynted ag y dechreuir ei dynnu i'r golwg a'i wneud yn ymwybodol; trafferth y seicolegwyr yw eu bod mor naïf anymwybodol o'u rhagdybiaethau diwinyddol. Eu rhagdybiaeth arferol yw hunan-lywodraeth neu hunan-ddigonolrwydd eu meddwl eu hun: hoff ganddynt wneud eu meddwl neu ryw agwedd ar y greadigaeth yn absoliwt. Enwasoch Stevens, ac fel y cofiwch, ei linell enwocaf yw 'Dywedwn mai un yw Duw â'r dychymyg.' Sef ei ddychymyg ei hun.

Yn awr, cyn bod llenydda mae yna bwrpas eisoes ar gael, y tu allan i lenydda, fel y mae pwrpas ar gael gan blentyn bach sy'n mynd i ddysgu iaith, cyn iddo feddiannu'r iaith honno. Dyna pam y mae'n werth ei dysgu. Cyn y weithred y ceir y cymhelliad. Y mae ei phwrpas a'i gwerth yn bod cyn iddi hi fod. Bid siŵr, gellir ceisio esbonio'n hanesyddol sut y cafwyd, mewn llenyddiaeth, yr egwyddor hynafol hunanlywodraethol honno hefyd, o fyd diwinyddiaeth, yn arbennig o gyfeiriad

Tomos Acwin (yn ôl Schaeffer); ac nid anodd deall pam y mae dyn neu lenyddiaeth yn hoffi eu rhoi eu hun yn y canol fel hyn. Ond cyn gynted ag y dechreua'r theorïau hunan-ganolog a seciwlar hyn wynebu'r ffaith lywodraethol o undod meddwl ac undod bywyd, yna y maent yn dechrau simsanu braidd.

D.Z.P. 12: Beth a wnewch o baradocs Bobi Jones?

Yn yr un cwestiwn ar ddeg a gyfeiriais atoch, bûm yn dadlau â chi; ond trwy'r amser, 'rwy'n rhyw amau nad yw hyn, o'ch safbwynt chi, o bwys yn y byd. Chi'ch hun yn y ddarlith sy'n dweud wrthym mai eu twyllo eu hunain y mae'r rheini sy'n ymholi. 'Er ceisio bod yn "ymholwr" . . . Ac yntau erioed wedi cogio bod mor glên yn ymholi, mor ingol yr ymbalfalu yn nryswch moderniaid y dyn sy wedi dod i'w oed, druan, yr hyn sy'n rhythu arno yw trefn a chynllun clós y greadigaeth, ie, yn ei wead ei hun.' (t. 19). Soniais eisoes am beth o'r dryswch a welaf fi yn y sylwadau hyn. Credwch i, fe all pobl sy'n anghytuno â chi feddwl yr hyn y maent yn ei ddweud. Ond yn awr fe hoffwn osod ger eich bron baradocs Bobi Jones. A ydych am drafodaeth o ddifrif â phobl eraill, ai peidio? Os ydych, yna mae ein thesis yn ffals. Onid ydych, yna ni ellir ystyried eich darlith yn gyfraniad at drafod y cwestiynau a godir gennych; ni ellir ei derbyn yn gynnig i ymuno mewn trafodaeth.

Yr hyn y mae gofyn ichi gydnabod yw bod ymholi ynddo'i hun yn weithgaredd moesol. Mae'n hawlio gan yr holwr roi sylw di-hunan i'r defnydd y mae'n ymholi iddo. Ni olyga roi ei deyrngarwch personol i'r deunydd, ond mae'n rhaid osgoi ei gam-ddehongli. Nid yw ymholi yn golygu canolbwyntio ar hunan fel yr awgrymwch. Ar ei orau mai ymholi'n weithgaredd ddi-hunan.

Tybed nad at yr 'ymwybod cudd' y mae eich apêl yn y pen draw? Tra apeliwch at ddadleuon ynghylch cynllun, etc., mae'n rhaid ichi wynebu gwrthwynebiadau. Os nad ydych am wynebu gwrthwynebiadau, yna'r ydych yn syrthio'n ôl i bwyso ar sicrwydd mewnol ynghylch y gwir. Ond os felly, beth am eich goddrychedd? Mae eich safbwynt yn bur gymysglyd, onid ydyw?

Gadewch imi wneud un peth yn glir. Nid wyf am awgrymu am funud fod gofyn i gredinwyr crefyddol ymgymryd â dadlau'n athronyddol. Dim o'r fath. Dweud yr wyf na all un na fyn ddadlau'n athronyddol gael y gorau bob ffordd. Ni all hawlio ei fod uwchlaw dadlau ac ar yr un pryd honni ei fod wedi setlo ystyriaethau athronyddol trwy ryw ddull preifat anchwiliadwy o'i eiddo'i hun. Caf fy atgoffa am y myfyriwr diwinyddol hwnnw a fynnai gael y gorau o'r ddau fyd. Yn arholiadau'r Nadolig fe ysgrifennodd, "Nid wyf yn gwybod beth yw'r ateb i'r cwestiynau hyn, ond mae Duw yn gwybod. Nadolig Llawen i chwi." Ac fe'i gadawodd hi ar hynny. Pan ddaeth yn ôl i'r coleg ar ôl y gwyliau, yr oedd ei bapur arholiad ar ei ddesg a sylwadau ei diwtor arno, 'Mae Duw'n pasio; rydych

chwi'n methu. Blwyddyn Newyddd Dda!'

Dewi Z. Phillips (cyf. B.L.J.)

Adran Athroniaeth,
Coleg y Brifysgol, Abertawe.

B. J. 'Credwch fi', meddwch, 'fe all pobl sy'n anghytuno â chi feddwl yr hyn y maent yn ei ddweud.'

Nid dadlau'r wyf ynghylch beth a feddyliant. Yr hyn a'm diddora i yw beth sy'n gywir.

Gofynnwch wedyn, a wyf yn ymuno mewn trafodaeth ddilys gydag eraill?

Ceisiaf ateb hyn yn blwmp ac yn blaen mewn dwy ran, gyda dwy is-adran yn yr ail.

Swydd y Cristion yn gyntaf yw cyhoeddi'r Gwirionedd rhoddedig mewn ofn a dychryn yn ostyngedig, ond heb ei 'drafod' yn yr ystyr seciwlar. Nid ei wirionedd ef ydyw, yn yr ystyr arferol i'r frawddeg honno. 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd' yw'r hyn sydd o bwys iddo ef. Ni ddaeth Crist i 'drafod' ai mab Duw ydoedd, neu a fyddai'n hwylus i roi'i waed dros bechaduriaid, ac a oedd Duw'n bod tybed, a beth ydy'ch barn chi, ys gwn i, am fywyd ar ôl marw. Peth rhoddedig yw'r Gwirionedd mawr hwn, peth a dderbynnir oddi wrtho Ef, ac a ganfyddir felly yn yr unig fodd posibl, nid peth a geir (yn ôl y dogma neu'r rhagybiaeth ddyneiddiol) drwy 'ddarganfod' ymholgar. Does dim tarddiad y tu allan iddo Ef. Mewn man penodol y dechreua'r rhagosodiad Cristnogol, i'r iselradd, a chyda Duw yn y canol, lle y bydd y dyneiddiwr ar y llaw arall yn dechrau yn oddrychol (ac i'r graddau hynny, yn ddyrchafedig), gyda rhagdybiaeth dyn (nid heb ragdybiaeth, wrth gwrs). Pan fo datguddiad fel hyn ar gael ynghylch mater y mae'n amhosibl ei wybod drwy drafod dyneiddiol (drwy resymu, h.y., cysylltu pethau o fewn amser a lle), y mae glynu wrth y dogma fod yn rhaid esgor ar bopeth drwy drafodaeth ddyneiddiol, gan aros o fewn dulliau neu ddimensiwn amser a lle, yn gyfyngiad ar ddull dyn o ennill gwybodaeth. Dyna'r hen gyfyngu hiwmanistaidd unwaith eto. Gyda phethau na ellir dweud amdanynt, y cyngor doeth (fel y dywedodd un o'ch poetau chi) ydyw ymdawelu. Ni thau Duw.

Beth sydd gennym i'w 'drafod' gyda'n gilydd, felly, yn yr ystyr fod gan y ddwy ochr rywbeth i'w roi?

Ymhlith Cristnogion, nid – a ddylem ufuddhau i Dduw, neu a ddylem ei wasanaethu, ai ymostwng ac addoli sy'n briodol, – ond sut? Sut y mae ein credo yn ffitio yn ein bywyd beunyddiol ymarferol? Sut y mae treiddio'n ddyfnach i'r gredo a'r bywyd yma? Adeiladwn ein gilydd.

Ymhlith dynion yn diwahân, nid – beth yw pwrpas bywyd, beth yw natur ddyfnaf dyn, beth sydd y tu hwnt i farwolaeth, neu sut y ceir iachawdwriaeth? (does gan ddynion anianol, ni all fod, ddim cyfraniad defnyddiol o gwbl ar y pennau hyn: rhaid dweud y cwbl wrthynt) – ond sut y mae

ufuddhau i orchymyn cyffredinol cyntaf Duw i bob dyn ynghylch y moddion i ddarostwng y ddaear? Cwestiwn mawr, a digon teilwng, gredaf i, ond sy'n fwy cyfyngedig wrth raid na'r hyn sy'n agored i'r Cristion: dyna dir unrhyw gyd-drafodaeth helpfawr.

Fe holwch ymhellach ynghylch yr ymwybod 'cudd' yna, nad yw ond yn hen ddaliad adnabyddus yn ein plith ni'r bobl sy'n credu'r Ysgrythurau. Ni charwn fychanu hyn mewn modd yn y byd, ond rhaid peidio â'i gamdeall yr un pryd. Y mae Duw'n ei ddatguddio'i Hun mewn sawl ffordd, ac y mae gan ddyn ymwybod a chydwybod sy'n llefaru amdano. Ond ni byddwn i fy hun byth yn 'dibynnu' ar y rhain; a diolch i Dduw, does dim angen ei wneud. Oherwydd fod dyn mor wrthodgar a ffaeledig, y mae ei gydwybod a'i ymateb i'r amgylchfyd, – fel ei reswm a'i ddychymyg a'i ewyllys, fel y greadigaeth weledig y mae'n ei hwynebu, – yn syrthiedig. Felly, fe roddodd Duw ddatguddiad terfynol ac anffaeledig i hynny oll yn ei Fab. Fe lefarodd Ef hefyd wrth ddynion drwy'i Ysbryd Glân mewn gosodiadau gwrthrychol yn ei Air.

Gofynasoch yn y degfed cwestiwn pa fath o sicrwydd yr wyf yn chwilio amdano. Gallaf orffen fy ateb yn awr. Nid wyf yn chwilio am sicrwydd o gwbl, gan fy mod eisoes wedi'i gael, diolch i Dduw, yn y modd a thrwy'r ddwy ffordd yr wyf newydd eu disgrifio ar ddiwedd y paragraff diwethaf, heb 'ymholi'n' ddyneiddiol, er bod yna guro go wyllt wedi bod gan y cardotyn. Fe'i ceir yn wyrthiol ac yn anhaeddiannol ofnadwy cewch fentro, a thrwy drugaredd ddirgel Duw.

Hoffwn ddiolch i chi am ddarllen fy narlith gyda'r fath ofal a diddordeb, ac am fod mor garedig â llunio'r cwestiynau hyn i mi geisio ateb rhai problemau'n fwy cyflawn. Fy nhrafferth yn ddiau oedd cymryd gormod yn ganiataol – y byddai cynulleidfa Gymraeg ac iddi rywbryd draddodiad Cristnogol yn gyfarwydd â gras cyffredinol, sffêr sofraniaeth, y gorchymyn diwylliannol, ac yn y blaen (er nad wyf yn sicr o gwbl y byddai pawb yn cael yr anawsterau hyn).

Buoch o gymorth mawr felly, wrth imi geisio cyflwyno'r achos yn ddealladwy, mi obeithiaf, a thrwy'ch craffter adnabyddus a'ch boneddigeiddrwydd dadleugar yn ysgogiad imi lenwi bylchau yn y dehongliad, ac yr wyf yn wir ddiolchgar. Diau fod bylchau eraill: awn ymlaen felly o gam i gam.

Gobeithio, serch hynny, eich bod bellach, hyd yn oed os na chytunwch â mi, o leiaf yn cytuno â'r Americanwr hwnnw (ie, bobol bach, Wallace Stevens ei hun ydoedd) a ddwedodd: 'Yn ôl pob tebyg, pwrpas pob un ohonom yw sgrifennu barddoniaeth er mwyn dod o hyd i'r da, sydd yn ôl yr ystyr Blatonaidd, yn gyfystyr â Duw.'

Wel, wel: dyma hyd yn oed Stevens, bellach, yn cael 'pasio' – yn weddol – o leiaf y cwestiwn arholiad yna.

Adran y Gymraeg,
Coleg y Brifysgol Aberystwyth. Bobi Jones

GAIR O EGLURHAD

Seiliodd yr Athro Dewi Z. Phillips ei ddeuddeg cwestiwn ar ddarlleniad o ddarlith y Dr. Bobi Jones, *Beth yw Pwrpas Llenydda*? Ac atebwyd y cwestiynau yn y drefn y gofynnwyd hwy. Oherwydd hyn, ni ddylid disgwyl e.e., i'r trydydd cwestiwn godi oddi ar yr ail ateb na'i gymryd i ystyriaeth. Er gwaethaf yr anfantais sy'n dilyn, fe welir y gwahaniaethau sydd rhwng safbwyntiau'r ddau ddarllenydd yn ddigon eglur – Y GOLYGYDD.

---

ÔL-NODYN I DDADL 1975

Mae'r ddadl hon gyda Dewi Z. Phillips, fel y gwêl y cyfarwydd, yn ymwneud â rhai o'r themâu mwyaf cyffredinol yn fy meirniadaeth lenyddol i ar ei hyd. Fe'i cywasgwyd rywfodd o fewn y ddadl hon drwy honni bod 'Pwrpas Llenyddiaeth' yn ymwneud â materion canolog fel Gwerth Llenyddiaeth ac Ôl-foderniaeth mewn llenyddiaeth (ar ffurf Sgeptigiaeth, Didueddrwydd, ac Amhenderfyniadaeth).

Cymerir safbwynt Ôl-ôl-foderniaeth gennyf i.

Cyhoeddwyd fy narlith *Beth yw Pwrpas Llenyddiaeth?* yn Awst 1974. Agorodd Dewi ei wrth-ddadl yn y *Traethodydd* Ionawr 1975. Ond cafwyd parhad i'r ddadl hon yn y *Traethodydd* Hydref 1983, Ionawr 1984, Ionawr 1985. Roedd yna ddatblygiad pellach gan Ddewi yn y gyfrol nodedig *Ffiniau* 2088 (a gyhoeddwyd ar ôl ei farwolaeth 2006). Dyma dros ddeng mlynedd ar hugain o ddadl. Heb fod yn rhan o'r ddadl yn uniongyrchol, ac nid ar ffurf unrhyw fath o gwestiyna, trafodais innau lawer o bynciau'r ddadl mewn cyd-destunau beirniadol eraill drwy amryw ymdriniaethau llenyddol ar hyd y blynyddoedd – rhai ar lên a chrefydd, rhai ar wleidyddiaeth a llenyddiaeth, a rhai ar theori beirniadaeth lenyddol – yn arbennig ar Ras Cyffredinol a Hunaniaeth Gymdeithasol. Ceisiwyd dangos pam y mae llenorion seciwlar ar sail doniau naturiol yn medru cyrraedd safon uchel mewn llenyddiaeth a beirniadaeth, (ac â chynhwysfawredd yn eu chwaeth), er y gellid mabwysiadu safbwyntiau negyddol.

Ar lefel bersonol, weithiau, pan gyfyd dadl hir yn hanes rhywun, fe all olygu bod yna gymeriad newydd yn cerdded i mewn ar lwyfan drama'i fywyd. Wedi dod i eistedd yno, fe all yr hoffter dyfu, nes bod y cymeriad hwnnw'n aros yn ffrind byth wedyn. Felly y bu hi i fi, yn achos Pennar Davies, Hywel Teifi Edwards, a Dewi Z. Phillips. Gall cyfarfyddiad o'r fath fod yn ddigwyddiad heb ei ddisgwyl. Mae'n wir fy mod i eisoes wedi ymgydnabod â phob un o'r tri, i

raddau, cyn i'r berthynas ddatblygu.

Dw i'n credu imi brofi'r agoriad cyntaf i drafodaeth rhwng Dewi a finnau (cyn y ddadl hon) pan ges i wahoddiad i draddodi darlith ar ryw wedd ar 'Y Gwirionedd' i gynhadledd Adrannau Athronyddol a Diwinyddol o Urdd y Graddedigion. Bu'n gyfarfod bywiog.

Bu gan Ddewi, ddiddordeb dwfn mewn llenyddaeth. Ar ôl ei farwolaeth yn 2006, cyhoeddwyd llyfr gwerthfawr dros ben yn Gymraeg, *Ffiniau,* 2008, sy'n trafod ffiniau yng ngwaith llenorion a beirdd Cymru; ac yn y llyfr hwnnw, y mae'n dychwelyd i'r ddadl hir hon a fu rhyngom ni rhwng 1975 a 1985.

Bu llenorion Cymru'n ffodus i gael y drafodaeth a'r ddadl hon gan ŵr mor gatholig ei ddarllen, mor dreiddgar ei feddwl; y mwyaf o athronwyr Cymreig yn yr ugeinfed ganrif, medd llawer. Mae'r sylw a rydd ef i lenorion megis Gwenallt, Saunders Lewis, Parry-Williams, R. Williams Parry, Hywel Teifi Edwards, R. Gerallt Jones, J.E. Caerwyn Williams, a John Rowlands yn gynhyrfus o ddiddorol.

Mae'r ddadl hon yn y *Traethodydd* i'w chael ar y We eisoes yn rhifynnau o'r *Traethodydd,* Ionawr 1973, gyda datblygiadau Hydref 1983, Ionawr 1984, ac Ionawr 1985. Ond cyflwynir yn y Wefan hon yr holl ddadl a gafwyd yn 1973.

* * *

Ddeng mlynedd wedi'r rhan gyntaf, eto yn y *Traethodydd,* Hydref 1983, dychwelwyd gan Ddewi i un o'r cwestiynau canolog yn y ddadl. Dyma'r cwestiwn sy'n holi beth yw natur a lle rhagdybiau i bawb yn eu gwaith o lenydda, o fewn cymdeithas lle y mae gras cyffredinol ar gael i bawb.

Mewn erthygl sy'n dwyn y teitl 'Ai bod yn naïf yw ceisio bod yn ddi-duedd?' mae Dewi'n ceisio esbonio'r ffordd y mae'r dyneiddiwr yn amlygu'i ragdybiau, ac yn gwrthosod rhagdybiau cyfoethocach. Ceisiaf ddyfynnu ffrâm ei ddadl ddiweddarach.

Medd e (gan barodïo safbwynt Calfinaidd tybiedig):

(tud. 199) “Wrth wadu'r posibilrwydd o ymchwil ddi-duedd mae modd creu dihangfa amddiffynnol i'r rheini sydd am osgoi dadlau dros eu safbwynt. Oherwydd fod gan bawb eu rhagdybiaethau nid oes modd beirniadu'r fath ragdybiaethau. Gall un weld bopeth yn y byd o safbwynt Calfinaidd ac un arall weld popeth o safbwynt Marcsaidd. Os yw'r fath unigolion yn aelodau o brifysgol, mae'n bwysig nad ydynt yn casglu fod ymchwil ddi-duedd yn bosibl. Pe baent yn cyfaddef bod y fath ymchwil yn bosibl, byddai tyndra rhwng eu ffyddlondeb i ddamcaniaethau Calfinaidd neu ddamcaniaethau Marcsaidd ac ymchwil o'r fath. Byddai tyndra rhwng y fath ffyddlondeb ac aelodaeth o brifygol. Wrth gwrs, gall rhywun benderfynu dadlau o ragdybiaethau arbennig. *Y*

*bwriad yn y fath achos yw bwriad amddiffynnol, sef gwneud y gorau a fedrir dros safbwynt crefyddol neu wleidyddol arbennig. Nid gweld pethau fel y maent yw'r nod.*

* * *

Hynyna yw ei ddisgrifiad o'r sabwynt rhagdybiaethol. Felly –

(tud. 200) “Y mae'r honiad fod ymchwil ddi-duedd yn amhosibl yn ei gwneud hi'n rhesymegol amhosibl cyfeirio'n llwyddiannus at y ffaith fod gwahanol safbwyntiau yn bod.

* * *

Dyma D.Z.P. yn dod yn awr at natur 'ffaith' o'i chyflwyno i gredadun ac i anghredadun, hynny yw at y cyferbyniad rhwng y Duw-ganolog a'r dyn-ganolog.

(tud. 201) “Os cofio'r safbwyntiau a goleddwyd ganddo *fel mater o ffaith* yn ei gyflwr naturiol a wna'r dyn sydd wedi ei ail-eni, beth am y safbwyntiau sydd yn perthyn i'r cyflwr naturiol *nas* coleddwyd yn y gorffennol gan y credadun?”

Gwrthwyneba D.Z.P yn y fan yma y gred Galfinaidd fod y credadun yn methu â chwympo oddi wrth ffydd, er y bydd yn syrthio o fewn ffydd heblaw gwneud peth wmbredd o gamgymeriadau. Dyma, fel y gŵyr pawb, un o Bum Pwynt Calfinaidd, un o athrawiaethau Gras, sef dyfalbarhad y saint. Does dim marw i ysbryd a gadwyd. Awgryma D.Z.P. y gwrthodiad hwn, ac mae gollwng neu hepgor athrawiaeth allweddol mewn Cristnogaeth Galfinaidd yn drysu'r Cynllun Mawr cyfun sy'n ymestyn drwy athrawiaethau eraill, megis Pechod, Barn, ac Uffern. Ar y llaw arall, wrth dderbyn credadun i Deyrnas Crist, does ganddo fe ddim graddau mewn perffeithrwydd (nac mewn colledigaeth).

(tud. 201) “Yn ail, nid yw dadl y Calfinydd yn ystyried y *ffaith* fod symudiad hefyd o gyflwr ail-enedigaeth yn ôl at yr hyn a elwir gan y Calfinydd yn gyflwr naturiol dyn. Os yw'r rhai sydd wedi eu hail-eni yn cofio dyddiau eu cyflwr naturiol, mae rhai sydd yn awr mewn cyflwr naturiol yn cofio dyddiau eu hail-enedigaeth; hynny yw, os oes symud o anghrediniaeth i grediniaeth, mae symud hefyd o grediniaeth i anghrediniaeth.” [*Lol botes o safbwynt Cristnogol: does dim cwymp oddi wrth Ras, nac o uffern i'r nefoedd. Yn wir, ni chais D.Z.P. ymresymu na phrofi'r safbwynt Arminaidd, gan y gŵyr nad dyn sy'n dyfeisio ei nefoedd ei hun, diolch i'r drefn.]*

Dywed D.Z.P. ymhellach:

(tud. 202) 'Mae yna ystyr i'r gair 'dealltwriaeth' sy'n cyfeirio at y berthynas sy'n cael ei gweithio allan rhwng y credadun a'i Dduw. Ond eto, gall rhywun o'r tu allan i'r berthynas ddeall y math o berthynas ydyw a'r math o ddealltwriaeth sydd ynddi. Y gwahaniaeth eto yw'r ffaith nad yw'r un sydd y tu allan i'r berthynas yn wynebu'r dasg o weithio allan y fath berthynas yn ei fywyd ei hun.'

[*Eto, mae gennym ni yma honiadau dyn-ganolig. Nid wyf yn siŵr ai 'dod i ddeall' ynteu 'llwyddo i wneud' yw 'gweithio allan'. Bid a fo am hynny, roedd cyflawni hynny o du Duw yn golygu rhoi'i uniganedig Fab i waedu ar y Groes er mwyn cyflawni'r union fuddugoliaeth honno dros bobl wirion. Y drafferth yw, o ddilyn y llwybr dyneiddiol, ei fod yn camarwain; ac i'r Cristion, y Gwirionedd sy'n rhyddhau. Gall y Gwir fod yn llym; ond tosturi yw'i ddatguddio.*]

*Yn y fan hon, sonnir am yr amhosibilrwydd i'r anghredadun wybod pa fath o beth yw bod yn ddinesydd o Deyrnas Crist, a phrofi adnabyddiaeth o Dduw. Pe gwyddai hyn, ni byddai'n anghredadun.*

*Mae'n gorffen yr ysgrif drwy droi o gwmpas y term 'damcaniaethol". Mae ef am i hyn olygu 'gosodiadol (propositional)' neu 'theoretig'. Ond bwrw amcan yw'r cyntaf; haniaethol esboniadol yw'r ail, ac ni raid iddo fod yn 'fwrw amcan.' Gall fod yn gynnig ar gred mewn ystyr iawn.*

*Ond gallwn ni i gyd-fynd efallai fod ymdrechu i fod yn ddi-duedd yn amcan hyfryd a phwysig, cyn belled ag y mae'n bosibl, hyd yn oed os yw'n amhosibl i unrhyw un sy'n credu ei fod yn fyw ac nid yn breuddwydio, a bod dau berson sy'n anghytuno am barhad unrhyw gred i'r dyfodol yn ceisio didueddrwydd o fath. Anodd yw ymsefydlu'n gyfan-gwbl o fewn rhagdybiau rhywun arall. Ond rhydd D.Z.P. y nod i ni 'weld gyda golwg Socrates yr ymholwr.'*

Daeth f'ateb i i'w lith, Hydref 1983, yn syth ar y pryd ar ffurf ysgrif: '**Myth y Diduedd**'. Dyma hi, o'r *Traethodydd,* Ionawr 1984:

(tud.45) Yn ei erthygl 'Ai bod yn naïf yw ceisio bod yn ddiduedd?' yn y *Traethodydd* Hydref 1983 tuedda'r Athro Dewi Z. Phillips at gynifer o *ragdybiau* ynghylch yr ochr y mae'n dadlau'n ei herbyn fel y geill fod yn gam ymlaen geisio egluro beth yw rhai o'r rheini.

Gwaetha'r modd, ni rydd ef sylw i'r rhagdybiau sy'n byrlymu y tu ôl i'r syniad sydd ganddo am ei safbwynt ei hun; ac y mae hynny hefyd mewn ysgrif am y diduedd yn gryn anghyfleustra.

Hawlia ef nifer o bethau (a hynny ar sail rhagdybiau digon adnabyddus wrth gwrs – megis y gwna'r Marcsiaid a'r Calfiniaid hwythau yn eu tro, ac mae'r rheini'n ei 'chael' hi ganddo); eithr ni chais ef ddadansoddi nac archwilio'i ragdybiau ei hun, er ei fod heb ymresymu ar wahân i hynny, bid siŵr. Honna'r Athro (a'i dafod yn ei foch, mi obeithiaf) nad safbwynt pleidiol mo'r myth o fod yn 'ddiduedd'. Ac eto, wedi'r cyfan, pledio y mae yn ei holl lith, yn amlwg, dros ymddwyn fel pe bai bod yn ddiduedd yn bosibl, a hynny ei hun wrth gwrs yn *duedd* athronyddol ddigon cyffredin. Yn wir mae'r gêm – os gêm iaith – yn reit boblogaidd.

Gêm yw hon ac iddi ei rheolau priod ei hun. Rhagdyb arferol y 'didueddwr' yw ei fod ef yn gallu ymresymu ar wahân i Dduw hunangynhwysol. Naid i'r casgliad chwareus fod bod yn ddiduedd yn bosibl i'r sawl sy'n derbyn – yn rhagdyb tueddgaeth – gysondeb iaith o frawddeg i

frawddeg mewn byd a seiliwyd ar fath cyffelyb o gysondeb. Dechreua'n dalog gyda'i farn ei hun, wrth gwrs, yn hytrach na chyda barn Duw, – tuedd ddyneiddiol dderbyniedig, – a rhagdybia wrth gwrs, nad yr Ysgrythur yw Gair Duw sy'n dadlennu iddo seiliau pob gwirionedd a chynnwys mewnol pob hanfod. Cymer, yn wir, y gellir defnyddio'r meddwl dynol i ymgodymu'n ddigon 'annibynnol' â'r broblem honno.

Nawr, rhagdybiau cyfarwydd a blinderog odiaeth yw'r rhain oll, ac eraill sydd gan y didueddwr yn ei gynhysgaeth anochel. Caeth, bid siŵr. Meddyliol gaeedig. Ond digon cynefin i bob Cymro darllengar, ac yn sicr i holl ddarllenwyr y *Traethodydd*. Gwyddom oll mai naill ai Duw neu ddyn yw ein cyfeirbwynt eithaf. I'r Cristion, yn ddiau, caiff ffeithiau eu hystyr oherwydd y lle sydd iddynt yng nghynllun Duw; nid ydynt byth yn hunanlywodraethol. I'r Cristion, nid diduedd yw'r dyn naturiol gerbron Duw, ond gelyn ac ymwahanwr a gwrthodwr. Rhoddwyd prawf datguddiedig o hyn i'r Cristion; ac ni chafwyd erioed brawf – hyd yn oed gan yr Athro Phillips – mai fel arall y mae, yn ymarferol. Gellid 'rhagdybied' mai fel arall y gall fod, wrth gwrs; ond disgwyl y prawf syfrdan am hynny yr ydys o hyd.

Sut yn wir y gallai'r un Cristion lwyddo i fod yn ddiduedd?

A oes rhaid i'r sawl sy wedi cael prawf o Dduw, sy wedi cael cyfarfyddiad dirweddol a phersonol ag Iesu Grist, gogio nad yw hyn wedi digwydd, efallai? Y rhagdybiaeth angenrheidiol – 'ddiduedd' – yw ymddwyn fel pe na bai'r ysbryd wedi'i fywhau ef, ac nad yw'i enaid, sydd wedi dod i berthynas fywiol â Duw yn gorfod bod â thuedd tuag at Dduw o gwbl. Os yw am lwyddo i fod yn rhydd ymofynnwr, dyweder, y ffordd amdani yw coleddu yn ei feddwl y safbwynt (nad yw'n safbwynt, meddant) neu'r duedd (nad yw'n duedd meddant) o fod yn ysbrydol farw.

Felly y dadleuant: yr ysbryd marw, y bersonoliaeth sy ar wahân i bob profiad real o Iesu Grist, dyna yw'r un sy'n ddiragfarn a chytbwys. Nid yw ef yn gwyro tuag at Dduw; mae'n farw braf tuag ato. Mae ganddo felly wyriad diduedd. 'Didueddrwydd' hefyd yw peidio â derbyn datguddiad o'r tu allan; 'didueddrwydd' yw mynnu gwybod y geiriau heb adnabod y Gair. Os gellir llwyddo felly i beidio â choleddu dim ond awdurdod llyffetheriol yr ego, nid oes rhagdyb meddan nhw i ni. Hynny yw, ymgyfyngir, mae'n debyg, i'r dybiaeth bêr mai ei farn ei hun heb Dduw yw'r absoliwt, ac nid mai ef sydd yn y canol o ran awdurdod meddwl, a bod y cwbl yna'n hyfryd ddiduedd . . .

Er mor rhyfedd yw ffyrdd athroniaeth, gellid mentro nad felly y bydd hi yn y byd go iawn, wedi'r cwbl.

Rhagdybiaeth y Cristion ar y naill law yw ei fod yn dechrau drwy feddwl a gwrando. Rhagdybiaeth y gŵr ffug ddiduedd ar y llaw arall yw ei fod yn dechrau drwy feddwl a dweud.

Allanol yw awdurdod cyntaf y Cristion: mewnol yw awdurdod cyntaf y gŵr ffug, diduedd. Derbyn a wna'r Cristion yn gyntaf, cyn pob rhoi, crewyd ef, a llywodraethir ef gan Dduw. I'r gŵr

ffug, diduedd, ar y llaw arall, yn fynych ragfarnllyd, siawns ydyw'r gormeswr; ac nid oes ganddo felly fodd i ddeall hanfodion bywyd ond yn bur arwynebol.

Gŵyr pob Cristion, bid siŵr, beth yw hanfod profiad y gŵr ffugddiduedd: oni'n ganwyd ni oll ar wahân i Grist, yn farw gorn ein hysbryd? Fe hoffai'r anghredadun pe bai ef yntau'n gallu honni ei fod ef yn medru amgyffred profiad y Cristion, eithr ni all ef, er gwaethaf pob dychymyg, wybod rywsut beth yw union ystyr bod yng Nghrist, ac fe'i cyfyngir ef i wybodaeth anghyfleus ac i adnabyddiaeth ei eni cyntaf (1 Cor. 2:14).

Derbynia'r Athro Phillips y gall fod gan y Cristion, sydd wedi'i aileni, gof o'r hyn oedd 'bod heb ailenedigaeth'. Eto, myn ef nad yw'n bosibl i Gristion ddeall *holl* amryfal safbwyntiau'r anghredadun hwnnw. Onid 'lleng' ydynt? Digon gwir. Y cwbl a honnwn i, serch hynny, yw bod y sawl sy wedi'i aileni yn deall yn burion ddull y sawl nas ganwyd namyn unwaith cyn belled ag y mae hwnnw'n ymbincio â'i feddwl ei hun yn hunanlywodraethol, neu pan fo'n ymddwyn fel pe bai ar wahân i Grist a heb fod dan ei awdurdod ef. Fe ddealla'n burion ryw ragdybiau neu ragsafbwyntiau bach felly: dyna i gyd. Bid siŵr, gellir cystwyo'r cnewyllyn hwn o ragdyb i gynnwys pob math o *fynegiant* gwahanol – o ffasiwn i ffasiwn, o bwyslais i bwyslais, o ddatblygiad i ddatblygiad – o fewn y cylch seithug ystrydebol. Amrywiaeth yw'r enw ar hwnnw. Bydd gan bob un ei bostyn ei hun, ac ni all neb eu rowndio hwy i gyd. Ond yn y bôn ac er gwaetha'r holl redeg, ni chaiff anghredadun adnabod Duw drwy'i ymdrechion ei hun ond cyn belled ag y mae Hwnnw'n wirfoddol yn ei ddatguddio'i hun. Duw ydyw'r achos eithaf a therfynol y tu ôl i bob peth mawr, hyd yn oed i'r anghredadun druan, heb sôn am y mân achosion agos sydd y tu ôl i'r pethau sydd ar ein pwys. Heb Dduw, anorffen a seithug yw pob esboniad.

Ffug ddidueddrwydd yw anghredadun yn ceisio gwneud diagnosis o afiechyd dyn, heb y Gwaredwr. Plyg i gyfyngiadau'i ddeall cnawdol ei hun: dyn-ganolog yw ef a'r dyn ymreolus a phechadurus-syrthiedig yw ei orthrwm ef. Bychana ef y Duw sy'n ei ddatguddio'i hun drwy'i Air, a thry bob 'anhawster' Beiblaidd yn ddihangfa ac yn esgus i'w anghrediniaeth. Bychana ef y sawl nad yw am dderbyn cyfeirbwynt y dyn sy'n aros o'r tu mewn i'r bydysawd creedig, eithr a fyn gyfeirbwynt y tu allan yn y Creawdwr; a chan beidio â chydnabod dibyniaeth y meddwl dynol ar y meddwl dwyfol.

Nid oes ganddo, felly, yn y ddadl hon ddim math o dir o bwys sy'n gyffredin iddo ef ac i'r Cristion. Derbynia'r Cristion ei ragdybiau gan yr Ysgrythurau, sy'n rhagosodiad hollol sylfaenol a gonest am eu bod wedi'u seilio ar ddatguddiad.

Yn ôl yr Athro Phillips, 'sgeptig' yw'r disgrifiad o'r safbwynt yn yr agwedd y mae'n rhaid ei dderbyn at ragdybiau'r anghredadun. Go brin fod hyn yn ddisgrifiad gwir (os ydym wrthi yn 'chwilio am y gwir' o gwbl yn yr achos hwn: efallai mai 'chwilio' diderfyn yn unig yr ydym, heb allu

i ragdybio fod yna fath beth â 'gwir' i chwilio amdano). Ond o leiaf, y mae sylweddoli defnyddiau anochel meddwl, megis y gwna'r plentyn wrth sylweddoli defnyddiau anochel iaith, yn fodd i ramadegydd archwilio'r hyn a adeiledir wedyn ar ben hynny. Dinoethi rhagdybiau negyddol yr anghredadun, un cam ymlaen yw hynny, o bosibl tuag at sylweddoliad iach. Ple ydyw'r ysgrif hon, felly, am onestrwydd.

Yr hyn sydd dan sylw yw'r cyfeirbwynt eithaf sy'n angenrheidiol wrth drafod ffeithiau neu ddeddfau. I'r Cristion nid oes dim yn bod sydd yn ddiduedd, gan fod popeth wedi'u hamgylchu gan bersonoliaeth Duw a chan ein bod yn byw mewn byd syrthiedig. Mae *pob* method, iddo ef, yn rhagdybio naill ai gwirionedd neu anwiredd theistiaeth Gristnogol. Ac mewn ymchwil wâr ar feddwl ein hoes, un cam digon iach ydyw sylweddoli natur y rhagdyb sydd ar waith gennym. Rhwystr i ymchwil, dybiwn i – nid rhwystr marwol wrth gwrs – ydyw ymddwyn fel pe na bai rhagdyb ar waith. Pan sylweddola dyn pa ragdyb a gymerodd ef cyn dechrau ymresymu, y mae ei ddealltwriaeth o'r gwaith o feddwl yn gyfoethocach. Yn fy mryd i, nid naïf yn unig, ond peryglus ambell waith, yw'r sawl nad yw wedi bod yn ddigon hunanddadansoddol i sylwi ei fod yn berwi o ragdybiau. Ni bu ef yn ddigon o ymofynnydd. Mewn rhigol y mae; rhigol aruthrol o gul y chwifir uwch ei phen y poster 'ehangder'.

Os ydys yn wyddonydd, felly, sy'n rhagybio rhyw fath o unffurfiaeth mewn natur, neu os ydys yn ddyn 'naturiol' sy'n rhagdybied y gellid dod o hyd i ateb digonol ar sail y deall dynol, neu os ydys yn Gristion yn derbyn mai Duw'n llefaru yn yr Ysgrythurau yw'r hyn sy'n gwneud y byd yn gwbl ddealladwy, neu os ydys yn athronydd sy'n cymryd y rhagdyb y gall ef rywsut, rywfodd fod yn ddiduedd, yna y mae pob un ar ei ennill, *vis-á-vis* trafod popeth, o sylweddoli cyfyngiadau'r rhagdyb yna sydd ganddo.

Rhydd yr Athro Phillips ei sylw yn y rhan fwyaf o'i ddarlith i'r safbwynt Calfinaidd, fel y'i cenfydd ef. Ond er iddo ymffrostio mai camp athronydd yw deall pob safbwynt a dangos yr holl 'amrywiaeth' sydd ar gael, dyma un safbwynt (mentraf synied yn fy ffordd ffaeledig fy hun) na fynnodd ef yn y lle hwn o leiaf ddangos dealltwriaeth orlawn ohono. Nid wyf i'n gweld ei fod wedi dangos gormod o ddealltwriaeth hyd yn oed o'r cam cyntaf, – oddi wrth y dynol i'r dwyfol, – er mor ddiddorol a gwerthfawr yw ei ysgrif mewn cynifer o ffyrdd eraill, ac er yn sicr na charwn am foment ddibrisio'r cyfoeth o awgrymiadau gogleisiol a geir ynddi.

Un gosodiad rhyfeddol a wna ef yw hyn: '*Os oes symud o anghrediniaeth i grediniaeth, mae symud hefyd o grediniaeth i anghrediniaeth.'*

Byddai'n ddiddorol gwybod pa sail sy ganddo dros y fath osodiad Arminaidd dwyffordd, mewn cerbyd na weithia ond unffordd. Yn sicr, nid rhesymeg. Nis esbonia: fe'i rhagdybia. Dichon wrth gwrs (er fy mod yn arswydo rhag meddwl y fath beth) mai ystyr 'crediniaeth' yw rhyw fath o

'gredu' yn y dull rhyddfrydol capelig Cymreig, a haeru y gellid 'llithro' oddi wrth y cyflwr alaethus hwnnw. Os felly, popeth yn hwyliog. Ond dadlau y bu ef hyd yn hyn yn y fan hon wedi'r cwbl ynghylch credu *Calfinaidd,* credu a chynnwys gwrthrychol a hanesyddol iddo, credu sylweddol, os deallaf ei ysgrif yn iawn. Dyma fframwaith y ddadl a ddewisodd ef. Ac os dyma yw *crediniaeth,* felly, prin bod angen ei atgoffa ef am y pum pwynt Calfinaidd ac ysgrythurol. Y mae Calfinydd o Gristion yn cymryd y rhagdybiaeth fod Duw eisoes wedi siarad yn ei Air, (hynny yw, mai Duw sy'n llefaru sydd gyda ni), ac iddo ef Ei glywed Ef, a bod ei addewidion yn ein sicrhau y bydd credinwyr yn aros mewn gras er y gallant lithro o fewn gras: Ioan 6:35-40; 17:11, 12, 15; Rhuf. 8:1; 8: 35-9; 1 Cor. 7:9, 10, 13; Heb. 12:28; Jwdas 24:25. Hyfryd mewn un o gyhoeddiadau'r Hen Gorff yw sôn unwaith eto am un o hen golofnau'r Gyffes Ffydd fel hyn, onid e? Diau fod yr Athro Phillips yn cymryd y rhagdybiaeth arferol hon fod cwymp oddi wrth ras yn bosib; a hawdd deall y safbwynt hwnnw, gan mai dyna'r safbwynt 'naturiol', ond nid oes dim seiliau digonol iddo a arddangoswyd o leiaf – heblaw'r rhagdybiaeth anghywir bondigrybwyll.

'*Mae'r Calfinydd ... yn anabl i gydnabod amrywiaeth',* medd ef.

Nid wyf yn siŵr a ddylid, ac a oes angen trafod ambell osodiad fel hyn. Ai'r gŵr ar ei focs sebon sy'n taflu pob rhesymeg yn gafalîr i'r gwynt, ac nad yw am wneud fawr heddiw diolch ond fflipian sen ar ei wrthwynebydd heb wrando arno; ai dyna sydd yma? Os felly, eled rhagddi. Ynteu ai anwybodaeth annisgwyl arno am athrawiaeth y sfferau, dyweder, a'r olrhain o amrywiaeth o fewn undod (â'i wraidd yn y Tri-yn-un er enghraifft,) a ddatblygwyd gan Galfiniaid sy'n peri iddo wneud y fath osodiad? Prin. Un wedd ar Galfiniaeth sy'n arwyddocaol wrth ystyried sut y mae Cristion neu bagan yn gallu amgyffred llawer o safbwyntiau pobl eraill ynghylch hyn a'r llall yw athrawiaeth Galfinaidd adnabyddus Gras Cyffredinol: dyma sut y mae'r Calfinydd yn cydnabod y gallu sydd gan ambell anghredadun o athronydd neu o fardd neu o ffisegydd i fod yn well yn eu meysydd arbennig hwy eu hunain weithiau nag ambell Gristion cyfatebol. Y rheswm sylfaenol, fel yr awgrymwyd, fod problem yr un a'r llawer o gymaint diddordeb i'r Calfinydd, yw bod y Drindod wedi gosod ei hargraff ar yr holl greadigaeth.

Dywed yr Athro Phillips, sut bynnag, y gall rhywun y tu allan i'r berthynas honno rhwng y credadun a'i Dduw ddeall pa fath o berthynas ydyw honno a'r math o amgyffrediad sydd ynddi. Ond y mae hyn yn ddealltwriaeth sy'n mynd y tu hwnt i Ras Cyffredinol, mae arnaf ofn. Gall ymddangos yn bosibl mewn modd cyfyngedig iawn ac arwynebol, fe ddichon, mewn modd sydd rywsut yn 'ddigriflun' neu'n ddynwarediad. Ond er gweld ambell gredadun deallus yn gallu mynd drwy'r 'symudiadau' allanol, fel petai, ac adleisio rhai o berchnogion ffydd, gan amlaf go hawdd yw canfod: (a) a yw dyn wedi cael gwir argyhoeddiad o'i bechod a phrofi edifeirwch, neu (b) a yw wedi dod i adnabyddiaeth bersonol o Iesu Grist byw, neu (c) a yw wedi'i ildio'i hun yn gyfan gwbl i

Dduw. Eto, mae'r mwgwd yn llithro'n fuan. Cofier: ni fynnwn honni y gall neb dyn ddod i gasgliad diwyro a therfynol ynglŷn a nebun arall byth, a Duw ei hun yn unig wrth gwrs biau farnu. Ond, at ei gilydd, ni chefais ddim prawf erioed fod yr hyn a ddywed yr Athro Phillips yn gywir am allu deallol y dyn naturiol a di-Dduw ynghylch y dimensiwn goruwchnaturiol. Disgwyl y prawf ganddo yr ydys; ac ofnaf nad yw cymharu â phriodas ddim yn gwneud y tro. Gall y Cristion a ddaeth i adnabyddiaeth o'i Waredwr dystio na fu erioed ganddo ef (o leiaf) ddim math o amgyffred yn hyn o lawn ystyr y wybodaeth a enillwyd iddo yn ei dröedigaeth wedyn. Sôn y mae'r Athro Phillips yn y fan hon am y wybodaeth sy gan y marwnedig am y byw (dyna'r gymhariaeth briodol), a gweithia ar y rhagdybiaeth ymhongar y gall meddwl dyn, dan ei stêm ei hun, ymestyn y tu hwnt i Ras Cyffredinol.

Dywed yr Athro Phillips am Galfiniaid, '*Methant weld nad oes rhaid iddynt wrthod disgrifiadau o safbwyntiau eraill sydd wrth fodd y rhai sy'n arddel y fath safbwyntiau.'* Felly y *gwrthyd* yr Athro Phillips yntau safbwynt y Calfiniaid, drwy gymryd rhabdybiaeth eciwmenaidd braf, rhagdybiaeth sydd wedi esgor ar y difaterwch cyfoes treiddiol yng Nghymru. Ond ni ddengys pam na ddylai Cristion blygu i Dduw oherwydd iddo gael prawf ohono a'r prawf yna'n cyd-fynd â'r datguddiad gwrthrychol gosodiadol, gan wrthod coelgrediniaeth y sawl sy'n paldaruo'n ffansïol yn erbyn Duw neu am Dduw hollol oddrychol a dyn-ganolog? Eu gwrthod hwy? Gwneir, yn bendant ddigon. Gallwn barchu pawb fel personau, bid siŵr; gallwn eu deall hwy a disgrifio eu barn hwy, ac amddiffyn yr hawl a'r rhyddid iddynt oll gyfeiliorni. Ond braidd yn ormodieithol yw dweud nad oes dim rhaid i'r Cristion wrthod eu disgrifiad hwy o Dduw nas adwaenant na chaniatáu ychwaith fod eu safbwynt hwy'n werth dim byd mewn gwirionedd.

*'Gweledigaeth'* yw eiddo'r athronydd yn ôl yr Athro '*sydd yn gadael yr holl safbwyntiau i fod yr hyn ydynt'.* Hynny yw, os dargenfydd fod un peth yn wir a pheth arall yn au, ni ddywed ef – 'gwell newid barn yn awr, a symud ymlaen ar sail sylweddoliad newydd': na, fe ddywed rhyngddo ac ef ei hun, – 'dyma'r gwir efallai, ond taw piau hi; bois y safbwyntiau ydym ni; ym mhob pen mae piniwn; ewch chithau ymlaen hogiau i gredu'r tywyllwch'; dyma wyleidd-dra. Dyna'r lle athronyddol a gyraeddasom bellach. Dyna duedd 'ddiduedd' yr anffrwythlondeb dyneiddiol.

Oni ddaeth yn bryd erbyn hyn i'r ymchwilwyr diduedd ymchwilio i'w tueddiadau? Pan fo athronydd yn hawlio nad yw am gymryd ond rheswm pur a diragdyb, ac iaith yn fan cychwyn i'w athroniaeth am fywyd, y mae ef eisoes wedi dechrau gyda dogma a rhagdyb sy'n gynresymol. Yn haerllug felly. Er mwyn croesi ffordd, yn wir, er mwyn agor drws, er mwyn dadlau o blaid theatr yr hurt, ac yn y blaen, rhaid gwneud cyfres o ragdybiau trefnus ddigon. Nid dweud yr ydys bob tro: 'Tybed beth a ddigwyddith?' Yn hyn o beth mae'r athronydd yn debyg i'r gwyddonydd. Seiliwyd y syniad o hunanlywodraeth gwyddoniaeth hithau ar ffydd, ac felly'n wrthddywedol. Rhagdybia'r

gwyddonydd yntau, o leiaf fod ei feddwl ei hun yn atebol i geisio ymgodymu â chwestiynau mawr y byd. Myth ydyw pob disgrifio diduedd. Mae arnaf ofn nad oes yr un disgrifio heb ddethol: mae arnaf ofn hefyd nad oes dethol heb batrwm o werthoedd neu o ganfyddiad sy'n cyflyru'r dethol hwnnw.

Ni ddiffiniodd yr Athro Phillips yr hyn a feddylia wrth y gair 'diduedd'; ac y mae hynny'n anfantais. Os nad yw ond yn golygu y dylid ceisio deall pob barn a'i thrafod mor deg a gonest ag y gellir (tuedd eithaf cymeradwy), gŵyr ef yn burion nad yw ef yn dweud dim sy'n wahanol i'r Calfinydd. Hen arferiad er yr Oesoedd Canol gan Gristnogion fu ceisio 'cyd-ddadlau' gyda'r ochr wrthwynebus: ni fyn neb call ohonom wneud cam â'i wrthwynebydd yn ei fater. Ac y mae siarad emosiynol a bocs-sebonaidd ynghylch cau prifysgolion ac ati, yng nghyd-destun trafodaeth am fater o 'ffydd neu beidio' yn ymgais braidd yn uchelgeisiol i dagu dadl. Mae yna rywbeth gogleisiol mewn gŵr academaidd nad yw'n barod i gydnabod a chwilio'i ragdybiau; rhywbeth a all filwrio'n erbyn rhyddid meddwl, o bosib. Os yw'n golygu nad oes y fath beth â safbwynt neu ragdybiaeth neu duedd anghywir, ac mai ei unig swyddogaeth ef yw 'disgrifio', yna y mae holl duedd amlwg ei lith ef yn groes i hynny. Fe'i gwrthddywedodd ei hun yn ddiarwybod wrth roi pin ar bapur.

Gan amlaf, rhaid cyfaddef, wrth ymresymu â'r ffug ddidueddwyr neu'r rhydd ymofynwyr caeth, nid ydynt fawr o dro cyn cydnabod mor wachul ydyw'r safbwynt o ddidueddrwydd, mor anhygoel o ddisylwedd yw'r fath ddogma. Yn wir, mae arnynt ychydig bach o gywilydd yn y bôn wrth i rywun yn dawel bach ddadlennu eu twyll syml. Ond er bod eu meddwl yn barod ar y pryd i sylweddoli hyn oll, brysio'n ôl a wnânt cyn bo hir i arddel drachefn eu ffug ddidueddrwydd, oherwydd rhyw fath o hiraeth cnawdol. Aethpwyd yn rhy fynych i sôn am ddidueddrwydd a hynny braidd yn anghyfrifol ddifeddwl (ac yn arferiadol), gan ei gyfri'n ddelfryd yn hytrach nag yn sgrechair i'w archwilio; a bydd hyd yn oed pobl dda a chall yn dal ati dan ormes y ffasiwn hwn am mai dyna 'rŷm ni i fod i'w ddweud o dan wasgfeydd diymennydd y dwthwn hwn. Dyma'r 'duedd' wâr a disgwyliedig fel petai.

Cymwynas â ni, serch hynny, oedd bod un o'r didueddwyr haelfrydig hyn wedi mentro geirio ar bapur natur y rhagfarnau hynny sy'n eu llyffetheirio; ac er bod modd gyrru ceffyl a chert drwy'r dadleuon hyn oll, y mae'r safbwynt mor boblogaidd, ac os caf ddweud gyda pharch mor benbwl ddogmatig ac mor ddiddychymyg o ystrydebol led ein cymdeithas gyfoes, fel y gallwn fod yn ddiolchgar fod athronydd mor alluog â'r Athro Phillips wedi eistedd i lawr i gydwybodol gasglu at ei gilydd y dadleuon hynny a 'dueddai' i fod o'u plaid.

* * *

Yn y *Traethodydd* Ionawr 1985, cyhoeddais yr ysgrif olaf yn y gyfres, sef 'Dychwelyd at Diduedd': dyma hi –

(t. 42)

Yn rhifyn Hydref 1983 o'r *Traethodydd* fe gafwyd ysgrif ddifyr gan yr Athro Dewi Z. Phillips, 'Ai bod yn naïf yw ceisio bod yn ddi-duedd?' Ceisiais ei ateb ef yn y rhifyn wedyn drwy ddadlau nad oedd modd i neb fod yn ddiduedd byth. Felly roedd ceisio bod yn ddiduedd yn arferiad ffôl a hunandwyllodrus. Ac yna, bu tawelwch mawr. Osgowyd dadl.

Nid fy nod i'n awr yw dychwelyd er mwyn rhwbio trwyn yr Athro hyglod yn fy nhipyn ateb. Eithr credaf fod y mater hwn mor sylfaenol i unrhyw fath o drafodaeth egwyddorol ynghylch addysg fel y dylid efallai ymhelaethu ychydig ar yr hyn a sgrifennais yn rhifyn Ionawr 1984.

Dywed yr Athro Phillips yn bwyllog, 'Wrth wadu'r posibilrwydd o ymchwil ddiduedd mae modd creu dihangfa amddiffynnol *i'r rheini sydd am osgoi dadlau* dros eu safbwynt. Oherwydd fod gan bawb eu rhagdybiaethau nid oes modd beirniadu'r fath ragdybiaethau.'

Yn awr, y mae'n amlwg i bawb bellach fod y gwirionedd yn gorfod bod i'r gwrthwyneb i hyn. O leiaf, os meiddia un ddweud fod ganddo duedd neilltuol – dyweder at Gristnogaeth neu at Farcsiaeth – mae'n eglur y bydd modd archwilio hynny'n agored. Bydd modd cymharu a dadansoddi a disgrifio. Ond pan wada rhywun nad oes ganddo yr un duedd, ei fod ef y tu hwnt i bob rhagdybiaeth fel petai, yna mae'n rhaid ei wylied yn garcus. Dyma'r un sy'n ceisio dianc rhag ymholiad. Yr un sinistr. Ychydig sy'n fwy niweidiol i fywyd deallol na dogmatiaeth anymwybodol ddiymholiad y goddrychwyr hunanganolog.

Beth bynnag, dichon nad annheg inni honni na cheisiwyd yn yr achos hwn ddianc rhag dadl gyda'r Athro Phillips, er na hoffwn awgrymu fod ei ochr ef yn ceisio dianc chwaith. Fe ddaw yntau'n ei ôl i'r gad mewn iawn bryd, yn ddigon tebyg.

Asgwrn y gynnen yw'r honiad Cristnogol nad oes neb yn hollol 'rydd' neu ddiduedd yn yr ystyr seciwlar. Mae'r sawl sydd yng nghrafanc canlyniadau'r Cwymp yn tueddu, o anghenraid, tuag at arglwyddiaeth yr hunan a marwolaeth. Tuedda i roi ffydd yn ei feddwl ei hun. Dyn ei hun yw, wedi ymestyn 'megis duwiau'. Mae'r sawl sydd o dan arglwyddiaeth Crist ar y llaw arall yn derbyn y datguddiad *rhoddedig* yn wylaidd lawen. Os caiff ddihangfa drwy waed y Groes, yna fe duedda tua thragwyddoldeb.

Gwedir hyn oll gan y seciwlarwr, wrth raid. A honna hefyd nad safon mewn cymdeithas ddi-foes yw difoesedd. Nid rhagdybiaeth iddo ef yw'r rhagdybiaeth i gymryd ei feddwl ei hun yn fesur i farnu. Nid rhagdybiaeth yn ei fryd ef yw na'i allu na'i ddymuniad i wneud iaith yn offeryn deall gloyw. Tystia'r Cristion nad naïf yn unig, ond dwl hefyd, yw'r cyfryw honiad, megis pan ddeil athronydd, – os wynebir ef gan y sawl a ddywed mai pump yw dau a dau, yn ochr yn ochr â'r sawl a fentra honni mai pedwar ydyw, – mai ei unig swyddogaeth wyryfol ef yw gwneud honiadau'r naill ochr a'r llall yn eglurach, heb feiddio cymryd yr un ochr. Ffôl, mewn gwirionedd, yw'r hawl

garlamus honno mai diduedd yw'r sawl na fyn ond gwneud iaith yn gliriach. Amlwg yw *ei bod hi o leiaf yn duedd hollol wrthwyneb i unrhyw awydd i wneud iaith yn dywyllach.*

Dadleuwn felly nad naïf yn unig, eithr ffôl yn ogystal, yw'r honiad bod neb yn gallu bod yn ddiduedd. Heblaw hynny, peryglus ydyw. Dyma'r math o hunan-dwyll sydd wedi tanseilio'r dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru o du rhyddfrydwyr hygoelus ers dros gan mlynedd drwy hawlio rhyw fath o wrthrychedd amhersonol. Rhan ydyw o'r ymgyrch gwrthoruwchnaturiol. Ymgyrch a fu'n ddigon anhunanfeirniadol ac yn eithriadol o ymhongar. Ymgyrch a osododd farn oddrychol y meddwl dynol yn wrthwyneb i ddatguddiad dwyfol, gan honni'r un pryd nad oedd yn gwneud dim oll, ac nad oedd ond yn ymddwyn yn ddiduedd.

Fe ddylid bod wedi taclo'r anghredinwyr neu'r seciwlarwyr hyn ers talwm ynglŷn â'u *rhagdybiau,* ac felly gallesid difa llawer o'u dadleuon llipa. Trafferth y rhesymegwyr honedig hyn oedd bod eu cam cyntaf hwy – eu hymddiriedaeth mewn rheswm seciwlar neu'r man cychwyn hunanganolog – yn un heb fath o reswm drosto, – yn gam gwag emosiynol i mewn i'r goddrych. Dylid bod wedi tynnu'r tir odanynt yn y fan yna, ac nid anodd o beth fuasai tynnu'r holl dir gweddill odanynt wedyn.

Fel hyn y geiriodd Cornelius Van Til y peth yn *A Christian Theory of Knowledge:* 'Seiliwyd yr egwyddor Gristnogol o ddehongli ar y rhagosodiad mai Duw yw'r cyfeirbwynt eithaf a hunangynhwysol. Yr egwyddor Anghristnogol o ddehongli yw mai dyn yw'r cyfeirbwynt eithaf...

'Rhagdybia'r Anghristion mai dyn ydyw'r pen draw, hynny yw, na chrewyd mohono. Rhagdybia Cristnogaeth fod dyn wedi'i greu. Rhagdybia'r Anghristion na chafodd ffeithiau amgylchfyd dyn ddim o'u creu; rhagdybia'r Cristion fod y ffeithiau hyn hwythau wedi cael eu creu...

'Ymwahana'r ddau fath o system ... oherwydd y ffaith fod eu rhagdybiau neu eu rhagosodiadau'n wahanol. Ar seiliau Anghristnogol, y duedd yw haeru pethau drwy gymryd dyn yn bwynt terfynol i gyfeirio ato. Rhaid felly i ddyn geisio llunio system iddo'i hun a fydd yn cysylltu holl ffeithiau'i amgylchfyd â'i gilydd yn y fath fodd fel y gall ganfod yr holl berthnasoedd sydd rhyngddynt. Mewn geiriau eraill, mae'r system a gais yr Anghristion ar sail ei ragdyb yn un lle y mae ef mewn gwirionedd yn meddiannu'r safle a fedd Duw mewn diwinyddiaeth Gristnogol. Rhaid i ddyn, yn fyr, fod yn hollwybodus.'

Gweithgaredd crefyddol yw pob gwyddor, felly, yn yr ystyr ei bod wedi'i gwreiddio mewn ffydd. Nid rhwng gwyddoniaeth a ffydd y bu'r frwydr, fel y sylwodd Kuyper, eithr rhwng dau fath gwahanol o ffydd.

Ond mae'r ymhonni hwn ynghylch bod yn ddiduedd yn beryglus ddigon am reswm arall. Fe aeth 'dyneiddiaeth' o dan lu o labeli hunandwyllodrus yn fonopoli mewn llawer o'n hadrannau athroniaeth. Fe gafodd yrfa weddol fywiog hyd yn oed yn ein colegau diwinyddol. Mor llwyr oedd

y monopoli fel y gellid ei chymharu â Hitleriaeth mewn rhai achosion. Ni chaed yr un ymholi yn ei chylch. Fe'i cymerid yn 'naturiol', fel yr awyr a anedlid. Ni sylwid arni. Nid oedd ymchwilio ar ei rhagdybiau. Yr oeddent yno, yn anystyriol, yn ganiataol. Y didueddwyr hyn a ddatganai mai gair dyn oedd gair Duw.

Byd Hanes ydyw'r un lle y cafwyd ar un adeg yr ymhonni mwyaf uchelgeisiol ynghylch y didueddrwydd hwn. Leopold von Ranke yw'r enw a ddyfynnir amlaf wrth gyfeirio at ysgrifennu Hanes *wie es eigentlich gewesen.* Cefnogid delfrydau cyffelyb iddo gan Theodor Mommsen a J. H. Hexter. Eto, fe wasgwyd yr olaf druan i ddatgan nad oedd yr Hanes hwnnw, na feddai ar fframwaith, boed hynny mor dymhorol ag y bo, yn ddim namyn cybolfa ddiystyr ac anghywir. Y fframwaith ydoedd yr hyn a gyfrannai drefn i waith yr hanesydd.

Safbwynt poblogaidd ddigon oedd eiddo van Ronke, bid siŵr. Roedd hyd yn oed Butterfield, er enghraifft, a ragorai mewn cynifer o ffyrdd, yn dadlau mai un o rinweddau'r ymchwilydd oedd na fynegai ef yr un farn foesol uwchben ei destunau. A gellid cyfeirio at lu o ysgrifenwyr cyfrifol tebyg, megis Jacques Barzun a Henry Graff, mor ddiweddar â chanol y ganrif, a gefnogai'r un safbwynt gwrthrychol – y ffaith hanesyddol a ddetholwyd.

Mae'n debyg mai Carl L. Becker yn ei gyfrol *Detachment and the Writing of History,* 1910, oedd y cyntaf yn y ganrif hon i dynnu safbwynt von Ranke yn rhacs. Bu eraill o'i flaen yn y ganrif cynt megis Dilthey a Rickert (gw. *La philosophie critique de l'histoire,* R. Aron) yn arloesi'r ffordd iddo. Dangosodd Becker yn loyw mor llwyr ddibynnol yw pob hanesydd (fel pob athronydd yntau) ar *ddethol* y pwnc sydd dan sylw. Ni ellir cyflwyno Hanes oll yn gyfangwbl gyflawn; ac amrywia'r farn ynghylch yr hyn sy'n bwysig yn ôl ein cyfnod a'n cysyniadau cymdeithasol. Dyna pam y mae haneswyr Cymru o gyfnodau gwahanol bob amser yn dehongli arwyddocâd hanes yn wahanol ac yn canfod cydlyniad ffeithiau syml ac oer mewn modd gwahanol. Ni all yr hanesydd ei ddileu ei hun. Nid yw byd yr hanesydd – na byd yr athronydd na'r gwyddonydd chwaith – yn atgynhyrchiad llythrennol o'r byd a fu nac o'r byd sydd o'i gwmpas. Mae ganddo lygaid a dealltwriaeth sydd felly'n ceisio'u deall ac yn caniatáu iddo wneud yr hyn y dywed y Beibl wrtho am ei wneud, sef arglwyddiaethu arnynt. Gan mai dyn syrthiedig a ffaeledig sy'n cyflawni hyn, ni ellir dibynnu o gwbl ar ei adroddiad (fel y sylwodd Descartes); a bydd rhaid i'r genhedlaeth nesaf ddychwelyd at y gwaith.

Yn yr un rhifyn ag yr ymddangosodd yr ysgrif 'Myth y Diduedd,' fe gafwyd ysgrif gampus gan Alun Gwynedd Jones ar 'Evans-Pritchard a'i Syniadau am Gyfieithu Dwylliant'. Gellid dyfynnu yn awr rai brawddegau i ategu'r ddadl hon:

'Ymddengys dull Evans-Pritchard, yn ei ysgrifau gorau, fel rhyw fath o hunan-ymholiad, fel petai'n mynd ati i ddadorchuddio ei ragdybiaethau fesul un. Tybiaf y gellid aralleirio rhaglen

'cyfieithu diwylliant' Evans-Pritchard fel hyn: ni all anthropolegydd fynd ati i astudio cymdeithas estron heb ragfarn. I'r gwrthwyneb, y mae ei ragsyniadau, sydd yn deillio o'i gymdeithas ef ei hun, yn ffurfio rhan anochel o broses ceisio dealltwriaeth. Ei nod, yn y maes, yw adeiladu darlun o'r byd sydd yn unol â'r ffordd y mae'r bobl frodorol yn ei weld.'

Y bobl frodorol yn yr achos hwn, gyda phob parch, yw'r athronwyr eu hunain a berthyn i chwalu Cristnogaeth uniongred, oruwchnaturiol, ddatguddiedig oddi ar tua'r flwyddyn 1859 yng Nghymru. Y gwaith taer presennol, i bawb a gred fod yna Ffydd dragwyddol a digyfnewid, yw dadlennu'r twyll cychwynnol. Tynnu'r gorchudd oddi ar y tueddiadau 'diduedd' a'r rhagfarnau 'diragfarn'. Ac ailddechrau yng Nghymru gyda cham newydd yn lle'r caff gwag a wnaethpwyd y pryd hwnnw.

Ymholwn felly – Beth yw'r cyfeirbwynt terfynol sy'n angenrheidiol i wneud 'ffeithiau' a 'deddfau' yn ddealladwy? Y mae *pob* method, gan gynnwys yr un honedig ddiduedd, yn rhagdybio gwirionedd neu eudeb theistiaeth Gristnogol. Ni ellir gwahanu'r diweddbwynt oddi wrth y dechreubwynt, beth bynnag y bo. Mae gan y Cristion ddatguddiad yn fan cychwyn iddo, ac yn wir honna'r apostol Paul fod y datguddiad hwnnw'n agored i bawb, ac mai ar yr anghredadun neu'r seciwlarwr y mae'r bai os na ddargenfydd ef Dduw. Yr wyf i, wrth reswm, yn falch i gytuno â'r apostol yn hyn o beth megis ym mhob peth arall.

I'r seciwlarwr, fel arfer bellach, cynnyrch siawns yw popeth. Cynnyrch siawns yw ei resymeg ei hun a holl ddeddfau natur. Hyd yn oed pan fo ef wrthi'n chwilio am bwrpas neu drefn, y mae'n rhagdybio mai cynnyrch siawns fydd y rheini yn y diwedd. I'r Cristion ar y llaw arall, bodolaeth y Duw byw ac awdurdod ei Air fel y'i bywheir gan yr Ysbryd Glân yw'r rhagosodiad sy'n cyfrif am yr 'unffurfiaeth' mewn natur y mae ei heisiau ar y gwyddonydd ac ar y rhesymegydd seciwlar fel ei gilydd. Datguddiad Duw, meddai Awstin, yw'r haul y mae pob golau arall yn tynnu ei olau ohono. Yr her a ddaeth i Efa adeg y cwymp oedd gwneud y rhagdybiaeth enwog y gallai ei meddwl hi ei hun fod yn gyfeirbwynt terfynol. Methodd hi, felly, oherwydd ei bod wedi anwybyddu'r Un a oedd yn ffynhonnell i bob rheswm.

Bellach, bydd gan holl ddisgynyddion Adda ac Efa eu sbectol lliw. Yn y cyflwr 'naturiol', cymerant yn ganiataol fod hunanymwybod yn gweithio heb Dduw-ymwybod, fod ymwybod o ffeithiau ac o ddeddfau a dehongliad o'r deddfau oll yn ymarferol heb Dduw. Y rhain yw'r 'chwilotwyr' deallol, yr 'ymholwyr' bondigrybwyll, sy'n barod i chwilio pob peth ond eu rhagdybiau hunanganolog eu hunain...

Caniataer i mi yn awr fod mor haerllug â cheisio ailddiffinio gwir broblem yr Athro Dewi Z. Phillips. Cred y Cristion, wrth raid, na all yr anghredadun sydd heb Air Duw yn ei galon fyth ddeall pwrpas y greadigaeth. Ni all dyn ar ei ben ei hun ateb y cwestiwn – pwy yw ef? Fe hoffai'r Athro

Phillips, er mwyn cynnal dadl ynghylch y mater, gael tir cyffredin y gallai'r anghredadun a'r gŵr sy'n credu Gair Duw sefyll arno. Ond gŵyr y Cristion ei fod ef, megis yr Athro Phillips yntau, wedi gwneud rhagdybiaeth sy'n uwch-resymol. Mae'r Athro Phillips, yng nghwmni Kant a Husserl, wedi gwneud hunanlywodraeth y meddwl theoretig yn acsiomatig, heb ofyn am ragor o gyfiawnhad. Ni ellir y tu mewn i reswm theoretig ei hun ddod o hyd i gyfiawnhad dros ddyrchafu'r ego (yn ei holl gymhlethdod a'i wacter) yn y fath fodd. A rhaid mynd y tu allan i reswm, i'r gwastad crefyddol, i ddod o hyd i sylfaen mor absoliwt. *Ond cyn gynted ag y gwna'r Athro Phillips hynny, y mae'n ei osod ei hun y tu hwnt i ddadl.* Ni fedr y meddwl athronyddol, fel y sylwodd Awstin yntau, fod yn hunanddigonol: rhaid iddo wrth fan cychwyn crefyddol.

Argyhoeddiad o bechod yw, i'r Cristion, ystyr sylweddoli ei fan cychwyn. Derbyn man cychwyn arall ydyw ailenedigaeth. Gwaith y Cristion yw meddwl meddyliau Duw ar ei ôl Ef. Duw yw pen draw eithaf pob gwir wybodaeth. Amgylchir popeth yma gan Ei bersonoliaeth Ef, ac felly nid oes dim oll yn bodoli mewn byd diduedd ac amhersonol. Ni ellir deall problem yr un a'r llawer, na'r cyffredinol a'r arbennig, ond yng ngoleuni'r Drindod Sanctaidd. Gweld hynny yw un o'r pethau sy'n rhyddhau dyn, a gweld hynny wna ei dueddiadau oll yn ystyrlon...

Ym myd Beirniadaeth Lenyddol, megis mewn Hanes, bu ambell un mwy uchelgeisiol na'i gilydd yn codi cri o blaid didueddrwydd, yn arbennig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dibynnai'r Eisteddfod ddiweddar, yn wir, ar y myth arbennig hwn i raddau helaeth, sef fod modd llunio barn wrthrychol a dod i ddyfarniad unedig, mesuredig, ynghylch gwaith llenyddol. Yn y gynharaf o'r ysgrifau ym *Meistri'r Canrifoedd,* dangosodd Saunders Lewis yn loyw fel yr oedd yr eisteddfod yn hyn o beth wedi mabwysiadu dulliau beirniadaeth Saesneg y ddeunawfed ganrif, 'sef beirniadaeth y rheolau a'r safonau, y feirniadaeth a gychwynnwyd gan y Morysiaid.'

Gan mor boblogaidd yw adeileddeg bellach ym myd beirniadaeth lenyddol, yn enwedig y tu allan i Gymru, gellid disgwyl y byddai rhywrai'n ceisio honni o'r newydd fod y datblygiadau adeileddol yn ein harwain yn ôl at feirniadaeth ddiduedd a gwrthrychol. Er fy mod yn cydymdeimlo ychydig â rhai o ddulliau adeileddeg, yr wyf wedi ceisio dadlau cyn hyn, hyd yn oed yn y ddadl hon gyda'r Athro Dewi Phillips, fod a wnelo beirniadaeth lenyddol gyflawn nid yn unig â ffurf ond â chynnwys, sef bod y casgliadau ffurfiol ynghlwm wrth ymateb personol, hyfforddedig, yn ogystal â dibynnu ar ragdybiau ynghylch pwrpas.

Mewn beirniadaeth lenyddol Ffrangeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn arbennig yng nghyfnod Sainte-Beuve, dechreuodd y cwlt o fod yn wrthrychol ac yn ddiduedd ymamlygu'n hyderus braf. Meddai Villemain (1790-1867): '*La crique doit être, comme l'histoire, éloignée de toute passion, de tout intérêt, de tout parti; elle doit juger les talents bien plus que les opinions ... la critique impartiale.'* (Dylai Beirniadaeth, megis Hanes, ymbellhau oddi wrth bob safbwynt... yn

feirniadaeth ddiduedd.) Y ffordd i ddisgrifio gwaith llenyddol yw drwy weld ei berthynas â'r gwareiddiad, gan ei ganfod yn gynnyrch i foesau a defodau'r gymdeithas.

Datblygwyd yr un math o bwyslais gan Hippolyte Taine (1828-93). Ceisiai ef olrhain y drefn seicolegol y tu ôl i bob crefftwaith, gan ddangos y fformiwlâu cyflyrol a gwrthrychol a gyfrifai am y cwbl. Datblygodd o'r herwydd feirniadaeth gymdeithasol gyda'r criteria enwog – 'race', 'milieu', a 'moment'. Gwyddonydd 'diduedd' ydoedd ef bellach, fe dybiai, yn cymryd arno'i hun beidio â gwthio'i bersonoliaeth rhwng gwrthrych yr astudiaeth a'r cyffredinolion a'i hesboniai.

Difyr o hyd yw darllen ei astudiaeth ef ar *La Fontaine.* Ond gwellwyd ar ei ddulliau gan Brunetière (1849-1906). Tybiai hwnnw fod Taine yn pellhau'n ormodol oddi wrth ystyriaethau llenyddol canolog. Symudodd ef tuag at drafod 'genres', a rhai o'r materion ffurfiol a ddaeth yn ôl i fri yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. 'Mae yna fath beth â gwirionedd llenyddol,' meddai, 'ac am hynny y mae gwrthrycholdeb beirniadol yn bosibl'...

Dichon mai gyda Hennequin y cawn arloeswr i rai o'r ymagweddau pwysicaf diweddar. Ymaflai ef – er gwaethaf ei farw cynnar – mewn rhai cwestiynau methodolegol a seicolegol a gafodd gryn sylw erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Cwestiynau ynghylch a ddylai dehongli darddu o archwilio'r gwaith cyn archwilio buchedd yr awdur, neu fel arall; a pha ystyriaethau anllenyddol neu all-lenyddol sy'n briodol i egluro natur llenyddiaeth ei hun? Mae ei ddadansoddiad cymdeithasegol, serch hynny, yn llai cyflyredig ac yn llai gwasaidd nag eiddo Taine. Ac eto, etifeddu seicoleg gymdeithasol Taine a wnaeth Hennequin gan symleiddio cymhlethdodau perthynas yr awdur â'i waith, natur y gwaith ei hun, a'r awdur â'i gynulleidfa.

Rhwng 1885 a 1914, wrth i'r 'didueddrwydd' perlewygus hwn chwalu, fe dyfodd yr ysgol argraffiadol. Ac er bod honno, yn enwedig y tu allan i Gymru, wedi mynd o dan dipyn o gwmwl bellach, yn enwedig y tu allan i Gymru, ac yn arbennig gyda'r twf anghytbwys ym mri'r ffurfiolwyr a'r adeileddwyr, ni byddai odid neb bellach ym myd y celfyddydau yn gwadu grym yr ymateb goddrychol. Canfuwyd fel yr oedd didueddrwydd honedig yn arwain i ddogmatiaeth ddyneiddiol ddiseiliau. Yr oedd yn sylfaenol ragrithiol.

Bid siŵr, arhosai 'bod yn deg ac yn gytbwys' bob amser yn rhagdybiau digwestiwn. Llusgai rhyw hiraeth ystyfnig yng nghalon pob beirniad am fod yn fwy nag ymatebwr greddfol ar y pryd.

Ond os oedd hyn oll yn digwydd i seciwlarwyr, sut y gellid disgrifio agwedd Cristnogion ar y pryd at feirniadaeth lenyddol?

Hyd at bumdegau'r ganrif hon, byddai llawer o Gristnogion Cymru efallai wedi llyncu'n ddiddadnsoddiad bropaganda'r dyneiddwyr eu bod nhw'n 'ddiduedd'. Ond yn y pumdegau a'r chwedegau daethpwyd yn gyfarwydd â nifer o feirniaid a myfyrwyr crefyddol, pobl fel Schaeffer a Van Til, Rookmaaker, Dooyeweerd a Gordon Clark, pobl a gredai'r efengyl o ddifri ac a

ddechreuodd gymhwyso Cristnogaeth i'r celfyddydau ac i fywyd cyfoes yn ei aml arweddau. Dangoswyd bod myth didueddrwydd ynghlwm wrth ragdybiau gau a hynafol ynghylch diffyg safonau moesol, wrth lam y ffydd ddiystyr, wrth wadu'n ddi-sail Gristnogaeth osodiadol ddatguddiedig. Er bod rhywrai naïf ymhlith y didueddwyr yn dal i gofio'r 'gwrthrychedd', arhosent heb ei brofi. Ni chyfiawnhawyd y cam cyntaf, y cam digynnwys a disylwedd, y cam a wadai'r goruwchnaturiol a'r gwyrthiol a'r datguddiedig. Gan suddo mewn cors o ragdybiau hunanganolog a naturiolaidd, gwadai'r didueddwyr hygoelus hyn y gors a'u hamgaeai hwy'n drwm.

Ni ellir byth mwyach, gobeithio, ein twyllo â'r didueddrwydd tybiedig hwn heb ein bod yn ei archwilio'n ofalus ac yn holi sut y gallai fod. Ac o dan y llygad ymchwilgar, crediniol, chwala'r myth benbwygilydd. 'Felly y darffo pob coel grefydd.'

Cais y rhyddfrydwyr, bid siŵr, amddiffyn gwacter eu capeli â gwacter eu credoau. Ceisiant eirio'r hen sgrecheiriau treuliedig ynghylch obsciwrantieth a diffyg ysgolheictod. Ond yn raddol bellach arddangosir y geuder i gyd.

I'r Cristion ar y llaw arall y rhagosodiad cyntaf yw ei gyfarfyddiad ag Iesu Grist, a Hwnnw'n meddu ar gynnwys, wedi gweithredu ac wedi llefaru, – Iesu Grist, – Iesu Grist sydd ynghlwm wrth yr Ysgrythurau, – Iesu Grist a fu farw ac a atgyfododd ac a ddaw'n ôl drachefn. Sylweddola'r Cristion nad yw ef ei hun mwyach yn hunangynhaliol. Nid efô yw canol ei feddwl. Nid oes ganddo ddim 'hunanlywodraeth'. Arglwydd ar bopeth yw ei Arglwydd ef. Ni all y Cristion hwnnw, felly, – pa ragdybiaeh bynnag arall a gynigir byth iddo, – ond 'tueddu' tuag at Berson sydd o'i gorun i'w sawdl yn Wirionedd.

*　　　*　　　*

Soniais mai dyna ddiwedd y gyfres. Ond nid dyna ddiwedd i'r ddadl, os oes diwedd iddi i'w gael. Yn 2008, cyhoeddwyd (ar ôl marwolaeth Dewi Z. Phillips) y gyfrol *Ffiniau* gan y Lolfa, cyfrol a oedd yn bennaf yn trafod y berthynas rhwng athrawiaeth ddiwinyddol a beirniadaeth lenyddol. Mae *Ffiniau* yn cynnwys Adrannau ffrwythlon iawn a phwysig fel 'Iaith heb Ddamcaniaeth', 'Athroniaeth a Beirniadaeth Lenyddol Ddiduedd,' 'Y Ffin rhwng y Naturiol a'r Goruwchnaturiol', 'Ffarwelio â Pharadocs,' a 'Darluniau Datguddiol ac Iaith', ynghyd ag un ysgrif nodedig ar 'Ddaliadau Absoliwt'.

Yn y fan hon y mae D.Z.P. yn crynhoi'n egnïol amryw o'i osodiadau blaenorol ynghyd â chyfeiriadau llenyddol penodol. Dywed yn y brawddegau agoriadol beth oedd ei nod: 'Ym mis Medi 2004 ailgydiais mewn gwaith a ddechreuais ddwy flynedd cyn hynny sef, traethawd ar T. H. Parry-Williams. Roeddwn am gyfrannu at y dadleuon am ei anghrediniaeth drwy gytuno â'r bardd nad oes na chredadun nac anghredadun. Roeddwn am ddangos, hefyd, mor bwysig ydyw i

wrthsefyll y demtasiwn i ddarlunio'i dystiolaeth er mwyn peri iddo gyfateb i ryw ddamcaniaeth gyffredinol.' Roedd gan D.Z.P. ragfarn yn erbyn cyffredinoli.

Brwydr ddewr i unrhyw un yw ceisio osgoi pob damcaniaeth gyffredinol benodol. Y gwir yw bod geirio'r dymuniad ei hun yn lleisio damcaniaeth gyffredinol neu gred benodol. Yn wir, mae cymaint o ddamcaniaethu cyffredinol ar gael yn nhrafodaeth D.Z.P. nes bod eu canlyn oll i'r pen draw yn ofer, – megis disgyrchiant, cymryd yn ganiataol nad yw'r ddaear ddim yn wastad, cwantwm, mae Llundain yn bell, dyma Gymru, ac yn y blaen.

Dechreua D.Z.P. bennod Un gyda brawddeg gyffredinol, 'Nid yw Cymru wedi cynhyrchu athronydd mawr.' Ryw hanner dwsin o frawddegau wedyn, cyfeddyf, 'fel y mae Gealy yn dangos, yn yr oesoedd canol roedd yna ddiwinyddion yng Nghymru o fri Ewopeaidd.' A dyma fi ar f'union yn ceisio dangos ei fod yn anochel yn traethu mewn cyffredinolion. Yr un pryd y mae'n ymadael â chyffredinoli ei hun, wrth fynd at weithiau unigol gan lenorion Cymraeg, a dyfynnu ambell waith. A charwn dynnu sylw at y ddeuoliaeth anochel hon. Does dim cyffredinoli heb arbenigoli.

Camresymu, dybiwch. Eto'n syth, bydd darllenwyr Cymraeg, mi obeithiaf, yn clywed llais newydd, cywair newydd, agwedd ffres at lenyddiaeth. Dyma sylwedydd galluog yn torri i mewn i'r cywair, am ei fod yn gweld pethau'n graff ac yn amlwg yn gallu cyfleu ei fwynhad, llawer ohono wrth gwrs o dan ddylanwad Wittgenstein. Ond y mae ef ei hun yn ddyn sy'n fwy hyddysg na Wittgenstein mewn llenyddiaeth ac yn fwy hyddysg mewn diwinyddiaeth. Eithr beirniad ieithyddol yw e hefyd fel Wittgenstein. Er enghraifft: 'ni wyddwn ystyr gosodiadau mewn gwagle. Y cyd-destun sy'n dangos yr ystyr i ni. Ac wrth gwrs, cyn i ni wybod ystyr y gosodiad, ni wyddwn sut i drin gwirionedd neu anwiredd y gosodiad.'

Mae'r disgrifiad cyffredinol cadarnhaol yn gywir. Ond mae gwybod ystyr yn lletach na chyd-destun. Mae ystyr iaith yn rhagdybied gramadeg+mynegiant gosodiadol, a geirfa+cyd-destun.

Yn y gyfrol *Ffiniau* mae'r bennod 'Athroniaeth a Beirniadaeth Lenyddol Ddiduedd' ar ei hyd wedi'i neilltuo gan D.Z.P. i drafod y ddadl a fu rhyngom ynghylch fy narlith yng Nghaerfyrddin 'Beth yw Pwrpas Llenydda'? Ymddengys fod Dewi wedi amau fod rhyw fath o gynllwyn eithriadol o gymhleth a llechwrus wedi bod ar ôl iddo anfon 12 o gwestiynau at olygydd y *Traethodydd,* J. E. Caerwyn Williams. Meddai fe, (t.82) 'Braidd yn annisgwyl oedd ymddangosiad fy mhapur yn y *Traethodydd* oherwydd, heb yn wybod i mi, yr oedd y golygydd wedi gwahodd Bobi Jones i ateb pob cwestiwn.'

Sylwer: roedd pob cwestiwn wedi'i anelu ataf i. Os cwestiynau i mi yn benodol oedd y cwestiynau, oni ddylai ddisgwyl i'r golygydd ofyn i mi eu hateb? Pe bai wedi dweud y gobeithiai na byddwn yn eu hateb, byddai wedi arbed llawer o drafferth, neu pe bai wedi dymuno eu cysodi 'ochr yn ochr', meddai fe, 'yn ôl yr arfer cyffredin,' dylai fod wedi dweud hynny ymlaen llaw, yr wyf yn

siŵr y bysai'r golygydd a finnau'n gwbl fodlon ar gysodiad felly.

Mae a wnelo'r cam nesaf hwn serch hynny, ag egluro'r ddadl neu'r drafodaeth, ac mae'n rhoi cryn sylw i ragdybiau, hynny yw y credoau a arddelir cyn cyflwyno neu drafod gosodiadau neu syniadau. 'Dywedais (t.88) fod athronwyr Calfinaidd wedi troi Cristnogaeth yn rhyw fath o athroniaeth.' Mae hyn fel pe bai'n cwyno fod Calfiniaid yn trin 'syniadau Cristnogaeth', a'i fod am osgoi'r athronyddu a geir yn wrthrychol mewn Cristnogaeth ei hun, er enghraifft yn y Bregeth y Mynydd ac yn epistolau Paul. Bu rhyddfrydwyr ac anghredinwyr er 1859 yn awyddus i beidio â gweld y meddwl Cristnogol sy ar gael yn y Beibl, – y syniadaeth, y cynnwys, a'r ystyr i'r ymennydd. Profiad o'r Ego dethol oedd ar y blaen ganddynt. Ymgyfyngir i brofiad diddysgeidiaeth. Wedyn: (t.88) 'mae yna anghytuno rhwng athronwyr Calfinaidd, er enghraifft, rhwng Cornelius Van Til ar y naill law, ac Alvin Plantinga neu Nicholas Wolterstorff ar y llaw arall,' medd eto. Nid wyf yn siŵr a yw ef yn amharod i Galfiniaid anghytuno â'i gilydd, neu am iddynt gydymffurfio, neu a'n gwaredo am iddynt fodoli o gwbl mwyach. Yn wir, mae'n siŵr eu bod yn cytuno ar rai materion eraill hefyd heblaw'r ychydig a grybwylla ef.

Yn wir, a oes modd i unrhyw un gytuno gant y cant â neb arall o gwbl? Ar bob peth? Ar brofiadau; hyd yn oed ar faint o bwyslais a roddir i syniadau yn y panorama. Onid personoliaethol yw peth felly? Hyd yn oed yn yr athrawiaeth gyfan Galfinaidd o 'Benarglwyddiaeth Duw ynghyd â chyfrifoldeb dyn', gallai dyn, efallai, bwysleisio ychydig o'r naill ochr sy'n drymach na'r arwyddocâd gan gredadun arall.

Wedyn try at *seiliadaeth.* [Fe sgrifennodd un o'i gyfrolau ar *Faith After Foundationalism* fel pe bai modd cael Ffydd ar wahân i'w seiliau.]

Dyna'r nodweddion cyffredinol a gynhwysir o fewn diffiniad *seiliadaeth* gan D.Z.P. (t.89) yn rhagdybiol yn eu seiliau. Onid gras cyffredinol sy'n eu rhoi yn y sylfeini o gwbl?, sef gosodiadau rhesymeg a mathemateg ar y naill law, a gosodiadau am brofiadau synhwyrol elfennol (sense-data) ar y llaw arall. Mae'n amlwg nad yw gosodiadau crefyddol yn perthyn i'r un o'r categorïau hyn, sy'n golygu, yn ôl seiliadaeth glasurol, mai gosodiad sy'n dibynnu ar dystiolaeth yw'r gred yn Nuw. Yn y fan hon, mae'r categorïau athronyddol yn cyfyngu'r rhediad meddyliol. Mae'n awgrymu'n benodol fod rhesymeg fel sail ar y naill law yn cyferbynnu â'r teimladau'n benodol sy'n sail i'r llall. Ond gwybodaeth mewn dimensiwn arall yw gwybodaeth Gristnogol. Mae ei her yn tarddu o ragdybiau ffynhonnell o ansawdd hollol wahanol. Mae'r Cristion yn derbyn y tair gwedd hyn gyda'i gilydd i dderbyn dysg.

Sonia D.Z.P. am athronwyr Calfinaidd (sy'n cynnwys B.J. gydag eraill): (t. 90) 'Nid dadlau y maent o'r ffeithiau at Dduw yn Iesu Grist, ond mynnant weld y ffeithiau.' Mae D.Z.P. yn cyfeiliorni drwy ddethol, ac yn mynnu rhagdybied doniau dyneiddiol yn unig yn y canol. Myn Cristnogion hel

y ffeithiau naturiol gymaint ag sy'n bosibl, ac maent yn sicrhau'u dilysrwydd drwy ogrwn a gogrwn yn y cwbl o'r defnyddiau drwy waith yr Ysbryd Glân ar y galon. Yn ogystal, wedyn, y goruwchnaturiol sy'n rhagdybied peidio â chefnu ar na deall na theimlad na datguddiad o Dduw yn y ffeithiau a'r datguddiad o'r tu allan. Ceir datguddiad o Dduw yn y ffeithiau, a'r datguddiad o'r ffeithiau yn Nuw, heb hepgor ffaith. Dyna fethodoleg hanesyddol Gristnogol Paul. Ffeithiau, profiadau, ymddygiad, meddyliau, a chyflyrau yw Cristnogaeth i gyd: medd yr Actau 18:25, 'Yr oedd hwn [Apolos] wedi ei hyfforddi yn "ffordd yr Arglwydd", ac yn frwd ei ysbryd yr oedd yn llefaru ac yn dysgu yn fanwl y ffeithiau am Iesu, er mai am fedydd Ioan yn unig y gwyddai.' A dyma'r dull o dystio am yr Atgyfodiad, 1 Cor. 15:6 'Yna ymddangosodd i fwy na phum cant o'i ddilynwyr ar unwaith – ac y mae'r mwyafrif ohonynt yn fyw hyd heddiw, er bod rhai wedi huno.' Dyna lygad-dystion. Ac ni ellir llai na holi, 'ble mae'r llygad-dystion i'r negydd? Ble arall nag mewn cofnodion o'r ganrif gyntaf y chwilir am dystiolaeth resymol a gweledig sy'n gwrthod yr atgyfodiad goruwchnaturiol?'

Techneg nid anghyffredin gan D.Z.P. mewn dadl yw cydio mewn gosodiad gan ei wrthwynebydd, ei newid ei hun, drwy dehongli'n ddi-sail, ac yna ddadlau yn erbyn y gosodiad newydd. Dyma fy ngosodiad y mae'n cydio ynddo (t. 110): 'Y cwestiwn yr wyf i'n ei godi a'r hyn yr ydych chi'n ei osgoi yw hyn: onid yw corffori diffyg ystyr yn drylwyr yn golygu bod y llenor anianol, didwyll, sy'n mynd i'r pen draw, yn cyrraedd diffrwythder? Heb ystyr, heb lenyddiaeth. Heb ystyr, heb iaith.'

Yn y fan hon, sut bynnag, mawrygu ystyr yw'r hyn a wnaf, yn ffrwythlondeb iaith ac yn ffrwythlondeb ystyr. Heb ystyr, does yr un o'r ddwy'n bod. Yn wir, welais i neb a allai brofi'u bod nhw'n gallu bodoli hebddyn nhw. Hyd yn oed mewn ieithwedd swrealaidd, neu mewn ieithwedd lol (gw. *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972,* t. 97-9, 429-34), mae'r annealltwriaeth yn dweud rhywbeth am yr oes. Ond yr hyn a wna D.Z.P. yw cydio yn y cwestiwn syml a mynnu methu â gwneud synnwyr ohono. 'Os yw cwestiwn yn ddryslyd, dim ond creu mwy o ddryswch a wnawn wrth geisio'i ateb.' I'r gwrthwyneb, dylem geisio dadbacio cwestiwn yn ôl yr ymgais sydd wedi arwain at ei ffurfio. I D.Z.P., ystyr 'dadbacio'r cwestiwn' yw ei newid, ac yna ddadlau yn erbyn y gosodiad newydd. Medd D.Z.P, 'Mae'n bwysig cofio cefndir Calfinaidd ei drafodaeth. Yr honiad Calfinaidd cyffredinol yw bod y sawl sy'n gwadu ystyr, ac yn arddel gwacter ystyr, wrth wneud hynny yn cydnabod ystyr... ni welaf fod Bobi Jones hyd yn oed yn agos at sefydlu casgliad o'r fath.' Nid 'y sawl sy'n gwadu ystyr,' pwy bynnag yw hynny yn unig sy'n cydnabod bod ystyr, na'r sawl sy'n arddel gwacter ystyr. Maen nhw ill dau, wrth wadu neu gydnabod ystyr neu unrhyw beth arall yn anochel yn defnyddio 'ystyr', yn syml oherwydd ei bod yn gorfod bod ar gael i bawb sy'n *siarad*; ac ni cheid nac iaith na llenyddiaeth hebddi. Dyna'r pwynt cyntaf.

'Yn ôl Bobi Jones,' medd D.Z.P. (t. 111), 'mae Beckett yn llwyddo i ddangos ymwybyddiaeth o wacter, ond pe baem yn dilyn agwedd felly i'r pen draw, hunanladdiad fyddai'r canlyniad. Ond beth sydd o'i le ar hunanladdiad fel testun?'

Beth sy o'i le ar hunanladdiad fel testun? Dim. Dim mwy nag ar uffern fel testun. Ond pe bai'n bosibl go iawn i lenyddiaeth ei lladd ei hun (a dyma un o osodiadau ffansïol y diwydiant athronyddol), yna hoffwn i fod yn rheng flaenaf y gynulleidfa.

Mae D.Z.P. yn ateb ymhellach mewn dau osodiad cyferbyniol:

(t. 111) 'Y peth cyntaf i'w ddweud yw *nad oes safbwynt cyffredinol o unrhyw fath gan Beckett,* ac felly, nid oes ystyr mewn sôn am ddilyn y safbwynt hwnnw i'r pen draw (beth bynnag yw ystyr hynny), fel y myn Bobi Jones.'

(t. 113) 'Ym mhob drama gan Beckett, dangos rhyw fath o golled a wna. Anawsterau cyfathrebu â'i gilydd yw ei brif thema.'

Cymeraf mai safbwynt cyffredinol yw 'safbwynt' a 'phrif thema.' Metha D.Z.P. â chymathu'r ddau osodiad, wrth gwrs. Ond cytunaf i â'r ail, am ei fod uwchlaw dadl, a gadawaf rhwng gwŷr Pentyrch a'i gilydd, yn hytrach, nag â'r cyntaf, – er na wn ymhle y dywedaf hynny.

Y gwir yw bod pob gair yn yr iaith yn 'gyffredinol' – dyn, trwyn, mynd. Trafferth athronwyr iaith yw cyfyngiad eu gwybodaeth ieithyddol i Fynegiant, heb astudio systemateg orfodol iaith. (Ceisiais astudio systemateg '*gyffredinol/ arbennig*' i'r fannod 'y' yn y Gymraeg mewn brawddegau cyferbyniol fel: Mae'r ddafad yn greadures ddof./ Mae'r ddafad glaf yn y cae.)

Mae D.Z.P. yn cloi drwy ganolbwyntio ar un gosodiad perthnasol: 'ni allwn ateb cwestiynau ynghylch ystyr bywyd drwy osodiadau cyffredinol fel y gwna Bobi Jones pan ddywed (t.115), "Heb ystyr, heb lenyddiaeth. Heb ystyr, heb iaith." Rhaid bod yn ofalus i beidio ag uniaethu "ystyr" yng nghyd-destun bywyd, ag ystyron mewn iaith. Gall bywyd unigolyn fod yn llawn ystyron.'

Addefaf hyn: Cyfuniad yw iaith o sŵn ac ystyr i bawb. Heb un o'r rheini, does dim iaith. Diau fod bywyd pawb a phopeth yn llawn ystyron, osgoi'r ddadl yw codi bwgan anwel o'r fath.

Â ymhellach er mwyn dod allan o'r twll. Medd e: 'Nid yr un yw'r ddadl am bresenoldeb ystyron a phresenoldeb ystyr.' Hynny yw mae'n codi dadl ffansïol yn amlwg – sef gwahaniaethu ystyr unigol a lluosog, cwestiwn cwbl wahanol.

Yr wyf yn credu bod athronydd yn colli crap ar yr hyn sy'n 'gyffredinol' wrth golli golwg ar ras cyffredinol ac ar gwymp cyffredinol gyda'i gyd-ddynion yn ddiwahân yn sylfaenol. Drwy adnabod y gwahaniaeth hwn, gall pawb *adnabod* ei gyflwr i raddau a chyd-ddeall problemau cyffredinol gyda'i gyd-ddynion. Peth arall yw balchder ysbrydol (t.117), peth sydd hefyd yn digwydd i Gristnogion ac i anghredinwyr.

Eto, wedi'r fath grwydro, daw D.Z.P. i gasgliad a fynegir yn rhagorol: 'Er nad wyf yn

ysgolhaig Calfinaidd o unrhyw fath ac yn barod i gydnabod fod anghytuno rhwng Calfiniaid, fel sydd ym mhob maes arall, eto i gyd rwy'n tybio fod yna hefyd bwyslais Calfinaidd ar y ffaith ei bod yn ddirgelwch i ddyn ac yn rhan o ewyllys anchwiliadwy Duw, pam fod rhai'n credu ac eraill yn anghredu. Nid esboniad yw hwn, ond mynegiant o wyleidd-dra o flaen Duw, ac yn ein perthynas â'i gilydd.' Mae'n dod i'w gwlwm gyda Duw yn y canol. A dwedwn gyda'n gilydd 'Amen'.

Yn *Ffiniau,* mae D.Z.P. yn codi cynifer o ysgyfarnogod perthnasol fel nad oes modd ond taro cis arnyn nhw. Penderfynais mai un ffordd o arolygu a disgrifio'r panorama hwn fyddai codi rhyw 13 o ddyfyniadau nodweddiadol allan o'r gwaith, y rhai sy'n adlewyrchu'r materion a godwyd yn y ddadl rhyngom ni'n dau, a nodi'r ymateb bras iddynt hwy yn negyddol ac yn gadarnhaol fel hyn:

(t. 54) *Nid gwell damcaniaeth neu addasiad o ddamcaniaethau sydd eisoes yn bod fyddai'r gwir angen, yn gymaint â rhyddid oddi wrth ddamcaniaeth o unrhyw fath drwy sylweddoli nad fframwaith damcaniaethol yw iaith ac nad mater damcaniaethol yw'r berthynas rhwng testun a chyd-destun.*

Ni rydd ef ddiffiniad o *ddamcaniaeth.* Awgrymwn i mai esboniad cyffredinol yw damcaniaeth o'r hyn sydd heb fod yn theori yn hollol, a gynigir fel gwirionedd y gellir ei ddefnyddio'n gyson; esboniad yw, yn hytrach, sydd o leiaf yn bwrw amcan am y tro. Mae 'fframwaith' yn hanfodol i iaith, mewn gair ac mewn gramadeg (perthynas geiriau), yn ogystal â'u perthynas â chyd-destun.

(t. 57) *Oni bai am lenyddiaeth byddai syniadau yn ein bywydau beunyddiol am gariad er enghraifft, yn wahanol iawn.*

Dyma gyffredinoliad ar *werth* llenyddiaeth. Mae'n un o'r mannau lle y mentra D.Z.P. i gyfeiriad diffinio'r math o les a wna llenyddiaeth. A dyma'r lle y mae damcaniaethu yn rhagori.

(t. 57) *Brwydr yn erbyn sgeptigiaeth yw athroniaeth.*

Dyma gyffredinoli cadarnhaol eto ar werth athroniaeth o ran diffinio cymhelliad athroniaeth.

(t. 61) *Nid adlewyrchu'r byd a wna (iaith), ac nid cyfrwng ydyw i edrych ar y byd...*

Mae'n amlwg bod a wnelo'r iaith â'r byd, a dylid amodi'r gosodiad hwn, felly. Mae iaith yn defnyddio geiriau i gynrychioli'r byd. Seiniau ydynt mewn trefn (gramadeg). Ond saif y tu allan i 'natur' yn yr ystyr ei bod ar gael fel y gall sôn am 'natur'.

(t. 76) *Ein tasg yw dod â'n hiaith o'i defnydd damcaniaethol yn ôl i'w defnydd cyffredin yn ein patrymau o fyw.*

Ni chrwydra iaith. Mae yno ar gyfer popeth. Ceir tuedd neu ragdybiaeth fan hyn mai gwell yw'r defnydd cyffredin. Mae yna elfen o gyfyngu yno, ac efallai fod yna elfen o bleidio'r 'poblogaidd'; a gwerthuso cyfrwng – sef iaith – sy'n ceisio bod yn atebol i fynegi bywyd yn gyflawn, i'r dysgedig

a'r annysgedig.

(t. 93) *Nid y rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhesymau, ond cymeriad y rhesymau sy'n dangos yr hyn yr ydym yn ei dderbyn gyda sicrwydd.*

Ond cymeriad neu ansawdd y rhesymau ei hun yw'r sail sydd yn y rhagdybiaethau. Diffyg gofal ynghylch y negyddu yw diffyg D.Z.P.. Mae'n rhagori yn ei ymchwil cadarnhaol. Ond mae'n methu â sylweddoli y gellir bod yn gynhwysfawr. Cyfyngu yw ystyr y 'negyddu' i'r anghredadun. Ystyr bod yn gadarnhaol ac yn negyddol i'r credadun yw derbyn y datguddiad a roddwyd hyd yn oed pan fo'i dystiolaeth yn baradocsaidd ac yn oruwchnaturiol, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac yn groes i'r graen neu y tu hwnt i lawn ddeall dynol.

(t. 94) *Nid rhagdybiaeth yw realiti Duw i'r bywyd crefyddol, oherwydd y bywyd crefyddol yw'r bywyd yn Nuw.*

Unwaith eto, y negyddu sy'n cyfyngu'r adnabyddiaeth o Dduw. A tharddа'r agwedd honno o ysbryd gwrth-Absoliwt, a hynny'n brin yn y sylweddoliad o eangderau Creawdwr, Cynhaliwr, Barnwr ac Achubwr, ac o ffydd sydd ynghlwm wrth weithredoedd.

(t.100) *Yr unig bŵer sydd gan Dduw yw pŵer cariad, ac ni all cariad weithredu trwy orfodaeth. Y mae ei bod hi'n bosibl croeshoelio Mab Duw yn dangos hynny. Ac wrth weddïo ar Dduw i beidio â throi ei wyneb i ffwrdd, nid ystyr gweddi'r Cristion yw 'Paid â gwneud hyn i mi,' ond 'Cadw fi rhag bod y fath berson.'* Nid canlyniad pechod yw cosb*; natur y pechod ydyw.*

Mae pob negyddiad yn gyfyngiad hunanwrthddywedol ac yn canslo'i gilydd, hyd yn oed 'Cariad' yn unig 'yw Duw'. Ymgais yw i beidio â chydnabod mawredd Duw yng Nghrist. Mae Duw yn *gorfod* caru, dyna'i hanfod, a thrwyddo y mae'n gweithredu. Ond os yw'r dystiolaeth ysgrythurol yn dweud mai cyflog pechod yw marwolaeth, yna dyna'r drefn. Os yw gweddi'r Cristion yn gofyn i Dduw beidio â throi'i wyneb i ffwrdd, mae'n golygu bod posibilrwydd i Dduw – mewn modd ysbrydol – wneud hynny.

Mae Duw'n casáu drygioni. A thipyn o faldod rhyddfrydol yw gwyngalchu'r beddau.

(t. 104) *Nid gwaith athroniaeth yw dweud beth sy'n wir, fel petai maen prawf gan athroniaeth i setlo'r mater. Ac os anghofir hyn, mae'n arwain at anonestrwydd a llygredigaeth ym myd ymchwil syniadol. Gwaith myfyrdod syniadol yw dangos mor amrywiol yw safbwyntiau dynion.*

Ond mae'n fwy na hynny. Cymerwn y datganiad fesul brawddeg. Mae'r frawddeg gyntaf yn sôn am athroniaeth ac yn awgrymu os yw athronydd yn dweud y gwir, mae ef eisoes yn gorffen ac yn 'setlo'r mater'. Ond erys amrywiaeth ynddo'i hun i 'ddangos' safbwyntiau fel y bo'r parhad i geisio llwybrau pellach, sy'n 'fendithiol' braf. Mae'n dangos ehangder meddwl a hawl dyn i groesi'n ffôl yn erbyn Duw hollalluog neu absoliwt; ac yn dangos pam.

(t. 106) *Wrth anghytuno â chredoau gwahanol i Gristnogaeth, dywed 'y mae perygl mawr fod yr*

*athronwyr Calfinaidd yn euog o un o bechodau mwyaf difrifol eu crefydd, sef balchder ysbrydol.' [Ac enwa dri.]*

Yn awr, dyma ymgais i bersonoli'n unigol farnedigaethol drwy ganolbwyntio ar y sefyllfa Gymreig, a gall fod yn wir. Fe awn ymhellach, a dywedwn fod y tri a enwir yn gwneud camgymeriadau hefyd, yn ôl pob tebyg yn feunyddiol, ac yn pechu o hyd ac o hyd. Ond nid dyna yw'r ddadl. Gwell trafod a cheisio athrawiaethau gras yn gyffredinol, sy'n cael eu rhoi gan frenin tragwyddoldeb os ceir rhagdybiau cywir rhoddedig.

(t. 118) *Canlyniad yr ymdrech i wneud cyfiawnder syniadol â'r byd, mewn athroniaeth ac mewn beirniadaeth lenyddol, yw gwerthfawrogi'r amrywiaeth rhyfeddol sydd o flaen ein llygaid – amrywiaeth credoau, amrywiaeth gwerthoedd, ac amrywiaeth ein cytuno a'n hanghytuno.*

Gellir ymddiddori yn yr amrywiaeth heb yr un pryd gael ein gorfodi i beidio â gollwng 'un peth', a 'phurdeb calon'. Wrth drafod Kierkegaard *(Faith after Foundationalism*, 153) sonia D.Z.P. am adael 'the variety of moral, political and religious perspectives undisturbed.' Yr hyn y galwai Kierkeggard amdano oedd hefyd 'Aflonyddwch!' Math o gabledd yw defnyddio'r amrywiaeth i geisio lladd yr egwyddor o undod a'i wneud yn undonedd ac yn unrhywiaeth. Gellir defnyddio 'amrywiaeth' yn shiboleth heb ei chwilota a'i wireddu. Gall defnyddio'r gair cadarnhaol 'amrywiaeth', heb ddangos y gall gynnwys drygioni a chelwydd, neu fod yn faldod llygredig.

I'r Trindodwr, sy'n adnabod y Tri yn Un, mae Duw tragwyddol yn bodoli erioed mewn gwahuniad, hynny yw yn Undod mewn Amrywiaeth. Cafwyd ganddo Un greadigaeth, ac ynddi roedd yna wahuno; amryfal fodolaethau mewn un cyd-fodolaeth. Rhamantiaeth ffantasïol yw amrywiaeth heb undod. Dysgodd dyn ddeall *popeth* drwy wahanu mewn cysondeb. Wedi dirnad ac amgyffred gwahanol bobl gyson a phethau cyson, dechreuwyd defnyddio seiniau amryfal, a glywwyd ac a ddaeth yn fynegedig ddealledig drwy arfer cysondeb.

I'r Cristion newydd ni raid deall ond y seiliau. Yn wir, daw hwnnw a honno at Grist fel plentyn. Nid buddugoliaeth gwybodaeth, eithr buddugoliaeth gostyngeiddrwydd, yw credu. Eto, nid anwybodaeth yw. Mae gwybod yn gallu arwain at adnabod drwy ffydd. A ffydd yw ffrwyth gobaith, ymestyn, a derbyn gras/rhodd. Ateb yw i alwad.

(t. 282) Un o ddiffygion dyfynnu, fel y gwnaf i nawr, ac anghytuno'n weddol gyson, yw rhoi'r argraff negyddol mai dyna i gyd sydd yna. Pe bai hi felly, mae'n siŵr y byddai temtasiwn i anwybyddu'r awdur. Os felly, gwell imi ymddiheuro a diweddu hyn o ddetholiad cryno gydag un o'i gasgliadau cadarnhaol ef ei hun heb imi chwilio'r un bai. Casgliad yw y cytunaf ag ef gant y cant:

*Yn y deyrnas dragwyddol, yr unig fuddugoliaeth fydd buddugoliaeth cariad, buddugoliaeth sy'n bosibl, er i'r byd wneud ei waethaf yn erbyn pobl, gan gynnwys eu distryw. Ac yn ganolbwynt y Gristnogaeth mae datguddiad o gariad Duw ar y Groes. Ond mae pris y datguddiad yn dra uchel –*

*'yr hwn a dorrir drosoch' . Rhaid cymryd y syniad o aberth o ddifrif – fe'i drylliwyd nes gweiddi ohono ar ei Dduw a gofyn iddo paham y'i gadawodd. Beth, gan hynny, i'r Cristion yw bwydo arno – ar ei gnawd a'i waed – ond dweud mai gyda chariad Duw y mae'r gair olaf?... Rhaid cofio mai Gwledd yr Oen yw'r wledd nefol, ac nid clwyfau sydd wedi gwella yw clwyfau'r Crist Atgyfodedig.*

Sylwer ar unplygrwydd y gosodiad gan DZP, ac ar y wedd gadarnhaol union sydd yma ar Dduw.

* *

Wrth ymdroi gydag atgofion yn y gadair freichiau fel hyn, bûm yn pendroni beth oedd y prif beth a wneuthum wrth lunio beirniadaeth lenyddol, fe dybiwn mai'r hyn a wnelwn oedd cyfrif trefn hanesoldeb patrwm y meddwl. Nid olrhain hanes, ond olrhain trefn amser. Dilyn trywydd y camre olynol yn y meddwl.

Y ffordd orau i esbonio hyn fyddai cyferbynnu'r broses â'r hyn a welwn yn y gyfrol enwog *Man in his Past*, Cambridge University Press, (edition 1969; originally published 1955), y mae'r hanesydd enwog Herbert Butterfield yn astudio 'hanes'. Mae'n olrhain y ffenomen ei hun yn syml ac yn graff drwy'r canrifoedd yn eu holyniaeth, gan gynnwys mudiadau o'r oesoedd cynnar, ymlaen drwy gyfnod megis Rhufain, y Dadeni a'r Diwygiad Protestannaidd, ymlaen i'r Rhamantwyr a'r Bedwaredd ganrif ar Bymtheg, yn gonfensiynol. Ond nid yw'n sôn am adeiladwaith Hanes ei hun fel y cyfryw. Nid yw'n canfod yr wyddor o wybod beth yw'r gyfundrefn mewn Hanes.

Ceir systemau ym mhob man wrth wybod beth yw'r gyfundrefn mewn Hanes; o'r galaethau i'n DNA. A bod yn fanwl mi ddylai'r ysgolhaig sy'n sefyll ar wahân, ac sy'n chwilota a chyflwyno natur Hanes yn ôl ei drefn gynhenid ddofn, amlinellu'r wyddor orfodol, aros gyda'r hyn sy'n bresennol yn yr holl gyfnodau, y craidd sy'n rhan o'r cread rhoddedig, yn un, deuol, a thriol: yn wir nod pob ymchwil ddychmyglon yn y pren draw. Dyma'r hyn y bûm yn ei chwilio mewn bywyd gan gynnwys beirniadaeth gras cyffredin (ac arbennig), fy storïau. A'm prydyddiaeth.

**Llyfryddiaeth**

Ceir Rhifyn Coffa o'r *Traethodydd* yn gyflwynedig i Ddewi Zephaniah Phillips (1934-2006) yn Ionawr 2007 gyda gem o ysgrif gan Walford Gealy sy'n adolygu, disgrifio, ac yn gwerthuso'i waith.

DROS F'YSGWYDD (8)

GWENALLT (1899-1968)

Mae hanes fy nghysylltiad personol i â Gwenallt yn mynd yn ôl drigain mlynedd bron.

Rwy'n meddwl mai anfon gwahoddiadau allan o Gaerfyrddin wnes i, ar ran Waldo a finnau, at ryw hanner dwsin o lenorion gan gynnwys Gwenallt i drafod y posibilrwydd o sefydlu'r Academi Gymreig ym 1959. Ychwanegodd at yr hanner dwsin hwnnw ryw hanner dwsin arall drwy'r post. Wedyn yn Aberystwyth, Gwenallt a etholwyd i fod yn olygydd ar y cylchgrawn *Taliesin,* 1961, a'r canlyniad fu dod â ni'n dau at ein gilydd yn weddol reolaidd. Tua'r amser yma hefyd, dechreuais i fynd i'w ystafell yn y Coleg ar wahoddiad bob dydd Gwener am 11.0 i gael panaid. A daethom yn gyd-ymddiddanwyr ar orig gyson.

Heblaw materion llenyddol, roeddem ni'n dau ar yr un donfedd yn ein credoau diwinyddol, yn fwy felly nag roeddwn i gydag unrhyw fardd neu lenor arall yng Nghymru – o safbwynt Calfinaidd ac efengylaidd. Efallai mai trafod tranc Cristnogaeth Feiblaidd a'r ffydd efengylaidd oedd y daten losg a ddaliem ni'n dau gyda'n gilydd fwyaf ar ddyddiau Gwener. Bu hyn hefyd yn bwnc i gerddi ac i ryddiaith Gwenallt ers tro byd (gw. *Credaf*).

Daeth Tryweryn wedyn. A buom ni'n dau'n fechnïwyr i Emyr Llewelyn Jones, myfyriwr i Gwenallt yn Adran y Gymraeg ac i minnau yn yr Adran Addysg. Deuthum innau'n *chauffeur* o'r herwydd wrth i ni'n dau yrru yn ôl ac ymlaen i'r llysoedd yn y Bala ac yng Nghaerfyrddin ym 1963.

Ac yna, ymddeolodd Gwenallt. Hysbyswyd ei swydd. Symudais i o'r Adran Addysg i Adran y Gymraeg. Ac fe etifeddais gyrsiau Gwenallt (o 1966 ymlaen) yn Adran y Gymraeg – yr 'Ugeinfed Ganrif' a 'Ffurfiau Llenyddol'. Cefais i ganiatâd hefyd i gynorthwyo Tedi Millward, yn ogystal, yn y Cyrsiau i Ddysgwyr Ail Iaith.

Ni ollyngwyd yr ymweliadau â Gwenallt, serch hynny. A bûm yn ymwelydd ag ef yn ei gartref yn ystod dwy flynedd olaf ei oes, lle y bûm yn trafod ei hen gyrsiau yn yr Adran; ac roeddwn i'n un ymhlith llu o ymwelwyr ar ddiwedd eithaf ei fywyd, ffrindiau a fyddai'n cael ymweld ag ef ar ei wely angau ym Mron-glais. A hyd yn oed ar ôl ei farwolaeth, fe gefais yr anrhydedd, ar wahoddiad, gan Nel i olygu gyda hi y pentwr o gerddi a oedd ganddi mewn llyfr nodiadau yn ffrwyth ymweliad Gwenallt gydag W. R. P. George (ei gyfaill mawr o Borthmadog) ag Israel, – *Y Coed*.

Yna, ychydig o flynyddoedd wedyn, fe ddaeth, drwy law Mary Burdett-Jones, ar ran cylchgrawn Cyfeillion Ll.G.C., gopi i'w adolygu, o holl gerddi Gwenallt wedi'u golygu gan Christine James. Oherwydd hynny'n benodol, fe'm hysgogwyd i feddwl am gyfanrwydd ei gyfraniad i'r brif wedd ar fyd a diwylliant hyn o wlad. A dyma'r ysgrif honno:

*Cerddi Gwenallt: Y Casgliad Cyflawn,* gol. Christine James, 2001

Dyma un o drysorau mwyaf llenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif. Casglwyd at ei gilydd holl gerddi un o feirdd mwyaf gwreiddiol a grymus ei gyfnod. Ni buasai hyn oll yn bosibl oni bai am y gwaith sylfaenol diwyd a wnaeth yr Athro Christine James ar y llawysgrifau yn Nhrysorfa'r Genedl. Yno, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru y daeth hi o hyd i nifer sylweddol o gerddi ychwanegol nas cyhoeddwyd o'r blaen. Yn y nodiadau hefyd ar ddiwedd y gyfrol ac yn y Rhagymadrodd swmpus a gwerthfawr, ceir cyfeiriadau at bethau megis LlGC 21954 E (Papurau Gwenallt), pryd y codwyd defnydd o nodiadau rhyddiaith y bardd yn yr un lle. Rhydd y Rhagymadrodd a'r Nodiadau (xvii-1; 441-674), yn ogystal, sylw dyledus i'r traethodau ymchwil anghyhoeddedig am waith Gwenallt gan Bryan Martin Davies a Non ap Emlyn (née Mathias).

Un cwestiwn sy'n sicr o godi wrth glywed bod yna ryw 74 o gerddi yn yr Adran 'Cerddi Ychwanegol' yw – a oes yna ryw gampweithiau cudd? Yng nghoffrau B. J. Morse a ddefnyddir yma ceir soned wir hyfryd 'Fy Nhad' (lle y crybwyllodd Gwenallt y digwyddiad seciwlar unigol, mwyaf trawiadol, a adawodd ei ôl arno ac ar ei farddoniaeth, sef damwain angeuol ei dad), hefyd 'Cyfaill o Fardd' sydd gystal bob dim â'r soned arall â'r un teitl i B.J. Morse, a dwy o'i sonedau cynnar 'Y Lleianod' ac 'Yr Awen', ynghyd â'r ddwy gerdd nodedig 'Distawrwydd' a 'Hiraeth'. Mae'r rhain oll yn bleser mawr i'w darllen, er nad ydynt bob un – o ychydig – mor gyrhaeddgar ag *Ysgubau'r Awen.* Ar wahân i'r caneuon gorffenedig hyn, mae yna ddryll anorffen 'I'm Rhieni – Aberth' a fuasai wedi bod yn gerdd wych pe bai wedi'i gorffen. I bawb sy'n ymddiddori yng ngwaith Gwenallt o ddifri mae'r adran helaeth hon yn anhepgor, ac i bob darllenydd diwylliedig fe brawf yn ddifyr odiaeth ac yn flasus.

Drych yw hyn i'r ffaith fod gennym yn y gyfrol ysblennydd hon nid yn unig gasgliad cyflawn, eithr hefyd astudiaeth drwyadl, a hynny gan un o'r disgleiriaf o'n hysgolheigion Cymraeg cyfoes.

Yng nghanol yr ugeinfed ganrif cafwyd pump o feirdd Cymraeg a gododd ben ac ysgwyddau uwchben eu cymheiriaid, sef Saunders Lewis, Gwenallt, Waldo Williams, Euros Bowen ac Alun Llywelyn-Williams. Mae'n ddiddorol sylwi bod dau o gyfoeswyr Gwenallt o blith y rhain, sef Waldo ac Euros, wedi llunio cerddi o fawl iddo. Ac y mae ôl dylanwad ei arddull arw a gewynnog yn drwm ar ryw hanner dwsin yr un o gerddi Saunders ac o gerddi Waldo. Er ei fod yn feistr ar ganu melys a llyfn y cyfnod rhamantaidd, fel y tystir gan y gerdd gyntaf yn y gyfrol, sef 'Awdl y Mynach', eisoes yn y casgliad cynharaf o'i ganeuon sy'n ei dilyn, fe glywir yr ymystwytho chwithig a chaled, y cystrawennu aflafar a'r cyplysu cytseiniol a llafariadol amhersain achlysurol. I mi, roedd afrwyddineb y rhythmau yn lle'r esmwythyd persain cynt, rhyddieitholdeb meinwe'r meddwl, a'r ymwacáu o drosiadau ac o synwyrusrwydd, yn rhedeg yn gyfredol â'r hyn a ddigwyddai mewn llawer o gerddoriaeth fodern ar y pryd. I'm chwaeth i, roedd unochredd a gormodedd y

dinoethi hwnnw braidd yn anghatholig, gan fethu maes o law â bod yn gynhwysol. Colled heb ennill llawn ydoedd. Ond ar y pryd roedd yn fodd iach i garthu ystrydebaeth seiniol Neo-sioraeth gynnar y cyfnod cynt.

Perthynai Gwenallt i symudiad rhyngwladol hunanfeirniadol mawr yn yr ugeinfed ganrif oddi wrth farddonoldeb a blodeuogrwydd tuag at foelni. Nid pawb a allai stumogi moelni, bid siŵr – na hunanfeirniadaeth chwaith. Nid pawb chwaith a groesawai anlladrwydd geirfaol Gwenallt, megis yn y pennill "garw" (329) ymhlith y cerddi ychwanegol yng nghefn y gyfrol. Awgrymaf mai dyna oedd pennill 5 yn "Testament yr Asyn", un o gerddi coeg hunanfeirniadol Gwenallt. Ni sgrifennwyd pennill 6 oherwydd i'r bardd gael traed oer, neu oherwydd y buasai'r gerdd yn mynd yn rhy hir, neu'n debycach, gyda phennill 6 y byddai natur y gerdd gyfan yn newid o ran effaith.

Rhan o'r dylanwad cyfoes hwn ar gysuron arddull oedd yr erledigaeth a brofai ef gan ei gnawd. Ond yr arddull unigolyddol hwnnw yn anad dim a adawodd ei hôl ar ei gyfoeswyr ac a ffurfiodd y dylanwad pwysicaf a gafodd Gwenallt ar ddatblygiad barddoniaeth yn y Gymraeg.

Anlladrwydd argyhoeddiad o bechod a glendid Cristnogaeth oedd un o'i ddeuoliaethau cyson. A chafwyd hollt yn y dylanwad a gafodd y naill a'r llall ar eu cyffeswyr. Nid oedd ei bwyslais Cristnogol yn "amserol" (mewn amseroedd pryd roedd pwyslais crefyddol yn rhan annifyr a hynod o wreiddiol mewn barddoniaeth Gymraeg), a chofio cyfartaledd y boblogaeth ddyn-ganolog yng Nghymru. Ochr-yn-ochr â phedwar o'r pum bardd amlwg uchod yn y Gymraeg ar y pryd a enwais, Alun Llywelyn-Willams oedd yr unig eithriad, – ef oedd yr un mwyaf Seisnig ohonynt. Roedd y pedwar arall yn fwriadus ymwybodol o arwyddocâd y ffaith o Fawl, a'r athrawiaeth hanesyddol a'i goleuai hi; ac adeiladent gorff o waith a oedd hefyd yn arolwg o dreiddgarwch Mawl yn y psyche dynol ac yn adlewyrchu llinyn arian hynod unigryw yn y traddodiad Cymraeg.

Byddaf yn synied bod gan Gwenallt, yn anad yr un, obsesiwn ynghylch ei ffydd, o'r gerdd gyntaf oll ymlaen hyd y diwedd yn y gyfrol hon. Roedd e'n cael ei erlid ganddi. Prin y gallai godi unrhyw bwnc meddyliol mewn unrhyw faes heb i'r pechadur hwn gael ei feddiannu gan y benarglwyddiaeth hon. Ar ôl llwydi sur y dirywiad Ewropeaidd mewn credu, daeth Gwenallt, fel Saunders ac Euros a Waldo, ag awel iachus i ganol ffordd uniongrededd.

Ond i bob un ohonynt roedd hyn yn broblem o fath. Yn achos Gwenallt ei hun roedd yna ddau gweryl rhyngddo ac ef ei hun. Gallwn sylwi'n syml ar y pechod cymdeithasol. Roedd yna dyndra efengylaidd achlysurol rhwng y *gymdeithas* a Duw. Wyneb yn wyneb ag Efengylyddiaeth bietistig adnabyddus, roedd Gwenallt ei hun wedi'i wreiddio a'i fagu'n gadarn yn yr ymwybod cymdeithasol. Gallai ymwared â chulni dynganologrwydd a materoliaeth; ond ni allai ymwared â rhychwant anghenion corfforol ac ysbrydol 'dyn' mewn cymdeithas. Yn wleidyddol, dilynasai ei

daith o Farcsaeth ymlaen i genedlaetholdeb datganoledig a chydweithredol: taith oedd a gymerwyd gan gannoedd o'i gyfoeswyr. Ond yn y maes hwnnw, ei brif faich oedd parhad gwerthoedd dyngarol ynghanol diwydiant, diwylliant ynghanol cyfalafiaeth faterolaidd, dioddefaint a llawenydd a gwreiddiau ynghanol unffurfiaeth imperialaidd. Materion pwysig iawn oll, ond materion cymharol syml. I Gwenallt, sut bynnag, nid arhosent mor syml oherwydd y gwrthgyferbyniad cyfredol rhwng dwyster ei adnabyddiaeth ddwyfol ac arwyneboldeb y gymdeithas.

Roedd ei daith gyfredol yn fwy cymhleth o lawer na'r datblygiad mewn argyhoeddiadau gwleidyddol, peth a oedd yn nes at briffordd feddyliol y gymdeithas. Roedd hefyd yn gymhleth yn grefyddol. Ar ei symlaf, ar ôl plentyndod cydymffurfiol, âi drwy ryddfrydiaeth a seciwlariaeth anghrediniol, ymlaen drwy waith Baudelaire. A dyma'r argyhoeddiad o'r drygau cymdeithasol yn disgyn arno – bwyd protestio. Dyma ychwanegu at yr argyhoeddiad o bechod ysbrydol hefyd sagrafennaeth Gatholig, ac ymlaen wedyn i Galfiniaeth efengylaidd lawn. Soniai hefyd am feini tramgwydd rhesymoliaeth a rhamantiaeth y cyfnod rhyddfrydol 'radicalaidd' a fu; peth a oedd yn gonfensiynol yng Nghymru ar ôl y 1860au. A diau fod ei resymoliaeth wedi bod yn her i'w aeddfedu Cristnogol ar lefel ddeallol fel y dengys yn y ddwy gân 'Disgyblion Didymus' a 'Gwlad ac Ynys'. Ond roedd ei ramantiaeth yn wir faen tramgwydd barddonol, a'r rhamantiaeth honno'n blodeuo'n sagrafennaeth.

Wedi'r *gymdeithas,* cafodd yr ail gweryl rhyngddo ac ef ei hun fel *unigolyn*. Roedd pechod wedi bod yn amlwg yn y gymdeithas, sef diwygio pobl eraill, ac roedd hyn yn adnabyddus yng Nghymru yn yr efengyl gymdeithasol. Mwy hunanfeirniadol bersonol ac ysbrydol oedd y broblem hon i Gwenallt. Roedd a wnelo â'i argyhoeddiad personol o bechod yn erbyn Duw. Dyma'r math o ffydd a gynrychiolid gan y Cyffesion Ffydd, y ffydd glasurol ysgrythurol. A dwy athrawiaeth yn anad dim a'i poenai fel bardd.

Dôi'r athrawiaeth o bechod arno fel llam teigr. Os oedd pechod yn bod yn gyffredinol o gwbl ymhlith rhai o'i gyfoedion roedd yn syml ystrydebol foesol. I Gwenallt daeth nawr yn ddatguddiad syfrdan, yn ddychryn personol ac yn eglurhad bythol-bresennol ynghylch perthynas. Canai ef amdano mewn soned, ac yn fynych drwy symbolau megis y Twrch Trwyth, y Ffwlbart, y Sarff, yr Anifail Bras, y Draenog. Eithr treiddiai drwy'i waith oll.

Tyfodd yr ail ddysgeidiaeth hon yn fwy o broblem. Ni fabwysiadodd ef ateb parod i'r broblem. Hen broblem y corff a'r enaid oedd, ac yn flinder i Gwenallt, gyda gwyrdroad. Meddai un tro yn ei gyfrol am Islwyn: 'Y mae yng ngwaith beirdd a llenorion Cristnogol wrthdaro rhwng eu Cristnogaeth a'u celfyddyd, fel y gwelir yn nofelau François Mauriac heddiw.' Soniai yng ngherdd gyntaf y gyfrol hon, 'Y Mynach ' (yng nghyfnod prentisio ei Awdlau, am y lleian:

Y welw wen ni welai hi – liw a llun

Haul a lloer a heli;
Gwelai groes fwyn mewn llwyni,
Briw Oen lleddf uwch bryn a lli.)

Dyma osod y broblem yn yr Oesoedd Canol. Canoloeswr oedd Gwenallt yntau fel ysgolhaig ar y dechrau. Cerddi am fucheddau'r saint oedd ei faes ymchwil cynharaf. Yn y cyd-destun hwnnw roedd gwrthdrawiad corff ac enaid yn broblem, peth a ddeuai'n broblem real iddo ef ei hun ar hyd ei oes. Mae'r gerdd gyntaf yn *Ysgubau'r Awen* ar ffurf dadl rhwng yr Angylion a'r Gwragedd ar yr unrhyw destun. Mae'r soned 'Cnawd ac Ysbryd' ar yr un trywydd eto, sef 'synwyruso gogoniannau Duw'. Y pwyslais Catholig yw'r ateb cyntaf a gâi, felly. Y cais oedd am ddeall undod yn y bersonoliaeth rhwng Ysbryd Duw a'i greadigaeth.

*Eples* iddo ef oedd cyfnod y Calendr Eglwysig, Mair Forwyn, pwyslais ar y Cymun (dwy gerdd) a sefydliad yr Eglwys, y Merthyron a'r Seintiau. Ond ymhen ychydig, anesmwythai Gwenallt am hynny o ateb. Erbyn amser *Gwreiddiau* yr oedd maes myfyrdod academaidd Gwenallt wedi symud i gyfnod y Piwritaniaid a'r Methodistiaid, a'i ddiwinyddiaeth wedi gogwyddo i gyffelyb gyfeiriad.

Wrth i'w fyfyrdod ar Brotestaniaeth ddeallol dyfu, cafodd oleuni pellach, nid yn unig am arwyddocâd Pechod a Chyfiawnder drwy Ffydd, ond mewn dirnadaeth gyfredol ynghylch Sancteiddhad yn sgil Cyfiawnhad a dderbyniai ef bellach, nid yn ôl y drefn gatholig o ragflaenu Cyfiawnhad gan Sancteiddhad. A dyna'r ddealltwriaeth newydd a oleuodd iddo berthynas cnawd ac ysbryd. Efengyleiddiwr catholig Calfinaidd oedd ef mwyach, a'i gnawd a'i ysbryd wedi'u hachub o ran cyd-statws yn derfynol, ac eto'n dal yn y frwydr o gael eu sancteiddio'n barhaol, yn arbennig wrth gludo llawer o'r weledigaeth sagrafennaidd ymlaen gydag ef yr un pryd.

Ar yr olwg gyntaf, ceir cynnydd ieithyddol mewn haniaethau o *Eples* ymlaen. Beirniedir yn hallt gan Ramantwyr y cilio synhwyrus hwn. A thybir weithiau mai'i ddiddordeb diwinyddol a gyfrifai am hynny. Ond wrth i Gwenallt droi fwyfwy oddi wrth bwyslais diriaethol sagrafennaeth tuag at gynnwys deallol yr Efengyl, un o'r pennaf ymchwiliadau a wnâi oedd ceisio canfod lle'r corff o fewn athrawiaeth Gristnogol, lle'r ymgnawdoliad ac atgyfodiad corff Crist, ac atgyfodiad dynion maes o law; swyddogaeth amser a lle, a swyddogaeth synwyrusrwydd mewn barddoniaeth a gydnabyddai amlochredd meddwl a chred ac angen dyn.

Un o'r pethau sy'n dod i'r golwg wrth olrhain datblygiad y bardd drwy gydol casgliad cyfan cyfun fel argraffiad Christine James, yw bod modd lleoli union reswm ac amser *dirywiad* yn ei hanes. Digwyddodd yn union ar ôl ei aeddfedrwydd cynyddol, yn niwedd *Eples*, (cerddi 121-91) uchafbwynt ei ganu dyfnaf gyda cherddi megis 'Y Meirwon', 'Y Dirwasgiad', 'Morgannwg', 'Y Morgrug' ac eraill. Nid amlhau haniaethau oedd y drwg, na phropagandeiddio, gan fod rhai o'r

elfennau hynny yn gallu taro'n ddigon effeithiol o hyd, ac wedi'i wneud ynghynt. Roedd yna dwf yn hytrach mewn ansensitifrwydd yn ei arddull, a dystir er enghraifft mewn manion fel ansoddeiriau trwsgl pendrwm o flaen enwau, 145:4 'y tu ôl i'w gwyryfol gefn'; 146:8 'y lanaf, berffeithiaf gwraig' (trwsgl, ond hefyd, gwnaed er mwyn odl neu'r mydr); 159:4; 159:30; 162:14; 167:3,5,7,12,17; 168: 11,13,18; 169:27; 195:17; 196:11,13; 217:53; 226:13-14; 272,7-8 ac mewn llu o rai cyffelyb.

Y naïfder 'poblogeiddiol' hwn neu'r cydymffurfio â rhethreg henffasiwn, y goresbonio, y parodrwydd i fodloni ar yr amlwg, hynny – ac nid y pregethu, – yw'r diffyg treiddgar. Wedi cydnabod hynny, y mae arbenigrwydd ei gyfraniadau cyflawn yn aros yn rhyfeddol.

Byddaf yn synied mai'r tebycaf i Gwenallt o feirdd y byd yn yr ugeinfed ganrif o ran naws, arddull a meddylfryd barddonol onglog oedd Hugh MacDiarmid. Er mor wahanol oedd llwybr union eu credoau gwleidyddol a chrefyddol, cychwynnent mewn un man tebyg. Cynrychiolent ill dau y werin ddiwydiannol. Er bod blas didactig ar eu lleferydd ill dau a thipyn go lew o ryddieitholdeb bwriadus ganddynt, gallent fod yn syfrdanol o delynegol. Rhannent yr un cenedligrwydd. Hoffent roi ysgytwad i bobl: roedd gan Gwenallt ei ysgallen. Ond yn anad dim, adferwyd y genadwri foesol ganddynt i graidd barddoniaeth, gan MacDiarmid mewn Scoteg megis gan Gwenallt yn y Gymraeg. Heb foesoldeb o ryw fath felly, does dim mawredd mewn llên. A digon teg efallai fyddai canfod llawer o ddyheadau Gwenallt yng ngeiriau MacDiarmid:

> To pit in a concrete abstraction
> My country's contrair qualities,
> And mak' a unity o' these
> Till my love owre its history dwells,
> As owretone to a peal o' bells.

* * *

Ar ddiwedd disgrifiad yr adolygiad hwnnw am olygiad Christine James o'i waith, fe welais i broblem hollol wahanol o ran ansawdd yn codi nawr. Heblaw pechu gan y gymdeithas, a phechod gan yr unigolyn, – pynciau i bawb, – fe symudwn at broblem lawer llai; a dyma wir broblem Gwenallt yn codi, problem leol benodol bob dydd, problem gymharol dila fel petai – sef sut mae sgrifennu cerdd dda. Wedi'r cwbl, ei swydd fel bardd sy'n diogelu gwaith Gwenallt inni.

Ond yn y blynyddoedd diweddar hyn, y mae gwaith y beirniad llenyddol wedi mynd yn fwy amwys a phobl yn ceisio'i wthio i gornel amhriodol, heb gael canolbwynt disgyrchiant mewn gwerthusiad.

Yn ei gyfrol *Ffiniau, Myfyrdod Athronyddol ar Lenyddiaeth,* nid yw Dewi Z. Phillips byth

yn ysgrifennu beirniadaeth syniadol, lenyddol, gynhwysfawr. Brawddegau yw llenydiaeth yn ei fryd ef i'w defnyddio ar gyfer dadl ddiwinyddol. Mae ganddo fe yn y gyfrol honno fyfyrdod crefyddol am farddoniaeth Gwenallt, ond nid yw'r drafodaeth honno byth yn troi'n feirniadaeth amdani 'fel llenyddiaeth'. Ymdrinia â syniadau Gwenallt am grefydd, fel y'u ceir ynddi, ond fe'i trafoda mewn dull sy'n arwain at gytuno neu anghytuno, yn yr un modd ag y gallai rhywun droi at ddeall ystyr llyfr coginio, neu lawlyfr meddyginiaeth. Disgrifio safbwynt crefyddol a wna'r athronydd. Ond i'r beirniad llenyddol nid yw hynny o bwys yn y byd o safbwynt gwerthuso'r gerdd.

Yn yr ysgrif hon am waith Gwenallt, felly, heblaw chwilio am rinweddau a diffygion gwaith Gwenallt fel barddoniaeth, yr hyn yr wyf am ei ofyn yw beth yw'r ffin a groesir allan o farddoniaeth neu i mewn i farddoniaeth heibio i rywbeth arall. Ble mae'r ffiniau llenyddol? Mewn geiriau eraill, pa agwedd ar y gwaith sy'n ei wneud yn llenyddiaeth yn hytrach nag yn draethiad ar syniadau crefyddol? Brwydro y mae'r awdur am farn lenyddol o flaen brwydr arall o blaid casgliad mwy cynhwysfawr crefydd. Dyna pam roedd yn bod. Roedd gan Gwenallt y bardd, felly, y broblem o farddoni o fewn cenhadu.

Yn *Ffiniau,* mae Dewi Z. Phillips yn rhoi sawl tudalen i feirniadu beirniadaeth grefyddol John Rowlands ynghylch llenyddiaeth, ac mae'r ddau rywle neu'i gilydd yn cyffwrdd â gwaith Gwenallt. A brysiaf i ddweud bod y naill ddyneiddiwr a'r llall yn gwneud rhywbeth cwbl deg a chyfiawn a phwysig, ond mewn ffordd wahanol, sef cymryd y gwaith er mwyn ymgodymu â gwirionedd neu â'r hawl i drafod materion crefydd. Ond nid beirniadaeth lenyddol mo hynny. Yn wir, nid oes awydd yn y fan honno gan y naill na'r llall i werthuso llenyddoldeb o gwbl. Ac wrth osgoi llenyddoldeb, osgoir priod nod Gwenallt a phennaf pwrpas ei ddefnydd o iaith. Mae'r ddau feirniad yn aros yn feirniaid crefyddol.

Mae Dewi Z. Phillips fel John Rowlands yn gofyn llawer o gwestiynau da a buddiol. Ond nid ydynt yn gofyn beth *yw* llenyddiaeth, ac nid ydynt yn *ateb* beth yw llenyddiaeth. Mae crefydd iddynt hwy yn tynnu'u sylw oddi wrth y prif gwestiynau y dylid eu gofyn o fewn cyd-destun y gwaith llenyddol.

Gellir defnyddio Crefydd, yn negyddol neu'n gadarnhaol neu'n amwys goeg. Ond collir golwg ar gyfoeth y profiad llenyddol wrth *synied* amdani fel cyfrwng i ennill achos seciwlar.

Yr hyn a wna beirniad *llenyddol* yw canolbwyntio ar y cyneddfau ac ar y priodoleddau sy'n diffinio cnewyllyn y profiad a'r fodolaeth lenyddol. Nid dweud y gwir, ond dweud yr hardd a wna barddoniaeth Gwenallt, hyd yn oed pan fydd yn hyll. Hynny yw, un o'i dasgau oedd barddoni'n gelfydd am Uffern. Nid ennill dadl, ond ennill canfodiad o fewn ffurfwaith llenyddol. Er mwyn penderfynu pa ffactorau sy'n diffinio llenyddoldeb a beirniadaeth lenyddol, rhaid rhoi'r pwnc o fewn fframwaith cyfan, dadansoddol, cyferbyniol â meysydd eraill. Ac mae'n golygu arolygu

adeiladwaith syniadaeth bywyd yn gyffredinol. Rhoir llenyddiaeth yng nghyd-destun y meddwl dynol llawn, felly. Ysgrifennir barddoniaeth, felly, gan aros yn rhywbeth arall yr un pryd.

Wedi'r cwbl, mae pob swyddogaeth feddyliol a theimladol (panorama llên) wedi'i seilio'n isymwybodol systematig ar arolwg sylfaenol o'r holl dalentau dynol. Wedi arolygu'r galluoedd cyffredinol a'r meysydd profiadol hynny sy gan ddyn, mae'n eu cyferbynnu â'i gilydd a phennu ffiniau rhyngddynt. Nid 'ysgrifennu' yw canu, serch hynny. Gellir sgrifennu economeg a hanes heb y gân. Ni ellir cân heb Dafod i Rythm. Ni ellir barddoniaeth heb werth 'barddonol'. Mae ganddi ei ffiniau a'i hansoddau ei hun. Heb hynny, collir y pwynt.

Pa un o'r cymhellion dynol sy ar waith wrth lunio celfyddyd llenyddiaeth? Rhaid iddynt darddu mewn *Gwerth* cydnabyddedig ac adwaenadwy gan y meddwl a'r ymdeimlad gwaelodol. Mae yna ysfa isymwybodol am ddarganfod *Trefn* a *Phwrpas* yn yr hyn a wneir. Ac o ran *Ffurf* awgrymaf fod yna bedair gwedd ar Ffurf mewn Mynegiant: yn gyntaf, ieithwedd yr eirfa a'r gystrawen; yn ail, patrymau seiniol; yn drydydd, ffigurau a throadau ymadrodd, sef delweddu yn ei ystyr ehangaf; ac yn bedwerydd, adeiladwaith y cyfan gan gynnwys ymwybod thematig. Mae undod cyfanwaith celfyddydol i'r gân yn gysylltiedig â'r weledigaeth o fywyd.

Nid 'ysgrifennu' yn unig yw canu, felly. Gellir sgrifennu economeg a hanes heb y gân. Yn wir, mae llawer i'w ddweud o blaid peidio â chyfrif beirniadaeth lenyddol ei hun yn gân, fwy na beirniadu coginio. A dyma ni'n ceisio diffinio'r elfen o ganu mewn barddoniaeth.

Ym marn rhai, ni ellir cân heb Dafod Rhythm. Mae hyn yn fwy o lawer na rheoleidd-dra Mydr. Mae yna gydbwyso diddorol yn sylfaen rhythmau sy'n amgylchu mydr y llinellau neu'r penillion: *Cerddi Gwenallt, Y Casgliad Cyflawn,* 125:1-12; 128:14; 131:4; 132: 18,24; 148:15-20. Ond hoffais yn fawr hamddenoldeb llwyddiannus ambell gerdd ddiweddar, cerddi 96, 133, 134, 143, 144, 149, 197, 198. Ni ellir barddoniaeth heb werth ac awyrgylch 'barddonol', sy'n wynebu chwaeth.

Pa un o'r cymhellion dynol sy ar waith wrth lunio celfyddyd?

Ffordd o weld y byd yw cân, ac nid ffordd ddiwinyddol broffwydol mohoni'n benodol. Mae cyfeiriadaeth glasurol a Chymreig, ar dro, yn gallu gosod cerdd mewn cyd-destun o anrhydeddu gwerthoedd. Mae'r gân yn ennill gwefr, ond nid gwefr yn y meddwl yn unig, ac eto mae yna wefr yn y meddwl; nid gwefr yn y teimlad yn unig chwaith, ond mae yna wefr yn y teimlad: gwefr gwareiddiad. Gwefr yw mewn geiriau da.

Meddai Gwenallt yn *Gwreiddiau*:

'Asio a wnawn ein profiadau a'u cyfannu â delwedd a symbol;
Llywio â'r deall y teimladau tywyll, trofaus:

A darganfod a wnawn tan wyneb ffrwythlon a gwyntog Natur
Y ffigurau a'r ffurfiau pur parhaus:
Ein dychymyg a wna drawsffurfio pob dim rhwng y nefolaidd gôr
A'r perlau sydd yn y wystrys breuddwydiol ar loriau'r môr.'

Beth sy'n gwneud y geiriau gorau felly? Ai cynnwys tyner ynteu cynnwys garw? Pob dim. Bob amser, mae'r beirdd diddorol i'r sawl sy'n gynhwysfawr ei chwaeth, boed yn ysgafn neu'n drwm a'r rhai a gymhellir i oleuo, yn osgoi'r creigiau peryglus yn yr afon. Nid bob amser ar ôl *Eples* y llwyddodd Gwenallt i osgoi'r rheina. Fe ganfyddir namau o'r fath yn y manion yn rhwyddach nag yn y cyfanwaith. Tywyllu iaith yw amlhau sillafau ar dro, a haniaethu academaidd neu ddad-ddiriaethu. Mae 'hyd' gair yn rhan o'i fywyd dawnsio. Ar y llaw arall, dyw osgoi haniaethu ddim yn ddeddf haearnaidd: gellir amlder sillafau geiriol achlysurol a chadw haniaeth yn gynnil. Oherwydd y rheidrwydd moesol sydd yn gynhysgaeth i fardd o bwys, y mae llawer o ddefnydd o'r math hwnnw'n gwefrio cerddi unigol, er bod ambell un, fel 159:34-6, yn cloffi'n drwsgl. Mae cyfartaledd y fath linellau'n cynyddu gyda henaint.

Mae'r cymhelliad a'r ymddygiad 'academaidd' yn beryglus hefyd wrth ddilyn rhediad thema. Ar y llwybr tuag at ddarganfod beth yw llenyddiaeth, defnyddiol yw ymwared â sbwriel ymhonnus ynghylch uchelgais i ddysgu'n academaidd yn ogystal ag i ennill dadl. Oni ŵyr anghredadun angerdd trist y golled, a pherygl dogma nad yw'n dal dŵr, ni ŵyr farddoniaeth yr ing. Gellir gyrru cyrrent drwy wifren gwleidyddiaeth, hanes, gwyddoniaeth, neu grefydd, a gallant ddisgleirio; heb y cyrrent yna, nid yw 'awen' yn ymagor. Mae yna dywydd mewn awen, tywydd heulog a thywydd stormus, sy'n ddi-ddal o ran pwy sy'n ennill neu'n colli: mae'n byrhau mesur wrth afaelyd yn yr hyn sy y tu hwnt i amser.

Mae hyd yn oed naïfder a symlder yn medru bod yn ddeallus yn eu lle. Llawenydd o fath awenyddol arbennig a brofir yn greiddiol yn y gerdd, hyd yn oed mewn galar. Cynllun ffrwydrad sydd iddo yn aml, helaethrwydd hyd yn oed pan fydd yn gynnil ffurfiol. Gall ei dafod fod yn fforchog, a phriodol i bawb sy'n atebol i hyn oll fod yn ofalus. Gallwn fod felly hefyd ym myd Coegi.

Hoffwn drafod peth beirniadaeth gan Dewi Z. Phillips ar gerdd gan Gwenallt lle y mae'r bardd yn ysgrifennu'n goeg er mwyn miniogi ffieidd-dra yr hyn a ddisgrifia. Yn gyntaf, carwn sôn am goegi nid anghyffelyb gan Saunders Lewis a gamgymerwyd gan ddarllenydd.

Teg yw cymharu bardd arall fel hyn, ymhell o Farcsaeth Gwenallt, a oedd yn cael ei gamddeall am ei fod yn mynnu meddwl yn ddeublyg batrymog. Ac ar fater nid anghyffelyb. Trof at Saunders Lewis o ran cymhariaeth. Yn yr ugeinfed ganrif bu twf coegi'n nodedig.

Dyfynnir y geiriau hyn o ohebiaeth breifat rhwng Saunders Lewis a'i ffrind David Jones, y bardd-arlunydd. Roedd David Jones ei hun wedi cyhoeddi ysgrif “Use and design”: yn *The Listener* 24 Mai 1962, t. 90: 'Concentration upon technics has brought us a long way from the racket-drawn arbelest which disturbed the nicer consciousness of that backward age, to the extermination-devices of our forward-looking century of the common man, which soon will extend its dominion to the journeying Moon, and then to Venus and beyond, taking with it this duality [note. as the lengthening light of our technology illumines and conditions us all, the shoots of which have yielded blossoms in our lachrymal valley for many a millenium.].' Bydd sylwebydd gofalus yn sylwi yma ar gyd-destun dirdyniadau y gwersylloedd carchar i'r Iddewon. A hyn oedd y cyd-destun datblygedig i ateb Saunders Lewis mewn llythyr: 'it disturbed the nicer consciousness of that backward age, to the forward-looking century of the common man'. Gwelir ffieidd-dra coeg David Jones yma at waith 'modernaidd' Hitler, y 'dyn cyffredin neu gomon [fwlgar]' a'r gair 'extermination' sy'n amlwg yn codi cyd-destun penodol ymosodol Dachau ac Auschwitz. Ac yn 1962, dyna'r teithiau gofodol hefyd yn dynodi Cynnydd Americanaidd ar y pryd. Ond defnyddioldeb a pheirianoldeb, yn erbyn celfyddyd, sydd yn y fantol.

Dyma gyd-destun *coeg* Saunders Lewis nas deallwyd gan bawb, ond sy'n 'wrthwyneb' i'r llythyren a sgrifennwyd: (LlGC, Papurau David Jones, grŵp C, blwch 5,) SL yn ôl at DJ, 27/5/62: 'The argument is strong and sound. In fact, I'd like you to go ahead to a follow up broadcast: show 'em that not only humanity is involved but even elementary human freedom: if only the technically useful is to survive then indeed there is no possible case for Athens against Sparta. The regiment is always more efficient the more machine-like it becomes. It's a sound argument for picking the promising stallions young and contrasting the proletariat. Really there was nothing wrong with Dachau and Auschwitz. They were a little before their time. You see my mood. It won't help you.'

Dyna goegi Saunders.

Clywn goegi Gwenallt yntau'n awr (yn *Cnoi Cil*) yn 'Gandhi', – 'Clown y syrcas ymerodrol'; ac yn 'Saunders Lewis', – 'Ac er mwyn Cymru buost ti yn ffŵl.' Ac yn arbennig 'Testament yr Asyn.' Yn y fan hon mae'r Asyn yn cymryd arno'i hun ei fod yn gwneud ei ewyllys, ac yn gwaddoli ei gefn i enwogion Cymru a'i holl daeogion sy'n dymuno cario'r Saeson. Yna, mae'n gwaddoli'i gynffon i'r gweinidogion, sy'n ochri gyda chyflafwyr pwysig yn erbyn tlodion y wlad:

'Fy nghefn a rof i enwogion
Cymru a'i holl daeogion,
Fel y cariont eu cymdogion,
        Y Saeson dylion doeth...

Fy nghynffon i'r gweinidogon,
Gweision twt y cyfoethogion,
Am na welont yr angenogion
A swil gardodau'r saint.'

Bid siŵr, fyddai braidd neb yn camddeall coegi am lythrenogrwydd wrth brotestio'n erbyn Gwenallt yn y fan hon. Ond fe all y darllenydd mwyaf soffistigedig a dysgedig lithro ar goegi mewn mannau eraill os yw'i ragdybiau yn gwyro'n gryf eisoes. Mae Dewi Z. Phillips yn ei gyfrol *Ffiniau* 2008 yn rhoi cryn sylw i ysgrif gan John Rowlands ar 'Ein Duwiol Brydyddion'. Mae John Rowlands yn codi stumog wrth bori yn y rheini; ac roedd Gwenallt yn arbennig o wrthun iddo, nid yn gymaint fel bardd ag fel Cristion. Yr hyn sy'n drysu John Rowlands yw llinellau fel y rhain:

'Y mae rhychwant y Groes yn llawer mwy
Na'u Piwritaniaeth a'u Sosialaeth hwy.
Ac mae lle i ddwrn Karl Marcs yn Ei Eglwys Ef:

Cydfydd fferm a ffwrnais ar Ei ystad,
Dyneiddiwch y pwll glo, duwioldeb y wlad.
Tawe a Thywi, Canaan a Chymru, daear a nef.

Meddai John, 'ni wireddir mo'r cyplysu hwn yn llawer o'i gerddi.' Nid yw John Rowlands, sut bynnag, wrth anghytuno â'r syniadau yn cynnwys ymateb i ddeuoliaeth athrawiaeth ffurfiol Gwenallt oherwydd ei unplygrwydd dyneiddiol. Nid yw'n gweld mai deuoliaeth strwythurol o'r union fath hwn ei hun yw un o dair prif thema Gwenallt, – hynny yw yn y rhan fwyaf o'i gerddi. Mae yna fethu oherwydd bod dyneiddiwr rhy gyfyng heb weld duwioldeb pietistig a dilys y wlad yn gwau drwy ddyngarwch y pwll glo, na'r Eglwys Gristnogol ffyddlon yn mynnu eu canfod yn undod. Yn wir, nid yw Gras Achubol i'r dyn naturiol ddim yn bosibl *ond* o fewn fframwaith o Ras Cyffredinol Creedig, na Chyfrifoldeb Dyn yn gweithio *ond* o fewn Cyfiawnder Duw. Y Paradocs heriol hwn o Dduw cyfiawn mewn calon anghenus dyn yw calon y ffydd Gristnogol, y Goruwchnaturiol o fewn y Naturiol, yr Ymgnawdoliad Dwyfol mewn byd pechadurus. Dyma ddeuoliaeth iaith ac agwedd sy'n brigo i'r golwg hefyd yn goeg.

Ni welaf fod ateb D.Z.P. – y lled ddyneiddiwr Modernaidd, i mi yn rhagori o gwbl ar ateb pendant J.R. – y dyneiddiwr Ôl-fodernaidd. Mae angen ar y naill a'r llall weld y farddoniaeth fel

rhywbeth mwy na syniadaeth dadl.

Yr wyf am gymryd tipyn o amser i fyfyrio yn awr uwchben cerdd Gwenallt 'Newid Byd' *Gwreiddiau,* 175). Mae gan D.Z. Phillips yn *Ffiniau* 284-6 ymdriniaeth hollol gyfeiliornus ohoni. Daw ati, fel y daw athronwyr yn rhy aml, yn llythrenolwr. Ni sylwa ar goegi. Mae'n disgwyl y bydd y bardd yn ei arwain ymlaen heb wyro i'r chwith nac i'r dde, heb ddim lol. Ceir dwy ran i'r gerdd. Ceir ar y naill ochr bortread ffeithiol o'r 'Gristnogaeth' a wawdir, y 'Gristnogaeth' sydd ymhlith pethau eraill yn cyhoeddi diwedd byd. Yna, sonia am 'y Cristion', hwnnw, ar ganol ei waith a'i weddi. Ond 'Cristion' ofergoelus yw hwn, y rhyddfrydwr Fictorïaidd mewn dillad diweddar. Sylwer ar y cyferbyniad yn y gerdd:

Fe gefais gip ar y byd heulog hwnnw
Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf;
Gweled y ddynoliaeth wedi gadael Aifft
Y tlodi, y caethiwed a'r ofergoelion Cristionogol; [*Dyma 'Gristnogaeth Fictoriaeth'*]
Y ddynoliaeth wedi ymlwybro trwy ddiffeithwch yr Oesoedd Canol,
A than heulwen y Dadeni Dysg
Yn gorymdeithio yn dalog braf dros bant a bryn,
Gan gynyddu mewn gwybodaeth, cysur a chyfiawnder; [*Dyma 'Fictorïaeth' gynnar eto*]
Cerdded i ben Nebo
I gael cipdrem ar y Ganaan berffaith gydradd, cysur a lleslon;
Ac yr oedd y dyfodol o'n blaen yn orfoledd diddiwedd ar y ddaear.

Y fath agendor sydd rhwng y byd hwnnw a'n byd ni [*Optimistiaeth wedi'i chwalu*]
Ar ôl y ddau Ryfel Byd!
Y Ganaan a ddiflannodd fel niwl hud y Mabinogion,
Ac nid oedd Nebo ond mynydd tân
A chwythodd ei goluddion i'r gwynt:
Nid yw ein byd modern ni, yn ôl rhai,
Yn ddim ond diffeithwch diystyr:
A'r hen ofergoelion Cristnogol a ddaeth yn eu hôl eilwaith,
Ofergoel fel diwedd byd,
'Diwedd byd a Dydd Barn.'
Ie, rhyw bwt o ddyfodol sydd i'n byd, [*dyfodol marw diweddol*]

Canys daeth y diwedd yn agos atom
Gyda'r rhocedi llyw a'r bom;
A hefyd daeth dydd barn:
Ond ni orbydera'r Cristion ar ganol ei waith a'i weddi, [*gorbryderu difater*]
Canys ni wna rhyfel atomig
Ond ei chwythu ef adref cyn ei bryd. [*h.y. barn yr angladdau cysurlon Cymreig yn mynd ag ef adref i Uffern*]

Dyma Gwenallt yn ei fotasau trwm yn troedio drwy sylwadaeth ddiwinyddol, gellid meddwl. Ond y mae Coegi cyrhaeddgar yn cerdded gydag ef yr un pryd.

Oes Fictoria sydd yn hanner cyntaf y gerdd, a'i chynnyrch – y dyneiddiwr cysurus ac optimistadd a hunan-fodlon sydd yna eisoes. Mae'r dyneiddiwr 'Cristnogol' yn ail ran y gerdd wedi'i ddadrithio, heb ddihangfa i'w godi'n uwch i'r gwirionedd am ddyn. Niwl hud y Mabinogion sy wedi cilio. A 'rhyw bwt o ddyfodol sydd i'n byd,' medd ef. Gall 'Cristion' hunanfodlon ei gysuro ei hun, (yn awr, ym marn y dyneiddiwr), am ei fod ef yn ddyn sy'n tybied na wna rhyfel atomig ond 'ei chwythu ef adref cyn ei bryd.' Hunanfeirniadaeth sydd yma: Gwenallt ei hun sydd o flaen ei well.

Dywed D.Z.P., 'Po fwyaf y darllenir y llinellau hyn, mwya'n y byd y rhyfeddir at eu diffyg chwaeth, nid yn unig oherwydd natur y syniad sydd ynddynt am 'gartref' i'r Cristion a'r diffyg difrifwch ynghylch marwolaeth (meddylier am farwolaeth plant), ond, yn fwy na dim, oblegid goblygiadau'r hyn a ddywedir am y meirw nad ydynt yn Gristnogion.' Sef y dyneiddwyr 'diduedd' bondigrybwyll, mae'n debyg, dyna'r rhai y mae Phillips am eu hamddiffyn yn ceisio sicrhau marwolaeth wynfydus i bawb os oeddent yn byw bywydau parchus go lew. Mae'r gerdd yn loyw grefftus oherwydd condemnio gofalus. Yn yr ymatal y mae'r gelfyddyd. Yn y clo mae'r allwedd.

Wrth gwrs, dywed y Testament Newydd ac Iesu Grist ddigon am y 'meirw' nad ydynt yn Gristnogion, a'u dyfodol. Nid yw'n ddiweddglo neis. A ddylid sensro hynny? A ddylid carcharu'r rhai sy'n sibrwd am dorcalon Duw? A ddylid dofi a chuddio, a chwynnu a ffoi rhag unrhyw wirionedd sydd heb fod yn swcwr melys? Neu a yw trugaredd a gwir gariad at gleifion anghenus yn y ffydd yn rhywbeth y byddai rhyddfrydwr bonheddig yn ei bwlpud yn ei wthio dan y carped? Mewn geiriau eraill, y mae hon yn efengyl gref i'r un a ddamniwyd oherwydd ein marwolaeth ni, ond y mae i fod i gael ei mygu mewn cwmni bonheddig.

Yr hyn a wna Gwenallt yw ymddwyn yn ffug – drwy goegi – at yr holl sefyllfa ryddfrydol lipa. Ac ni welodd D.Z.P. hynny oherwydd ei lythrenolrwydd 'diduedd'.

Eto, yn y gyfrol *Gwreiddiau* 1959, mi dybiwn i fod yna dro tuag i lawr yn awenyddol yng ngwaith Gwenallt mewn sawl cyfeiriad celfyddydol. Ac mae mawr angen archwilio'r hyn a

ddigwyddodd. Cymerer ychydig o enghreifftiau o hynny ar waith. Amlha'r llinellau hir mewn llawer o'r gyfrol, ac mae'r llinellau hir hynny'n anaddas i'r llenfath cerddorol ac epigramatig a oedd ganddo fel bardd. Ni fedrai ef o'r braidd roi ansoddair o flaen enwau'n llwyddiannus (yn arbennig y rhai amlsillafog, haniaethol). Ac y mae ei agosrwydd at ei gyhoedd (poblogeiddiwch gwerinol a'i ddylanwad mall) yn peri iddo ollwng gormod o linellau goresboniol.

Dyma enghreifftiau o osod ansoddair o flaen enw o 1959 ymlaen:
167: agnosticaidd wynt... delfrydol wenith... ysbrydol haidd... rhamantaidd des... rhagluniaethol bridd; 168: nefolaidd gôr... gyfrwys gyfrinachau... yr annherfynol rin...; 169: ei fuddugoliaethus draed; 212: gweddwol dân; 216: gweledig braw'; 271: yr adeiladol donau. Ymddengys mai 'academaidd' ei flas fyddai'r fath ormodedd, ond academaidd naïf (naïf o ran llithro at fawreddogrwydd methiannus) yw'r blas sy ar y gystrawen hon yn y mannau hyn. Un o briodoleddau dirywiad oedd, a hynny bron yn rheol, fod pob un yn digwydd mewn rhan wan o gerdd.

Mae naïfder y 'poblogaidd' yn gallu cael ei ddefnyddio lle bynnag y bo gormod o oresbonio'r syml: e.e. 171 'Dewis':

Os oedd Duw, deuai trwy'r niwl fel goleuni
Neon, ac nid oeddwn yn siŵr mai myfi oeddwn i;
Cydiwn yn fy nhrwyn i weled a oedd yn drwyn
Ac nid yn wlân; ac ym mysedd fy nhraed
I weled a oeddent yn draed, ac nid yn fysedd niwl; [*wedi gorddio'r pwynt erbyn hyn*]
Tybiwn nad oeddwn innau ond niwlyn
Neu wlenyn, a phan geisiwn gydio yn y niwl
Diflannai rhwng fy mysedd fel rhith.

Clywch yr un gorwneud esboniol: 185 'Y Capel yn Sir Gaerfyrddin'

Mor naturiol oedd y Capel yn y wlad;
Y Capel oedd yn fyw gan yr Efengyl
Ac yn gynnes gan emynau Pantycelyn, Dafydd Jones o Gaeo
Tomos Lewis o Dalyllychau...
Mor wahanol oedd y Capel yn y Deheudir diwydiannol,
Lle'r oedd yn cystadlu â'r gwaith dur, y gwaith alcam a'r pwll glo.

Beth yw naïfder yn achos Gwenallt fan yna? Gwahanu yw rhwng rheswm a'r awen, rhwng y galon

a'r ymennydd, rhwng bachogrwydd ac ailadrodd, heb sylweddoliad bod hynny'n digwydd ynghyd.

Arweinia i ddiweddglo pregethwrol mewn cerdd, yn hytrach nag i ddiweddglo diwrthdro, yn arbennig o *Gwreiddiau* ymlaen. Digwydd hyn yn rhy aml, nes bod yr amlder yn lladd: 169:5-7; 205:7-8; 217:10-11, 54-55; 270:13-15; ac eto o fewn cyd-destun y pwlpud hwn, ceir emyn y pwlpud 280:1-24, a cherddi cyfan llwydiannus fel 172, 'Y Drws' ; 198, 'Promethews'; 199, 'Duw'; 204, 'Dwst y Garreg'; 205, 'Dŵr'; 209, 'Lazarus'.

Ond y mae Gwenallt yn mynd ymhellach nag sy'n effeithiol. Dyma 'ryddiaith' weithiau sy'n ymsefydlu ar focs sebon gan draethu gwleidyddiaeth a chrefydd mewn cerdd.

Yn yr ail gyfnod hwn, ceir tuedd i Gwenallt – y 'pregethwr rhyddiaith' – gael gormod o le. 'Rhyddieithol' yw traethu a phledio mewn cerdd yn rhy aml. Yn hyn o beth y mae 'rhyddiaith' o ran cywair yn cyferbynnu â'r 'prydyddol' yn fesurol a llinellol. Bid siŵr, nid wyf yn cysylltu llunio cerdd â'r pregethwrol nac â'r ystrydebol. Oherwydd gras cyffredinol, gall pregethwr dyneiddiol fod yn ffres ac yn greadigol er gwaethaf y gwendid a gred.

Ac i'r clyw synhwyrus awenyddol, diddorol yw sylwi ar y tro chwyrn a wnaethpwyd tuag at *vers libre* yn ymddangos eisoes yn eglur yn 160: 'Dewi Sant' (*Eples*), yn 164: 'München', ac yn 165 'Oberammergau', a gellir mwynhau enghreifftiau rhythmig llwyddiannus. Fe'i cafwyd yn llwyddiant yn y rhain ar ôl cyfnod o arbrofi mewn mydrau a rhythmau mwy amrywiol draddodiadus: sylwer ar batrymwaith cerddi 15-27. Ond gwyrodd gogwydd Gwenallt oddi wrth hyder y feistrolaeth effro a fuasai ganddo cyn y gogwydd cyntaf at *vers libre.* Hynny yw, bu farw'r egni a oedd yn ei *vers libre* – yn ei gyfnod aeddfetaf (gellid ei dybied) – fel prentiswaith yn y cyfwng 169-97. Yn wir tueddai'r fath rythmau i fynd yn ddi-grefft heb hwyl ar y canu, a hyd yn oed yn neilltuedig bellach oddi wrth naturioldeb symudiadol iaith bob-dydd.

Ffarweliodd ef hefyd yn yr un cyfnod â'r soned ramantaidd reolaidd.

Trawiadol braidd yw cyd-ddigwyddiad y gwahanol newidiadau neu ddatblygiadau arddulliol hyn; ond mi gredaf fod a wnelo'r duedd arddulliol 'Farcsaidd' neu sofietaidd – realedd cymdeithasol ('social realism') – â bod yn fath o gefndir i dwf y tueddiadau prydyddol hyn, fel yr oeddent yn ei nofelau *Plasau'r Brenin* a *Ffwrneisiau*. A dylid sylwi bod hyn, sef 'siarad plaen', yn gysylltiedig â'r argyhoeddiadau cymdeithasol, ac yn cyd-daro â'r dyfeisiau rhethregol a oedd yn tarddu o'i wreiddiau barddonol rhethregol (ansoddair o flaen enw a.y.b).

Eithr, rhaid ymatal rhag colli'r rhyddieithol goeg a'r garwhau ar gynnwys mewn cyd-destun diwydiannol.

Dyma ddeuoliaeth ymhlith y rhai mwyaf paradocsaidd, y cymdeithasol yn rhyddieithol a'r canu personol synhwyrus yn 'farddonol'.

Wrth gwrs, yn *Ysgubau'r Awen*, mae garwder gweledigaeth ac arddull Gwenallt eisoes yn

briodoledd ffres a chwyldroadol. Eto, dyma barth pynciol sy'n cyd-daro â chefndir ei feddwl 'Marcsaidd' o hyd. Mae'r weledigaeth ar fywyd cras yn arwain at arddull ei arwder llym. Ond rhaid ymatal rhag ei gartwnio; a diddorol yw cyferbynnu ei brofiad cyfannus caredig o'r byd diwydiannol (megis gan ambell un arall fel Dewi Stephen Jones) sy'n gallu caru ardal ddiwydiannol, a hynny o fewn cyd-destun gwledig weithiau, lle y mae Waldo, dyweder yn Seven Sisters – 'Yn y tŷ' – yn tueddu i wrthymateb yn fwy negyddol i'r tro diwydiannol cyfoes yn null y gwladwr teyrngar, nad oedd wedi oedi i nesáu at hyfrydwch cymdeithasol y Cymoedd.

Gwyliwn gysondeb presenoldeb coegi ysgafn.

Troad cyffredin cydnabyddedig mewn iaith lenyddol o gyfnod Aristoffanes a'r Beibl hyd at *Blodeuwedd* Saunders Lewis, a dramâu eraill, yw Coegi. Heb ryw fedr i ymateb yn gall iddo, fe fydd llythrenoldeb yn dramgwydd defnyddiol i rai sy'n awyddus i'w gamddeall.

Mae hynt Coegi yng ngwaith Gwenallt yn dweud rhywbeth am y chwyldro go chwyrn, llym, ac eglur yn ei hanes fel bardd ar ôl *Eples.* Cafwyd hanner cyntaf ei yrfa, ac o fewn y cyfnod hwnnw, ceir 'hollt' neu o leiaf 'plyg' cymharol sydyn rhwng *Ysgubau'r Awen* rhamantaidd a synhwyrus ac *Eples* realaidd a phlaen.

Dyma rai enghreifftiau o'r coegi ymhlith llawer yn y *Casgliad Cyflawn*: 62: 'Mewn tristwch rhoddwch yn rhwydd/ Ddagrau ar foneddigeiddrwydd'; 101: 'Beth wnawn â'r Iddewon/ Seimllyd a chweiniog?/ Gwerthed hwy i gyd ar y mart,/ Ddeg ar hugain am geiniog.' Yn *Cnoi Cil,* ceid tyfiant mewn Coegi, yn arbennig am y Cymry eu hunain. Yn *Eples* eisoes mae yna gryn feirniadaeth ar Gristnogaeth gysurus, ryddfrydol, yn arbennig yn nifrifoldeb y Groes: 157: 'Brenin na frenin, a duw yn jôc,/ Ein Sadwrn ni wedi cael strôc.' Gwelai Gwenallt y coegi eisoes ar waith mewn triniaeth o Grist ei hun gan filwyr Rhufain wrth wisgo Iesu mewn llen borffor, wedi rhoi ar ei ben goron ddrain, a gosod corsen yn lle teyrnwialen.

O blith beirdd 1936-76, megis Saunders Lewis, Gwenallt, Waldo, Euros, Pennar Davies, ac Alun Llywelyn-Williams, bu ystyr lawn 'Cristnogaeth' yn gwahaniaethu cryn dipyn. Ac yn achos Gwenallt, bu'r newidiadau o Gomiwnyddiaeth faterolaidd i Gristnogaeth Galfinaidd, a rhychwant y profiadau gwahanus y tu mewn i'w brofiad o grefydd yn bur eithafol.

Mi gyhoeddodd Gwenallt ar wasgar fath o hunangofiant byr i'w grefydd, a ganmolwyd fel y gyffes ysbrydol orau a gafwyd yn Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif. Fe'i cyhoeddwyd mewn pedwar lle: yn *Credaf,* yn fwyaf gofalus, ond hefyd mewn cyfweliad newyddiadurol, yn ogystal ag mewn nofelau; heblaw hynny ceir pytiau hunangofiannol yn ei gerddi.

Yn ei gyfnod cynharaf, yn ei blentyndod, roedd e fel pob plentyn arall yn tueddu i dderbyn ei 'ffydd' yn ganiataol ac yn unol â'i rieni, heb fawr o arbenigrwydd. Tyfodd o fewn cymdeithas geidwadol-grefyddol, weddol fydol o seciwlar a dyngarol yn ei hadeiladwaith sefydliadol a

meddwl, gyda gwrthryfel Marcsaidd yn erbyn y Sefydliad hwnnw yn eplesu dan yr wyneb. Ond bu colli'i dad, a deall dull y golled honno yn ergyd drawmatig a'i gyrrodd tuag at ddadrithiad ynghylch popeth. Aeddfedodd ei Sosialaeth, a thyfodd yn fwyfwy cenedlaethol. Roedd hyn at ei gilydd yn 'genhadol' o ran naws, ac yn cynnwys yr elfennau cyfun hyn, a chymhelliad i 'broselytio' a allai danseilio'r 'gân'. Arhosodd y cyfuniad o argyhoeddiad eneidiol a hunaniaethol weddill ei oes, a gellir hawlio bod hyn yn ei isymwybod nes bod yn rhan o *psyche* esthetig Gwenallt. Bu dylanwad dwfn diwylliant ei hen ardal arno nes ymdrwytho'n academaidd yn yr iaith a'r cynganeddion, hanes llenyddiaeth a gwleidyddiaeth Cymru, a thrwy fawredd yr Oesoedd Canol yng Nghymru, dechreuodd ymddiddori yng Nghatholigiaeth Cymru, mewn dysgeidiaeth Acwinaidd. A dechreuodd ymddiddori yn sagrafennaeth, eglwysganolrwydd a seremonïaeth yr Oesoedd Canol, y Calendr Eglwysig, a Ffordd y Groes. Ond at yr Eglwys Wladol – fel T. S. Eliot ac Aneirin Talfan Davies – yn hytrach nag at yr Eglwys Babyddol, y troes ef oherwydd ei Chymreictod tybiedig, ac oherwydd llai o wrthwynebiad ganddi i Gynllunio Teuluol.

Tua'r un adeg, oherwydd ei hunanaddysgu llenyddol, yn rhyngwladol dan ddylanwad B. J. Morse, daeth Baudelaire i mewn i fywyd Gwenallt. Os bu Acwin a Marcs yn ddylanwad diwylliannol, bu Baudelaire yn alwad arno i fyfyrio am ystyr Pechod dirfodol. A pho fwyaf y bu'n meddwl am bersonoliaeth gwirclyd Baudelaire, mwyaf y gyrrwyd ef i synfyfyrio am arbenigrwydd Pantycelyn. A chyda hyn, dôi argyhoeddiad o wirionedd y prif ddysgeidiaethau clasurol yn yr Eglwys: Iawndal Marwolaeth Crist ar y Groes dros ei droseddau ysbrydol ef, y Goruwchnaturiol, y Drindod, ymddiriedaeth yng Ngair Duw, Edifeirwch. O hyn ymlaen dyfnhau a lledu oedd hanes ei brofiad beunyddiol, mewn gweddi a darllen. Ac efrydodd y traddodiad Cristnogol Cymraeg yn ddwys. Mae'r cwbl yn berthnasol iawn iddo fel bardd.

* * *

Math o ddyddiadur o'i bererindod yw'r cerddi, i bob pwrpas; dyddiadur cyfoesol beunyddiol tebyg i'r hunanoli dyddiadurol a gofnodai llawer o'r Piwritaniaid a'r Methodistiaid cynnar. Dyfnhaodd sylweddoliad o arwyddocâd Calfinaidd ac Efengylaidd Pantycelyn. (Ar ei wely angau, wrth ei erchwyn, copi o emynau Willams Pantycelyn a geid i'w arwain.)

Ond Piwritan synhwyrus ac afradlon fu Gwenallt yn baradocsaidd ar hyd ei oes. Cadwai hunanddisgyblaeth gredöawl y Piwritaniaid, gan archwilio'i gyffesion Calfinaidd uniongred yn wastad.

Yr oedd un mater y bu ef yn ymdroi o'i gwmpas a fu'n fater myfyrdod hir a phwysig i minnau ar hyd oes o ymwneud â beirniadaeth lenyddol. Mae'n cyffwrdd â'r hyn a ystyriwn yn athrawiaeth fframweithiol sylfaenol i ddatblygiad dealltwriaeth o feddwl yn y celfyddydau. A hynny yw deuoliaeth Gras Cyffredinol (Y Greadigaeth) a Gras Arbennig (Y Waredigaeth). Yr egwyddor y

datblygodd y drafodaeth ohoni yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif oedd y sylweddoliad o arwyddocâd Gras Cyffredinol. Nid yw Gwenallt yn trafod hyn yn uniongyrchol; ond dyma broblem yr ymgodymai â hi. Er mai prinhau wnaeth y bobl a fawrygai Ras Arbennig a Gwaredigol yn ystod y cyfnod, tyfodd y drafodaeth ddwys o ehangder Gras Cyffredinol. Dyma'r Gras a dderbynia pob plentyn adeg ei enedigaeth: bywyd naturiol, bwyd a diod, awyr i'w hanadlu, y pum synnwyr, y cyfundrefnau gwaed ac imiwnedd, ysgarthu, rhyw, dirnad gwahaniaeth a thebygrwydd, cysur ac anghysur, cynneddf gynhenid i *wybod am* foesoldeb ac am Dduw: bu hyn, y gras creedig a naturiol, o bwys mawr iddo. Ceir hefyd fedr i synhwyro negyddiaeth dicter, anfodlonrwydd, a gwrthdrawiadau; a'r gwahaniaeth rhyngddynt a'r argyhoeddiad o bechod. Hyn oedd y fframwaith potensial ar gyfer Gras Arbennig. Yn y naill ras a'r llall, pwysleisiai athrawiaeth Penarglwyddiaeth Duw ym mhopeth. Rhan ddwys o'i frwydr fewnol oedd gweld cyswllt Gras Cyffredinol a Gras Arbennig. Roedd y wedd greedig ar fywyd, y pum synnwyr, a'r egwyddorion moesol yn bwysig odiaeth i Gwenallt. Ond achosent broblem enfawr iddo yr un pryd. Ac fe geisiodd yn llawer o'i gerddi wynebu hynny.

Gan mor llydan – lled y greadigaeth – oedd panorama'r broblem, a phob agwedd unigol ei hun yn anferth, bu Gwenallt yn camu ymlaen o agwedd i agwedd. Fe osododd ef un agwedd gerbron yn glir – yn rhy glir – yn *Ysgubau'r Awen,* 'Yr Angylion a'r Gwragedd'. Dyma'r ddau bennill cyntaf lle y mae dau grŵp yn herio'i gilydd, Gras Cyffredinol (rhyw, a phaganiaeth) yn herio Gras Arbennig (mawl yr eglwys) ac yn ei herio ef:

*Y Gwragedd*

Dyro dy awen wrth draed y morynion,
A bydd yn offeiriad efengyl serch.
Rho dy sonedau a'th holl englynion
Yn offrwm poeth ar allorau merch.

*Yr Angylion*

Dyro dy awen i'r Tri o bersonau,
I'r Tad a'r Mab ac i'r Ysbryd Glân,
Plyg i'r Eglwys a'i holl ganonau,
Rho win y Cymun yng nghwpan dy gân.

Hynny yw, roedd y 'gwragedd' yn cynrychioli chwant y cnawd, a'r 'angylion' yn cynrychioli i raddau mawr yr awydd i foli Duw. Dyma'r hen frwydr rhwng corff ac ysbryd (cf. sonedau 'Corff ac

Ysbryd' yn *Ysgubau'r Awen* ac yn *Cnoi Cil*), rhwng pechod a Chroes Crist (cf. soned 'Pechod' yn *Ysgubau'r Awen)*: hen frwydrau'r Cristion cyffredin. Eto, mae'r gerdd hon yn 'canu'. Roedd y gerdd yn hardd orfoleddu.

Ond nid dyna'r agwedd oedd yn brif broblem i Gwenallt, er cymaint o sylw a gaiff cerddi cnawd a sioclyd Gwenallt, ac er bod yr ail bwnc yn denu llawer o'i edmygwyr. Roedd rhywbeth a fu'n ffenomen henffasiwn a dirmygedig mewn gwirionedd yn ei feddiannu'n fwy, sef y 'Gân' ei hun, yr Awen, mewn unrhyw sefyllfa – bodolaeth a disgyblaeth honno. Honno oedd yn galw am ei diogelu yng nghalon y gwrthdrawiad.

Ac wrth fwrw golwg heddiw ar draws ei Waith Cyflawn, gwelwn fod y pwnc hwn yn mynd â'i fryd yn ymarferol, a'i fod yn colli'r frwydr wrth heneiddio. Brwydr pob bardd mewn gwirionedd yw ffrwyno'r ceffyl, gwylltineb ei anian. Ei waith yw anrhydeddu'r Awen a'i ffurfioli orau y gall. Mae nifer y buddugoliaethau y mae Gwenallt yn eu dwyn, ac sy'n cyrraedd hyd at ddelfryd ei wefr, yn dal yn sylweddol drwy gydol y tair cyfrol gyntaf. Os caf nodi'r mannau aruchel, fe gynhwyswn 'Y Twrch Trwyth', 'Adar Rhiannon', 'Myfyrdod', 'Ffwlbart', 'Gwlad Adfeiliedig': dyna lond dwrn o oreuon sy'n sefyll gyda hufen ei genhedlaeth. Nodais o'r blaen restr gyffelyb i Waldo, Saunders Lewis, ac Euros. Dyma oriel sy'n sefyll yn hyderus gyda mawrion yr oesoedd. Fe geir un gerdd boblogaidd, seml, ac optimistaidd, sydd fel cerddi syml caboledig gorau Waldo yn ein hatgoffa ni o ddeuoliaeth Gwenallt, lle y mae'r syml a'r cymhleth yn ymrwbio â'i gilydd: sef y gerdd 'Cymru' (12) yn y fan hon, sy'n fath o emyn glân o symlder croyw. Yn y casgliad o sonedau yn niwedd y gyfrol gyntaf, mae nifer dda sy ymhlith trysorau'r cyfnod, megis 'Yr Awen', 'Fy Nhad', 'Pechod', 'Cymru' (106), 'Cnawd ac Ysbryd', 'Pantycelyn', 'Saunders Lewis', a 'Sir Forgannwg'.

Ond yn ei ail gyfrol *Cnoi Cil,* – (a chymryd bod cyfrol yr awdlau'n sefyll ar wahân), – cyfrol y rhyfel, ceir ychydig o gerddi ymhlith y goreuon, 'Y Nadolig', 'Yr Iddewon,' 'Testament yr Asyn', a 'Nant-y-moch', a'r sonedau, 'Gandhi', 'Corff ac Ysbryd' (sy'n ymosodiad teg ar y sefydliad eglwysig dirywiol, fel 'Dyn'). Ond drwy'r cwbl, y mae'r pryfyn yn cnoi.

Y rhain oll a'i gwnaeth yn fardd mawr.

Gyda'r drydedd gyfrol, *Eples*, fe geir ymdeimlad o adferiad adfywiol, a hefyd o ymnewidiad a oedd yn angenrheidiol. Ond o hyn ymlaen byddai yna ddirywiad. Eithr oherwydd bod yna rai o gerddi gorau Gwenallt yma, ac eto arwyddion clir o ymddatodiad, fe wynebwn gyda Gwenallt y cwestiwn – beth oedd yn digwydd iddo? A ble? A allwn chwilio'r cerddi hyn gan roi'n bys ar yr union fannau gwan, a gwneud diagnosis o'r adfeiliad. Gall hynny ddigwydd mewn materion pwysig, megis colli gwefr y weledigaeth, fforsio'r awen heb ei bod yn cael cyfle i ddod ohoni'i hun, a bod yn flêr neu'n anghyfrifol yn ei grefft neu'i gelfyddyd.

Ond mae pob un o'r rhain yn eu hamlygu'u hunain drwy bwyntiau bach. Ac mae arolygu

cerddi hyd at ddiwedd *Eples* wedi'n paratoi ni ar gyfer yr ymddatodiad awenyddol. Sylwais er enghraifft ar dywyllu iaith drwy amlhau geiriau amlsillafog, er enghraifft. 162:11 (5 sill). Does, ynddo'i hun, ddim o'i le mewn gair amlsillafog. Ond dilynwn ymlaen. Gellir tramgwyddo chwaeth drwy ddefnyddio gormodedd o haniaethau: 159:30, 'Efe a'm cododd uwchlaw'r clyfar gysgodau... Ni allwn addoli'r cnawd, a chas oedd ysbrydolrwydd,/ Ysbrydolrwydd a ddirmygai'r corff a'r wlad./ Nid oedd ond haen Seisnigrwydd a bydolrwydd./ Karl Marcs yn bwrw golau ar oesoedd y byd,/ A rhoi i'r dyfodol ei economaidd dragwyddoldeb.' Does ynddo'i hun ddim o'i le fel y cyfryw mewn gair haniaethol, os yw heb ei wefrio a'i ganu. Dibynna ar gyd-destun a swyddogaeth. Efallai mai ffidlan yw barnu gosod ansoddair o flaen enw mewn lle annaturiol i'r arfer cyffredin; ond tramgwydd priodol nid anghyffredin yw yn y cyfnod diweddar, am ei fod yn rhoi trawiad anhyfryd henffasiwn i'r glust gyfoes. Dilynwn ymlaen. Peth arall sy'n tanseilio pleser y glust yw rhythmau trwsgl angherddorol ac amhersain lle y mae ymdeimlad gan y darllenydd fod rhediad medrus yn angenrheidiol.

Nid gŵr naïf oedd Gwenallt, hyd yn oed yn ei gyfrol olaf, *Y Coed.* Eto, ei naïfder pur ddyfal yw'i dramgwydd pennaf yn niwedd ei oes. Dyma bwysau'i gynulleidfa arno, dybiwn i. Mae yna frwydr ar gerdded yn erbyn deallusrwydd rywsut – cloffni heneiddio chwaeth. Gwerthfawrogir deall gan ddarllenydd gofalus, os yw'n cael ei barchu'n oedolyn; hynny yw, does dim angen i ddeallolrwydd ei ddangos ei hun neu'i arddangos ei hun yn ymhonnus; ond mae siarad islaw'r pen ac yn blentynnaidd gyda darllenydd mewn oed yn fath o sen.

Mae naïfder achlysurol Gwenallt yn gorsymleiddio'r 'wers' neu'n ailadrodd ambell ystrydeb meddyliol sydd mewn cerdd. Nid yw'r cymhelliad i'r gerdd wedi aeddfedu yn ei wth cyn cychwyn y Mynegiant:

126:13-16, Yr Ysbryd Glân yn santeiddio'r mwg,
**A throi gweithiwr yn berson byw,**
Y gyfundrefn arian yn treiglo yn nhrefn gras
A'r undebau yn rhan o deulu Duw.

138: PROSSER RHYS

Y mae bwlch mawr ar ei ôl yng Nghymru
Ac anodd fydd cael neb i lanw ei le;
Ni fydd ei swyddfa mwyach yn seiat
**Llenorion Gogledd a De.** [*Gellir clywed ystrydebau Cwrdd Angladd gorarferol*]

Gyrrid y gwaed ifanc drwy ei wythiennau

Gan guriadau A. E. Housman a Joyce,
**Efaill y Cymro o Lyn Eiddwen**
**Oedd y llanc penfelyn o Sais.** [*'Y llanc penfelyn' oedd y geiriau a ddefnyddiodd EPR yn 'Atgof' pan soniai am Morris Williams.*]

**Cymru a roes i'r Cardi ei foesoldeb,**
Hyhi a'i cododd uwch cythreuldeb rhyw;
Ac anodd yw cerdded un o lwybrau Cymru
Heb daro rywle yn erbyn Duw.

Llewyrched arno'r goleuni tragywydd,
**A boed iddo iechyd yn y nef:**
Fe welais y llanc penfelyn o Amwythig
Yn dawnsio yn ei ddicter ar ei feddrod ef.

cf. 139; 141; 145; 171:2-10; 176; 209-12; 221-4; 287. Gwthir y mynegiant y tu hwnt i amlygrwydd.

Brawd i naïfder, creder neu beidio, yw'r academeidd-dra sy'n lladd ysbryd oherwydd ffeithiolrwydd diarwyddocâd: 125:7; 183:1-4; 185:3-5; 217:26-9; 221:14-15; 287:49-51. Eto, yn yr un gerdd, mae'n cyfeirio at y ddamwain a laddodd J. E. Daniel mewn modd mor hydeiml fyw nes ei fod yn galonrwygol: 221:67,74, 'ei lwch sydyn... y modur a'r mudandod.'

Mae deffro i'r namau mân mewn cerddi yn gallu bod yn arwyddion o gysgadrwydd y bardd. Mae'n rhybuddio hefyd rhag y dibyn, ysywaeth. Ond mae dibyn yn peri i feirniad-fardd gael ei lygatynnu gan faterion ieithyddol o lawer math drwy ddethol geirfa, rhythmau, cyfuniadau geiriol, anystrydebedd, ffresni troadol a symbolaidd, o linellau unigol cwta bachog, ac o gydbwyso rhythmig, oll 'yn rhy gywir' i'n meddwl oedi gyda hwy. Ond mi gredaf i – er eu pwysiced – eu bod hwythau'n gwanychu'n flêr hefyd, oni fyddont yn cael eu cynllunio mewn *cyfanwaith* sy'n arwain yn ddiogel, o ddechrau, drwy ganol, i glo. Y gyd-berthynas lem sy'n gogoneddu cynllun.

Fe all 'cynllun' fod yn y chwalfa rediadol i'r awen yn y dyddiau hyn. Ond mae cynllun o fewn un gerdd yn gallu cyfleu hefyd ddealltwriaeth o fywyd ar ei ddyfnaf, er enghraifft 121 'Meirwon' a 132 'Sir Forgannwg a Sir Gaerfyrddin.' A chyda Waldo ac Euros, mae'n gallu lledu panorama yn ei gyfanwaith, hynny yw, mae'n gallu ymestyn yng nghydlyniad ei *oeuvre* nes cydgyfrannu gweledigaeth o egni bywyd: 123:1-5. Mi gredaf i fod Gwenallt yn ymwybodol iawn – oherwydd ei argyhoeddiadau 'obsesiynol' Cristnogol, heb lonydd byth – fod hyn yn gallu rhoi neu amddifadu undod i'w fywyd meddyliol, a hefyd i'w fywyd teimladol fel beirniad-fardd. Canfyddai,

drwy'r coll, fywyd yn gyfannau.

Diolch yw ein rhan am yr hyn a gawsom. Mae bod yn fardd mewn cyd-destun crefyddol a diwylliannol cyfoes, a sylweddolwyd yn gelfyddydol, nid yn unig yn sylweddoli'n gelfyddydol ei brofiad meddyliol a theimladol ei hun, eithr hefyd eiddo'i gymdogion. Mae'n darparu bydysawd o weledigaeth gyfoes i bawb.

Mae *atheistiaid* yn arddel yn feiddgar wybodaeth a ffydd ddi-brawf gyda hyder y difeddwl nad oes dim duw. Mae *agnosticiaeth* ar y llaw arall yn cymryd arni'i hun, yn 'ostyngedig', y posibilrwydd anwybodus osgoawl fod Duw, – oherwydd y ddeuoliaeth ymddangosiadol ynghylch rhagdybiaeth wrthoruwchnaturiol, eto'n ddi-brawf ac yn gorfod bod yn amddifad. Hyn i Gwenallt oedd ei amgylchfyd allanol ar y pryd. Bellach, gall pobl arddel y categori '*dim crefydd*' fwyfwy, a thybied bod hynny'n ffordd i ddileu'r broblem, megis anifeiliaid mudion yn hepgor yr anhawster. Dŷn nhw ddim yn atheistiaid nac yn seciwlariaid. Mae'r rheina'n arddel ideoleg o 'wirionedd' gobeithiedig. Dyw crefydd nac anghrefydd ddim yn bod iddynt. Beth yw'r ots? Aethpwyd heibio i'r byd 'ar yr ochr arall', o ran rhagdybiaeth. Dyna pam y mae a wnelo'r cysyniad 'rhagdybiaeth' neu 'duedd' â bod yn helpfawr wrth gynnig safle deallol unol yng nghanol rhaniadau Egoganologrwydd.

Rhyfedd meddwl: roedd Gwenallt yn byw mewn oes gymharol dawel o safbwynt goddefgarwch crefyddol. O leiaf nid oedd fawr o sôn ar y pryd am ddienyddio drwy dorri pen i ffwrdd. Doedd dim byddinoedd yn ymffurfio ac yn gwario miliynau o bunnoedd yn feunyddiol er mwyn gwrthwynebu pobl a addolai Dduw gwahanol i bobl eraill. Yn oes Gwenallt – ymhlith pobl wâr, megis yn ein dydd ni tan yn ddiweddar, – yr hyn a oedd yn bwysig i grefyddwyr tawel arferol, o Brotestaniaid neu o Gatholigion, megis i Seciwlarwyr, oedd ust! – eithafrwydd a sylweddoli'n breifat fod credo seciwlariaeth ei hun yn grefydd bragmatig – hyd yn oed os mai crefydd negyddol yn ymwneud ag absenoldeb oedd hi. Fel arfer, profiad chwithig i seciwlarwr yw delio â'r goruwchnaturiol mewn unrhyw ffordd ar wahân i un rhagdybiaeth gota. Gall eithafiaeth grefyddol bellach ymestyn o oddefgarwch llwyr gan gredinwyr ac anghredinwyr 'absennol' hyd at ysfa gan un grŵp i ddienyddio'r llall. Mae egwyddor y naill megis y llall yn cael ei harddel yn eithafol ac yn feddiannol.

I Gwenallt, ers ei ymweliad â Baudelaire ac ag Iwerddon yn y dauddegau, tueddai i ymholi ai digon oedd argyhoeddiad o bechod; ac roedd un frawddeg yn crynhoi yn ddau gam, y negyddol a'r cadarnhaol: 'y mae'r neb a genfydd ei bechod ei hun yn hanner Cristion.' Pam hanner? Oherwydd yr hanner cadarnhaol pwysig arall – 'Edifarhewch *a* chredwch yr Efengyl.'

Mae'n arwyddocaol, yn anghredadun neu beidio, mai T. Gwynn Jones oedd arwr Gwenallt. Roedd arwraddoli anghredadun yn hyrwyddo parch at ras cyffredinol. Mae'n amlwg fod ei hen athro, T. Gwynn Jones – yng ngwylltineb iach ei awydd am feddiannu'r gwirionedd – am osgoi'r

pietistig, ac eto am orseddu'r moesol, ac am regi'r diegwyddor, ac wedi profi'n batrwm unplyg mawr i Gwenallt. Dichon mai drwy'i ddelfryd ef y câi Gwenallt fyfyrio am natur ffrwythlon barddoniaeth mewn cyd-destun corff ac ysbryd. Ni ellir gwneud yn well nag olrhain yn feddyliol orchest bardd mawr unigol, a hwnnw'n pasio'n syml drwy ymennydd bardd mawr unigol arall. Diau i Gwenallt geisio crynhoi nod a gweledigaeth crefyddol y bardd hŷn: dyma fawl unplyg, deublyg –

136:67-76 'T. Gwynn Jones'

'Bu'n ymorol am olau
Ar ystyr y gwir a'r gau,
Ar y byd, ar wacter bod
A nod arfaeth ein dirfod:
Holi ffydd ac anffyddiaeth,
Deall, anneall a wnaeth;
Holi diawl a holi Duw,
Gwirioniaid a gwŷr annuw;
Holi hanes, a dilyn
Ffolineb, doethineb dyn.'

Heblaw marwnadu un person, roedd Gwenallt yn crynhoi'i gasgliad yma am bwrpas eang dynoliaeth, drwy ymdroi yn ei diweddglo:

136:77-90

'Fel y Llywarch hybarchwedd
Oedd y bardd wrth bridd y bedd,
Yr un anhun a henaint
Oedd iddynt, 'r un hynt a haint;
Trydar adar ar goeden
Uwch y bedd lle gorwedd Gwên;
A, Wên, hen hogyn hygar
Gynt â'i golomennod gwâr;
A Chynddilig fendigaid,
Na fai ŵr ef pan fu raid;
Lladd trist oedd lladd y Cristion,
A'i ffydd ddi-gledd, ddiwayw-ffon. [*llinell gloff*]

O'i waed Ef daw tangnefedd,
O'i groes i bob oes yr hedd.'

Mae'r cyfeirio wrth gwrs at gerdd bwysig ei Athro, a ysgrifennwyd ar drothwy'r Ail Ryfel Byd, pryd y tafluniwyd heddychiaeth y bardd i mewn i'r ddau gymeriad heddychol canoloesol Gwên a Chynddilig. Aeth Gwenallt yn ei farwnad i daflunio heddychiaeth gwrthrych ei farwnad yntau (drwy'r cymeriadau canoloesol) i'w brofiad ef ei hun. Hynny yw, roedd yn cyfeirio ato'i hun hefyd.

Hoffter cyffredin yr hen Athro oedd meithrin meddwl am fywyd mewn dull epigramatig. (ll. 22, 'A grym ei epigramau'). Nid rhan o grefft bardd oedd hyn yn unig, er ei fod felly: roedd yn ffordd o feddwl am fywyd. Fe luniodd T. Gwynn Jones gasgliad o epigramau o ran diddordeb academaidd (*Y Gelfyddyd Gwta,* 1929, gyda Rhagair gwerthfawr)*;* ac y mae Gwenallt yn y gerdd farwnadol yn corffori llinellau a blas epigramatig arnynt yn y gerdd hon:
ll. 14 'Uchelwr, isel ŵr yw'; 18 'Hi a wnâi farddoni'i hun'; 33 'Iddo hardd ydoedd urddas'; 45-6 'Na roed angerdd Iwerddon/ Ym marw waed ac ym mêr hon.'

Ond mabwysiadodd Gwenallt y dull mewn cerddi eraill, ac mewn adran o epigramau yn ei gyfrol *Gwreiddiau* dilynodd yr hyn a wnaeth T. Gwynn Jones. Y gorau o epigramau Gwenallt yw'r jôc 176:101-4:

'Ai gwir yw mai soseri sydd yn ehedeg,
    A soseri yn unig, trwy'r ne?
Paham na fyddai cwpanau arnynt fel y gallem
    Yfed goleuni fel Te.'

Drwy grynhoi a chasglu un gwirionedd ar y tro yn fachog, yr oedd yn teimlo'i fod yn dinoethi rhwystrau'r amodau a'r cyd-destunau cymhlethog, amlochrog ac yn meistroli haniaethau. Priodol cofio'r wedd ddigrif ar waith Gwenallt yng nghanol y difrifwch dwys. (cf. *Cofiant Idwal Jones,* 1958). Mae ei gerddi'n llawn o hunan-feirniadaeth yn ogystal ag o goegi ffraeth hunanddifrïol. Ac ymhlith yr Epigramau, y mae yna un a darddodd yn ddiau, nid yn unig yn Alis yng Ngwlad Hud, eithr hefyd ynddo ef ei hun: 176: 117-129:

'Nid oes deunydd na dynion na gwrthrychau gweledig,
    Dim ond haniaethau ac afluniau o bob math
Gan yr arlunwyr eithafol, fel pe ceisient beintio
    Haniaeth y wên heb yr wyneb a'r gath.'

Heblaw anghofio'i ddigrifwch, mae yna bosibilrwydd arall, gyda bardd fel Gwenallt sy'n

enwog am ei arwder a llymder, a hynny yw anghofio'i dynerwch; a hynny, yn ddiau, yw un o'r elfennau sy'n dod mor raslon i'r fei ym marwnad 'T. Gwynn Jones'.

Adeiladu cyfanwaith sy'n gorffen mewn tynerwch yw'r soned na chyhoeddodd Gwenallt sef 301: 'Fy Nhad':

'Ti ddysgaist inni'r plant i garu'r sir,
A'i hiaith a'i hanes a'i moesoldeb iach,
A charet sôn wrth dân nosweithiau hir
Am gŵn a defaid ac ebolion bach;
Adroddet inni gerddi beirdd dy fro,
Emynau lawer ac englynion lu,
Am orthrwm landlord a'i gynllwynion o,
A dewrder gwladwyr yn yr oes a fu.
A chodai hiraeth y castelli ffug
Wrth sôn am fwrw'r hwyr ar ddolydd glân,
Cael eto fynd drwy ramant gwair a grug,
A thrin y pridd a llunio pwt o gân;
Ond daeth yr angau llosg a ofnaist ti,
A buost farw heb ei **gweled** hi.' (*hynny yw: dallwyd ef)*

Dyma drawma marwolaeth erchyll a Chymreig ddiwydiannol y tad a brofodd y llanc yn gynnar yn ei deulu ac a gofiwyd ganddo mewn englyn milwr, ac mewn soned gynnar, yn *Ysgubau'r Awen,* 70. Dyma *ddiriaethu* hefyd yn y gweld realistig y ffaith gyffredinol ynghylch marwolaeth nad ydys ddim yn ei gweld yn dod.

Fe brofir yr un awyrgylch tyner mewn sonedau eraill megis 74, 'Dante'; 77, 'Ann Griffiths'; 92, 'Yr Anghrist a'r Crist'. Daw'r profiad o dyneriad personol Gwenallt wrth iddo edifarhau am y garwder a'i meddiannodd ef, drwy edrych yn ôl o'i henaint i'w ieuenctid (67):

184. 'Cymru'

Do, fe fuom ni yn dy regi di ac yn dy chwipio;
Yn dy alw yn boen, yn bitsh ac yn butain,
A dal dy gorff yn gancr ac yn grach:
Maddau inni os buom yn rhy lawdrwm arnat...'

Yn y cerddi olaf y mae'r bardd fel pe bai'n edrych yn ôl yn fynych; a'r hyn sy'n dod drosto yw'r ymwybod o'i gariad cymdeithasol ei hun, gyda'r math o gariad at hydeimledd geiriau a geir mewn barddoniaeth. Hynny yw, gwelai fod ei gynhwysfawredd cynyddol wrth heneiddio yn cyfannu'i olwg deuol o Gymru a Christnogaeth mewn awen. Mae ef yn personoleiddio neu'n

symboleiddio hyn o'i ddisgrifio i gyd. A rhydd i ni ddogfen ryfeddol o'r ugeinfed ganrif sy'n corffori'r oes o'i thu mewn, mewn mawl ac arddeliad gogoneddus.

DROS F'YSGWYDD (9)

HYWEL TEIFI EDWARDS

Ym 1989 fe gefais i gyfaill newydd. Neb llai na nai Gwenallt.

Mi gefais y profiad hyfryd, yn wir yr anrhydedd, o gael f'adolygu gan yr Athro Hywel Teifi Edwards. Roeddwn wedi golygu i Farddas flodeugerdd o farddoniaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Oherwydd llu o gyhuddiadau a gafwyd yng nghynnwys yr adolygiad hwnnw, – anghywirdeb, rhagfarn, sôn am fylchau tybiedig, ac yn y blaen, – fe'm gorfodwyd i, o fewn cyd-destun o gyfeillgarwch pur at gyd-efrydydd ymchwil yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, i'w ateb.

Teimlais hefyd ei fod ef neu fy mod i wedi cyfeiliorni i'r fath raddau fel y gallai'r Flodeugerdd brofi'n gamarweiniol i ddarllenwyr. Roedd angen gwyntyllu'r mater ymhellach.

Cesglais i nifer o bwyntiau yn yr adolygiad a allai brofi'n anawsterau ymarferol gan rywrai ar y pryd. Rhoddais ychydig o fisoedd o amser i ailfeddwl ac i grynhoi sylwadau fel na thramgwyddwn ŵr a hoffwn ac a barchwn yn fawr. Eithr bu ymateb Hywel yn dal i gorddi yn fy meddwl. A chafwyd dadl felly yn *Barn* 1989-90. Yn sgil y ddadl honno, tyfasom ni'n gryn ffrindiau. Fel rhyw fath o ailgynhesiad ar y cyfeillgarwch hwnnw heddiw yr ailgyflwynir fy nadl i ar y pryd. Bu'r ddadl honno'n gwenu dros f'ysgwydd yn galw am ailymweliad.

Bu cyfraniad Hywel yn amlochrog.

Dysgodd Hywel yn ei waith inni oll *fwynhau* israddoldeb y Cymry. Er gwaethaf tristwch, yn wir ddifrifoldeb trychinebus y sefyllfa, dangosodd inni yn ystod ein hoes y rhialtwch a oedd ar gael wrth ymgydnabod â'r haenen ddiwylliannol hon o ymgreinio a redai drwy seicoleg barchus ein cydwladwyr. Ysgrifennodd hanes cymdeithasol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl hyn o seicoleg drwy ddefnyddio ein llenyddiaeth yn ddogfennol, a thrwy ddehongli canologrwydd yr Eisteddfod Genedlaethol, nid yn unig fel prif sefydliad cymdeithasol y Werin, eithr fel cyfrwng addysgol a chyfrwng balchder i Werin a lwyddodd yn greadigol i'w thwyllo'i hun ei bod yn rhydd ac yn lân. Bu cyfraniad Hywel i ddiwylliant Cymru yn anferth. A syniaf iddo godi materion sy'n fythol berthnasol hyd yn oed heddiw yn y ddadl hon. Cyflwynaf yn y fan hon, felly, fersiwn diwygiedig o'm hysgrifau ateb iddo a fu yn *Barn*:

I

Trodd barddoniaeth grefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i lawer heddiw braidd yn embaras. Ei chrefyddolder oedd y boen. Dyma ddyddiau pryd yr ymledodd rhagdybiaeth a dogma go anneallus ymhlith llawer o'r gymdeithas Gymreig mai dimensiwn 'naturiol' yn unig sydd i fywyd. Ac os oedd beirdd yn ysgrifennu'n grefyddol, tybiwyd mai rhaid oedd eu bod wedi troi'n broselitwyr moeswersgar, neu fod ysgrifennu'n ddychanol neu'n gondemniol am y ganrif yn gallu ysgafnhau'r darlleniad yn fwy nag a wnâi gwerthuso beirniadol.

Un ffordd o ddianc rhag yr embaras yna fu peidio â mynd ar ôl yr hyn a oedd yn werthfawr ac yn safonol ym marddoniaeth y ganrif. Ceisiodd rhywrai ei hysgubo dan y carped. Amgenach hwyl oedd cofleidio rhywbeth-rywbeth amgen am ei fod yn '*hanesyddol*' ddiddorol. Wedi'r cwbl, creadur catholig ei chwaeth yw'r hanesydd. Y mae llawer peth mewn bywyd yn gallu bod yn arwyddocaol ac yn ddiddorol iddo ef. Carthffosydd er enghraifft, a chofrestri plwyf, a jamborî o eisteddfodau. Yn sicr, gall y tri maes hynny ddweud llawer amdanom ni ein hunain, ac nid oes a wad eu pwysigrwydd.

Ac felly y ceid hwyl ecsentrig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda'r sylw ar gymhelliad y taeog.

I feirniad, ar y llaw arall, y mae *safon* hefyd yn hanfod canolog, na ddylid ceisio'i osgoi.

Fe aeth ambell un mor bell â thybied, wrth grwydro llwybrau canrif mor ffilistaidd ac mor anaddysgedig â'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mai'r cyfarwydd saffaf bellach oedd yr un na chraffai'n rhy glòs dros ddibynnau safon a gwerth esthetig. Dichon i mi yn *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* fod yn ystyfnig yn hyn o fyd: bûm yn rhy barchus efallai o allu meddyliol llawer a oedd yn ysgrifennu yn yr oes honno. *Ond mwynhawn y ganrif gymaint. Bûm i'n barod ar y pryd i weld amrywiaeth o flodeugerddi gwahanol yn bosib a allai gyflwyno gwahanol arweddau ar y ganrif, boed yn ffurfiau, yn themâu, neu hyd yn oed yn orchestion celfyddydol, heblaw materion hanesyddol o bob math.*

Ond er mwyn ceisio cyflwyno'n benodol yr hyn a oedd yn *gelfyddydol werthfawr* yn y ganrif, yn ôl safonau'r casgliad hwn, diau fod yn rhaid bellach ystyried o'r newydd ambell griterion a gamdriniwyd. Yn y ddadl hon y mae yna dri cham, dybiwn i, – tair rhagdybiaeth a allai ddarparu cyd-seiliau i unrhyw ymdriniaeth, a charwn eu trafod yn eu tro: (i) Rhaid cytuno ar yr hyn a welwn; (ii) Rhaid bod yn barod i gydnabod camp pan geir honno; (iii) Rhaid sylweddoli cyn belled ag y gallwn beth yw ein rhagdybiau ein hun ac egluro'r rheini'n ystyrlon.

Yn ei adolygiad diweddar yn *Barn* ar Flodeugerdd Barddas, fe dybiodd yr Athro Hywel Teifi Edwards (ac yntau'n sbecto fod gen i ryw fath o argyhoeddiadau esgymun) fy mod i'n rhagfarnllyd bleidiol wrth ddethol rhai cerddi yn ôl eu cymwysterau Calfinaidd. Wel, efallai fy mod i'n cam-weld; ond rwy'n tybied fy mod i rywfodd wedi cynnwys yn y Flodeugerdd yn agos i 100% o'r anghredinwyr a oedd yn barddoni yn y Gymraeg yn y ganrif ddiwethaf [D. R. Jones, Wisconsin yw un, a Thal ar Ben Bodran yw'r llall, mewn efelychiad o *Don Juan vii, 6*]. Ceid ar yr ochr arall rywbeth tebyg i 1% o'r Calfiniaid. Os rhagfarn o blaid Calfiniaeth yw peth felly, yna gogleisiol yw'r fath ragfarn drofaus. Nid oes a wnelwyf, o raid felly, ddim oll â daliadau crefyddol rhywun wrth ystyried rhagoriaeth lenyddol mwy nag wrth edmygu ei ddawn pan fo'n chwarae rygbi.

Dyw hynny ddim yn golygu fod argyhoeddiadau o'r fath yn hollol amherthnasol. Gall

daliadau crediniol neu anghrediniol effeithio ar waith a bywyd wrth gwrs. Y maent yn elfen ddirfodol i bawb, yn ymwybodol neu beidio. Gall methiant neu ddigalondid neu anobaith arwain at anffrwythlondeb a hyd yn oed at hunanladdiad, ac y mae'n bwysig sylwi ar hynny pan fo'n digwydd. A'r rheswm yw bod diffyg ffydd yn gallu arwain hefyd at ymwybod â diffyg pwrpas a diffyg gwerth. Ond naïfder fyddai tybied fod hynny'n digwydd ym mhob amgylchiad na hyd yn oed fel arfer. Fe all y diffyg ystyr yna ysgogi egnïon mynegiant. Fe all argyhoeddiad o wacter bodolaeth gynhyrfu'r gwrthryfel mwyaf bywydol, a hynny am resymau dwfn iawn.

Gall y gwacter ystyr, ddwedwn i eto, a bortreedir gan ambell anghredadun o lenor mewn modd mor loyw, adlewyrchu'r gwir am un agwedd ar y cyflwr dynol. Mae'r gwacter hwn yn agwedd adnabyddus y mae Cristnogion megis Eliot hwythau, hefyd, wedi'i phortreadu o bryd i'w gilydd. A hoffwn feddwl y gall yr Athro Edwards a minnau gytuno ar hynyna, er mwyn clirio'r dec.

Gobeithiaf ddod yn ôl, ymhellach ymlaen, at bwyntiau eraill yr hoffwn feddwl ein bod yn cydsynied yn gynnes arnynt. Ond carwn symud am y tro at ambell bwynt o anghytundeb. Ble yn union yr ŷm ni'n gwrthdaro?

Yn gyntaf oll, yn gam neu'n gymwys, mae yna elfen gref o 'ddweud' ein bod yn anghytuno, yn hytrach nag o 'anghytuno'. Mae yna anghydweld rhy frwd ar yr hyn y myn yr Athro Edwards fy mod yn ei wneud a'r hyn a wnaf i mewn gwirionedd. Rhaid iddo esgusodi ychydig o fanylu yn y fan yma.

Ac aros am y tro gyda'r pwynt yr wyf newydd sôn amdano, sef perthynas ffydd a beirniadaeth, dywed yr Athro Edwards yn huawdl: 'Ym myd bach R. M. Jones ni all fod anghrediniaeth na *dwyster* nac angerdd na dewrder na *chywirdeb*. Dim ond dylni.'

Gosodiad 'ffeithiol' sydd ganddo yn y fan yma, ddwedwn i, sy'n fy nghyhuddo i o feddu ar agwedd negyddol wrth gydnabod ansawdd gwaith safonol anghredinwyr yn fy meirniadaeth lenyddol yn gyffredinol [a chyfeirio a wna'n gefndirol at *Llên Cymru a Chrefydd,* 27]. Mae hyn yn gamddarlleniad o fath ar fy meirniadaeth, wrth gwrs, oherwydd fy mynych ddyfal haeriad gwylaidd fod anghredinwyr, oherwydd Gras Cyffredinol, yn medru cynhyrchu mynegiant llenyddol yn anhraethol well weithiau na chredinwyr. Ffaith! Ac felly, bydd rhaid iddo oddef rhyw fath o 'dystiolaeth' mewn dau ddyfyniad byr o *Llên Cymru a Chrefydd* i ddechrau: sôn yr wyf, yn yr union le yna (a gondemnia ef), am anghrediniaeth Beckett – 'Y mae ei nofelau a'i ddramâu yn rhoi mynegiant manwl a *dwys* i'r *ing* sydd ynghlwm wrth wacter bywyd ... Does dim amheuaeth nad yw Beckett yn dweud rhywbeth tra *chywir* am ei gyfnod yn ei nofelau ac yn y dramâu hyn, a'i fod yn ei ddweud mewn modd gwreiddiol ac effeithiol; a gellid dadlau fod y peth hwnnw'n ingol o dreiddgar ac wedi priodi'r ffurf addasaf ar gyfer ei grisialu.' Sylwer ar y geiriau 'dwys' ac 'ing' a 'cywir'. Dyfynnu'r wyf yn awr yr union adran yn *Llên Cymru a Chrefydd* t. 30 a feirniada –

'*Mae llenorion anghristnogol, hyd yn oed rhai na welant bwrpas i fywyd, fel petai er eu gwaethaf eu hun, wedi mynegi gwirioneddau y mae'n wiw eu clywed. Dinoethasant yr afrealaidd a'r ymchwyddgar a'r ymhongar mewn moes a chredo. Ac er iddynt yn fynych bleidio'r anarchaidd a'r hurt, gwnaethant hynny am eu bod yn dra ymwybodol o nerth y drwg 'parchus' ac yn hydeiml i'r peryglon heddiw sydd i'r 'sefydliadau' dynol. Yr hyn a gawsom yn aml oedd ymateb effro i chwalfa gwerthoedd a pharodrwydd i wynebu'n ddeallol y ffaith fod dynoliaeth gnawdol hunanfodlon o dan farn frawychus. Aeth llawer o'r hyn a ystyrid yn 'llenyddiaeth grefyddol' yn ystrydebol ac yn niwlog, yn bietistig ac yn sychdduwiol, yn findlws ac yn hunan-foddhaus; a chan anghredinwyr yn fynych y cafwyd y gonestrwydd i fynegi'r tywyllwch ysbryd sy'n treiddio drwy'r ymwybod cyfoes.'*

Syrthiaf ar fy mai mai 'byd bach R. M. Jones' yw fy myd i gwaetha'r modd, fel y sylwodd yr Athro Edwards, a diau hefyd y dylwn fod yn fwy brwd ynghylch gwaith yr anghredinwyr estron hyn, ond gofynnaf o ran chwilfrydedd: “A all yr Athro Edwards enwi unrhyw deyrnged arall yn yr iaith Gymraeg sy'n sôn yn fwy edmygus a chynnes am 'gywirdeb' ac 'ing' a 'dwyster' a threiddgarwch' llenorion anghrediniol? A all gyfeirio at unrhyw ddarn yn ei waith ei hun o bosib lle y mae ef yn fwy canmoliaethus am y dosbarth hwn? Os yw hynny'n *absennol* ganddo ef, ai teg fyddai casglu'n hyderus wedyn nad yw yn ei feddwl ef?” Prin: pe na bai yn enwi'r union rinweddau mewn llenorion anghrediniol a grybwyllir ganddo a chennyf i yma, ni byddai hynny'n ddigon (o ddigon) i dybied nad yw yn sylweddoli'u gwerth.

'Byd bach R. M. Jones' yw fy myd i bid siŵr; ond fy ngobaith brau yw nad yw'n brin o gydnabod yn ddiolchgar gyfraniad Aristoteles a Berdjaev, Beethoven a Bromwich, Bultmann a Castiglione, nad ydynt o'r un gorlan grediniol â mi yn y byd bach hwnnw. Yr wyf wedi rhybuddio cyn hyn mai'r rhagfarnau y dylid eu gwylio yng Nghymru yn y blynyddoedd nesaf yw, nid llenorion Cristnogol yn methu â gwerthfawrogi llenorion anghrediniol, ond y rhai anghrediniol sy'n gynddeiriog gul bellach yn erbyn llenorion Cristnogol. Ac yr wyf yn ailadrodd y rhybudd hwnnw'n awr.

Ond sôn yr oeddwn am yr Athro Edwards yn gweld yn fy ngwaith bethau y chwiliwn i'n ofer amdanynt. Gadewch imi roi enghraifft benodol arall. Yn ei ymdriniaeth y mae yn fawr ei gondemniad ohonof am beidio â chynnwys Elfed. Purion! Ond fe esbonnir yn y rhagymadrodd y criteria sy'n angenrheidiol ffinio'r Flodeugerdd yn ddyddiadol. Trefnir llawer o flodeugerddi fel *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* yn yr un gyfres yn ôl trefn geni awduron. Penderfynwyd, felly, yn gyntaf ddyddiad agor Blodeugerdd y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a hynny gyda Dafydd Ddu 1759-1822 (a cheisiais esbonio pam y dechreuwyd lle y dechreuwyd); a nodais wedyn 1853 fel llinell derfyn geni awduron y Flodeugerdd gan mai dyna'r pryd y dechreua'r Flodeugerdd nesaf (Pedrog 1853-1932). Mater o farn i rai er enghraifft yw cyfrif a

ddylid cynnwys John Morris-Jones o ran 'cyfnod' gyda'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (gan mai dyna'r pryd y cyfansoddodd ei *Ganiadau*, a gellid dadlau'n deg mai ef oedd coron datblygiad y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar lawer cyfrif). Yn fy nghyfrol ar lenyddiaeth 1902 ymlaen i 1936 yr wyf yn ei ystyried yn gyfnodol gyda deffroad yr ugeinfed ganrif; ac felly Elfed yntau (1860-1953). Mae hyn oll yn glir yn y rhagymadrodd i Flodeugerdd y 19G. Amhosibl fyddai glynu'n brennaidd yn yr holl gyfrolau hyn wrth union ddyddiad y 'cyfansoddi', efallai, a bydd yn rhaid defnyddio dirnadaeth i benderfynu sut i gyfnodi. Ond roedd yn rhaid cael rhyw wahaniad ystyrlon. Fel y dengys y rhagymadrodd yn glir yr oedd dyddiadau Elfed y tu hwnt i'r cyfnod llenyddol a gynhwysir ym Mlodeugerdd y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. Yn ôl y dyddiadau hyn, felly, dylai fod yn ymddangos yn y Flodeugerdd wedyn o ran dyddiad. Wel, credaf fod y golygydd cyfrifol am Flodeugerdd yr Ugeinfed Ganrif yn meddu ar ysgwyddau digon llydain i gwrdd â beirniadaeth o'r fath. Y pwynt penodol a nodir yn y fan hon yw nad Calfiniaeth o'm rhan i, wrth gwrs, a'i diarddelodd ef o'r flodeugerdd roedd yr Athro Edwards yn ei chollfarnu; ond fe wyddai hynny'n burion heb i mi ei ddweud.

Symudwn ymlaen yn ofalus. Sonia'n wawdus yn ei ymdriniaeth am '*Galfiniaeth **Anffaeledig***'. Ni wn am beth felly. Ni honnodd Calfin erioed ei fod yn anffaeledig. Yn wir, i'r gwrthwyneb eithaf. Fe'i beirniedid, fel arfer, am iddo honni mor aruthrol ffaeledig oedd ef a phob offeiriad arall. Dichon nad oes neb arall yn hanes y byd wedi pwysleisio ffaeledigrwydd yr Eglwys fel sefydliad yn fwy nag ef. Nid oes neb oll o'i gannoedd o filoedd o ddilynwyr brith a rhyfedd erioed wedi honni chwaith fod Calfin (na'u bod hwythau) yn anffaeledig. Fe ddwedwyd cryn nifer o bethau anghyfrifol gan elynion am Galfiniaeth o bryd i'w gilydd wrth gwrs, a hawdd deall hynny; ond ni chlywais o'r blaen i'r un ohonynt hwy hyd yn oed, honni bod yn 'anffaeledig' yn eu barn. Os mai rheg yw'r gair, popeth yn iawn, wrth gwrs. Mae'n wir ddrwg gennyf fod mor findlws o fanwl ynghylch rhyw osodiadau hwyliog braf. Ond i mi, rywfodd, nid digon i adolygydd yw hawlio mai annigonol yw Calfiniaeth, heb wybod beth yw hi. Hyn oll am fy mod yn dra awyddus i wybod beth yw union bwynt ein hanghytundeb ni.

Os felly, bydd yn dda inni gyflafareddu a ydym yn mynd i wneud gosodiadau dychmygol pan gyfeiria'r naill at safbwynt y llall, ynteu a ydym yn sôn am rywbeth sydd mewn gwirionedd yn bod o gwbl.

Er enghraifft, wrth arolygu'r bylchau difrifol yn fy Mlodeugerdd cyfeiria Hywel at *Ceinion y Gân* a dywed amdanaf: 'fe wrthododd gynnwys *dim* o'r gyfrol honno am mai cerddi "hanesyddol" ydynt.' **Dim!** Yn awr, dyma'r cerddi yn *Ceinion y Gân* sydd hefyd yn y *Flodeugerdd* – 'Atgof o'r Brithdir,' Ieuan Gwynedd; 'Ti wyliaist wrth fy ngwely,' Ieuan Gwynedd; 'Y Rhywbeth Rhyfedd,'

Iorwerth Glan Aled; 'Bedd y Dyn Tylawd,' Ioan Emlyn; 'Cân Gwraig y Pysgotwr,' Alun; 'Y Morwr Bach', Eben Fardd; 'Gogoniant y Filwriaeth,' Caledfryn. I'm bryd diniwed i, dim yw 'dim'; a chwarae teg yw chwarae teg.

Dywed eto, 'Beth am gerddi alltudiaeth?... Dim.' Dyma, sut bynnag, a welaf i: 'Hiraeth Cymro am ei Wlad', Cawrdaf; 'Er cof am John Griffith Kemp,' Eben Fardd; 'Cerdd yr Arglwydd mewn Gwlad Ddieithr,' Eryron Gwyllt Walia (dau dudalen llawn); 'Atgof o'r Brithdir', Ieuan Gwynedd,' a hyd yn oed 'Nant y Mynydd,' Ceiriog bondigrybwyll. Onid dim yw 'dim?

'Beth am y rhieingerddi a'r bugeilgerddi eisteddfodol?' gofyn eto. 'Dim.' Yr oedd 'Bugeilgerdd Ab Ifan ac Ab Einion' Taliesin Hiraethog yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1888; ac y mae honno i mewn. Ymhlith rhai aneisteddfodol o bosib, fe geir 'Bugeilgerdd Bugail Cwmdyli' Ieuan Glan Geirionydd a 'Chanmoliaeth y Bardd i'w Gariad,' Gwilym Morganwg.

'Beth am awdlau a phryddestau eisteddfodol a geisiai borthi ymwybyddiaeth lesg o'u hanes? Dim.' Wel, pryddest fuddugol Eisteddfodol Caerwys yn 1886 oedd 'Llywarch Hen' Taliesin Hiraethog, ac y mae honno i mewn. Dim yw 'dim', a chwarae teg.

Mae'n bosib nad oedd rhai o'r cerddi 'hanesyddol' eraill ddim yn Eisteddfodol, ond fe geir cerddi eraill yn y Flodeugerdd sy'n tarddu o gymhelliad tebyg, megis 'Cyflafan Morfa Rhuddlan' Ieuan Glan Geirionydd, a hyd yn oed 'Gwen y Foty' Glaslyn.

'Baledi' wedyn? gofyn yr Athro Edwards. 'Dim'. Wel, y mae'r faled 'Y Ferch o Blwyf Penderyn' i'w chael yma yn ogystal ag yn *Baledi Morgannwg*, gol. Ben Bowen Thomas. Ai dim yw hyn hefyd?

'Dychan' wedyn? 'Dim.' Arhoser; heblaw cerdd Caledfryn am ryfel fe geir 'I'r Awdwyr Chwyddeiriog' gan Gynddelw; ac fe ddwedwn i fod tipyn o ddychan go iawn yn yr 8+ tudalen o 'Tal ar Ben Bodran.'

A cherddi gwladgarol? Cofier 'Cymru, Cymro, Cymraeg' Caledfryn; 'Aros a Myned' Ceiriog; 'Cyflafan Morfa Rhuddlan,' Ieuan Glan Geirionydd. Ai dim yw hyn oll? Diau fod ym meirniadaeth yr Athro Edwards rywfath o led ymdebygiad pell i'r gwirionedd nas canfyddaf i. Os felly, ymddiheuriadau.

Mae yna amryw ganeuon serch, serch hynny, yn y gyfrol heblaw'r rhieingerddi a enwais i uchod, a byddwn i wedi hoffi cynnwys rhagor. Ond ar y pen hwnnw, tueddaf i gytuno'n gymedrol â'r hen warior W. J. Gruffydd wrth ddethol ar gyfer ei *Flodeugerdd* yntau: 'Gwrthodwyd y telynegion serch am eu bod bron i gyd yn anaeddfed ac yn sentimental, a heb feddu gwerth prydyddol ond fel cynnyrch prentisiaeth y rhai a'u canodd ... Y mae gwendid y caneuon gwlatgarol (sic) yn wahanol; nid sentimentaliti sydd yn eu gwneuthur hwy yn ddiwerth, ond ... annidwylledd.'

Dywed yr Athro Edwards drachefn mai'n syml am eu bod yn 'boblogaidd' yr wyf yn gwrthod

cerddi. Mae'r fath osodiad mor barchus at y gwirionedd â'r holl osodiadau anghywir eraill uchod. Nid oes gennyf ddim o gwbl yn erbyn y 'poblogaidd' os yw hefyd yn dda. Yn wir, er i'r hen warior W.J. Gruffydd (a grybwyllais) ymwrthod â thelynegion Talhaiarn a Mynyddog wrth iddo ddethol *Y Flodeugerdd Gymraeg,* fe gefais innau bleser celfyddydol wrth ddarllen rhai o'r cerddi 'poblogaidd' hynny; ac y mae pump o gerddi Talhaiarn (11 tudalen) ac un o gerddi Mynyddog i mewn gennyf i. Dau fardd 'poblogaidd' Cymraeg, os bu'r fath greaduriaid erioed.

Pan ddywedais yn y rhagymadrodd, gyda llaw, fy mod i'n ymgaledu yn erbyn yr 'hanesyddol' fel criterion ar gyfer cynnwys cerdd yn y Flodeugerdd, y mae'r awgrym yn gywir eglur fy mod yn ei gael yn atyniadol am resymau personol; ond fel y nodais, nid diddordeb hanesyddol na ffurf chwaith oedd y criteria wrth ddewis ar gyfer y Flodeugerdd arbennig hon y tro hwn, eithr yr hyn a farnwn i'n gelfyddydol lwyddiannus, beth bynnag oedd ei hil a'i ryw a'i grefydd a'i ddiddordeb hanesyddol. Ac (os caf fabwysiadu ei dechneg ef uchod) gan mai gwraig fach bert ddwy ar hugain oed yw'r Athro Edwards, ac yn gefnogreg fawr i'n Mrs Thatcher, gobeithia y cytuna ef.

Ceisiais sôn y tro hwn am yr anghytundeb rhyngom ynghylch yr hyn y gwêl yr Athro Edwards fi'n ei wneud a'r hyn a welaf i. Ond y mae'r anghytundeb rhyngom yn fwy angerddol ddwfn na hynny. A cheisiwn fynd ati i archwilio'i natur ychydig ymhellach bellach.

II

Y mis diwethaf bûm mor ehud â ffwdanu ynghylch ansawdd ffeithiol rhai gosodiadau mewn ymdriniaeth gan yr Athro Hywel Teifi Edwards â *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg.* Nid oes a wnelwyf y tro hwn â phethau mor rhyddieithol ddiflas â ffeithiau. Hoffwn yn hytrach ystyried ychydig ar ei farn a'i chwaeth wrth ymateb i'r ganrif, ac ymholi'n betrus a yw'r rheini o bosib yn fwy neu'n llai prydyddol na'i gywirdeb ffeithiol. Haedda'i farn sylw, nid yn unig am mai ef yw'r difyrraf oll o'n darlithwyr, ond am ei fod hefyd yn cynrychioli tuedd go gref yn yr hinsawdd academaidd yn ddiweddar. Sylwn felly yn ofalus ar ei farn esthetig, yn neilltuol ym maes emynyddiaeth. Yn sgil ei awydd i ddifrïo safon a phwysigrwydd y farddoniaeth grefyddol yn y ganrif ddiwethaf (y bedwaredd ar bymtheg), pwysleisia'r Athro Edwards **gyffredinedd barddoniaeth yr emynau**. Wel, y mae'n wir fod a wnelom â phobl 'gyffredin'. Ac eto, wrth ddarllen 'Cofio'r Ddeddf' Thomas Lewis y gof, ni allaf lai na chanfod rhywbeth go syfrdanol yn yr emyn. Cymerer y ddelwedd finiog agoriadol i ddechrau:

'Wrth gofio'i riddfannau'n yr ardd,

A'i chwys fel defnynnau o waed,
Aredig ar gefn oedd mor hardd.'

gyda'r ferf annisgwyl ddiriaethol yna 'aredig'. Ac yna, paradocs rhyfedd holl bwrpas yr Ymgnawdoliad:

'A'i daro â chleddyf ei Dad,
A'i arwain i Galfari fryn,
A'i hoelio ar groesbren o'i fodd.'

Beth bynnag yw ein barn yn erbyn neu o blaid cyfiawnder yr athrawiaeth y tu ôl i hyn, roedd y ffaith fod gof Talyllychau wedi meddwl drwyddi ac ymaflyd ym materion mawr Bywyd, ac wedi ymgodymu â thema ysbrydol anferth, a'i chorffori mewn penillion gyda'r fath gynildeb urddasol a difrifoldeb a 'phurdeb ieithwedd' (ac rwy'n hoffi'r ffordd glasurol y mae'r Athro David Daiches yn arfer yr ymadrodd hwnnw am beth o gamp yr emynwyr gorau) yr oedd hyn oll yn ffenomen na ddylid ei bychanu. Arweinia'r emynydd wedyn at y cwlwm o gwestiynau cymhwysol a phersonol uchafbwyntiol:

'Pa dafod all dewi am hyn?
Pa galon mor galed na thodd?'

Er nad yw'r ail bennill mor drawiadol, ac wrth gwrs er bod holl broblem awduraeth hwn yn dal yn agored wedyn, ni allaf lai na chlywed yn hwn hefyd yr un athrylith anghyffredin y tu ôl i'r paradocs syfrdanol a syml:

'Wrth gofio am goron o ddrain
Fe folir am finegr sur;
Fe genir am bicell mor fain,
Clodforir am hoelion o ddur.'

Dyma werinwr craff yn ymwneud â phethau anferth tynged dyn. A chytuno â'r syniadaeth neu beidio (ac ychydig bellach a gytunai mewn gwlad sy'n meddu ar y gwerthoedd neu'r diffyg gwerthoedd goddrychol cyfoes, yn ddiau), ni all person hydeiml, does bosib, lai na gwybod ei fod ym mhresenoldeb mawredd. Disgrifiad cynnil yr Athro Edwards o'r emynau oedd: 'Cerddi hanfodol utilitaraidd ydynt.' Ai dyna'r cwbl? Wel, mae'n eithaf tebyg fod yna ddefnydd helaeth yn arbennig

o'r pennill cyntaf ar lafar gwlad yn ardal Talyllychau; ac nid oes amheuaeth nad oedd perthynas yr emynydd a'i gynulleidfa yn un ystyrlon a chlòs ac ysbrydol ddefnyddiol. Eithr ni allaf lai na synhwyro'n onest fod yna fwy nag iwtilitaraeth yn y rhain, a bod Thomas Lewis yn canu i rywun arall heblaw i blant dynion; a beth bynnag oedd y pwrpas i'r canu, y mae'r canlyniad a ddarllenwn yn awr yn gelfyddyd wylaidd o'r radd flaenaf.

Mae yna dinc gwawd yn nisgrifiad yr Athro Edwards o emynau'r ganrif: 'Mydryddu ffydd a rhigymu diwinyddiaeth mewn iaith annewydd a wnânt gan amlaf er mwyn cynnal ysbryd addoli.' Trown at 'Rhyfedd Ras' Pedr Fardd felly. Diau ei fod ef yn mydryddu'i ffydd:

'Caed balm o archoll ddofn
Y bicell fain;
Yn rawnwin ar y groes
Fe droes y drain;
Dechreuwn fawl cyn hir
Na flinir ar ei flas,
Am Iesu'r aberth hedd:
O ryfedd ras!'

Er bod eisiau *clywed* y pennill yn ei gyd-destun gyda'r gytgan-linell uchafbwyntiol a chyson 'O ryfedd ras,' rhaid cyfaddef yn gyntaf gyda'r Athro Edwards, hyd yn oed wrth edrych ar y dyfyniad hwn, nad oedd y geiriau a ddefnyddiai Pedr ddim yn rhyw newydd iawn: geiriau 'cyffredin' oeddynt. Un o'r pethau a oedd yn newydd efallai gyda mudiad emynyddol y ddeunawfed ganrif a hanner cynta'r ganrif wedyn oedd naturioldeb melys a glendid didwyll yr ieithwedd draddodiadol yn y Gymraeg; ac yn achos Pedr Fardd fe briodwyd hyn â chrefft draddodiadol y werin-bobl wrth glecian cynghanedd ac odl newn perseinedd celfydd a hyd yn oed synwyrusrwydd y “ffr” yna:

'Daeth ffrydiau melys iawn
Yn llawn fel lli'
O ffrwyth yr arfaeth fawr
Yn awr i ni.'

I mi wrth ddarllen 'Yn rawnwin ar y groes/ Fe droes y drain,' gyda'r trosiad egnïol, y gynghanedd sain glymedig, ac yn anad dim gyda'r meddwl gwaelodol sy'n cysylltu'r gwaed â'r gwin a'r groes a'r drain mewn athrawiaeth ddofn ddiriaethedig a gweledig (nad hawdd i bawb ei derbyn

rhaid cyfaddef), fe'n gyrrir i wrogi i'r fath ganfyddiad. Dychymyg dwys sydd wedi priodi diwinyddiaeth helaeth. Dyna i mi yw uchafbwynt Canu Rhydd Cymru.

Hawliai Thomas Parry am Bedr Fardd: 'Prin fod neb wedi cyfuno urddas a symledd yn fwy llwyddiannus nag ef.' Honiad go fawr, ond cydnabod rhinweddau cyfun glasurol yr oedd Thomas Parry, gyda'i brofiad yn glustdenau iawn iddynt. Yn sicr, mewn cerdd fel 'Arfaeth Duw',

'Cyn llunio'r byd,
Cyn lledu'r nefoedd wen,
Cyn gosod haul
Na lloer na sêr uwchben,
Fe drefnwyd ffordd
Yng nghyngor Tri yn Un
I achub gwael
Golledig ddyn.'

rhaid bod yn bŵl i beidio â sylweddoli fod yna rywbeth ar waith fan yna.

Ond nid yw Pedr Fardd ar ei ben ei hun: un oedd ymhlith cwmni o emynwyr y ganrif yn meddu ar gyfuniad rhyfeddol cyffelyb o urddas a symledd: David Charles yr hynaf er enghraifft –

'Rhagluniaeth fawr y nef,
    Mor rhyfedd yw
Esboniad helaeth hon
    O arfaeth Duw;
Mae'n gwylied llwch y llawr,
    Yn trefnu llu y nef,
Cyflawna'r cwbwl oll
    O'i gyngor Ef.'

neu Robert ap Gwilym Ddu:

'Mae'r gwaed a redodd ar y groes
    O oes i oes i'w gofio;
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
    I ddweud yn iawn amdano.'

Rwy'n siŵr y byddai'n bur anodd i bawb chwaethus, pwy bynnag, beidio ag ymdeimlo fod yn y fan hon rywbeth amgenach na chyffredinedd. Ni raid cael profiad o lawer o lenyddiaethau gwahanol er mwyn synhwyro fod a wnelom â mynegiant tawel ysgytwol. Ac eto, mae hon yn Gymreig iawn, yn yr ystyr fod yma werin a ymgodymai â materion ysbrydol mewn diwylliant unigryw a rhyfeddol.

Wrth gwrs, roedd gan yr emynwyr oll y fantais eu bod, nid yn unig yn credu rhywbeth gyda difrifoldeb mawr, ond bod y peth hwnnw yn ymwneud â hwy a'u cyd-werinwyr mewn modd cosmig ac eto bob-dydd. Ni ddwedaf fod hyn o anghenraid yn mynd i esgor ar well cerdd na baled Ywain Meirion ar 'Ymweliad y Frenhines â'r Penrhyn, Hydref 15, 1859', na'i 'Ryfel-gân am wrthryfel yr India, gorchfygu y gelynion a meddiannu Delhi.' Ond o leiaf maent yn rhannu eu profiad gyda'r mwyaf deallus o'r Cymry y pryd hynny o bosib ymhlith ein gwladweinwyr, gwyddonwyr, masnachwyr, gweinyddwyr, arweinwyr y cyfryngau, llawfeddygon, neu'r addysgwyr mwyaf dawnus a chyda'r rhai mwyaf o ddifri eu hawydd i lunio gwaith teilwng a chaboledig. Dyna rai o'n pobl a ysgytiwyd i'r byw gan aruthredd tröedigaeth. Gyda'r rheini yr oedd y ffaith eu bod yn ymwneud â materion o bwys tragwyddol mewn dimensiwn goruwchnaturiol yn gymorth iddynt o leiaf fwynhau telynegion yn cynnwys gweledigaeth fawrhydig o fewn celfyddyd afaelgar.

Rwy'n ofni ar unwaith y bydd yr Athro Edwards yn dymuno fy nghamddeall i o hyd. Fel pawb yn fy ngwaith beunyddiol i, darllenais gannoedd o faledi, a hynny gyda blas mawr, ond blas gwahanol i'r math o flas a geir gan y clasuron. Mae gennyf barch atynt a diddordeb ysol ynddynt. Ond trof oddi wrthynt hwy at Ann Griffiths,

'Rhoi awdwr bywyd i farwolaeth
    A chladdu'r atgyfodiad mawr...'
'Y greadigaeth ynddo'n symud,
    Yntau'n farw yn y bedd...'
'Yng nghymdeithas y dirgelwch
    Datguddiedig yn ei glwy,
Cusanu'r mab i dragwyddoldeb
    Heb im gefnu arno mwy.'

a phethau felly. 'Yn ofer,' medd yr Athro Edwards, 'y ceisir am farddoniaeth fawr yn y ganrif ddiwethaf.' Meddai'r Canon Allchin, 'We find such a quality of vision, such an exploration of the heights and depths of human experience, such a statement of the central affirmations of the

Christian faith, as to make of these things a precious element not only in the tradition of these islands but of the whole of humankind; a kind of focal point in which many things from far and near are gathered. Something has happened in the little house at Dolwar Fach in the parish of Llanfihangel-yng-Ngwynfa which makes of that place a spot for more than one age and for more than one people.' Dywed Saunders Lewis am ei hemyn 'Rhyfedd, rhyfedd,': 'mae hi'n un o gerddi mawreddog barddoniaeth grefyddol Ewrop.' Yn wir, er y gall yr Athro Edwards ddymuno difrïo f'agwedd i at yr emynwyr, yr wyf yn mentro dweud – hyd yn oed mewn cyfnod pryd y mae'r blaid ddiwinyddol seciwlar yn fwyafrif a chrediniaeth ysgrythurol yn destun sbort, hyd yn oed mewn cyfnod pryd y myn seicoleg ein gwlad fod bychanu ein pobl ein hun y rhemp – ie, gellid dweud fod archwiliwr gonest o'r emynau a gynhwyswyd ym Mlodeugerdd y 19G yn gorfod casglu fod y rhain dipyn uwchlaw'r dyfarniad o 'farddoniaeth ddigon cyffredin' y sonia'r Athro Edwards amdani. Daliwn innau'n gadarn wrth y math o ryfeddod am ben eu camp ag a gofnodais yn y Rhagymadrodd i'r Flodeugerdd. Gallai Athro Athroniaeth Reading, y diweddar H. A. Hodges, fel y Canon o Gaer-gaint Dr. A. M. Allchin, ddysgu'r Gymraeg yn unswydd er mwyn darllen Ann Griffiths; ond gyda phob parch at fechgyn poblogaidd rhagorol megis Dic Dywyll a'r Bardd Crwst – baledwyr difyr yr wyf wrth fy modd gyda'u gwaith – ni allaf gredu y dysgai neb y Gymraeg er mwyn gwreiddioldeb eu barddoniaeth na chryfder eu hawen.

Ac nid 'undonog a thebyg i'w gilydd' fyddai'r disgrifiad cywir o natur emynwyr eraill chwaith. Sylwer ar Eben Fardd. I mi un o ddarganfyddiadau ysgytiol y deng mlynedd diwethaf yw'r emynau gan y bardd hwn a gynhwysais yn y *Flodeugerdd* – y didwylledd noethlymun archwiliol, yr amheuon a oedd yn gweiddi ynddynt, yr hunandosturi ysigol, a'r cwbl wedi'i glymu ym mynegiant profiadol a chlasurol Eben gan ddefnyddio gwrthgyferbyniadau trawiadol ac ailadrodd esgynnol hyfryd ond diaddurn. Dyma emynau myfyriol trist o radd uchel.

Bardd yr un emyn, ac emyn go wahanol, oedd Ehedydd Iâl. Ond dyna emyn! Mae angen synfyfyrio ynghylch ei arwyddocâd, wrth gwrs; ac amhosib yw ei amgyffred yn llawn heb ryw syniad am yr hyn a feddyliai Cristnogion ar y pryd am y Ddeddf. Ni ddylid brysio dros hynny. Fe allwn anghytuno'n fuddiol â'n gilydd. Fe anghytunais i â Dr D. Tecwyn Lloyd ar hyn yn fy rhagymadrodd, ac awgryma'r Athro Edwards fy mod i'n tybied mai 'duffer' yw Dr Lloyd. Go brin: mae'r gair yn ddieithr i mi. Yr wyf yn ystyried trafodaeth Saunders Lewis yntau hefyd ar Stoiciaeth rhai o'r beirdd yn annerbyniol. Heb fwrw anfri ar allu y naill na'r llall o'r beirniaid hyn, yn y naill achos a'r llall ceisiais osod fy rhesymau'n glir: ni thrafodir y rheini gan yr Athro Edwards, wrth gwrs, eithr fy nghyhuddo o drin Dr Lloyd fel 'duffer' yn syml oherwydd imi anghytuno ag ef. Ond ar wahân i anghytundeb ar bwynt technegol, dyma'r unig sylw personol a wnes: 'darllener ysgrif Dr Lloyd sydd mor ddiddorol yn y fan yna ag y bydd ef ym mhobman arall.'

Hanfodol yw cael gafael ar y cyferbyniad i amgyffred yr emyn rhwng y Ddeddf a Gras. Heb hynny, ni wêl y darllenydd ei holl ddramatigrwydd dirfodol. Dyma emyn cyffrous gyda symud gwyllt drwyddo, emyn sy'n meddu ar gryn ynni ymadroddol, ond ar 'feddwl' hefyd yn ogystal ag ar wrthdaro lliwgar.

Mae'r Athro Edwards yn huawdl feirniadol ohonof am gynnwys gormod o emynau. Fy meirniadaeth i, ar y llaw arall, fyddai imi hepgor gormod. Torrwyd degran o'r Flodeugerdd ar ôl ei chyflwyno i'r Wasg er mwyn ufuddhau i'r costau a ganiatawyd; a chollwyd sawl emyn. Roedd sylwadau Mrs Branwen Jarvis yn gytbwys iawn (*Llais Llyfrau,* Gaeaf, 1988), a barnai hi y dylswn fod wedi cynnwys emyn Ceiriog 'Y Gaersalem Nefol' er enghraifft. Mae yna lawer i'w ddweud o blaid ei dadl. Bûm yn pendroni llawer ynghylch yr emyn hwnnw. Ni allwn rywsut ymateb yn gadarnhaol i'r acrobatigrwydd chwithig:

'Pa bryd y caiff fy llygaid,
Pa bryd y caiff fy mhen
Ymagor ac ymorffwys
Ym mro Caersalem wen?'

Roeddwn hefyd yn ddiarwybod yn ei gymharu o hyd â'r 'gwreiddiol' a ysgogodd Geiriog, sef cyfieithiadau Neale 'Jerusalem the Golden' a 'For thee, O dear dear country,' a'i gael ef yn brin yn eu hymyl. Ond rwy'n ddigon parod i gwympo ar fy mai, a chydnabod fod Mrs Jarvis yn yr iawn ar hyn fel ar lawer o bethau eraill.

Serch hynny, af yn ôl at fy safbwynt gwreiddiol. Yr oedd ar gael yn y ganrif ddiwethaf ugeiniau, onid cannoedd o emynwyr, llawer ohonynt yn sgrifennu'n ystrydebol ac yn gwbl anniddorol: nid yw hynny dan ystyriaeth ar hyn o bryd, ac nid at y rheini yr eir i roi dyfarniad ar y mudiad oll. Ond ymhlith y rhain oll yr oedd yna rai emynwyr, gredaf i, ugain a mwy, a luniai gerddi arbennig, ambell un yn gwbl orchestol. Hynny yw, roedd yna grŵp cyfun ar gerdded, symudiad helaeth anghyffredin iawn, a oedd, oherwydd bod egnïon mwyaf deallol a dychymyg mwyaf myfyriol Cymru ar y pryd wedi'u cronni yn y capeli, yn medru esgor ar gampweithiau.

(III)

Os y cyfarchiad priodol rhwng beirdd yw – 'Sut mae'r awen?' y cyfarchiad priodol rhwng beirniaid yw – 'Sut mae'r rhagdybiau?'

Yr ŷm yn gwybod am un ateb anghywir i'r cwestiwn – 'Pa ragdybiau a ddylai fod gan

feirniad wrth geisio pwyso a mesur llenyddiaeth?'

Yr ateb *anghywir* yw 'Dim.'

Ateb amhosibl yw. Ni ellir dal yn onest nac yn ddeallus fod unrhyw feirniad sy'n berchen ar leferydd yn gallu gweithredu heb ryw ragdybiau neu'i gilydd. Ond wedi derbyn fod yna ryw ragdybiau clir a phendant gan bob un, pwy bynnag y bo, y mae'r cwestiynau yn dal i rythu arnom – sut maen nhw? Pa ragdybiau sy orau? O ble maen nhw wedi dod?

Fe ellid haeru fod arddangos dros ugain o wallau ffeithiol mewn dau dudalen gan yr Athro Hywel Teifi Edwards yn tanseilio rhyw fymryn bach bach ar ei ddadl. Neu y mae hyd yn oed yn gwasgaru peth amheuaeth am ei farn negyddol ef ynghylch celfyddyd yr emynau ac yn bwrw rhithyn o ddrwgdybiaeth ar ei allu beirniadol ef. Dim o'r fath beth. Nid yw'r naill na'r llall o'r materion hynny'n berthnasol o gwbl i graidd ei ddadl dybiwn i. Ac yng nghraidd y ddadl honno, debygaf i, nid oes a wnelom ddim oll ag ansawdd beirniadaeth yr Athro Edwards (o'i chyferbynnu â'i hanesyddiaeth ddawnus), oherwydd – nid gwirionedd ffeithiol na gorchest emynyddiaeth, cyn belled ag y gwelaf i o leiaf, oedd yr hyn a'i poenai ef. Eithr bwgan mawr Calfiniaeth. Y syniad hurt a'r bygythiad annifyr y gallai fod gan Galfiniaeth ymagwedd neu athrawiaeth ynghylch y lle a'r arwyddocâd a oedd i lenyddiaeth yn ei fywyd ef; ac wrth ystyried llenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg y gallai'r fyddin o ragdybiau, a'i rheolai ef a'i safbwynt, ymyrryd yn annheg â phob pwyso a mesur cytbwys gan feirniad cyfoes.

Pan ystyrir, sut bynnag, y ffeithiau cywir yn sylwebaeth yr Athro Edwards mor aml yn nhraethodau gwych ei ddisgrifiad o'r Eisteddfodau, hyd yn oed pan gyfrifir y diffyg neu'r gwyrdroad yn ei farn negyddol, yr ydys yn gallu teimlo'n ddiogel fel pe baem ymhlith cydgerddedwyr. Ond pan symudwn yn ein blaen i geisio cyffwrdd â hanfod y broblem esthetig a noda, yn y fan yna ymdroi a wnawn ym myd damcaniaeth a theori. Hawdd y gellir cyfeiliorni.

Beth yn union sy'n corddi'r sylwedydd? Pa dramgwydd? Pa ddrwg sy yn y caws?

A oes yna ragdybiaeth sylfaenol sy ar y naill ochr neu'r llall o bosib yn peri anhawster inni i gyfathrebu â'n gilydd ynghylch llenyddiaeth?

Ac yn y fan yna, efallai mai sefyll yn ôl, a pheidio â syllu'n uniongyrchol ar yr hyn sy gan yr Athro Edwards i'w ddatgan, sy orau, a cheisio bwrw golwg yn hytrach ar yr hyn sy o'r golwg.

Ac yn yr union fan yna, dichon y caniateir imi awgrymu beth a welaf yn brif gyfraniad diwylliannol gan Galfiniaeth i farddoniaeth ac i lenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chyferbynnu hynny'n chwyrn â'r rhwystrau enbyd a gwenwynllyd a gafodd hi o du un o'i harchelynion yn ystod y ganrif honno, sef Pietistiaeth.

Un o ddiffygion mawr Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd prinder y cysylltiad rhwng dysg y Brifysgol a'r werin yr oedd i fod i'w haddysgu. Dyma un o'r ffactorau a

ddaliai'n ôl Bietistiaeth a'r rhagdybiau amdani. Ymgodymwn bellach ag anhawster presenoldeb – a phwysigrwydd – dysg crefydd a soffistigeiddrwydd argyhoeddiad.

Ymgodymwn hefyd â'r ffaith fod yna lenyddiaeth 'boblogaidd', hyd yn oed elfennaidd, yn yr un amgylchfyd. Pan na fydd gan iaith na sefydliadau deallol na nawdd proffesiynol a thraddodiadol cyfoes, hawdd y gall honno droi'n *patois* meddyliol. Bydd yn gallu dal – am gyfnod – i ddarparu llenyddiaeth gymharol syml, llenyddiaeth sy'n bodloni'r teimladau, llenyddiaeth sy'n hwyl ysgafn; rhyw Bobol-y-Cwm o lenyddiaeth, onid ânt yn imperialaidd a meddiannu pob modfedd o'n llên. Ond oni chydnabyddir teilyngdod ac oni rydd beirniad gynhaliaeth i weithiau llenyddol sy'n her i'r deall ac i aeddfedrwydd llawnaf y profiad dynol, mae yna beryg i'r llenyddiaeth honno ymddatod yn arwynebol, gan golli hunan-barch a hyder. Hynny yw, gall fod peryg i lenyddiaeth boblogaidd alltudio llenyddiaeth sylweddol.

Yn y ganrif ddiwethaf [sef y bedwaredd ganrif ar bymtheg] – sut bynnag y gresynwn oherwydd yr unochredd a arddelid yn ddiarhebol – fe geid un agwedd ar ein llenyddiaeth lle y meithrinid profiad gan y deall a'r teimlad a oedd yn ddatblygedig ac yn haeddu parch oedolion a oedd hefyd yn boblogaidd. A hynny oedd y ffrynt grefyddol. Yn achlysurol yn unig y bodlonid llawn allu oedolion i'r un graddau mewn meysydd eraill – er y ceid hynny hefyd ambell dro.

Yr hyn a roddodd efengylyddiaeth Galfinaidd, serch hynny, i lenyddiaeth Gymraeg yn gadarnhaol – yn nannedd y Bietistiaeth gyfyngol fythwyrdd – oedd llydanrwydd a dyfnder meddyliol ynghyd â serchiadau. Hynny yw, fe geid apêl at y deall lletaf: eithr nid digon y pen heb y galon. Roedd difrifoldeb meddwl ynghyd â dwyster yn enillion pendant i'n llên ar y pryd; ond ni ellir llai na chydnabod y gellir colli gweddau gwerthfawr ar fywyd wrth gyfyngu i Ras Arbennig ar draul Gras Cyffredinol: oherwydd Pietistiaeth, talwyd amdanynt ar draul hiwmor a dychymyg a llydanrwydd testunol. Perthynas Gras Cyffredinol o fewn Gras Arbennig yw prif broblem gwerthuso llenyddiaeth grefyddol. Heb ddatrys y broblem honno, hawdd y gall y fath lenyddiaeth ddirywio'n bolemig.

Yr wyf am awgrymu fod Pietistiaeth – ymhell cyn i Seciwlariaeth ddod yn norm – wedi bod yn gyfrifol am amddifadu'r Celfyddydau i raddau helaeth o'u gwir Ffynhonnell: union ffynnon ysbrydol diwylliedig y cyfnod. Wrth wahanu crefydd a bywyd ymarferol fel y gwnaeth hi, aethpwyd i ystyried rhai 'pethau' a 'gweithredoedd' yn anysbrydol neu'n ddamweiniol. Collwyd y berthynas rhwng ffeithiau bywyd. Yn y bôn nid safbwynt Beiblaidd yw bod yn wrthddiwylliannol fel yna. Fel y sylwodd H. R. Rookmaaker, daw'r agwedd honno o du athroniaeth baganaidd glasurol. Ond beth bynnag oedd y rheswm am y pla hwnnw, cafwyd anhawster i gysylltu'r cyflawnrwydd o agweddau ar y bywyd dynol â rhywbeth neu â Rhywun a ystyrid yn Ffynhonnell, yn Arglwydd, ac yn Bwrpas. Codwyd hollt rhwng credu a chelfyddyd. Ac o ganlyniad, cefnwyd ar

y Ffynhonnell, yr Arglwydd, a'r Pwrpas yna.

I'r unigolyn iach, o ba genedl bynnag y bo, y mae i lenyddiaeth, megis i bob un o'r celfyddydau, ei chyfiawnhad ei hun. Eto, er na raid chwilio am gyfiawnhadau 'allanol' i gelfyddyd, ac er na raid iddi fod ynghlwm wrth unrhyw 'neges' foesegol, nid hunanlywodraethol mohoni. Ymgysyllta'n glòs â miliynau o angorau yn y meddwl a'r bywyd dynol. Heb y cyswllt amlweddog hwn, nid oes iddi wir ystyr. Fel nad oes dim toriad rhwng credu a chelfyddyd, nid oes dim toriad rhwng celfyddyd-a-dyn-yn-ei-gymdeithas na rhwng dyn-heb-ei-gymdeithas chwaith. Yn y ddrama gyfarwydd ac ystrydebol honno a chwaraeir ger ein bron sy'n hawlio methiant yr Awen yng Nghymru i ledu'i hadenydd fel y dylsai hi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr wyf yn cyfrif mai Pietistiaeth yw'r pennaf drwg. Hi yw'r wrach dywyll. Yr oedd yn bod.

Cydnabyddwn hynny felly. Ac eto, o fynd ati i bwyso a mesur barddoniaeth y ganrif, er gwaethaf y diffygion goramlwg, daliaf i'w hystyried yn rhagorach ei ffrwythau na chynnyrch yr unfed ar bymtheg na'r ail ar bymtheg, ac – oni bai am Williams – hefyd yn rhagori hyd yn oed ryw fymryn ar y ddeunawfed ganrif. Nid canrif oedd hi i'w neilltuo hi i 'ddiddordeb hanesyddol' yn unig. (Tueddwyd ysywaeth gan rai beirniaid i ddefnyddio'r ymadrodd 'diddordeb hanesyddol' am lenyddiaeth nad yw'n werth taten heblaw ei bod yn adlewyrchu rhyw elfen yn y gymdeithas y mae gofyn i'r hanesydd sôn amdani am resymau diwydiannol, mabolgampol, neu imperialaidd).

Nid canrif oedd hi chwaith y dylid dweud wrthi na allwn chwilio ynddi am farddoniaeth ond yn ôl safonau celfyddydol gwneuthuredig ac isradd. Na. Caiff barddoniaeth y Cymry sefyll gyda gwledydd eraill yn oriel Barddas, a'i phen yn ddigon uchel am yr un rhesymau â hwy. Yr oedd ynddi amrywiaeth a llawnder yn ymestyn o Fugeilgerdd egnïol Taliesin Hiraethog i sbort gyrhaeddbell Gwydderig yn 'Beddargraff Gwraig Fawlyd', o ddychymyg arallfydus Glan Aled yn 'Y rhywbeth rhyfedd' a 'Hywel ac Angharad' (darganfyddiad Derwyn Jones) i garol plygain rhyfeddol Eos Iâl, o ysgytiad rhugl 'Yr wyf yn teimlo fel pe bawn i'n hen', gan Islwyn (darganfyddiad Gwenallt) i ddwyster ysbrydoledig David Jones. Nid disylw yw 'barddoniaeth werin' y ganrif, megis cerdd Daniel Ddu am achlysur agor pont Abercerdinen: bob tro y byddaf yn croesi'r bont honno byddaf yn meddwl am Ddaniel yn 'chwerthin' yn ei orfoledd amdani mewn cân sydd yn ei chrefftwaith yn drosiad ar ei hyd.

Pietistiaeth oedd melltith fawr barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond mae ganddi ambell chwaer yn yr unfed ganrif ar hugain, megis 'Dim Crefydd'.

Label yw'r gair Pietistiaeth, label anfoddhaol, annheg hyd yn oed, sy'n gorfod gwneud y tro i gynrychioli'r duedd anffodus tuag at barchusrwydd a diffyg synwyrusrwydd, tuag at gulhau crefydd i faterion defosiynol a materion yn ymwneud â'r sefydliad eglwysig a llwyrymwrthod, a thuag at ddiarddel hwyl a sbort ac 'amherthnasoldeb' y corff. Collodd y safbwynt dyrchafedig hwn olwg ar

gyfanrwydd bywyd.

Yn hyn o beth  nid oedd yn annhebyg i'r safbwynt Marcsaidd hwnnw a arddelai rhai yn yr Undeb Sofiet mor bŵl o ffyddlon a thrwy gydol tipyn go lew o'r ugeinfed ganrif. Gellid synhwyro'r un math o beth – er nad yw hynny'n angenrheidiol o gwbl – yn osgo rhai llenorion sy'n pleidio achosion brwd eraill: lle bynnag y bo credu (neu anghredu) cryf ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y bywyd dynol, fe all hwnnw golli golwg ar gatholigrwydd. Nid ehangder cydymdeimlad yn unig a gollir, eithr lled yn ansawdd y pynciau a drafodir.

Fe all hyd yn oed wyrdroi safonau, gan beri i rai bleidio gweithiau llenyddol sy'n coleddu rhyw safbwyntiau penodol ar draul gwerth cynhenid celfyddydol.

Nid dadl yw hyn oll, wrth gwrs, yn erbyn credu cryf. Nac o blaid yr hyn a ystyrir yn gymedroldeb, peth sy'n fynych mewn gwirionedd yn ffurf ar farwolaeth. A'n gwaredo! Lle bynnag y bo cyfiawnder a gwirionedd, gwae ni os bodlonwn ar gredu llipa. Na! Dadl yw, yn hytrach, o blaid y cynhwysfawr o ran testun, ac o blaid parodrwydd i gyd-deimlo ac i werthfawrogi ansawdd, hyd yn oed, waith a sgrifennir yn ôl rhagdybiau neu argyhoeddiadau croes i rai'r darllenydd.

Yn hyn o beth, yr hyn a fu – ac sy'n – angenrheidiol yw athrawiaeth neu feddylfryd sy'n ystyrlon ei ragdybiau amlochrog, ac sydd wedi myfyrio am ragdybiau. Rhagdybiau sy'n canfod y sfferau deallol a theimladol sy'n gydradd o fewn cyfanrwydd y greadigaeth.

Braidd yn feiddgar ym mryd seciwlariaid cyfarwydd ac adferol yr ugeinfed ganrif oedd hawlio'r fath gymwysterau ar ran Calfiniaeth. Tipyn o sioc, yn wyneb y llif 'anochel' tuag at 'eangfrydedd' di-gred a rhagweladwy, oedd crybwyll y fath air amharchus. Brwnt ac aflednais oedd enw Calfin. Ac ofnaf weithiau y gall mai dyna paham y'i defnyddir yn aml gan rai ohonom, gredinwyr, i ddychrynu'r seciwlariaid confensiynol. Ar ôl blynyddoedd diddychymyg a chydymffurfiol o anghrediniaeth lwyd, yr oedd yn demtasiwn rhoi ysgytwad i'r Sefydliad hwnnw. Ac yr oedd yn fwy byth o demtasiwn pan sylwyd mor ychydig yr oedd y seciwlariaid hynny wedi myfyrio ynghylch natur eu rhagdybiau llamsachus eu hun ynghylch y goruwchnaturiol, yr anweledig, a'r safle canolog a roddid i'r dyneiddiol.

Bid a fo am hynny, credaf mai gwendid beirniadol y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd ei phrinder Calfiniaeth, ei Phietistiaeth, ei hamharodrwydd i feddwl drwy ymhlygion y datganiad Calfinaidd a wnaeth Ieuan Glan Geirionydd ar gyfer ei gylchgrawn *Y Gwladgarwr* ynghylch 'buddioldeb', ac a gymhwyswyd gan John Parry yn y *Gwyddoniadur.* Sef Calfiniaeth yn olyniaeth y rhaglen a osodid gan Williams yn 'Golwg ar Deyrnas Crist' ac yn *Pantheologia.* Pe meithrinid y feirniadaeth honno wedi hynny, dichon na byddai rhai o'r datganiadau seciwlaraidd cyfoes mor gynnil eu dealltwriaeth.

*   *   *

Fe ofynnwyd y cwestiwn i mi sawl gwaith gan Gristnogion ers tro byd; ac yn ddiweddar fe'i gofynnwyd i mi gan un anghredadun meddylgar: 'On'd oes modd i anghredadun ddeall barddoniaeth Gristnogol?'

Dyna'r broblem... Disgwyliwn y bydd Cristion ac anghrediniwr fel ei gilydd, wrth gwrs, yn medru ymateb i farddoniaeth sy'n ymdroi o gwmpas y 'naturiol'. Gan fod y naill ddosbarth a'r llall fel ei gilydd yn gyfarwydd â phrofiadau o fewn dimensiynau amser a lle, disgwyliwn y gallant ill dau weithio o fewn golwg 'yr enedigaeth gyntaf.' Ond a oes modd i anghredinwyr, – sy'n gorfod ymgyfyngu i'r rhagdyb ymarferol mai Dyn (nhw eu hunain) sydd yn y canol, – ymestyn yn ddychmygol i werthfawrogi'n llawn farddoniaeth ledled y byd, gymaint ohoni, sydd a wnelo â phrofiadau'r ailenedigaeth, genedigaeth yr ysbryd byw?

Wedi'r cwbl, y mae'r anghredadun yn meddu ar ysbryd sydd heb fod (eto o leiaf) yn effro i'r byd goruwchnaturiol. 'Corff' (a meddwl) ydyw o ran person. Mae'r 'Enaid', sef y gynneddf i adnabod Duw, yn aros yn farw. A'r rhagdyb anochel ganddo yw nad oes yna ddim y tu hwnt i'r synhwyrau corfforol i'w atal ef/hi rhag amgyffred ias yr Ysbryd. Eto, ni all werthfawrogi ffaith hanesyddol a gwrthrychol na pherthynas fywiol â'r goruwchnaturiol. Cyfyng yw. Onid yw hynny'n annheg?

Mae'r cwestiwn yn un mwy taer yn achos barddoniaeth Gymraeg na chyda rhai llenyddiaethau eraill, ac yn arbennig yn achos y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe gofiwn am osodiadau Saunders Lewis:

> 'Y mae ceisio ysgrifennu hanes ein llenyddiaeth heb drafod o ddifri y mater diwinyddol yn debyg i'r hyn a elwir gan Saeson yn gais i actio drama Hamlet heb fod neb yn cymryd rhan tywysog Denmarc ... Nid ein hysgar ni Gymry oddi wrth Ewrop y mae'n llenyddiaeth grefyddol ni a'n dadleuon diwinyddol. Yn gwbl groes i hynny, hwy sy'n ein profi ni yn rhan o'r un gwareiddiad â Racine a Pascal a Milton a Dante.'

Yn awr, fe allwn resynu'n daer fod gormod o'n llenyddiaeth orau yn yr unfed ganrif ar bymtheg hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfyngedig ddefosiynol. 'Bai yw hyn. Adlewyrcha bietistiaeth gwbl anfoddhaol a chul a gwendid diwinyddol.' Gwir! Ond wedi cydnabod hynny, ni ellir ei hosgoi. Ni ddylid ymateb gyda chulni 'naturiol' yr un mor unochrog. Mae pietistiaeth wrthdröedig, pietistiaeth wyneb-i-waered seciwlariaeth, yn gallu bod hyd yn oed yn waeth. A rhaid dod yn ôl at y cwestiwn uchod, sy'n arbennig o berthnasol i'n cyfnod bach presennol. Tra bo darllenwyr Cymraeg adweithiol wedi ymgaledu ac yn gyndyn i ymagor i'r dimensiwn ysbrydol, a oes rhaid iddynt fethu ym mhob gwerthfawrogi o lawn ansawdd y canu Cristnogol?

Ac yn waeth na hynny, oni all y diffyg medr i ymateb i farddoniaeth ysbrydol, nid yn unig amddifadu rhai beirniaid a darllenwyr o gyfran helaeth iawn a chanolog iawn o'r profiad dynol

drwy'r canrifoedd, eithr hefyd eu 'hala nhw'n grac' fel y dywedwn? Eu cynddeiriogi. Codi eiddigedd; a chanlyniad anochel y cyfryw gyflwr weithiau yw bustachu a sarhau a chelwydda ac ymosod – heb sôn am anwybyddu.

Nid wyf yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwn. Nid cwestiwn nawddogol mohono. Ond nid cwestiwn i'w osgoi chwaith.

Yn sicr, gwn am wir anghredinwyr, ac ambell un sy'n arddel y label 'pagan', sy'n medru ymateb i wefr barddonol emynau yn well na Christion profiadol. Y mae yna eraill y mae eu rhagfarnau'n drech na nhw. Neu o leiaf eu theorïau. Y mae a wnelo dychymyg a hydeimledd ieithydol ac egni meddyliol a chyd-deimlad emosiynol rywfaint â'r medr 'cyffredinol' hwn. Ond nid yw hynny'n ateb y cwestiwn, oherwydd y mae a wnelo hefyd â llawn weledigaeth 'arbennig' a dealltwriaeth a synwyrusrwydd geiriol yr emynydd a chynnwys ystyrlon llawn y llenyddiaeth hon.

Gwn ar y llaw arall am duedd i Gristion ymateb yn gadarnhaol i waith llenyddol am resymau sy'n gwbl all-lenyddol. Un gallu y mae gofyn i'r beirniad o Gristion ei feithrin yw gwahaniaethu rhwng yr ias o ymhyfrydu mewn celfyddyd a'r ias (os caf ei grynhoi'n enghreifftiol) o glywed o'r galon enw'r 'Iesu'. I'r Cristion anhyfedr nid anodd yw cymysgu'r rhain, er drwg i'r naill ac i'r llall. Mae'n clywed athrawiaethau gras yn cael eu datgan yn groyw syml o'r galon neu berson yr Arglwydd Iesu'n cael ei ganmol gydag arddeliad cynnes, ac mae hynny'n gallu ennill bryd y Cristion o feirniad fel pob Cristion arall i'r fath raddau nes colli cydbwysedd celfyddydol. Ond fel beirniad llenyddol, rhaid iddo lygadu man arall ac ymateb i wefr arall hefyd, a gallu 'ynysu' neu, o leiaf, adnabod 'hunaniaeth' yr elfen gelfyddydol. Rhaid iddo ymateb i'r defnydd o ddawn greedig.

Er bod Cristion rywbryd neu'i gilydd wedi bod yn ddi-ffydd ac wedi gallu amgyffred y cyflwr amddifad hwnnw i'r botwm, a yw ei gredoau newydd bellach yn ei rwystro rhag llawn werthfawrogi profiad presennol yr anghredadun? A chymryd ein bod yn derbyn yr athrawiaeth ysgrythurol o ddyfal barhad y saint (hynny yw, er bod gwir anghredadun yn gallu dod yn Gristion, ni all gwir Gristion ddod yn anghredadun), a yw cyflwr newydd y saint yn adeiladu wal ddiadlam rhyngddynt a gwerthfawrogi y sefyllfa cynt?

Rwy'n credu y gallwn fentro cytuno ar un cyferbyniad – sef rhwng '*gwerthfawrogi'* a '*chredu'r un fath*'. Gellir cydsynied gobeithio nad oes rhaid cefnogi credoau dyfnaf llenor er mwyn ei edmygu. Nid wyf i er enghraifft yn arddel yr un syniadau crefyddol â Soffocles, Goethe, a Brecht; ond ni chaf ddim anhawster i'w gwerthfawrogi. A hynny nid oherwydd eu 'crefft' yn unig. Mae'r ffurf y mae honno'n asio'u gweledigaeth ar fywyd a'u hadnabyddiaeth o'r natur ddynol ac o gyfoeth y ddaear hon a'u gwefr yn peri i mi wrogi. Ac o'r ochr arall, fe allwn ymhyfrydu'n ddidrafferth yn yr un daliadau crefyddol â rhai prydyddion megis Dewi Afan, Mair Eifion, Berw, Barlwydon neu Grawerth; ond a'm gwaredo rhag darllen gormod o'u gwaith prydyddol hwy.

Mewn diwinyddiaeth Galfinaidd (os caf ddweud) mae yna athrawiaeth eglur sy'n *esbonio* hyn, pam y mae llenor o anghredadun neu wyddonydd o anghredadun yn medru bod yn rhagorol, a llenor o Gristion gloyw fod yn fardd alaethus, druan. Nid yw'n dewis gwasgaru Ei ddoniau daearol yn ôl ansawdd na maint ffydd neb ohonom. Mae'n gwneud hynny'n ddiwahân. Trafodais hyn yn weddol helaeth yn *Llên Cymru a Chrefydd,* a nodi gwahaniaeth adnabyddus rhwng Gras Cyffredinol a Gras Arbennig (neu achubol). Hynny yw y gras sy'n ymwneud â phob math o weithgareddau daearol a'r gras sy'n ymwneud â'n dwyn i adnabyddiaeth o Dduw.

Nid wyf wrth gwrs yn ceisio gwahanu'n ddigysylltiad. Nid wyf yn haeru nad yw popeth yn y bôn yn dod o dan yr un Sofraniaeth. Oes, y mae yna undod drwy'r byd; ond y mae yna amrywiaeth hefyd.

Y mae i bob cylch o weithgarwch ei natur ei hun; a chamgymeriad fyddai gadael i'r math o farn sy'n addas mewn un cylch ymyrryd â'n barn mewn cylch gwahanol. Hynny yw, nid rhagfarn grefyddol na gwrthgrefyddol yw'r hyn sy'n ymateb yn feirniadol iach i lenyddiaeth.

Crybwyllais eisoes athrawiaeth gras cyffredinol, sy'n esbonio sut y gall Calfinydd dderbyn fod anghredadun rhonc yn medru bod yn llawer rhagorach llenor na Christion, a pham y mae Cristnogion gloyw iawn yn medru sgrifennu'r rwtsh ryfeddaf. Athrawiaeth arall sy'n bur berthnasol ymhlith Calfiniaid yw Sofraniaeth y Sfferau – sef mai amhriodol yw dwyn barn un sffêr ymhlith ein gweithgareddau a'i defnyddio i feirniadu sffêr arall. Hynny yw, nid priodol yw dwyn criteria gwleidyddol i feirniadu Mathemateg neu griteria eglwysig i feirniadu pêl-droed. Neu fel y dywed Dr. R. Tudur Jones, 'Egwyddor dra phwysig mewn Calfiniaeth yw parchu annibyniaeth y gwahanol feysydd tan Dduw.'

Nid wyf yn disgwyl y bydd odid neb yn anghytuno'n ysgubol ar hyn – mwy nag ar lawer o bwyntiau eraill. Ond i Galfinydd y maent yn sylfaenol yn y gwaith o feirniadu llenyddiaeth.

Felly, os oes gen i argyhoeddiadau diwinyddol, ni ddylai'r rheini ymyrryd yn ormodol â'm gwaith clodwiw yn ddyfarnwr pêl-droed nac â'm gwerthfawrogiad o gelfyddyd cerdd neu o ddelwedd nofelydd o'i gymdeithas gyfoes. Y mae gan bob cylch (fel yr un esthetig) ryw fath o hunanlywodraeth, er eu bod oll yn ddarostyngedig hefyd i'r un undod. Y mae gan bob cylch ei briodoleddau ei hun, a blin mewn ambell wlad yw gweld y wladwriaeth yn ymyrryd yn ormodol ag ysgolion neu â chrefydd neu â llenyddiaeth (boed yn grefydd seciwlaraidd neu beidio). Yn Galfinwyr neu beidio, ein braint yw gallu ymateb yn gelfyddydol i grefft eiriol ac i ddelweddu effeithiol llenorion yn ôl safonau llenyddol perthnasol i'r oes.

ATODIAD 2016

Yn *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* cafwyd tair rhan (1) Rhagymadrodd yn cyflwyno patrwm y gwaith barddonol yn y ganrif, (2) Detholiad o'r gwaith hwnnw (280 o gerddi), (3) Nodiadau ar y gwaith.

Bûm yn myfyrio am y gyfrol gryn dipyn ar ôl ei rhoi at ei gilydd, ac yn mwynhau'r farddoniaeth wrth ei darllen droeon yn fwy byth, megis i'r gyfrol hon yn awr. Tybiais mai buddiol fyddai ychwanegu rhai ystyriaethau a gododd yn fy meddwl, yn arbennig gan fod y Coleg Cymraeg bellach wedi atgynhyrchu'r Flodeugerdd hon ar ei Wefan.

Fe gododd Hywel Teifi Edwards lawer o gwestiynau cyfoes a gwerthfawr yn ei adolygiad, ac rwyf yn mawrbrisio'r rheini.

Ond y mae dethol casgliad o gerddi yn sicr o godi cwestiynau lawer eraill wrth ddarllen gwaith y ganrif ymhellach, ac wrth i'r golygydd ddarganfod rhai cerddi newydd a fuasai'n anhysbys iddo ynghynt. Hefyd, wrth ddarllen y Flodeugerdd yn weddol gyson yn ddiweddar a'i thrafod gyda ffrindiau, byddaf, nid yn unig yn profi mwynhad mawr yn y ganrif, eithr hefyd yn fy holi fy hun ynghylch y bylchau.

Bylchau ydynt sy'n codi yn y tair rhan i'r gyfrol – (1) y Rhagymadrodd, (2) y Testun, (3) a'r Nodiadau. Man a man i mi eu nodi mewn ychwanegiadau y fan hyn yng nghynffon yr atgynhyrchiad o'm hymateb i'r adolygiad.

RHAGYMADRODD

t. 12. Yn y dyfyniad o sylwadau Dafydd Owen, yn lle 'Ieuan Glan Geirionydd' dylid darllen 'Iorwerth Glan Aled'.

t. 22. Cyn y sêr, gellid ychwanegu: 'Mae Pedr Fardd yn enghraifft deg o fardd (fel Eben Fardd) – er gwaethaf gallu diamheuol dda mewn barddoniaeth gaeth, gyda llawer o ragoriaethau digon nodedig – a ragorodd yn fwy yn ei emynau oherwydd iddo deimlo'n fwy cartrefol a rhydd yn yr amgylchfyd mwy gwerinol a chyd-destun naturiol a oedd iddynt.'

TESTUN

t. 79. Rwy'n edifar fy mod i heb gynnwys dau emyn arall gan Pedr Fardd: sef (i) 'Dywedwyd ganwaith na chawn fyw' a ymddangosodd yn gyntaf yn yr *Athraw* yn 1838, ac yn *Llyfr Emynau a Thonau*, y Methodistiaid, 1929, emyn 753; a (ii) 'Cysegrwn flaenffrwyth dyddiau'n hoes', *ibid*. Emyn 753.

t. 118-9. Ychwaneger pennill 6:

Hawdd olrhain ei gerddediad hyd y llys, hyd y llys,

Gan lwybr coch orlifiad hyd y llys,
Lle cafodd Iesu cyfion
Ei watwar gan elynion
A tharo'i wyneb tirion yn y llys, yn y llys,
Er dirmyg ar ei berson, yn y llys.

t. 213. LLEW LLWYFO (1831-1901) Ychwaneger yr englyn:

Dduw annwyl, o'th ddaioni, - dyro ras,
Drwy rym imi godi,
Drwy ganol pob drygioni,
Eto, y Tad, atat ti.

t. 290. Ychwaneger GLAN PADARN (THOMAS DAVID THOMAS, 1848-88)

Cwsg fy anwylyd di-nam,
Tecach na rhosyn wyt ti;
Huna ym mynwes dy fam,
Tarian dy fywyd yw hi.
Gwelw yw'r nos wrth y drws,
Lleddf ac ystormus ei chri;
O mae dy ruddiau di'n dlws,
Cannwyll fy llygaid wyt ti.

Draw ar y don mae dy dad,
Ymladd â gwyntoedd yr aig,
Dychwel wna eto i'w wlad
At ei anwylyd a'i wraig.
Gweled dy wyneb mae'n awr,
Clywed dy lais ar y lli;
O mae'n dy garu di'n fawr,
Cannwyll ei lygaid wyt ti.

Stormydd y gaeaf a'u gwg
Eto ar fyrder a ffy;
Gwanwyn a'i lesni a ddwg

Fywyd o londer i lu
Tithau, fy mhlentyn di-nam,
Chwerddi ar dywod y lli,
Efo'th gwch bychan a'th fam,
Cannwyll ei llygaid wyt ti.

Rhuo mae'r gwyntoedd o hyd,
Tuchan yn ffenestr y cefn;
O'r wyt ti'n gariad i gyd,
Rho imi gusan drachefn.
Bellach, gorweddwn i lawr,
*Cysga, si lwli, si, si*;
Huna, wel huna yn awr,
O cannwyll fy llygaid wyt ti.

Yma, mae cwestiwn 'sentimentaliaeth' yn codi, sy'n gofyn caledrwydd chwaeth, cywair dagreuol gwneuthuredig, a'r gogwydd i orfodi gwryweidd-dra (yn yr ystyr ddadleuol).

Pendronais wrth olygu'r gyfrol ar y pryd; a phendronais yn hir wedyn. Fe'i cynhwyswyd gan W. J. Gruffydd yn ei *Flodeugerdd,* 1946 mewn detholiad llawer llai o farddoniaeth na hyn o waith a neilltuwyd i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dywedodd R. Williams Parry yntau yn *Rhyddiaith R. Williams Parry,* gol. Bedwyr Lewis Jones, 1974: t. 22, 'Buom yn meddwl lawer tro fod 'Cân y Fam i'w Phlentyn' yn un o'r cerddi perffeithiaf yn yr iaith.' Ac ar d. 62: 'Nid oes dlysach cân yn Gymraeg na 'Chân y Fam i'w Phlentyn.' Bûm innau'n petruso; bardd yw sydd heb fod yn *Y Bywgraffiadur* nac yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru.* Ac eto, wrth adolygu, dyma fi'n gwrando ar berswâd Glan Padarn, Gruffydd, Williams Parry, a'm chwaeth fy hun o'r newydd, ac fe ildiaf i'r perswâd yna oll gyda brwdfrydedd. Nid sentimentaliaeth sydd yma.

t. 152-60. Byddwn i'n ychwanegu 'Diwedd y Cynhaeaf' o ddetholiad Caledfryn.

t. 166-88, Credaf, ar ôl sgwrs gyda Dafydd Ifans mai gwiw fyddai ychwanegu carol 'Ni aned neb erioed i'r byd fel Iesu Grist.' Meddai Dafydd, 'Yr oeddwn mewn cyfarfod carolau ym Mhlas Hendre a phenderfynwyd ffonio Dr Meredydd Evans a oedd yn anhwylus ar y pryd, gan fod y cynulliad am gynnig rhyddid iddo ddewis rhywbeth i'w chlywed dros y ffôn. Fe ofynnodd ef inni ganu'r garol 'Ni Aned Neb', dau bennill o waith Eben Fardd, ar hen alaw leddf a gasglwyd gan Ylltyrn Williams,

Dolgellau, ac a drefnwyd yn grefftus iawn gan y cerddor Mervyn Roberts (1906-90), sef mab ieuengaf yr Arglwydd Clwyd cyntaf.'

'Ni aned neb erioed i'r byd
Fel Iesu Grist;
Ni fu un gŵr o'i fewn i gyd
Fel Iesu Grist;
O'r holl greadigaeth, gorau gwawr,
Sydd yn y nef a'r ddaear lawr,
Nid oes, ni fu, yr un mor fawr,
Ag Iesu Grist.
A chofio geni Hwn yw'r gân
Sy'n gwneud y nefol deulu'n dân,
Yn dôn o glod i'w enw glân,
O! Iesu Grist.

Ac nid yn unig yn y Nef
Mae'r gân i gyd,
Datseinia'r ddaear lafar lef
I Brynwr byd;
Ar ôl y codwm mawr a'i loes
O Eden draw y dyn a droes
I weled Iesu Grist a'i Groes
A chael iachâd;
Edrychai'r tadau hwythau'n hir
Am Iesu gwiw, Feseia gwir,
Ar ddiwrnod byddai'n dod i dir,
O dŷ ei Dad.'

Âi Dafydd ymlaen, 'euthum i i edrych trwy'r holl gyfrolau a briodolid i Eben Fardd yng nghatalog y Llyfrgell Genedlaethol, ond nid oedd unrhyw sôn am y garol hon .... Ac yna, yn hollol ddisymwth ddechrau 2001, pan oedd y tymor plygeiniau wedi dod i ben, deuthum o hyd i garol Eben Fardd ar ddamwain yn y Llyfrgell Genedlaethol mewn cyfrol o garolau amrywiol yn dwyn y teitl *Seren Bethlehem* a gyhoeddwyd yng Nghaernarfon gan William Owen tua'r flwyddyn 1850. Ac yn wir i chi, yr oedd yno ddau bennill ychwanegol o waith Eben Fardd, a dyma nhw:

Rhown foliant am y bore bu

'R angylaidd hynt,
Gogoniant am y bore bu
Mwyn ganu gynt,
Y bore daeth – ein Priod yw,
A bore geni'r Baban byw,
I ddwyn y dydd i hedd â Duw
Mewn rhyfedd Iawn;
Pa le mae Satan? Dan ei draed;
Pa le mae'r gyfraith? Wele waed;
O! Hwn yw'r gŵr yn Iawn a gaed;
A llwyddiant llawn.

Ni fuasai gobaith, dim ond gwae
I ni yn awr,
Na hedd na bywyd oni bai
Ddod Crist i lawr;
Ond wedi dyfod gwir Fab Duw
Yn annwyl rodd i ddynol ryw,
Mae gobaith eto byddwn byw
Trwy'i angau Ef;
Mae heddiw â'i ddwy law ar led
Yn derbyn pawb i'w freichiau red;
O! rhoddwn ynddo groyw gred,
Anwylyd Nef.

Cerdd ragorol arall, y dylid ei hychwanegu, yw'r un hynod unigolyddol a geir yn *Gweithiau Barddonol Eben Fardd,* 1821: 'Ymddiddan: Y Byd – Dyn – a Chrefydd,' 359-60.

BYD – Wel dywed beth a fynni, ddyn!
Ai nid y delyn dâl?
Os prudd-der sy'n dy wasgu di
Ei chywair hi a'i chwâl;
Ai dawns a *miwsig* fynni di
I lenwi'r neuadd lân,
A bod dy hunan yn ddi-nych

Yn destun gwych y gân?
DYN – Pa hyd y caf fod felly'n rhydd,
A fydd yr oes yn fawr?
BYD – O! Ni hysbyswyd hynny im,
Fe allai dim ond awr!

BYD – Tyrd, Ddyn! Na fydd yn brudd ger bron.
Ti gei gyfeillion fyrdd,
A thi gei fod yn ben ar bawb
A phawb yn moli'th ffyrdd;
Cei bob rhyw faswedd weli'n dda
A'th wala fyth o win,
A gorsedd aur hen ofni brad
A *gwlad* i blygu'i glin!
DYN –Pa hyd y caf fod felly'n rhydd
A fydd yr oes yn fawr?
BYD – O! Ni hysbyswyd hynny im,
Fe allai dim ond awr!

BYD – Na, gwranda, ddyn! A dilyn di
Fy nghyngor i yn rhwydd.
Cei aur heb ball, cei arian pur,
Cei lawer segur swydd;
Cei fyw yn foethus yn dy fro
A mynd o ris i ris
Nes gweld y lleill o'th ryw yn llai
Fel rhai fai lawer is;
DYN – Pa hyd y caf fod felly'n rhydd?
A fydd yr oes yn fawr?
BYD – O! Ni hysbyswyd hynny im
Fe allai dim ond awr!

BYD – Taw sôn! Cei bob danteithiol faeth
Cei etifeddiaeth fawr;

A bod yn ddewr *Faeslywydd* prif,
A'th gyfrif fel rhyw gawr;
Pe byddit im yn ffyddlon was
Naw teyrnas rown i ti,
Ac enw trwy y ddaear gron
Fel angel bron mewn bri:
DYN – Pa hyd y caf fod felly'n rhydd,
A fydd yr oes yn fawr?
BYD – O! Ni fynegwyd hynny im,
Fe allai dim ond awr!

CREFYDD – O! ddyn, na wrando ar y byd
Paid fyd! â denu'r dyn;
Mae wrth dy rwysg er maint dy foes
Ryw ing a loes ynglŷn!
Ond ddyn! cofleidia fi yn rhwydd
A byddi *ddedwydd* ddyn;
Myfi yw *Crefydd,* gennyf mae
Iachâd rhag gwae a gwŷn;
DYN – Pa hyd y pery'r *dedwydd ddydd*
A fydd yr oes yn fawr?
CREFYDD – O! bydd, O! bydd, er allo neb,
Yn *Dragwyddoldeb* mawr!

Wedyn ychwaneger gan Eben Fardd yr englyn beddargraff: i'r diweddar Robert Dafydd, Tyddyn Ruffydd, Brynengan:

Nodedig ei ddawn nid ydoedd; – er hynny
Rhannodd fara'r nefoedd
O law aur i laweroedd;
Offeryn Duw a'i ffrind oedd.

t. 252 IOAN MADOG. Ychwaneger yr englyn:

*Crist Gerbron Peilat*

Y Duw dirfawr diderfyn, – bu ryfedd
Ei brofi gan adyn, –
Un fu'n llunio tafod dyn
Yn fud o flaen pryfedyn.

t. 269 Ychwaneger:

R. J. DERFEL (1824-1905)

Llefara, Iôr, nes clywo pawb
Dy awdurdodol lais;
A dyro iddynt ras i wneud
Yn ôl Dy ddwyfol gais.

Goresgyn, â galluoedd glân
Dy deyrnas fawr Dy hun,
Bob gallu a dylanwad drwg
Sydd yn anrheithio dyn.

Teyrnasa dros ein daear oll,
Myn gael pob gwlad i drefn:
O, adfer Dy ddihalog lun
Ar deulu dyn drachefn.

Gwna'n dae'r fach oll fel Eden gynt,
Yn nefoedd fach i ni;
A bydded, tra bo'n ddaear mwy,
Yn sanctaidd deml i Ti!

Ar d. 303. Cywirer y testun, llin.10. Cambrintiad 'Fel pe bai.'

NODIADAU

Mae gan yr Athro E. Wyn James nodyn gwerthfawr iawn am Thomas William: tt.45-9:

'Myfyrio ar adnod neu adran fechan o'r Beibl, archwilio ei harwyddocâd a'i throi yn ddarlun byw ac ystyrlon, oedd dull arferol Thomas William wrth gyfansoddi emyn. Adnodau o Salm 55, er

enghraifft, yw man cychwyn ei emyn adnabyddus, 'Adenydd fel c'lomen pe cawn'; a daw'r ysbrydoliaeth ar gyfer ei emyn gorau (i'm tyb i, beth bynnag), sef 'O'th flaen, O! Dduw, rwy'n dyfod/ Gan sefyll o hir-bell', o Efengyl Luc, pennod 18. Nid yw'n syndod deall, felly, i rai o emynau Thomas William gael eu llunio yn y lle cyntaf ar gyfer testunau y byddai'n pregethu arnynt ym Methesda, a phan gyhoeddwyd y prif gasgliad ohonynt, yr enw a roddodd ar y gyfrol honno oedd *Dyfroedd Bethesda* – cyfeiriad nid yn unig at y capel yn y fro ond hefyd at y llyn yn Jerwsalem yn nyddiau Iesu Grist yr oedd modd cael iachâd ynddo. (Ioan 5.1-9)

Emynydd tawel, dwys, myfyrgar yw Thomas William. Nid oes yn ei waith yr un bwrlwm afieithus ag a geir yn emynau Dafydd William. Mae'n emynydd crefftus a soniarus a chartrefol. Yn 'emynydd cwynfannus', hefyd yn ôl W. J. Gruffydd. Ac yr oedd ganddo lawer i fod yn gwynfannus yn ei gylch o tua 1790 ymlaen – gweld yn Llan-gan 'borfa las [yn] tyfu ar y ffyrdd oedd goch o'r blaen wrth i awelon y diwygiad Methodistaidd ostegu ym Mro Morgannwg, profi siom a thristwch ymraniadau eglwysig; colli nifer o'i deulu a'i gyfeillion agos trwy angau, gan gynnwys ei wraig a dau o'i dri phlentyn, dioddef ei hun am flynyddoedd gan lesgedd ac afiechyd a hynny oll yn dod i ran un a dueddai wrth natur at fod yn ddwys a phruddglwyfus. Ond er mai dechrau yn y lleddf y mae Thomas William yn aml yn ei emynau, nid yw byth yn gorffen yn y cywair hwnnw. Mae'r ddelwedd o bechod fel afiechyd a Christ fel Meddyg yn digwydd droeon yn ei waith, a thrwy'r cwbl gwelwn ei ffydd gadarn yn yr Un a all iacháu pob clwyf:

> Wel, dyma Feddyg sy'n parhau
> Yn gwbl abl i iacháu; ...
> Dewch ato ef, rai llwythog, dewch,
> Gorffwysfa i'ch eneidiau gewch.

Er ei bruddglwyf, gobaith ac nid cwynfan yw gwir gyweirnod canu Thomas William drwyddo draw, a'i ffydd yn y Meddyg Mawr yn ddi-sigl hyd ei fedd.'

t. 394
[David Charles, 1762-1834] Mae'r hanes trawmatig am y golled a gafodd David Charles pan aeth ei ffatri raffau ar dân yng Nghaerfyrddin yn berthnasol ym mhob un o'r pum emyn a gynhwysir yn y Flodeugerdd hon. Dysgwyd i Charles, gan ei golled enbyd, mor fyr, yn wir mor ddiddim, oedd 'pethau' y byd hwn. Yn yr ail emyn, dywed:

> 'Tegwch byd a'i holl bleserau,

Yn ei ŵydd a lwyr ddiflannai.'

Yn hytrach nag edrych ar fflamau'r byd, hiraethai am 'olwg hyfryd/ Ar ei wedd, dywysog bywyd.' Tebygaf mai sioc, neu'n hytrach ryfeddod neu syndod oedd y gwirionedd hwn iddo, 'synnu fyth ar synnu/ yn nhrigolion gwlad goleuni.' Paradocsaidd oedd 'Uchelderau mawr ei Dduwdod,/ A dyfnderoedd ei ufudd-dod;' ac mae paradocs bob amser yn rhyfedd. Gwaith yr emynydd hwn fu moli hyn, a gweld rhyfeddod ei Dduw trugarog: 'Rhagluniaeth fawr y nef, mor rhyfedd yw.'

Bûm yn darllen ac yn ailddarllen pum emyn David Charles, ac yn cael pleser celfyddydol o'r cyfannu crefftus oedd i bob emyn. Yn yr emyn cyntaf, 'Crist y Bugail', y mae pob pennill yn cydio mewn swyddogaeth a pherthynas yn ôl un thema waelodol, ac yn canoli ar eiriau allweddol i gario'r thema o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r pennill yn sôn am syndod 'Bugail o'r nef yn dod i lawr/ I geisio'i braidd trwy'r erchyll anial mawr.' 'Bugail yw ef yn y pennill cyntaf a'r ail a'r pedwerydd, o ran dyletswydd a chariad. Mae'r pwyslais wedyn ar 'grwydro/crwydriad' yn yr ail a'r trydydd pennill. Wedyn, mae 'Cydymaith' yn y trydydd pennill, gyda 'Chyfaill' yn y pumed eto'n adeiladu'r ymwybod o agosrwydd a phererindod ysbrydol. Mae yna adleisiau geiriol ll.1 'fe'm dygodd, ll. 9 'fe'm harwain, sy'n effeithiol. Yna, yn y cwpled clo, y mae'r termau deublyg trosiadol hyn yn berthynas – naturiol a goruwchnaturiol – yn clymu'r rhediad oll:

'Fy nghyfaill wyt, medd ef wrth lwch y llawr,
A'th Dduw wyf fi i dragwyddoldeb mawr.'

'Llwch y llawr' oedd cyflwr ei fywoliaeth yn y tân, yn llythrennol.

Mae'r trydydd emyn 'Gorfoledd y credadun' yn enwocach na'r un o emynau David Charles, onid am y pedwerydd efallai, 'Rhagluniaeth.' Mae'r ddau mewn gwirionedd yn mawrygu 'Cynllun Duw i fywyd'. Ond y pedwerydd, fe ddywedir, yw'r un a gysylltir yn bennaf â'r tân. Digwyddodd y tân, a'r bore hwnnw ac yn y prynhawn, marchogodd David Charles i'r oedfaon heb grybwyll dim wrth y swyddogion nac aelodau'r gynulleidfa. Yng Nghynllun Duw mae'r cwbl yn undod. Roedd y diwedd yn esbonio'r dechrau, ac yn goleuo'r cyfan rhyngddynt:

'O fryniau Caersalem ceir gweled
Holl daith yr anialwch i gyd.'

'Pethau' yn unig a aeth yn anialwch... 'Â ninnau'n ddihangol o'u cyrraedd/ I'r beraidd Baradwys i fyw.'

Mae'r pumed emyn yn dynn o syml ac unol, ac amlder y geiriau unsill, bron trichwarter, yn tanlinellu elfenoldeb eithafol gwaith yr emynydd:

'Fry yn y nef ac ar y llawr.'

Dyma emyn unigryw wrth enwi'r fath destun, sef rhyfeddod at *anian* Crist, gan roi amlygrwydd i'r gair hwnnw ym mhob pennill.

Yn yr Adran 'Anadnabyddus neu weddol anadnabyddus':

1. Roedd Begi Llwyd o bosib yn wraig i William Gorddunant, Dolwyddelan ac yn hen-nain i John Jones, Tal-y-sarn.

4. Ni roddais enw awdur i'r gân grefyddol hon. Ond y mae'n hynod o debyg i waith Owen Dafydd, o Gwm-garenig, Cwmaman, athrylith yn fy marn i o'r radd flaenaf, (y bwlch mwyaf yn *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg)* gredaf i. Sylwer ar y gerdd a ddyfynnir yn *Canu'r Pwll a'r Pulpud,* Huw Walters, 1987, t. 46, Canodd Owen Dafydd yn ddiddyddiad *Cân, yn dangos fod Crist yn Dduw yn ogystal â bod yn ddyn; a bod ei aberth yn haeddu rhyddhad i bechaduriaid a.y.b..* Dyma un pennill o honno: 'Pe bai angylion nefol bob un yn mynd yn fil,/ Ac ennill rhyw fyrddiynau bob munud yn ei sgil,/ I roddi ei glod ef allan, am farw ar y pren,/ Hyd eithaf tragwyddoldeb ddôi ddim o'r gwaith i ben.' Owen Dafydd oedd un o ddarganfyddiadau pwysicaf cyfrol ddisglair Dr Walters.

5. Am y pennill hwn gw. *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru*, I,11; a III, 20-3.

8. Dyma bennill gan John Davies, Bethlehem, Sain Clêr.

## DROS F'YSGWYDD (10)

## IORWERTH CYFEILIOG PEATE

Tua'r flwyddyn 1950, fe sgrifennodd bardd ifanc ataf, a dechreuodd gohebiaeth. Daeth i aros gyda mi yn fy nghartref yng Nghaerdydd am ychydig o ddiwrnodau. A chawsom fwynhau cyfnod o gwmnïaeth gyda'n gilydd.

Ef a'm cyflwynodd i Iorwerth Peate.

Roedd hwnnw eisoes yn byw yn yr Amgueddfa yn Sain Ffagan. A'r cyfaill newydd hwn oedd gennyf, sef T. Glynne Davies, a awgrymodd ein bod ni'n mynd i ymweld â Dr Peate. Dw i ddim yn cofio erbyn hyn beth yn union oedd yr esgus neu'r rheswm am yr eofndra yma. Dw i'n meddwl fod Tom, fel y galwn i T. Glynne, yn gwneud peth gwaith ar gyfer papur lleol ym Machynlleth, ac yn byw yn yr ardal honno. Roedd am sgrifennu pwt am arwyr y fro yn ôl galwad ei swydd, ac yn awyddus i gyfweld Dr Peate.

Cydsyniodd Dr Peate dros y ffôn. Dwedodd Tom ei fod yn aros ar y pryd gyda mi, a gofynnodd a gâi e ddod â mi gydag e.

Does gennyf ddim llawer mwyach o atgof am y sgwrs wedyn. Ond roedd Dr Peate yn awyddus i siarad am ei farddoniaeth ac am ei waith mawr yn Sain Ffagan. Sylwais i hefyd nad oedd e byth yn gwenu.

Dyna fy nghyfarfyddiad cyntaf â'r gŵr tal. Ar ôl hynny, doedd yna fawr o gyfathrach rhyngom ni nes i'r Academi Gymreig gael ei sefydlu. Ar enwebiad Aneirin Talfan Davies, etholwyd Dr Peate i fod yn gadeirydd ar yr Academi, o barchus goffadwriaeth, y cadeirydd etholedig cyntaf. Dw i'n cofio arswydo ar y pryd at y fath awgrym. Holais Aneirin yn gyfrinachol wedyn pam. 'Os oes gynnoch chi ŵr anodd mewn pwyllgor, rhowch e yn y gadair,' meddai Aneirin yn ei ddoethineb.

Bid a fo am hynny, dilynwyd ei arweiniad peryglus, er mawr anghysur i un person yn ddiweddarach fel y cawn weld yn awr.

Gan fy mod i'n gweithredu fel ysgrifennydd ar y pryd, ac yn golygu cyhoeddiadau'r Academi, ac eithrio *Taliesin* Gwenallt, roeddwn i'n gyfrifol am drefnu cyhoeddi a gwerthiant darlith gyntaf Dr Peate i'r Academi, sef *Llenydda Mewn Cymdeithas Ddwyieithog,* yn bamffledyn. Er mwyn codi trafodaeth ddiniwed, yr hyn a wnes i, gan dybied y gwnâi helpu i'r perwyl masnachol hwnnw, oedd ysgrifennu erthygl i'r *Faner* i dynnu sylw at y pamffledyn. Pamffledyn oedd gwaith Dr Peate, fel y disgwylid gan ei awdur, yn llawn tân a brwmstan, ac yn sôn am ddiwedd bythol llenyddiaeth yng Nghymru i bob pwrpas oherwydd cyd-fodolaeth dwy iaith ac addysg Saesneg ymhlith pob cenhedlaeth o hyn ymlaen. Yr unig waredigaeth i'r genhedlaeth ifanc oedd sefydlu

addysg uniaith Gymraeg i bawb. Heb hynny roedd hi ar ben.

Bu storm o du llenorion ifainc potensial y dyfodol ynghylch anobaith eu dyfodol. Yma, yn awr, dw i'n cyhoeddi dyfyniad go faith o'm hadolygiad i y pryd hynny. Dyma fe:–

* * *

Cymharol ychydig o bobl ddwyieithog fu ym mhob cenhedlaeth yn hanes y byd, ac o'r rheini ychydig a fu'n llenydda; ac o'r rheini eto, cyfartaledd bychan a gododd i fod yn llenorion 'mawr'. Gellid meddwl mai diogel ddigon, felly, fyddai traethu'n ddamcaniaethol ynghylch effaith niweidiol ail iaith neu ddwy iaith ar lenyddiaeth, gan mai ychydig o dystiolaeth fyddai'n bosib i wrthwynebu'r fath ddadl. Y gwir yw mai fel arall y mae. Mae'r nifer o lenorion gwir 'fawr' a fu'n llenydda yn eu hail iaith, a **hyd yn oed mewn ail iaith farw,** mor anhygoel o helaeth nes bod y cydberthyniad rhwng mawredd a llenydda mewn ail iaith yn ystadegol syfrdanol. A chofio mai pobl yr ymylon fu'r rhai dwyieithog, a phrinder athrylith bob amser, mae nifer y rhai sy'n llenorion 'mawr' yn eu hail iaith gymaint (fel y caf ddangos) nes awgrymu bron mai mantais ydyw llenydda yn yr ail iaith! Ni hoffwn honni hynny'n union, er gwaetha'r holl dystiolaeth, gan fod ffactorau eraill i'w cofio. Ond mae'r pwysau (o safbwynt llên beth bynnag) yn drwm o blaid dwy iaith, a hyd yn oed o blaid ail iaith farw.

Fe gododd tuedd yn ddiweddar i rai siarad yn ysgubol negyddol ynghylch effaith dwy iaith ar lenydda ledled Cymru. Mae yna ddau reswm am hynny. Yn gyntaf, yr elyniaeth fytholwyrdd a digon naturiol yn erbyn y genhedlaeth ifanc o lenorion, a thyb fod yma ffon arall i'w defnyddio yn eu herbyn. Ac yn ail, dymuniad clodwiw am weld cadw Cymru'n Gymraeg, a thyb mai dadlau o blaid 'unieithedd' digymrodedd neu ddiddiffiniad yw'r ffordd orau i'w sicrhau. Siarad emosiynol disylfaen er ei hoffused yw llawer o hyn. Ac yn fy marn i, mae gwneud hynny â Chymru yn y fath argyfwng yn sicr o niweidio unrhyw achos. Nid damcaniaethu'n dalog ynghylch effaith dwy iaith neu aneffeithlonrwydd ail iaith sy arnom ei eisiau; ond casglu'r dystiolaeth gywir a cheisio gweld a oes gan honno rywbeth i'w ddweud wrthym. Rhesymu'n ofalus ar sail ffeithiau, a gweld anghenion Cymru'n ieithyddol i fyw'n ddiwylliedig gyflawn.

Os ydym o ddifri am ennill yr achos hwn, yna mae'n hen bryd i'n dadleuon fod yn drwyadl ofalus. O'm rhan i – o ran teimladaeth – fe ddadleuwn innau'n gadarn o blaid sefyllfa o ddwyieithrwydd, i Gymru gyfan, a hynny'n Gymru Gymraeg rugl; ond byddai'n rhaid imi ymddiheuro (mewn embaras) oherwydd fod rhai sy'n pleidio achos tebyg yn chwifio dadleuon anymarferol gwacsaw, gyda thystiolaeth sy'n ymwneud yn bennaf ag **effaith unieithedd Saesneg ac nid â dwyieithedd o gwbl**.

Sylwer nawr ar y ddadl ynghylch effaith niweidiol ail iaith ar lenorion. Fe ellid mynd ati'n

reit dwt i restru llenorion da a ddewisodd ail iaith neu a fu'n byw mewn cymdeithas ansicr ddwyieithog fesul un. Fe gyfeiriaf at ambell unigolyn felly ymhellach ymlaen. Ar hyn o bryd, **dewisach gennyf gymryd llenyddiaeth gyfan, a chrybwyll yr elfennau ailieithog yn honno – llenyddiaeth mewn iaith farw – a sylwi fod rhai o gampeithiau mwya'r byd i'w cael ynddi.**

Llenyddiaeth Hebraeg sydd gennyf mewn golwg. Ychydig sy'n sylweddoli fod amryw o'r llyfrau yn yr Hen Destament a'r Apocryffa, (a ystyrir yn gyffredinol ymysg llyfrau mwya'r byd), wedi cael eu hysgrifennu mewn ail iaith farw. Bid siŵr, rhaid cofio nad yw iaith yn marw dros nos, yn enwedig mewn gwlad lle y mae llawer o deuluoedd ar wasgar, yn geidwadol, yn dlawd, ac yn ddiaddysg. Ac ni chymerwyd dim cyfrifiad ieithyddol i gasglu'r dystiolaeth yn wyddonol am Israel ar y pryd. Eto, gellid tybied bod Daniel ac Esra yn ysgrifennu mewn dwy iaith, yn rhannol mewn Hebraeg ac yn rhannol yn yr iaith fyw Aramaeg. Ni all neb roi bys ar flwyddyn marwolaeth yr Hebraeg, os digwyddodd o gwbl. Pan oedd Nehemeia'n ysgrifennu roedd yr iaith eisoes, oherwydd priodi merch o Asdod, wedi cilio'n gyflym: 'Yr oedd hanner eu plant yn siarad iaith Asdod, Ammon, a Moab. Yr oedd hanner eu plant yn siarad iaith Asdod, heb fedru iaith yr Iddewon, a'r lleill yn siarad tafodiaith gymysg.'

Dywedir mai ei lyfr ef oedd yr olaf a sgrifennwyd a'r Hebraeg yn iaith fyw (Pfeiffer); a hyd yn oed y pryd hwnnw, lled-fyw'n unig roedd hi. O hynny ymlaen hyd yr ugeinfed ganrif, iaith ysgolheigion ac offeiriaid oedd yr Hebraeg. Gellir amseru Nehemeia fel gŵr mewn oed yn 445-433 C.C..

Felly, fe gyfansoddwyd llawer o'r Salmau a'r Diarhebion, cyfran o lyfr Job, Jona i gyd, Esra (y darn Hebraeg), Joel, Caniad Solomon, Croniclau, Pregethwr, Doethineb Solomon, Eclesiasticus, Esther, Judith, Swsanna, Daniel (y darn Hebraeg), Tobit, Macabeaid, Rwth, a darnau o Obadeia, Eseia, Jeremeia, ac o lyfrau eraill yn yr Hen Destament, **y cwbl mewn iaith farw.** Go brin fod eisiau imi ddyfynnu tystiolaeth beirniaid llenyddol y canrifoedd am gamp y llyfrau hyn na sôn am eu dylanwad yn llenyddol ar lenyddiaethau Ewrob.

Y gwir yw, fel y cawn weld eto, gyda Conrad ymhellach ymlaen, nad oes yr un rheswm ieithyddol, llenyddol na seicolegol yn erbyn y posibilrwydd i lenor mawr yn yr amser gynt ddysgu a defnyddio'i ail iaith drwy gyfrwng llyfrau'n unig er bod yr iaith honno heb ddod ato o gwbl oddi ar wefusau pobl. Peth rhyfedd yw iaith: peth rhyfeddach fyth yw llenyddiaeth.

Hyd yn oed cyn iddi farw, roedd yr Hebraeg yn byw'n barhaus dan bwysau ieithyddol gelyniaethus. Nid yw'n annhebyg fod llawer o lyfrau eraill yr Hen Destament wedi cael eu hysgrifennu ar gefndir dwyieithog amrywiol lle'r oedd yr Hebraeg yn ddigon isradd – rhai felly mae'n debyg oedd yr Ail Eseia, Jeremeia, Eseciel a Job.

Roedd yr Hebraeg a'r Aramaeg yn cydfodoli'n agos er yn gynnar iawn; ac mae idiom neu

gyffyrddiadau Aramaeg i'w cael yn narnau cynharaf yr Hen Destament. Ysgrifennwyd arysgrif Sacir, brenin Hamath *(c.* 800 C.C.) mewn cymysgedd o Hebraeg ac Aramaeg. Ceir tameidiau bach o Aramaeg yn Jeremeia a Genesis.

Mae'r dystiolaeth yma'n chwalu'r ddamcaniaeth ddychmygol ynghylch perthynas anffodus dwyieithedd a llenyddiaeth yn llwyr. Os caf ddweud yn reit garedig, mae'n stim-rolio drosti. Yn wir, mae'n profi y gall llenor feistroli ei ail iaith gymaint er ei bod wedi 'dirywio' (fel y dywedid gynt) neu'n hollol farw ar wefusau pawb o'i chenedl, nes creu llenyddiaeth dra mawr yn achlysurol (nid wyf yn cynnwys Croniclau yn y fath gategori!).

Priodol ychwanegu fod yr Hebraeg heddiw'n iaith fyw, gyfoes, wedi ei hatgyfodi drwy rym cenedlaetholdeb yn y ganrif hon [h.y. yr ugeinfed], a bod slang ac idiomau lliwgar yn cael eu bathu beunydd ar stondinau ac ym marchnadoedd Israel, heb sôn am glasuron cyfoes yn cael eu cyfieithu i lawer iaith o'r Hebraeg, er mai ail iaith i'r to hynaf ydyw o hyd.

* * *

Nid wyf am wneud cymaint o gân am lenyddiaeth Ladin anghyffredin o hardd yr Oesoedd Canol, er bod yr oes delynegol rhwng 1150 a 1250 yn annisgwyl yn wir, yn flodeuad prydferth i'w ryfeddu; a dylanwadol hefyd, fel y tystia'r rhai a ymchwilia am ddylanwadau ar Ddafydd ap Gwilym. Tra phwysig, wrth olrhain dechreuadau llên yn Almaeneg ac yn yr ieithoedd Rhamantaidd, yw sylwi ar yr ysgytiad a gawsant oddi wrth yr 'ysgolheigion ' Lladin newydd. Medd Helen Waddell am y telynegwyr hyn: 'Fe gadwasant ddychymyg Ewrop yn fyw.' Gwyddom ninnau hefyd yng Nghymru am gamp rhyddiaith Gerallt Gymro a Gwallter Map a Sieffre, yr olaf yn un o'r ychydig o Gymru a gafodd ddylanwad bywydol cydwladol.

Mae llenydda mewn ail iaith, mewn iaith farw, neu mewn cefndir dwyieithog ansefydlog yn destun sy'n haeddu gwell gwyntylliad nag y gallaf i ei roi iddo ar chwarae bach. Y cyfan yr wyf yn ei geisio'n awr yw cyfeirio at y pethau cwbl amlwg sy'n fy nharo i ar hyn o bryd. Ond pan ddaw'r amser i astudio'r maes yn llawn, mae'n ddiau gennyf fod yna unigolion yn yr hen fyd, megis Ioan gydag Iaith Groeg, a rhai yn y byd cyfoes megis Samuel Beckett (a ymwrthododd â'r Saesneg a throi at Ffrangeg) sy wedi creu campweithiau cydnabyddedig mewn ieithoedd heblaw eu mamiaith. Fe geir bod Conrad yn y gorllewin a fu'n llenydda yn ei drydedd iaith, yn cyflawni camp debyg i Saadat Hasan Manto, y storïwr byr mwyaf yn Urdu (a sgrifennodd gannoedd o storïau, dramâu ac ysgrifau yn gyfan gwbl yn Urdu), er mai Punjabi oedd ei iaith bob dydd. Fe geir hefyd fod ambell un yn llenydda mewn dwy iaith, acrobatiaid od i'm bryd i megis Nawab Rai, un o lenorion pwysicaf Hindi ac Urdu yn rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif.

* * *

Mae achos arbennig Conrad yn ddiddorol. Ym marn Leavis, a oedd yn un o'r beirniaid pwysicaf (onid y pwysicaf oll) yn Lloegr yn yr ugeinfed ganrif, dyma'r pum nofelydd mwyaf yn llên Saesneg – Jane Austin, George Eliot, Henry James, a Conrad, bob un yn fwy o feistr na Scott, Thackeray, Meredith, a Hardy, a Conrad yn 'un o nofelwyr mwyaf oll yr iaith – neu unrhyw iaith.' Ac eto, ni ddechreuodd Conrad ddysgu Saesneg nes ei fod yn ugain oed. Roedd hi'n drydedd iaith iddo. Dysgasai Ffrangeg yn ail iaith i'w Bwyleg er pan oedd e'n blentyn, ac fe'i siaradai'n rhugl, gydag acen Provençal yn ôl Valéry.

Fe ddechreuodd sgrifennu ei nofel gyntaf *Almayer's Folly* pan oedd yn 34 oed. A dywed Edward Garnett am ei ail nofel: 'Pan ddarllenodd yn uchel i mi rai tudalennau o lawysgrif *An Outcast of the Islands,* fe gamynganodd gynifer o eiriau fel na ddeallwn mono ond gydag ymdrech. Fe ges wybod nad oedd erioed wedi clywed y geiriau Saesneg hyn yn cael eu dweud; ond fe'u dysgasai i gyd oddi wrth lyfrau!'

Yn ôl Paul Langlois, roedd yn well gan Conrad yn 31 oed siarad Ffrangeg na Saesneg. Tystia Ford Madox Ford wedyn fod Henry James a Conrad bob amser yn siarad â'i gilydd yn Ffrangeg, a bod Conrad yn siarad Saesneg â'r fath acen Ffrengig nes bod dieithriaid yn methu â'i ddeall ef ar y cyntaf.

Ar yr ochr arall, hoffwn ddyfynnu Conrad ei hun yn y gwreiddiol pan sonia am fabwysiadu Saesneg: 'Yes, there was adoption; but it was I who was adopted by the genius of the language, which directly I came out of the stammering stage made me its own so completely that its very idioms I truly believe had a direct action on my plastic character ... If I had not written in English I would not have written at all.' Ac eto: 'There are also other considerations: such as the sheer appeal of the language, my quickly awakened love for its prose cadences, a subtle and an unforeseen accord of my emotional nature with its genius.'

Yn hanes Cymru, mae yna amryw a wnaeth gampau yn eu hail iaith – rhai, mewn tair canrif, megis Iolo Morganwg, Islwyn, a Waldo Williams. Yn ôl pob tebyg, fe lwyddodd Bleddri i gyfareddu cynulleidfaoedd y cyfandir drwy ei ail iaith Ffrangeg yn yr Oesoedd Canol.

* * *

Mwy cymhleth o lawer oedd *cefndiroedd* dwyieithog, ac mae llawer o lenorion mawr y byd wedi byw o fewn amgylchfydoedd felly. Sylwer am y tro ar ddau lenor mwya'r Almaen yn yr ugeinfed ganrif, sef Rilke a Kafka, y naill fel y llall yn dod o gymdeithas Prag, ac o blith y lleiafrif Almaenig. Roedd Kafka'n medru Czech, ac mae'r ymwybod Czech yn bwysig yn ei waith. Fe ddywed mewn llythyr at Milena Jesenská, er mai'r Almaeneg oedd ei famiaith, mai Czech a deimlai ef yn fwyaf agos ato. Dywed ei gofiannydd: 'roedd ef mewn cydymdeimlad â'r mudiad cenedlaethol Czechaidd a geisiai sefydlu gwladwriaeth Fohemaidd rydd o fewn yr ymerodraeth Awstrio-

Hwngaraidd. Er nad oedd yn weithredol wleidyddol, fe astudiodd iaith a llên Czechaidd ac aeth i gyfarfodydd cyhoeddus a thrafodaethau.'

Fe ddysgodd ei fam Ffrangeg i Rilke yn gynnar iawn, ac yr oedd ieithoedd eraill megis Rwsieg yn hen gynefin iddo. Fe fu am gyfnod ar fabwysiadu Rwsieg yn gyfrwng ei lenydda, a gwyddys fel y bu iddo droi bron yn gyfan gwbl at Ffrangeg ar ôl y *Duineser Elegien* a'r *Sonette an Orpheus,* a chyhoeddi sawl cyfrol yn yr iaith honno. Un o greaduriaid mwyaf diwreiddiau yr ugeinfed ganrif oedd Rilke, a hynny o bosib oherwydd ei gefndir cynnar ym Mhrâg, ond llenor aruthrol o fawr, serch hynny.

* * *

Soniodd Dr Peate, yn ei ddarlith ddiddorol i'r Academi, am gymharu rhyddiaith Kate Roberts â rhyddiaith rhai o'n nofelwyr ifainc, fel pe bai hynny'n arwain at brofi rhywbeth am ddwyieithedd. Yn awr, fe gafodd Dr Kate Roberts addysg gyhoeddus Saesneg neu weddol 'ddwyieithog', a bu'n byw am ran helaeth o'i hoes mewn ardaloedd Seisnigaidd braidd. Onid tecach o'r hanner fyddai cymharu un o nofelwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gafodd gefndir mwy unieithog o lawer? Cymharer gwaith Llew Llwyfo â gwaith R. Gerallt Jones, neu waith Egryn â gwaith John Rowlands, neu waith Gruffydd Risiart â gwaith Pennar Davies.

Nid wyf yn sôn am ansawdd yr 'iaith' nawr. Fel llenorion, mae'r ysgrifenwyr hynny o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dlotach, yn anaeddfetach ac yn llai celfydd; er nad yw hynny'n profi dim byd efallai am y gymdeithas unieithog fel y cyfryw. Wrth gwrs, pe gallesid cymryd Dr Kate Roberts a hithau'n faban a'i thorri'n daclus yn ddau hanner gan sefydlu'r ail yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru, a'r llall yn Sir Gaernarfon, ac yna gymharu'r naill a'r llall, fe fyddai gennych wedyn ryw dir diogel wyddonol i sefyll arno. Yn hytrach na chanolbwyntio'r sylw ar werthoedd esthetig, perygl beirniaid yw gadael i griteria amherthnasol goncro'u chwaeth a'u barn.

Os chwiliwch Flodeugerdd Rhydychen o Farddoniaeth, fe gewch fod un o'r ddau gyfnod mawr yn hanes ein barddoniaeth wedi digwydd pan oedd mwy na 50 y cant o'n pobl yn ddi-Gymraeg. Os ydych am gau'ch llygaid ar bob ystyriaeth arall felly, a chysylltu 'mawredd' â'r sefyllfa ieithyddol, bydd rhaid ichi gasglu bod unieithedd wedi bod yn fuddiol i ansawdd ein llên. Nonsens bur.

Hynny yw, damcaniaeth noeth heb fymryn o brawf, damcaniaeth yn tarddu'n gyfan gwbl o'r afreswm rhagfarnllyd, yw'r ddamcaniaeth fod byw yn Lerpwl wedi niweidio Saunders Lewis fel llenor Cymraeg. Os magwyd Saunders Lewis yn Lloegr, felly y magwyd Adam Mickiewicz (bardd a llenor mwyaf Pwyl erioed) yn Lithuania. Mae'n gwbl amlwg fod Saunders Lewis yn well llenor na miloedd onid miliynau o Gymry unieithog. Bydd rhai Cymry twymgalon am wrthod y rhestr hon o ddadleuon ar egwyddor, neu ambell un am resymau gwannach na'i gilydd.

*   *   *

Yn 1889 roedd Emrys ap Iwan yn dyfynnu enghreifftiau o ryddiaith ei gyfnod 'unieithog' ef, megis: 'roedd wedi dweud y gallai gwrthryfel fod yn gyfiawnhaol mewn achos tebygol o ormes. Y mae gennym lawer o **broblems** i'w **solvio**.'

Genhedlaeth wedyn, yn 1922 ceir T. Gwynn Jones yn dyfynnu tipyn o Gymraeg llenydol ei ddydd yntau: 'Wel, y mae **young** – a **Miss** – yn **engaged couple** ag sydd yn hawlio ein **congratulations** gwresoca, gan fod y **match** yn ôl pob hanes yn **pure love affair**, a **handsome fortune** y tu cefn i hynny.'

Yn awr, un o'r datblygiadau geirfaol hyn gyda ni yng Nghymru yw pwysau dirfawr y priod-ddulliau Saesneg ar y Gymraeg: er enghraifft (a hwylus nodi peth o Brydeineg Dr Peate ei hun ar antur o ambell un o'i lyfrau): **'Y stoc wedi ei werthu allan; ni fyn egluro ymaith unrhyw anhawster; gwŷr a gariodd ymlaen y gwaith; gwragedd a gymer ddiddordeb; nad oedd dechrau preswyliad y lle yn hwyrach na 300 C.C.; gweithiodd ugeiniau o Gymry eu ffordd i fyny i swyddi pwysig; bro eto, sylwer, yn troi allan werth £8000'** ayb.

Tuedd arall yw ansicrwydd ynghylch defodau gramadegol: er enghraifft (ac mae gwaith Dr Peate ei hun wrth law eto i ddarparu faint fynnwn o 'wallau' felly o bob lliw a llun):

**'safbwynt gyffredinol; fe'i wynebwyd; ail rhan; y fframwaith filwrol hon, pumed blwyddyn; term o'm heiddof; achosodd dy lygaid heirdd imi golli fy ngolygon i wrth dy ryfeddu; rhyddiaith ac nid barddoniaeth, a fu cyfrwng effeithiol llenorion y traddodiad diwydiannol; fe'i anwybyddir'** ayb.

Un safon eithaf helpfawr a awgryma Otta Jespersen yw hyn: 'Yr iaith orau yw honno a all gyflawni llawer heb ddim ond ychydig o adnoddau, neu mewn geiriau eraill sy'n gallu mynegi'r mwyafswm o ystyr heb ddim ond y mecanwaith symlaf... y mwyafswm symlaf ... y mwyafswm o effeithiolrwydd a'r lleiafswm o ymdrech.'

Yn y dyddiau heulog hynny pan oedd modd dweud 'pedwar ar bymtheg a phedwar ugain' bob tro roeddid am ddweud 'nawdeg-naw,' dysgid rhifyddeg yn yr ysgolion yn Saesneg. Sonia Dr Peate am swyddog a gafodd yr ail ddull o rifo'n faen tramgwydd, er iddo gael ei arfer yn dra rheolaidd yng nghapeli ac eglwysi Cymru ers dros hanner canrif. Diangen bellach i mi ddadlau o blaid ymarferoldeb yr ail ddull hwn, yn arbennig gan fod y gyfundrefn fetrig ar ein gwarthaf.

Ond hoffwn ychwanegu hyn: gorau po gyntaf, mwyach, y bydd y dull cyntaf yn diflannu'n llwyr heb adael iot ar ôl. Mae amlhau cyfystyron ar sail 'rhesymau' sentimental, a'r rheini'n gwbl ddianghenraid, yn faich ychwanegol ar yr iaith mewn dyddiau pryd na ellid fforddio rhyw ffwlbri felly. Nid oes amheuaeth fod y dull cyntaf yn darfod *(criterion 'symlder' Jespersen),* onid yw eisoes wedi'i chladdu i bob pwrpas. Gorau po fwyaf o gydweithrediad sy bellach rhwng athrawon a

phapurau newydd, teledu a llenorion i sefydlu'r ail ddull yn ddiogel ac yn gyson yn ei le.

Sut bynnag, yn ei lyfryn ar 'Ddyfodol ein Llenyddiaeth', mae Dr Peate yn ddewinol iawn yn troi'n ddisymwth o'i hanesion digrif am gofnodion hanes Sir Gaernarfon a rhifolion Sain Ffagan at lenyddiaeth, ac at lenorion ifainc, fel pe bai eisoes wedi llwyddo i brofi'i bwynt mewn rhyw ffordd gyfrin uwchresymol. Mae ef – megis Dr Kate Roberts – yn ceisio rhoi'r argraff i ni fod rhyddiaith wedi'i gweddnewid er gwaeth, ar ôl eu cyfnod cynnar hwy. Trois ar antur at ddau ddyfyniad o'r naill genhedlaeth at y llall i'w cymharu o ran *ansawdd* iaith, gan ddisgwyl dirywiad chwimwth, a digonedd o dystiolaeth ymhob cyfeiriad ac ymhob brawddeg.

Yn gyntaf, trown at rywioldeb arddull ardderchog Kate Roberts yn *O Gors y Bryniau.* Yma fe gefais enghraifft o iaith a rhythmau hyfryd pencampwr y stori fer Gymraeg, lle y gwelir elfennau o fawredd Kate Roberts, a hynny o'i chymryd gyda'i gweledigaeth gyfan o fywyd, ac nid yn unig mewn troadau ymadrodd heini. Ymateb i gyflawnder a wna beirniadaeth gyfansawdd.

Trois wedyn at ddyfyniad cynnar o waith Gwyn Thomas (*Taliesin* 3*)*; fe'i dyfynnaf:

*'Pwy fasa'n meddwl! Dyn cydnerth fel Sam wedi mynd,' yna wedi saib,' a'i sgidia efo fo.'*

*'Pawb oedd yn ifanc a rhywun o'i chydnabod yn marw, marwolaeth unigolyn ydoedd hynny i Laura Gabriel; ond ers blynyddoedd bellach, yr oedd marwolaeth y rhai yr oedd wedi eu hadnabod yn farwolaeth darn o gymdeithas iddi; yn wir, yr oedd yn genhedlaeth yn mynd â'i phen iddi o ddarn i ddarn fel ynys yn cael ei bwyta gan y môr.'*

Yn wir, ni welaf yr iaith idiomatig yn siglo o dan bwysau'r llenor ifanc odid ddim neu, os caf finnau ei mentro hi – nid yw hi'n mynd â'i phen iddi. Ac eto, dyna'r argraff y ceisir ei rhoi. Mae'r math hwn o siarad pesimistaidd wedi bod ar gerdded yn ddigon hir, ac mae'n hen bryd i rywun ddweud y gwir. Rwyf am enwi pedwar ysgrifennwr rhyddiaith tan eu deg ar hugain yn y flwyddyn ddiwethaf, sef 1962 – nid amgen R. Gerallt Jones, Gwyn Thomas (am ei storïau), Eigra Lewis Roberts, a John Rowlands, (ac fe allwn enwi pedwar arall). A ellwch chithau enwi mewn du a gwyn unrhyw flwyddyn yn holl hanes llenyddiaeth Gymraeg o'r chweched ganrif hyd heddiw pan oedd pedwar o sgrifenwyr rhyddiaith fel hyn – carfan o rai ifainc – wedi cyflawni cystal gwaith ar yr un oedran? Dichon y gellwch honni bod yna ddiffygion neu anaeddfedrwydd yn eu gwaith, a pha lenor sy heb elfennau felly yn ystod ieuenctid? Ond ni fu erioed, erioed, y fath genhedlaeth o ryddieithwyr ifainc addawol. Gorfoleddu a ddylem, a hynny'n bur ac yn hael; a cherddwn ymlaen i Ddyfodol ein llenyddiaeth yn hyderus.

*             *             *

**Ôl-nodyn**

Gŵr deallus, dysgedig, a phrofiadol oedd Peate. Bu ei waith yn rhoi'r Amgueddfa Werin yn

Sain Ffagan ar ei thraed yn amhrisiadwy – er iddo anwybyddu crefftau gwerin y cyfnodau a'r ardaloedd diwydiannol yn ein hanes, a'r angen i'w plethu i mewn i gefndir cyfannol Cymru. Cydnabuwyd ei waith pan anrhydeddwyd ei waith academaidd ag anrhydedd F.S.A..

Trafferth Peate (fel ei fentor Gruffydd) oedd bod y naill a'r llall am fod yn 'broffwydi' yn hytrach nag yn artistiaid. Dyna oedd diffyg eu mentor hwythau ill dau, sef John Middleton Murry. Wrth geisio canmol ei fentr, a cheisio nodi'i ragoriaeth, yr oedd Peate mewn gwirionedd wedi rhoi'i fys ar briod wendid Gruffydd: 'gwneuthur mwy tros fetaffiseg crefydd nag unrhyw offeiriad enwadol y gwn i amdano.' Meddai T. Robin Chapman yn graff iawn yn ei gyfrol benigamp ar Peate a'i weithiau beirniadol, 'Dadleuwr yw Peate ynddynt yn hytrach na beirniad. Ei amcan yw argyhoeddi cyn goleuo ac amddiffyn ei safbwynt cyn ei egluro'n llawn.' Fel y sylwodd Leavis (a oedd yn un o gyfeillion Murry), tuedd Murry oedd gwneud datganiadau 'as if he had access to absolute Truth.' Felly hefyd, criterion pregethwrol (o gyfnod y dirywiad Cristnogol) oedd gan Peate a Gruffydd yn hytrach nag estheteg; ac nid oeddent wedi ystyried yn ddigon eu diwinyddiaeth ddiwylliannol, na sut yr oedd gras creedig yn ymblethu o fewn gras gwaredigol. Eu naïfder crefyddol unplyg yn hyn o beth oedd eu sail. Meddai T. Robin Chapman, yn dreiddgar, 'Cwbl ganolog i waith Peate drwyddo yw'r syniad o ddirywiad, boed bydredd y corff, breuder gogoniant y gorffennol, neu dranc y bywyd gwledig a ystyriai mor hanfodol i barhad yr iaith.'

DROS F'YSGWYDD (11)

EUROS BOWEN

Roeddwn i'n gyfaill i Euros am rai blynyddoedd. Un o'r cymeriadau mwyaf brwd a ffyddlon oedd Euros a gafodd bleser gwirioneddol ym mhob cyfarfod o'r Academi. Bydd llawer iawn a oedd yn bresennol, yn cofio'r cyfarfod pryd yr ymosododd Euros ar uchaf ei lais ar Gwenallt ynghylch cywirdeb yr adroddiad yn ei nofel *Ffwrneisiau* o farwolaeth ei dad, neu'r cyfarfod pryd yr ymosododd Euros ar uchaf ei lais ar Hugh MacDiarmid am fradychu'r Alban drwy droi at Saesneg a throi cefn ar Sgoteg. Hawdd y gallaf ddeall rhywrai'n synied bod Euros bob amser yn siarad ar uchaf ei lais.

Ond roeddwn i'n adnabod Euros arall, un a fyddai'n cyd-deithio tan sgyrsio'n gymharol dawel mewn car ar y ffordd i gyfarfodydd yr Academi ym Mangor. Yr unig eithriad i'r tawelwch hwnnw oedd pan ges i fy stopio wrth yrru'n rhy gyflym drwy Gerrigydrudion, ac fe'm dirwywyd i wrth fynd yn rhy gyflym drwy ardal aml-ei-hadeiladau. Dyma achlysur pryd y gwelais ddau heddwas hynod o gwrtais yn crynu ac yn crino wrth glywed y Parchedig Euros Bowen yn eu condemnio nhw i Uffern.

Dyna'r unig dro y ces i f'amddiffyn yn eiriol gan Euros.

Wrth agor y ddadl ganlynol, y mae Euros yn trafod hen thema sy'n bur amlwg yn fy meirniadaeth, fel y sylwyd, yn ddiau, a hynny yw cysylltiad y ddysgeidiaeth Galfinaidd â pherthynas Gras Cyffredinol a Gras Arbennig. Y mae a wnelo fy ngwrth-ddadl â'r safbwynt Calfinaidd bod dawn greadigol o fewn Gras Cyffredinol yn caniatáu i fardd o 'anghredadun' ysgrifennu ar dro well barddoniaeth neu nofel neu ddrama na 'chredadun'. Mae a wnelo â'r ffaith fod bywyd oll – o'r pechodau gwaethaf hyd y rhinweddau uchaf – yn darparu sylwedd i'r llenor o Gristion. Adolygiad oedd gan Euros ym 1978 o'm cyfrol *Llên Cymru a Chrefydd.* Ac wrth drafod y berthynas rhwng y bardd naturiol a'r pregethwr goruwchnaturiol, yr oedd ef yn rhybuddio rhag yr awydd i broselytio neu bropagandeiddio. Condemniai ef bolemig, boed yn anymwybodol neu'n ymwybodol. Ac yr oedd hyn yn bwnc pwysig. Ymwnâi â bygythiad i lenyddiaeth a fu'n beryg chwithig i'r Gymraeg yn ystod y tair canrif ddiwethaf.

Ei brif thema yw'r ffolineb o gymysgu llenyddiaeth fel celfyddyd â phropaganda. Roedd yn eiddigus o nod a breintiau celfyddydol bardd ac o swyddogaeth arall gan offeiriad yn yr Eglwys Anglicanaidd. Gwelai ef bont rhwng y ddwy swyddogaeth yn symbolaeth sagrafen. A'r un pryd, fel cyhoeddwr yr 'efengyl', gwelai swyddogaeth gyfredol, sef proselytio a geisiai newid syniadaeth a chredoau pobl gan ymyrryd â phurdeb yr awen. Yn wir, teimlai anocheledd y fath gasgliad. Ac

ymatebodd i'm cyfrol yn ymosodol o'r herwydd.

Roedd fy nghychwynfan i mewn man arall. Roeddwn i wrthi yn dechrau prosiect a geisiai wneud arolwg o strwythur beirniadaeth lenyddol, a thybiwn fod yr adeiladwaith celfyddydol mewn beirniadaeth yn cael ei ffiniau a'i diffiniad mewn strwythur triol *Ffurf, Cymhelliad, Cynnwys,* neu *Strwythur, Amcan, Mynegiant o Ddeunydd.* Ac yn fy nghyfrol, yr hyn a geisiwn oedd ymdroi gyda'r elfen ganol, y bont frechdanol rhwng y ddwy elfen gynhaliol o'i deutu. Roedd angen hydeimledd i wneud y fath beth heb dynnu arnaf fy hun y cyhuddiad o bolemig.

Hynny yw, roeddem ein dau yn anelu at amcanion beirniadol gwahanol, ac yn synied am ddiriaetholdeb llên mewn ffyrdd croes. Mewn gwirionedd, roeddem yn gytûn ar amhriodoldeb y 'pregethwrol' fel Cymhelliad addas i lenyddiaeth. Ond awgrymai Euros fod 'pregethu' yn anochel o fewn pob ymwneud â'r presenoldeb crefyddol. A hyn, ystyriai, oedd nod *Llên Cymru a Chrefydd.* Yr oeddem yn weddol gytûn ar amcanion llenyddiaeth ei hun, er hynny: mynegi'r gwirionedd drwy ddychymyg, teimlad a rheswm.

Beth bynnag, heblaw astudiaethau bach ar weithiau creadigol unigol – sef eu 'Mynegiant' – y math o feirniadaeth a'm denodd fwyaf i ysgrifennu ar y pryd oedd, nid polemig, eithr yr astudiaeth theoretig o adeileddeg beirniadaeth. Golygai hynny y fframwaith i'm dadansoddiad o'r saithdegau ymlaen a amlinellais yn y gyfrol *Tafod y Llenor.* Ac o'm rhan i ymrannai strwythur cyfanwaith llenyddiaeth yn dair rhan ddeinamig a chydblethol: Ffurf, Cymhelliad, Cynnwys.

Ar ryw olwg, yr oedd *Llên Cymru a Chrefydd*, 1978, felly yn estyniad o'r amlinelliad o'r feirniadaeth lenyddol a gafwyd yn *Tafod y Llenor*, 1974. Anwybyddodd Euros hynny a'i swyddogaeth strwythurol. Ond gan iddi gael ei chyhoeddi yn bennaf yn gyfrol gyfan unigol am Gymhelliad a Deunydd, yr oedd yn gwbl deg i Euros ei hystyried ar wahân i bob dim arall yn fy ngwaith. Collodd ef y cyd-destun, sut bynnag, a dichon y dylwn fod wedi tanlinellu hynny'n gliriach. Rwy'n tybied bod synied am y cysylltiad rhwng celfyddyd a phenarglwyddiaeth ysbrydol yn strwythurol ac yn beth mor ddieithr yn yr amgylchfyd beirniadol ar y pryd fel yr oedd yr adwaith gwrth-bolemig yn naturiol iawn ymhlith darllenwyr Cymraeg.

Bid a fo am hynny, ailgyflwynaf yn awr yr ateb i'w adolygiad a gyhoeddais ar y pryd, wedi'i gwtogi ryw ychydig.

### Beirniadaeth Lenyddol Bolemig (1)

Polemig yw pob beirniadaeth lenyddol er dyddiau Aristoteles. A phan fo ymateb iddi, yn arbennig gan rywun a chanddo alluoedd creadigol a meddwl beirniadol mor graff ag Euros, yna nid oes ond diolch am y fath sylw caredig. A gaf ddweud fy mod yn cytuno â llawer o'r ymdriniaeth yn

y *Faner* ar *Llên Cymru a Chrefydd (Ll.C.A.Ch.)*? Mae e'n cyflenwi rhai pwyntiau ar yr ochr ddiwinyddol nad euthum ar eu hôl y tro hwn gan fy mod am ymgyfyngu orau y gallwn i feirniadaeth lenyddol. Er enghraifft, rwyf yn credu fod y cwbl o'r paragraff hir ganddo sy'n ymdrin â Duw fel 'Pen Ieithegydd' ac â 'mathemategydd diwinyddiaeth' yn cynnwys awgrymiadau gwerthfawr a safbwynt y byddwn i yn eu cefnogi hwy i'r carn.

Mae hefyd mewn man arall yn tanlinellu'r gwahaniaeth rhwng Awstin a Chalfin; a syrthiaf ar fy mai os rhoddais yr argraff nad oedd dim gwahaniaeth rhyngddynt. Yn wir, credaf fy mod wedi crybwyll o leiaf dau bwynt mawr o wahaniaeth na sylwodd Euros arnynt (er nad cyfrol yn ymwneud â'u cyferbynnu hwy a oedd gennyf mewn golwg y tro hwn). Gallwn, pe bai gofod, fod wedi ymhelaethu ar faterion eraill. Ond yr hyn a geisiwn yn aflwyddiannus neu beidio, oedd pwysleisio'r parhad yn strwythur y traddodiad. Dymunwn wneud hynny yn gryno drwy gyfosod Awstin-Pelagius/Calfin-Armin yn gyferbyniol olynol, canys nid oes mae'n debyg, a wad ddyled enfawr Calfin i Awstin, nid hyd yn oed Dr Bowen.

Y mae Dr Bowen wedyn yn ceisio gwahaniaethu rhwng hanfod dyn a'i gyflwr, ac yn cysylltu'r cyntaf â 'delw Duw'. Mae ef wedi gwneud hyn droeon o'r blaen, os cofiaf yn iawn. Y mae'n bwynt tra phwysig wrth ddehongli'i farddoniaeth ef. Mae'n bwynt hefyd yr wyf yn cytuno ag ef yn llwyr. Yn wir, yn Ll.C.A.Ch. y mae'n fater yr wyf yn ceisio dadlau ynglŷn ag ef dros dudalennau lawer (e.e. t. 35). Hyn, mae'n ymddangos, yw'r man cychwyn i ddeall beth sy'n rhoi urddas a gwerth i ddyn fel dyn.

Efallai mai'r man lle y gwahaniaethwn yw awgrym Euros y gall yr 'hanfod' hwnnw, ohono'i hun, ymateb i Dduw hyd yn oed o fewn cyflwr y dyn syrthiedig. Mae'n gofyn, 'Os yw dyn wedi'i wenwyno felly, sut y gŵyr ef fod y fath beth yn bod â bod yn ddiwenwyn?' A'r ateb, wrth gwrs, yw – 'y dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw; canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt.' (1 Cor. 2,14). 'Nid ei hanfod' ef sy'n ymateb ohono'i hun. Nid yw'n ateb, cyn belled ag y dywed y Beibl, onid oherwydd gras Duw. Ni eill y dyn anianol amgyffred na natur ei bechod ei hun nac ystyr bod yng Nghrist heb hynny. Nid yw 'bywyd', sef bywyd syrthiedig, yn ddigon i brotestio'n erbyn gwacter ystyr, er bod 'bywyd', cyn belled ag y mae'n amlygiad o ras cyffredinol, yn gwneud hynny, fel arfer yn ddiarwybod i'r gŵr anianol. Yn wir, dysg y Beibl inni nad oes gwir 'fywyd' ysbrydol ar gael o gwbl yn y dyn anianol. 'Y mae'n farw'. Ond bid a fo am hynny, yr wyf yn cytuno ag Euros, cyn belled ag yr wyf yn ei ddeall, ynglŷn â hanfod gras cyffredinol sylfaenol dyn, ac y mae hynny'n gytundeb go waelodol.

Bu Euros yn ddigon cymwynasgar i godi hen gamddealltwriaeth gyndyn iawn, yr hynaf oll, ynglŷn â Chalfiniaeth (dadl, fel llawer o'i gamddealltwriaethau eraill, sy'n cael ei hateb mor blwmp ag y medrwn o fewn cloriau'r gyfrol, e.e. 512-9). Medd ef: 'Gellir barnu, hwyrach, os gras

cyffredinol sy'n penderfynu mai bod yn fardd yw'r ddawn a roddwyd i ryw ddyn, y gallai hwnnw fod yn well bardd nag ydyw. Onid oes lle i ryddid creadigol yn y system?' Ceir yr ateb, wrth reswm, yn yr hen gyfuniad adnabyddus ond dirgel – Penarglwyddiaeth Duw a chyfrifoldeb dyn; ceir rhyddid 'creadigol' i ddyn, a Rhyddid llwyr yn Nuw; a'r hyn a wna dyn ffaeledig yw syrthio. Ond nid yw hynny ar ryw olwg yn distrywio bodolaeth doniau naturiol.

'Ai bai ar ddyn am hynny, yw ei fod yn ddyneiddiwr?' y mae'n gofyn; a'r ateb wrth gwrs yw 'Ie'. Y mae pawb ohonom yn atebol, ond ar fai yn ddieithriad ac yn ddiesgus. Ymddengys hyn yn uwchnaturiol ac o'r tu hwnt i ddimensiynau arferedig o ofod ac amser; ond y mae dimensiwn felly mewn dyn. Diau, bid siŵr, fod yna rai problemau daearol-anatebadwy yn hyn o ddirgelwch, er bod amryw byd o'r problemau a gyfyd Euros yn cael eu hateb gan eraill yn gwbl foddhaol – gan Bantycelyn, Thomas Charles, Thomas Jones, ac Owen Thomas ymhlith llyfrau diwinyddol y traddodiad Cymraeg. Tardda llawer o'r methiant cyffredin i ddeall e.e. rhagordeiniaeth Awstin, o'r methiant unochrog hwn i gwmpasu'r lle aruthrol sydd i Dduw, yn ogystal ag i ddyn, yn y gydberthynas 'oruwchnaturiol' hon. Dyw'r ffaith fod dyn ddim yn deall holl feddwl ac ysbryd Duw ddim yn esgus, gan fod pawb yn cael eu galw.

Disgrifiad Euros o'm beirniadaeth i yn y gyfrol hon yw 'homiletig'. Ceisiais roi tudalennau lawer yn y gyfrol, i wrthwynebu'r fath feirniadaeth lenyddol (e.e. t. 54); ac nid wyf yn credu mai beirniadaeth lenyddol yw'r lle addas i fod yn 'homiletig'. Yn wir, er fy mod yn credu'n gryf fod yna'r fath beth â 'llenyddiaeth homiletig', a'i bod yn llenyddiaeth a haedda ystyriaeth lawer mwy gofalus nag a gafodd, ni rois ond un o'r ugain pennod yn y gyfrol i drafod hynny. Nid yw fy meirniadaeth yn ceisio perswadio neb yn uningyrchol o iawnder y ffydd Gristnogol nac am yr angen i ddiwygio ac yn y blaen, o leiaf yn y gyfrol hon. Yr wyf yn ceisio ystyried, fel y dywed yr is-deitl, beth yw Diben Llenyddiaeth, ac (oni all Euros fy ngoleuo ar hyn), hollol amhosibl ydyw gwneud hynny heb ystyriaethau diwinyddol.

Disgrifiad yw'r gyfrol, nid homili. Ac eto, gweddus yw i feirniad fyfyrio a thrafod y 'bai gwaharddedig' homiletig.

Ansoddair arall, digon cyfarwydd, y mae Euros yn ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwn yw 'dogmatig'. Hen reg hwylus a disgwyliedig yw mewn dyddiau difater fel y rhain. Ac yr wyf yn ceisio dadlau'n ddigon helaeth yn y gyfrol hon fod dogma fel y cyfryw yn orfodol i'r anghredadun (os nad yn ymwybodol) megis i'r credadun. Mewn cylchgrawn arall ar hyn o bryd yr wyf eisoes wedi llunio rhyw ddwsin o ysgrifau mewn cyfres barhaol ar 'Ddogmâu Anghrediniaeth' sydd gan mwyaf yn trafod rhagdybiau y 'niwtraliaeth' honedig amhosibl. Y mae Euros yn ceisio cweryla â'r weithred ddiymwad fy mod i'n gwneud rhagdybiau o gwbl (e.e. fy mod yn cyfystyru'r ddiwinyddiaeth Gristnogol gyflawnaf â Chalfiniaeth). Yn awr, fe ŵyr ef fy mod yn dadlau dro ar ôl

tro fod gwneud rhagdybiau yn rheidrwydd hollol gaeth i iaith. Mae ef ei hun drwy gydol ei lithiau yn gwneud rhagdybiau am amser a lle o hyd. Ar ddogma y seiliwyd difaterwch. Dogma yw 'niwtraliaeth' dybiedig. Dogma, yn sicr, yw dynganolrwydd. Yr wyf yn cytuno ag ef fy mod yn ddogmatig yn yr ystyr yna, a'r ystyr yna'n unig. Ond yn hyn o beth nid wyf yn wahanol i'r un llenor na beirniad arall yn hanes ein llên. Yr hyn sy'n dramgwydd, gadewch inni fod yn gwbl blaen, yw *nid* fy mod yn gwneud rhagdybiaeth, ond y math o ddogma sydd gennyf, a'r ffaith fy mod yn cydnabod fy rhagdybiaeth yn ymwybodol agored heb ei chuddio yn ymwybodol agored dan len o dwyll 'di-ragdybiaeth'.

Cafwyd ysgrif alluog ar 'Ragdybiau' gan David Phillips gynt yn *Efrydiau Athronyddol* XI; ac yn y blynyddoedd diweddar hyn cafwyd tunelli o drafodaeth ysgolheigaidd sy'n unol â'r safbwynt a ddilynais i, a rhaid bod Euros yn gwybod am hyn. Yr hyn a erys yw'r angen mawr i feirniaid ddod yn fwyfwy ymwybodol o holl fframwaith eu rhagdybiau, ac i ddatgan hynny, er mwyn seilio'u hysgolheictod ar ymchwiliad 'absoliwt.'

Er fy mod wedi ceisio ymhelaethu orau y gallwn ar hyn, syrthiodd Euros i'r fagl gonfensiynol; a dichon y'm hesgusodir am ymdroi'n fwy cyffredinol â'r mater; nid yn gymaint oherwydd unrhyw bwyntiau a gododd ef ond oherwydd ein tueddiadau ni oll.

Un o ddiffygion mawr y feirniadaeth lenyddol ddyneiddiol gonfensiynol a rhagweladwy yw'r diffyg ymwybod â'i rhagdybiau'i hun. Oherwydd iddi ennill monopoli (bron) ym maes beirniadaeth, a golchi ymenyddau o'r crud, ni bu ynddi nemor ddim ymholi gwir sylfaenol; ac yn wir, daethpwyd i gredu nad oedd dim un rhagdyb ganddi o gwbl, a'i bod mor naturiol ag anadlu. Ac felly y mae. Ceir sawl canlyniad anochel i'r safbwynt annigonol hwn: (1) Hunan-dwyll ynghylch niwtraliaeth, a thybiaeth fod gwyro oddi wrth y norm yn annioddefol; (2) Anesmwythyd syn wrth adolygu llyfr sy'n cymryd rhagdyb arall, ac na sgrifennodd yr awdur yr union lyfr yn hollol y dymunai'r adolygydd ei adolygu; (3) Ystyried mai nod beirniad ymrwymedig yw trafod amodau 'achub' awdur – sy'n benodol – neu ei gystwyo i blygu i gredoau nad ydynt yn berthnasol; (4) Methiant i ganfod hollgynhwysedd crefydd, a'i pherthnasedd i grefft megis i bwrpas, i natur delwedd yn ogystal ag i werthoedd, i ffurf yn ogystal ag i weledigaeth ar fywyd. Yn wir, ni bydd beirniaid 'yr hen giard' (Gwyn Erfyl yn yr achos hwn) yn hoffi ymholi fawr ynghylch eu cynseiliau'u hun; a llithrant heibio'n frysiog fel hyn: (*Taliesin* 35): 'Beth bynnag a ddwedwn ni bellach am niwtraliaeth wrthrychol yr academig "pur", rwy'n arswydo wrth feddwl am y modd y llusgwn ein hadnabyddiaeth arbennig ni o ffyrdd yr Hollalluog i mewn i bopeth.' Hynny yw, dylid sensro geiriau'r Hollalluog; a her byd. A thrachefn (*Y Genhinen* 27): 'Y mae'r ansoddeiriau "niwtral" a "gwrthrychol" yn anathematig mewn rhai cylchoedd beirniadol, mi wn; ond a gaf i ddal heb ymhelaethu mwy arnynt yma, fod iddynt eu gwerth a'u harwyddocâd.' Dichon mai archwilio

rhagdybiau tlawd y feirniadaeth ddyneiddiol hon fydd un o'r datblygiadau carthiol iachusol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Ac wrth iddi hi ymbwyllo a pheidio â rhuthro i gasgliadau hynod unllygeidiog ynghylch safbwynt tra daulygadog, fe fydd hi ei hun yn deall helaethrwydd ei thestun yn fwy o ddifri ac yn fwy treiddgar, ac yn sylweddoli hefyd fod 'celfyddyd' yn lletach ei harwyddocâd nag a freuddwydiodd hi erioed.

Meddai un o'r cyfryw feirniaid y dydd o'r blaen: 'Gorau po leiaf dogmatig fyddom wrth drafod llenyddiaeth (moesoldeb, crefydd, ayb.) i'm bryd i.' Ystyr hynny yw, yn gyntaf, 'Rwy'n credu o ddifri mai gwell yw peidio â chredu'n gryf', neu 'fy nogma i yw peidio â meddu ar ddogma.' Neu 'yr wyf yn credu mewn anghrediniaeth. Rhaid cael sensor.'

Yr hyn sy'n anochel i'r anghredadun yw dechrau drwy gredu mewn credu. (Ym mhob dim a wneir, does dim dewis ond dewis.) Yna, drwy naid o hunan-dwyll afreswm y mae'n rhoi'i ffydd mewn anghrediniaeth.

Ynghlwm wrth y dogmâu neu'r rhagdybiau cyntaf hyn, ac yn hedfan yn hapus o'u cwmpas, y mae yna fel arfer gytsêr amrywiol o ddogmâu eraill nad yw'r anghredadun neu'r 'niwtral-ddyn' wedi'u cydnabod eu bod yn rhagdybiau: e.e. dibynolrwydd iaith (y rhan fwyaf o'r amser), dibynolrwydd rheswm, dibynolrwydd rhai synhwyrau, y gred fod yn rhaid dechrau gyda'r hunan; ac yn rhamantaidd iawn, fel arfer y mae'n hoffi tybied ei fod yn 'rhydd', mai ef ei ei hun sy'n feistr ar ei ddogmâu ac yn medru'u rhoi wrth ei gilydd (ac felly nid ydynt yn ddogmatig); ac yna, bant ag ef drwy fôr o ddogmâu llethol a di-sylwi-arnynt i ymddwyn, ger ei fron ef ei hun o leiaf, fel pe na baent yn bod. Mae'r agwedd hon wedi dylanwadu'n aruthr ar brif lif y cyfnod diweddar. Er mwyn amgyffred gogwydd llenyddiaeth fodern, ni ellir ond cydnabod gwirionedd hyn.

Beth yw'r orfodaeth sy'n gyrru ac yn twyllo rhai fel hyn i ffansïo eu bod mor annogmatig? Yr Hunan. Beth yn hollol yw ystyr y dogma ynghylch osgoi dogma? Beth yw gwraidd cibddallineb yr ysfa i chwarae amhendantrwydd? Amharodrwydd ydyw fel arfer i ddadansoddi caethiwed dyn, caethiwed yn y bôn (os caf ddefnyddio'r term technegol) i gwymp cynhenid.

Weithiau, y mae'n anesmwytho ynghylch y llyffetheiriau y tu allan i'r hunan, y tu allan i'r greddfau a etifeddwyd a'r tu allan i'r syniadau a lyncwyd (megis er enghraifft y dogma rhamantaidd ynghylch rhyddid). Popeth yn iawn am y llyffetheiriau mewnol caeth (deallusrwydd, cymhlethau seicolegol, rhywiol, ayb.) gan nad oes fawr y gellir ei wneud ynghylch bodolaeth llawer o'r rheini. Popeth yn iawn hefyd am y rhai allanol na ellir eu gwrthod, megis pwy yw'n rhieni, beth yw'n hiaith gyntaf, beth yw'n hamgylchfyd cychwynnol a deddfau'r wlad, cyflwr economaidd y byd ac yn y blaen. Ond ar wahân i'r rheini – Rhyddid! Rhyddid i'r hunan, yr hunan dyneiddiol creadigol, sef – ar wahân i'r Byd!

Nid ar chwarae bach yr amlygir holl gyfyngiadau plwyfol ac unochrog y cnewyllyn hunan

bach hwnnw. Crynhowyd y safbwynt dyneiddiol ar un wedd yn dwt iawn ac yn y modd 'gostyngedig' cyfarwydd yn *Y Faner* (25/2/77): 'Digon yw ei fod (sef y nofelydd) yn ymdeimlo â'r cyflwr meidrol, a'i fod yn sylwedydd gonest a chraff yn ôl ei oleuni. Y cwbl y gall y llenyddiaeth fwyaf ei gyflawni yw rhannu'r boen yn dosturiol'.

Sylwer ar unwaith ar yr orfodaeth haearnaidd i feidroli pawb a ragdybir yn y frawddeg gyntaf, brawddeg sydd o ganlyniad yn anwybyddu'n ysgubol ran helaeth o lenyddiaeth y byd. Sylwer hefyd ar y cyfyngu caled ar nod llenyddiaeth yn yr ail frawddeg. Sylwer ar oddrychaeth anhyblyg y safbwynt i gyd. Sylwer hefyd fel y mae'n pwysleisio teimlad ac ymdeimlad ar draul dealltwriaeth, ac yn methu â chydnabod llenyddiaeth sy'n ceisio amgyffred llawn berthynas ac ystyr y boen ddynol – sef y traddodiad llenyddol Cymraeg bron ar ei hyd. Nid oes lle i archwilio natur y boen, ac ni chanfyddir chwaith paham – hyd yn oed y tu ôl i'r fath ymatal rhag gwybod – y mae yna orfodaeth foesol o leiaf yn y "dosturi". Tybiaf y byddai nofelwyr megis Dostoiefsci a Tholstoi (yn ogystal â Daniel Owen)  yn syrthio'n fyr braidd yn ôl gofynion y fath ymagweddu beirniadol.

Ni sylweddola dyneiddwyr fel arfer y math o gyfyngiadau sydd ganddynt, 'Digon yw... Y cwbl y gall... ' Dyna pam y mae beirniadaeth lenyddol sy'n ymwybod ag aileni yn ogystal â'r geni cyntaf, â'r goruwchnaturiol yn ogystal â'r naturiol, tan gyfrannu llydanrwydd, yn peri chwithdod i'r dyneiddiwr cyflyredig diymwybod. Y mae mwy mewn beirniadaeth nag ymateb i lenyddiaeth. Y mae yna le i feirniadaeth sy'n chwilio natur llenyddiaeth ac yn ceisio holi'i phwrpas gan nodi perthnasoldeb hwnnw i'r ffurf a'r ddelwedd o fywyd a grisielir. Ac y mae gan y ddealltwriaeth hon o feirniadaeth ymagwedd gyflawnach at lenyddiaeth yn gyffredinol, lle y mae dogma, o'i gydnabod a'i adnabod yn ddeallus, yn 'rhyddhau'.

**Beirniadaeth Lenyddol Bolemig (2)**

Mewn amgylchfyd lle y mae ceintachan yn gwneud y tro mor fynych, yn lle adolygu gan ddarllenydd mor gynnes ag Euros, buwyd yn achwyn yn fynych nad oes digon o gyd-drafod a gwrthddadlau llenyddol yn ein cyfnodolion. Er mwyn gwneud peth iawn am y diffyg hwnnw y ceisiaf barhau i ymateb yn garcus i rai o'r materion a gododd Euros yn ei ymdriniaeth lawer rhy haelionus â'r rhannau a ddarllenodd ef o *Llên Cymru (LL.C.A.Ch.).*

Hoffwn ddweud drachefn, serch hynny, fod llawer o gytundeb amlwg rhyngom hyd yn oed yn y lleoedd hynny lle y mae ef y cogio anghytuno. Er enghraifft, awgryma Euros fod mwy na'r traddodiad Calfinaidd mewn llenydddiaeth Gymraeg, gan ail-ddweud yr hyn a ddywedais i ar dud. 599, ac yn wir enwa ef dri thraddodiad crefyddol sy'n cyfateb i'r tri thraddodiad a grybwyllais innau ar dud. 307-8. Hoffwn ychwanegu pwynt, a ystyriaf yn dra diddorol, a wnaeth Canon o Eglwys Loegr (o'r blaid sagrafennaidd) un tro wrth gymharu natur yr eglwys Anglicannaidd yn Lloegr ac

yng Nghymru. Yn Lloegr, meddai ef, yr Arminiaid gan mwyaf a ymadawodd â'r Eglwys yn amser y Wesleaid, tra arhosodd Whitefield a'i gyd-Galfiniaid o fewn yr Eglwys. Felly, y mae llawer mwy o gydnawsedd â Chalfiniaeth ac â'r deugain erthygl namyn un ac â Chyffes Westminster yn Eglwys Loegr. Ond yng Nghymru, oherwydd mai'r Calfiniaid a ymadawodd, gan adael yr Arminiaid ynghyd â'r Sagrafenwyr, prin yw'r ddealltwriaeth effro o Galfiniaeth o fewn yr eglwys Anglicanaidd. Dyna sy'n cyfrif sut y cafwyd cewri megis Charles Simeon a J. C. Ryle yn Lloegr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a J. I. Packer a John Stott yn yr ugeinfed ganrif.

Y mae Euros hefyd yn awyddus imi fod yn anwythol yn hytrach na dadlau'n ddidwythol. Hoffwn feddwl mai anwythol yw fframwaith y gyfrol hon o fewn cyfyngiadau'r rhagdyb anochel a grybwylla Euros. Nid beirniadaeth lenyddol yn yr ystyr arferol yw cynnwys Ll.C.A.Ch.; a pham lai?

Ceisiais ddangos (t. 592) mai symud oddi wrth rai rhagdybiau neu gasgliadau cyffredinol tuag at sylwadaeth ar weithiau llenyddol unigol yw peth o waith arferol y beirniad llenyddol (sef diddwythiad). Ac y mae ei sylw ef yn gwbl gywir ar ddod o hyd i'w gwlwm yn yr arbennig.

Y mae'r gyfrol hon, felly, beth yn nes at 'theori' lenyddol. Diau fod lle penodol i ddadansoddi gweithiau llenyddol unigol yn y fath astudiaeth. Diau hefyd fod yna reidrwydd wrth ragdybiaeth gyffredinol sy'n peri elfen gref o ddidwythiad ym mhopeth a wnawn (a cheisiais osod hynny gerbron yn blwmp yn y Rhagymadrodd, er na welodd Euros arwyddocâd honno. Eithr symud bwriadlon oddi wrth yr arbennig tuag at gasgliadau cyffredinol (sef anwythiad) yw'r cyfeiriad; ac felly cyffredinolion yw ei nod. Cais ateb cwestiynau cyffredinol felly megis – Beth yw llenyddiaeth? A sut y mae hynny'n dod yn llenyddiaeth? Beth yw Ffurf? Beth a sut y deuir o hyd i Bwrpas a Gwerth?

Wrth drafod 'diben' yn anwythol yn niwedd yr ugeinfed ganrif, tebygaf i, mai dyma rai o'r camre mewn un enghraifft angenrheidiol: tri cham canolog:

[Rhagdybiau] Archwilio'r rhagdybiau yn fanwl (e.e. Beth yw ystyr hunanlywodraeth ewyllys dyn? A ydys yn rhagdybied cynseiliau 'naturiol' a 'goruwchnaturiol'? Beth yw dibyniaeth y synhwyrau? Oni sylweddolwn hollbresenoldeb crefydd?

[Unigoli Problemau] Mynd at broblem neilltuol (e.e. canu gŵr fel Wiliam Llŷn). Sylwi – wedi adnabod perygl y cyflyru anochel gan ragdybiau, – ei fod yn sôn yn gyson enghreifftiol am uchelwyr yn derbyn awdurdod oddi wrth Dduw; dyna'i 'ddarganfyddiad'.

[Casgliadau] Dod i'r casgliad cyffredinol fod a wnelo'r sôn yna â phenarglwyddiaeth Duw. Cyfyd o'r modd y mae honno'n cael ei chynrychioli'n lleol weithredol (drwy ras). Ond cydnabyddir yn ymwybodol agored fod y casgliad hwnnw'n gyflyredig.

Yn awr, *heb* fod yna archwilio a datguddio ar fframwaith y rhagdybiau naturiol cychwynnol,

nid wyf yn credu mai teg nac ysgolheigaidd chwaith, yn niwedd yr ugeinfed ganrif, yw cyffredinoli fel hyn, yn enwedig ynghylch dibenion. Dyna ddiniweidrwydd y 'niwtraliaeth' bondigrybwyll mor fynych. A'r her ganolog yr wyf wedi ceisio'i gosod ger ei bron hi yn Ll.C.A.Ch. yw archwilio'i rhagdybiau'i hun a chanfod treiddgarwch unochrog eu harwyddocâd wrth drafod dibenion. Os llwyddwyd i ymwybodoli peth ar bresenoldeb y rhagdybiau hyn ar waith yn y gwahanol gyfnodau yn hanes ein llenyddiaeth, fe wnaethpwyd rhywbeth arwyddocaol efallai. Yn wir, os llwyddwyd i'w ddigio yn ei gylch rywfaint, mae hynny'n un cam ymlaen.

Bellach, y mae Euros wedi amlinellu i ni fframwaith ei ragdybiau Arminaidd a sagrafennaidd ef. Nid erys mwyach namyn y ddau gam arall: mynd at enghreifftiau llenyddol drwy gydol hanes yr iaith, eu harchwilio, a hefyd ddod i gasgliadau cyffredinol yn eu cylch. Os gwna ef hynny, dyna'r tro cyntaf, fe ddichon, y bydd y pleidwyr Arminaidd neu ddyneiddiol wedi ymateb gyda llygaid agored i fframwaith llawn eu methodoleg a chan amlygu i bawb fframwaith cysylltiedig eu rhagybiau. Fe fydd yn gam buddugoliaethus a phwysig ymlaen mewn moesoldeb yn ogystal ag mewn beirniadaeth lenyddol ac nid bychan fydd ein dyled iddo. Byddai'n ychwanegiad sylweddol hefyd at y cyfraniadau aruthrol werthfawr a niferus a wnaeth Euros eisoes i lengarwyr Cymraeg.

Daethpwyd i weld hunan-dwyll y rhagosodiad cyffredin yng Nghymru: 'mae gormod o ffwdan ynghylch theori ddiwinyddol'.

Rhagflaenu beirniadaeth yw hynny, wrth gwrs, gan grefydd seciwlaraidd.

Rhagflaenu beirniadaeth lenyddol a wna 'theori' lenyddol hithau, neu hyd yn oed 'ddealltwriaeth' egwyddorol. Gall theori fynd at feirniadaeth cyn myfyrio digon uwchben y theori weithiau ac amlygu annigonolrwydd neu anaeddfedrwydd. Yn chwedegau'r ugeinfed ganrif yng Nghymru clywid rhai'n dal i sôn mai mynegi'r *synhwyrau* oedd popeth mewn celfyddyd. Y pum synnwyr oedd pum prop llenyddiaeth. Wrth gwrs, nid oes rheswm pam na ddylai'r fath theori ysmala a rhamantaidd orwedd y tu ôl i lenydda cwbl lwyddiannus. Ond cyfyngiad yw.

Wedyn, yr oedd ysgol arall a honnai mai *eironi* oedd y cwbl. Os oeddech am gael llenyddiaeth lwyddiannus yr oedd yn well iddi gynnwys tipyn go lew o eironi. Bellach, daeth annigonolrwydd y fath safbwynt â hwnnw i'r golwg hefyd; a rhaid inni ddisgwyl gweld pa ddyfais unigol arall yn awr a gaiff ei gorseddu'n nesaf. Cafodd amryw o bryd i'w gilydd ac yn eu tro gyfle – y trosiad, cynghanedd, paradocs, mydr, odl, symbol, hyd yn oed llythrennau'r wyddor yn wasgarog – a'u cyfrif yn llywodraethol.

Ceid ysgol fawr arall a oedd yn 'sgeptig' ar egwyddor.

Sylwer ar ddull nid unigryw Euros o ddadlau, gan mwyaf. Pan fo dyn mewn cyfyng gyngor am ddadl, y waredigaeth orau iddo yw codi gwrthwynebwyr gwellt. Os na all fwrw'r ddadl i lawr,

nid hwyrach y caiff beth hwyl ar y rhain. Yn y fan hon, yr wyf mewn llawn gydymdeimlad â'r anhawster.

Er enghraifft, mae Euros am inni 'gofio bod R.M.J. yn disgwyl inni dderbyn arweiniad yr ysgrythurau.' (t. 346) Ni allaf dderbyn y fath beth. Nid wyf erioed wedi disgwyl i neb 'ffaeledig' dderbyn arweiniad ysgrythurau sy'n 'anffaeledig' heb brawf. Roedd llenor fel Charles Edwards yn derbyn bod yr ysgrythurau'n ein harwain yn anffaeledig, ond dyna ddealltwriaeth hollol 'annaturiol'. Term a phriodoledd dwyfol yw 'anffaeledig'. Yn sicr, hefyd, yr wyf yn cytuno'n llwyr (ac wedi'i ddweud droeon) na ellir rhagdybio bod person normal yn derbyn 'ysgrythurau anffaeledig' drwy ryw fath o uniaethiad dilys. Am 'ddealltwriaeth ddiwinyddol' y crediniwr ffaeledig, fe all hwnnw fod yn dra chymysglyd neu ddi-glem ar y dechrau. O leiaf, dyna ddiffiniad tipyn o Fethodist (neu efengyleiddiwr) Calfinaidd (yn yr ystyr anenwadol), sydd yn dipyn mwy o 'Fethodist' nag o 'Galfinaidd'.

Medd ef eto: 'Os nad yw hanesydd yn Galfin, yna'r unig beth ar y mwyaf a ellir, yn ôl y gyfrol, yw "cael blas ar ei waith".' Ni wn ai am yr un gyfrol y mae Euros yn sôn o hyd yn y fan yna, ond y mae'n gwbl eglur o'r ymdriniaeth yn Ll.C.A.Ch. â gras cyffredinol y gellir disgwyl gan bagan o hanesydd ddeallusrwydd a dychymyg a gwybodaeth helaeth a dadansoddi craff a gweledigaeth ac elusen ac yn y blaen. Yn wir, gall y rheini fod yn rhagorach o lawer ymhlith paganiaid nag ymhlith Cristnogion, peth a ddwedwyd yn ddigon plwmp a phlaen. Dyfynnwyd Calfin ar hyn (t. 69), ac y mae ei farn yn bwysig er mwyn iawn ddeall hanesyddiaeth gatholig Charles Edwards.

Medd Euros eto: 'Os yw hanesydd, er enghraifft, yn Babydd fel Jacques Maritain, neu Martin D'Arcy, rhaid sylweddoli mai dim ond gras cyffredinol sy'n eu cymhwyso fel haneswyr,' fel petai ef neu fel petawn i, neu rywun, yn dal nad oes ond gras cyffredinol ar gael gan Babydd, hynny yw, nad yw Pabydd (o reidrwydd) yn Gristion. Ni chredaf hyn o gwbl, ac nis dywedais chwaith. Ni synnwn, yn wir, y gall nad oes rhai sy'n coleddu athrawiaethau Calfinaidd yn Gristnogion, a bod llawer iawn iawn o Babyddion yn bobl ailanedig. I'm bryd i, *sefydliadaeth* yr 'eglwys' a'r athrawiaeth am yr eglwys, am y term 'tad' a thraddodiad yr eglwys yw'r prif gyfeiliornad a all gamddysgu Cristnogion. Y mae gras arbennig ar waith i eneidiau unigol o'r tu allan ac o'r tu mewn i Babyddiaeth ymhlith Cristnogion ailanedig; ac mae'n bur debyg fod Euros yn cytuno â mi drachefn yn y gosodiad hwn.

Gadewch inni edrych, serch hynny, ar wrthwynebydd gwellt arall.

Wrth drafod T. Gwynn Jones, awgrymais fod tri chyfnod wedi bod yn hanes f'ymateb i fy hun iddo: 1. Y derbyn anfeirnadol; wedyn 2. Adwaith; wedyn 3. t. 543 'Wedi i ddrycin ein hadwaith dawelu, a phan gaf droi o'm cwmpas i godi'r drylliau o wydr fy sbectol, y mae T. Gwynn Jones yn anad neb yn hawlio ailffeindio'i le'. Baich yr ymdriniaeth, felly, fel y'i trafodir ar dud. 544, yw

archwilio o'r newydd i mi fy hun gadernid a rhagoriaethau T. Gwynn Jones. Hynny yw, cyffesu newid meddwl. A dyna a wneir. Eto, nawr, yn hytrach nag wynebu hynny, yr hyn a wna Euros yw cymryd yr Adwaith, sef 2. uchod, fel fel pe bai hynny'n safbwynt terfynol i'w feirniadu gennyf o hyd, hynny yw yr union fath o farn anhunanfeirniadol a ddrwgdybir gennyf i bellach yn fy nhrafodaeth. Â ati'n ddiymdroi am golofn gyfan i geisio adennill ei le i'r bardd nodedig hwn. Ni ellir ond ei gefnogi ef i'r carn yn yr ymgyrch clodfawr hwn; a diau yr ymunwn oll yn frwd gydag ef.

Rhag i mi roi'r argraff nad oes ond paffio dewr â'r awyr yn ysgrifau Euros, hoffwn ddweud, heb dafod yn fy moch na dim byd ymysgytwol felly, fod yr hyn a awgryma am berthynas sagrafennaeth â llenyddiaeth, yn gyffredinol, ac â llenyddiaeth Gymraeg yn arbennig, yn fater gwir bwysig, ac yn bwnc y mae gennyf lawer o gydymdeimlad ag ef (er y byddwn i'n defnyddio'r termau, efallai, ac yn eu dehongli'n ddigon gwahanol i Euros). Credaf y gallwn ddysgu llawer am gelfyddyd mewn sagrafennaeth, am hawliau swyddogion eglwysig wrth awdurdodi ychwanegiadau.

Y mae'r diagram sydd gennyf ar dud. 592 yn awgrymu y gallai ymdriniaeth felly, ymrannu'n ddwy adran, y naill yn ymwneud â deunydd celfyddyd a'r llall â'i ffurf neu'i phroses. Yn gyntaf, y mae diwinyddiaeth sagrafennaidd yn gallu estyn cymorth uniongyrchol i werthfawrogi cynnwys llawer o'n llenyddiaeth, yn arbennig cyn y Diwygiad Protstannaidd, fel yr arddangosodd Euros mor deg yn ei ysgrifau. Ond yn bwysicach o lawer, fe ellir cymryd diwinyddiaeth sagrafennaidd – yn ogystal â diwinyddiaeth y Creu a'r Ymgnawdoliad (yn well, y rheini ddwedwn i) – yn *fodel* neu'n gynddelw ar gyfer theori gelfyddydol. Yn y cyd-destun hwn, diddorol sylwi fod Euros yn dyfynnu o Ll.C.A.Ch.: 'Myth a ddaeth yn ffaith yw hanes Crist. Symbol a ddaeth yn llythrennol.' Cyfeddyf na all ddeall sut y gall Calfin ddweud y fath beth; ond fe all ymgysuro, gan fod yr un pwynt hwn na fyn mo'i ddeall, gymheiriaid nid anniferus yn y gweddill o ysgrifeniadau Calfin.

Bid a fo am hynny, bu'r blaid sagrafennaidd yn llafar iawn mewn ieithoedd eraill yn y ganrif hon, yn arbennig yn Ffrangeg, ac ychwanegodd gryn lawer at ein hamgyffrediad o'r proses creadigol. Y mae gennym dipyn o'r deunydd hwn gan Saunders Lewis, Aneirin Talfan Davies, A. M. Alchin, a bellach Euros yn ei sylwadau helaethfawr am ei waith ei hun (sy'n gryn gymorth wrth werthfawrogi'r proses creadigol yn gyffredinol.). A chredaf ei bod yn bryd, erbyn hyn, i rywun o'r tu allan i'r blaid sagrafennaidd, hyd yn oed seciwlariad neu Arminiad, ystyried aml weddau arwyddocâd eu cyfraniad helpfawr, nid yn null tarw mewn siop lestri, ond gyda chydymdeimlad deallus. A chyda llaw, wrth wneud hynny, credaf y dylid cynnwys barddoniaeth Euros o fewn cylch y sylwadaeth lenyddol honno. (Nid amherthnasol fydd y gyfrol o gyfieithiadau *Beirdd Simbolaidd Ffrainc* yr ydym oll yn edrych ymlaen atynt. Onid Euros bellach yw un o gyfieithwyr meistrolgar ein cyfnod?)

Gwell ymatal rhag canlyn ymhellach ar ôl mân bwyntiau. Y brif ddadl, onid yr unig un o

ddifri ar wahân i'w awgrymiadau sagrafennaidd, sy gan Euros yn ei sylwadau lle y bu'n gwrthwynebu Ll.C.A.Ch. yw dweud yn loyw iawn ei fod ef yn dechrau gyda rhagdyb wahanol.

Debyg iawn. Dyna'n union, wrth gwrs, a rybuddiwyd ar y tudalen cyntaf y byddai ef yn sicr o'i wneud: fe wyddem am y fagl honno'n burion cyn cychwyn. Ac yn ei sylwadau benbwygilydd, awgryma Euros mai'r cychwyn hwnnw yw'r diwedd: ni all ymestyn ymhellach. Tybed, serch hynny, a agorodd y drws pren caeedig hwnnw ryw fymryn bach wrth iddo ymlwybro drwy'r gyfrol? Mae'n ymddangos fod ei ymdriniaeth ef, yn y bôn o ddarllen rhwng y llinellau, yn llawer mwy ymwybodol o'i ragfarnau nag yw ar yr wyneb; ac mewn gwirionedd, rhwng y llinellau yn bennaf y cynghoraf y darllenydd i chwilio am ei berlau; gellir ei sicrhau nad ofer fydd yr ymchwil.

Ôl-nodyn 2016

Pe gofynnwn heddiw ynglŷn â'r casgliad i'r hen ddadl hon, beth fyddai'r term gorau imi ddisgrifio neu ddiffinio beth roeddwn i'n ceisio'i sgrifennu yn *Llên Cymru a Chrefydd* – 'ai Diwinyddiaeth, ai Polemig neu bropaganda, ynte Pregeth?' fe ddywedwn i 'Dim un'. Ond 'Beirniadaeth Lenyddol' ar sail rhagdybiau Calfinaidd am Ras Cyffredinol a Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn bennaf.

Nodyn ymddiheurol:

Yn y ddwy adran, Iorwerth Peate ac Euros Bowen, mae yna gryn ailadrodd, a hoffwn ymddiheuro i'r darllenydd.

Digwyddodd hyn oherwydd bod yr adran ar Dr, Peate yn ffrwyth recordio ar y pryd yn Sain Ffagan, a bod yr adran ar Dr Bowen yn ffrwyth ailadrodd y bregeth mewn dadl papur newydd. Ni ddylid bod wedi cynnwys y naill na'r llall ar y wefan. Ac mae'n ddrwg gennyf am yr amryfusedd blêr hwn.

DROS F'YSGWYDD (12)

PAUL

Wyddwn i ddim pwy oedd hwn a oedd yn pwyso dros f'ysgwydd i. Dirgelwch oedd e.

Ac yna sylweddolais i mai un oedd y ddau yno; dau mewn un corff.

Roedd y cyntaf yn ddyn neis yn ei feddwl ei hun. Roedd e'n hynod foesol. Pan fyddai'n cael ei gladdu, yn ei angladd byddai'r pregethwr yn gallu datgan cysur wrth y teulu – 'fe wnaeth ei orau. Mae gynnoch chi atgofion cariadus amdano. Roedd e wedi ceisio bod yn onest bob amser, a pheidio â dweud celwyddau. Roedd e'n ceisio helpu mewn angen, a rhoi elusen. Roedd Duw wedi rhoi iddo y ddawn o fod yn gydwybodol, ac wedi datguddio iddo wedd ar yr unig ran o'i ddysg a oedd yn llygredig, sef popeth.'

SAUL oedd hwn, bachgen galluocaf yr ysgol.

Roedd Duw wedi datguddio gwedd arall. Roedd yr ail ddyn yn bechadur. Roedd yn meddu ar yr un corff, sef corff y farwolaeth hon. Ond roedd hwn wedi gweld y Goleuni Mawr. Dangoswyd i Saul fod yr holl ddaioni oedd ganddo fe'n 'fratiau budron' yng ngoleuni'r nefoedd. Roedd ar ei ben ei hunan – heb fod yn werth dim mwyach; ac yn ei angladd, ac yn llygaid Duw, yn frwnt i gyd, ac yn sarhad ar Dduw. Roedd yn dal i fod yn onest a helpu pobl, fel y dyn neis. Ond y tu mewn i'w gorff, roedd yna rywbeth arall wedi bywhau Saul, sef ei ysbryd. Roedd ef wedi ennill y fuddugoliaeth fwyaf yn yr holl fyd – sef colled. Ac roedd Duw yn gallu datgan wrtho, 'Rwyt ti'n f'adnabod i mwyach. Rwyt ti'n edifarhau, rwyt ti'n galw amdana i.' Ac meddai'r Creawdwr-Waredwr: 'Rwyt ti'n plygu yn dy fudreddi, ac yn fy nerbyn i yn unig, ac rwyf i wedi dod i breswylio ynot ti. Rwy'n gallu dy ryddhau di o gorff y farwolaeth hon. Rwyt ti'n eiddo i Fi.'

Ymostyngodd y dyn. Mae'r person sy'n wir ostyngedig yn gwbl anymwybodol o'i ostyngeiddrwydd, heb sôn am ymfalchïo neu frolio yn ei gylch. Derbyniodd ef yr Ysbryd Glân.

Rwyf yn caru'r dyn hwn yn angerddol.

PAUL oedd hwn.

Fe roddasid dau RAS i Paul; ar y naill law, RAS CYFFREDINOL, fel i'w gyd-ddynion i gyd, ac nid i fesur bach. Fe'i rhoddodd mewn rhai cyfeiriadau yn llawnach nag i neb arall. Gras mawr oedd e. Fel gyda llawer un arall, fe roddwyd iddo fywyd a theulu a thir ac awyr a nerth corfforol a meddyliol. Fe roddwyd iddo gydwybod ac ewyllys a deall ac iaith. A chymwynasgarwch. Dinesydd daear oedd e.

Nid doniau i'w dirmygu oedd y rhain, er mor gyffredinol. Ond ar ben y Groes hoeliwyd GRAS arall nas rhoddwyd ond a gynigiwyd i bawb; ac yn y Gras hwnnw ddealltwriaeth anghyffredin hollol, yn fwy na neb – ac i berwyl arbennig.

Dyn llyfrau oedd Paul o hyd, yn ymhyfrydu mewn darllen. Ond byw yn syml yr oedd e. Mewn nodyn personol at Dimotheus, meddai (2 Tim. 4:13) 'Pan fyddi'n dod, tyrd â'r clogyn a adewais ar ôl gyda Carpus yn Troas, a'r llyfrau hefyd, yn arbennig y memrynau.' Roedd e mor ddynol.

Doniwyd ef â gwendidau dynol a nam corfforol. Dôi â'i holl ddoniau a'i ddiddordebau gerbron Duw, a rhoddai Duw hwy'n ôl, i bersonoliaeth newydd; a rhyngddynt a'i gilydd berthynas newydd fel y byddai megis plentyn rhydd iddo ef, yn ogystal ag yn gaethwas. Gras rhagorach oedd hwn. Fe roddwyd iddo fywyd tragwyddol, nid yn unig o ran hyd, ond (cyn belled ag y'i rhoddid yn y byd hwn) o ran ansawdd hefyd. Fe roddodd Duw ei hun yn ei galon. Fe roddwyd gair Duw ynddo, a'r awydd i ymostwng yn gyfangwbl. Roedd yn ddyn cyflawn, goruwchnaturiol nawr, yn eiddo i Dduw ymhlith dynion, a'r awydd i ymostwng ynddo yn gyfangwbl. Roedd yr hen ddyn gynt yn ddyn newydd. Dinesydd Rhufain oedd *a* Dinesydd Nef. Rhoddwyd iddo RAS ARBENNIG.

Ond tra oedd ef ar y ddaear, roedd yna frwydrau rhwng Saul a Paul, gyda Saul yn bodoli yn y corff, ond Paul – o dan anawsterau enbyd – yn byw o'r tu allan *a'r* tu mewn, mewn amgylchfyd o Gariad Dwyfol, ac er ei waethaf ei hun yn ŵr trawsffurfiedig, mewn dau ras. Ond i mi, roedd y ddau ddyn, Saul a Paul, yn ddysg ac yn genadwri ryfeddol.

* * *

Mae yna harddwch y tu hwnt i bob harddwch. Mae'n dod i'r golwg pan fo Gras Cyffredinol a Gras Arbennig yn toddi'n un. A hyn a ddangosodd Paul i mi'n bersonol un hwyrnos mewn modd dramatig.

Mae Paul yn pwyso'n hardd dros f'ysgwydd i'n wastad. Byddaf yn ymdroi gyda llawer o bethau'r byd hwn, yn seciwlar ac yn grefyddol; ac yna, mae llais Paul yn dod, a'r Ysbryd wedi rhoi corff newydd i'w lais ef. Llais Carwr yw yn herio fy nghydwybod. Ymhlith plant dynion, nid oes neb a esboniodd drefn iachawdwriaeth yn well nag ef.

Mae'n llais sy'n torri ar draws yr anwybodaeth a'r arwynebolrwydd ystyfnig, ac yn fy nghorddi, yn gwaedu fy sylweddoliad. Golwg dyn wedi cyfarfod â'r Arglwydd Iesu Grist sy ar Paul (Actau 9:3-5), ac mae'n awyddu i'w gyflwyno i'r bobl. Fe fu golwg Saul yn camddeall hyn am flynyddoedd cyn hynny; ond disgynnodd y gwirionedd mawr arno i'w newid. Golygai hyn fod yr Ysbryd Glân wedi nythu yn ei galon, a gwneud y Gwir yn eglurach beunydd (Actau 9:17-18). Yn y digwyddiad hwn fe sylweddolwn mor unigryw oedd Paul.

Mae yna rai o'r dysgeidiaethau a ddarllenwn yn ei waith yn canoli ar Berson Crist. Maent yn gwbl angenrheidiol i'r anghredadun i'w deall. Gallant ymddangos i bechadur anghenus ar y dechrau yn hunanganolog. Anelant at y galon golledig, fel pe na bai dim arall yn bod heblaw'r profiad hwn.

Ond yn ei lythyr mawrhydig at y Rhufeiniaid, mae Paul yn dechrau drwy *Ras Cyffredinol.*

Yr oedd dynoliaeth oll wedi dechrau yn Eden yn ei pherthynas â Duw. Dyma weledGiad rhyfeddol. Dechreuodd 'dyn' mewn cytgord â Duw, gyda'r naill yn deall y llall yn naturiol – ac yn uwch-natur. Cynrychiolai Adda felly bawb yn y byd. Dyma sut mae Paul yn egluro Gras Cyffredinol dynion (Rhuf. 1:19-21): 'y mae'r hyn y gellir ei wybod am Dduw yn amlwg iddynt, a Duw sydd wedi ei amlygu iddynt. Yn wir, er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau anweledig ef, – ei dragwyddol allu a'i dduwdod – i'w gweld yn eglur gan y deall yn y pethau a greodd. Am hynny, y maent yn ddiesgus. Oherwydd, er iddynt wybod am Dduw, nid ydynt wedi rhoi gogoniant na diolch iddo fel Duw, ond yn hytrach wedi troi eu meddyliau at bethau cwbl ofer; ac y mae wedi mynd yn dywyllach arnynt yn eu calon ddiddeall.' Dechreuodd Duw mewn Gras Cyffredinol, ac (yn ôl Datguddiad Ioan) bydd yn dwyn y cwbl i gwlwm mewn Gras Cyffredinol arall o fewn Gras Arbennig a Gwaredigol yr Oen. Erys y gras hwn a'r ddeddf hon yn y gydwybod ddynol o hyd yn gynhysgaeth yn barod i'w gweithredu (Rhuf. 2:15): 'Y maent yn dangos bod yr hyn a ofynnir yn y Gyfraith, ac felly y mae eu meddyliau weithiau'n eu cyhoeddi, ac weithiau hefyd yn eu hamddiffyn.'

Dyma eisoes drugaredd Duw ar waith mewn anghredadun, ond dyw dyn ddim yn gallu ymateb yn llawn yn ei gyflwr cyn-waredig. Er hynny, dyw Duw ddim wedi gorffen â dyn, er bod dyn wedi ceisio'i ddisodli ef, a pheidio ag ymwneud ag Ef. Erys gwedd ar Ras Cyffredinol o hyd i oedi yn y gydwybod ar hyd bywyd dyn. Mae Duw'n dal i gynnal dynoliaeth ar y ddaear drwy roi iddo fywyd a threfn, bwyd a doniau naturiol. Mae'n glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. Drwy'i haul mewn natur mae'n tywynnu yn naturiol.

Eto, sianel oedd, ac yw, Paul i'r Ysbryd heb awdurdod terfynol ganddo ef, yn wahanol i'r modd y chwenycha tystiolaethwyr eraill. Hynny yw, tyst oedd, nid unbennaeth. Mae llawer o Gristnogion hyd yn oed sy'n dystiolaethwyr i bobl sydd heb y medr i droi'r gwrando yn glywed deallus. Mae rhai dysgeidiaethau goruwchnaturiol gwaredigol a gyhoeddir o'r pwlpud i bawb, sy'n canoli ar Berson Crist, ond yn raddol yn cael eu datgan ac yn angenrheidiol i'w deall. Maen nhw'n gyfryngol, yn dramgwydd, yn annisgwyl, ac yn anodd. Fe aethan nhw'n ddryslyd ac yn hunanganolog oherwydd ymwahanu anghredinwyr oddi wrth Dduw (Rhuf. 1:18 – 3:20). Trowyd o'r Goruwchnaturiol gan ddyn i'r Naturiol unllygeidiog a chyfyngedig. Ac eto, daliai Duw yn drugarog i ddarparu gras byw a bod, i glirio'r llygad a'r glust, cydwybod, a doniau eraill heb eu haeddu.

Mae Paul yn egluro Ffurf a Deunydd y neges. Rhaid inni ddeffro i ymagor yn ei feddwl, i fod yn barod i gael ein synnu. O ran Ffurf, Duw sy yno'n Un, yn Ddau, ac yn Dri; mae'r dyn sy'n dal i synied nad yw Duw ddim yn Dri-yn-Un yn gorffen drwy fod yn Fathemategydd anghyfan. A Chariad yw o ran Deunydd. Mae Paul yn esbonio'r ffaith mai Unoliaeth, Deuoliaeth a Thrioliaeth (neu Luosedd) ar waith drwy berthynas gariadus yw Duw. Fe all Cristion brofi hyn, heb ei ddeall.

Closiwn at Paul. Hyfrydwch melys a phrydferth yw adnabyddiaeth ohono. Mae'n gwmni

braf i'r anghenus. Mae ganddo stori dda i'w hadrodd. Ar ei helaethaf, traetha ffeithiau syfrdanol, ac ymddangos yn gymhleth drwy batrwm syml. Dyma ddeunydd ei genadwri. Y mae'n cyflwyno dealltwriaeth o ogoniant y Gwirionedd Cristnogol mewn dysgeidiaeth ac mewn bywyd. Fe yw'r un sy'n manylu fwyaf o'r apostolion ar gyfoeth ystyr yr Efengyl. Sylwer yn yr athrawiaethau mawr Cristnogol sut y blaenosododd ef Ffordd Iachawdwriaeth: yn olynol drwy symud o'r Greadigaeth ymlaen i'r Cwymp, o Etholedigaeth i'r Cyfamod, o'r Ffydd i'r Gweithredoedd o'r Cyfiawnhad i'r Waredigaeth, *o* Dragwyddoldeb i Amser *ac* yn ôl *i* Dragwyddoldeb. *Bob* man y mae patrwm Duw yn bresennol.

Welais i erioed y fath ddadleuydd miniog a threiddgar ar waith â Paul. Arhoser gyda'r dadleuon gofalus a thyner hyn, sy'n fwy na dadleuon. Paul sy wrthi'n esbonio ac yn tystiolaethu i'r rhain yn fanylach na neb. Cyn-llun ym meddwl Duw yw'i genadwri, ar gyfer gwneud dynoliaeth yn wahanol; i'w newid.

Wrth edrych allan drwy'r ffenestr, dyw anghredadun ddim yn gweld yr un wybren â'r Cristion. Ond (a Paul fyddai'r cyntaf i addef hyn) sianel oedd, dim ond sianel: ni wna ef y tro yn lle Iesu a anwyd ar y ddaear drwy wyrth. Yn ôl y Ffurf a ddyfeisiodd Duw, gweithiwyd yn ôl Trefn dragwyddol, megis y rhoddwyd byd a bywyd at ei gilydd drwy Drefn. A thrwy ddarganfod ac ymostyngiad i'r Duw-ddyn – yn aml heb ddeall ond ychydig – y deuir o hyd i'r wybodaeth esboniol i heddwch yn yr Ysbryd. Yn yr Undod mawr â Duw, fe geir y rhannau'n cyfannu yn lle chwalfa: dyna swyddogaeth fawr yr Efengyl, yn cyfannu'n lân ac yn berffaith, ac yn dwyn yn ôl at ei gilydd yr hyn a arwahanwyd. Felly, ceir Efengyl sy'n cynnwys trefn Gras Cyffredinol o fewn trefn Gras Arbennig.

Er rhwydded oedd y Greadigaeth i Dduw, – mater o ddweud – nid rhwydd iddo oedd Iachawdwriaeth. Rhoddodd ei uniganedig Fab fel na choller y neb a gredo, ond caffael ohono fywyd tragwyddol. Ar ddiwedd y tristwch hir ynghylch hagrwch dyn, mae yna fuddugoliaeth yn Iawn Duw. Er gwaethaf realedd galar a marwolaeth prydferthwch, mae yna ateb dwyfol, gorfoleddus a gogoneddus, sef hyfrydwch aberth Duw. Paul yw'r crediniwr enigmatig a esboniodd orau y Cynllun Mawr hwnnw: Duw yn ei roi ei hun.

* * *

Dŷn ni'n gwybod mwy am Paul yn bersonol yn ei fywyd a'i feddwl, nag am neb arall ond Iesu Grist, yn y Testament Newydd. O blith plant dynion, ef yw'r un a ddewiswyd i fanylu fwyaf ar thema cyfanrwydd y Beibl.

Dywedir, erbyn bod plentyn arferol wedi cyrraedd rhyw wyth oed, y mae eisoes wedi casglu y rhan fwyaf o'r defnydd sylfaenol i'w feddwl a'i deimlad. Mae'n gwybod iaith a'r ffordd i ddeall bywyd. Ac eisoes y mae'n adnabod y gymdeithas sydd o'i ddeutu. Daeth Saul yn gynnar i wybod

cyfreithiau ac arferion cyffredinol ei bobl ei hun, a gwreiddiwyd ef mewn canrifoedd.

Dŷn ni'n gwybod yn allweddol am ei brofiad o gyhoeddi'r broffes mewn sawl gwlad, yn helaethach nag am neb arall yn y Beibl. Meddai Thomas Charles am y Paul gweddnewidiedig: 'Nid oedd yn un o'r deuddeg; ond chwanegwyd ef atynt i fod yn apostol y Cenhedloedd; ac nid oedd yn ôl i'r apostoliaid pennaf: 2 Cor. 11:5.' Ef oedd y cenhadwr mawr mwyaf a gafwyd. Ef oedd llythyrwr helaethaf y Beibl. Efô yn anad neb biau ffurf y llythyr ysgrythurol.

Meddai Thomas Charles: 'A fu y fath un ymhlith y rhai oll a gyfranogodd o lwgr natur Adda? Yr oedd ei wroldeb wedi'i gyd-dymheru â mwyneidd-dra anarferol, a'r cariad mwyaf tyner. Yr oedd ei feddwl bywiog yn gysylltiedig â'r farn fwyaf cywir, a'r galluoedd ymresymgar. Tros ysbaid llawer o flynyddoedd, y dyn hwn, yn ôl tymer ei natur yn drahaus, yn waed-wyllt, ac yn greulon, a fu byw yn llawn dynserch, ac yn gyfaill i ddynolryw; yn wastad yn talu da am ddrwg, yn llawn amynedd a mwyneidd-dra, ac yn ddiymod yn ymestyn at bethau nefol ei hun, ac yn llafurio yn ddiorffwys i gael dynion i'r un agwedd ac i'r un llwybr ag ef ei hun.'

Yn yr Actau ac yn y Llythyrau, cawn ei weld e'n pontio o genedl yr Iddewon i mewn i genhedloedd eraill. Mae'n symud o'r Dwyrain Canol i fyny tuag at Asia Leiaf ac Ewrop. Oherwydd y gwaith o bontio a wnaeth, dan fendith yr Ysbryd Glân yn ei galon ef a'i gymheiriaid, daeth brodyr a chwiorydd i ddeall yr efengyl. Newidiwyd eu bywydau yn weithredoedd. Cafodd y byd wybod am y gwir. Do, yng Nghymru.

Yn awr, yn 2016 gellir rhoi adroddiadau am fannau newydd yn cael eu bendithio. 'Mae 400 o bobl yn troi at y ffydd efengylaidd *bob awr* ym Mrasil ar hyn o bryd.' 'Mae mwy o Gristnogion yn Tsieina heddiw nag yn unrhyw wlad arall yn y byd.' 'Yn Ethiopia mae nifer y myfyrwyr efengylaidd wedi tyfu o 5,000 i 25,000 mewn deng mlynedd – ac mae'r fendith wedi ymledu i'r eglwysi. Mae eglwysi wedi bedyddio 200,000 o Gristnogion newydd bob blwyddyn yn ystod y chwe blynedd diwethaf.' Paul a arloesodd y mudiad hwn i mewn i'r diriogaeth anghrediniol.

Gwaith addysgol oedd hwn. Mae Duw (o'i chwilio) yn ateb y cwestiynau i gyd.

Nid naid i'r anhysbys yw Ffydd. Mae 'Ffydd yn warant o bethau y gobeithir amdanynt, ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld.' (Heb. 11:1-40) Nid oedd tröedigaeth Paul wedi digwydd heb wybodaeth. Pe gofynnid iddo beth yn union a ddarfu, byddai wedi dweud: 'fe glywais, ac fe welais; ac felly yr wyf yn gwybod.' Ymateb ymddiriedus yn y galon i ras addysgol oedd Duw. Rhywbeth oddi wrth Dduw a chan Dduw yw gras; ac yng Nghrist yr angorir y ffydd Gristnogol. Angorir gras yn rheidrwydd y meddwl ar dân i weithredu drosto Fe. 'Mae ffydd heb weithredoedd yn farw.' (Iago 2:17-26) Cymhelliad yw, a chanllaw i'r gweithredoedd. Mae ffydd drwy'r amser, bob cam, yn cynnau mewn creadur ac yn ei wneud yn iawn gyda Duw, yn ei sancteiddio, a'i gadw. Cynyddu a wna ffydd tuag at sancteiddhad. A'r rhodd a dderbynnir yn ei hanfod yw Sicrwydd credu

iachawdwriaeth gan yr Un a'i rhoddodd ar y Groes. Dyma rai adnodau lle yr oedd Paul yn annog ffydd i ni; yn ei lythyr at y Rhufeiniaid: 1:8, 17; penodau 3, 4, 5; 8:17, 32; 10:9; 13:14; 14:1. Gwelir mai'r etholedigion yn unig sy'n credu. Ac y mae hyn yn gallu ymddangos yn annheg, hyd yn oed i gredinwyr. Ond na herier Duw. Mae yna berffaith ryddid a chroeso i bawb bwygilydd gredu cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Y funud hon. Sefydliad dwyfol annealladwy o ddirgel yw etholedigaeth i sicrwydd achubiaeth. Iddo Ef nid oes dim yn amhosibl. Ac mae Ef yn gallu cyrraedd ceiswyr taer a didwyll ostyngedig, drwy waith yr Ysbryd yn achub yn rhinwedd reidiol Gwaed y Groes. 'Cred a chadwedig fyddi.' Ar y diwedd y sylweddolir taith yr anialwch i gyd.

Gras o'r dechrau yw etholedigaeth. Ac mae hi'n rhodd anhaeddiannol a rhydd. Soniais fod yna ddau fath o ras – dwy rodd: Gras Cyffredinol (fel y byd, bywyd, trefn) a Gras Arbennig (i achub y colledig). Problem fawr yw canfod eu perthynas. Paul yw'r un pennaf sy'n esbonio'r berthynas honno. Mae Gras yn anochel syml i'w dderbyn yn gynnar neu'n aeddfed, ond yn anodd i'w ddeall. Un cymorth yw sylweddoli bod Duw yn rhoi mewn dwy ffordd. Mae deddfau ym mhob man, a rhai yn yr unigolyn. Yr hyn sy'n cydlynu'r rhain yn rhagluniaethol drefnus yw'r Penarglwydd cynhwysfawr: Duw, – y Crëwr a'r Ceidwad.

Mae'r Gras Cyffredinol hwn yn gorfod wynebu pob maes gwybodol, a'u diffinio oll yn gydgysylltiol mewn hierarci cydlynol. Mae'n dod i'r golwg yn amgylchfyd y Greadigaeth lawn. Dechreua yn y cnewyllyn sy'n rhagflaenu pob dim arall: gofod, amser, bywyd, symudiad, teimlad, meddwl a ffydd – sef agweddau moddol y byd, yr hunan, a Duw.

Maent yn sôn am bersbectif beiblaidd thematig – creu, cwymp, cadw – y patrwm rhagluniaethol o fewn amser a thragwyddoldeb a ddatguddia Paul – yng Ngras fel ffaith. Dyma rai cyfeiriadau ganddo: Rhuf. 3:24; 5:15; 6:14; 7:23; 12:3,6; 15:15; 16:5; 20:25; 1.Cor. 15:5; 16:3; 16: 23; 2. Cor. 2:14; 8:4; 8:9; 13:13; Gal. 5:4; 8:4,7,19; Eff. 1:2-7, 2:5,7; 3:2,8; 4:7; 5:27; 6:24; Phil. 4:23; Col. 4:6,18; 1.Thes. 5:28; 2. Thes. 3:8; 1 Tim. 1:14; 6:21; 2 Tim. 4:22; Tit. 2:11; 3:3-5,15.

Perthyn Gras Cyffredinol o raid i'r Greadigaeth. Yn y bôn, y mae y tu hwnt i'r greadigaeth a natur a deall dynol. Pan sonnir am greu allan o ddim, mae a wnelom â gwirionedd goruwch rhagdybiau a gwybodaeth gyffredin y gwyddonydd. Wrth gwrs, mae rhai gwyddonwyr yn hoffi honni, er na allant ei esbonio'n union onest a llawn, y camre o'r dim (nac o unrhyw darddiad arall) at fodolaeth y cyfanfyd, at fywyd, celloedd, molecylau, organau, deddfau megis disgyrchiant, DNA, gramadeg brawddegau (o ran gwreiddiau cyfundrefn), addoliad; – eto, maen nhw'n hawlio'n hyderus braf y gwnân nhw ddeall hyn oll ryw ddiwrnod ar y ddaear, ond dal ati, yn ystyfnig yn nimensiwn rhagdybiol y naturiol. Ar y diwedd, gweithiant tuag at eu rhagdyb.

Bu'r cyfnod cyn Adda yn llai eglur na'r cyfnod wedyn i haneswyr, ac i ddaearolegwyr. Ond fe geir llawer o ddyfalu cyfnewidiol iawn gan ffuglenwyr 'gwyddonol'. Un perygl i gredinwyr

Cristnogol, wrth ddadlau gydag anghredinwyr o'r fath sy'n glynu wrth ragdybiau hyderus yw ymgolli'n newyddiadurol chwit-chwat mewn cyd-ddadleuon na ellir dibynnu arnynt a manylion sy heb eu datguddio, yn ôl eu telerau a'u dimensiwn anghywir. I ddeall dyn yn iawn, rhaid bodloni ar wybodaeth y tu hwnt i'r creedig; ac ni cheir hynny wrth reswm ond mewn dimensiwn y tu hwnt i'r naturiol. Gwae'r gwyddonydd sy'n troi'n newyddiadurwr gwleidyddol wrth drafod ffynhonnell bodolaeth a'r nerth a arweiniodd at gyfoeth amryfal drefnus y bydysawd.

Heb y goruwchnaturiol mewn dadl sylfaenol, gwthir dynion i dynnu casgliadau heb ragdybiau digonol, ac i fyw y tu hwnt i'w hincwm ac i'r funud. Yr hyn sy'n amhosibl i'r ymennydd dynol cyfyngedig, hynny a erys, yn ymchwil heb ddiwedd, a ffolineb yw gwastraffu 'sicrwydd' gydag ef. Dyna'r twyll y câr y Diafol ein cadw ynddo. Nid mater yw hyn o fod yn geidwadol, ond o fod yn ymarferol; a'r ymarferol gall yw troi'r egnïon at radicaliaeth bosibl mewn gweithredoedd da o fewn y sefydlogrwydd na cheir bywyd hebddo. Eto ni raid i fywyd dyn aros yn ofer i fod yn gyfyngiad ohono'i hun.

Perygl Cristnogion, wrth ymgyfyngu i Ras Arbennig, yn hytrach na chynnwys Gras Cyffredinol o'i mewn yw anwybyddu ehangder rhoddion Duw. Yr ymgyfyngiad mynych hwn yw'r un sy'n cynhyrchu pietist amddifad a'r moesolwr dyn-ganolog. Bydd anwybyddu dysgu Gras Cyffredinol yn arwain at ganfod bywyd grasol yn rhy gyfyngedig fel defnydd caeedig i Ras Arbennig, a gall ddileu chwerthin mewn gorfoledd, a chwarae, a chelfyddyd, a theithio'r gofod, a thawelwch bywyd i gyd o fewn calon Duw. Celwydd a thwyll gwyrdröedig yw'r fath anwybyddu.

A chyfyngiad yw ar y Darlun Mawr. Fel hyn, credu y mae fy neall i o'r efengyl, pan drof – yn ffaeledig – oddi wrth y penbleth o drafod y mân us.

Un o ganlyniadau dadlau ar lefel y llythrennol wyddonol yn unig, fel y gwna seciwlarwyr, yw y gall gogoniant y Gogoniant a rhyfeddod aruthrol y weithred o greu goruwch rheswm gilio ym meddylfryd y Cristnogion ffyddlon eu hunain i mewn i fanylion y ddadl. Fe'u disodlwyd ym mryd rhywrai gan fân ddadleuon ynghylch hyd y dyddiau creu, a cholli mawrdra anamgyffredadwy y creu ei hun. Collwyd golwg ar ymddangosiad gwyrthiol a ffeithiol ddirfodol bob-dydd y greadigaeth, bywyd, cyfundrefnaeth a deddfau. Fe'n tynnir oll i lawr i seciwlariaeth y naturiol gan ragdybiau rhy anaddas naturiol heb sylweddoli bod yna ddigon o wybodaeth reidiol yn yr Ysgrythur, inni gael addoli'r Crëwr yn ogystal â'r Gwaredwr. Mae ein testun yn oruwchnaturiol bob modfedd, a'r naturiol ei hun yn oruwchnaturiol.

Mewn gwirionedd, dadl sydd gan yr agnosticiaid ynghylch absoliwtrwydd Duw *neu* ddyn. Beth a amodai resymolegrwydd y bydysawd – ai meddwl anfeidrol Duw ynteu meddwl meidrol dyn? Mae dirywiad dros-dro yr Eglwys mewn rhai parthau wedi arwain at yr awydd i ddistrywio 'annelwigrwydd' Duw ac i goleddu delw dyn deallus hunanganolog ac anghreedig parod. Canolwyd

ar ddyn a grewyd ar ddelw'r Duw diddelw. Cefnwyd felly ar awdurdod anadledig y Beibl ac i goleddu  geiriau dynion galluog hunanganolog, ffaeledig. Llithrwyd felly wrth geisio amgyffred dysgeidiaethau canolog y ffydd megis etholedigaeth a'r iawn, ffydd ac ufudd-dod, pechod a gweddi, ac Iesu'r Cymodwr (Heb. 10:15). A chanfu Paul hyn oll, ac mae'n llefaru amdano yn ddiflewyn-ar-dafod dros ein hysgwyddau o hyd: Rhuf. 1:20, 30; 1 Cor. 5:17; Eff. 2:10; 14:24. Amlygiad syml o bechod ei hun oedd y rhwystr i gredu – a'r pechod mwyaf oll, y pechod damniol gwreiddiol, oedd anghredu.

Dechreua'r manylion mewn deall-ddeffro gyda phechod dyn yn erbyn deddf Duw. Heb sylwi ar y rhwystr hwnnw, ni ellir byth ennill gwybodaeth hanfodol uwchnaturiol. Gwrthododd Adda y drefn gariadus o fwynhau trefn Duw, a charu'i gymdeithas, a'r drefn yn gyfryw fel roedd heb geisio deall holl allu Duw. Mae'r pechod gwreiddiol yn cael ei ddiffinio drwy ymgais dyn i geisio disodli Duw. Mae'r Deddfwr yn cael ei wrthod gan yr un y mae'n 'llesol' iddo fod yn ufuddhäwr i ddeddf. Mae dyn yn ymfalchïo'n haerllug oblegid ei chwenychiad o swydd y Creawdwr. Diffinnir difrifoldeb y pechod hwnnw gan Farn Duw (Rhuf. 2:1-2). Caru, yn y bôn, yw Barn.

Heblaw bod ar ddelw Duw, ac yn perthyn iddo, pechadur yw dyn. Mae pechod, a'r ffaith ei fod yn digwydd wedyn o gwbl yn anochel, ac yn wybyddus: mae hyn oll hefyd yn ddirgelwch i'r deall dynol. A'r hyn sy'n ei wneud yn ddirgelwch yw ei fod yn meiddio bod y tu hwnt i resymolrwydd meidrol. Does dim ystyr iddo ar lefel gofod amser. Mae Gras hefyd bob amser ar lefel gofod amser a'r tu hwnt i amser. Mae Gras Cyffredinol yn y galon yn egluro na all ei swydd cyn belled ag y mae'n mynd ddim bod o unrhyw werth i iachawdwriaeth. Rhoi yw swydd Gras. Swydd Duw yw Barn. Dyna'i hawl oruwchnaturiol.

Mae'r syrthiedig yn cael ei ddiffinio fel yr un sy'n gondemniedig gan Dduw, a hynny'n unig sy'n ei ddisgrifio. Uffern ei hun yw. Does dim disgwyl i ddyn bach fynd ohono'i hun y tu hwnt i'w fesur ei hun ynglŷn â gwreiddyn y Cread na  gwreiddyn yr Achub. Yn y berthynas berffaith rhwng Duw a dyn, Duw sy'n gyfrifol amdani; a thrais yw pechod. Ac allwn ni ddim ei ddisgrifio'n briodol oherwydd ei fod mor hunanddistrywiol o hyll. Dyma'r union beth a fu'n rhwystro'r berthynas lawn, addas rhwng natur y corff a glendid potensial yr Ysbryd mewn dyn. Mae glendid ei hun yn rhan o anian perthyn.

Dysg y Testament Newydd yn syml fod Crist wedi cael ei wneud yn bechod drosom ni. Ei iawndalu'i hun a wnaeth, a bu farw ein marw ni ynddo ef fel nad oes dim angen i ni farw'r farwolaeth sy'n gyflog pechod mwyach. Gwrthryfel bythol yn erbyn Duw yw'r Croeshoeliad – ar un tro: bradladdiad, hunanddistryw. Ceisiwyd defnyddio Gras Cyffredinol gan Ryddfrydwyr diwinyddol i wrthwynebu'r Gras Arbennig. Dyna'r hyn y cyhuddir dyn ohono: dyna'r ffrwyth – ymysg pethau eraill – a garia ef at draed Duw Ddydd y Farn. Mae pawb yn euog gerbron Duw

(Rhuf. 1:18 hyd at 3:20).

Gwedd ar adeiladwaith elfennol y byd presennol yw Creu, Pechu, Cadwedigaeth; ac felly rhan o sgaffaldwaith ysbrydol solet y byd hwn yw Pechod. Meddai Thomas Charles am Bechod: 'Y dyn cyntaf a bechodd trwy anufuddhau i orchymyn Duw, a thrwy anufudd-dod yr un dyn hwnnw yn gwneud ei holl hiliogaeth yn bechaduriaid euog.' (Rhuf. 5:9). 'Ni ellir rhoddi darluniad cywirach ohoni nag sydd wedi ei roddi gan yr Ysbryd Glân trwy'r apostol yn Rhuf. 3:10-19; Eff. 2:1-4.' 'Felly y gelwir Crist ein haberth ni, a gwrth-gysgod yr aberthau dan y ddeddf (2 Cor. 5:21; Rhuf. 8:3).'

Colli nerf diwinyddol goruwchnaturiol 'wnaeth dyn; ac fe welwyd hyn yn arbennig yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn yr ugeinfed ganrif. Methwyd â rhoi teyrngarwch diamod i Grist ac i'r Ysgrythur. Cyfaddawdwyd â 'Rhyddfrydiaeth' ddiwinyddol. A gadawyd i ragdybiau di-sail gwyddoniaeth hunanseiliedig gyfyngedig wthio beirniadaeth ddiwinyddol ddoeth allan. Cafwyd uniongrededd gwyddonol tybiedig ddiduedd. Roedd angen bellach gyflwyno Cristnogaeth uniongred i'r meddwl modern. Ond camgymerwyd y ffordd i gyflawni y nod addas. Nid cymhwyso'r deunydd sylfaenol oedd ystyr hynny yn ôl rhagdybiau mwyaf gwrthrychol yr oesoedd, nid drwy newid gwirionedd tragwyddol; ond ceisiwyd sicrhau bod y gwirionedd hwnnw'n eglur i gyfyngiadau camarweiniol a chymwysedig yr oes. Roedd yr oes bresennol yn rhagdybied hunanlywodraeth gwyddoniaeth ac yn rhagdybied technegau cwestiyna diateb drwy wyrdroi dogfennau digyfnewid. Ac roedd y ddwy ochr mwyach, y gwyddonwyr mwyaf confensiynol a'r efengylwyr mwyaf llythrennol a cheidwadol, yn camddeall ei gilydd ynghylch anocheledd ceidwadaeth wir a'r defnydd yn anochel o drosiadu a symboleiddio ceidwadol. Roedd gwirionedd ceidwadol yn ddigon digyfnewid i dreiddio drwy ffaeleddau cyfnod.

Yn yr ugeinfed ganrif, cafwyd yr hyn a alwyd yn symudiad 'eciwmenaidd.' Efallai, yn yr enwadau Cristnogol traddodiadol mai dyma oedd y symudiad mwyaf amlwg yn y cyfnod. Uno â'i gilydd oedd ei phrif nod. Casgliad o bobl anwybodus o sicr a'i ffurfiai. Mudiad teimladol dyneiddiol oedd hyn i raddau helaeth, a thyfodd y mudiad yn lletachletach o ran cynhwysedd gyda'r blynyddoedd i gynnwys mwyfwy o gredoau, ac yn wir mwyfwy o grefyddau, ac felly cafwyd llai a llai o'r naill a'r llall. Ceisiai weld pa mor bell oedd rhy bell. Yr allwedd i'r uno hwylusaf oedd ymddangos fel petai parodrwydd i gredu popeth. Golygai hyn: cyn gynted ag y gellid ymestyn, fwyfwy, yn gyntaf *o fewn* enwad, ac wedyn *rhwng* enwadau, ac yna *rhwng* crefyddau, bob amser yn llailai penodol nes bod gwahaniaethau'n diflannu'n weddol chwim, roedd y gwahaniaethau'n toddi i mewn i gawl sticlyd gymysg debyg. Ond cyfaddawdwyd felly nid yn unig drwy Ryddfrydiaeth, ond drwy gadw hyn wedyn yn 'Geidwadaeth' ystyfnig a diangen wag. Ceisiwyd rhoi noddfa i heresïau yn ddiogel ynddi, nes iddynt dyfu'n barchus. Mae i bob pechod achau hynafol iawn.

*        *        *

Cyn chwilio am uno, caed yn gyntaf ymrannu – weithiau'n groes i'w gilydd: haenau, gweddau, a charfannau. Adeiladwyd y dirywiad hwn drwy dynnu materion atodol neu ymylol neu ffurfiol i'r canol, ac yn nes at y dynganolog.

Gwedd ar arddull esbonio'r ffydd ac addoli'n ysgrythurol oedd traddodiad sagrafennaeth. Ond mae 'traddodiad' yr Eglwys yn raddol wedi'i wyrdroi, a digwyddodd mwy na symudiad bychan i'r cyfeiriad hwnnw, nid yn unig fel gwrth-ddiwygiad yng nghyfnod y Dadeni, ond hyd yn oed wedyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda phobl fel Newman a Hopkins. Mae Catholigiaeth wedi gorbwysleisio felly ei dehongliad o ddull ac arwyddocâd bedydd, presenoldeb Duw yn y cymundeb neu'r offeren, awdurdod yr esgobaeth, pwysigrwydd defosiynau unffurf, disgyblaeth eglwysig, gwyliau, ymprydiau, ac arferion cyhoeddus, ynghyd ag awdurdod traddodiadau Eglwysig. Yn yr 1850au profwyd yn Eglwys Loegr ddyfodiad defodolaeth (*ritualism*) y Gwrthddiwygio, sy'n dal yn adain o bwys yn yr enwad yna o hyd, ac sy'n mynd ymhellach nag arddull, fel y sylweddolodd Saunders Lewis a Gwenallt.

Yr ychwanegiadau at y ffydd a'r pwysleisiau allanol fel hyn sy'n arwain at gamwerthfawrogi ei grym. Gellid meddwl heddiw, wrth edrych ar rai o'r papurau efengylaidd Saesneg mai calon yr efengyl yw gwrthwynebu gwrywgydiaeth, ac erthylu plant, ac o blaid gweinidogaeth wrywaidd. Mae'r rheina'n bwysig wrth gwrs, fel y mae sefydliad y teulu yn dra phwysig. Ond tystiolaeth gamarweiniol yw: creu argraff mewn cyhoeddiadau efengylaidd mai dyna sy'n ganolog: yr ymylon yn meddiannu'r canol o ran maint y gofod a'r argraff a roir iddo gerbron y byd. Mae'r obsesiwn cyfyng hwn yn gamgymwynas o ran dealltwriaeth.

Yn yr un modd, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, asgwrn cefn yr ymgyrchu capelig oedd llwyrymwrthod. Ac er y gellid cydymdeimlo â'r mater hwnnw, eto, o safbwynt lles cymdeithasol, anodd yw profi bod Iesu Grist wedi bod yn awyddus inni yfed gwin di-alcohol. A hefyd, bydd aeliau Protestannaidd cyfoes yn codi mwyach wrth ddarllen fod Saunders Lewis ar un adeg wedi ymgyrchu'n frwd yn erbyn defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn lle Lladin yn yr offeren, ac wedi plygu glin addolgar i gerflun cŵyr o'r Forwyn Fair. Does dim anhawster i amlhau gwahaniaethau enwadol, a hedeg ar ôl pynciau'r ymylon; ac nid yw'r Sefydliad ei hun yn gymorth i greu argraff gywirach ei hanfodion. Pan fo calon yr efengyl yn mynd yn wasgaredig, neu'r ymgyrchu pwysleisiol yn symud fel hyn oddi ar anrhydeddu Duw'r Drindod yn y meddwl a'r galon, ac yn cefnu ar symlder daliadau canolog sylfaenol megis yr Ysgrythur Anffaeledig, yr Ymgnawdoliad, yr Iawn, y Cyfiawnhad, y Ffydd Ddibynnol sy'n arwain at Weithredoedd Sanctaidd, yr Atgyfodiad, a Bywyd Tragwyddol y Saint, oll ynghyd, yna yr ydym yn niweidio'r Gwirionedd.

Dyw hyn ddim yn golygu bod Pabydd yn peidio â bod yn gadwedig, ac y gall neb ei farnu yn lle Duw. Dibynna hynny'n gyfangwbl ar berthynas, drwy argyhoeddiad o Bechod, ac ar

Edifeirwch o'r galon a throi yn gyfan gwbl at Iesu. Pwy ond Duw sy'n berffaith? Duw a ŵyr y pen draw. Mae yna wirioneddau; ac nid yw hynny yn golygu bod y bara a ddefnyddir yn y Swper yn cynnwys corff cnawdol a materol Iesu, na chwaith fod camddealltwriaeth felly wedi dallu'r credadun a'i atal rhag cael ei dderbyn yn blentyn i Dduw. Un o'r pethau a ddysg Paul yw inni beidio ag ychwanegu a throi canol yr efengyl yn ymylog.

Gwahaniaethir rhwng yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys Brotestannaidd gan yr ychwanegiadau a'r rhwystrau a osodir gan y sefydliad i amodi'r Gras rhad a roddir yn rhydd uniongyrchol gariadus gan Dduw. Amodir yn anffodus gan rywrai y ddealltwriaeth o gyd-fodolaeth ym mara'r Cymundeb, ychwanegir addoliad o'r Forwyn Fair, ychwanegir canhwyllau, dyrchefir y Pab i ddyfarnu santfodolaeth a etholir gan swyddogaeth yr Eglwys, gwneir pobl yn Gristnogion drwy fedydd plant, ac yn y blaen.

Yn yr Eglwys Anglicanaidd, ar y llaw arall, canolir o hyd ar hawliau hierarci Eglwysig, yn bennaf y Frenhines fel pen ysbrydol yr Eglwys. Ond unwaith eto, mae trefn o awdurdod dyn-ganolog yn cael gormod o flaenoriaeth. Dehonglir yn ddigerydd ddatganiadau gan awdurdodau swyddogol mewn llysoedd eglwysig, gan swyddogion (neu gan 'aelodau') o wirioneddau cyd-wrthddywedol, fel pe baent yn ysgrythur.

Yn yr eglwysi anghydffurfiol, wedyn, y mae mater 'aelodaeth' o Gorff Crist yn cael ei awdurdodi gan eu cyd-aelodau neu gan gyfundrefn swyddogion. Honnir bod trefn bedydd, gwneud datganiad ffurfiol, ysgwyd llaw, derbyn tystysgrif ac yn blaen, yn gwneud 'aelodau' ffurfiol; ac eto'r un pryd, gwyddys na chydnabyddir mai aileni o du Duw *yn unig* a fernir. Gelwir yno ar ei aelodau i ufuddhau gymaint ag y gellir. Nid yw hyd yn oed cyffes gan y pechadur hwn ynghyd â bedydd gan eglwyswr yn ddigonol. Eilunaddoliad yw cydnabyddiaeth ormodol o unrhyw atodiad heblaw bedydd yr Ysbryd.

Ni ŵyr neb ond y Duw Tri-yn-Un pwy yw ei bobl ar y ddaear hon, pwy yw'r etholedigion. Gellir cyfamodi gyda'n gilydd i gydweithredu'n wirfoddol i wneud ein gorau i'w ddilyn ef. Ond Ef yn y diwedd biau'r awdurdod i gyd, a'r gwybod i gyd, yn yr Eglwys.

Nid adeilad yw Eglwys. Llan yw'r adeilad a'r safle. Pobl Dduw yw'r Eglwys. Nid pawb a fydd yn dod i mewn nac sy'n mynd allan o'r llan yw'r Eglwys. Tŷ cwrdd yw'r llan. Pechaduriaid yw'r Eglwys sydd wedi edifarhau, ac sydd wedi dod at ei gilydd yn gytûn i gymdeithasu'n drefnus yn uned o fewn yr Undod mawr a bach. Cynulliad penodol gwahân yw sy'n uned o fewn cymdeithas gymysg y tu allan, ac yn halen, yn furum yn y toes, *Lux mundi.* Duw a ŵyr ei hyd a'i lled.

Nid y toes yw, nid o'r byd, ond yn y byd.

Mae hynny'n golygu mai'r Testament Newydd yw'r pren mesur i foesoldeb. Ac o'r herwydd

ni ddaw'r Eglwys weledig ac anweledig ddim o dan y Wladwriaeth. Mae'n cydnabod awdurdod cyfreithiol faterol y Wladwriaeth, ac yn ei fawrygu. Ond nid cyfiawnder yw. Mae gwaith gan y Wladwriaeth yn gallu troseddu'n erbyn Deddf Iachawdwriaeth. Gan Eglwys Dduw, yn weledig ac yn anweledig y dysgir yr egwyddorion a'r cyfreithiau eithaf a phennaf, o'u cymharu â'r rheoleiddiadau (*regulations*). Ni all y Wladwriaeth eu cyrraedd a'u caru. Nis gall neb ond Cristnogion. Nid yw'r Eglwys weledig ac anweledig yn ei huniaethu ei hun â'r Wladwriaeth nac ag unrhyw gorff swyddogol arall, gan mai ysbrydol a chorfforol yw'r Eglwys yng nghalon Crist.

Gall fod ganddi ei swyddogion a'u trefn, bid siŵr. Athrawon a gweision yw'r swyddogion hyn sy'n gydradd o ran ansawdd â Christnogion eraill, wedi'u hawdurdodi i ddysgu a chynghori. Heblaw bod yn gymuned, yn weledig ac yn anweledig, mae aelodau'r Eglwys yn dod at Grist yn unigol, nid o gynulliad eithr i gynulliad o saint, gan blygu'n unigol gerbron Duw, yn credu fesul pechadur cadwedig gerbron Duw yn y Drindod ac yn aberth yr Arglwydd Iesu Grist ar y Groes. Duw drwy'r Ysbryd yng nghalon y gynulleidfa o bechaduriaid, sy'n pennu'r swyddogion i'w gwasanaethu. Ond fe all cynulleidfa o wrandawyr ddyfeisio trefn gyfleus i gynnal yr achos. Nid drwy'r dŵr yn unig (er bod hynny'n ordeiniad yn yr efengylau, nid siglo llaw na chyhoeddi cyffes lafar, ond drwy ailenedigaeth gan Dduw. Nid mewn seremoni o gwbl, ond yr eiliad y genir Crist yn y galon dlawd: dyna'r Eglwys. Gweithgaredd yw'r Eglwys i'r Ysbryd Glân, i addoli ynghyd, i bregethu Efengyl Tangnefedd i'r galon, ac i wasanaethu cyd-ddynion anghenus drwy elusennau gwirfoddol.    Fel hyn y'i gwelai Paul hi: Rhuf. 16:5; 8:35, 39; 1 Cor. 5:5, 11, 13; 14:33, 40; 15:22-4; 2 Cor. 6:10; Gal. 1:8, 13; Eff. 1:3-6, 23; 6:11; Col. 1:18; 4:15; 1 Thes. 2:12; 2 Thes. 1:1-5,10; 2:13; 1 Tim. 3:5; 3:15; 2 Tim. 1:9; 2:19; Titus 3:10; 2:12, 14; Philem. 2.

Diffiniad Thomas Charles o'r Eglwys fel y'i disgrifiwyd gan Paul oedd '1. Cynulleidfa neu gymdeithas o ddynion wedi eu galw gan Dduw trwy bregethiad yr efengyl i addoli Duw yng Nghrist, yn ôl rheol y gair; 2. Holl etholedigion Duw ym mhob oes ac o bob cenedl. (Col. 1:18). Un corff yng Nghrist, eu Pen cyffredin; 3. Ffyddloniaid un teulu (Rhuf. 16:5); 4. Ffyddloniaid un dalaith; 5. Pobl yr Iddewon yn unig a elwid yn eglwys Dduw yn yr Hen Dest. (Actau 7:38)'.

Nid bob amser y bydd Paul yn llythrennol yn ei iaith. Ymddengys hyn i rywrai'n rhyfedd. Mae gan Paul ddull trosiadol o gyfleu natur yr Eglwys, er enghraifft. Nid yw'r 'iaith lythrennol' ei hun weithiau yn ddigonol nac yn union gywir wrth geisio cyfleu'i ystyr ddymunedig. Dywedir am y 'trosiad' mai cyfosodiad yw o ddwy ystyr (o leiaf) mewn gair, o feysydd semantaidd gwahanol, fel y gellir dwyn at ei gilydd fflach o sythwelediad. Mae'n gyffredin mewn iaith. Nid llythrennol yn unig yw iaith. Felly, sonia am yr Eglwys fel 'Corff': Eff. 3:3-6; 4:12-16; fel 'Adeilad': Eff. 2:19-22; fel 'Teml': 1 Cor. 3:16-17; fel 'Priodas': Eff. 5:22-3, 27. I'r hen lanc Paul, y mae gan y trosiad 'priodas' atyniad arbennig: 2 Cor. 11:2;  Eff. 1:4;  Col. 1:22, 28.

Bydd Paul yn defnyddio trosiadau anllythrennaidd, nid addurniadau ydynt, ond cyfryngeiriau mawl: Col. 3:1, 4. 'Felly, os cyfodwyd chwi gyda Christ, ceisiwch y pethau sydd uchod, lle y mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw ... Pan amlygir Crist, eich bywyd chwi, yna fe gewch chwithau eich amlygu gydag ef mewn gogoniant.' Mewn tröedigaeth, yn ôl Col. 3:9-10, mae Paul yn defnyddio'r gymhariaeth o wisgo a diosg dillad: 'Peidiwch â dweud celwydd wrth eich gilydd, gan eich bod wedi diosg yr hen natur ddynol, ynghyd â'i gweithredoedd, ac wedi gwisgo amdanoch y natur ddynol newydd, sy'n cael ei hadnewyddu mewn gwybodaeth ar ddelw ei Chreawdwr.'

* * *

Yr un mor wir yw trosiad Beiblaidd â'r llythrennol Feiblaidd – o ran yr Ysbryd. Derbyniwn y Gwirionedd y tu hwnt i'r dynol mewn ufudd-dod i Fynegiant perffaith.

Pwysleisia Paul Drindodaeth Duw. Gwêl ef swyddogaeth gyfartal i bob un o'r personau. Gwedd arall ar ei ddirgelwch yw sy'n wedd i'w derbyn y tu hwnt i fyd natur. Mae'r Ysbryd Glân yn tystio mai Tri Pherson yw'r Drindod, a chanfyddir pwyslais swyddogaethol i bob person, oherwydd ymrwymiad i bob un o'r tri mewn cyd-fodolaeth a chyd-weithrediad. Mae'r ymosodiadau ar athrawiaeth uniongred y Drindod yn dod fel arfer o du'r rhai sy'n gwadu duwiolaeth Crist: ni chafwyd Ymgnawdoliad yn eu bryd hwy.

Yn y traddodiad uniongred, ac yn ôl dehongliad graddol y Beibl dros y canrifoedd, mae'r Greadigaeth yn tarddu o'r triawd – y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. Mater yw trefn yn y berthynas Drindodol, ond nid hierarci yw gan fod Duw'r Mab yn ogyfuwch ac o ansawdd cyffelyb i'r Tad (Rhuf. 1:7; Rhuf. 8: 32-9; Effes. 6:23-4; Gal. 1:1-5). Cydraddoldeb yw. Hynny yw Gras Cyffredinol. Ond yn hanesyddol, yn y Duwdod unol, cafwyd gan y Mab gymeriad a gwaith iachaol sydd heb fod yn unman arall. Mae gan yr Ysbryd Glân swyddogaeth gweini arbennig i greu'r Eglwys. Ond ceir swyddogaeth hefyd gan y Tad, y trefnu a'r mabwysiadu a'r rhoddi. Gyda'i gilydd yn y Drindod, datguddir cyd-gariad a chyd-weithio a chyd-edrych ar ei gilydd yn nefosiwn y Cristion fel na all y meddwl effro ond plygu'n syfrdan.

Meddai Thomas Charles: '"Oblegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef, y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân ; a'r tri hyn un ydynt." 1 Ioan 5:7. Sylwer fod un hanfod dwyfol heb ddechrau na diwedd iddo, yn anddibynnol, yn dragwyddol, yn anfarwol, ac yn anghyfnewidiol, a phob perffeithrwydd a rhagoroldeb yn hanfodol ynddo, ac ohono'i hun. Un Arglwydd, neu Iehofa, yw.' Felly y'i cyflwynir yn arbennig yn Efengyl Ioan, ac yn nau Lythyr Ioan, gan Marc a Mathew. Ac olrheinir y berthynas hefyd gan Paul yn hydeiml: Rhuf. 1:4; 8:9,11; 15:16; 1 Cor. 2:8,10; 3:11,16, 17; 12:4-6; 2 Cor. 13:13; Gal. 4:6; 2 Thes. 3:5, ac mewn mannau eraill.

Gan mai dirgelwch uwchnatur ac anodd oedd y Drindod, fe'i defnyddid gan osgowyr yr

Efengyl i fod yn esgus hwylus dros anghrediniaeth, un o'r esgusodion pennaf oll. Y mae y tu hwnt i ddeall dynol, felly nis credir. Ond ni raid deall yn llawn cyn ei dderbyn y gariadus. Fel y derbynia'r plentyn fywyd, felly rhaid yn ei oed a'i amser iddo *dderbyn* y Drindod, neu beidio. Yr oedd y Drindod yn bresennol wrth gwrs yn y Creu, fel y dengys Genesis a dechrau Ioan. Ond y mae ei ffeithioldeb yn dangos ei heffaith a'i threfn (Amryw mewn Un) mewn Gras Cyffredinol, wrth werthfawrogi adeiladwaith pob cell, ac organ, a'r galaethau oll sydd i'w cael.

Daw'n ddatguddiad yn y Greadigaeth, yn y Mab, sef y Gair a ddaethpwyd yn gnawd, ac yn yr Ysgrythur, sef y gair arall a ddiriaethwyd.

* * *

Rhaid oedd lleoli'r Meseia o fewn Natur. Dewisodd Duw yr Iddewon – cenedl bechadurus ac anffyddlon, cenedl a fyddai'n croeshoelio'i Fab. Paratôdd yr Iddewon yn araf dros y blynyddoedd, ychydig ar y tro. Yn wir, roedd rhwystr eu pechod yn erbyn y Deg Gorchymyn yn rhan o'r paratoad angenrheidiol. (Rhuf. 2:5-17; a phenodau 9-11). Dewisodd Duw leoli'r ysgrythurau mewn Beibl. Bid siŵr, ni honnir mai peth gwrthrychol ac ar wahân i ni yw'r ysgrythur. Ond fe'i cyfansoddwyd drwy'r Ysbryd Glân ar gyfer pobl. Gallwn dyrchu ynddi er mwyn ei thanseilio. Ffydd sydd eisiau i dderbyn yr ysgrythur yn gyfan. Ond yn ein hawydd i'w hanghredu, down o hyd i allweddau hunan-dwyll seciwlaraidd yn yr egwyddor nad y cyfanrwydd gwrthrychol sy'n anffaeledig a dichon y gellid hepgor rhannau, neu yn yr awgrym bod rhai rhannau yn *dod* yn anffaeledig yng nghalon y credadun, drwy argyhoeddiad crediniol a derbyniad achlysurol drwy'r Ysbryd Glân yn gweithio ynom. Chwarae â'r Gair yw hynny, a barnu nad yn wrthrychol y mae'r Gair yno ar gyfer pawb, ac mai rhaid bod yn ysgolhaig eneiniedig i'w dehongli, ym mryd rhywrai, mewn ehangder. Ond mae tystion o'r dosbarth gweithiol (fel pysgotwyr) yn dystion rhy gyffredin inni dybied mai ar gyfer y dysgedig y'u traethwyd. Felly y buaset, yn wir, ar wahân i Benarglwyddiaeth y Duw perffaith.

Ceir swyddogaeth yr Ysgrythur o fewn Cristnogaeth, yng ngwaith tragwyddol dystiolaethu, ac yn gywaith cyfan i'r holl athrawiaethau sylfaenol yn y Ffydd. Fel arfer, fe gewch fod y rhai sy'n anghredu grym yr ysgrythur yn bychanu hefyd realedd y Cwymp a chyrhaeddiad yr Iawn. 'Pa mor bell oddi wrthynt y gellid mynd?' Rhaid cofio cydlyniad annatod yr holl Feibl, gan gynnwys y darnau sy'n cydnabod llygredd a'r Farn. Symudwn ddarn a'i wadu fan yma, a bydd darn arall yn cael ei symud a'i wadu fan draw. Felly atgyfodiad corfforol, y geni gwyrthiol, yr atebolrwydd diosgoi. Hynny yw, perygl y pechadur yw ei gais i anunioni pob dim â rhychwant gallu cnawdol credo'r ego. Gellid chwarae gyda'r Gwirionedd.

Ond mae awdurdod y Beibl yn dibynnu ar air Iesu Grist (2 Tim. 3:15-16.) Coron yr ysgrythur yw'r Gwaed a lifodd ar y Groes, nid y Greadigaeth a oedd yn rhwydd, ond y Gwaredwr rhag y tramgwydd drwg i ddyn a Duw. Rhyfedd credu bod calon yr Efengyl yn cynnwys pechod,

ond felly y mae. Dyma'r Gonglfaen i bopeth. Mae Duw yn Ei ras yn cyfiawnhau pechaduriaid drwy'u ffydd yng Nghrist yn unig (Rhuf. 3:9-25). Yn ôl at yr Iawn felly y daw pob chwiliwr taer, pob ceisiwr difrif. Dyma rai adnodau gan Paul sy'n garn i'r Iawn, – sef Iesu'n derbyn holl iawndal dicter dwyfol fel y'i rhagwelir yn y gyfraith; Rhuf. 3:25; 2 Cor. 5:21; Gal. 2:20 ymlaen; 3:13. Oherwydd hyn gwyddom fod rhywrai'n gadwedig (mewn Gras Arbennig), a rhai'n golledig (mewn Gras Cyffredinol amddifad). Ein tasg mewn sancteiddhad yw eu cydlynu drwy gymorth yr Ysbryd Glân.

Hyn yw'r her, a'r bygythiad cariadus. Gwyddom hefyd fod Duw'n sofran ac yn holldrugarog, ac yn dymuno i bawb fod yn gadwedig. Yr ymgais arferol i danseilio'r ddealltwriaeth hon a'r argyhoeddiad hwn o Iawn yw pregethu Cyffredinolrwydd, sef y sgrechair 'Iachawdwriaeth i bob unigolyn!' heb argyhoeddiad o bechod, heb angen Crist; does dim angen lleddfu dicter a chasineb Duw cyfiawn at y drwg a Satan mewn efengyl nad yw'n efengyl; does dim angen maddeuant wedyn am nad yw pechod yn farwol, yn ôl yr heresi hon, na dim aberth gwaed, na dim cyfrifoldeb gan fod pechod heb ddifrifwch yng ngolwg dyn yn dwyll enbyd. Defnyddir 'Cariad Duw' hyd yn oed i ddatod a dileu 'Gwirionedd Duw'.

Ond absoliwt a difefl gariadus yw dicter Duw yng ngolwg Paul (Rhuf. 1:18; 2:18; 3:5 ymlaen a 25). Bu'n gost i Dduw. Mae'r Iawn yn cydlynu holl themâu cariadus a deddfol Duw'r Beibl. Trosglwyddwyd ein heuogrwydd ni i Grist drwy Arfaeth Duw. Cosbwyd Ef gan Dduw, melltithiwyd pechod yn y Groes, a thrwy ddaioni Crist cyffeswyd sancteiddrwydd. Dyna'r ffordd ddihafal a fynnodd Duw i'n gogoneddu. Yn hyn mae Duw yn dweud rhywbeth amdano'i hun, am Ei gariad mewn sancteiddhad, ac am ddyn. Cyfannwyd yr hollt rhyngom ni gan Dduw ei hun yn yr hyn a wnaeth Ef erom.

Dyma'r Cyfamod canolog i bob cyfamod arall. Nid ffurfioldeb yw cofio hyn, nid dweud geiriau i goffáu, nid ymddygiad gwell, ond adfer cymdeithas berffaith rhwng Tad a'i blentyn. Dyma'r hyn sy'n wyrthiol y tu hwnt i natur: 'Yr hwn a roddodd Duw yn iawn.' Rhuf. 3:23; 'Efe yw'r iawn dros ein pechodau ni.' Rhuf. 1:13; 3:25; Gal. 4:3-5.

'Amhosibilrwydd' daearol cyfarwydd arall yw'r ffaith fod Duw wedi dod yn ddyn: yr Ymgnawdoliad gwyrthiol, cwbl ryfeddol, a chwbl dramgwyddus, ond cwbl angenrheidiol yr un pryd: Philip. 2:6-11 a 2 Cor. 8:9. Awgrymir yma ymostyngiad a darostyngiad croes i'r graen; a bod yr Arglwydd wedi rhoi heibio briodoleddau dwyfol yn yr Ymgnawdoliad, sef hanfod athrawiaeth *kenosis* er mwyn tlodion yn yr ysbryd.

Ond yn y gair 'gwacáu' a geir yn Philip. 2:7, cawn berthynas o beidio, ac o aberth mewn 'tywallt ei enaid i farwolaeth', a glywyd eisoes yn Eseia 53:12. Hanfod Duw a dwyfoldeb yw hollwybod, hollallu, a hollbresenoldeb. Nid Duw yw heb y priodoleddau hyn. A dyna'n union yw

hefyd y Duw sy'n medru dioddef a phlygu. Fe dyfodd Ef ar ffurf dyn ac ar agwedd gwas, – unwaith am byth – yn gwbl wahanol i rai delweddau o dduwdod a geir mewn crefyddau all-Gristnogol. Bu farw gan gymryd arno'i hun gosb ar ran pob dyn. Syfrdanol ac unigryw yw bod Duw'r Beibl wedi cymryd arno'i hun y cyfrifoldeb gwirfoddol am bob pechod dynol oherwydd cariad diderfyn. Dyna dystiolaeth ddiledryw yr Ymgnawdoliad dioddefus a rydd y Testament Newydd a'r Hen.

Ffaith gysylltiedig a gafwyd yng ngolwg y digyblion oedd yr Atgyfodiad. Dywedai Paul amdano: Rhuf. 1:4; 4:17, 25; 5:10; 6:4; 8:2, 11; 1 Cor. 6:14; pennod 15 ar ei hyd; 2 Cor. 1:9, 10; 4: 14; 5:5, 9; Eff. 1:19, 20; 2:5, 6; Col. 2:1; 3:1-3; Phil. 1:11; 3:20, 21; 1 Thes. 4:14-16. Roedd yna dystion adnabyddus dibynnol i hyn oll. (Actau 1:21 ymlaen.) A bu'r digwyddiad yn drobwynt o gychwynfa yn hanes y tystion a'r eglwys. Allan o hyn cododd gwirionedd hyderus y merthyron, sef y rhai a fyddai'n marw drosto pe bai rhaid. Dyma sicrwydd Cristnogol na ellid dianc rhagddo, na'i droi'n fytholeg. Hyn 'a welsom'. Nid mater o ffydd seicolegol oedd hyn, ond ffaith ddirfodol brofiadol: fe esgorodd ar ffydd solet. Dadlennwyd Gwrthrych a arweiniodd yn brofedig allan o'r digwyddiad unigol i ddyrchafu hanes byd newydd.

Yr wyf wedi disgrifio'r Efengyl Gristnogol fel y'i hamlygir yn ysgrifeniadau Paul. Nid yw ef yn sôn yn union am Ras Cyffredinol na Gras Arbennig yn y termau hynny; ond ceisiais ddangos ei bod yn amlwg fod y ddwy ddysgeidiaeth gyflawn hyn yn bendant yn ei waith. Maent yn gymorth yn ein dyddiau ni, gredaf i, i amgyffred natur y rhwystr cyffredinol yn yr oes bresennol sydd gan y credinwyr ffug mewn 'Dim Crefydd', seciwlariaid sy'n credu'n ddidwyll nad ydynt yn crefydda o gwbl o gwmpas safle absoliwt. O! Maent yn crefydda, na phryderer – yn egoganolog braf.

Maent yn gymorth hefyd i Gristnogion ddeall yr union anhawster i dystiolaethu dros ddau wirionedd cyd-ddymunol – y Creu a'r Cadw. Aeth y dyn naturiol fwyfwy i synied mai'r Creedig a'r ffurf allanol yw'r Ego, ac mai hwnnw yw'r unig dduw. Aethpwyd i ragdybied nad oes goruwchnaturiol berffaith. Aethpwyd i anghofio hollbresenoldeb Duw ym mhob dim. Fel arall y caiff Cristnogion ganllaw goruwchnaturiol i ddadlau dros y ffydd. Lle bynnag y cawn ein hun yn ffrwythloni'r ddaear hon, yno y'n gelwir hefyd i gyflwyno'r cwbl er gogoniant i Dduw. Crynhowyd y cymorth deublyg hwn yn un llais gan Paul dros ein hysgwydd – yn y teulu, mewn ffrindiau, yn y wladwriaeth, mewn iaith, a llenyddiaeth. Mae'r bywyd Cristnogol yn eu tystio i ni yn y Creu ac yn y Cadw; ond yn perffeithio'r uniaethiad drwy dderbyn y Gwaed.

Hyderaf fod hyn yn pwysleisio bod Paul yn egluro Gras Arbennig sy'n unplyg ac yn gweddnewid Gras Cyffredinol i fod yn rhywbeth tragwyddol newydd, ac yn esbonio'r Ffydd Gristnogol yn gytbwys gyflenwol. Ddylwn i ddim bod wedi trafod y fath Apostol o gwbl, mae'n siŵr. Sut y gallwn ei osod ochr yn ochr yn y casgliad o ysgrifau hwn â'r ffrindiau da ond mwy amlwg bechadurus na hwn; Hwn, y mwyaf o bechaduriaid meidrol, a gyffesai'i angen mewn modd

mor rhyfeddol â Paul Apostol a fendithiodd yn anffaeledig ydoedd. Os gadewais rithyn o awgrym o'r fath anaddasarwydd, ni allwn ond edifarhau hyd y nef, wrth gymysgu eithafion personol mor bell oddi wrth ei gilydd â'r Naturiol a'r Goruwchnaturiol. Rhaid mynd o'r tu ôl i'r geiriau at y Gair.

**Ôl – nodyn**

Rhai blynyddoedd yn ôl, roeddwn yn mynd am dro; a meddwl am yr apostol Paul yr oeddwn i. Cyfansoddais i gerdd amdano. Fe'i cyhoeddwyd yn Rhan Gyntaf y *Bratiau Budron* ar y Wefan hon. Wrth orffen yr ysgrif hon heddiw, cofiais am y gerdd honno. Fel arfer, wrth orffen unrhyw deyrnged i rywun, boed mewn rhyddiaith neu mewn prydyddiaeth, fe fyddaf yn teimlo'n annheilwng fy ngeiriau. Ac un o'r pethau a oedd yn brin yn yr ysgrif uchod oedd imi fy nghyfyngu fy hun i deyrnged ac i ddisgrifiad rhyddieithol, diwinyddol. Mae'n debyg fod hynny'n briodol. Ond roedd mawl emosiynol yn sylfaenol i Ras Cyffredinol Paul ei hun, ac roedd yr ymdeimlad o'i oroesiad cyfoes yn ein heglwys weledig ac anweledig heddiw yn peri imi ddiolch mewn modd ymhellach. Felly, penderfynais gynnwys y gerdd hon o'r newydd yn y cyd-destun hwn i fod yn gytbwys:

PORTREAD O PAUL

I

Ar y llawr un waith,
ar y llawr lawer tro,
dwylo 'lan yn yr awyr,
gwadnau 'lan. A'r goleuni,
y dim-ond oleuni,
y goleuni a berthyn
i bob man yr un pryd,
yn gyfan o'r ymennydd, a'r gwan
yn gweini i'r halen –
o'r llwch, i'r haul. Yn y man

llais, a oedd o'r glanaf (fel y myn
goleuni), a phedolau'r
stalwyn 'lan yn syfrdan. Cariadus
yw'r gweld diffodd du drwy'r gweld
wal o olau'n ei fyddaru'n wyn,

saethwyd y ceffyl dewr i'r awyr
fel pe bai'n siel wedi ffrwydro'i garnau,
hwnnw'n gwehyru i sydynrwydd
o achos gweld  clais Ei lais a luniwyd
o'r goruchaf Ar-dân a gaed.

II

Dim ond perthyn a ddigwyddasai,
hwn, un waith, lawer tro,
o'r cwympau i'r Cwymp
yn wastad yno'n ymestyn.
Beth a allai'i enaid dall
ar ei wyneb ei wneud ar lawr
ond cyrchu â Hwnnw nawr – dim is –
at y llwch aliwn na wyddai
ddim ond lluchio'r hen Gwymp
nes gweld peth o losgberth berthyn?

Dwedwyd wrth Paul beth a wnâi
yno: câi anelu am anialwch
i ogofeydd cacti'i ymennydd.
Unig lecyn drwy'r byd nad oedd
am addoli dyn oedd meddwl Duw ...
A'r dwyreinwynt! Tyrchai'n
bla tuag yno am ei blygu
o dan ias o wyndra daran
i fod yn anwyledig wastad.

III

A gwêl mor gêl y gelyn Saul
ar chwâl yn anial ei einioes.
Yr hyn na fu, hynny a fyn ef mwy.

Cyrcha, chwilenna Paul
rhag hyn drwy dwnnel o ddyn
lle y geill hyll ei golli'i hun.
Cyrcha'r blaen lle nad oes 'yn ôl'.
Hyn, cred di fi, yw'r perthyn.
Ni adewir uwch ei dywydd
yr un twll heb ei dywyllwch
o fod heb fyw, ... heb fyd,
ond yn caru bod yn wastad.

Ble felly yr anadla? Ai dihangfa
o fath yw'r awyr? Yno tyrcha'n
daer ynni o fewn dwyreinwynt,
i feddalu'i feddyliau
yn erbyn Craig o Oleuni.

Sut ar raddfa Richter y mesurai'i
grynfa storm o weld? Pedair blynedd
ar ddeg o wynt tywod go gwta
i amgyffred croes 'droes Israel
anadl yn Israel ysbryd iddo.
Safodd ar groesffordd fellt
hwnt i anweledigrwydd byw
a droes fyd bach yn fach i'w hongian
arno, gan hwrdd a gyhoeddai'i  gyhuddiad.

IV

Mesurai'r genedl galon y gorwel,
fe'i gwasgwyd i'r llawr yn estyniad
o Israel waed i Israel galon
drwy anaf y Gwaed o'r nefoedd
a gaed i aeafu plant gwaed
mewn Cwymp a ddofa'i eglwys

o genedl i ymostwng i'r byd oll,
drwy uno Cyfamod Deddf â
Chyfamod Rhoi Myrdd o Lendidau.
Dyna sianel i'w eleffant-ddeall
gario i'w wâl y fath greal o gread.

A'r fath Dad! Mwy yw'r drugaredd
ynot Ti na'r pechod ynof i ...
Tref-tad hyd fy nannedd fu
gennyf gynnig i wan ei annedd.
Derbyn wast, O! Dad pob gwastadedd.'

Dw i'n cenfigennu wrth ffyrdd. Dônt o hyd i'w trywydd heibio i Glawdd Offa ac i'r Fenni, ac yna yn Llangollen a Phontrobert a Dyffryn Ardudwy: y maent mor gartrefol. Fe'u gwnaethpwyd hwy ar gyfer chwilota yn fy mherfedd. Ymblethant yn ei gilydd yn f'atgofion, y lleoedd a welais gynt.

Wrth fynd am dro neilltuedig, melys, cwta, arferol fel heddiw, bydd fy meddyliau'n plygu i'r hin hyfryd ac yn cael eu codi. Dw i'n eu cadw felly yn f'ymennydd y pryd hwnnw – ffyrdd blêr, pobl wrth gwrs, a digwyddiadau, a sefyllfaoedd, heb fedru eu llinynnu'n daclus i'w gilydd o ran cronoleg. Fe'u casglaf yn ddiwyd awchus. Weithiau, mae enwau'r bobl a fu hyd-ddynt wedi hen ddiflannu. Erbyn cyrraedd cartref, a gweld y digerddded un, sy'n gaeth yn ei charchar, fe wenaf. 'Wyt ti'n barod i glywed y newyddion ystrydebol?' gofynnaf. 'Pwy welaist ti?' Casglaf yr adroddiad manwl, a'i roi'n serchog ddiogel yn ei basged. Yn y fasged honno 'rŷm ni'n byw ein dau mwyach, mewn cyflwr o ryfeddod, a diolch a mawl.

Rhywfodd, bu'r atgofion hyn i gyd yn cydsymud tua'r un cyfeiriad. Buont yn debyg iawn i arwyddion post ar ymyl y llwybr yn bwrw'u cysgodion ar draws fy siwrnai. Byddaf i'n meddwl am y siwrnai fel fforiad i ddarganfod gwlad sy'n graddol ymddadlennu.

Ond hen ffrindiau sydd yno, wedi'u troi'n llyfrau.

Gwisgant fygydau ar gyfer y ddawns. Er y gallant ymddangos yn syniadau academaidd i eraill , mae hi'n gwybod yn well. Pobl sydd yna; y ffyrdd sy'n peri iddyn nhw ymddangos felly.

Gall ymddangos fel pentwr bach o wahanol freuddwydion gwasgar – am ryfeddodau beirniadaeth lenydddol – thema cyfundrefn, thema adeiladaeth llenddull (*genre*) beirniadaeth, sylw arbennig i Ddiben llên, o bethau'r byd, egwyddorion cyffredinol syniadol fel gweledig ac anweledig, naturiol a goruwchnaturiol, gwyllt a gwâr; cerddi a storïau. Ond siwrnai o Ras Cyffredinol tuag at Ras Arbennig fu yno yn y bôn, o dan Benarglwyddiaeth Duw. Ac y mae'n ymwneud â pherthynas Gras Gwaredigol a'r Greadigaeth, sydd a wnelo hefyd â'r effaith ar sgrifennu creadigol yng ngwaith y credadun a'r anghredadun.

Rhyw fath o ddiolch chwithig fu'r cymhelliad y tu ôl i'r ysgrifau coffa yn y gyfrol hon. Fe'm hysgogwyd i fwrw golwg yn edifeiriol; yn ôl dros fy mywyd. A phobl sydd yno; ffrindiau.

Bob nos bellach, yn ystod unrhyw oriau duon o anhunedd, sy'n sathru ar y tywyllwch, fe fydd llygaid fy meddwl yn delweddu hen gymwynaswyr annwyl, hen droeon chwithig pan fûm i'n gwneud y peth anghywir, y geiriau a ddwedwyd a'r geiriau nas dwedwyd.

Neithiwr, tro Kate Roberts oedd hi i'm cadw ar ddi-hun. Dw i'n edifar oherwydd fy mod i wedi esgeuluso diolch iddi hi'n briodol. O leiaf, roedd gwres fy niolch yn ddiffygiol.

Fe ges i gymaint o hyfrydwch yng nghwmni'i llyfrau yn fy mywyd; ac eto, wnes i ddim dweud hanner 'diolch' wrthi, hyd yn oed am lyfrau a fu'n ffurfiannol yn y gorfoledd dw i'n ei deimlo ynghylch y diddanwch aruthrol a ddaeth i'm rhan.

Dyma droi at y silffoedd, ac estyn llaw. Un llyfr na wnaethpwyd y ganfed ran o'r anrhydedd y dylid bod wedi'i wneud ohono yw'r casgliad anghyffredin o gyfoethog, *Erthyglau ac Ysgrifau Llenyddol Kate Roberts*, a olygwyd gan David Jenkins, 447 tt., ym 1978. Mynegiant gan un o feddyliau mwyaf gwareiddiedig Cymru erioed oedd ganddi yma mewn ysgrifau yn ogystal ag yn ei storïau. Mae'n gofgolofn i ddiwylliant mawr. Ond y mae hefyd yn gofgolofn i feddwl gwâr cwbl arbennig. Dadlennir ganddi ddysg werinol a diwylliedig. Darlunnir cymdeithas uchelwrol o bobl gyffredin gan bin ysgrifennu disglair rhyddieithwr mwyaf Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Ces i ddiwrnod cyfan yn ei chwmni yn 1969 pan oeddwn yn golygu'r gyfrol deyrnged a gyflwynwyd iddi gan yr Academi Gymreig. Yn y broliant i'r gyfrol honno, soniais am nod y gyfrol fel hyn: 'Pwrpas y gyfrol yw talu teyrnged iddi: ymunodd rhai o'i ffrindiau i ddweud diolch.' Diolch yr oedd yr Academi am ei gorchest ym meysydd y nofel a'r stori fer, mae'n debyg. Wedi hynny, y daeth y casgliad o'r erthyglau a'r ysgrifau i gymryd ei lle hi ar fy silffoedd. Bellach, tybiaf fod y cynnyrch o'r erthyglau a'r ysgrifau i gymryd ei lle hi ar fy silfoedd. ymhlith prif gampau ein hanes. Ac ni welais neb – a finnau yn eu plith – yn dweud diolch go iawn.

Ond dw i'n ofni fy mod innau wedi troi'n dalp o edifeirwch llawnamser. Mae f'edifarhau wedi troi'n ddiwydiant gorweithiol yng nghwmni fy ffrindiau sy'n dal i fyw o hyd. Hunanddadansoddi yw perygl cyffes. Ac wrth feddwl am fy mherthynas â gwahanol ffrindiau, y perygl fu hunangyfiawnhau a hunanamddiffyn, ac ymesgusodi'n gwbl fyfïol am beidio â dweud mwy. A does gen i ddim coes i sefyll arni.

* * *

Ni allaf orffen y gyfres hon o bortreadau heb oedi ac ymdroi ychydig ysywaeth gyda'r un a feiaf ac a alwaf yn Hunan Du. Sef fy nghydwybod gyhuddgar a dwrdiol i fy hun. Yn hon y mae'r holl leisiau eraill a grybwyllais yn yr oriel yma o bortreadau wedi ymgasglu. Mae'r cysgod hwn yn hongian ar bwys fy ngwegil ac yn dannod i mi ym mhob didwylledd yr hyn y dylwn fod wedi'i wneud nas gwneuthum, a'r ychydig a wneuthum a allasai fod yn well. Creadur go ddiog fu.

Bu bywyd oll yn brentisiaeth. Crefft yw y ceisiais ei dysgu. Fel llanc ifanc, mae dyn yn cael ysgogiad i sgrifennu. Tewi fysai orau. A daw'n ymwybodol yn fuan ei fod yn dal i ddysgu'i grefft o drafod geiriau ar hyd yr amser. Mae hyn a'r llall yn siom. Mae e'n teimlo'n aml, mae'n siŵr, ei fod yn sgrifennu gormod. Mae'n gwybod ei fod yn llunio amryw byd o gerddi mwy tila nag y dylent fod. Ond y mae rhywbeth i'w ddysgu o hyd, a gwna hynny iawn am y methiant.

Mae mwy o ryfeddodau i sôn amdanynt nag sydd o ddawn i'w mynegi. Mae pawb yn byw

bywyd diddorol, beth bynnag y bo'i dasg mewn bywyd. Mae diddanwch yn ein hamgylchu ni. Hyd yn oed y bobl sy'n bodoli'n awtomatig mewn ffatri undonog, gallent fod yng nghanol cymdeithas swnllyd; gall y clercod ar eu seddau siecio symiau treth incwm a gadael i'w myfyrion hedfan yn yr awyr o'u cwmpas; maent yn fynych yn cael problemau sy'n gallu codi cwestiynau difyr o amheus am fywyd y byd; neu'r cleifion ar eu gwelyau unig, clywant y newyddion am drychinebau tywydd a rhyfel; ac y mae'r 'broblem' o Dduw yn agored inni i gyd i'n dyrchafu ni ymhell uwchlaw haeddiant. Ni haeddwn ond cosb am y rhan fwyaf. Mor llawn yw'r wlad o broblemau i greadur gwan.

Bu bywyd yn bentwr o bobl ac o ddigwyddiadau yn fy hanes i, a phroblemau na allwn byth eu datrys. Bu'r byd real mewn rhyfel parhaus, bron yn ddiegwyl drwy gydol fy mywyd. Ces i adnabod yn dda lawer yn fy ngwaith bob dydd na buaswn yn gydnabyddedig â hwy byth pe bawn i wedi teithio dramor yn amlach. Ataliwyd fy nghorff rhag teithio o'r fath, fel y'm cyfyngwyd i i'r tŷ. Pleser fu aros gartref serch hynny, a pheidio â mynd oddi yma, hyd yn oed yn y cyfnod diweddar pryd y ces i gadw'n gaeth fel na allwn deithio mewn car fwy na rhyw saith milltir. Ond roeddwn i eisoes wedi cael y fraint o fyw mewn chwe sir yng Nghymru, gyda gwyliau yn Fryslan, Gwlad y Basg, Catalonia, yr Alban, a Llydaw. A bûm yn bwrw cyfnodau estynedig mewn gwledydd fel Iwerddon, Mecsico, Canada, a Gambia, lle y cefais hwyl, a themâu i gerddi lawer – megis adfywio, adennill, aileni, atgyfodi a dathlu; yn fawl benbaladr. Bu hon yn anturiaeth anhygoel. Pobl yn bennaf a fu'n f'ysbrydoli yno, a'm bwydo i ym mhob cornel o'm bywyd – portreadau; ac y maent yn brigo yn y dibwys ac yn y pwysig. Mae'n naturiol plygu wrth gyfarfod â phrofiadau llenyddol cymysg iawn o'r fath. Ac yn fy ngwâl bydd fy nychymyg ym troi o gwmpas y rheini oll, gyda diddanwch ar draws yr edifeirwch aml.

Barddoniaeth oedd y cam cyntaf. Ar ffurf cerddi y daeth yr ysgogiad cyntaf i daro profiadau sain synhwyrus ar bapur.

### *Barddoniaeth*

Daeth llyfrau barddoniaeth ar fy ngwarthaf, a bu fy nghyfeillion yn cyfiawn gwyno am eu hamldra.

Wrth fwrw cilwg yn ôl, gwelaf fath o symetri anfwriadol mewn dau gyfnod o farddoni:

*Y Gân Gyntaf* (1951)

*Rhwng Taf a Thaf* (1960)

*Tyred Allan* (1965)

*Man Gwyn* (1965)

*Yr Ŵyl Ifori* (1967)

*Allor Wydn* (1971)

*Gwlad Llun* (1976)

Yn y fan hon cafwyd toriad, egwyl, a chwyldro tawel i ailystyried. Dyma'r pryd y lluniwyd *Hunllef Arthur* (1986) a *Casgliad o Gerddi* (1989). Yn yr ail o'r ddwy gyfrol hyn, cafwyd detholiad o'r saith gyfrol uchod; ac ychwanegwyd 'cyfrol' arall: *Eiliadau, Oriau, Dyddiau.*

Ac yna, wedi bwlch o ddistawrwydd, cafwyd ail bwl o saith gyfrol, gyda'r rhain yn awr yn thematig ymdroi gyda brwydr y ffos olaf, agosrwydd tawelwch difrif henoed, cyrraedd y tuhwntrwydd, a thlodi ysbryd:

*Canu Arnaf I* (1994)

*Canu Arnaf II* (1995)

*Ynghylch Tawelwch* (1998)

*Ôl Traed* (2003)

*Y Fadarchen Hudol* (2005)

*Yr Amhortreadwy* (2009)

Ar y wefan hon wedyn :- *Bratiau Budron* mewn pedair rhan: I (2011), II (2012), III (2013), IV (2015)

Erbyn hyn, gwelaf ym mhob cwr, yn amlwg yn ail ran *Canu Arnaf* (1995) yr angen i chwynnu, sef i edifarhau'n weithredol. Dw i'n ymwybodol iawn hefyd am arafwch yr aeddfedu. Yr hyn sy'n cyfrif am hynny yw'r deniadau i ymdroi gyda rhyddiaith feirniadol. Ynddi hi y cefais i ail gam y myfyrdod ynghylch ystyr y gwaith o lenydda.

*Rhyddiaith Feirniadol*

Tybiwn fod yna undod sy'n gynhenid mewn beirniadaeth, ond defnyddiais ormod o inc, wrth redeg o'i chwmpas fel ci mewn ffair.

Pe bawn yn sgrifennu fy meirniadaeth lenyddol o'r newydd, fe fyddwn, fel yn achos fy marddoniaeth, wedi dechrau mewn man gwahanol, a llunio cyfanwaith arall.

Yn yr achos hwn, fel yn achos y farddoniaeth, fe geir math o symetri. Ond y tro hwn, cafwyd math o ddarganfyddiad a chwyldro deunyddiol a gyflyrwyd (yn gadarnhaol ac yn negyddol) gan ddatblygiad y feirniadaeth o'm deutu. Roedd y feirniadaeth lenyddol i ddarllenwr ar y pryd, dybiwn i'n syn, yn ddogmatig chwyrn ei sefydliadaeth ddiog o'm deutu, o ran ei chymhelliad yn ogystal ag yn ei chasgliad; ond bu f'adwaith yn erbyn hanesyddoldeb beirniadaeth yn rhy drwm ac yn araf i werthfawrogi ei fawr werth. Roedd fy mhwysau'n rhy drwm o blaid theori fel y dôi'n gallineb ac yn iechyd i gael cwmnïaeth a chyngor cyfeillion fel Geraint Gruffydd a Caerwyn

Williams a'u ffresni golwg mor finiog dreiddgar wrth fwrw golwg yn fynych ar draws cyfanrwydd yr oesoedd. Ni ddiolchais ddigon iddynt am geisio cadw fy nhraed ar y ddaear.

Taith mewn darganfod tir newydd oedd beirniadaeth lenyddol yn ei siwrnai ar y pryd. Gwyddid y gychwynfan yn ogystal â'r ddiweddfan yn fras, oherwydd yr ymyrraeth gan gefndir a sythwelediad. Ond allwn i byth fod wedi dyfalu am y gorsafoedd a'm swynai i *en route.* Mewn ffordd o siarad, roedd y diffyg menter i glymu mynegiant enghreifftiol wrth gasgliadau cyffredinol theoretig yn procio mwy o syniadaeth nag a ddisgwyliwn.

Yn y dechrau a gafwyd yn fy meirniadaeth ar y pryd, ceir pâr o gyfrolau hanesyddol confensiynol sy'n bwrw golwg dros ddau gyfnod olynol yn ein llenyddiaeth. Ac fe'u sgrifennwyd fel pe bai tuag yn ôl yn gyfnodol. Roedd y pwyslais o hyd ar werthuso.

*Hanes Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972* (1975)

*Hanes Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936* (1987)

Ar y pryd, fy mwriad oedd llunio cyfres o gyfrolau gan symud tuag yn ôl o hyd, drwy'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, nes cyrraedd Taliesin ac Aneirin a'r Cynfeirdd. Ac adeiledais gynllun-gwaith llafurus ar gyfer rhaglen felly. Fe chwalwyd y gobeithion hynny, sut bynnag, ac yn eu lle cafwyd cyfrolau yr un mor hanesyddol ond yn fwy thematig glwm wrth grefydd a chenedlaetholdeb:

*Llên Cymru a Chrefydd* (1973)

*Cyfriniaeth Gymraeg* (1994)

*Ysbryd y Cwlwm* (1998)

*Mawl a'i Gyfeillion* (2000)

*Mawl a Gelynion ei Elynion* (2002)

Yr hyn a oedd wedi digwydd oedd fy mod i wedi dechrau myfyrio mwyfwy am gymhelliad llenyddiaeth. Beth oedd pwrpas llenyddiaeth? Bu deffro i'r cwestiwn hwnnw yn brofiad araf a phetrus. Deuthum i'r casgliad mai cynnal a dathlu bywyd yr Unigolyn, y Gymdeithas, a Duw ydoedd yn ganolog. Deuthum i sylweddoli fod lleoliad llenyddiaeth yn y meddwl dynol i'w gael mewn symudiad profiadol dwfn ac yn yr angen i fynegi patrwm godidog y Greadigaeth: Cymru a Christnogaeth.

Roedd a wnelo hyn â myfyrdod personol iawn, rhy bersonol.

Ond ni waeth am y pendroni hwn uwchben Cymhelliad na fysai'n rhoi llonydd nes iddo gyrraedd canlyniad y Mynegiant. Yn y fan yna, y nod i'r cwbl, yr esboniad i holl gamre'r daith o'i flaen, dyn a âi â'm bryd. Bu hyn yn ysgytwad nas croesawyd yn gwbl gynnes, ac un a ofnwn wrth fynd yn ei flaen. Ond roedd efrydu gweithiau ieithyddol Gustave Guillaume wedi peri imi wynebu *adeiladwaith y proses llenydda ei hun* yn fwy trefnus, wrth weld patrwm cyfundrefnau iaith a

meddwl. Allan o'i waith ef cododd ysgytwad Cyn-Dafod, peth nas trafododd ef, ond a ymagorodd ac a esgynnodd i'r awyr o'm cwmpas fel ffenics.

A chafwyd arolwg cynnar o'r adeiladwaith meddyliol ar gyfer 'esgor ar lenyddiaeth':

*Tafod y Llenor* (1974)

*Seiliau Beirniadaeth I* (1984)

*Seiliau Beirniadaeth II* (1986)

*Seiliau Beirniadaeth III* (1987)

*Seiliau Beirniadaeth IV* (1988)

Myfyrion gwasgarog ac anaeddfed oedd y rhain i raddau helaeth, rwy'n cyfaddef. Nodiadau fforiol i fyfyrwyr y Radd Allanol oedd y pedair cyfrol ddiwethaf. Ond yna, yn fath o glo mwy cwmpasog i'm beirniadaeth oll, ac yn 'uchafbwynt terfynol', gobeithiwn i, fe gafwyd maes o law fy nhair cyfrol feirniadol fwyaf gorffenedig:

*Tair Rhamant Arthuraidd* (1998)

*Beirniadaeth Gyfansawdd* (2002)

*Meddwl y Gynghanedd* (2005)

Roedd yr ail o'r tair hyn yn ddisgrifiad o holl strwythur Beirniadaeth Lenyddol fel y mae'n gorfod cydlynu – Tafod, Cymhelliad, Mynegiant, a chan sylweddoli'r rhain o fewn yr adeiladwaith clasurol, Ffurf/Deunydd. Fe deimlwn, erbyn cyrraedd y tair cyfrol hyn, fy mod i'n *dechrau* ar fy nhaith o ddifri, ond yn rhy hwyr. Ond erbyn hyn roedd yn bryd moesymgrymu a chilio.

Roedd yr holl daith wedi bod yn gryn ddadleniad i mi'n bersonol, ac anelai at gyfuno Theori ac Ymarfer, gan ganolbwyntio'n fwriadus ar yr Ymarfer. Ond roedd yn rhy oediog am fy mod wedi'i throi'n jig-so. Doeddwn i ddim wedi cynllunio'r daith ymlaen llaw.

Yn y cyntaf o'r triawd o gamre hyn a welwn fel hyn ar y diwedd, fe gymerwyd yn enghraifft (yn Nhair Rhamant y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch) yr *ymarfer* o un testun penodol, a dangos ym mha ffyrdd y mae'r theori yn gweddu i'r gwaith o archwilio Mynegiant o'r fath. Yn yr ail gyfrol, dychwelais i theori pur; ond yn fwy cynhwysfawr ac yn fwy trefnus nag erioed o'r blaen. Yna, dangosir yn y drydedd gyfrol y berthynas rhwng adeileddeg yr ugeinfed ganrif a Gramadegau'r Penceirddiaid (neu feirniaid llenyddol y bedwaredd ganrif ar ddeg), mewn un patrwm ffurfiol rhyfeddol, fel y mae'n ei amlygu'i hun mewn Cerdd Dafod chwyldroadol yn weithredol. Dangosir drwy'r tair fel y mae Ffurf ieithyddol yn isymwybodol yn ymgais i ddatrys ystyr. Ymgais yw hefyd i gysylltu dadansoddiad y Gramadegau canoloesol a strwythuraeth yr ugeinfed ganrif.

Gwelir i mi eirio hyn oll mewn termau cadarnhaol. Ond cywilydd gennyf addef ysywaeth fod y cwbl yn fwy o gyfeiliant i negyddu Ôl-foderniaeth ac Ôl-strwythuraeth nag yn ymgais aeddfed i fapio'r dyfodol iach yn gytbwys. Beirniadaeth mewn argyfwng oedd. Wedi ymddeol,

teimlwn ryddid, sut bynnag, i grwydro oddi ar y briffordd ychydig bach. Dyma a ddigwyddodd yn awr yng nghyfnod y We. O fewn y rhaglen i'r We, nid oedd popeth yn ffitio'n dwt o gwbl. O dan y penawdau 'Waldo ac R.S' a 'Hanes', ac ar y Wefan hon dw i wedi cynnwys dwy gyfrol feirniadol arall. Mae'r naill yn olrhain, yn gymharol, thema Gobaith ac Anobaith yng ngwaith Waldo Williams ac R.S. Thomas. Mae'r llall yn olrhain 'Hanes Beirniadaeth Gymraeg Ddiweddar' o waith Iolo Morganwg, drwy Lewis Edwards, J. Morris-Jones, Saunders Lewis, Thomas Parry, Hugh Bevan ac ymlaen i Alan Llwyd. Mewn man arall, dw i wedi cynnwys astudiaeth o feddwl Pantycelyn, ac un arall sy'n ymwneud ag awduraeth y Beibl. Ac yna, Storïau, ac ychydig o Farddoniaeth, sef pedair cyfrol *Bratiau Budron*, a Diwinyddiaeth.

*STORÏAU*

Gellid yn deg holi, os oedd gormod wedi'i sgrifennu, a oedd digon wedi'i hepgor neu'i daflu gan yr yrfa hon? A'r ateb oedd: 'nac oedd' – dwy ddrama radio a ddistrywiwyd: 'Yr Asen' ac 'Yr Hunan Du'; a gwnes i ngorau i anghofio (a distrywio'n fewnol gan f'anghof) ddwy nofel enbyd, sef *Nid yw Dŵr yn Plygu* a *Bod yn Wraig.* Ond mae yna ddwy arall sy'n cael sefyll yn ystyfnig yn fy nghalon o hyd, (y ddwy ar ôl *Hunllef Arthur*), sef *Epistol Serch a Selsig* a *Breuddwydion Maxine* sydd ar y Wefan hon; ac fe gaiff y ddwy yna eu gadael yn llonydd bellach gennyf i.)

Ailysgrifennwyd hefyd rai o'r storïau byrion yn ddethol ac yn gyfan gwbl o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer ffeil *Storïau* gan orffen eleni 2016. Rhyw fath o ail argraffiad yw hyn, yn lle'r llyfrau papur cynt. Os dymunir ei ddweud: gweithredwyd edifeirwch tosturiol yn achos y stori fer, o'i chyferbynnu â'r nofel. Ni wn pam; ond hoffais y ffurf yn fawr. Dyma'r unig enghraifft o ailysgrifennu llythrennol mewn cyhoeddiadau o gwbl yn hanes yr awdur. Teimlwyd angen i lunio ail fersiwn trwyadl o'r holl storïau, oherwydd bod y fersiwn cyntaf mor hollol anfoddhaol. I mi doedd y fersiwn cyntaf ddim wedi taro o gwbl. Ond achubwyd cyfran helaeth, o'i hysgrifennu o'r newydd.

Lluniwyd y fersiwn cyntaf mewn wyth gyfrol, a'u cyhoeddi fel hyn mewn dau bwl eto fel petai, o gwmpas egwyl *Hunllef Arthur* (1986) a ddrysodd unplygrwydd y gwth creadigol yn ystod fy mywyd:

*Y Dyn na Ddaeth Adref* (1966)
*Ci wrth y Drws* (1968)
*Daw'r Pasg i Bawb* (1969)
*Traed Prydferth* (1973)
*Pwy Laddodd Miss Wales* (1977)

*Crio Chwerthin* (1990)

*Dawn Gweddwon* (1992)

*Rhy Iach* (2004)

Mae'r storïau hanesyddol yn amlwg yn eu plith. Teg crybwyll hefyd, mae'n debyg, y storïau lled hunangofiannol hefyd.

Mae a wnelo'r storïau lled hanesyddol – â hanes Charles Wesley a'i wraig o Gymraes; hanes merthyrdod Rhisiart Gwyn; hanes brawd Ann Griffiths; hanes Padrig Pearse yn 1916; hanes sefydlu'r achos Cristnogol ym Madagascar. Nid yn amherthnasol, ac o fewn y llyfrau, ceid storïau unigol – 'Crio Chwerthin', 'Chwilio am Wreiddiau' a 'Torri'r Plisgyn' heblaw amryw eraill – a guddiai led hunan-gofiant arall.

*Diwinyddiaeth*

Ni chefais hyfforddiant ffurfiol erioed mewn Diwinyddiaeth. Mae hynny'n amlwg. Nid efrydais y pwnc yn academaidd. Cefais, mae'n wir, ddilyn modd y Cristion cyffredin o geisio canllawiau i ddarllen yr ysgrythurau gyda mwy o gefndir hanesyddol efallai na'r seciwlaryn cyffredin. A darllenwn y cyfrolau mwyaf adnabyddus yn hanes diwinyddiaeth. Ond ni thybiwn fod gennyf, wrth gwrs, ddim cyfraniad na diddordeb arbennig o werth i'w gyfrannu i bobl eraill, ond bod un llwybr wedi cydio ynof i, a darparu methodoleg neilltuol imi ddarllen y Beibl o fewn fframwaith fy ngwaith swyddogol beunyddiol.

Nid euthum ati i lunio llyfrau diwinyddol penodol tan y cyfnod diweddar. A hoffwn esbonio pam yr euthum ati o gwbl i wneud y fath beth. Roedd bron y cwbl o'm gwaith beirniadol wedi dangos cyswllt go amlwg rhyngddo a chrefydd amhoblogaidd Galfinaidd. Dymunwn i ymholi'n chwilfrydig sut roeddwn i wedi ymdroi gyda'r cwestiwn bytholbresennol pam llenydiaeth, a beth oedd y berthynas rhwng fy ngwaith bob dydd a'r egwyddorion a oedd yn cynnal diwylliant yn gyffredinol. Wrth geisio ateb y fath broblem, tueddai fy mhrofiadau personol ym myd iaith a threfniant llenyddol i rannu'r profiadau a'r themâu hyn gyda chyd-Gymry.

Dichon fod y math o broblemau a gawn yn fy ngwaith cyflogedig bob dydd yn fy ngogwyddo fwyfwy i gyfeiriad dwy thema, sef yr egwyddor o ddiwyllio'r ddaear fel gwaith ordeiniedig llawn-amser (i ddyn) a'r egwyddor i geisio darllen y Beibl fel cyfarwyddyd; ac i hwnnw ymdrechu i amgyffred y gair datguddiedig ar waith gan Dduw drwy ein gwaith dynol. Lluniais dair cyfrol berthnasol a'u cyhoeddi hwy i gyd ar y Wefan hon, o dan y penawdau

*Diwinyddiaeth* (I) sef *Palu'r Ardd* (2011), sef ymdriniaeth sy'n olrhain yr egwyddorion Cristnogol sy'n llywio'r gwaith o ddiwyllio'r ddaear mewn ffyrdd gwahanol.

*Y Cynllun sy'n Canu* (2011), sef astudiaeth o Feddwl Pantycelyn a gorfforwyd ar y Wefan dan y ddolen 'Beirniadaeth Lenyddol'.

*Awdur y Beibl* (2013-2014), trafodaeth ar arwyddocâd yr Ysbryd Glân yn sicrhau gwirionedd a grym anffaeligrwydd y Beibl.

Roedd yn dipyn o haerllugrwydd i mi lunio'r tri llyfr hyn, gan nad oedd gennyf wreiddiau na hawl academaidd i ymdroi mewn maes sy'n gofyn hyfforddiant a galluoedd ymhell y tu hwnt i'm cyrraedd i. Ond roeddwn i wedi dod fel Cristion cyffredin i ymhoffi'n angerddol mewn un arferiad, sef myfyrio ar Ei Air ddydd a nos. Roeddwn yn ymhyfrydu yn undod y Ddau Destament. Yn fy ngwaith beunyddiol ceisiais ddilyn ar y naill law seico-systemateg, a threfn iaith a llên, ac yn ail, ceisiwn hefyd archwilio gwasanaeth uniongrededd a fframwaith ysbrydol Protestannaidd yn y meddwl diwylliannol i esbonio hanfodion ysbrydol bywyd ei hun. Ceisiwyd felly rannu gydag eraill felyster y Gair hwnnw a'r anturiaeth ryfedd a geir wrth ystyried cysylltiad yr ysgrythurau a'n llafur beunyddiol. Yr wyf yn ddiolchgar dros ben, y tro hwn yn y gyfres hon o ysgrifau coffa imi gael presenoldeb, ysgogiad, a chymorth dwsin o gyfeillion yn pwyso dros y nghydwybod i. Bu hynny'n anogaeth imi beidio ag ymddiried ddim yn fy nerth fy hun. Ac wele – mor baradocsaidd – i un nad oes ganddo ddim o werth ynddo ef ei hun – y Cysgod anwel mawr o ffynhonnell y Greadigaeth yn estyn ei fysedd haeddiannol yntau i gyffwrdd â'm cydwybod a'm hysgwydd hollol ddi-haeddiant innau.

*Ysgrifau Coffa* oedd unig ychwanegiad newydd 2016. Hyn oedd y clo i'r Wefan. Hunanymchwiliad oedd hyn eto, a bu'n fath o fforiad (gan mwyaf) yn fy mhwll o fywyd unol. Ond wrth sefyll yn y pen draw fel hyn bu'n bosibl gweld yr esboniad i'r bywyd i gyd. Gwelwn fod yna undod rhwng pob un o'r llenddulliau a nodwyd yn y rhestr uchod. A chafwyd dolen i'r cyfan rhwng Gras Cyffredinol o dan drefn Gras Arbennig. Archwilid hefyd ragdybiau a'u perthynas â'r gwerthusiad anochel mewn llenyddiaeth greadigol. Ond clo gweddus oedd y casgliad hwn o drafodaethau yng nghynffon y wefan ar ffurf hiraethus am ffrindiau a'm ffurfiodd.

Gwell esbonio teitl y bennod hon. Pan oeddwn yn athro-ysgol glas yn Llanidloes, lluniais ddrama i'w pherfformio gan gwmni lleol. Soniais am yr achlysur hwnnw yn yr ysgrif goffa i Pennar yn y ffeil hwn. Datguddiai'r ddrama honno greadur a deimlai'i fod mor wael fel na ellid ei gyfrif yn uwch na mab diafol a chwiliai am waredigaeth ynddo'i hun yn hytrach nag am ogoniant i Dduw. 'Yr Hunan Du' oedd enw'r prif gymeriad hwnnw. Roedd hi'n ddrama alaethus o wael. Eto, teimlais mai dyna'r teitl priodol ar gyfer hyn o arolwg cryno yn y fan hon, gan gysgod o dywyllwch amheus, o'r llafur y ceisiai'r cymeriad hwnnw'n ofer ei wneud ar y ddaear, a diolch yr un pryd am yr Undod dihaeddiant a graslon sy'n gyrru i ffwrdd unrhyw fymryn o anobaith. Gyda'r ysgrif goffa hon felly dw i'n gorffen nid yn unig y ffeil hwn, ond y Wefan hon i gyd hefyd. Ar ryw olwg, bu'r ffeil unigol

hwn yn nodyn er cof am yr holl brosiect.

*  *  *

ÔL-NODYN

Dichon fod eisiau bwrw golwg yn ôl dros y ddolen rhwng ffurf a diwinyddiaeth a phwrpas drwy droi'n ôl at gelfyddyd y Gynghanedd.

Yn y gyfrol 'Meddwl y Gynghanedd' ceisiwyd crynhoi y gynghanedd mewn saith o gamre.

Yn gyntaf, drwy esbonio natur isymwybodol y Gynghanedd yn y meddwl cyffredin.

Yn ail, natur ddeuol a thriol y mydrau Cymraeg (yn arbennig yn y Cywydd a'r Englyn).

Yn drydydd, datblygiad 'Cyfundrefneg' rhwng Gogynghanedd a'r Gynghanedd, gan ddadlennu natur gyfunol gymdeithasol 'Cyfundrefn'.

Yn bedwerydd, Natur ac Arwyddocâd y Beiau Acennol.

Yn bumed, dadansoddiad rhesymegol o'r Gyfundrefn Fesurau.

Yn chweched, esbonio natur yr Uwchcorfan.

Yn seithfed, theori gyflawn o Ffurf, yn benodol o fewn natur yr Iaith Gymraeg, mewn darganfyddiad gwych a gafwyd yng Nghymru, ac sy'n gyfraniad i'r astudiaeth o adeiladwaith llenyddiaeth yn gyffredinol.

Ond mae gennyf edifeirwch ynghylch y methiant i arddangos y modd annisgwyl yr oedd y naturiol yn hyn o brosiect wedi gwau drwy'r goruwchnaturiol. Dichon fod mynegi hyn yn anodd. Bid a fo am hynny, mae edifeirwch fel y cyfryw yn ymarferiad o gymorth personol mewn gras cyffredinol, ac felly yn weithred helpfawr annigonol...